# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mawrth 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

09.30-09.35 (Tudalen 1)

**CLA(5)-10-21 - Papur 1** - Offerynnau statudol negyddol arfaethedig sydd ag adroddiadau clir

**2.1 pNeg(5)41 - Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

09.35-09.40 (Tudalennau 2 - 4)

**CLA(5)-10-21 - Papur 2** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 SL(5)776 – Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021**

**3.2 SL(5)781 – Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021**

**3.3 SL(5)784 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2021**

**3.4 SL(5)785 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021**

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

09.40-09.55

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**4.1 SL(5)777 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 5 - 56)

**CLA(5)-10-21 – Papur 3** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 4** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 5** – Memorandwm Esboniadol

**4.2 SL(5)780 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 57 - 69)

**CLA(5)-10-21 – Papur 6** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 7** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 8** – Memorandwm Esboniadol

**4.3 SL(5)782 – Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) 2021**

(Tudalennau 70 – 93)

**CLA(5)-10-21 – Papur 9** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 10** – Gorchymyn

**CLA(5)-10-21 – Papur 11** – Memorandwm Esboniadol

**4.4 SL(5)786 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 94 – 105)

**CLA(5)-10-21 – Papur 12** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 13** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 14** – Memorandwm Esboniadol

**4.5 SL(5)787 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

(Tudalennau 106 – 121)

**CLA(5)-10-21 – Papur 15** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 16** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 17** – Memorandwm Esboniadol

**4.6 SL(5)791 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 122 – 141)

**CLA(5)-10-21 – Papur 18** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 19** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 20** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-10-21 – Papur 21** – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 12 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 – Papur 22** – Datganiad ysgrifenedig, 12 Mawrth 2021

**4.7 SL(5)793 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 142 – 153)

**CLA(5)-10-21 – Papur 23** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 24** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 25** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**4.8 SL(5)789 – Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021**

(Tudalennau 154 – 238)

**CLA(5)-10-21 – Papur 26** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 27** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 28** – Memorandwm Esboniadol

**4.9 SL(5)775 – Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021**

(Tudalennau 239 – 348)

**CLA(5)-10-21 – Papur 29** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 30** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 31** – Memorandwm Esboniadol

**4.10 SL(5)798 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n h?n na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 349 – 401)

**CLA(5)-10-21 – Papur 32** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 33** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 34** – Memorandwm Esboniadol

**4.11 SL(5)778 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 402 – 461)

**CLA(5)-10-21 – Papur 35** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 36** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 37** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-10-21 – Papur 38 –** Llythyr gan y Kennel Club, 9 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 – Papur 39** – Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 15 Mawrth 2021

**4.12 SL(5)790 – Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 462 – 511)

**CLA(5)-10-21 – Papur 40** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 41** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 42** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**4.13 SL(5)792 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021**

(Tudalennau 512 – 543)

**CLA(5)-10-21 – Papur 43 –** Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 44** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 45** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-10-21 – Papur 46** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 12 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 – Papur 47** – Datganiad ysgrifenedig, 12 Mawrth 2021

**4.14 SL(5)795 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

(Tudalennau 544 – 565)

**CLA(5)-10-21 – Papur 48** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 49** – Rheoliadau

**CLA(5)-10-21 – Papur 50** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-10-21 – Papur 51** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 16 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 – Papur 52** – Datganiad ysgrifenedig, 17 Mawrth 2021

**4.15 SL(5)796 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 566 – 579)

**CLA(5)-10-21 – Papur 53** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 54** – Gorchymyn

**CLA(5)-10-21 – Papur 55** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-10-21 – Papur 56** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 17 Mawrth 2021

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

09.55-10.00

**5.1 SL(5)758 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 580 - 584)

**CLA(5)-10-21 – Papur 57** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 58** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.2 SL(5)767 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 585 - 587)

**CLA(5)-10-21 – Papur 59** – Adroddiad

**CLA(5)-10-21 – Papur 60** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

10.00-10.05 (Tudalennau 588 - 590)

**CLA(5)10-21 - Papur 61** – Is-ddeddfwriaeth sydd ag adroddiadau clir

**6.1 SL(5)799 – Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021**

**6.2 SL(5)788 – Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 (Diwrnod Penodedig) 2021**

**6.3 SL(5)794 – Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021**

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10.05-10.10

**7.1 WS-30C(5)218 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio ac ati) 2021**

(Tudalennau 591 - 595)

**CLA(5)-10-21 - Papur 62** - Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-10-21 - Papur 63** - Sylwebaeth

**7.2 WS-30C(5)219 - Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 596 - 601)

**CLA(5)-10-21 - Papur 64** - Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-10-21 - Papur 65** - Sylwebaeth

## 8 Papurau i'w nodi

10.10-10.15

**8.1 Llythyrau gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoliadau Eithriadau o Reolaethau Swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau (Diwygio) 2021**

(Tudalennau 602 - 605)

**CLA(5)-10-21 - Papur 66** - Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 15 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 - Papur 67 -** Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 15 Mawrth 2021

**8.2 Gohebiaeth â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 606 - 608)

**CLA(5)-10-21 - Papur 68** - Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 15 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 – Papur 69** – Llythyr at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 9 Mawrth 2021

8.3 **Llythyr gan y Llywydd: Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd**

(Tudalennau 609 - 610)

**CLA(5)-10-21 – Papur 70** – Llythyr gan y Llywydd, 15 Mawrth 2021

8.4 **Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dwr (Paneli Peirianwyr Sifil) (Ceisiadau a Ffioedd) 2021**

(Tudalennau 611 - 612)

**CLA(5)-10-21 – Papur 71** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 15 Mawrth 2021

8.5 **Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyfraith hygyrch i Gymru**

(Tudalennau 613 - 614)

**CLA(5)-10-21 – Papur 72** – Datganiad ysgrifenedig, 16 Mawrth 2021

8.6 **Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol**

(Tudalen 615)

**CLA(5)-10-21 – Papur 73** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 17 Mawrth 2021

8.7 **Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Cyfarfod rhwng Gweinidogion y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar Dai a Chynllunio Gofodol**

(Tudalen 616)

**CLA(5)-10-21 – Papur 74** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 18 Mawrth 2021

8.8 **Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rheol Sefydlog 30C Datganiad Ysgrifenedig – Rheoliadau Allyriadau Nwyon Ty Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 617 - 620)

**CLA(5)-10-21 – Papur 75** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 19 Mawrth 2021

**CLA(5)-10-21 – Papur 76** – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 15 Mawrth 2021

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.15

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Lluoedd Arfog – trafod yr adroddiad drafft

10.15-10.25 (Tudalennau 621 – 627)

**CLA(5)-10-21 – Papur 77** – Adroddiad drafft

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) – trafod y llythyr drafft at y Gweinidog

10.25-10.30 (Tudalennau 628 – 629)

**CLA(5)-10-21 – Papur 78** – Llythyr drafft at Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

## 12 Offerynnau Statudol a osodwyd ond na chraffwyd arnynt yn ffurfiol gan y Pwyllgor

10.30-10.40 (Tudalennau 630 – 632)

**CLA(5)-10-21 – Papur 79** – Offerynnau Statudol a osodwyd ond na chraffwyd arnynt yn ffurfiol gan y Pwyllgor

## 13 Gwaith gwaddol – trafod yr adroddiad drafft

10.40-11.30 (Tudalennau 633 – 695)

**CLA(5)-10-21 – Papur 80** – Adroddiad drafft

**CLA(5)-10-21 – Papur 81** – Llythyr drafft at y Pwyllgor Gweithdrefnau

## 14 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – y wybodaeth ddiweddaraf

(Tudalennau 696 – 697)

**CLA(5)-10-21 – Papur 82** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 19 Mawrth 2021

# Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

## 22 Mawrth 2021

## Pn(5)41 – Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Ymadael â r UE) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("yr Offeryn hwn") yn diwygio'r Offerynnau statudol a restrir isod sy'n ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu a hadau. Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o Ymadael â'r UE a sicrhau y gall y llyfr statud weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007
- Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Ydynt

**Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 22 Mawrth 2021

## SL(5)776 – Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"), a pharagraff 15 o Atodlen 1 iddi. Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") mewn perthynas â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996, mae swyddogaethau corff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan Ddeddf 2018 yn swyddogaethau sydd gan awdurdod lleol mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion ("UCD"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 22 o Reoliadau 2014 i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ddirprwyo'r swyddogaethau penodedig hynny i bwyllgor rheoli UCD.

Mae paragraff 4.12 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

*"Yr effaith fwriadedig yw y bydd pwyllgorau rheoli yn arfer, mewn perthynas ag UCD, swyddogaethau corff llywodraethu o dan y Ddeddf [2018]."*

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2021.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Addysg 1996
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Medi 2021

# SL(5)781 – Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012 ("y prif Reoliadau") i wneud darpariaeth ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Iechyd Arbennig a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i fod yn aelodau o Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Gwneir y Rheoliadau fel rhan o gyfres o ddeddfwriaeth sydd â'r bwriad o gefnogi lansio Awdurdod Iechyd Arbennig newydd o'r enw Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC).

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "prif swyddogion" yn y prif Reoliadau i gynnwys prif swyddog neu brif weithredwr Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru. Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio'r diffiniad o "cynrychiolydd enwebedig" yn y prif Reoliadau i gynnwys swyddog enwebedig i bob Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau i gynnwys yn rheoliad 7(2) gyfeiriad at brif swyddog neu brif weithredwr Awdurdod Iechyd Arbennig, ac yn rheoliad 7(3) a (4) gyfeiriad at swyddog-aelod o Awdurdod Iechyd Arbennig y prif swyddog neu'r prif weithredwr.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

# SL(5)784 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dyddiad dod i ben Rheoliadau 2020 hyd at 30 Medi 2021 er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
**Fe'u gwnaed ar:** 05 Mawrth 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Mawrth 2021
**Yn dod i rym ar:** 30 Mawrth 2021

## SL(5)785 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG").

Mae erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau penodol. Pan roddir yr hawliau hynny, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff A.2(c) o Ran 3A o Atodlen 2 i'r GDCG (adeiladu dros dro a newid defnydd at ddibenion argyfwng iechyd y cyhoedd). Pan fo paragraff A.2(c) yn gymwys, mae'r amserlen ar gyfer symud y datblygiad ymaith wedi ei diwygio fel bod y cyfnod wedi ei estyn o ddeuddeng mis i ddeunaw mis ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau cyn 10 Ebrill 2021. Ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau ar 10 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn ddeuddeng mis. Ym mhob achos, mae'r amser yn dechrau o'r dyddiad y dechreuodd y datblygu.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff A.1(b) o Ran 12A o Atodlen 2 i'r GDCG (datblygu brys gan awdurdodau lleol). Pan fo paragraff A.1(b) yn gymwys, mae'r amserlen ar gyfer symud y datblygiad ymaith wedi ei diwygio fel bod y cyfnod wedi ei estyn o ddeuddeng mis i ddeunaw mis ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau cyn 30 Mawrth 2021. Ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau ar 30 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn ddeuddeng mis. Ym mhob achos, mae'r amser yn dechrau o'r dyddiad y dechreuodd y datblygu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
**Fe'u gwnaed ar:** 04 Mawrth 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Mawrth 2021
**Yn dod i rym ar:** 29 Mawrth 2021

# SL(5)777 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002 ('Deddf 2002'). Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") mewn perthynas â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru ysgolion annibynnol, a gwybodaeth sydd i'w darparu i Weinidogion Cymru gan berchnogion ysgolion annibynnol, o dan Ddeddf 2002. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru gynnwys gwybodaeth am y math(au) o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl), ac i Weinidogion Cymru gael cadarnhad ynghylch nifer y disgyblion yn yr ysgol y cynhelir cynllun datblygu unigol mewn perthynas â hwy, neu y nodwyd fel arall bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Daw'r rheoliadau newydd hyn i rym ar 1 Medi 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod tri diffiniad yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003 drwy gyfeirio at adrannau o Ddeddf 2018 nad ydynt eto mewn grym, sef adrannau 2, 3 a 10, ac yn mewnosod dau ddiffiniad arall drwy gyfeirio at adran 312 o Ddeddf Addysg 1996, a gaiff ei diddymu yn y dyfodol gan baragraff 4(9) o Atodlen 1 i Ddeddf 2018.

Mae paragraff 3.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau:

> *"Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021."*

Felly, er mwyn i ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn weithredu'n effeithiol, bydd angen i adrannau 2, 3 a 10 o Ddeddf 2018 ddod i rym erbyn 1 Medi 2021, yn unol â Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 100(3) o Ddeddf 2018, a bydd angen sicrhau hefyd nad yw paragraff 4(9) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn dod i rym erbyn y dyddiad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 217 (Cy. 54)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Mae'r diwygiadau hyn yn ofynnol o ganlyniad i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Mae rheoliad 3 yn mewnosod diffiniadau perthnasol yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau 2003. Yn benodol, mae Deddf 2018 wedi ei diffinio, yn ogystal â'r termau "anghenion dysgu ychwanegol" a "darpariaeth ddysgu ychwanegol". Cyflwynwyd y ddau derm hyn yn Neddf 2018 ac mae'r diwygiadau i Reoliadau 2003 yn diweddaru'r derminoleg. Mae rheoliad 3 hefyd yn mewnosod diffiniadau o "anghenion addysgol arbennig" a "darpariaeth addysgol arbennig" o dan adran 312 o Ddeddf Addysg 1996, er mwyn gwahaniaethu rhwng yr hen system a'r system newydd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Atodlen i Reoliadau 2003. Mae paragraff 3 o'r Atodlen wedi ei ddiwygio i gwmpasu "anghenion addysgol arbennig" yn ogystal ag "anghenion dysgu ychwanegol". Mae paragraff 3(5) wedi ei hepgor. Mae paragraff 3(6) wedi ei ddisodli i ddiweddaru'r derminoleg ac ychwanegu'r gofyniad am restr o'r math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r ysgol yn ei gwneud. Yn ychwanegol, mae paragraff 5(1)(a) o'r Atodlen wedi ei ddiwygio i ddiweddaru'r cyfeiriad at ddatganiadau anghenion addysgol arbennig i gynnwys cynlluniau datblygu unigol, ac i ddileu'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth a fyddai'n nodi pwy yw disgyblion unigol. Mae paragraff 5(2) wedi ei ddiwygio fel ei fod yn cyfeirio at anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal ag at anghenion addysgol arbennig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yng ngoleuni'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 217 (Cy. 54)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Chwefror 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *2 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003**

**2.** Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

(**1**) 2002 p. 32. Mae adran 212(1) yn diffinio "regulations" fel rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (o ran Cymru). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Mae adran 212(1) hefyd yn diffinio "prescribes". Diwygiwyd adran 210 o Ddeddf Addysg 2002 gan adran 21 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2).

(**2**) O.S. 2003/3230 (Cy. 310).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio rheoliad 2 (dehongli)**

**3.** Yn rheoliad 2, yn y lle priodol, mewnosoder—

"mae i "anghenion addysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "*special educational needs*" gan adran 312 o Ddeddf 1996;",

"mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr ystyr a roddir iddo gan adran 2 o Ddeddf 2018;",

"mae i "cynllun datblygu unigol" ("*individual development plan*") yr ystyr a roddir iddo gan adran 10 o Ddeddf 2018;",

"mae i "darpariaeth addysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "*special educational provision*" gan adran 312 o Ddeddf 1996;",

"mae i "darpariaeth ddysgu ychwanegol" ("*additional learning provision*") yr ystyr a roddir iddo gan adran 3 o Ddeddf 2018;",

"ystyr "Deddf 2018" ("*the 2018 Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;".

**Diwygio'r Atodlen**

**4.** Yn yr Atodlen—

(a) hepgorer paragraff 3(5).

(b) yn lle paragraff 3(6) rhodder—

"(6) Y math neu'r mathau o—

(a) darpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os oes un), a

(b) darpariaeth addysgol arbennig a wneir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (os oes un)."

(c) yn lle paragraff 5(1) rhodder—

"(1) Nifer y disgyblion yn yr ysgol—

(a) y mae'r ysgol neu awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol mewn perthynas â hwy, a

(b) y mae awdurdod lleol yn cynnal datganiad anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â hwy o dan adran 324 o Ddeddf 1996."

(d) yn lle paragraff 5(2) rhodder—

"(2) Nifer y disgyblion yn yr ysgol nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (1), ond y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
26 Chwefror 2021

**Memorandwm Esboniadol i:**

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Y Rheoliadau canlynol;
   - Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
   - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
   - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021
   - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021
   - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021;
3. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021;
4. Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021;
5. Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021;
6. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg
2 Mawrth 2021

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

**1. Disgrifiad**

1.1. Mae Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘y Ddeddf’) yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc (“y system ADY”). Mae Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer nifer o faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY, er enghraifft rhagnodi cyfnodau o amser y bydd dyletswyddau penodol yn cael eu cyflawni oddi mewn iddynt er mwyn gweithredu'n effeithiol a nodi swyddogaethau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (“CADY”). Mae Cod drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (“y Cod”) hefyd yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach (“SABau”) yng Nghymru, awdurdodau lleol a chyrff y GIG sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY ac arfer swyddogaethau oddi tani. Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau i'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y system ADY, ynglŷn ag arfer y swyddogaethau hynny o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

1.2. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn parhau â Thribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ac yn ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru (“y Tribiwnlys”). Yn ogystal ag awdurdodaeth y Tribiwnlys a nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf, mae ganddo awdurdodaeth mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion (gweler adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno o ran darpariaeth ynglŷn â hyn). Mae Rheoliadau drafft Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y Tribiwnlys ac yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys.

1.3. Mae Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ddirprwyo'r swyddogaethau penodedig i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion. Y swyddogaethau penodedig yw swyddogaethau'r corff llywodraethu o dan y Ddeddf sydd, yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996, yn swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion.

1.4. Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru gynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl).

1.5. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Galluoedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yn addasu darpariaethau penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o dan amgylchiadau penodol. Mae'r addasiadau yn sicrhau y gall cynrychiolydd rhiant plentyn nad oes ganddo alluedd, neu gynrychiolydd person ifanc nad oes ganddo alluedd, gyflwyno hawliad ar ran yr unigolyn hwnnw o dan Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Gosodwyd y Cod drafft, y rheoliadau drafft a'r rheoliadau eraill gerbron ar 2 Mawrth 2021 fel un pecyn, a hynny er mwyn dangos y rhyngweithredu rhwng y darpariaethau yn y priod offerynnau.

2.2. Daeth adrannau'r Ddeddf sy'n cynnwys y dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol (adrannau 60 i 62) i rym ar 4 Ionawr. Daeth Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cy. 299) ("Rheoliadau CADY") i rym ar y dyddiad hwnnw hefyd. Mae'r Rheoliadau hynny yn nodi'r cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen ar berson i gael ei ddynodi'n CADY a swyddogaethau'r CADY. Caiff y Rheoliadau hynny eu diddymu drwy Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan fod y darpariaethau yn y cyntaf wedi'u hailddeddfu yn yr olaf (gweler rheoliadau 26 i 30).

2.3. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn gwneud tri diwygiad i'r Ddeddf.

2.3.1. Mae Rheoliad 4 yn diwygio adran 88 o'r Ddeddf ynglŷn â'r rheolau ar hysbysu a dogfennau. Mae'r diwygiad yn darparu y bydd hysbysiad neu ddogfen a roddir yn electronig yn cael ei drin neu ei thrin fel un sydd wedi cael ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod y'i hanfonir. Mae hyn yn adlewyrchu'r rheol yn adran 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, nad yw'n gymwys i'r Ddeddf.

2.3.2. Mae Rheoliad 19 yn diwygio adran 44 o'r Ddeddf i ddarparu bod dyletswyddau cyrff y GIG o dan adran 20(5)(a) ac (c) o'r Ddeddf ynglŷn â sicrhau triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i berson a gedwir yn gaeth yn peidio â bod yn gymwys o ddechrau cyfnod cadw'r person dan sylw. Yn y sefyllfa hon, mae ar awdurdod cartref y person a gedwir yn gaeth ddyletswydd eisoes o dan adran 42 o'r Ddeddf i drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ac mae'r ddyletswydd honno yn addas i ymdrin â sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth. Efallai na fydd corff y GIG yn gallu sicrhau triniaeth na gwasanaeth perthnasol yn ymarferol i berson a gedwir yn gaeth (yn enwedig gan na fyddai'n gyfrifol o bosibl am ddarparu gwasanaethau iechyd i'r

person a gedwir yn gaeth yn ystod y cyfnod cadw) neu nad yw'r driniaeth na'r gwasanaeth perthnasol yn briodol o bosibl mwyach.

2.3.3. Mae Rheoliad 33 yn diwygio adran 68 o'r Ddeddf i ddarparu, at ddibenion dyletswyddau awdurdod lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol, fod awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am bobl a gedwir yn gaeth y mae'n awdurdod cartref iddynt. Mae'n briodol i drefniadau'r awdurdod cartref fod yn gymwys mewn perthynas â phobl a gedwir yn gaeth, gan mai'r awdurdod sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â nhw a'i bod yn osgoi unrhyw anawsterau o ran cadarnhau pa awdurdod lleol fyddai fel arall yn gyfrifol (o ystyried mai sail y prawf ar gyfer cyfrifoldeb yw bod person o fewn ardal awdurdod lleol, sy'n anodd ei chadarnhau mewn sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth).

2.4. Fel yr esbonnir mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cod drafft yn gosod gofynion. Mae Pennod 1 o'r Cod drafft yn esbonio sut y nodir y gofynion hynny yn y Cod.

2.5. Bwriedir rhoi'r system ADY ar waith mewn camau o 1 Medi 2021 (gweler paragraff 3.7 isod). Dyna'r rheswm pam nad yw'r rheoliadau yn diddymu'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn sefydlu'r system ADY. Wrth ei gwraidd, mae'r system yn golygu mai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a SABau ac awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blant neu bobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol ac os felly, nhw fydd yn gyfrifol am baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (‘CDU’) iddynt. Mae CDU yn nodi anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae dyletswyddau i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a phethau penodol eraill, a nodir mewn CDU. Mae'r system ADY yn darparu bod gan blant, eu rhieni a phobl ifanc yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn â materion penodol sy'n gysylltiedig ag adnabod eu hanghenion a'r ddarpariaeth i'w diwallu.

3.2. Bydd y system ADY yn disodli'r system o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig (‘AAA’), eu hasesu a darparu ar eu cyfer.

3.3. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 (O.S. 2020/Cy. 267) amrywiol bwerau yn y Ddeddf, sef darpariaethau i arfer pwerau ynddynt a darpariaethau cysylltiedig. Cychwynnodd hefyd adrannau 60 i 62 sy'n cynnwys dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol a darpariaethau sy'n ymwneud â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu sefydlu. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cyf. 303) yn darparu ynghylch y rhestr honno a cheisiadau gan ysgolion i gael eu cynnwys ynddi.

3.4. O dan adran 4 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar anghenion dysgu ychwanegol. Gall y cod osod gofynion ynghylch materion penodol (a nodir yn adran 4(5) o'r Ddeddf) ac mae'n ofynnol iddo gynnwys y gofynion penodol a ddisgrifir yn adran 4(6) o'r Ddeddf. Gall hefyd wneud darpariaeth sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r dyletswyddau yn adrannau 7(1) ac 8(1) o'r Ddeddf ynghylch awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn rhoi sylw i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

3.5. Gall y Cod gynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol (adran 4(2) o'r Ddeddf). Mae'n rhaid cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaeth corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu SAB i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgybl neu fyfyriwr yn cael ei chynnig a bod cynllun datblygu unigol yn cael ei baratoi ar gyfer y disgybl neu'r myfyriwr (adran 47(3) o'r Ddeddf).

3.6. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi amrywiol bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ategu'r swyddogaethau yn y Ddeddf.

3.7. Mae pob set o'r rheoliadau yn darparu y byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2021. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo dwyn y Cod i rym, bydd yn rhaid gwneud gorchymyn cychwyn (adran 5(4) o'r Ddeddf). Y bwriad yw y daw'r Cod i rym hefyd ar 1 Medi 2021. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021.

3.8. Bwriedir cyhoeddi'r Cod drafft o dan y pwerau yn adran 4 o'r Ddeddf (yn ogystal â chynnwys darpariaeth a wneir o dan adrannau 7(4) ac 8(4) o'r Ddeddf a'r canllawiau sy'n ofynnol o dan adran 47(3) o'r Ddeddf). Nodir y weithdrefn ar gyfer ei baratoi o dan adran 5 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ar god drafft â phobl benodol (gweler isod am fanylion yr ymgynghoriad ) ac na ellir ei gyhoeddi oni bai bod drafft ohono (a all fod yn ddrafft wedi'i addasu yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw) wedi cael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

3.9. Bwriedir gwneud Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 o dan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o'r Ddeddf).

3.10. Bwriedir gwneud Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 o dan adrannau 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o'r Ddeddf ac adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraffau 6(1), (2) i (5) a (7) a 6A o Atodlen 17 iddi. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o Ddeddf 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.11. Bwriedir gwneud Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraff 6F o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.12. Bwriedir gwneud Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 210(4) o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y darpariaethau hynny i Weinidogion Cymru

yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.13. Gwneir Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 569(1), (4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 15 i Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 569(2) a (2C) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1. Diben y system ADY, gan gynnwys y Cod a'r rheoliadau o dan y pwerau yn y Ddeddf, yw creu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ysbrydoli, ei gymell a'i gefnogi i gyrraedd ei botensial llawn.

4.2. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf a materion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n disgrifio ac yn esbonio llawer o'r swyddogaethau yn y Ddeddf a rhai o'r darpariaethau yn y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae'r Cod ei hun hefyd yn gosod gofynion, yn unol ag adrannau 4(5) a (6), 7 ac 8 o'r Ddeddf. Mae canllawiau statudol y Cod yn cynnwys canllawiau ar y gofynion hynny. Mae'r canllawiau yn helpu i roi'r system ADY ar waith ymhellach.

4.3. Diben llawer o'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a'r gofynion a osodwyd gan y Cod, yw darparu'r manylion angenrheidiol neu ddymunol am y system ADY er mwyn ategu'r darpariaethau yn y Ddeddf, er enghraifft pennu terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf, darpariaethau sy'n effeithio ar benderfyniadau ynghylch pryd y bydd angen CDU a darparu bod hawl rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cael ei harfer gan gynrychiolydd os nad oes gan y rhiant/person ifanc alluedd. Yr effaith fwriadedig yw y gall y system ADY weithredu'n effeithiol.

4.4. Hefyd, y bwriad yw mai'r Cod ADY fydd y brif ddogfen a ddefnyddir gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno'r system ADY, yn enwedig awdurdodau lleol a staff ysgolion a gynhelir a SABau. Llawlyfr gweithredu ydyw i bob diben, gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi manylion am y swyddogaethau sy'n rhan o'r system ADY ac yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut i'w harfer o dan y gwahanol amgylchiadau lle mae angen eu harfer.

4.5. Mae'r Cod yn ei gyfanrwydd yn esbonio gofynion gweithredol y system ADY.

4.6. Felly, mae'r Cod wedi cael ei gynllunio i ganiatáu i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf weld y canllawiau statudol sy'n gymwys i'w cyfrifoldebau unigol o dan y Ddeddf a deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol.

4.7. Felly, mae cynnwys a fformat y Cod yn canolbwyntio ar esbonio swyddogaethau cyfreithiol a chanllawiau ynglŷn â sut i'w harfer, yn hytrach na rhoi astudiaethau achos o arferion da. Y bwriad yw y bydd gweithwyr proffesiynol (megis Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar, CADY mewn ysgol a gynhelir neu SAB, neu swyddog awdurdod lleol) yn gallu deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol, a gweithredu i gydymffurfio â'r

dyletswyddau o dan y system ADY mewn ffordd sy'n briodol i'r amgylchiadau a rhoi'r egwyddorion sy'n sail i'r system ADY ar waith.

4.8. Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ymwneud ag apeliadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas â disgyblion ysgol. Diben y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer rheolau trefniadaeth sy'n caniatáu i weithrediadau'r Tribiwnlys gael eu cynnal mewn ffordd briodol ac effeithiol. Yr effaith fwriadedig yw y bydd apeliadau a hawliadau ger bron y Tribiwnlys yn cael eu trin yn gyfiawn.

4.9. Diben Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau awdurdod lleol i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Yr effaith fwriadedig yw bod pwyllgorau rheoli yn arfer swyddogaethau corff llywodraethu o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion.

4.10. Diben Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw diwygio, fel sy'n ofynnol o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i diwygiwyd gan adran 54(3) o'r Ddeddf), Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 felly bydd ceisiadau i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl). Yr effaith fwriadedig yw y bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei chynnwys ar y gofrestr (gweler adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd gan adran 54 o'r Ddeddf) ac felly bydd y wybodaeth ar gael i awdurdodau lleol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

4.11. Diben Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yw addasu cyfeiriadau at rieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol ym mharagraff 3A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pan nad oes gan riant/person ifanc alluedd meddyliol (o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005) ar adeg pan fydd yn gallu gweithredu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyfeiriadau at riant/person ifanc ym mharagraff 3A, sy'n rhoi'r hawl i unigolion penodol gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael eu haddasu i ddarllen fel cyfeiriadau at ei gynrychiolydd. Yr effaith fwriadedig yw y gall rhieni neu bobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol, drwy eu cynrychiolydd, arfer yr un hawl i gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 â'r rhai sydd â galluedd.

## 5. Ymgynghori

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros ddeuddeg wythnos rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019 ar y canlynol:

- y Cod ADY drafft;
- rheoliadau drafft sy'n ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru a chydlynwyr ADY a'r bwriad polisi i arfer pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf;
- diwygiadau i God Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya.

5.2. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- y brif ddogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys 65 o gwestiynau a oedd yn cwmpasu'r materion uchod;
- fersiwn o'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen a oedd yn cynnwys 15 o gwestiynau ar agweddau ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig;
- dau ddigwyddiad ymgynghori hanner diwrnod ym mhob un o ardaloedd y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru;
- cyfres o sesiynau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni y daeth 228 o bobl iddynt.

5.3. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion ar 14 Mehefin 2019 a gellir ei weld yn:

https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft

5.4. Fel y nododd yr adroddiad hwnnw, mae'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn ymdrin ag amrywiaeth eang iawn o bynciau gwahanol ac felly roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amrywiol iawn eu cwmpas, gan gynnwys cryn nifer o safbwyntiau amrywiol a ffocws gwahanol iawn.

5.5. Ar y cyfan, roedd ymateb y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gadarnhaol. Cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion beirniadol i faterion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- y diffiniad o ADY a sut i'w hadnabod;
- y terfynau amser y mae'n rhaid cyflawni dyletswyddau yn unol â nhw;
- rolau'r CADY, y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ('SACDA') a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal;

- trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau, gwasanaethau eirioli ac apeliadau;
- dirprwyo dyletswyddau i unedau cyfeirio disgyblion;
- templedi ar gyfer cynlluniau datblygu unigol ('CDUau')
- darparu CDUau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn mynychu lleoliad addysg;
- y system ADY fel y bydd yn gymwys i bobl a gedwir yn gaeth.

5.6. Mae'n werth nodi bod y sylwadau gan ymatebwyr yn tueddu i gael eu cyflwyno gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu agweddau penodol ar y Cod ADY drafft yn fawr iawn, neu a oedd yn ansicr ynglŷn ag agweddau ar y polisïau hynny. Roedd hyn yn wir hefyd o ran y sylwadau ar faterion penodol, hyd yn oed pan oedd y cwestiynau ar y materion hynny yn yr ymgynghoriad wedi cael ymateb cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys cryn nifer o ddiwygiadau technegol awgrymedig i'r Cod ADY.

5.7. Mynegodd ymatebwyr bryder ynglŷn â'r amrywiol dermau sy'n ymddangos yn y Cod ADY drafft. Bu rhai yn galw am ganllawiau ar ystyr termau penodol hefyd. Wrth ystyried y pwyntiau hynny ymhellach, rydym wedi ystyried a fyddai ymhelaethu ar y termau yn werthfawr neu a oes risg y byddai hynny'n culhau neu'n ehangu ystyr y term a'r cyfyngiadau a bennir gan y Ddeddf a hynny'n anfwriadol.

5.8. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn amau amrywiol agweddau ar eiriad y diffiniadau o ADY a DDdY. Nodir y diffiniadau hyn yn y Ddeddf ac ni all y Cod ADY eu newid. Mae geiriad y diffiniadau o ADY a DDdY a ddefnyddir yn y Ddeddf, a ailadroddir yn y Cod ADY drafft, yn debyg yn fwriadol i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r diffiniadau o AAA a darpariaeth addysgol arbennig, y bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn gyfarwydd â nhw.

5.9. Roedd ymatebwyr hefyd yn amau elfennau eraill o'r system a osodwyd yn y Ddeddf. Er enghraifft, roedd rhai yn anghytuno â'r egwyddor mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau i blant sy'n derbyn gofal. Roedd eraill yn galw am greu gofynion newydd nad yw'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, megis ei gwneud yn ofynnol i bartïon gymryd rhan mewn proses datrys anghytundeb cyn y gallant gyflwyno apêl, neu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys. Mae'n rhaid i'r Cod ADY a'r rheoliadau fod yn gyson â'r Ddeddf ac ni allant ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson wneud rhywbeth nad yw'r Ddeddf yn darparu pŵer yn ei gylch.

5.10. Yn yr un modd, bu cryn nifer yn galw am droi llawer o'r enghreifftiau o "dylid" yn y Cod ADY drafft yn "rhaid". Mae'r amrywiaeth o bethau y mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i wneud gofynion gorfodol yn eu cylch wedi'i gyfyngu gan y Ddeddf. Hyd yn oed pan fydd y Ddeddf yn rhoi pŵer o'r fath, mae'r cwestiwn yn codi ai gofyniad gorfodol ("rhaid") ynteu canllawiau statudol ("dylid") sydd fwyaf priodol. Un ystyriaeth bwysig yw a allai adegau godi pan fyddai modd cyfiawnhau achos o

beidio â chydymffurfio ac os felly, a fyddai'n well ymdrin â'r rhain drwy nodi eithriadau penodol i ofyniad gorfodol neu drwy wneud y mater yn un ar gyfer canllawiau statudol, sy'n caniatáu i'r person gyfiawnhau amrywiad ar sail achosion unigol.

5.11. Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd bryder am arddull yr iaith a ddefnyddiwyd yn y Cod ADY drafft. Gan y bydd y Cod ADY yn gosod gofynion gorfodol o dan y gyfraith, mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny. Yn yr un modd, mae angen i'r canllawiau yn y Cod fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny fel y gall y rhai y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt, ddeall yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud hynny. O ganlyniad, mae'r iaith yn eithaf ffurfiol mewn mannau, ond lle y gall fod yn anodd ei dilyn weithiau, rhoddwyd enghreifftiau i egluro'r ystyr. Mae'n bwysig nodi hefyd y bwriedir i'r Cod ADY fod yn ddogfen i'w darllen a'i defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, fel y'u rhestrwyd ym Mhennod 1 o'r Cod ADY drafft yn bennaf. Nid yw'r Cod ADY drafft wedi cael ei lunio i fod yn ddealladwy i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol gan nad y cyhoedd yw cynulleidfa arfaethedig y Cod ADY. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan y Ddeddf wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y system ADY.

5.12. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r Cod ADY drafft yn dweud fawr ddim am alluedd meddyliol mewn perthynas â phobl ifanc a rhieni. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn y Cod ADY drafft. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn Whitehall i sicrhau bod Cod Ymarfer ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn ystyried y Ddeddf ADY a'i Chod a'i rheoliadau.

5.13. Cododd rhai ymatebwyr faterion ynglŷn â darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu. Fel y crybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn sydd wedi'i dargedu hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith pellach ar ddiwygio'r Mesur, a bwriedir ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Yn y cyfamser, mae adran nad yw'n orfodol ar gludiant wedi'i chynnwys yn y templed ar gyfer CDUau, a roddir yn yr Atodiad î'r Cod.

5.14. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r Cod gynnwys canllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodwyd mewn canllawiau statudol eraill. Mae'r Ddeddf yn nodi'r glir bod yn rhaid i'r canllawiau y gall y Cod eu cynnwys ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, felly,

nid yw'n briodol i'r Cod roi canllawiau ar faterion eraill, ond lle y bo'n briodol, cyfeirir at feysydd a chanllawiau cyfreithiol perthnasol eraill.

5.15. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhoi'r system ADY newydd ar waith yn cael effaith ariannol sylweddol. Cafodd goblygiadau ariannol y Ddeddf eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil. Yn benodol, craffwyd yn fanwl iawn ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys pleidlais ohiriedig ar gynnig y penderfyniad ariannol tra bod gwaith dadansoddi annibynnol pellach yn cael ei wneud. Ystyriwyd y gwaith dadansoddi hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn derbyn y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r mater hwn.

5.16. Er mwyn cydnabod costau symud o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r system ADY newydd, darperir cyllid grant ar sail ranbarthol i'w rhoi ar waith, sydd wedi'i gydgysylltu gan Swyddogion Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol, er mwyn cyflwyno hyfforddiant a datblygiad proffesiynol rhanbarthol, amlasiantaethol ar y fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yr hyfforddiant yn targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd (gan gynnwys rolau CADY a SACDA) er mwyn sicrhau y caiff y system ADY newydd ei rhoi ar waith yn effeithiol.

5.17. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu system electronig i gefnogi proses y CDU. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac rydym wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu cychwynnol i gadarnhau dichonoldeb a phriodoldeb datblygu system ar-lein i Gymru gyfan.

5.18. Yn olaf, cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynglŷn â gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wella gallu'r gweithlu arbenigol.

5.19. Ymdrinnir â'r newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r diwygiadau arfaethedig i God Ymarfer Rhan 6 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya ar wahân ac felly nid ymdrinnir â nhw yma.

<u>Ymgynghoriad ar Gynrychiolwyr Pobl Ifanc, a Rhieni Plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol</u>

5.20. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gynigion ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol rhwng 3 Medi i 29 Hydref 2020.

5.21. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad yn cynnwys fersiwn ddrafft o Bennod 31 o'r Cod ADY (Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol) a “Rheoliadau drafft pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol 2020”.

5.22. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd y rheoliadau drafft hynny eu hymgorffori, gyda diwygiadau, yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 fel Rhan 4.

5.23. Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 22 Ionawr 2021 a gellir ei weld yma https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-a-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol-crynodeb-or-ymatebion.pdf

Newidiadau i'r Cod drafft yn dilyn y ddau ymgynghoriad

5.24. Daeth cryn nifer o sylwadau i law, a oedd yn cwmpasu bron pob agwedd ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus pa newidiadau i'w gwneud yng ngoleuni sylwadau'r ymatebwyr. Esbonnir y newidiadau hyn, a'r rhesymau drostynt, yn y tabl canlynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailstrwythuro'r Cod drafft i wella ei strwythur a'i ddarllenadwyedd, gan gynnwys cyflwyno rhai penodau newydd. Dilëwyd y siartiau llif am ein bod yn gweld y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol a bod risg y gallai'r siartiau llif dynnu sylw oddi wrth y testun cyfreithiol.

| **Pennod Newydd** | **Hen Bennod** | **Yr hyn sydd wedi newid** |
|---|---|---|
| 1 – Cyflwyniad | 1 | Cafodd y cyflwyniad ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i gynnwys y Cod (megis penodau newydd) a'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Cafodd ei symleiddio i wneud y Cod yn haws i'w ddarllen.<br><br>Ceir hefyd esboniadau manylach o'r ffordd y dylid dehongli gofynion a osodir gan y Cod a'r disgrifiadau o ofynion yn y Ddeddf neu'r rheoliadau (er enghraifft mewn perthynas ag achosion lle mae gan blentyn gyfaill achos neu lle nad oes gan riant plentyn/person ifanc alluedd). |
| 2 – Y diffiniad o ADY a DDdY | 7 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei chreu o ran gyntaf yr hen bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. (Mae'r ail ran wedi creu Pennod 20.) Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; symudwyd y bennod tuag |

| | | |
|---|---|---|
| | | at ddechrau'r Cod, a diwygiwyd y strwythur a'r cynnwys i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder mewn perthynas â'r diffiniadau o ADY a DDdY a'r ffordd y maent yn cael eu cymhwyso yn y system ADY. |
| 3 – Egwyddorion y Cod | 2 | Cafodd y bennod hon ei chwtogi'n sylweddol a'i symleiddio er mwyn tynnu sylw at egwyddorion y Cod, heb roi enghreifftiau helaeth a all fod wedi tynnu sylw oddi wrth ei neges allweddol. |
| 4 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc | 3 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi rhagor o ganllawiau a bod yn fwy eglur mewn rhannau penodol. Yn benodol, mae llawer mwy o ganllawiau statudol ynghylch cydsyniad pobl ifanc. |
| 5 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG o ran CCUHP a CCUHPA | 4 | Dim ond mân newidiadau a wnaed i'r bennod hon; nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol. |
| 6 - Cyngor a Gwybodaeth | 6 | Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r bennod hon, a hynny er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn mannau eraill yn y Cod a gwneud rhai rhannau yn fwy eglur. Mae un darn o'r canllawiau statudol yn ofyniad bellach ac mae ychydig mwy o ganllawiau statudol. |
| 7 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol | 5 | Cafodd Pennod 7 (sef Pennod 5 yn y fersiwn a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad) ei symleiddio, a chafodd diwygiadau penodol eu gwneud er mwyn gwneud materion mewn rhai meysydd yn fwy eglur. Cafodd newidiadau eraill eu gwneud i sicrhau bod y bennod yn gyson â'r newidiadau a wnaed mewn mannau eraill yn y Cod. Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r agweddau allweddol ar y bennod hon, os o gwbl; y canllawiau ategol sydd wedi cael eu diwygio'n bennaf neu mae'r strwythur wedi cael ei ad-drefnu. |
| 8 – Rôl Cydlynydd ADY | 24 | Rydym wedi atgyfnerthu'r bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y cyngor sydd eisoes wedi'i gynnwys. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaeth y dylai pennaeth lleoliad addysg ei rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn unol â'r Rheoliadau CADY, diwygiwyd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(h) a 6(h) o'r Rheoliadau CADY drafft – rheoliadau 5(i) a 6(i) gynt yn y fersiwn flaenorol o'r rheoliadau yr ymgynghorwyd arnynt yn 2019). At hynny, mae rhai o ddyletswyddau'r CADY a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu, sef: y ddyletswydd i baratoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen i'r corff llywodraethu ei chyhoeddi yn unol â'r cod; a'r ddyletswydd i roi gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, ei CDU a'r DDdY a gynigir. Dilëwyd y rhain yn y bennod ar ôl iddynt gael eu dileu yn y Rheoliadau CADY. |
| 9 – Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg | 15 (ail ran) | Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn y Bennod (15) flaenorol ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Ni ddiwygiwyd sylwedd y bennod ryw lawer ond cafodd ei symleiddio a'i newid i'w gwneud yn fwy eglur ac yn debycach i strwythur y penodau eraill ar y rolau statudol. |
| 10 – Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (CADY) | 8 (ail ran) | Ni newidiwyd sylwedd y bennod hon yn fawr iawn. Gwnaed rhai newidiadau strwythurol, newidiadau fformatio a mân ddiwygiadau eraill i'w gwneud yn fwy eglur. |
| 11 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir | 8 | Cafodd y penodau hyn eu diwygio'n sylweddol. Mae'r penodau hyn yn cynnwys y prif ddyletswyddau mewn perthynas â'r system ADY ar gyfer y mwyafrif o blant a phobl ifanc. Yn y fersiwn ddrafft o'r Cod, nodwyd y gofynion mewn pedair pennod; fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cawsant eu didoli yn ôl |
| 12 – Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac ALlau i blant mewn ysgol a gynhelir | 9 | |

| | | |
|---|---|---|
| 13 – Dyletswyddau ar ALlau ynghylch plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir | 11 | amgylchiadau ac ystodau oedran mwy penodol. Mae'r darpariaethau ynglŷn â pharatoi CDU wedi cael eu symud i Bennod 23, gan fod llawer ohonynt yn gymwys o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau neu'r holl amgylchiadau gwahanol a gallant hefyd fod yn berthnasol wrth gynnal CDU.<br>Bwriedir i'r newidiadau strwythurol hyn wneud y rhan hon o'r Cod yn haws i ddefnyddwyr.<br>Mae'r cynnwys ei hun hefyd wedi cael ei symleiddio a'i ddiwygio'n sylweddol er mwyn ei wneud yn fwy eglur, sicrhau mwy o gysondeb rhwng y penodau ac ychwanegu mwy o fanylion mewn rhai rhannau er mwyn gwella'r cysylltiadau â'r rhannau eraill o'r Cod a sicrhau bod y gofynion yn gliriach ac yn effeithiol.<br>Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y gofynion na'r canllawiau yn y penodau hyn wedi newid.<br>Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol o ran gofynion yw'r newid mewn perthynas â gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu newid ac felly pan fydd yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae'n **rhaid** i'r awdurdod **ystyried** a ddylai geisio cyngor gan seicolegydd addysgol a, phan fydd o'r farn bod angen cyngor o'r fath i benderfynu ar bethau penodol, mae'n **rhaid** iddo ei geisio. Gwnaed y newid hwn o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod y gofynion yn rhy feichus ac mae'n rhoi statws statudol i rôl y Seicolegydd Addysgol, ond hefyd yn lleihau'r baich sylweddol o bosibl y gallai gofyniad cyffredinol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol o dan yr holl amgylchiadau ei achosi. |
| 14 – Dyletswyddau ar ALl ynghylch plant sy'n derbyn gofal ganddo | Pennod Newydd | |
| 15 – Dyletswyddau ar ysgolion ac ALlau ynghylch pobl ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir | Pennod Newydd | |
| 16 – Dyletswyddau ar Sefydliad Addysg Bellach (SAB) ac ALl ynghylch pobl ifanc mewn SAB | 10 | |
| 17 – Dyletswyddau ac ALlau ynghylch pobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na SAB | 12 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol i fod yn gyson â'r manylion yn rheoliadau 6 i 10 o Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 1 i Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddorion |

| | | |
|---|---|---|
| | | polisi a nodwyd yn wreiddiol yn y bennod ddrafft flaenorol wedi newid. Mae'r bennod yn nodi'r ystyriaethau a'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â nhw wrth benderfynu a oes angen CDU i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (lle nad yw'r person ifanc mewn ysgol a gynhelir na SAB yng Nghymru). Mae'r prif ofynion o ran sicrhau lleoliad ôl-16 arbenigol yn adlewyrchu'r rhai o dan y system bresennol (lle mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau lleoliadau o'r fath).<br><br>Hefyd, gwnaed newidiadau eraill yn debyg i'r rhai a ddisgrifir mewn perthynas â phenodau 11 i 16. |
| 18 – Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol | 23 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi mwy o ganllawiau ar nifer o amgylchiadau gwanhaol. Ceir gofyniad newydd hefyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y mae eu rhiant yn aelod o'r Lluoedd Arfog. |
| 19 – Plant a phobl ifanc o dan orchymyn cadw | 22 | Gwnaed newidiadau i egluro'n well sut y mae'r system ADY yn gymwys mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o dan orchymyn cadw (gan gynnwys pobl a gedwir yn gaeth), gan gynnwys esbonio beth yw ystyr diffiniadau yn ymarferol a sôn am faterion eraill sy'n berthnasol i sefyllfaoedd lle y cedwir pobl ifanc yn gaeth a rhoi mwy o ganllawiau ymarferol.<br><br>Mae'r bennod hefyd yn ymdrin ag atgyfeiriadau at gyrff y GIG o dan adran 20 o'r Ddeddf lle mae CDU yn cael ei baratoi ar gyfer person a gedwir yn gaeth, gan roi canllawiau ynghylch pryd y byddai hyn yn briodol a gosod gofyniad cysylltiedig lle y nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol. Adlewyrchir y diwygiad i adran 44 o'r Ddeddf ynglŷn â'r ddyletswydd ar gyrff y GIG o dan adran 20 (gan nodi nad yw'n gymwys yn ystod y cyfnod cadw).<br><br>O ran y terfynau amser yn y bennod hon, ac yn unol â diwygiadau tebyg drwy'r Cod |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfan, nodir cyfnod penodedig bellach y mae'n rhaid cymryd y cam (e.e. penderfynu ar ADY a pharatoi CDU neu adolygu CDU) oddi mewn iddo, yn amodol ar yr eithriad arferol. Yn y gorffennol, y gofyniad oedd bod yn rhaid cymryd y cam yn brydlon.<br>Mae'r canllawiau blaenorol ar adolygu CDU ar ôl i berson a gedwir yn gaeth gael ei ryddhau wedi cael eu troi'n ofyniad a cheir canllawiau ategol ar y gofyniad hwnnw.<br><br>Ceir newidiadau hefyd i wneud gofynion yn gyson â rhai tebyg mewn mannau eraill sydd wedi cael eu mireinio, er mwyn gwella'r croesgyfeiriadau (ac adlewyrchu'r newidiadau strwythurol) a newidiadau i adlewyrchu gofynion yn Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan gynnwys y rheoliadau sy'n ymdrin â'r angen i baratoi CDU. |
| 20 – Adnabod ADY a phenderfynu a oes angen y DDdY | 7 (ail ran) | Fel yn achos Pennod 2 (Diffiniad o ADY a DDdY), cafodd y bennod hon ei chreu o ail ran yr hen Bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; cafodd y strwythur a'r cynnwys eu diwygio i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder ynghylch adnabod ADY, penderfynu ar y DDdY sydd ei hangen, a chasglu a defnyddio tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau hynny a chysoni â newidiadau mewn mannau eraill. |
| 21 – Gweithio amlasiantaethol | 15 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol; ond nid yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi newid. Y newid allweddol yw bod yr adran ar rôl y SACDA wedi cael ei symud a'i gosod mewn pennod ar wahân (Pennod 9). Yn benodol, cafodd canllawiau statudol ar y Bwrdd Iechyd Lleol y dylid atgyfeirio achos ato o dan adran 20 eu hychwanegu, a hefyd ddarpariaeth ynghylch pryd mae Bwrdd Iechyd Lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc. |
| 22 – Cyfarfodydd am ADY a DDdY | 18 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol a gwella'r strwythur; ond nid yw'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, ceir canllawiau ychwanegol ar gynnal cyfarfodydd drwy ddulliau rhithwir, yn ogystal â rhagor o ganllawiau ar y materion y bydd angen eu hystyried o bosibl er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gyfranogi'n well. |
| 23 – Paratoi CDU a'i gynnwys | 13 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Roedd elfennau penodol wedi'u cynnwys yn y prif benodau ar ddyletswyddau (penodau 11 i 17 bellach), a oedd yn ymwneud â pharatoi neu gynnal CDU, a oedd yn gymwys i'r holl amgylchiadau neu'r rhan fwyaf o amgylchiadau, ac a oedd yn cael eu hailadrodd ym mhob un o'r penodau hynny ac roedd rhai elfennau a oedd ond yn cael eu trafod yn un o'r penodau hynny ond a oedd yn berthnasol o bosibl i sefyllfaoedd eraill. Er mwyn symleiddio'r prif benodau ar ddyletswyddau, a rhoi mwy o eglurder a chanllawiau ar baratoi CDU neu ei adolygu, mae'r elfennau hynny o'r canllawiau wedi cael eu symud a'u cynnwys yma. Cafodd y strwythur a'r geiriad yn y bennod hon eu diwygio hefyd i wella'r llif a'i gwneud yn haws i'w defnyddio. Cafodd adran ei hychwanegu hefyd yma ac yn y templedi ar gyfer ffurflenni safonol yn Atodiadau A a B er mwyn rhoi gwybodaeth am drefniadau teithio. |
| 24 – Paratoi CDU a'i gynnwys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | 14 | Cafodd y bennod hon ei diwygio yn unol â'r newidiadau i Bennod 23 a'i symleiddio i osgoi dyblygu'r wybodaeth a geir yn y bennod honno. Yn syml, mae'r bennod hon bellach yn esbonio'r gwahaniaeth yn y broses a chynnwys CDP i blentyn sy'n derbyn gofal, ond mae'r canllawiau ar gynnwys perthnasol pob rhan o'r CDU wedi'u nodi ym Mhennod 23. |
| 25 – Adolygu a Diwygio CDUau | 16 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. Cafodd ei hailstrwythuro a'i symleiddio hefyd lle y bo modd ond nid yw hanfod y cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 26 – Ailystyriaethau awdurdodau lleol ac | 17 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai |

| | | |
|---|---|---|
| ymgymryd â'r cyfrifoldeb am CDU | | mannau, gan gynnwys gwella'r cysylltiadau â rhannau eraill o'r Cod. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. Cafodd darpariaethau ynglŷn ag ymgynghori â seicolegydd addysgol eu dileu. |
| 27 – Cynllunio ar gyfer cyfnod pontio a'i gefnogi | 19 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Mae'r bennod yn llai rhagnodol bellach, gyda llai o ganllawiau statudol. Mae hyn yn ymateb i'r sylwadau lu a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn gwrthddweud ei gilydd ac a oedd yn ei gwneud yn amlwg bod cyfnodau pontio yn hyblyg ac y bydd angen gweithredu yn unol ag anghenion unigolion.<br>Ymdrinnir â manylion am geisio cydsyniad plentyn sy'n dod yn berson ifanc i barhau i gynnal ei CDU ym Mhennod 4 bellach. |
| 28 – Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU | 20 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai mannau, gan gynnwys cysylltu â rhannau eraill o'r Cod ac adlewyrchu manylion Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 29 – Peidio â chynnal CDU | 21 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 30 – Cyfeillion achos i blant nad oes ganddynt alluedd | 27 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau technegol a wnaed i'r rheoliadau. Mae'n rhoi esboniad clir o'r ffordd y gall plentyn nad oes ganddo alluedd ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am rôl cyfaill achos a sut y cânt eu penodi a'u tynnu'n ôl gan y Tribiwnlys. |
| 31 – Cynrychiolwyr rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd | Pennod Newydd | Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Hydref 2020, cafodd y bennod ei diwygio i gynnwys croesgyfeiriadau ychwanegol, yn enwedig o ran Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r bennod hefyd wedi |

| | | |
|---|---|---|
| | | nodi'n fwy eglur y gall cynrychiolwyr gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys troednodiadau newydd sy'n cyfeirio at effaith achos Re: D. |
| 32 – Osgoi a datrys anghytundebau ac Eiriolaeth Annibynnol | 25 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion lle y bo eu hangen. O ran strwythur, nid yw'r bennod wedi newid ac nid yw'r cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. |
| 33 – Apeliadau a Cheisiadau i'r Tribiwnlys Addysg | 26 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu’r newidiadau technegol a wnaed i’r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y bennod yn disgrifio'r broses apelio a'r terfynau amser dan sylw. Mae'n rhoi eglurder ynghylch beth y gellir apelio yn ei gylch a chan bwy. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais i'r Tribiwnlys o ran dim galluedd. Mae hefyd yn cynnwys adran ynglŷn â sut y gall plant gyflwyno eu hapêl eu hunain i'r Tribiwnlys. |

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**Y Cod ADY, gan gynnwys diwygiadau ar ôl ymgynghori**

**6. Opsiynau**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â llunio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

Fel rhan o'r diwygiadau hanfodol hyn, bydd y Cod ADY yn disodli'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) presennol i Gymru. Dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau o 1 Medi 2021, bydd proses weithredu fesul cam lle y caiff yr holl ganllawiau statudol yn y Cod Ymarfer AAA eu diffodd a chaiff darpariaethau newydd eu cyflwyno drwy'r Ddeddf ADY, y cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig.

Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ystyried goblygiadau rheoleiddiol gosod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn y Cod ADY (a'r rheoliadau cysylltiedig).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Cod ADY, ynghyd â'r rheoliadau cysylltiedig, gerbron y Senedd ar 2 Mawrth, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adolygu'r cynigion ar b'un a ddylid dwyn y Cod ADY i rym.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adolygu dau opsiwn a ddisgrifir isod.

**Opsiwn un: gwneud dim**

O dan opsiwn un, bydd y system AAA bresennol yn parhau â'r Cod Ymarfer AAA sy'n nodi rôl darparwyr addysg i adnabod plant ag anghenion arbennig a gwella eu profiad.

**6. Manteision**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth opsiwn un.

Hefyd, gallai rhan o'r £20.244m o gyllid y cytunwyd arno ar 7 Chwefror 2017 i dalu costau pontio un system statudol i un arall a chyflwyno'r trawsnewidiadau ehangach i'r system gael ei wario ar bethau eraill.

**7. Anfanteision**

Mae'r system bresennol yn annheg. Mae darpariaeth gwasanaeth a ddiogelir o dan y gyfraith i blant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol ac sydd uwchlaw'r trothwy i gael datganiad AAA. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i diogelu na hawliau statudol i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn llai difrifol ac sydd islaw'r trothwy i gael datganiad AAA.

Mae'r arferion a'r prosesau presennol sy'n gysylltiedig â datganiadau AAA yn aneffeithlon ac anhyblyg, a gallant arwain at ddarpariaeth aneffeithiol i blant a phobl ifanc.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu a diwygio cynlluniau statudol yn feichus yn weinyddol ac mae'n rhaid i ysgolion wahodd set ragnodedig o weithwyr proffesiynol, p'un a oes angen eu presenoldeb a'u cyfraniad ai peidio o ran effeithiolrwydd yr adolygiad. Mae adolygiadau statudol yn cymryd cryn dipyn o amser i drefnu a pharatoi ar eu cyfer. Felly, gall y broses o ddiwygio cynllun fod yn un hirfaith ac arwain at oedi cyn bod dysgwyr yn cael y cymorth mwyaf priodol.

Hefyd, nid oes fawr ddim hyblygrwydd wrth adolygu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ar y trothwy i gael cymorth statudol. Er enghraifft, pan fydd canlyniadau cynllun statudol wedi'u cyflawni i blentyn neu berson ifanc, gall pryder rhieni ynglŷn â cholli'r hawl statudol arwain at bwysau i gynnal y cynllun a'i ddarpariaeth, er na fydd hyn o reidrwydd yn golygu'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol i'r person ifanc.

Yn olaf, heb y Cod ADY, ni allai'r diwygiadau i'r system AAA na'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd fynd rhagddynt.

**Opsiwn dau: cyflwyno Cod ADY yn lle'r Cod Ymarfer AAA**

O dan opsiwn dau, caiff y system AAA bresennol, gan gynnwys y Cod Ymarfer AAA ei disodli'n gyfan gwbl gan y system ADY, gan gynnwys y Cod ADY statudol.

Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

Fel trydydd opsiwn posibl, gellid bod wedi bwrw ymlaen â'r Cod ADY drafft fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 cyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ni fyddai hwn wedi bod yn opsiwn gwirioneddol o ystyried y gofynion cyfreithiol i gynnal ymgynghoriad ystyrlon ar y Cod ADY drafft a'r ymrwymiad cyhoeddus i wneud gwelliannau i'r Cod ADY drafft cyn ei osod gerbron y Senedd.

**8. Manteision**

Trafodir manteision parhau â'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys gosod y Cod ADY diwygiedig a chyflwyno'r system ddeddfwriaethol y mae'r Cod yn helpu i'w hategu, yn fanylach o dan adran 7. Fodd bynnag, mae'r prif fanteision yn ymwneud â'r rhesymau dros ddiwygio'r system AAA yn y lle cyntaf, sef y bydd y Cod ADY diwygiedig yn gwella'n sylweddol y cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

**9. Anfanteision**

Yn yr un modd â'r manteision, trafodir yr anfanteision yn fanwl isod. Fodd bynnag, y prif bwynt i'w nodi yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno system ddeddfwriaethol newydd. Ceir risg y bydd costau yn cynyddu, o ran cost ariannol a phwysau ar adnoddau. Fodd bynnag, yn ôl Adroddiad Blynyddol

2018-2019 Estyn "Mae ysgolion ac UCDau sydd â rolau arwain clir ac arfer ragorol mewn sefyllfa dda i drosglwyddo o'r system AAA bresennol i'r system ADY newydd."

Mae risg hefyd yn gysylltiedig â chyflwyno'r diwygiadau hyn ar adeg na welwyd ei thebyg o'r blaen mewn lleoliadau addysg, gyda COVID-19 o bosibl yn effeithio ar allu awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu (a chyrff statudol eraill) i reoli'r broses o'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r risg hon yn ymwneud mwy â rhoi'r system ar waith yn hytrach na chyflwyno'r Cod ADY.

## 7. Costau a manteision

Mae'r Cod ADY yn cynnwys canllawiau statudol ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ADY, sy'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar faterion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY, ac yn disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai yn y Ddeddf.

Mae'r Cod yn cynnwys cannoedd lawer o ddyletswyddau statudol unigol, lle mae'r gofynion (a ysgrifennir fel "**rhaid**" yn y Cod) yn deillio o bwerau mewn is-ddeddfwriaeth – naill ai o'r Cod ei hun neu o reoliadau – yn hytrach na deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf ADY. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â manylion a phrosesau ynglŷn â sut y bydd y system yn gweithredu, gan gynnwys manylion am y rolau a'r tasgau a nodir yn y Ddeddf ADY.

Nid diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw trafod effaith pob dyletswydd statudol yn y Cod. Yn hytrach, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn trafod y dyletswyddau mewn ffordd thematig, gyda chyfeiriadau penodol at y dyletswyddau newydd fel y'u diwygiwyd ar ôl yr ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft.

Er mwyn deall effaith y dyletswyddau statudol a wneir o dan is-ddeddfwriaeth yn well, cafodd pob enghraifft o "**rhaid**" yn y Cod ei chasglu, ei dadansoddi a'i threfnu'n gategorïau o gost debygol pob dyletswydd o ran ei harwyddocâd yn hytrach nag amcangyfrif ariannol o bob dyletswydd unigol. Cafodd yr holl ddyletswyddau yr ystyrir eu bod yn costio mwy na'r gost isel sy'n gysylltiedig â thasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiad) eu casglu ynghyd yn themâu. Trafodir y themâu hyn yn fanwl isod.

Lle y bo'n berthnasol, defnyddir cyfeiriadau at y costau fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018) yma.

### Pecyn cyllid o £20m i gyflwyno'r system ADY

Defnyddir y pecyn cyllid o £20.244m i helpu i roi'r Ddeddf ar waith a chyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.

Caiff rhan fawr o'r cyllid hwn ei defnyddio i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pob partner yn deall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ac yn barod ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i feithrin gallu a sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i weithredu'r system newydd yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Rydym yn targedu gweithgarwch datblygu'r gweithlu ar dair lefel; datblygu sgiliau craidd i bob ymarferydd, datblygu sgiliau uwch drwy sefydlu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau) a fydd yn disodli rôl bresennol Cydlynwyr AAA; a datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol sydd ar gael i leoliadau addysg.

Mae pum arweinydd trawsnewid ADY wedi bod mewn swydd ers mis Ebrill 2018. Eu rôl yw rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach, wrth iddynt baratoi i roi'r diwygiadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys hunanasesiadau trylwyr o barodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Bydd yr arweinwyr trawsnewid ADY yn gyfrifol am gyflwyno hyfforddiant gweithredu ar sail ranbarthol, amlasiantaethol.

**10. Themâu a nodwyd o'r dyletswyddau statudol yn y Cod ADY**

- Dynodi rolau statudol (swyddogion cydlynu ADY)
  - SACDA
  - CADY
  - Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

- Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)
  - Paratoi CDU
  - Sicrhau DDdY
  - Adolygu CDU

- Gwasanaethau Eirioli Annibynnol

- Costau adolygu'r system

**11. Costio is-ddeddfwriaeth**

Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY i'r casgliad na ddylai'r system ADY newydd ei hun fod yn fwy costus na'r system AAA bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno tystiolaeth os ydynt yn credu y bydd y system newydd yn fwy costus, ond hyd yma nid oes unrhyw dystiolaeth o'r fath wedi dod i law.

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn parhau i gefnogi'r safbwynt a nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf ADY. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod risgiau yn gysylltiedig â rhoi system newydd ar waith pan fydd lefel y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion a SABau a byrddau iechyd yn gyfyngedig. Mae'r mater hwn yn amlwg yn un ehangach nag ADY, ac mae'n ymwneud â chyllid y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, ond mae'r pryderon hyn yn parhau i gael eu mynegi mewn unrhyw drafodaeth gyhoeddus am y diwygiadau ym maes ADY.

Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn helpu'r darllenydd i ddeall y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â'r Cod ADY diwygiedig, a rhoi trosolwg o effaith y Cod ADY yn gyffredinol, gan ddefnyddio'r dull thematig a ddisgrifir uchod.

Mae'r costau a'r manteision a drafodir isod yn seiliedig ar gytuno ar Opsiwn dau.

**12. Y ddyletswydd i ddynodi Swyddogion Cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**13. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)**

**14. Mantais**

Bydd Opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad addysg, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a SABau, benodi CADY. Mae'r hyn yn estyn y trefniadau presennol lle y defnyddir Cydlynwyr AAA anstatudol yn y rhan fwyaf

o ysgolion yng Nghymru. Drwy wneud y CADY yn rôl statudol, bydd hyn yn sicrhau dull cyson o gydlynu DDdY i ddysgwyr yng Nghymru a helpu i feithrin gwell cydberthnasau gwaith rhwng sectorau.

**15. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Yn sgil yr ymgynghoriad ar y Cod ADY, rydym wedi atgyfnerthu'r bennod ar CADYau i roi mwy o eglurder ynglŷn â'r cyngor a ddarperir eisoes. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaethau y dylai penaethiaid eu rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau.

Yn unol â Rheoliadau CADY 2020, cafodd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod eu diwygio. Mae'r diwygiadau hyn yn nodi'n fwy eglur pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(e) a 6(e) o Reoliadau CADY 2020) a pha agweddau ar gadw cofnodion y bydd yn rhaid i CADYau ymgymryd â nhw (rheoliadau 5(c) a 6(c) o Reoliadau CADY 2020). At hynny, mae rhai o'r dyletswyddau a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu. Mae'r rhain yn ymwneud â pharatoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi gan y corff llywodraethu yn unol â'r Cod ADY, a'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, CDU a'r DDdY a gynigir. Mae'r rhain wedi cael eu dileu yn y bennod a Rheoliadau CADY 2020 oherwydd newidiadau a wnaed mewn mannau eraill i'r Cod ADY yn hyn o beth.

Mae'r diwygiadau hyn yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar y gost na'r manteision sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Cod ADY, ond gallant roi cymorth mwy eglur i'r rhai sydd â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â rôl CADY.

16.

**17. Cost**

Trafodwyd cost creu rôl y CADY yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY a'r asesiad effaith integredig ar gyfer rheoliadau CADY. O ystyried cwmpas cyffredinol y rôl a'r ffordd y bydd yn amrywio o leoliad i leoliad, ni fydd modd rhoi cost amcangyfrifedig ar gyfer y rôl. Yr effaith fwyaf sylweddol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn oedd sut y bydd y rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu at godi safonau o ran gweithgarwch cydlynu neu DDdY i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd awdurdodau lleol yn gwneud hyn drwy roi sicrwydd y bydd rôl newydd y CADY yn cael ei chyflawni gan unigolion cymwysedig (h.y. athrawon cymwysedig neu Gydlynwyr AAA profiadol) y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â'r gwaith o gydlynu DDdY mewn ffordd gyson, ni waeth pa fath o leoliad addysg sydd dan sylw. Dylai hyn arwain at welliant yn y ffordd y caiff DDdY ei chynllunio a'i chyflwyno i blant a phobl ifanc.

Ni nodwyd unrhyw gostau ariannol pellach yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â CADYau.

Mae risg ddamcaniaethol o ganfyddiad posibl y bydd y gofynion newydd o ran CADYau yn creu baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a all wneud i'r

Cydlynwyr AAA presennol fod yn amharod i wneud cais i fod yn CADY. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i wneud y CADY yn rôl broffesiynol ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y risg hon yn cael ei gwireddu.

**18. Swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA)**

**19. Mantais**

Bydd opsiwn dau yn sicrhau y bydd pob bwrdd iechyd lleol (BILl) yn dynodi SACDA i fod yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth iechyd o ddydd i ddydd i blant a phobl ifanc ag ADY yn cael ei rheoli a'i chydlynu'n effeithiol.

Er y bydd llawer o'r gwaith y bydd y SACDA yn gyfrifol amdano o dan y system ADY eisoes wedi'i wneud ym mhob BILl ar hyn o bryd, heb y rôl ddynodedig hon, mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â goruchwylio darpariaeth iechyd sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol arbennig wedi bod yn anghyson ac yn anodd i'w fesur.

Bydd penodi SACDA ym mhob bwrdd iechyd yn fanteisiol o ran hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd yn effeithiol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd y SACDA hefyd yn helpu'r bwrdd iechyd i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan system ADY ac yn hwyluso'r cydweithrediad effeithiol rhwng byrddau iechyd a'u partneriaid o ran darparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY.

Bydd y SACDA hefyd yn sicrhau bod strwythur cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chasglu data ar ansawdd, canlyniadau a pherfformiad gwasanaethau; symleiddio'r system i blant, pobl ifanc, rhieni a phartneriaid drwy gynnig un pwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill mewn byrddau iechyd ar faterion ADY. Hefyd, dylai penodi SACDA sicrhau bod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth strategol i fyrddau iechyd.

Un o brif fanteision cyflwyno rôl y SACDA fydd y cysylltiadau gwell rhwng iechyd a sectorau eraill, a'r cyfle i gydlynu gwaith amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Nod y system yw torri nifer y cyfarfodydd a'r asesiadau sydd eu hangen i gael DDdY a sicrhau parhad cymorth i'r unigolion wrth iddynt bontio, o ran oedran, rhwng camau allweddol a datblygiad addysgol.

**20. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae pennod newydd yn y Cod ADY ar rôl y SACDA. Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y SACDA ym Mhennod 15 ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Nid yw sylwedd y bennod wedi newid fawr ddim, ond mae'n haws i'r darllenydd ei ddilyn erbyn hyn.

**21. Cost**

Trafodwyd cost cyflwyno rôl y SACDA yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY lle y daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw gostau newydd i fyrddau iechyd lleol,

a hynny am fod disgwyl i'r rôl gael ei chyflawni gan aelod presennol o'r staff ac y bydd y SACDAau a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ei angen o fewn yr oriau a neilltuir ar eu cyfer i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Er bod y rôl ei hun yn newydd, mae'r dyletswyddau y bydd y SACDA yn gyfrifol amdanynt fel y'u nodwyd yn y Cod eisoes yn cael eu cyflawni gan aelodau presennol o staff mewn byrddau iechyd o dan system AAA. Diben y SACDA fydd safoni'r rôl hon a gwella gwaith amlasiantaethol drwy unigolyn a enwir ym mhob bwrdd iechyd. Ar gyfartaledd, bydd gweithiwr iechyd proffesiynol ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn ymgymryd â chyfrifoldebau SACDA am tua dau ddiwrnod yr wythnos.

Mae'r dyletswyddau yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â rôl y SACDA yn rhoi mwy o fanylion am y rôl ei hun, a defnyddir y canllawiau i nodi sut y disgwylir i SACDAau ymgymryd â'u tasgau. Mae cyflwyno rôl y SACDA a'r amcangyfrif o'r adnodd fydd ei angen yn dwyn risg isel a hawdd ei rheoli i fyrddau iechyd lleol gan na ddisgwylir i SACDAau fod yn swyddi llawn amser ac mae'n debygol y bydd uwch-aelodau presennol o'r bwrdd iechyd lleol yn ymgymryd â'r rôl.

Gyda'r ddyletswydd i ddarparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd i ddysgwyr hyd at 25 oed, efallai y bydd cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeirir at gyrff y GIG lle mae angen DDdY sy'n ymwneud ag iechyd. Gallai'r risg hon, er nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth a welwyd gan Lywodraeth Cymru, gynyddu costau i BILlau o bosibl o ran y systemau y maent yn eu cyflwyno i gefnogi rôl y SACDA a'u swyddogaethau statudol o dan y system ADY. Er ei bod yn anodd amcangyfrif sut y bydd estyn yr ystod oedran i 25 oed yn effeithio ar y costau hyn, esboniodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd gan bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n mynychu sefydliad AB arbenigol gynllun dysgu a sgiliau statudol ar hyn o bryd. Pan fydd angen gofal meddygol ar berson ifanc tra ei fod mewn sefydliad AB arbenigol, gofynnir i'r bwrdd iechyd gyfrannu at y cynllun dysgu a sgiliau. O dan y system ADY, bydd yr arfer hon yn parhau ond gofynnir i fyrddau iechyd gyfrannu at y CDU yn lle hynny. Daethpwyd i'r casgliad na fydd unrhyw gost ychwanegol i fyrddau iechyd pan fydd person ifanc yn mynychu sefydliad AB arbenigol.

**22. Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar)**

**23. Mantais**

O dan opsiwn dau, caiff swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ei benodi gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.

Bydd swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn chwarae rôl bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r system ADY a sut y mae'n gymwys i blant o dan yr oedran ysgol gorfodol; hyrwyddo'r broses o adnabod ADY ar gam cynnar a'u hatal; a chyfrifoldebau strategol eraill. Bydd y dyletswyddau hyn yn helpu teuluoedd i ddeall ADY eu plant a'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi eu haddysg. Felly, dylai'r rôl gynnwys budd cymdeithasol drwy leihau'r ofn sy'n gysylltiedig ag ADY a rhoi sicrwydd i rieni bod cymorth ar gael mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Mantais arall cynnwys y rôl newydd hon yn y Cod ADY fydd gwella'r ffordd y caiff darpariaeth ar gyfer plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ei chydlynu a sicrhau bod un swyddog a enwyd y gellir cyfeirio materion ato. Bydd hyn yn helpu teuluoedd pryderus sydd, o dan y system AAA, wedi cael anhawster o bosibl i ymgysylltu â'r unigolion perthnasol.

**24. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys ers yr ymgynghoriad.

**25.**

**26. Cost**

Crybwyllwyd cost cyflwyno rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fel y nodwyd ynddo, at ddibenion enghreifftiol defnyddir cyflog o £49,700 i amcangyfrif costau parhaus cyflwyno swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Felly, amcangyfrifir y bydd cost barhaus o tua £1,093,400 y flwyddyn i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar, ni fydd hon yn gost barhaus ychwanegol.

Amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol yn mynd i gostau pontio o £126,700 mewn perthynas â hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Mae cost amcangyfrifedig hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar yr un model costio ag a ddefnyddir i amcangyfrif costau hyfforddi CADYau. Hynny yw, tybir y caiff swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar eu hyfforddi i lefel gradd meistr ar gost o £3,600 fesul gradd, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o £79,200 i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac y byddant yn cymryd 10 diwrnod astudio â thâl dros y cyfnod o ddwy flynedd ar gost amcangyfrifedig o £47,520.

Nid oes unrhyw ddyletswyddau eraill yn y bennod ar rôl swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ar wahân i ddyletswydd yr awdurdod lleol i ddynodi swyddog.

**27. Cynlluniau Datblygu Unigol**

- Paratoi CDU
- Sicrhau DDdY
- Adolygu CDU

**28. Cyd-destun**

Mae data a ddangoswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf wedi datgelu bod nifer y plant a phobl ifanc y cofnodwyd bod ganddynt AAA rhwng 2011-12 a 2015-16 wedi bod yn gymharol sefydlog, sef 23% o ddisgyblion. Er bod y system ADY yn estyn yr ystod oedran i 25 oed, mae nifer y bobl ifanc rhwng 19-25 oed ag ADY mewn addysg neu hyfforddiant, sy'n cydsynio i gael CDU, yn debygol o fod yn fach. Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod 83 o leoliadau arbenigol ôl-19 wedi'u sicrhau yn 2018/19. Gan ddefnyddio'r ffigurau sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf a chan Stats Cymru, bydd tua 110,000 o CDUau oedran ysgol, gyda thua 1,000 ar gyfer plant islaw'r oedran ysgol gorfodol, a thua 2,000 ar gyfer pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**29.**

**30. Mantais**

Os dewisir Opsiwn dau, drwy gyflwyno'r Cod ADY, bydd pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael ei drin yn gyfartal o dan y gyfraith, ni waeth pa mor ddifrifol yw eu hanghenion. Bydd gan bob dysgwr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig) a SABau y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) arnynt yr hawl i gael cynllun datblygu unigol (CDU) statudol a'r hawl i apelio. Bydd hyn yn gwneud y system o gymorth i ddysgwyr yn decach ac yn cyfrannu at fudd cymdeithasol drwy estyn hawliau plant a phobl ifanc a gweithio tuag at ganlyniadau addysgol gwell.

Drwy gyflwyno cynlluniau statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY, bydd modd rhoi mwy o ffocws ar adnabod anghenion ar gam cynnar a ddylai atal neu leihau gwrthdaro yn y system. Gallai hyn arwain at leihad yn yr hirdymor yn nifer yr apeliadau a gyflwynir i'r Tribiwnlys, ond bydd nifer y darpar apelwyr, wrth reswm, yn cynyddu gan y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY yr hawl i apelio. Dylai cynlluniau statudol teg hefyd wella'r ffordd y sicrheir darpariaeth a sicrhau y bydd ar waith gyhyd ag y bo'i hangen (hyd at 25 oed).

Mae'r dyletswyddau yn y Cod ADY ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i baratoi CDU, sicrhau'r DDdY ac adolygu CDUau wedi'u nodi'n fras yn y Ddeddf ADY ac mae ei heffaith wedi cael ei dogfennu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fodd bynnag, mae'r Cod ADY diwygiedig yn nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid ymgymryd â'r trefniadau hyn. Er enghraifft, mae llawer o'r gofynion a osodir gan y Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig ynglŷn â CDUau yn ymwneud â'r terfynau amser ar gyfer cwblhau tasgau penodol. Dylai awdurdod lleol, er enghraifft, ymddwyn "yn brydlon" i benderfynu a ddylai ddod yn gyfrifol am gynnal y CDU a chyflwyno'r hysbysiad o fewn y cyfnod o saith wythnos i'r cais ynglŷn â dod yn gyfrifol am y CDU, oni bai nad oes modd gwneud hynny o fewn y cyfnod hwnnw oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

Mae gosod terfynau amser ar gyfer y dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth graidd hon yn y system ADY o fantais am fod hynny'n ei gwneud yn bosibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael disgwyliad rhesymol o ran pryd y dylai penderfyniadau neu brosesau penodol gael eu cwblhau. Dylai hyn helpu i leddfu llawer o'r tensiwn ar hyn o bryd yn y system AAA lle mae oedi ac

anghysondebau wedi achosi cryn bryder yn y gorffennol. Disgwylir hefyd y bydd y terfynau amser hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae'n cymryd ar hyn o bryd i gwblhau penderfyniadau neu brosesau penodol, megis paratoi cynllun statudol o gymorth. Drwy'r ddefnyddio'r ymadrodd “yn brydlon”, mae'r Cod ADY yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu cyflawni heb oedi, ond mae'n bosibl y bydd defnyddio terfyn amser penodedig ar gyfer pob dyletswydd heb ddefnyddio'r term “yn brydlon” yn gyntaf yn arwain at sefyllfa lle mae'r uchafswm amser a ganiateir i gyflawni unrhyw ddyletswydd benodol yn mynd yn derfyn amser arferol.

**31. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae penodau 11-15 o'r Cod ADY yn cynnwys y dyletswyddau craidd mewn perthynas â'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY. Hefyd, mae penodau 16 a 17 yn cynnwys dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SABau neu bobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir. Mae'r rhain wedi cael eu hailddrafftio gryn dipyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad . Maent bellach yn ymddangos mewn penodau ar wahân, ar sail amgylchiadau sy'n ymwneud ag oedrannau penodol, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau cyrff statudol i gefnogi dysgwyr ag ADY. Mae'r elfennau o'r canllawiau sy'n gymwys i bob un o'r grwpiau oedran hyn bellach yn ymddangos mewn un bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder a chanllawiau wrth baratoi CDU neu ystyried y DDdY y dylai ei chynnwys. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y dyletswyddau allweddol yn y penodau hyn wedi newid.

**32. Cost**

Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau ar gyfer pob plentyn ag ADY sy'n derbyn gofal ganddynt. Amcangyfrifwyd ar adeg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd awdurdodau lleol yn treulio tua awr yn paratoi'r cais ar gost o tua £18 y cais yn seiliedig ar 20 o geisiadau y flwyddyn (ni ddisgwylir i'r nifer hwn newid o ganlyniad i gyflwyno'r system ADY). Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf, ni ddisgwylir i awdurdodau lleol fynd i unrhyw gostau ychwanegol o dan opsiwn dau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn paratoi achos wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad i blentyn neu berson ifanc â datganiad AAA gael lle mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo fel arfer i dderbyn dysgwyr â datganiadau AAA. O dan Opsiwn dau, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni eu hunain o hyd bod y lleoliad yn briodol.

Bu nifer o geisiadau am dystiolaeth, o ymchwil Deloitte yn 2015 i gais swyddogion Llywodraeth Cymru am ddata gan awdurdodau lleol ond nid ydynt wedi rhoi unrhyw arwydd sy'n herio'r amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY ac, yn y pen draw, amcangyfrifir y bydd y system newydd yn gost niwtral o'i chymharu â'r system AAA bresennol.

Bydd y broses o adolygu CDU yn un barhaus ac er bod gofynion i adolygu CDUau (megis adolygiadau blynyddol), dylai'r gwaith i lywio'r cyfarfodydd hyn gael ei wneud yn barhaus. Bydd cost adolygu CDUau yn ymwneud yn bennaf â'r amser y mae'n ei gymryd i'r CADY neu aelod arall o'r staff addysgu gynnal y cyfarfod adolygu.

Yn yr un modd, wrth baratoi CDU, bydd amgylchiadau yn codi pan fydd cynlluniau yn dechrau o'r newydd (dysgwr newydd o dros y ffin, anabledd newydd sy'n gofyn am DDdY), ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y rhai ag ADY eisoes wedi'u hadnabod ac mae'n debygol y bydd rhyw ddarpariaeth eisoes ar waith. Ni fydd y gwaith o baratoi CDU yn arwain at gost sylweddol i'r ysgol na'r awdurdod lleol, ond yn y rhan fwyaf o achosion cymhleth gallai'r gost gael ei hystyried yn un gymedrol. Fodd bynnag, mewn achosion lle roedd dyletswydd ar SAB i baratoi neu gynnal CDU, byddai hyn yn gost newydd a gallai gael ei hystyried yn un feichus i ddechrau.  Felly, efallai y bydd costau SABau yn cynyddu ond ni ddisgwylir i'r system yn ei chyfanrwydd arwain at fwy o gost yn gyffredinol. Yn 2018/19, cofnodwyd bod gan 11,095 o bobl ifanc, 16-24 oed, anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn SABau[1]. Er na ddisgwylir y bydd angen i SABau baratoi pob CDU o'r newydd (ymhen amser, bydd llawer o bobl ifanc yn cyrraedd SAB gyda CDU) fel rhan o'r gwaith cynllunio i roi'r system ADY newydd ar waith, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd o helpu SABau i ymgymryd â'u dyletswyddau newydd.

O ystyried bod Datganiadau AAA eisoes yn cael eu paratoi ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 19 oed, a bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar waith ar gyfer llawer mwy o ddysgwyr, mae'r union ddyletswyddau yn y Cod ADY yn rhai newydd, ond mewn gwirionedd, maent yn disodli ac yn gwella'r dyletswyddau presennol yn y system AAA.

Gallai cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â hawl statudol i gael darpariaeth arwain at fwy o bwysau ar y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau DDdY. Er nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol blaenorol o'r Ddeddf ADY wedi nodi unrhyw anghenion heb eu diwallu yn y system AAA (ac ni chredwn y bydd y system ADY yn creu galw newydd), mae risg y bydd y system well yn heriol o bosibl o ran yr adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyflwyno'r system AAA.

O ran cyflwyno'r terfynau amser newydd ar gyfer llawer o'r dyletswyddau yn y Cod ADY a'r rheoliadau, mae risg fach na fydd y lefel bresennol o adnoddau a neilltuir ar gyfer y system AAA yn ddigonol i gyflawni dyletswyddau (â therfynau amser newydd) o dan y system ADY. Er nad oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu hyn, a bod y terfynau amser a gyflwynir o dan y system ADY wedi cael eu dewis yn ofalus mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae posibilrwydd y bydd y system newydd yn gofyn am fwy o adnoddau i gyflawni dyletswyddau o fewn y terfyn amser penodedig.

33.

**34. Eiriolaeth**

**35. Mantais**

Mae'r Cod ADY yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

[1] Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl prif anabledd a/neu anhawster dysgu a rhyw https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

Bydd gwasanaethau eirioli annibynnol yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol, drwy gynrychioli neu fel arall blentyn neu berson ifanc, lle mae'r plentyn neu'r person ifanc:

- yn cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, apêl i'r Tribiwnlys;
- yn ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu
- yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundeb.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu am ddim ar adeg ei ddarparu.
Er bod eiriolaeth yn cael ei defnyddio'n aml o dan y system AAA, nid oes gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o dan God Ymarfer AAA. Felly, mae angen gwasanaethau eirioli annibynnol er mwyn cynnig dull cyson o ddarparu gwasanaeth eirioli sy'n ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud ag ADY. Bwriedir i wasanaethau eirioli annibynnol, ynghyd â'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau leihau'n sylweddol nifer yr anghydfodau sy'n codi o fewn y system AAA ar hyn o bryd, a dylent, yn y tymor canolig i'r hirdymor, leihau nifer yr achosion sy'n mynd gerbron y Tribiwnlys. Gallai hyn o bosibl arbed amser ac arian i'r rhai a allai fod wedi cyflwyno apêl pe na bai'r gwasanaethau hyn wedi bod ar gael.

**36. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae'r diwygiadau a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad wedi gwneud y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau eirioli annibynnol a gwasanaethau eirioli eraill yn fwy eglur. Mae hefyd yn fwy eglur bellach bod gan gynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd, hefyd yr hawl i gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Bydd y diwygiadau hyn yn fanteisiol i'r rhai sy'n darllen y Cod ADY heb gynyddu unrhyw gostau.
37.

**38. Cost**

Awdurdodau lleol fydd yn talu am gost rhedeg y gwasanaeth newydd, a bydd yn amrywio gryn dipyn rhwng awdurdodau. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf gost amcangyfrifedig o £5,300 i'r awdurdod lleol am wasanaethau datrys anghydfod sy'n ymwneud ag apeliadau o dan y system AAA. Darperir llawer o'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru gan y trydydd sector neu wirfoddolwyr, lle y telir am y costau weithiau drwy gyfraniadau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gwasanaethau eirioli proffesiynol eraill ar gael a fydd yn codi tâl am eu gwasanaeth.

Drwy gyflwyno gwasanaethau eirioli annibynnol, bydd risg o bosibl mewn perthynas â chost rhedeg y gwasanaeth i awdurdodau lleol Mae hyn yn gysylltiedig â'r defnydd posibl a wneir ohono, a'r anhawster o ran amcangyfrif y galw am wasanaethau eirioli. Wrth i'r system ADY newydd ymsefydlu, mae risg o gynnydd yn nifer yr achosion lle mae angen trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau neu ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol, a allai fod yn gostus a llafurus, ond drwy waith cynllunio gofalus a rhoi'r system newydd ar waith yn llwyddiannus dylid atal anawsterau o'r fath.
39.

**40. Adolygiadau**

**41. Mantais**

O dan Opsiwn dau, bydd y Cod ADY yn nodi'r manylion o ran dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu'r galw am DDdY a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg a'i chyflenwi. Y gofyniad yw bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o adeg gweithredu.

Bydd yr adolygiad yn hwyluso'r gallu i wneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth ynglŷn â DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cefnogi strategiaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**42. Cost**

Bydd adolygu DDdY Gymraeg yn arwain at gost ariannol nad yw wedi'i chyfrifo. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru fydd yn talu am y gost yn hytrach na chyrff statudol, ac mae ar wyneb y Ddeddf. Fel amcangyfrif, caiff y gwaith hwn ei wneud gan dîm bach sy'n cynnwys Uwch-swyddog Gweithredol (£47,000 y flwyddyn) ac un swyddog Cymorth Tîm (£23,830 y flwyddyn) am gyfanswm o dri mis. Mae hyn yn tybio na fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am unrhyw ymchwil allanol ac, yn lle hynny, y bydd yn dibynnu ar ei Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i wneud unrhyw ddadansoddiad o'r data. Amcangyfrifir costau o £17,707.50 ar gyfer y ddwy rôl hyn am dri mis.

**Enghreifftiau newydd o 'rhaid' yn y Cod ADY (ar ôl ymgynghori)**

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob dyletswydd newydd (**rhaid**) a geir yn y Cod ADY ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac eithrio tasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiadau) sydd wedi cael eu hepgor.

Nod y tabl isod yw helpu'r darllenydd i ddeall costau posibl y dyletswyddau newydd hyn.

| Cyf. | Testun | Pwnc | Cost |
|---|---|---|---|
| 19.81 | Os oes rhaid i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, **rhaid** iddo:(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac unrhyw benderfyniad ar a oes angen CDU ar gyfer person ifanc ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei baratoi;<br>(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;<br>(c) cofnodi'r dyddiad y cydsyniodd y person, os yw'n berson ifanc, i'r penderfyniad gael ei wneud;<br>(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd y gall y person ifanc fod ag ADY ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY.<br>(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau (22.64 –22.65). | Dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi cydlynydd | Isel<br><br>Mae'r broses ddynodi ei hun yn dasg weinyddol eithaf syml. |
| 16.14 | **Rhaid** gwneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r dyddiad pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 16.26 | **Rhaid** i'r SAB wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 19.65 | **Rhaid** i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a gafodd ei gadw'n gaeth adolygu'r CDU ar ôl iddo gael ei ryddhau a chwblhau'r adolygiad hwnnw (gan gynnwys, yn ôl y digwydd, roi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad am gasgliad arall o'r adolygiad) yn brydlon a sut bynnag, erbyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos yn dechrau ar ôl i'r person gael ei ryddhau rhag cael ei gadw'n gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod 7 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | Adolygu CDU | |
| 19.67 | Mewn achosion lle mae'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi cael ei ryddhau yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru, **caiff** yr awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r ysgol neu'r SAB gynnal y CDU. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hefyd fod yn fwy priodol i'r sefydliad hwnnw adolygu'r CDU. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, pe bai'r CDU wedi cael ei baratoi'n | Adolygu CDU | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddar gan yr awdurdod a bod gan y person a ryddhawyd anghenion lefel isel neu pe bai'r sefydliad yn cynnal y CDU yn flaenorol a bod y cyfnod cadw yn fyr iawn. Os trosglwyddir y CDU i ysgol neu SAB, byddai hyn yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 14(4) o'r Ddeddf yn achos ysgol neu ar ôl i SAB gytuno i gais yr awdurdod o dan adran 36(2) y daw'r SAB yn gyfrifol am y CDU. Hefyd, dim ond os yw'r person a ryddhawyd yn ddisgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'n berson ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr yn y SAB y gellir trosglwyddo CDU. Os nad yw'r awdurdod lleol wedi'i adolygu ar ôl rhyddhau, **rhaid** i'r ysgol neu'r SAB adolygu'r CDU yn brydlon a sut bynnag o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor i ryddhau'r plentyn neu'r person ifanc rhag cael eu cadw yn gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod tymor yn gymwys os yw'n anymarferol i'r ysgol neu'r SAB wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | | |
| 15.60 | Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, **rhaid** i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor a, lle mae o'r farn bod ceisio cyngor o'r fath yn fuddiol, **rhaid** iddo wneud hynny. | Ystyried a cheisio cyngor | Isel<br><br>Ni fydd ystyriaeth yn rhy feichus, ac mae'n debygol y daw yn rhan o'r broses. Gan fod seicolegwyr addysg eisoes yn rhan o'r system bresennol, nod y ddarpariaeth newydd hon yw safoni'r broses yn hytrach na chreu rhywbeth newydd sbon. Felly, bydd ceisio cyngor ond yn dasg weinyddol fach. |
| 17.32 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol nodi'n gyntaf a oes gan y person ifanc ganlyniadau dymunol a beth ydynt. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Dylai awdurdodau lleol eisoes fod yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn deall anghenion yr unigolion a gallai hyn gynnwys mewn perthynas â nodi canlyniadau dymunol.<br><br>Mewn llawer o achosion, bydd yr ALI yn ymwybodol o'r unigolyn drwy unrhyw ymgysylltu blaenorol ag ef/hi drwy broses y CDU. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.36 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried pa raglenni astudio a all fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ganlyniadau dymunol. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 17.38 | Fel arall, **rhaid** i'r awdurdod lleol yn gyntaf ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir neu SABau prif ffrwd (gallai hyn gynnwys ysgolion a SABau o'r fath yn Lloegr). Yn amlach na pheidio, gall y lleoliadau hynny gynnig rhaglen astudio addas i berson ifanc ag ADY a byddai anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY yn cael eu diwallu wrth ymgymryd â hi. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 31.12 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n ymgymryd â'r trefniadau hyn yn ddiduedd o ran canlyniad unrhyw anghytundebau posibl. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Efallai y bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant neu ganllawiau i'r staff er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa am eu dyletswyddau. |
| 32.13 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu eu dewisiadau a'u hanghenion cyfathrebu (gweler Pennod 3 ar gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc). | Gwybodaeth hygyrch | Isel neu ganolig<br><br>Dylai pob awdurdod lleol eisoes sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ganddo i'r cyhoedd yn hygyrch. Efallai y bydd cost untro am baratoi'r deunyddiau hyn, ond |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fawr ddim costau parhaus. |
| 32.11 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn deall y system ADY yn fanwl. Er mwyn gwneud hynny, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am y trefniadau yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol, a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella safonau. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Gall yr hyfforddiant hwn gael ei addasu o ddeunydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru, gan gadw'r gost yn isel. |
| 32.63 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob eiriolwr:<br>(a) yn deall y system ADY gan gynnwys y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys;<br>(b) yn meddu ar hyfforddiant priodol, gan gynnwys ym maes cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ac unigolion ag anawsterau cyfathrebu, gan barhau i dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol a gwella safonau;<br>(c) yn meddu ar wybodaeth berthnasol am ADY y plentyn neu'r person ifanc;<br>(d) yn cadw cofnodion cyfrinachol;<br>(e) nad ydynt wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant (yn achos eiriolwyr plant) neu gydag oedolion (yn achos eiriolwyr pobl ifanc y credir eu bod yn "wynebu risg"). Os nad oes gan y darparwyr eiriolaeth y wybodaeth hon, **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y darparwyr yn gwneud cais am ddatgeliad manylach a gwiriad o restr y rhai sydd wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn symud ymlaen. | Hyfforddiant | Isel neu ganolig<br><br>Dylai costau hyfforddi eiriolwyr fod yn gymharol isel. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer y system ADY a bydd yn darparu deunydd hyfforddiant am ddim ar-lein.<br><br>Efallai y bydd yn cymryd peth amser i hyfforddi pawb, ond o ystyried y niferoedd bach dan sylw, dylai'r gost fod yn isel. |

## 8. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft rhwng mis 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn ystyried sylwadau a gwneud gwelliannau cyn ei osod gerbron Senedd Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i anelu at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau yn y trydydd sector ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnwyd 65 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymdrin â phum thema:

1. Y Cod ADY drafft;
2. Rheoliadau drafft ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru;
3. Rheoliadau drafft ar gyfer Cydlynwyr ADY;
4. Plant sy'n derbyn gofal;
5. Effaith y cynigion.

Ymatebodd cyfanswm o 644 o bobl i'r prif ymgynghoriad. Mae adroddiad cryno ar gael yma.

Roedd y prif themâu a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- nifer mawr yn gofyn am i lawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft gael eu troi'n enghreifftiau o “rhaid”;
- pryder am arddull yr iaith a ddefnyddir yn y Cod ADY drafft;
- materion o ran darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu;
- ceisiadau am ganllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodir mewn canllawiau statudol eraill;
- pryderon y byddai'r system ADY newydd yn cael effaith ariannol fawr;
- ceisiadau i ddatblygu system electronig i gefnogi proses y CDU;
- gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft.

Ceir crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Cod ADY yn dilyn yr ymgynghoriad yn y tabl ar dudalen 14 o'r Memorandwm Esboniadol.

## 9. Asesu'r Gystadleuaeth

Ni fydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn effeithio ar fusnesau nac elusennau

na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo'r gystadleuaeth.

Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Ddeddf gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr presennol. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth gael eu hysgwyddo gan gyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn.

Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

Caiff y broses o gyflwyno'r system ADY newydd fesul cam ei monitro a'i gwerthuso gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses o'i rhoi ar waith ac ar ôl hynny. Yn ystod y broses o'i rhoi ar waith, bydd prif ffocws y gwaith ar gadarnhau i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Ddeddf ac ar ystyried effeithiau cychwynnol y Ddeddf drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredol o'r Ddeddf ymhen pum mlynedd; bydd hwn yn cynnwys astudiaeth llinell sylfaen o'r system bresennol er mwyn llywio'r gwaith o werthuso effaith y Ddeddf yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr astudiaeth llinell sylfaen gan Arad Research ym mis Chwefror 2019. Bydd yr adolygiad ôl-weithredol yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau'r Ddeddf i bobl ifanc a rhieni.

Mae adran 89 o'r Ddeddf ADY yn amlinellu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yng Nghymru a chyhoeddi adroddiad ar y canlyniad o fewn pum mlynedd i'r system newydd ddod i rym.

Yn y cyfamser, mae dyletswydd barhaus ar awdurdodau lleol o dan adran 63 o'r Ddeddf i adolygu'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd yn ddigonol ac yn briodol, mae'r Cod ADY yn nodi'r disgwyliadau ar y SACDA i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data cadarn i fesur ei gydymffurfiaeth â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Dylai hefyd fesur effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau ansawdd ei weithgareddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Mae hyn yn gwrthbwyso dyletswyddau tebyg ar awdurdodau lleol i sicrhau bod DDdY sy'n ymwneud ag iechyd a'r system ADY ei hun yn cael eu hadolygu'n barhaus, gan roi cyfle i wella systemau mewnol lle y bo angen.

# SL(5)780 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (y Prif Reoliadau). Mae diwygiadau i'r Prif Reoliadau yn ofynnol er mwyn sicrhau y gellir parhau i weithredu'r gyfraith.

Mae'r Prif Reoliadau yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru adennill ffioedd gan ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU ar gyfer categorïau penodol o ofal iechyd a ddarperir iddynt yng Nghymru, oni bai bod yr ymwelydd tramor, neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael, yn dod o fewn esemptiad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn eithrio unrhyw ymwelydd tramor sydd â hawl i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yn ddi-dâl yn rhinwedd hawl sy'n deillio o ddarpariaethau Protocol Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn sicrhau bod ymwelwyr o Iwerddon a Norwy yn parhau i fod wedi'u heithrio rhag talu am ofal penodol y GIG yn dilyn trefniadau gofal iechyd ddwyochrog newydd/diwygiedig rhwng y gwledydd hynny a'r DU.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Iwerddon a Norwy at Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau er mwyn adlewyrchu'r trefniadau gofal iechyd ddwyochrog y cytunwyd arnynt gan y DU a nodir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Iwerddon a chytundeb â Norwy yn y drefn honno. Daeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU ac Iwerddon a'r cytundeb rhwng y DU a Norwy i rym am 11:00pm ar 31 Rhagfyr 2020.

Gan i'r trefniadau hyn ddechrau dros 2 fis yn ôl, gofynnir i'r Llywodraeth egluro pam mae oedi cyn gwneud y Rheoliadau hyn. Gofynnir i'r Llywodraeth hefyd a yw'r oedi wrth wneud y Rheoliadau hyn wedi cael effaith andwyol ar unrhyw ymwelwyr o Iwerddon neu Norwy.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cafodd y Prif Reoliadau eu diwygio gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (Rheoliadau 2020). Ystyriodd y Pwyllgor Reoliadau 2020, a chododd ddau bwynt craffu: technegol a dau bwynt craffu: rhinweddau yn ei adroddiad ar Reoliadau 2020. Nododd y Llywodraeth y pwynt craffu: technegol cyntaf. Nododd ymatebion y Llywodraeth i'r ail bwynt craffu: technegol a'r ail bwynt craffu: rhinweddau y byddai'r Llywodraeth yn "*cywiro hyn cyn gynted â phosibl*".

Nodir yn benodol bod y pwynt technegol y cytunodd y Llywodraeth i'w gywiro yn ymwneud â diwygio Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau mewn perthynas â gwledydd sy'n aelodau o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA). Roedd adroddiad y Pwyllgor yn datgan:

> *"It is not clear why Lichtenstein is inserted into Schedule 2 to the Principal Regulations when Iceland is omitted."*

Mae'r diffyg eglurder hwn yn parhau o ran mewnosod Norwy yn yr Atodlen, ynghyd â Lichtenstein, tra bod Gwlad yr Iâ yn dal i gael ei hepgor.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

(a) pam na ddefnyddiwyd y Rheoliadau hyn fel cyfle i gywiro materion a nodwyd gan y Pwyllgor, ac a nododd Llywodraeth Cymru ac a ymrwymodd, mewn dau achos, i gywiro "*cyn gynted â phosibl*"; a

(b) pam mae Lichtenstein a Norwy wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau tra bod Gwlad yr Iâ yn parhau wedi'i hepgor.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:**

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu.

Ni newidiodd rhwymedigaeth Cymru i weithredu gofynion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Iwerddon a chytundeb gofal iechyd cilyddol gyda Norwy yn y drefn honno yn sgil yr oedi cyn gwneud y newidiadau hyn yng nghyfraith Cymru gan eu bod yn gosod rhwymedigaeth ar y DU gyfan.

Barnodd swyddogion hefyd y byddai symudiad pobl o Iwerddon a Norwy yn isel yn sgil cau ffiniau gwledydd ac argymhellion gan lywodraethau dros y misoedd diwethaf i beidio â theithio mewn ymateb i ymchwydd pellach mewn achosion o Covid. O ystyried hyn, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol torri'r rheol 21 o ddiwrnodau ar gyfer y rheoliadau diwygio.

Mae swyddogion wedi cael ar ddeall gan Fyrddau Iechyd Lleol nad yw cyflwyno'r Rheoliadau hyn yn hwyrach yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr wedi effeithio ar unrhyw ddinasyddion o Iwerddon na Norwy.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:**

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu.

Dylai swyddogion fod wedi defnyddio'r rheoliadau diwygio hyn fel cyfle i gywiro materion a oedd wedi eu codi'n flaenorol gan y Pwyllgor ac yr oedd swyddogion wedi eu nodi ac wedi ymrwymo i'w cywiro "*ar y cyfle cyntaf posibl*", mae hyn yn cynnwys dileu Liechtenstein a Sweden o Atodlen 2.

Roedd swyddogion wedi deall yn wreiddiol y byddai negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop ar gytundebau gofal iechyd cilyddol yn dod i ben ddechrau 2021 a'r bwriad oedd gwneud yr holl ddiwygiadau hyn gyda'i gilydd mewn ymdrech i leihau nifer yr Offerynnau Statudol a sicrhau gwell eglurder ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i'r swyddogion nad oedd y negodiadau hyn yn debygol o ddod i ben yn llawn cyn etholiadau'r Senedd, felly byddai peidio ag adlewyrchu darpariaethau Protocol Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r cytundebau gydag Iwerddon a Norwy yn Rheoliadau Ffioedd Cymru wedi golygu y byddai'r gyfraith yng Nghymru yn anghywir tan ar ôl yr etholiadau. O ganlyniad, gwnaed y rheoliadau diwygio ar y cyfle cynharaf er mwyn sicrhau bod y cyfnod o 21 o ddiwrnodau wedi dod i ben cyn toriad y Pasg ond yn anffodus ni chofiwyd gwneud y cywiriadau a nodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor a chollwyd cyfle i ddileu Liechtenstein a Sweden o Atodlen 2. Bydd y rhain i gyd yn cael eu cywiro yn y set nesaf o newidiadau i Reoliadau Ffioedd Cymru. Disgwylir i'r newidiadau hynny gael eu gwneud pan fydd Llywodraeth y DU yn llofnodi cytundebau gofal iechyd cilyddol gyda gwledydd Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop a phan fydd gofyn diwygio'r rhestr o wledydd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Ffioedd.

Bydd Sweden yn cael ei dileu o Atodlen 2 gan fod Sweden wedi ei chwmpasu gan ddarpariaethau Protocol Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU ac felly nid oes angen ei rhestru ar wahân yn Atodlen 2.

Mae'n gywir na ddylid cynnwys Liechtenstein na Gwlad yr Iâ yn Atodlen 2 hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi unrhyw gytundebau gofal iechyd cilyddol newydd yn eu lle gyda'r gwledydd hynny.

Dylid rhestru Norwy yn Atodlen 2, fodd bynnag, gan fod Llywodraeth y DU wedi adfer hen gytundeb gofal iechyd cilyddol gyda'r wlad hon sy'n darparu ar gyfer triniaeth gyfyngedig sy'n angenrheidiol yn feddygol ar gyfer deiliaid pasbort y DU hyd nes y rhoddir unrhyw gytundeb gofal iechyd cilyddol newydd yn ei le.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2021 Rhif 221 (Cy. 55)**

# YMADAEL Â’R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (“y prif Reoliadau”), sy’n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) i bersonau penodol nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod rheoliad 4E yn y prif Reoliadau i ddarparu y gall personau sydd o fewn cwmpas darpariaethau Protocol Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu gael gwasanaethau perthnasol yn ddi-dâl pan fo hawl yn codi o’r cytundeb.

Mae rheoliad 4 yn mewnosod Iwerddon a Norwy yn y rhestr o wledydd yn Atodlen 2 i’r prif Reoliadau, sy’n golygu na chaniateir codi nac adennill ffioedd mewn cysylltiad â gwasanaethau perthnasol a ddarperir i ymwelydd tramor pan fo darparu’r gwasanaethau hynny wedi ei gwmpasu gan y cytundeb cilyddol hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 221 (Cy. 55)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *3 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 124 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Mawrth 2021.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989**

**2.** Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) O.S. 1989/306; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/438, 1994/1535, 2004/1433 (Cy. 146), 2009/1512 (Cy.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Mewnosod rheoliad 4E**

**3.** Ar ôl rheoliad 4D (personau sy'n gwneud ceisiadau hwyr o dan Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo) mewnosoder—

"**Overseas visitors with Trade and Cooperation Agreement Rights**

**4E.**—(1) No charge may be made or recovered in respect of any relevant services provided to an overseas visitor who has an entitlement to the provision of those services without charge by virtue of a right arising from the SSC Protocol provisions of the Trade and Cooperation Agreement.

(2) In paragraph (1), "the SSC Protocol" has the same meaning as in section 26(5) of the European Union (Future Relationship) Act 2020(**1**) ("the 2020 Act") and "the Trade and Cooperation Agreement" has the same meaning as in section 37(1) of the 2020 Act."

**Diwygio Atodlen 2**

**4.** Yn Atodlen 2 (gwledydd neu diriogaethau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gytundeb cilyddol â hwy), yn y lleoedd priodol mewnosoder "Ireland" a "Norway".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
2 Mawrth 2021

148) a 3005 (Cy. 264), 2010/927 (Cy. 94), 2011/2906 (Cy. 310) a 2020/1607 (Cy. 334).
(**1**) 2020 p. 29.

**Explanatory Memorandum to the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) (Amendment) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021.**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Health and Social Services Department and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) (Amendment) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Vaughan Gething MS
**Minister for Health and Social Services**
3 March 2021

**PART 1**

## 1. Description

These Regulations amend the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) Regulations 1989 (SI 1989/306) (the Principal Regulations).

The Principal Regulations allow Local Health Boards (LHBs) in Wales to recover charges from overseas visitors who are not ordinarily resident in the United Kingdom (UK) for certain categories of healthcare provided to them in Wales, unless the overseas visitor, or the service they receive, falls within an exemption.

These Regulations are being made to ensure that they reflect the Social Security Co-ordination (SSC) Protocol provisions of the UK Trade and Cooperation Agreement (TCA) as a consequence of the UK's withdrawal from the European Union (EU); and to include new/revised reciprocal healthcare agreements. Amendments to the Principal Regulations are required to ensure that the law remains operable.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

None.

## 3. Legislative background

The instrument is being made under section 124 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (the 2006 Act) which confers a power on the Welsh Ministers to make regulations for the making and recovery of charges from persons who are not "ordinarily resident" in the United Kingdom for NHS services.

The instrument is also being made under section 203(9) and (10) of the 2006 Act and is subject to the negative resolution procedure.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

The regulations will make provision for those EU State visitors who have an entitlement to the provision of health services without charge by virtue of a right arising from the SSC Protocol provisions of the UK TCA and ensure that visitors from countries with new/revised reciprocal healthcare agreements with the UK remain exempt from charging for particular NHS care.

The Regulations:

- Provide an exemption to any overseas visitor who has an entitlement to the provision of health services without charge by virtue of a right arising from the SSC Protocol provisions of the UK TCA.
- Amend Schedule 2 to the Principal Regulations to add Ireland and Norway.

## 5. Consultation

No public consultation was undertaken. The purpose of the instrument is to enable the law still operates effectively as a consequence of the UK TCA with the European Union and updates the countries with reciprocal healthcare agreements with the UK.

## PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### 6. Options

Two options have been considered:

> Option 1: - Do nothing, retain the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) Regulations 1989 (SI 1989/306) as currently in force.
>
> Option 2: - Amend the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) Regulations 1989.

**Option 1: Do nothing, retain The National Health Service (Charges to Overseas Visitors) Regulations 1989 (SI 1989/306) as currently in force**

The UK left the EU on 31 December 2020, with a UK Trade and Cooperation Agreement (TCA).

Article 67 of the Social Security Co-ordination (SSC) Protocol (provisions of the UK TCA), notes that the Parties shall ensure in accordance with their domestic legislation that the provisions of the Protocol on Social Security Coordination have the force of law, either directly or through domestic legislation. The European Union (Future Relationship) Act 2020 (EU(FR)A) gives the SSC Protocol that effect.

The provisions in the SSC Protocol ensure that individuals who move between the UK and the EU in the future will have their social security position in respect of certain benefits protected. For example, where the UK or an EU Member State is responsible for the healthcare of an individual, they will be entitled to reciprocal healthcare cover. This includes certain categories of cross-border workers and state pensioners who retire to the UK or to the EU. In addition, the Protocol ensures necessary healthcare provisions – akin to those provided by the European Health Insurance Card (EHIC) scheme – continue. This means individuals who are temporarily staying in another country, for example a EU Member State national who is in the UK for a holiday, will have their necessary healthcare needs met for the period of their stay. The Protocol also protects the ability of individuals to seek authorisation to receive planned medical treatment in the UK or the EU, funded by their responsible State.

The UK has also agreed and signed a reciprocal healthcare memorandum of understanding (MOU) with Ireland (under the Common Travel Agreement (CTA)) in addition to Ireland being included in SSC/TCA.

The CTA is a long-standing arrangement between the UK, the Crown Dependencies (Bailiwick of Jersey, Bailiwick of Guernsey and the Isle of Man) and Ireland that pre-dates both British and Irish membership of the EU and is not dependent on it. The MOU is thus separate to the SSC/TCA arrangements (which also include Ireland) and therefore requires listing in Schedule 2 to the Principal Regulations for the law to be correct. However, the MOU is without prejudice to the SSC/TCA and will be reviewed by the UK and Ireland to clarify

the interaction between the two. However in the interim the MOU exists and should be included in Schedule 2 to the Principal Regulations.

Whilst Norway is one of the four countries outside of the TCA, in relation to reciprocal healthcare, the UK has revised and agreed a pre-EU reciprocal healthcare agreement with Norway which is currently being used until a more comprehensive agreement can be negotiated.

Not reflecting the SSC Protocol provisions of the UK TCA and the agreements with Ireland and Norway in the Welsh Charging Regulations would leave Welsh law incorrect, as the agreements are binding on the UK as a whole and Wales is required to implement them. There would also be a lack of clarity for our LHBs if the Welsh regulations do not reflect the UK position as they use the regulations in meeting their legal obligation to establish if people to whom they are providing NHS hospital services are chargeable or exempt from charging.

Under option 1 there would still be minimal impact on costs in the day to day delivery of the service as citizens from the EU and Norway were exempt from charging prior to 31 December 2020 and will remain exempt under the new UK level agreements. The SSC Protocol ensures the majority of existing reciprocal healthcare provisions – including those provided by the European Health Insurance Card (EHIC) scheme – continue. Where the UK is responsible for the healthcare of an individual, they will be entitled to reciprocal healthcare cover, as will citizens of EU countries covered by SSC Protocol or by individual healthcare agreements. The Local Health Boards currently receive a recurring annual allocation of £822,000 from Welsh Government for the treatment of overseas visitors who are not chargeable due to reciprocal healthcare agreements (this covers both EU and non EU agreements). The continuation of this allocation will assist LHBs in cases where no costs are recoverable from overseas visitors.

**Option 2: - Amend the National Health Service (Charges to Overseas Visitors) Regulations 1989**

The objective is to ensure the law remains operable reflecting the SSC Protocol provisions of the TCA and the UK reciprocal healthcare agreements with Ireland and Norway.

In summary, the amendment regulations will:

- Provide an exemption to any overseas visitor who has an entitlement to the provision of health services without charge by virtue of a right arising from the SSC Protocol provisions of the UK TCA.
- Amend Schedule 2 to the Principal Regulations to add Ireland and Norway.

The changes being made essentially relate to ensuring the law operates correctly now that the EU Exit implementation period has ended and the UK has agreed the Protocol on Social Security Coordination in the TCA and new/revised reciprocal healthcare agreements with Ireland and Norway.

Not making these changes would not change Wales' obligation to operate the requirements of the SSC Protocol of the TCA or the reciprocal healthcare

agreements with Ireland and Norway, as the SSC/TCA and all other reciprocal agreements are binding on the UK as a whole. However, there would be a lack of clarity for LHBs if the Welsh regulations do not reflect the UK position as they use the regulations in meeting their legal obligation to establish if people to whom they are providing NHS hospital services are chargeable or exempt from charging.

It is estimated that under option 2 there would be minimal impact on costs in the day to day delivery of the service as citizens from the EU and Norway were exempt from charging prior to the 31 December 2020. LHBs will continue to receive the current annual allocation of £822,000 from Welsh Government for the treatment of overseas visitors who are not chargeable due to reciprocal healthcare agreements (this covers both EU and non EU agreements). The continuation of this allocation will assist LHBs in cases where no costs are recoverable from overseas visitors.

# SL(5)782 – Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhan o gyfres o ddeddfwriaethau i gefnogi lansio Awdurdod Iechyd Arbennig newydd o'r enw Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Bydd swyddogaethau IGDC yn ymwneud â darparu platfformau, systemau a gwasanaethau digidol a chefnogi gwella systemau o'r fath. Hyd yma, mae nifer o'r swyddogaethau hyn wedi eu harfer gan Wasanaeth Gwybodeg Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru ("GGGC"). Mae GGGC yn rhan o'r cydwasanaethau a letyir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre ("Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre").

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff (erthygl 3), eiddo (erthygl 4), hawliau ac atebolrwyddau (erthygl 5) o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i IGDC.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth.

Mae erthygl 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad pethau a wneir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre neu mewn perthynas â hi.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhan o gyfres o bedwar darn o is-ddeddfwriaeth.

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *"The four statutory instruments being brought forward as part of the go-live of DHCW are being made together, are inextricably linked, and would be difficult to understand if read in isolation. It is therefore considered beneficial to bring forward a single composite Explanatory Memorandum and Regulatory Impact Assessment."*

Ar adeg ysgrifennu, dim ond dau o'r offerynnau sydd wedi'u gosod, a hynny ar 4 Mawrth 2021. O'r herwydd, bu angen ystyried y ddau offeryn hynny ar eu pennau eu hunain, heb gyfeirio at y ddau offeryn arall.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau: Lluniwyd Memorandwm Esboniadol ar y Cyd sy'n adlewyrchu'r ffaith bod pedwar darn o ddeddfwriaeth, sy'n ymwneud â sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a throsglwyddo Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn ofynnol cyn y bwriedir i'r sefydliad newydd ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2021. Dim ond dau o'r pedwar darn o ddeddfwriaeth yr oedd yn ofynnol eu gosod gerbron y Senedd - *Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) 2021; Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021*. Mae'r pedwar darn o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig o ran eu trefn, fel y caiff y sefydliad newydd weithredu o 1 Ebrill 2021 ymlaen ac felly mae'r Memorandwm Esboniadol ar y Cyd yn cyfeirio at bob un o'r pedwar.

Gellir gweld Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Diwygio) 2021 yma: 2021 Rhif 232 (Cy. 58). Bwriedir i Gyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2021 gael eu dyroddi ar 1 Ebrill 2021.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 233 (Cy. 59)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Awdurdod Iechyd Arbennig, Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC"), wedi cael ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd swyddogaethau IGDC yn ymwneud â darparu platfformau, systemau a gwasanaethau digidol a chefnogi gwella systemau o'r fath. Hyd yma, mae nifer o'r swyddogaethau hyn wedi eu harfer gan Wasanaeth Gwybodeg Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru ("GGGC"). Mae GGGC yn rhan o'r cydwasanaethau a letyir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre ("Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre").

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff (erthygl 3), eiddo (erthygl 4), hawliau ac atebolrwyddau (erthygl 5) o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i IGDC.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth.

Mae erthygl 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad pethau a wneir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre neu mewn perthynas â hi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 233 (Cy. 59)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *4 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 22(2) a (4) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 22(7) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2021;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*;*

ystyr "GGGC" ("*NWIS*") yw Gwasanaeth Gwybodeg Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;

(**1**) 2006 p. 42.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "IGDC" ("*DHCW*") yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020(**1**);

ystyr "swyddogaethau GGGC" ("*NWIS's functions*") yw rheoli a darparu ystod o systemau technoleg gwybodaeth a gwasanaethau cymorth ac ymgynghori cysylltiedig, gwasanaethau bwrdd gwaith, datblygu'r we, gwasanaethau telathrebu a gwasanaethau gwybodaeth gofal iechyd i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu mewn perthynas ag ef;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre" ("*Velindre University NHS Trust*") yw'r Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**2**).

**Trosglwyddo staff i IGDC**

**3.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw berson—

(a) sydd wedi ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â swyddogaethau GGGC, a

(b) sydd wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre cyn y dyddiad trosglwyddo ei fod i'w drosglwyddo i IGDC.

(2) Mae contract cyflogaeth unrhyw berson y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'w drosglwyddo i IGDC.

(3) O ran contract cyflogaeth person y mae ei gyflogaeth wedi ei throsglwyddo i IGDC o dan baragraff (2)—

(a) nid yw'r trosglwyddiad yn ei derfynu, a

(b) mae'n cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw ac IGDC.

(4) Heb ragfarnu paragraff (3)—

(a) mae holl hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gontract cyflogaeth unrhyw berson y trosglwyddwyd ei gyflogaeth i IGDC ar y dyddiad trosglwyddo o dan baragraff (2), neu mewn cysylltiad â'r contract hwnnw, i'w trosglwyddo i IGDC, a

(**1**) O.S. 2020/1451 (Cy. 313).
(**2**) O.S. 1993/2838, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/826, O.S. 2002/442 (Cy. 57), O.S. 2002/2199 (Cy. 219), O.S. 2009/2059 (Cy. 178), O.S. 2012/1262 (Cy. 157), O.S. 2017/912 (Cy. 223), ac O.S. 2018/887 (Cy. 176).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) bernir bod unrhyw weithred neu anweithred cyn y dyddiad trosglwyddo gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre neu mewn perthynas â hi, mewn cysylltiad â'r person hwnnw neu gontract cyflogaeth y person hwnnw, yn weithred neu anweithred gan IGDC neu mewn perthynas ag ef.

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn cael effaith i drosglwyddo contract cyflogaeth person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, neu unrhyw hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau o dan y contract hwnnw neu mewn cysylltiad ag ef, os yw'r person hwnnw, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn rhoi gwybod i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ei fod yn gwrthwynebu dod yn gyflogedig gan IGDC.

(6) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo wedi gwrthwynebu trosglwyddo ei gontract cyflogaeth i IGDC fel y'i disgrifir ym mharagraff (5), mae'r trosglwyddiad yn gweithredu er mwyn terfynu contract cyflogaeth y person hwnnw ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), nid yw person y mae ei gontract cyflogaeth yn cael ei derfynu yn unol â pharagraff (6) i'w drin, at unrhyw ddiben, fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(8) Pan fo'r trosglwyddiad yn golygu, neu pan fyddai'n golygu, newid sylweddol yn yr amodau gwaith gan arwain at niwed sylweddol i berson y mae ei gyflogaeth yn cael ei throsglwyddo neu y byddai ei gyflogaeth wedi cael ei throsglwyddo o dan baragraff (2), caiff y person hwnnw drin y contract cyflogaeth fel pe bai wedi cael ei derfynu, ac mae'r person hwnnw i'w drin at unrhyw ddiben fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(9) Nid yw unrhyw iawndal i fod yn daladwy gan gyflogwr o ganlyniad i ddiswyddo sy'n dod o fewn paragraff (8) mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gan y cyflogwr i dalu cyflog i berson mewn cysylltiad â chyfnod rhybudd y mae'r person wedi methu â'i weithio.

(10) Nid yw paragraffau (2), (3), a (5) i (8) yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan berson sy'n codi ar wahân i'r erthygl hon i derfynu contract cyflogaeth y person hwnnw heb rybudd wrth dderbyn tor contract ymwrthodol gan y cyflogwr.

(11) Mae cofnodion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n ymwneud â chyflogaeth y personau hynny y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt ac y mae eu contractau cyflogaeth i'w trosglwyddo i IGDC yn unol â'r erthygl hon i'w trosglwyddo i IGDC ar y dyddiad trosglwyddo.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Trosglwyddo eiddo**

**4.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i eiddo a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn union cyn y dyddiad trosglwyddo—

(a) a nodir yn yr Atodlen;

(b) a ddefnyddir neu a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre—

(i) ar gyfer cyflawni swyddogaethau GGGC, neu

(ii) mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau GGGC.

(2) Mae unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i IGDC.

(3) Mae unrhyw hawliau neu atebolrwyddau sydd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas ag unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w trosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i IGDC.

(4) Mae unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo sy'n dir neu'n adeiladau yn cael ei drosglwyddo yn ddarostyngedig i, a chyda budd, y canlynol—

(a) unrhyw lesoedd, tenantiaethau a thrwyddedau presennol ac unrhyw hawliau sydd gan feddianwyr a'u holynwyr;

(b) unrhyw fuddiant arall yn yr eiddo, ac unrhyw fater sy'n effeithio arno.

(5) Ym mharagraff (4), mae trosglwyddo "eiddo" yn cynnwys trosglwyddo cynnwys yr eiddo, gan gynnwys unrhyw eitem neu eiddo o ba ddisgrifiad bynnag—

(a) sy'n eiddo Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, a

(b) sy'n bresennol yn neu ar yr eiddo ar y dyddiad trosglwyddo,

gan gynnwys unrhyw gerbyd neu eiddo symudol sydd fel arfer yn cael ei gadw ar y tir hwnnw neu yn yr adeiladau hynny pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

**Trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau**

**5.**—(1) Mae unrhyw hawliau ac atebolrwyddau sydd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrth arfer swyddogaethau GGGC, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i IGDC.

(2) Mae unrhyw atebolrwyddau sydd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrth arfer swyddogaethau GGGC, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, yn orfodadawy yn erbyn IGDC.

**Trosglwyddo gwybodaeth, data a chofnodion**

**6.**—(1) Mae unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau sydd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, mewn perthynas â gwybodaeth, data a chofnodion sy'n ymwneud ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrth arfer swyddogaethau GGGC neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i IGDC.

(2) Mae trosglwyddo unrhyw wybodaeth, data a chofnodion y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau trydydd parti sy'n bodoli mewn perthynas â'r wybodaeth honno neu'r data hynny a'r cofnodion hynny.

**Darpariaeth ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau**

**7.**—(1) Mae unrhyw beth sydd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi cael ei wneud neu wrthi'n cael ei wneud gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, neu mewn perthynas â hi wrth arfer swyddogaethau GGGC, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i gael effaith ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo fel pe bai'n cael ei wneud gan IGDC neu mewn perthynas ag ef.

(2) I'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i baragraff (1), mae cyfeiriad mewn unrhyw ddogfen at Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i'w ddehongli ar ac ar ôl y dyddiad trosglwyddo fel cyfeiriad at IGDC.

(3) Yn ddarostyngedig i erthygl 3(8), nid yw unrhyw hawl i derfynu neu i amrywio contract, trefniant neu offeryn i weithredu neu i ddod yn arferadwy, ac nid yw unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw gontract, trefniant neu offeryn i weithredu neu i ddod yn arferadwy neu i gael ei thorri, oherwydd unrhyw drosglwyddiad o dan y Gorchymyn hwn neu oherwydd unrhyw weithrediad arall o'r Gorchymyn hwn.

(4) Mae'r trosglwyddiadau y darperir ar eu cyfer gan y Gorchymyn hwn i'w gwneud—

(a) ni waeth a oes unrhyw ofyniad ar gyfer cydsyniad a fyddai fel arall yn gymwys (pa un a yw'n codi o dan unrhyw ddeddfiad, offeryn, cytundeb neu fel arall),

(b) pa un a fyddent fel arall yn gallu cael eu trosglwyddo ai peidio, ac

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ni waeth a oes unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn atal y trosglwyddiadau hynny neu'n cyfyngu arnynt.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2021

## YR ATODLEN

Erthygl 4

## Eiddo sy'n Trosglwyddo i IGDC

Les ddyddiedig 4 Ionawr 2016 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Second Horizon Limited (2)

Les ddyddiedig 28 Ionawr 2020 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Second Horizon Limited (2) mewn perthynas â Bocam Park

Les ddyddiedig 18 Rhagfyr 2019 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Castlebridge Investments Ltd (2) mewn perthynas â Castlebridge

Les ddyddiedig 29 Gorffennaf 2013 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Johnsey Estates UK Limited (2) mewn perthynas â Mamhilad Park Estate (y llawr gwaelod)

Les ddyddiedig 29 Gorffennaf 2013 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Johnsey Estates UK Limited (2) mewn perthynas â Mamhilad Park Estate (y llawr cyntaf)

Les ddyddiedig 29 Gorffennaf 2013 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Johnsey Estates UK Limited (2) mewn perthynas â Mamhilad Park Estate (yr ail lawr)

Les ddyddiedig 1 Ebrill 2016 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2) mewn perthynas â Technium 2 (rhan o'r llawr cyntaf)

Les ddyddiedig 1 Ebrill 2016 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (2) mewn perthynas â Technium 2 (The Madoc room)

Les ddyddiedig 8 Rhagfyr 2014 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Mark Andrews & Others (2) mewn perthynas â Thŷ Glan-yr-Afon

Les ddyddiedig 14 Mai 2018 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Mark

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Andrews & Others (2) mewn perthynas â Thŷ Glan-yr-Afon

Les ddyddiedig 10 Ionawr 2021 a wnaed rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (1) a Mojo 2 Limited (2) mewn perthynas â Media Point

**Explanatory Memorandum** to

**The Digital Health and Care Wales (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2021;**

**The Velindre National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2021;**

**The Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) (Amendment) Regulations 2021**

And

**The Digital Health and Care Wales (No.2) Directions 2021**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Health and Social Services and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the **Digital Health and Care Wales (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2021,** the **Velindre National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2021,** the **Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) (Amendment) Regulations 2021** and the **Digital Health and Care Wales (No.2) Directions 2021**.

I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Vaughan Gething**

Minister for Health and Social Services

4 March 2021

## 1. Description

1.1 The Legislation summarised below will support the launch of a new Special Health Authority called Digital Health and Care Wales (DHCW).

**a. The Digital Health and Care Wales (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2021**

1.2 The order provides for the transfer of NWIS staff, property, rights and liabilities from Velindre NHS Trust into Digital Health and Care Wales.

**b. The Velindre National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2021**

1.3 This Order makes an amendment to the existing Velindre Establishment Order to reflect the transfer of NWIS functions from Velindre NHS Trust into Digital Health and Care Wales.

**c. The Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) (Amendment) Regulations 2021**

1.4 This amends the existing Shared Services Committee Regulations to make provision for the Chief Officers of Special Health Authorities established by Welsh Ministers to become members of the NHS Wales Shared Services Partnership Committee.

**d. The Digital Health and Care Wales (No.2) Directions 2021**

1.5 This sets out the functions that DHCW is to perform, building on the principal functions set out in the Digital Health and Care (Establishment) Order 2020. These functions have been developed following a public consultation process that ran from 7 September 2020 to 30 November 2020.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

2.1 The four statutory instruments being brought forward as part of the go-live of DHCW are being made together, are inextricably linked, and would be difficult to understand if read in isolation. It is therefore considered beneficial to bring forward a single composite Explanatory Memorandum and Regulatory Impact Assessment.

## 3. Legislative background

3.1 The Welsh Ministers have powers in section 22 of the National Health Service (Wales) Act 2006 ('the 2006 Act') to establish a Special Health Authority for the purpose of exercising any functions which may be conferred on them by or under the 2006 Act.

3.2 Section 22(7) of the 2006 Act provides that the Welsh Ministers must, before they make orders in relation to Special Health Authorities, consult with respect to the order such bodies as they may recognise are representing officers who in the opinion of the Welsh Ministers are likely to be transferred or affected by transfers in pursuance of the order.

3.3 Section 24 of the 2006 Act also provides that the Welsh Ministers may direct a Special Health Authority to exercise any functions of the Welsh Ministers relating to the health service which are specified in directions.

## 4 Purpose & intended effect of the legislation

Background

4.1 The NHS Wales Informatics Service ('NWIS') is the organisation leading on the delivery of national digital health and care services for NHS Wales. Established on 1 April 2010 (as part of the NHS Wales Healthcare Reform Programme) it brought together:

- Informing Healthcare (IHC),
- Health Solutions Wales (HSW),
- Business Services Centre (Information Management and Technology element only),
- Corporate Health Information Programme (CHIP), and the
- Primary Care Informatics Programme (PCIP).

4.2 NWIS is a non-statutory organisation, hosted under the statutory framework of Velindre NHS Trust. It has its own Directors and Corporate Structure, with staff located across Wales.

Purpose

4.3 In 2019, Welsh Government commissioned two major reviews of digital delivery in Wales looking at how digital systems are designed to work together ('the Digital Architecture Review') and at delivery structures and decision-making arrangements ('the Digital Governance Review'). These two reviews provide the context to our approach and delivery.

4.4 Given the sensitivity of the recommendations raised by the 'Digital Governance Review', officials developed options based on the general engagement undertaken by both reviews, including the stakeholder task and finish groups, on consideration of existing governance and hosting models across NHS Wales (which provide several examples of different approaches), and discussions with the Minister.

4.5 In a written statement on 30 September 2019, the Minister for Health and Social Services announced:

*"The NHS Wales Informatics Service (NWIS) will transition from its current structure, as part of Velindre Trust, to a new Special Health Authority. Establishing our national digital services organisation as a dedicated organisation reflects the importance of digital technology as a key enabler of change, as set out in A Healthier Wales. This change will strengthen governance and accountability, both in terms of relationships with other NHS Wales organisations and through stronger leadership and oversight, through an independent chair and board members, with experience and understanding of digital change."*

4.6 On 30 December 2020, Digital Health and Care Wales was established through the Digital Health and Care Wales (Establishment and Membership) Order 2020.

<u>Intended effect of the legislation</u>

*The Digital Health and Care Wales (Transfer of staff, property, rights and liabilities) Order 2021 ("the Transfer Order")*

4.7 The Transfer Order makes provision for the transfer of particular staff, property, rights and liabilities from Velindre University NHS Trust to Digital Health and Care Wales on 1 April 2021.

4.8 The Transfer Order transfers the contracts of employment of Velindre employees who are employed in connection with the discharge of NWIS functions and who have been notified in writing by Velindre ahead of 1 April that they are to be transferred into DHCW.

4.9 The Transfer Order also transfers property, rights and liabilities from Velindre to DHCW. This includes the transfer of leases for all accommodation and estates currently occupied by NWIS, as well as commercial agreements made by Velindre on behalf of NWIS and any information, data and records that relate to Velindre in the exercise of, or in connection with, NWIS functions.

*The Velindre National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2021 ("the Amendment Order")*

4.10 The Amendment Order amends the Velindre National Health Service Trust (Establishment) Order 1993 to remove those functions currently being exercised by NWIS, this is to reflect that these functions will now be conferred on DHCW.

*The Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) (Amendments) Regulations 2021("the Shared Service Regulations")*

4.11 The Shared Service Regulations amend the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) Regulations 2012 ("the 2012 Regulations"). The 2012 Regulations make provision for the

establishment, functions, constitution and membership of the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee. Regulation 5 provides that the members of the committee consist of a chair, the chief officers or their nominated representatives; and the person who has been designated as the accountable officer for shared services. Chief Officer is defined in regulation 2 as meaning the chief officer of each LHB and NHS Trust. The Shared Services Regulations amend the definition of 'chief officer' in regulation 2 to include a chief officer or chief executive of a SHA established by the Welsh Ministers under section 22 of the Act. This means that in addition to chief officers of the LHBs and Trusts, the Shared Services Committee will include the chief officer of HEIW and the chief executive of DHCW and any other SHA that is established by the Welsh Ministers.

*The Digital Health and Care Wales (No.2) Directions 2021 ("the Functions Directions")*

4.12 Sections 23(1) of the National Health Service (Wales) Act 2006 gives Welsh Ministers the power to provide Directions to Special Health Authorities. Section 24(1) gives Welsh Ministers the power to direct a Special Health Authority to exercise any of the functions of the Welsh Ministers in relation to the health service.

4.13 The Functions Directions were developed following a public consultation on the proposed functions for DHCW. They set out a broad range of functions, some of which were previously delivered by NWIS.

4.14 The Functions Directions are designed to provide DHCW with the necessary scope to design, develop, deliver and support national digital platforms, systems and services. The Functions Directions also cover a range of additional areas such as workforce development, information governance, data collection and cyber security. The Functions Directions are intended to provide DHCW with the basis to deliver digital transformation within Health and Care in Wales in line with the strategic policy objectives of the Welsh Government.

## 5 Consultation

5.1 Between 7 September 2020 and 30 November 2020, Welsh Government sought views from stakeholders on the proposed functions of a new Special Health Authority called Digital Health and Care Wales (DHCW).

5.2 The consultation described why Welsh Government are proposing the change; the proposed functions currently being undertaken by NHS Wales Informatics Service (NWIS) that will be taken forward by DHCW; and how these functions can facilitate the evolution of digital maturity across the health and care sector in Wales.

5.3 The consultation requested views on the following areas and stakeholders were asked to submit their comments via an online form, email or post.

- The proposed functions of DHCW.
- The proposed board structure for DHCW.
- Whether one or more of the proposed functions of DHCW overlaps with a function already being undertaken by a different organisation in Wales (that is not NWIS).
- Additional functions that should be included within the responsibility of DHCW.
- Any impacts the proposed functions may have on the Welsh language.

5.4 There were a total of seventy eight responses to the consultation. Some of the written responses reflected the consolidated views of organisations within NHS Wales.

5.5 In general, responses tended to elicit comments from respondents which were broadly supportive of the proposals. The open nature of the consultation form meant many provided additional information, added caveats or raised issues for further consideration. These were varied and, in many cases, were specific to the respondent and/or the organisation that they represented.

5.6 Some cross-cutting issues included the need to integrate any changes in the context of the current policy landscape and with regard to existing structures, as well as to learn from and use the experience of existing bodies and programmes and the need to share best practice.

5.7 The consultation focussed on the proposed functions of DHCW, however, some respondents highlighted operational concerns for the new organisation which do not directly correlate to the functions Welsh Government propose to confer on DHCW. Where this is the case these concerns will be highlighted for consideration by the DHCW board once appointed.

5.8 A published summary of the responses can be found here: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-02/digital-special-health-authority-for-wales-summary-of-responses.pdf

## PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### 1. Approach

1.1 In developing this RIA, the Welsh Government considered the costs and implications of the Establishment of Digital Health and Care Wales and the associated transfer of staff, property, assets and liabilities associated with the Transfer Order. The legislation set out in the EM above relates directly to the transfer from Velindre to DHCW of NWIS staff, property, liabilities and functions. This means that the cost implications of the Transfer apply only to the creation of additional governance arrangements to ensure that the appropriate assurance and accountability is provided for the delivery of digital services that DCHW will provide to NHS Wales. The RIA therefore sets out the cost implications of the establishment of DHCW and its Board arrangements and not the transfer of staff, property, liabilities and functions as these are part of the core budgetary allocation provided by Welsh Government to NWIS, which will also be transferring to DHCW.

1.2 The financial implications of the Velindre Amendment Order and Shared Services Regulations are not expected to give rise to any significant additional costs so are not considered as part of this RIA.

### 2. Options

2.1 The Welsh Government considered a number of options in response to the recommendations made in the 'the Digital Architecture Review' and 'the Digital Governance Review'. These options were:

1. Do Nothing
2. No change of structure, but add a 'joint committee' governance wrapper around NWIS in Velindre
3. Move NWIS to another organisation such as Public Health Wales, HEIW or the NHS Executive
4. Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority

2.2 An assessment was made of the extent to which each of these options delivers the recommendations made in the two commissioned reports.

**Option 1 – Do Nothing**

2.3 This option would not address any of the recommendations from the Wales Audit Office (WAO) and Public Accounts Committee (PAC) reports or the Governance Review. Pursuing this option would further undermine confidence and engagement across NHS Wales and could have a detrimental impact on the reputation of Welsh Ministers and the ability to deliver/develop national digital systems and services.

2.4 This option was therefore **rejected** but is retained in the RIA to act as the baseline against which to assess the costs and benefits of the alternative options.

**Option 2 – No change of structure, but add a 'joint committee' governance wrapper around NWIS in Velindre**

2.5 While this option would address some of the recommendations from the WAO and PAC reports around governance and accountability and would move towards a 'shared services' model as described in the governance review, it was felt this option would maintain the currently ambiguous hosting arrangements, lack financial accountability and would be seen as a largely 'cosmetic' change. For these reasons, this option was **rejected.**

**Option 3 – Move NWIS to another organisation such as Public Health Wales, HEIW or the NHS Executive**

2.6 This option would go further than options 1 and 2 in addressing the recommendations by the WAO and PAC, showing 'significant' change. However, this approach stops short of addressing the key governance changes required. There would however be some disruption in transitioning from Velindre to a different organisation with different processes and requirements, even within the wider NHS Wales system. Given the scale of NWIS there could also be an impact on the receiving organisation which could distract senior leadership from their existing priorities and focus. As a result, this option was **rejected.**

**Option 4: Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority**

2.7 This option was felt to address the WAO and PAC recommendations to their fullest extent, and to maximise the direct and transparent accountability of NWIS as a national digital service. As such, this option was identified as the **preferred option**.

2.8 In September 2019, the Minister for Health and Social Services announced his intention to transition the NHS Wales Information Service (NWIS) into a Special Health Authority.

2.9 In light of the above, the following options have been taken forward for further consideration in the RIA:

- Option 1 – Do Nothing
- Option 4 - Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority

## 3. Costs

**Option 1 – Do Nothing**

**Costs**

2.1 This is the baseline option and as such, there are no additional costs associated with this option.

**Benefits**

2.2 Given that current systems would continue, there would be no benefits to this option in terms of value for money against the investment made into this area of the system. However, there would be a benefit in that no additional establishment or transitional costs would be required. There would be no policy benefit in relation to digital services across the NHS in Wales. There could however, be an unquantifiable potential benefit for the staff involved, in that they would continue within their current roles, organisations and locations.

**Option 4 (Preferred Option) - Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority**

**Costs**

2.3 This option is likely to require more resources than options 1, 2 and 3, although the task is relatively straightforward (compared for example to establishing HEIW) because NWIS is an established organisation with existing people, premises, processes and policies.

2.4 There would also be costs associated with transitioning NWIS into a 'clean' SHA and establishing a new Board. These costs have been identified as **£2m** per annum and have been benchmarked against similar sized NHS Wales organisations to ensure that the funding level is appropriate.

2.5 The costs to "Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority" will mainly be incurred in the 2020-21 financial year. However, some costs may flow into 2021-22 to support programme closure activity.

2.6 The costs for the operation of the DHCW Board will be recurring costs for each financial year beyond 1 April 2021.

| Resource | Description | Cost |
|---|---|---|
| Programme Team | Costs for Programme Team<br><br>*Staff costs incurred by Welsh Government to deliver the programme.* | £160,000 |
| Legal | Costs for Legal Advice and Legislative Drafting<br><br>*Legal costs incurred by Welsh Government to provide legal advice and drafting of legislation.* | £20,000 |
| Communications and Engagement | Costs for Communications and Engagement Activities<br><br>*Wider communication and engagement activities to support the programme.* | £10,000 |

| | | |
|---|---|---|
| People | Non-Officer Member costs.<br><br>*Remuneration and associated costs for a Chair, Vice Chair and Five independent members.* | £126,500 |
| Other Costs | Other Ad hoc programme costs (such as Gateway Reviews etc.). | £20,000 |
| Transition Costs | See **Appendix B** for details | £717,800 |
| SHA Board Operational Costs | Recurring annual costs for the running of Board activities, statutory and mandatory processes and governance activities | £2,000,000 |
| | **Total** | **£3,054,300** |

**Benefits**

2.7 There are some short-term benefits linked to the governance and transparency of establishing the new SHA, which are set out below:

2.7.1 Establishment of NHS Wales Organisation, with its own Board and governance arrangements, with a specific remit and responsibility for Digital Services

2.7.2 An all-Wales organisation with a clear legal basis for the collection, processing, analysis and dissemination of Welsh Citizen data.

2.7.3 Clear lines of accountability, underpinned by Board Governance arrangements.

2.7.4 Establishment and 'bedding in' of transparent reporting arrangements for the delivery of digital health and care services in Wales.

2.7.5 The creation of a strong and robust board to lead on the governance and delivery of DHCW's vision and strategy

2.8 Longer term benefits the new organisation will provide across the system in Wales will be identified and addressed by the Board of the new organisation as part of their business and IMTP plans.

**4. Summary**

3.1 Option 4 provides opportunities for a clean break, which allows addressing the recommendations of the Wales Audit Office and Public Accounts Committee to the fullest, without negatively affecting the digital services provided to professionals and patients.

3.2 Aligning the Special Health Authority to a new formalised governance framework will not just improve transparency, reporting and accountability of digital services within NWIS Wales but will also provide much needed confidence across the system that the changes undertaken are substantial in nature and not just cosmetic.

**5. Consultation**

Wales Audit Office Review - Informatics Systems in NHS Wales – 10 January 2018

4.1 Work to develop policy in this area started in 2018 when the Wales Audit Officer (now Audit Wales) commissioned a review into Informatics Systems in NHS Wales. Whilst compiling their report, the WAO interviewed a range of people including Welsh Government officials, NWIS Staff and a range of officers from Health Boards and Trusts.

The Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales – January 2018

4.2 The Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales was undertaken in January 2018. In formulating their views, the Parliamentary Review heard from a wide range of people including members of the public, service users, staff in health and social care, and the third sector, and considered evidence about national and international models of care.

Public Accounts Committee Report – November 2018

4.3 Based on the recommendations set out in the Wales Audit Officer and Parliamentary Review, the Public Accounts Committee agreed to undertake an inquiry into informatics systems in NHS Wales, covering a wide range of issues. The Committee received extensive written and oral evidence as part of their inquiry. There have been a number of Public Accounts Committee Evidence Sessions to date and the transcripts of all oral evidence sessions and written evidence received are openly available[1].

The NHS Wales Digital Architecture Review

4.4 Welsh Government and NHS Wales engaged Channel 3 Consulting to undertake a review of the NHS Wales Digital Architecture, recognising the ambition for digital transformation across Wales at pace.

4.5 The focus of this review was to assess the extent to which the current Digital Architecture of NHS Wales is ready to meet the ambition set out in "A Healthier Wales", and whether it is scalable to support digital transformation across Welsh health and social care.

4.6 The review involved technical reviews with NWIS and workshops and interviews with over one hundred key stakeholders from NWIS, all Health Boards, and the universities, augmented by three "deep dives" at Aneurin Bevan and Cwm Taf Heath Boards, and Public Health Wales Trust.

The NHS Wales Digital Governance Review

[1] http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20803

4.7 The review had a whole system scope, covering local and national services, all NHS services, and the Welsh Community Care Information System (WCCIS) and undertaken by independent consultants, who engaged very widely with all stakeholders across Wales, including NHS Wales Informatics Service (NWIS) and Velindre NHS Trust.

4.8 The Review engaged widely with stakeholders on an open and collaborative basis. The findings and recommendations from the Review have been widely shared with NHS Wales Stakeholders through an engagement programme.

4.9 The Digital Governance Review found that there was widespread support for change across NHS Wales.

The Ministerial Written Statement – 30 September 2019

4.10 In his written statement, the Minister for Health and Social Services set out actions in response to the two reviews, which has been widely reported announcing that:

> *"The NHS Wales Informatics Service (NWIS) will transition from its current structure, as part of Velindre Trust, to a new Special Health Authority. Establishing our national digital services organisation as a dedicated organisation reflects the importance of digital technology as a key enabler of change, as set out in A Healthier Wales. This change will strengthen governance and accountability, both in terms of relationships with other NHS Wales organisations and through stronger leadership and oversight, through an independent chair and board members, with experience and understanding of digital change."*

4.11 The Minister for Health and Social Services also agreed there should be a new set of arrangements for Wales in regards to delivering informatics and Digital transformation. This will help underpin key commitments published by Welsh Government such as A Healthier Wales and Informed Health and Care Strategy. Officials therefore consider there is a mandate for this change

External Consultation

4.12 Welsh Government published a consultation on the functions of the Digital Special Health Authority for Wales on 7 September 2020 and ran for twelve weeks, closing on 30 November 2020.

4.13 The high level functions subject to consultation were as follows:

- Application Development and Support
- Digital Services design, commissioning, planning & delivery
- Information and Communications Technology
- Quality Management & Regulatory Compliance
- Information Management

- Information Governance
- Cyber Security
- Finance and Business Assurance
- Reporting Services
- Workforce Improvement

4.14 Overall, the consultation responses welcomed the establishment of DHCW and were very supportive of the proposals.

## 6. Competition Assessment

5.1 The competition assessment has been completed and is included at Appendix A.

## 7. Post implementation review

6.1 The RIA sets out the anticipated potential costs of this legislation, in addition to the benefits and opportunities and realising these benefits is how success will be measured.

6.2 It is anticipated that a review will take place within five years of the full implementation of this legislation; with a further review at the ten year point, whereby the longer term benefits will have had the opportunity to be realised.

6.3 The key factors in measuring whether those benefits have been realised are as follows:

- A reduction in vacancies across the digital workforce across NHS Wales.
- A reduction in skills gaps across digital professions.
- Improved satisfaction ratings from patients and health care professionals through the national survey.
- Improved staff survey results in relation to digital platforms, systems and services.
- Improved value for investment, measured by an increase in outputs and/or service provision for similar investment against that made under the current system.
- A reduction in consultancy and contractor spend on digital activity across the NHS in Wales.

## APPENDIX A –The Competition Assessment

| The competition filter test | |
|---|---|
| **Question** | **Answer yes or no** |
| **Q1**: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share? | No |
| **Q2**: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share? | No |
| **Q3**: In the market(s) affected by the new regulation, do the largest three firms together have at least 50% market share? | No |
| **Q4**: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others? | No |
| **Q5**: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of businesses/organisation? | No |
| **Q6**: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| **Q7**: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| **Q8**: Is the sector characterised by rapid technological change? | No |
| **Q9**: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products? | No |

**APPENDIX B – Detailed Transitional Costs**

| Transition Costs | | |
|---|---|---|
| **Resource** | **Description** | **Option 4** |
| Communications and Engagement | Covering the branding and messaging for Digital Health and Care Wales as well as launch events and ancillary marketing activities. | £54.000 |
| Statutory Financial Services Readiness | Ensuring the appropriate financial controls, processes and reporting procedures are in place and tested prior to 1 April 2021 go-live date. This includes key staff costs as well as supplier costs associated with the building of the organisation's Financial ledger and purchase of capital asset register for the new organisation. | £247,700 |
| Workforce and Organisational Development Readiness | Supplier costs relating to the setting up of new ESR and expenses systems for the organisation in readiness for the go-live date. | £57,400 |
| Governance Readiness | Supporting the ongoing development of the Board and Governance processes for Digital Health and Care Wales, this includes consultancy costs as well as staffing costs for the transition project manager, Board Secretary and Chair and Independent Members (following their appointment by Welsh Government). | £312,200 |
| Legal Preparation | Legal advice to support the commercial activities relating to the transition such as the novation of contracts from Velindre to the SHA, Employment Law advice relating to the TUPE transfer and the setting up of employment licences and general legal advice relating to the creation of the Statutory Instruments to establish the SHA | £46,500 |
| | **Total:** | **£717,800** |

# SL(5)786 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 196(2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu neu'n cynnig eu darparu neu eu trefnu wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf 2014. Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn cynnwys darpariaethau cyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 fel bod cynnydd (o £1) yn yr isafswm incwm wythnosol y mae gan y person y darperir llety iddo mewn cartref gofal neu sy'n cael taliadau uniongyrchol mewn perthynas â'r llety hwnnw yr hawl i'w gadw at wariant personol, o £32 i £33 yr wythnos.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 12 Ebrill 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi mai effaith y Rheoliadau hyn yw rhannu:

> *"…the increased income which local authority supported residents would have from April 2021 as a result of uplifts to their state pensions and welfare benefits. Residents in this position would be able to retain a £1.00pw of these uplifts to spend on personal items, while authorities would receive the balance in increased contributions from residents towards the cost of their resident care."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 255 (Cy. 68)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu neu'n cynnig eu darparu neu eu trefnu wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn cynnwys darpariaethau cyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Reoliadau 2015 (codi ffioedd o dan Ran 5 o'r Ddeddf) fel bod cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal o £32 i £33.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 4 o Reoliadau 2015 (cyfraniadau ac ad-daliadau am daliadau uniongyrchol) fel bod cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol net ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal ac sy'n cael taliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf o £32 i £33.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 255 (Cy. 68)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *12 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 196(2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Ebrill 2021.

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015**

**2.** Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle "£32" rhodder "£33";

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1843 (Cy. 271); a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/214 (Cy. 58), O.S. 2018/123 (Cy. 29), O.S. 2019/234 (Cy. 53) ac O.S. 2020/131 (Cy. 24).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle “£32” rhodder “£33”.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2021

## Explanatory Memorandum to the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2021

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Health and Social Services Group and is laid before the Senedd in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

### Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 in relation to charging for social care and support under Parts 4 and 5 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.  I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Julie Morgan MS**
**Deputy Minister for Health and Social Services**
**8 March 2021**

## PART 1 - OVERVIEW

### 1. Description

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (the "Act") brings together local authorities' duties and functions in relation to improving the wellbeing of people who need social care and support, and carers who need support. The Act provides the foundation, along with regulations and codes of practice made under it, to a statutory framework for the delivery of social care in Wales to support people of all ages as part of families and communities.

Under the Act, local authorities have discretion to charge for the care and support they provide or arrange for a person, or the support they provide or arrange for a carer. They also have discretion to set a contribution or reimbursement for direct payments they provide to a person to enable them to arrange their care and support themselves. This applies to care and support in a person's own home, within the community, or in residential care. Where an authority wishes to apply this discretion to set a charge, contribution or reimbursement, regulations made under the Act govern the arrangements applicable to this.

The Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015 ("the Charging Regulations") govern local authorities in discharging their discretion to set a charge, contribution or reimbursement under Part 4 (meeting needs) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Act. These came into force on 6 April 2016.

Since then a number of policy changes have been agreed which required amendments to the Charging Regulations. Amending regulations to effect those changes are: the Care and Support (Choice of Accommodation, Charging and Financial Assessment) (Amendment) (Wales) Regulations 2017 that came into force on 10 April 2017; the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2018 that came into force on 9 April 2018; the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2019 that came into force on 8 April 2019 and; the Care and Support (Charging) (Wales) and Land Registration Rules (Miscellaneous Amendments) Regulations 2020 that came into force on 6 April 2020.

The regulations subject to this Explanatory Memorandum are required to introduce an update to the Charging Regulations to reflect an uplifted sum of money that applies to people in receipt of residential social care and support.

### 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee.

There are no specific matters of special interest.

### 3. Legislative background

The powers enabling the making of regulations in relation to setting a contribution or reimbursement for direct payments are contained in Part 4 (sections 50, 52 and 53(3)) of the Act. Powers enabling charging for care and support, and support to a carer, are contained in Part 5 (section 61) of the Act.

These amending regulations are subject to the negative procedure. They will come into force on 12 April 2021.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

The overall purpose of the amending regulations is to effect a change to the existing regulations as a result of a certain policy decision. These existing regulations govern local authorities' determination of a charge for providing or arranging care and support, or support to a carer, where they use their discretion to charge. They also govern authorities' determination of a contribution or reimbursement for a person receiving direct payments to secure their own care and support, or a carer securing their own support, where authorities use their discretion to set these.

The change the amending regulations make is to:

**The Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015**
Regulation 2(a) to 2(d) of the amending regulations amend the Charging Regulations as follows:

- uplift from £32.00 a week to £33.00 a week - the level of the minimum income amount applied in charging for residential care, or in setting a contribution or reimbursement for direct payments to secure residential care, by amending regulations 13 and 28 of the Charging Regulations. The minimum income amount is the sum of money a person in residential care, and who is supported financially by their local authority, is able to retain from their weekly income to spend on personal items as they choose. The sum is reviewed annually in the light of the weekly uplifts applied to UK state pensions and welfare benefits.

## 5. Consultation

Consultation on amendments to the Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015 is not required. A five week consultation on the principle of the changes being made by the amending regulations to the Charging Regulations was originally held between 21 December 2016 and 25 January 2017. This being the case, consultation on an annual basis is not needed. In total 24 responses were received from a range of stakeholders covering individuals, representative groups, local authorities and professional organisations. Overall respondents were supportive of the policy behind these changes, seeing them as rebalancing the impact of charging upon those who are required to pay for their care and support. They did, however, raise a number of questions, such as the level of the eventual increase planned for the maximum weekly charge, which is not subject to change in this instance, and how the changes would be communicated to care recipients. These have been addressed in the implementation of the amendments made since that time.

**PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT**

**Introduction**
The change being introduced by the amending regulations is considered in this Regulatory Impact Assessment. Introducing this change will ensure the Charging Regulations operate in accordance with the policy intention.

**Options and Benefits**
This Regulatory Impact Assessment considers two options in relation to making these change:

- <u>Option 1</u> – “do nothing” and not make the amending regulations;
- <u>Option 2</u> – “make the amending regulations” to introduce changes to the Charging Regulations in relation to charging for care and support. This is the preferred option.

**Minimum Income Amount (MIA)**
Where a person is in residential care, and in receipt of financial support from their local authority towards the cost of their care, they are required to contribute towards this cost from the majority of their weekly income. However, under the Charging Regulations a person must be able to retain an amount of their income to spend on personal items as they wish. This is known as the MIA. The level of the MIA is reviewed annually to take account of annual uplifts to UK state pensions and welfare benefit payments, which form the basis of care home residents’ weekly income. Taking these uplifts into account, Ministers propose to increase the MIA from 12 April 2021 from its current level of £32.00 per week to £33.00 a week. This will allow residents to retain a slightly higher amount of their income to spend as they wish on personal items.

<u>Option 1 – do nothing</u>
This option maintains the level of the MIA at £32.00 per week. As a result all of the increase in a resident’s weekly income from April 2021 as a result of uplifted state pension and welfare benefit payments would go to their local authority in charge income to pay towards their care.

- Costs

There are no new cost implications for local government from this option. Instead authorities would receive up to an estimated £2.8 million per annum in increased contributions from the 16,144 care home residents over state pension age as recorded in data published by Welsh Government in October 2019 (no data collected in 2020). This would be due to the increased income residents would have resulting from the uplifts in the amount (£3.35pw) of the basic state pensions alone. Residents in this position would not retain any of the uplift applied.

- Benefits

Care home residents supported by their local authority would be unable to retain any of the increase applied to their state pension nor would those seeing uplifts applied to any welfare benefit they receive, see a benefit. Instead these funds would increase residents’ weekly contributions to local authorities for the cost of their care, so as to benefit the income stream authorities receive from supported care home residents.

Option 2 – make the amending regulations
This option would make the amending regulations so as to increase the MIA from its current level of £32.00 to £33.00 per week. This would allow local authority supported residents to retain a proportion of the uplift to their state pensions and welfare benefits to spend on personal items as they wish.

- Costs

This option results in local authorities receiving a smaller increase in charge income, than if the regulations were not made, of around an estimated £2.0 million per annum through contributions from the 16,144 residents over state pension age alone. This would be due to the increased income residents would have resulting from the uplifts in state pensions and welfare benefits. Residents would retain a proportion (around £800,000 collectively) of these uplifts to spend on personal items as they wish.

- Benefits

This option shares the increased income which local authority supported residents would have from April 2021 as a result of uplifts to their state pensions and welfare benefits. Residents in this position would be able to retain a £1.00pw of these uplifts to spend on personal items, while authorities would receive the balance in increased contributions from residents towards the cost of their resident care.

**Conclusion**
In view of the financial benefit seen by care home residents, while enabling local authorities to receive an increase in revenue to use towards the provision and quality of the care and support they provide or commission, "Option 2 - make the amending regulations" is recommended. As a result local authorities are set to gain an increase in residential care charge income of some £2.0 million pa from care home residents in receipt of the basic rate state pension alone. It also ensures care home residents in receipt of such pensions are able to retain, collectively, in excess of £800,000 pa to spend as they wish.

**Competition Assessment**

| Competition Filter Test | |
|---|---|
| Question | Answer: yes/no |
| Q1: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share? | No |
| Q2: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share? | No |
| Q3: In the market(s) affected by the new regulations do the largest three firms together have at least 50% market share? | No |
| Q4: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others? | No |

| | |
|---|---|
| Q5: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of businesses/organisations? | No |
| Q6: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| Q7: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| Q8: Is the sector characterised by rapid technological change? | No |
| Q9: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products? | No |

**Post Implementation Review**
The Act contains provisions to allow Welsh Ministers to monitor functions of it carried out by local authorities and other bodies. The Welsh Ministers may require these bodies to report on their duties in implementing these amending regulations.

The Welsh Government continue to monitor the impact of the amending regulations on areas such as the Welsh language, the UN Convention on the Rights of the Child, Older People and Equality.

# SL(5)787 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

## Cefndir a diben

Gwnaed Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 82(1) o Ddeddf Coronafeirws 2020.

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth na chaniateir gorfodi, drwy achos neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, yn ystod y "cyfnod perthnasol". Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio bod y "cyfnod perthnasol" yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf, ac yn gorffen ar 30 Mehefin 2020, neu ddyddiad diweddarach a bennir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn rheoliadau. Gellir arfer y pŵer i bennu dyddiad diweddarach ar fwy nag un achlysur er mwyn ymestyn y "cyfnod perthnasol" ymhellach. Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" mewn perthynas â Chymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd at 30 Mehefin 2021 ac mae rheoliad 3 yn dirymu Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheolau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae adran 6 o'r Memorandwm Esboniadol, sydd â'r teitl "Ymgynghoriad", yn nodi:

> *"Cafodd ymarfer cysylltu gyda prif randdeiliaid i ddeall yr effaith a gafodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 ar denantiaid a landlordiaid masnachol yng Nghymru ei gynnal, gan ddod i ben ym mis Chwefror 2021."*

Mae crynodeb byr o'r prif bwyntiau wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, ond ni ddarperir linc i'r ymgynghoriad llawn a'r ymatebion iddo. Os yw'r wybodaeth hon ar gael, byddai cael mynediad ati yn ddefnyddiol i helpu i gael darlun cliriach o'r ddeddfwriaeth berthnasol hyd yma, yn ogystal â rhoi rhagor o eglurder ynghylch cymesuredd ymestyn y "cyfnod perthnasol" drwy'r Rheoliadau (er enghraifft, mewn perthynas ag unrhyw effaith ar hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1, Protocol 1 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt craffu ar rinweddau**:

Oherwydd natur y Rheoliadau hyn, aethpwyd ati'n ddi-oed i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn dod i ddeall yr ymatebion i'r moratoriwm ar fforffediad mewn perthynas â thenantiaethau busnes. At ddibenion ystyriaethau sy'n ymwneud â Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021, cysylltwyd â rhanddeiliaid ddydd Llun, 8 Chwefror gan ofyn iddynt ymateb gydag unrhyw sylwadau ar Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 erbyn dydd Llun, 22 Chwefror. Esboniwyd wrth y rhanddeiliaid fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oedd angen ymestyn y moratoriwm ymhellach, a dywedwyd y byddai'n croesawu barn tenantiaid a landlordiaid masnachol fel ei gilydd ar effaith ymarferol y Rheoliadau.

Er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r effaith, digwyddodd yr ymgysylltu hwn â sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau, undebau llafur, sefydliadau eiddo a'n partneriaid cymdeithasol. Roedd amseriad yr ymgysylltu hwn wedi'i gynllunio i fod yn ddigonol i alluogi rhanddeiliaid i fyfyrio ar effaith y Rheoliadau a ffurfio ymateb i Lywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, roedd yn sicrhau fod modd cydymffurfio ag amserlen y Senedd ar gyfer gosod Rheoliadau o'r math hwn. Mae'r broses hon o ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid perthnasol wedi bod ar waith ar gyfer nifer o'r estyniadau blaenorol i'r 'cyfnod perthnasol'.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2021 Rhif 253 (Cy. 66)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

# Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/606 (Cy. 140)) y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/960 (Cy. 214)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 31 Rhagfyr 2020.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/1456 (Cy. 314)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 31 Mawrth 2021.

O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn ymhellach hyd 30 Mehefin 2021.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 30 Mehefin 2021.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 253 (Cy. 66)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2021.

**Estyn y cyfnod perthnasol sy'n darparu gwarchodaeth rhag fforffediad etc.**

**2.** At ddibenion adran 82 (tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: gwarchodaeth rhag fforffediad etc.) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, mae'r "relevant period", fel y'i diffinnir yn is-adran (12) o'r adran honno yn gorffen, o ran Cymru, â 30 Mehefin 2021.

(**1**) 2020 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020(**2**) wedi eu dirymu.

*Ken Skates*
Y Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2021

(**2**) O.S. 2020/1456 (Cy. 314).

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Ken Skates AS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**9 Mawrth 2021**

## RHAN 1

1. **Disgrifiad**

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ymestyn hyd y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws (2020) (“y Ddeddf”), lle na chaniateir gorfodi, drwy weithred neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, dan denantiaeth busnes berthnasol, am beidio â thalu rhent.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol I lunio’r Rheoliadau hyn yn ôl adran 82 Deddf Coronafeirws 2020 (“y Ddeddf”). Mae Adran 82(12) y Ddeddf yn diffinio y “cyfnod perthnasol” fel un “a ddaw I ben ar 30 Mehefin 2020 neu ddyddiad hwyrach fel a nodir gan yr awdurdod cenedlaethol yn y rheoliadau a wnaethpwyd gan offeryn statudol (a gellir defnyddio’r pŵer hwnnw ar fwy nag un achlysur fel bod y cyfnod yn cael ei ymestyn ymhellach)”. Mae Adran 82(12) o’r Ddeddf yn cadarnhau ymhellach bod yr “awdurdod cenedlaethol perthnasol” yn golygu Gweinidogion Cymru, yng nghyd-destun Cymru.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth na chaniateir gorfodi, drwy achos neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, yn ystod y “cyfnod perthnasol”. Mae adran 82(12) o’r Ddeddf yn diffinio bod y “cyfnod perthnasol” yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf, ac yn gorffen ar 30ain Mehefin 2020, neu ddyddiad diweddarach a bennir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn rheoliadau. Gellir arfer y pŵer i bennu dyddiad diweddarach ar fwy nag un achlysur er mwyn ymestyn y “cyfnod perthnasol” ymhellach.

Gweinidogion Cymru yw’r “awdurdod cenedlaethol perthnasol” mewn perthynas â Chymru, a gallant felly wneud rheoliadau i ymestyn y “cyfnod perthnasol” i warchodaeth y tu hwnt i 30ain Mehefin 2020, a thrwy hynny gadw’r warchodaeth a ddarperir gan adran 82 y Ddeddf i’r ddyddiad diweddarach a nodir yn y rheoliadau.

Mae’r Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd, Y Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 yn ymestyn y “cyfnod perthnasol” tan 31 Mawrth 2021.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dilyn gweithdrefn penderfyniad negyddol y Senedd.

### 4. Pwrpas a’r effaith a fwriedir ar y ddeddfwriaeth

Pwrpas y Rheoliadau yw i nodi bod y “cyfnod perthnasol”, fel a ddiffinir gan adran 82(12) y Ddeddf, yn dod i ben ar 30 Mehefin 2021 yng Nghymru.

Effaith y Rheoliadau yw ymestyn y “cyfnod perthnasol” pryd na fydd hawl ailfynediad a fforffediad, o dan y denantiaeth fusnes berthnasol, ar gyfer peidio talu rhent yn cael ei orfodi, drwy unrhyw gamau neu fel arall am 3 mis arall hyd at 30 Mehefin 2021.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**5. Opsiynau**

Mae pedwar opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud dim – Caniatáu i'r ddarpariaeth sy'n diogelu tenantiaid masnachol rhag cael eu troi allan oherwydd peidio â thalu rhent i ddod i ben ar 31ain Mawrth 2021.

Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 1 mis arall hyd at 30ain Ebrill 2021.

Opsiwn 3: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 3 mis arall hyd at 30ain Mehefin 2021. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 4: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 6 mis arall hyd at 30ain Medi 2021.

**Costau a buddiannau**

Mae goblygiadau ariannol posibl yn gysylltiedig â'r ddau opsiwn. Gydag opsiwn 2, 3 a 4 efallai y bydd pwysau cynyddol ar i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i landlordiaid masnachol yn ystod y cyfnod hwn i wrthweithio'r warchodaeth a ddarperir i denantiaid. Y bwriad wrth ymestyn y warchodaeth yw hwyluso ailddechrau'r economi drwy geisio sicrhau bod busnesau yn dal mewn sefyllfa i weithredu pan gaiff y cyfyngiadau presennol eu codi.

Fodd bynnag, caiff yr asesiad ei atodi gan ddata o'r Arolwg o Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau (BICS) gwirfoddol bob pythefnos. Caiff ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n casglu barn busnesau am effaith y coronafeirws (COVID-19) ar drosiant, prisiau'r gweithlu, cadernid masnach a busnes.

Mae'r atodiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr arolwg a dylid edrych ar y canfyddiadau yng nghyd-destun yr wybodaeth hon. Dylid nodi er bod y data yn gymharol amserol, mae sefyllfa COVID-19 yn newid yn gyflym felly mae'n bosibl y bydd prif negeseuon yr arolwg yn newid yn gyflym iawn. Hefyd, nid yw'r arolwg yn edrych ymlaen felly nid yw cyflwr a'r effaith a gaiff ar fusnesau yn y dyfodol yn cael eu cynnwys. Mae'r arolwg yn wirfoddol ac efallai mai dim ond adlewyrchu nodweddion y rhai hynny a ymatebodd a fydd; mae'r canlyniadau yn arbrofol.

**Opsiwn 1: Gwneud dim – Caniatáu i'r ddarpariaeth sy'n diogelu tenantiaid masnachol rhag achosion fforffedu oherwydd peidio â thalu rhent i ddod i ben ar 31ain Mawrth 2021**.

Heb lunio Rheoliadau diwygio, daw'r warchodaeth i ben ac o ganlyniad mae mwy o risg y gallai tenantiaid masnachol gael eu troi allan o'u heiddo am beidio â thalu rhent. Gan mai prif nod y ddeddfwriaeth wreiddiol oedd diogelu tenantiaid masnachol a swyddi, byddai dileu'r warchodaeth bresennol yn golygu bod y tenantiaid masnachol hynny - rhai ohonynt efallai wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraethau Cymru a'r DU - mewn perygl eto wrth i'r economi wella.

Un o ganlyniadau'r opsiwn hwn yw y bydd landlordiaid masnachol yn rhydd i gymryd camau oherwydd peidio â thalu rhent. Bydd hyn yn arwain un ai at dalu rhywfaint o'r rhent neu'r holl rent sy'n ddyledus gan denantiaid masnachol, neu achosion fforffedu. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, byddai angen i landlordiaid ystyried yn ofalus a fyddent yn elwa'n ariannol gan na fyddai tenantiaid efallai yn gallu gwneud y taliadau angenrheidiol beth bynnag. Gallai fod yn anodd dod o hyd i denant arall, neu werthu'r eiddo, gan fod y galw am ofod masnachol mewn rhai sectorau (e.e. hamdden, adwerthu a lletygarwch) yn debygol o fod wedi lleihau, o leiaf yn y tymor byr.

Mae'r canlyniadau o Don 16 arolwg ONS BICS yn cynnwys y cyfnod **25 Ionawr hyd at 7 Chwefror 2021.** Mae'n dangos, o'r busnesau oedd heb roi'r gorau i fasnachu yn gyfan gwbl, roedd 67% o fusnesau yng Nghymru wedi gwneud cais ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi o ganlyniad i'r Coronafeirws, o gymharu gydag 67% o fusnesau yn yr Alban, 62% yng Ngogledd Iwerddon ac yn Lloegr.

Mae busnesau yng Nghymru hefyd wedi defnyddio ystod eang o gynlluniau'r llywodraeth yn ystod yr argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grantiau busnes wedi'u hariannu gan y DU a llywodraethau datganoledig;
- Benthyciadau achrededig neu gytundebau cyllidol wedi'u cefnogi gan y Llywodraeth; a
- Cynllun Swyddi Kickstart ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â'r Cynllun Cadw Swyddi o ganlyniad i'r Coronafeirws.

O'r busnesau sydd heb roi'r gorau i fasnachu yn gyfan gwbl, nid oedd 63% o'r rhai hynny oedd yn gweithredu yng Nghymru wedi gwneud cais am unrhyw un o'r benthyciadau neu'r cynlluniau cyllid wedi'u cefnogi gan y llywodraeth, mae hyn yn cymharu â 65% yn Lloegr, 61% yng Ngogledd Iwerddon a 66% yn Yr Alban. Hefyd, o'r busnesau sydd heb roi'r gorau i fasnachu yn barhaol, ac sydd wedi gwneud cais am grant gan y llywodraeth yng Nghymru, ni dderbyniodd 11% mohono. Mae hyn yn cymharu â 7% yng Ngogledd Iwerddon, 16% yn yr Alban ac 11% yn Lloegr.

Y casgliad yw na fyddai Opsiwn 1 yn cyflawni'r amcan polisi o gefnogi busnesau a diogelu tenantiaid masnachol rhag fforffediad yn ystod pandemig y Coronafeirws.

**Opsiwn 2 - Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 1 mis arall hyd at 30ain Ebrill 2021**

Byddai ymestyn y ddarpariaeth am gyfnod byr – sef mis – yn lleihau'r baich ar landlordiaid, ac nid yw'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn ddigon i ddangos i economi Cymru bod fframwaith sylweddol ar gael i ganiatáu i fusnesau addasu.

Hefyd, byddai ymestyn y cyfnod hwn yn lleihau'r gallu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cyfres mwy cynaliadwy o gynigion.

**Opsiwn 3: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 3 mis arall hyd at 30 Mehefin 2021.**

Mae'r Coronafeirws wedi lleihau gweithgarwch economaidd, gan arwain at ostyngiad mewn incwm i lawer o fusnesau.  Mae arolwg ONS y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn dangos:

- Bod 47% o fusnesau yng Nghymru wedi nodi gostyngiad mewn trosiant y tu allan i'r ystod arferol.  Mae hyn yn cymharu â 45% yn yr Alban, 45% yn Lloegr a 39% yng Ngogledd Iwerddon.
- Ar draws pob busnes sy'n masnachu ar hyn o bryd yng Nghymru, roedd 10% yn datgan bod elw wedi gostwng dros 50%.  Dywedodd 12% bod elw wedi gostwng rhwng 20-50% a dywedodd 20% bod elw wedi gostwng hyd at 20%.
- wledydd y DU, Cymru sydd â'r drydedd gyfran uchaf o fusnesau gyda mwy na chwe mis o gronfa arian parod ar 36%.  Mae hyn yn cymharu â 40% yn Yr Alban, 36% yn Lloegr a 34% Ngogledd Iwerddon.
- Roedd gan 44% o fusnesau yng Nghymru lai na 60% o gronfa arian parod, yn is nâ'r ffigur cyffredinol ar gyfer y DU o 43%.  Roedd oddeutu 4% o fusnesau Cymru yn nodi nad oedd ganddynt gronfa arian parod.

*Ansolfedd:*

Yng Nghymru, o fusnesau sydd heb roi'r gorau i fasnachu yn barhaol, roedd:

- 1% mewn perygl difrifol o ansolfedd
- 14% mewn risg cymhedrol o ansolfedd
- 52% mewn risg isel o ansolfedd
- 24% heb unrhyw risg o ansolfedd

*Hyder yn y busnes:*

Yng Nghymru, o'r busnesau sy'n masnachu ar hyn o bryd mae:

- 59% yn hyderus iawn y byddant yn goroesi yn y tri mis nesaf;
- 31% yn weddol hyderus y byddant yn goroesi yn y tri mis nesaf;
- 4% ddim yn hyderus iawn y byddant yn goroesi yn y tri mis nesaf.

*Cau safleoedd:*

*Yng Nghymru, o'r busnesau sy'n masnachu ar hyn o bryd, mae:*

- *4% yn bwriadu cau rhai safleoedd busnes yn barhaol;*
- *81% ddim yn bwriadu cau unrhyw safleoedd busnes yn barhaol*

*Gwariant cyfalaf*[1]

Mae'n ymddangos bod busnesau yng Nghymru hefyd wedi gweld effaith y Coronafeirws ar eu gwariant cyfalaf.

Yn nhon 23 o'r BICS (11 Ionawr tan 24 Ionawr 2021), o'r holl fusnesau sy'n parhau i fasnachu yng Nghymru, roedd 11% yn nodi bod eu gwariant cyfalaf wedi dod i ben, tra bod 29% yn nodi bod gwariant cyfalaf wedi bod yn is na'r arferol.

Bydd yr opsiwn hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddiogelu tenantiaid masnachol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, ond nid yw ychwaith yn dileu gormod ar yr hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n galluogi landlordiaid i weithredu mewn achosion o beidio â thalu rhent.

Mae'r sector a'r farchnad eiddo masnachol yn chwarae rhan bwysig yn yr economi ac o ran gwireddu a darparu seilwaith hanfodol i fusnesau ar ffurf adeiladau masnachol lle gall busnesau weithredu a thyfu. Felly, mae'n bwysig cydnabod anghenion busnesau landlordiaid a thenantiaid.

Nid yw'r warchodaeth hon yn dileu'r gofyniad i dalu rhent, ond yn gohirio hawl landlord i gymryd camau fforffedu am beidio â thalu rhent. Bydd tenantiaid yn dal i fod yn atebol am unrhyw ôl-ddyledion, a bydd rhaid iddynt dalu unrhyw rent sy'n ddyledus unwaith y caiff y warchodaeth ei chodi neu wynebu camau fel fforffedu. Ni fydd gweithredoedd y landlord yn ei atal rhag arfer hawl i fforffediad yn y dyfodol, ar ôl i'r moratoriwm ddod i ben, oni bai fod y landlord a'r tenant wedi cytuno fel arall drwy gytundeb gohirio rhent neu gytundeb tebyg mewn perthynas â thalu rhent.

Wrth argymell Opsiwn 3, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod sefyllfa landlordiaid, fel buddsoddwyr mewn seilwaith busnes hollbwysig a darparwyr. Bydd darpariaethau Opsiwn 3 yn parhau i roi landlordiaid o dan rywfaint o anfantais wrth negodi trefniadau gohirio rhent er mwyn lliniaru helyntion presennol tenantiaid wrth geisio diogelu eu hasedau.

**Opsiwn 4: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 6 mis arall hyd at 30 Medi 2021.**

Byddai Opsiwn 4 yn rhoi mwy o amser i fusnesau yng Nghymru adfer a gwella eu gallu i dalu rhent.  Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu dull gofalus ac ystyriol o lacio cyfyngiadau ar yr economi  Er bod hyn yn edrych yn optimistaidd, mae'n cael ei gydnabod y byddai gallu o'r fath i dalu rhent yn cael ei gyfyngu tan bod gan fusnesau hawl i weithredu ac mae'n bosibl y bydd nifer yn parhau i weld heriau o ran llif arian. O ystyried hyn, byddai Opsiwn 4 yn caniatâu cyfnod i fusnesau ddod atynt eu hunain.

Nid yw'r warchodaeth hon yn dileu'r gofyniad i dalu rhent, ond yn gohirio hawl landlord i gymryd camau fforffedu am beidio â thalu rhent. Bydd tenantiaid yn dal i fod yn atebol am unrhyw ôl-ddyledion, a bydd rhaid iddynt dalu unrhyw rent sy'n

[1] Mae'r ffigurau sy'n gysylltiedig â nifer y cwsmeriaid o BICS Ton 23 (i gynnwys y cyfnod rhwng 25 Ionawr a 7 Chwefror) gan nad yw Ton 24 yn cynnwys y ffigurau hyn.

ddyledus unwaith y caiff y warchodaeth ei chodi neu wynebu camau fel fforffedu. Ni fydd gweithredoedd y landlord yn ei atal rhag arfer hawl i fforffediad yn y dyfodol, ar ôl i'r moratoriwm ddod i ben, oni bai fod y landlord a'r tenant wedi cytuno fel arall drwy gytundeb gohirio rhent neu gytundeb tebyg mewn perthynas â thalu rhent.

Fodd bynnag, gan bod y Rheoliadau hyn yn cael eu hystyried yn ymateb brys i'r pandemig, gallai'r cyfnod amser hwn roi pwysau sylweddol ar landlordiaid a buddsoddwyr.  Yn ogystal â rhoi mwy o heriau i landlordiaid a buddsoddwyr, mae'n debygol o ddangos diffyg hyder yn yr ymdrechion i adfer yr economi.

**6. Ymgynghoriad**

Cafodd ymarfer cysylltu gyda prif randdeiliaid i ddeall yr effaith a gafodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 ar denantiaid a landlordiaid masnachol yng Nghymru ei gynnal, gan ddod i ben ym mis Chwefror 2021.

Cawsom nifer o sylwadau gan randdeiliaid ac i grynhoi y prif bwyntiau a wnaethpwyd oedd:

- Ers yr estyniad blaenorol, gosodwyd cyfyngiadau sylweddol ar fusnesau drwy lefel rhybudd 4. Byddai caniatáu i'r darpariaethau ddod i ben ar hyn o bryd yn rhoi tenantiaid masnachol mewn perygl mawr.
- Mae llawer o fusnesau'n pryderu am eu hyfywedd a'u rhagolygon.
- Mae rhai cwmnïau oportiwnistaidd a allai fod yn manteisio ar y moratoriwm, er gwaethaf y gallu i dalu.
- Bydd Cynllun Seibiant Dyledion Llywodraeth y DU yn rhoi'r hawl i rywun sydd â dyledion problemus gael eu hamddiffyn yn gyfreithiol gan eu credydwyr; gan gynnig cyfle arall iddynt ddod atynt eu hunain unwaith y caniateir i'r darpariaethau ddod i ben.
- Ceir enghreifftiau cadarnhaol o ddeialog adeiladol rhwng tenantiaid a landlordiaid.
- Bwriadwyd i'r darpariaethau fod yn fesur brys.
- Mae effeithiau gwahaniaethol ar wahanol sectorau.
- Dylai gweithredoedd Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill mewn perthynas â'r darpariaethau hyn fod yn ffactor pwysig mewn ystyriaethau.

Bydd y pryderon sy'n cael eu codi gan randdeiliaid yn ganolog i ddatblygu safbwyntiau o ran polisi ac yn llywio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

**7. Asesiad o'r Gystadleuaeth**

Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo Cystadleuaeth, penderfynwyd nad oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

**8. Adolygiad ôl-weithredu**

Mae effaith y Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu cyn dyddiad terfyn arfaethedig yr estyniad, sef 30 Mehefin 2021.

**9. Atodiad**

**Mesur y data**

Mae'r Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnes yn wirfoddol a dim ond nodweddion y rhai hynny a ymatebodd sy'n cael eu hadlewyrchu; mae'r canlyniadau yn arbrofol.

**Tabl 1. Sampl a chyfradd ymateb ar gyfer Tonnau 9, 10 ac 11 o'r BICS**

| Ton | Cyhoeddiad 28 Ionawr 2021 Ton 22 | Cyhoeddiad 11 Chwefror 2021 Ton 23 | Cyhoeddiad 25 Chwefror 2021 Ton 24 |
|---|---|---|---|
| **Sampl** | 38,831 | 39,418 | 38,278 |
| **Ymateb** | 10,325 | 10,008 | 10,351 |
| **Cyfradd** | 26.6% | 25.4% | 26.4% |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau

**Ton 23**

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ymatebion gan y BICS gwirfoddol, bob pythefnos, sy'n casglu barn busnesau ar berfformiad ariannol, gweithlu, prisiau, masnach a gwydnwch busnes. Roedd arolwg Ton 23 yn fyw ar gyfer y cyfnod rhwng 25 Ionawr a 7 Chwefror 2021. Ar gyfer cwestiynau ynglŷn â'r pythefnos diwethaf, gofynnwyd i fusnesau am eu profiad ar gyfer y cyfnod cyfeirio rhwng 11 a 24 Ionawr 2021.

Mae amcangyfrifon wedi'u pwysoli ar gyfer y BICS bellach wedi'u datblygu ar gyfer pob newidyn a gesglir ar lefel y DU. Mae disgrifiad manwl o'r fethodoleg bwysoli a'i gwahaniaethau i amcangyfrifon heb eu pwysoli ar gael yn Arolwg Effaith Busnes Coronafeirws (COVID-19): canlyniadau rhagarweiniol wedi'u pwysoli.

Ar hyn o bryd mae ONS yn darparu amcangyfrifon heb eu pwyso gyda rhaniad gwlad a rhanbarthol ar gyfer newidynnau dethol yn y set ddata ategol. Dylid trin y rhain yn ofalus gan mai dim ond y rhai sydd wedi ymateb i'r arolwg sy'n cael eu cynrychioli, ac felly nid yw'r rhain yn gwbl gynrychioliadol o'r DU gyfan. Pan nad yw'n cael ei bwysoli, mae pob busnes yn cael yr un pwysau waeth beth fo'i drosiant, ei faint neu ei ddiwydiant, ac nid yw busnesau nad ydynt wedi ymateb i'r arolwg neu nad ydynt yn cael eu samplu yn cael eu hystyried.

Ar 1 Chwefror 2021, cyhoeddwyd amcangyfrifon rhanbarthol arbrofol wedi'u pwysoli hyd at Don 21 (28 Rhagfyr 2020 i 10 Ionawr 2021) yn Deall effeithiau busnes cyfyngiadau lleol a chenedlaethol: Chwefror 2021, fel rhan o'r Adolygiad Economaidd.

**Ton 24**

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ymatebion gan y BICS gwirfoddol, bob pythefnos, sy'n casglu barn busnesau ar berfformiad ariannol, gweithlu, prisiau, masnach a gwydnwch busnes. Roedd arolwg Ton 24 yn fyw ar gyfer y cyfnod rhwng 8 a 21 Chwefror 2021. Ar gyfer cwestiynau ynglŷn â'r pythefnos ddiwethaf, gofynnwyd i fusnesau am eu profiad ar gyfer y cyfnod cyfeirio rhwng 25 Ionawr a 7 Chwefror 2021.

Yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr, mae'r arolwg hwn wedi newid ei enw i'r "Arolwg o Fewnwelediadau ac Amodau Busnes" (BICS) o Don 24 (y don hon) ymlaen.

Mae'r diben yn aros yr un fath, i gasglu gwybodaeth amser real am faterion pwysig fel pandemig y coronafeirws (COVID-19) a diwedd cyfnod pontio'r UE.

Mae amcangyfrifon wedi'u pwysoli ar gyfer y BICS bellach wedi'u datblygu ar gyfer pob newidyn a gesglir ar lefel y DU. Mae disgrifiad manwl o'r fethodoleg bwysoli a'i gwahaniaethau i amcangyfrifon heb eu pwysoli ar gael yn Arolwg Effaith Busnes Coronafeirws (COVID-19): canlyniadau rhagarweiniol wedi'u pwysoli.

Ar hyn o bryd mae ONS yn darparu amcangyfrifon heb eu pwyso gyda rhaniad gwlad a rhanbarthol ar gyfer newidynnau dethol. Dylid trin y rhain yn ofalus gan mai dim ond y rhai sydd wedi ymateb i'r arolwg sy'n cael eu cynrychioli, ac felly nid yw'r rhain yn gwbl gynrychioliadol o'r DU gyfan. Pan nad yw'n cael ei bwysoli, mae pob busnes yn cael yr un pwysau waeth beth fo'i drosiant, ei faint neu ei ddiwydiant, ac nid yw busnesau nad ydynt wedi ymateb i'r arolwg neu nad ydynt yn cael eu samplu yn cael eu hystyried.

Eitem 4.6

# SL(5)791 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profi cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 ("Rheoliadau Rhif 3").

Maent yn ceisio mynd i'r afael â nifer o anghysondebau a nodwyd rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio teithio rhyngwladol ar gyfer Cymru a Lloegr. I grynhoi, mae'r Rheoliadau yn:

- Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyniad esgus rhesymol mewn perthynas â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithiwr a'r drosedd am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â'r gofynion hynny;
- Diwygio cynnwys gofynnol yr hysbysiad o ganlyniad prawf negatif a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr 2021 o ganlyniad i hyn;
- Disodli'r diffiniad ac ehangu cwmpas yr esemptiad ar gyfer criw awyren ym mharagraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, i gynnwys criw y mae'n ofynnol iddynt deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith;
- Cywiro croesgyfeiriadau amrywiol a rhoi'r pŵer i gwnstabl i ofyn am dystiolaeth oddi wrth berson ei fod wedi archebu profion diwrnod 2 a diwrnod 8 sydd i'w cymryd ar ôl iddo gyrraedd Cymru ac wedi talu am y profion hynny;
- Rhoi'r pŵer i swyddogion mewnfudo i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig am dorri'r gwaharddiad ar fynediad i deithwyr o wledydd ar y 'rhestr goch';
- Diwygiad technegol i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 er mwyn cywiro cyfeiriad anghywir.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n ddarostyngedig i rai eithriadau i'r gofynion ynysu, i gynnwys digwyddiadau y disgwylir eu cynnal yn y pedwar mis nesaf, a dileu'r rhai sydd eisoes wedi digwydd.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 12 Mawrth 2021.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynglŷn â'r ffaith bod *"nifer o anghysondebau"* wedi'u nodi rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio yn Lloegr a'r rheini yng Nghymru, a bod y Rheoliadau hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny er mwyn sicrhau eu bod yn alinio â'i gilydd yn barhaus. Mae'r llythyr yn esbonio:

> *"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 305 (Cy. 78)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profi cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) (y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (O.S. 2021/154 (Cy. 38)) ("Rheoliadau Rhif 3").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Ran 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi a throseddau a all gael eu cyflawni o dan y Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 14 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyniad esgus rhesymol mewn perthynas â'r troseddau o dan y Rheoliadau hynny o fethu â darparu gwybodaeth am

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

deithiwr a darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithiwr, neu hysbysu ynghylch newidiadau i'r wybodaeth honno.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 1A i'r Rheoliadau hynny yn rhoi manylion pellach ynghylch beth yw prawf a hysbysiad dilys at ddibenion rheoliad 6A o'r Rheoliadau hynny, sy'n nodi'r gofyniad i feddu ar hysbysiad o brawf negyddol cyn cyrraedd Cymru. Mae rheoliad 3 yn diwygio cynnwys gofynnol yr hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn esemptio categorïau penodol o weithiwr rhag gorfod ynysu, neu o dan amgylchiadau penodol, rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr. Mae rheoliad 4 yn ehangu cwmpas yr esemptiad ar gyfer criw awyren ym mharagraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys criw y mae'n ofynnol iddynt deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 5 yn gwneud dileadau ac ychwanegiadau i Atodlen 4 er mwyn diweddaru'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i groesgyfeiriadau amrywiol yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn rhoi'r pŵer i gwnstabl i ofyn am dystiolaeth oddi wrth berson ei fod wedi archebu profion diwrnod 2 a diwrnod 8 sydd i'w cymryd ar ôl iddo gyrraedd Cymru ac wedi talu am y profion hynny. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i swyddog mewnfudo i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw oedolyn y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i destun Cymraeg paragraff 5 o Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad technegol i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3.

Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr o ganlyniad i'r diwygiad a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 305 (Cy. 78)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

*Gwnaed am 12.02 p.m. ar 12 Mawrth 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 6.00 p.m. ar 12 Mawrth 2021*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 13 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 13 Mawrth 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**);

(b) ystyr y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021(**2**);

(c) ystyr "Rheoliadau Rhif 3" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021(**3**).

## RHAN 2

### Diwygiadau i Ran 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i reoliad 14 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (troseddau)**

**2.**—(1) Mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (troseddau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1B), ar ôl "rheoliad" mewnosoder "4(1) neu (4), 5(2),".

(3) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Ond nid yw person yn cyflawni trosedd o dan reoliad 4 neu 5 os oes ganddo esgus rhesymol dros ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Ysgrifennydd Gwladol."

---

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26) ac O.S. 2021/154 (Cy. 38).

(**2**) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18) ac O.S. 2021/171 (Cy. 39).

(**3**) O.S. 2021/154 (Cy. 38).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 3

### Diwygiadau i Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i baragraff 2 o Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (profion cyn cyrraedd Cymru)**

**3.**—(1) Mae Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (profion cyn cyrraedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2—

(a) yn is-baragraff (b), yn lle "geni'r" rhodder "geni neu oedran y";

(b) yn lle is-baragraff (e) rhodder—

"(e) datganiad—

(i) bod y prawf yn brawf adwaith cadwynol polymerasau, neu

(ii) o enw'r ddyfais a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf,";

(c) hepgorer is-baragraff (f).

## RHAN 4

### Diwygiad i Ran 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i baragraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt)**

**4.** Yn lle paragraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt) rhodder—

"**10.**—(1) Aelod o griw awyren pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu y mae'n ofynnol iddo deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) ystyr "aelod o griw awyren" yw person sydd—

(i) yn gweithredu fel peilot, llywiwr hedfan, peiriannydd hedfan neu weithredwr radioteleffoni hedfan yr awyren,

(ii) yn cael ei gludo ar y dec hedfan ac yn cael ei benodi gan weithredwr yr awyren i roi neu i oruchwylio'r hyfforddiant, y profiad, yr ymarfer a'r profion cyfnodol sy'n ofynnol ar gyfer y criw hedfan o dan

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

erthygl 114(2) o Orchymyn Llywio Awyr 2016([1]), neu

(iii) yn cael ei gludo ar yr hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w haseinio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren er budd diogelwch teithwyr neu'r awyren;

(b) mae teithio at ddibenion gwaith yn cynnwys, yn benodol—

(i) pan fo'r aelod o griw awyren yn preswylio y tu allan i'r Deyrnas Unedig, teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio ar awyren sy'n ymadael â'r Deyrnas Unedig,

(ii) teithio i fynychu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig,

(iii) dychwelyd i'r Deyrnas Unedig yn dilyn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig."

## RHAN 5

## Diwygiadau i Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (digwyddiadau chwaraeon penodedig)**

**5.** Yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (digwyddiadau chwaraeon penodedig)—

(a) hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Taith Snwcer y Byd – Shoot Out,"

"British Judo – Cystadleuaeth Wahodd Gaeedig Hŷn Prydain,"

"Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol – Meistri Ladbrokes,"

"Taith Snwcer y Byd – Meistri'r Almaen,"

"Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth y Chwaraewyr,"

"Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth Agored Cymru,"

"Rasio ceffylau – Betfair Ascot Chase Day, "

---

(1) O.S. 2016/765. Mae diwygiadau i Atodlen 1 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"Digwyddiadau Tennis Cadair Olwyn Dan Do Bolton ITF,"

"Cwpan y Byd Gymnasteg FIG,"

"Rasio ceffylau – Grand National Trial Day,"

"Matchroom – Sêr Gymnasteg,"

"Matchroom – Meistri Ping Pong y Byd,"

"Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol – yr Ysgol Gymhwyso,";

(b) ar y diwedd mewnosoder—

"British Athletics – Treial Olympaidd Ras Gerdded 20 cilometr,

British Wrestling – Twrnamaint Gwahodd y Cenhedloedd Cartref,

Twrnamaint Tennis Cadair Olwyn Dan Do yr LTA Loughborough,

Prolog a Rownd 1 Pencampwriaeth World Endurance yr FIA Silverstone,

Cyfarfod Sbrint British Para Athletics,

Motorsport UK – Penwythnos Rasio Hanesyddol y Meistri Pencampwriaeth Fformiwla 2 yr HSCC,

Motorsport UK – Pencampwriaeth Superkart Prydain a'r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Pencampwriaeth Rasio Tryciau Prydain,

British Equestrian – Digwyddiadau Dressage Rhyngwladol,

Cyfarfod Rhyngwladol British Para Swimming,

Cage Warriors 121,

Treialon Ceffylau Badminton,

Cylchdaith Ewrop – Meistri Prydain Betfred,

Motorsport UK – Cwpan Sbrint Her y Byd Ewrop GT a'r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Gŵyl Hanesyddol Donington,

Motorsport UK – Pencampwriaeth Ceir Teithio Prydain a'r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Her Ferrari y DU a Chefnogaeth,

Motorsport UK – Pencampwriaeth GT Prydain a'r Gyfres Gefnogi / Her Sbrint Porsche Prydain Fawr a'r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Meistri Hanesyddol F1 / Sbortsceir a'r Gyfres Gefnogi,

Motorsport UK – Prif Ddigwyddiad FIA 2021 a'r Gyfres Gefnogi,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Pro League Hoci Lloegr,

Pencampwriaeth y Byd Grand Prix Speedway yr FIM – Rownd Ragbrofol,

Sioe Geffylau Royal Windsor,

Sioe Geffylau Ryngwladol Bolesworth,

Uwch-gynghrair, Pencampwriaeth a Chynghrair Ddatblygu Genedlaethol British Speedway,

Pencampwriaeth Bêl-droed Ewropeaidd UEFA 2020."

## RHAN 6

## Diwygiadau Amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**6.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6A(4)(d), yn lle "mharagraff 24" rhodder "mharagraff 14".

(3) Yn rheoliad 6B(8)—

(a) ar ôl "mewnfudo" mewnosoder "neu gwnstabl";

(b) ar ôl yr ail "swyddog" mewnosoder "neu'r cwnstabl".

(4) Yn rheoliad 6H(4)(b)(ii), yn y testun Saesneg, ar ôl "before" hepgorer "than".

(5) Yn rheoliad 10(8)—

(a) yn y diffiniad o "athletwr elît", yn lle "mharagraff 31(2)(a)" rhodder "mharagraff 21(2)(a)";

(b) yn y diffiniad o "cystadleuaeth elît", yn lle "mharagraff 31(2)(b)" rhodder "mharagraff 21(2)(b)".

(6) Yn rheoliad 16(1)(a)(i) (hysbysiadau cosb benodedig)—

(a) yn lle "neu" o flaen "7(5)" rhodder ",", a

(b) ar ôl "7(5)" mewnosoder "neu 12E".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 7

### Diwygiadau i destun Cymraeg Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (eithriadau sectorol)**

**7.** Ym mharagraff 5(2) o Atodlen 5 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (eithriadau sectorol), yn y testun Cymraeg—

(a) yn lle "(d)" rhodder "(c)";

(b) yn lle "(e)" rhodder "(d)".

## RHAN 8

### Diwygiad i Reoliadau Rhif 3

**Diwygiad i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 (diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)**

**8.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 (diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol), yn lle "2 i 12" rhodder "2 i 20".

## RHAN 9

### Diwygiad i reoliad 4 o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr

**9.** Yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr (dehongli), yn y diffiniad o "hysbysiad gofynnol", yn lle paragraffau (e) ac (f) rhodder—

"(e) datganiad—

(i) bod y prawf yn brawf adwaith cadwynol polymerasau, neu

(ii) o enw'r ddyfais a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf,

(f) enw darparwr y prawf;".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 12.02 p.m. ar 12 Mawrth 2021

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

12 Mawrth 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”),
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (“y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr”) a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (“Rheoliadau Rhif 3”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Yn dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw’r Rheoliadau yn cydymffurfio â’r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â’r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy’n amrywiolyn o'r feirws hwnnw, gan deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae’r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â’r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a’r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae’r Llywodraeth o’r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac ar 18 Ionawr cafodd y coridorau teithio eu hatal. Nid yw’r trefniadau presennol ar gyfer teithio o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin (y DU, Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel) wedi newid, felly caniateir teithio heb ynysu o hyd.

O 15 Chwefror ymlaen, cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfundrefn cwarantin wedi’i reoli ar gyfer y rhai sy’n cyrraedd Lloegr o wledydd ar y rhestr goch. Dynodwyd 5 porth mynediad yn Lloegr ar gyfer teithwyr o’r fath y mae’n ofynnol iddynt gwblhau cyfnod cwarantin wedi’i reoli mewn gwesty. Mae nifer cyfyngedig o eithriadau ar gyfer categorïau, megis diplomyddion, personél y lluoedd arfog a chludwyr.

O 15 Chwefror ymlaen, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy’n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod i wlad ar y rhestr goch yn y 10 diwrnod blaenorol. Rhaid iddynt gyrraedd yn un o’r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu’r Alban) ac aros yno o dan drefniant ynysu wedi’i drefnu am 10 diwrnod cyn teithio i Gymru. Golyga hyn na chaiff teithwyr o’r fath ddod i Gymru (heblaw am eithriadau cyfyngedig iawn) a bydd dod i Gymru yn groes i’r ddarpariaeth honno yn drosedd, gyda Hysbysiad Cosb Benodedig o £10,000.

Ar gyfer y rhai sy’n cyrraedd o "wledydd rhestr oren" roedd eithriadau sectoraidd yn berthnasol ar gyfer categorïau penodol o weithwyr lle nad oes rhaid iddynt hunanynysu. O 15 Chwefror ymlaen, cafodd y rhain eu gwneud yn fwy cyfyngol a daethant yn eithriadau sectoraidd sy'n golygu bod angen ynysu am 10 diwrnod ond y gall person adael am gyfnod cyfyngedig at ddibenion gwaith.

Ers hynny, mae sawl anghysondeb wedi’i nodi rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer Cymru a Lloegr. Nod y Rheoliadau hyn yw delio â’r gwahaniaethau hynny er mwyn sicrhau bod cysondeb yn parhau. Yn ogystal, mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys digwyddiadau y disgwylir eu cynnal yn y pedwar mis nesaf. Yn gryno:

- Diwygio rheoliad 14 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i wneud darpariaeth ar gyfer amddiffyniad esgus rhesymol mewn perthynas â’r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithiwr (o dan reoliadau 4 a 5) a’r drosedd am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â’r gofynion hynny.
- Diwygio cynnwys gofynnol yr hysbysiad o ganlyniad prawf negatif a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.
- Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr 2021 yn sgil yr uchod.
- Rhoi diffiniad newydd ac ehangu cwmpas yr esemptiad ar gyfer criw awyren ym mharagraff 10 o Atodlen 2 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, i gynnwys criw y mae’n ofynnol iddynt deithio i’r DU fel arall at ddibenion gwaith.
- Cywiro croesgyfeiriadau amrywiol a rhoi’r pŵer i gwnstabl i ofyn am dystiolaeth oddi wrth berson ei fod wedi archebu profion diwrnod 2 a diwrnod 8 sydd i’w cymryd ar ôl iddo gyrraedd Cymru ac wedi talu am y profion hynny.

- Rhoi’r pŵer i swyddogion mewnfudo i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig am dorri rheoliad 12E o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (sy’n gwahardd teithwyr rhag cyrraedd Cymru o wlad ‘rhestr goch’).
- Diwygiadau technegol i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cywiro croesgyfeiriadau amrywiol yn y testun Saesneg, ac i baragraff 5 o Atodlen 5 yn y testun Cymraeg, lle defnyddiwyd rhifau paragraff anghywir.
- Diwygiad technegol i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 er mwyn cywiro cyfeiriad anghywir.

Fel y nodir uchod, caiff y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol eu diwygio hefyd i ddiweddaru’r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon i gynnwys digwyddiadau y disgwylir eu cynnal yn y pedwar mis nesaf a dileu’r rhai sydd wedi bod.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/1171/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mawrth 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Yn unol ag adrannau 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021.

O 15 Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod mewn gwlad o'r rhestr goch yn y 10 niwrnod blaenorol. Rhaid iddynt gyrraedd un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) ac aros yno o dan amodau ynysu rheoledig am 10 niwrnod cyn cael teithio i Gymru. Hefyd, ar gyfer y rheini sy'n cyrraedd o "wledydd ar y rhestr oren", cyfyngwyd ar yr esemptiadau rhag y gofynion ynysu fel bod gofyn i berson ynysu am 10 niwrnod ond y caiff adael y man ynysu am gyfnod cyfyngedig i weithio.

Ers hynny, mae nifer o anghysonderau wedi'u nodi rhwng y trefniadau rheoleiddio yn Lloegr a'r rheini yng Nghymru ac mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio unioni'r gwahaniaethau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn alinio â'i gilydd. Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn newid y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys digwyddiadau y disgwylir eu cynnal dros y pedwar mis nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Trwy beidio â chydymffurfio â’r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i’r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 10 diwrnod, a darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain fel teithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac ar 18 Ionawr cafodd y coridorau teithio eu hatal. Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer teithio o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin (y DU, Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel) wedi newid, felly caniateir teithio heb ynysu o hyd.

O 15 Chwefror ymlaen, cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfundrefn cwarantin wedi'i reoli ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd Lloegr o wledydd ar y rhestr goch. Dynodwyd 5 porth mynediad yn Lloegr ar gyfer teithwyr o'r fath y mae'n ofynnol iddynt gwblhau cyfnod cwarantin wedi'i reoli mewn gwesty. Mae nifer cyfyngedig o eithriadau ar gyfer categorïau, megis diplomyddion, personél y lluoedd arfog a chludwyr.

O 15 Chwefror ymlaen, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod i wlad ar y rhestr goch yn y 10 diwrnod blaenorol. Rhaid iddynt gyrraedd yn un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) ac aros yno o dan drefniant ynysu wedi'i drefnu am 10 diwrnod cyn teithio i Gymru. Golyga hyn na chaiff teithwyr o'r fath ddod i Gymru (heblaw am eithriadau cyfyngedig iawn) a bydd dod i Gymru yn groes i'r ddarpariaeth honno yn drosedd, gyda Hysbysiad Cosb Benodedig o £10,000.

Ar gyfer y rhai sy’n cyrraedd o "wledydd rhestr oren" roedd eithriadau sectoraidd yn berthnasol ar gyfer categorïau penodol o weithwyr lle nad oes rhaid iddynt hunanynysu. O 15 Chwefror ymlaen, cafodd y rhain eu gwneud yn fwy cyfyngol a daethant yn eithriadau sectoraidd sy'n golygu bod angen ynysu am 10 diwrnod ond y gall person adael am gyfnod cyfyngedig at ddibenion gwaith.

Ers hynny, mae sawl anghysondeb wedi’i nodi rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer Cymru a Lloegr. Nod y Rheoliadau hyn yw delio â’r gwahaniaethau hynny er mwyn sicrhau bod cysondeb yn parhau. Yn ogystal, mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys digwyddiadau y disgwylir eu cynnal yn y pedwar mis nesaf.

Daw’r Rheoliadau i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 13 Mawrth.

Eitem 4.7

# SL(5)793 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Caiff Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021 (y "Rheoliadau") eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 22(2) a 144(6) o Reoliad (EU)2017/625 ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol").

Mae Rheoliad (EU) 2016/2031 ynghylch plâu planhigion a'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a ddiwygiwyd fel cyfraith a ddargedwir yr UE ("Rheoliadau'r UE") yn sefydlu mesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion, ac yn darparu ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill i sicrhau cymhwyso'n briodol y rheolau ar iechyd planhigion a chynhyrchion amddiffyn planhigion (ymhlith pethau eraill). Gwnaeth Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 a'r Rheoliadau cyfatebol sy'n berthnasol i Loegr weithredu Rheoliadau'r UE ac maent yn darparu ar gyfer trefn orfodi gyfatebol.

Mae rheoliadau'r UE a'r ddeddfwriaeth drydyddol ychwanegol a wnaed oddi tanynt wedi cael eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a'u diwygio mewn perthynas â Phrydain Fawr i ymdrin ag ystod o ddiffygion yn y ddeddfwriaeth yn deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n gysylltiedig â Rhan 2 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2021, y mae elfennau ohonynt yn berthnasol i Gymru. Gwnaeth y Rheoliadau hynny ddarpariaeth i ategu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol. Yn benodol, roeddent yn ychwanegu at, ac yn addasu, y rhanddirymiadau trosiannol a'r addasiadau trosiannol a nodwyd yn Erthygl 168 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, ac Atodiad 6 iddo, drwy ddarparu i reolaethau swyddogol a gynhelir ar nwyddau penodol a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hynny gael eu cynnal yn y gyrchfan.

Diben y Rheoliadau hyn yw amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol drwy gyflwyno mesurau ar gyfer nwyddau planhigion risg uchel. Maent yn ymestyn y darpariaethau gorfodi sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 i gynnwys arolygiadau a gynhelir mewn cyrchfannau, gan alluogi gorfodi rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill sy'n ymwneud â rheolau iechyd planhigion.

Mae'r Rheoliadau'n hwyluso'r gyfundrefn fesul cam o reoli iechyd mewnforion planhigion wrth Ymadael â'r UE i gefnogi busnesau ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, tra hefyd yn amddiffyn bioddiogelwch Prydain Fawr. Maent yn gwneud diwygiadau er mwyn caniatáu i blanhigion a chynhyrchion planhigion risg uchel gael archwiliadau iechyd planhigion i ffwrdd o'r ffin mewn cyrchfannau mewndirol, oherwydd ni ddisgwylir i Safleoedd Rheoli Ffiniau fod

yn barod yn weithredol i ymdopi â'r cynnydd mewn cyfeintiau masnach tan yn ddiweddarach eleni. Mesur wrth gefn dros dro fydd hwn hyd nes y bydd y Safleoedd Rheoli Ffiniau yn weithredol ac yn barod i archwilio nwyddau a reoleiddir gan yr UE.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff olaf y Nodyn Esboniadol yn nodi na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau. Fodd bynnag, pennawd adran 6 o'r Memorandwm Esboniadol yw "Asesiad Effaith Rheoleiddiol" ac mae'n cynnwys ystyriaeth o ddau opsiwn. Er nad oes cysylltiad ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol ehangach, tybir bod adran 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn Asesiad mewn perthynas â'r Rheoliadau. Yn hynny o beth, bydd unigolyn neu sefydliad yr effeithir arno gan y Rheoliadau yn cael ei arwain i gredu wrth ddarllen y Nodyn Esboniadol na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae hyn o bosibl yn eu hamddifadu o fudd y wybodaeth ychwanegol ynddo wrth gynllunio a chydymffurfio â'r newidiadau a weithredir gan y Rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

Mae'r pwynt yn cael ei dderbyn. Gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru bob ymdrech i ystyried costau a chynnwys eu hystyriaeth yn y Memorandwm Esboniadol. Cododd yr anghysondeb gan nad oedd swyddogion o'r farn bod yr ymdrechion hynny'n gyfystyr ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn. Gan nad rhan o'r Rheoliadau yw'r Nodyn Esboniadol, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ei ddiwygio.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 302 (Cy. 76)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rhan 2 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/136), ac mae rhai elfennau o'r Rheoliadau hynny yn gymwys o ran Cymru. Roedd y Rheoliadau hynny yn gwneud darpariaeth i ychwanegu at Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol"). Yn benodol, roeddent yn ychwanegu at, ac yn addasu, y rhanddirymiadau trosiannol a'r addasiadau trosiannol a nodwyd yn Erthygl 168 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, ac Atodiad 6 iddo, drwy ddarparu i reolaethau swyddogol a gynhelir ar nwyddau penodol a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hynny gael eu cynnal yn y gyrchfan.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau cysylltiedig i ddarpariaethau sy'n ymwneud â throseddau yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/206) (Cy. 48) i gynnwys arolygiadau yn y gyrchfan yn y fframwaith gorfodi presennol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 302 (Cy. 76)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021

*Gwnaed* *12 Mawrth 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *15 Mawrth 2021*

*Yn dod i rym* *8 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 22(2) a 144(6) o Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion(**1**) ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol"), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag Erthygl 144(7) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

## RHAN 1

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac

(**1**) EUR 2017/625, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1481; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Gweler Erthygl 3(2A) am y diffiniad o "the appropriate authority".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 8 Ebrill 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

# RHAN 2

## Cyrchfannau

### Dehongli

**2.** Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol" yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion;

(b) mae i "trydedd wlad berthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant third country" gan Atodiad 6 i'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;

(c) ystyr "nwyddau penodedig" yw planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill a bennir yn yr Atodlen i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2021(**1**);

(d) mae i "y cyfnod graddoli trosiannol" yr ystyr a roddir i "the transitional staging period" gan Atodiad 6 i'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

### Troseddau

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020(**2**) yn cael effaith mewn perthynas â nwyddau penodedig sy'n dod i Brydain Fawr o drydedd wlad berthnasol yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol, mewnosoder—

> "ystyr "cyrchfan" ("*place of destination*") mewn perthynas ag unrhyw nwyddau penodedig, yw'r man cyntaf y danfonir y nwyddau iddo ar gyfer eu dadlwytho ym Mhrydain Fawr, ac at y diben hwn ystyr "nwyddau penodedig" ("*specified goods*")

---

(**1**) O.S. 2021/136.

(**2**) O.S. 2020/206 (W. 48), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1134 (Cy. 259), O.S. 2020/1303 (Cy. 288) ac O.S. 2020/1628 (Cy. 342).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yw planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill a bennir yn yr Atodlen i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2021;".

(3) Yn Atodlen 3, yn Rhan 2—

(a) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 47(5), yn yr ail golofn, ar y diwedd mewnosoder "neu'r gyrchfan, neu, pan fo'n ofynnol, unrhyw fan arall a bennir yn Erthygl 44(3)";

(b) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 50(1), yn yr ail golofn, ar y diwedd mewnosoder "neu'r gyrchfan neu, pan fo'n ofynnol, unrhyw fan arall a bennir yn Erthygl 44(3)";

(c) ar ôl y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 56(4)—

(i) yn y golofn gyntaf, mewnosoder "Erthygl 56A(**1**)";

(ii) yn yr ail golofn, mewnosoder—

"Yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol, yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr nwyddau perthnasol o drydedd wlad berthnasol roi hysbysiad ymlaen llaw i'r awdurdod cymwys perthnasol cyn yr adeg y disgwylir i'r nwyddau gyrraedd pwynt mynediad ym Mhrydain Fawr."

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ran o'r cyfnod graddoli trosiannol sy'n digwydd cyn 8 Ebrill 2021.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
12 Mawrth 2021

(**1**) Mewnosodwyd Erthygl 56A yn Rheoliad (EU) 2017/625 gan Atodiad 6. Mewnosodwyd Atodiad 6 yn Rheoliad (EU) 2017/625 gan reoliad 29(4) o O.S. 2020/1481 at ddiben cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 a'i randdirymiadau, ac addasu ei gymhwyso, mewn perthynas â thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig.

**Explanatory Memorandum to the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) Regulations 2021**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Rural Development & Legislation Division within the Department for Environment, Skills and Natural Resources of the Welsh Government and is laid before the Senedd in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) Regulations 2021. I am satisfied the benefits justify the likely costs.

Lesley Griffiths MS
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**
15 March 2021

# Part 1

## 1. Description

The Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 (the "instrument") will make amendments to the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 which apply in relation to Wales.

This instrument will come into force on 8 April 2021.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

The instrument is being made by the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred by Articles 22(2) and 144(6) of Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products ("the Official Controls Regulation"). Please see Article 3(2A) for the definition of "the appropriate authority".

This instrument is subject to the negative procedure.

## 3. Legislative background

Regulation (EU) 2016/2031 regarding pests of plants and the Official Controls Regulation amended as retained EU law ("the EU Regulations") establish protective measures against pests of plants, and provide for the conduct of official controls and other official activities to ensure the proper application of rules on plant health and plant protection products (amongst other things). The Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 and the equivalent Regulations that apply to England gave effect to the EU Regulations and provide for a corresponding enforcement regime.

The EU regulations and additional tertiary legislation made under them have been incorporated into domestic law in accordance with the European Union (Withdrawal) Act 2018, and amended in relation to Great Britain ("GB") to deal with a range of deficiencies in the legislation arising from the withdrawal of the UK from the European Union.

This instrument is connected to Part 2 of the Official Controls and Phytosanitary Conditions (Amendment) Regulations 2021, elements of which apply to Wales. Those Regulations made provision to supplement the Official Controls Regulation. Specifically, they supplemented and modified the transitional derogations and modifications set out in Article

168 of, and Annex 6 to, the Official Controls Regulation, by providing for official controls that are carried out on certain goods listed in the Schedule to those Regulations to be carried out at the place of destination ("PoD").

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

The purpose of this instrument is to protect biosecurity and support trade between GB and relevant third countries by introducing measures for high-risk plant goods. This instrument extends the enforcement provisions contained in the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 to include inspections undertaken at PoDs, enabling official controls and other official activities relating to plant health rules to be enforced.

### What the instrument does

This instrument facilitates the EU Exit phased plant health import control regime to support businesses after the end of the Transition Period, whilst also protecting GB biosecurity. It makes amendments to allow high-risk plants and plant products to undergo plant health inspections away from the border at inland PoDs, because Border Control Posts are not expected to be operationally ready to cope with the increase in trade volumes until later this year. This will be a temporary contingency measure until the Border Control Posts are operationally ready to inspect EU regulated goods.

## 5. Consultation

The powers used to make this instrument engage a consultation requirement in Article 144 of the Official Controls Regulation. Early informal engagement conducted by the UK Government with GB stakeholders, to test the feasibility of the new process against business practices covering a range of import issues, indicated that stakeholders would be open to having checks done at PoDs for flexibility sake. In addition, the UK Government engaged with GB-wide stakeholders and trade from summer 2020 to January 2021, including feasibility testing sessions as the PoD scheme was being developed.

The Welsh Government did not seek to duplicate this consultation which we fed into or unnecessarily burden stakeholders, but we did conduct a consultation (regarding the proposal to amend the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 to enable inspections to be undertaken at PoDs on high risk plants and plant products). This ensured Welsh specific stakeholders were given an opportunity to raise any Wales specific issues. The stakeholders consulted included the Horticultural Trades Association, Grow Wales/Tyfu Cymru, the

Fresh Produce Consortium and NFU. One response was received (from Grow Wales /Tyfu Cymru) and it was supportive of the proposal.

## 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

Two options have been considered in this assessment:

- Option 1 - Do Nothing
- Option 2 - Amend the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 as described above.

**Costs and benefits**

**Option 1 – Do Nothing**

This is the baseline option and as such there are no additional costs or benefits associated with this option.

**Option 2 - Amend the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 as described above.**

The regulations are expected to have very minor financial implications. There are 74 plant health import/export businesses in Wales which could potentially be affected by these regulations. It has been estimated that it will cost each PoD £80 to purchase the additional kit required for the inspection. There is a further cost to businesses of approximately £3 per inspection which reflects the value of time spent during the inspection. The PoD scheme is voluntary in that businesses will be able to continue to use the Border Control Posts if they prefer, however, guidance will encourage them to use the PoD scheme where possible, as there is a risk that the existing BCPs and controls points will not have the capacity to facilitate these checks at the border.

The costs to the organisations responsible for undertaking the plant health inspections are expected to be similarly small. Defra have estimated that the cost to the Animal Plant and Health Agency (APHA – for England and Wales), Forestry Commission for the forestry sector, and SASA in Scotland is under £100,000 for the six months the PoD scheme is expected to be operational. Given the relative size of the market in Wales, it is estimated the cost here will be less than £10,000.

As noted above, Border Control Posts are not expected to be operationally ready to handle the increase in trade volumes (following the end of the transition period) until later this year. The Regulations are

intended to ensure that businesses which are involved in the import of plants and plant products can continue to operate efficiently, whilst maintaining an effective plant health inspection regime and protecting biosecurity in Wales and across GB.

This is the preferred option.

**Competition Assessment**

The Regulations are not expected to impact on levels of competition in Wales or the competitiveness of Welsh businesses.

Eitem 4.8

# SL(5)789 – Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ("y Rheoliadau") i'w gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Mae Deddf 2018 yn sefydlu'r system yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, ac mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y system y darperir ar ei chyfer yn y Ddeddf honno. Dylid nodi bod y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau a gyhoeddwyd ar yr un pryd, ynghyd â chod ymarfer sylweddol, a bod un Memorandwm Esboniadol yn ceisio ymdrin â'r holl offerynnau cysylltiedig hyn.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch dehongli termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau drwyddynt draw. Hefyd, mae darpariaethau dehongli penodol mewn rheoliadau eraill, pan fo'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn cael eu defnyddio at ddibenion rheoliadau sy'n ymdrin â mater penodol yn unig (er enghraifft, rheoliad 34 yn Rhan 4). Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysu rhywun neu roi dogfen i rywun o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin ag ystod o faterion sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu unigol, ac mae'n ychwanegu at ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2018. Yn benodol, mae rheoliadau 6 i 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol o dan adrannau 14 ac 31 o Ddeddf 2018 ynghylch yr angen i gynnal cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru na sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Mae darpariaethau hefyd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cyfrifoldeb am gynllun datblygu unigol o un corff i un arall. Mae rheoliadau 20 i 25 yn cymhwyso, gydag addasiadau, ddyletswyddau yn Neddf 2018 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau atodol ym Mhennod 3 o Ran 2 o Ddeddf 2018 a swyddogaethau yn adrannau 68 a 69 o'r Ddeddf honno. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Mae adran 60 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rheoliadau 27 ac 28 yn nodi'r cymwysterau neu'r profiad y mae rhaid i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol feddu arnynt neu arno, ac mae rheoliadau 29 a 30 yn rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu

ychwanegol. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar allu'r corff llywodraethu i roi cyfrifoldebau pellach i'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli'r darpariaethau yn Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020, sydd wedi eu dirymu gan reoliad 1.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd. Mae'n ymdrin â phobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau neu i gymryd y camau gweithredu sy'n ofynnol. At ddibenion Deddf 2018, nid oes gan berson alluedd pan nad oes ganddo alluedd o fewn ystyr "lack capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, hynny yw, pan nad oes ganddo alluedd meddyliol, nid galluedd cyfreithiol. Mae'r Rheoliadau yn darparu, pan na fo gan riant plentyn alluedd, fod pob cyfeiriad at riant y plentyn i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at gynrychiolydd i'r rhiant. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan na fo gan berson ifanc alluedd, fod y cyfeiriadau at y person ifanc i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc, neu at riant y person ifanc.

Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn glir bod y darpariaethau sy'n ymwneud â galluedd meddyliol yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn ddogfen gyfansawdd sy'n ceisio ymdrin â'r gyfres o reoliadau a gyhoeddwyd ar yr un pryd, ynghyd â'r cod ymarfer cysylltiedig. Nodir bod y Memorandwm yn ymdrin mewn cryn fanylder â chanlyniadau ymgynghori perthnasol, asesiad o'r effaith ar gyfiawnder ac asesiad effaith rheoleiddiol manwl. Fodd bynnag, o gofio testun y Rheoliadau, sef y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, a'r rheini sydd â nam o ran eu galluedd, nid yw'n eglur a gynhaliwyd asesiadau effaith manwl hefyd mewn perthynas â chydraddoldeb a/neu hawliau dynol. Amlygir hyn ymhellach gan y ffaith bod y gyfres o

reoliadau dan sylw yn cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021. Os yw'r asesiadau effaith perthnasol wedi'u cynnal yn hyn o beth, byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfeiriad at yr asesiadau a'r canfyddiadau cysylltiedig yn y Memorandwm, a hynny er mwyn hwyluso'r broses o asesu cymesuredd y Rheoliadau ymhellach.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig (AEI) ar gyfer y pecyn o is-ddeddfwriaeth a osodwyd gerbron y Senedd ar 2 Mawrth, sy'n cynnwys Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (disodlwyd y fersiwn a osodwyd ar 2 Mawrth gan y fersiwn a osodwyd ar 12 Mawrth) a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021. Mae crynodeb o'r AEI ar gael ar https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-rheoliadau-asesiad-effaith-integredig-html.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Mawrth 2021**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2021 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn sefydlu'r system yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y system y darperir ar ei chyfer yn Neddf 2018.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch dehongli termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau drwyddynt draw. Hefyd, mae darpariaethau dehongli penodol mewn rheoliadau eraill, pan fo'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn cael eu defnyddio at ddibenion rheoliadau sy'n ymdrin â mater penodol yn unig (er enghraifft, rheoliad 34 yn Rhan 4). Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysu rhywun neu roi dogfen i rywun o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin ag ystod o faterion sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu unigol, ac mae'n ychwanegu at ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2018. Yn benodol, mae rheoliadau 6 i 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol o dan adrannau 14 ac 31 o Ddeddf 2018 ynghylch yr angen i gynnal cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru na sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Mae darpariaethau hefyd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cyfrifoldeb am gynllun datblygu unigol o un corff i un arall. Mae rheoliadau 20 i 25 yn cymhwyso, gydag addasiadau, ddyletswyddau yn Neddf 2018 mewn perthynas â

phlant a phobl ifanc sy’n cael eu cadw’n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau atodol ym Mhennod 3 o Ran 2 o Ddeddf 2018 a swyddogaethau yn adrannau 68 a 69 o’r Ddeddf honno. Mae’n cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Mae adran 60 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rheoliadau 27 ac 28 yn nodi’r cymwysterau neu’r profiad y mae rhaid i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol feddu arnynt neu arno ac mae rheoliadau 29 a 30 yn rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw’r Rheoliadau hyn yn effeithio ar allu’r corff llywodraethu i roi cyfrifoldebau pellach i’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r darpariaethau hyn yn disodli’r darpariaethau yn Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020, sydd wedi eu dirymu gan reoliad 1.

Mae Rhan 4 o’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd. Mae’n ymdrin â phobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau neu i gymryd y camau gweithredu sy’n ofynnol. At ddibenion Deddf 2018, nid oes gan berson alluedd pan nad oes ganddo alluedd o fewn ystyr “lack capacity” yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, hynny yw, pan nad oes ganddo alluedd meddyliol, nid galluedd cyfreithiol. Mae’r Rheoliadau yn darparu, pan na fo gan riant plentyn alluedd, fod pob cyfeiriad at riant y plentyn i’w ddarllen fel pe bai’n gyfeiriad at gynrychiolydd i’r rhiant. Mae’r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan na fo gan berson ifanc alluedd, fod y cyfeiriadau at y person ifanc i’w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc, neu at riant y person ifanc.

Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn glir bod y darpariaethau sy’n ymwneud â galluedd meddyliol yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau

hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2021 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* *1 Medi 2021*

## CYNNWYS

### RHAN 1
### CYFFREDINOL


1. Enwi, cychwyn a dirymu
2. Dehongli cyffredinol
3. Rhoi hysbysiad etc. o dan y Rheoliadau hyn
4. Rhoi hysbysiad etc. o dan Ran 2 o Ddeddf 2018: diwygio adran 88


### RHAN 2
### CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL


5. Categorïau o blant sy'n derbyn gofal a ragnodir o dan adran 15 o Ddeddf 2018
6. Dehongli rheoliadau 6 i 9 ac Atodlen 1
7. Rhaglen astudio bosibl
8. Yr angen am gynllun: rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a sefydliadau penodol yn Lloegr
9. Achosion eraill: anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant a'r angen am gynllun datblygu unigol

10. Hysbysiad o benderfyniad o dan adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018 nad oes angen cynllun
11. Terfyn amser i gorff GIG ymateb i atgyfeiriad adran 20
12. Terfyn amser ar gyfer gofyn i benderfyniad i beidio â chynnal cynllun gael ei ailystyried
13. Cais awdurdod lleol i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach
14. Atgyfeiriad awdurdod lleol at Weinidogion Cymru er mwyn penderfynu a ddylai corff llywodraethu sefydliad addysg bellach gynnal cynllun
15. Rhoi copïau o gynlluniau datblygu unigol mewn sefyllfaoedd trosglwyddo
16. Cyfnodau adolygu pan fo plentyn wedi dod yn blentyn sy’n derbyn gofal neu pan fo plentyn neu berson ifanc wedi peidio â bod yn blentyn neu berson ifanc sy’n derbyn gofal
17. Sicrhau darpariaeth arall pan fo cyfrifoldeb am gynllun yn cael ei drosglwyddo
18. Yr angen am gynllun datblygu unigol ar gyfer person sy’n cael ei gadw’n gaeth ar ôl ei ryddhau
19. Diwygiadau i adran 44 o Ddeddf 2018
20. Dehongli rheoliadau 20 i 25 ac Atodlen 2
21. Awdurdod lleol perthnasol
22. Plentyn neu berson ifanc a chanddo gynllun datblygu unigol cyn cael ei gadw’n gaeth mewn ysbyty
23. Plentyn neu berson ifanc heb gynllun datblygu unigol cyn cael ei gadw’n gaeth mewn ysbyty
24. Rhyddhau plentyn neu berson ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth mewn ysbyty
25. Plentyn neu berson ifanc yn trosglwyddo o gael ei gadw’n gaeth mewn ysbyty i gael ei gadw’n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol

RHAN 3

SWYDDOGAETHAU ATODOL

26. Dehongli rheoliadau 26 i 30
27. Cymhwyster neu brofiad rhagnodedig cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol

28. Cymhwyster rhagnodedig cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliad yn y sector addysg bellach
29. Swyddogaethau cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol
30. Swyddogaethau cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliad yn y sector addysg bellach
31. Terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu help arall
32. Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol
33. Diwygio adran 68 o Ddeddf 2018

## RHAN 4
## RHIENI A PHOBL IFANC NAD OES GANDDYNT ALLUEDD

34. Dehongli'r Rhan hon
35. Pan nad oes gan riant plentyn alluedd
36. Pan nad oes gan riant i blentyn sy'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth alluedd
37. Pan nad oes gan berson ifanc alluedd
38. Pan nad oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc alluedd
39. Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau o dan adran 68 o Ddeddf 2018
40. Gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 69 o Ddeddf 2018
41. Cynrychiolaeth mewn apelau
42. Deddf Galluedd Meddyliol 2005

---

ATODLEN 1 — ANGHENION RHESYMOL AM ADDYSG NEU HYFFORDDIANT

ATODLEN 2 — CYMHWYSO GYDAG ADDASIADAU DDEDDF 2018 MEWN PERTHYNAS Â PHERSONAU SY'N CAEL EU CADW'N GAETH MEWN YSBYTY O DAN RAN 3 O DDEDDF 1983

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**).

Yn unol ag adran 98(3) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

# RHAN 1

## CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a dirymu

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

(2) Deuant i rym ar 1 Medi 2021.

(3) Mae Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020(**3**) wedi eu dirymu.

### Dehongli cyffredinol

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2018" yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

(2) Mae i gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at berson sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw (sut bynnag y'i mynegir) yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg

---

(**1**) 2018 dccc 2. Gweler adran 99(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

(**2**) Mae'r cyfeiriadau yn adran 98(3) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2020/1351 (Cy. 299).

cyfatebol hwnnw gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996(**1**).

(3) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Neddf 2018 ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

(4) Pan fo'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cyfnod y mae'n ofynnol gwneud rhywbeth ynddo, neu cyn ei ddiwedd, ac na fo diwrnod olaf y cyfnod hwnnw yn ddiwrnod gwaith, mae'r cyfnod yn cael ei estyn i gynnwys y diwrnod gwaith canlynol.

**Rhoi hysbysiad etc. o dan y Rheoliadau hyn**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol (ar ba delerau bynnag) i gorff llywodraethu, awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, neu'n awdurdodi (ar ba delerau bynnag) corff llywodraethu, awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru i—

(a) hysbysu person am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson (gan gynnwys hysbysiad neu gopi o ddogfen).

(2) Mae adran 88 o Ddeddf 2018 (rhoi hysbysiad etc. o dan y Rhan hon) yn gymwys i'r ddarpariaeth—

(a) fel pe bai'n ddarpariaeth yn Rhan 2 o Ddeddf 2018,

(b) fel pe bai'r cyfeiriadau yn yr adran honno at gorff llywodraethu neu awdurdod lleol yn gyfeiriadau at gorff llywodraethu, awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, ac

(c) fel pe bai'r cyfeiriad yn adran 88(4) at adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978(**2**) (cyfeiriadau at gyflwyno drwy'r post) yn gyfeiriad at adran 13 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**3**) (cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig).

**Rhoi hysbysiad etc. o dan Ran 2 o Ddeddf 2018: diwygio adran 88**

**4.** Ar ddiwedd adran 88 o Ddeddf 2018 mewnosoder—

"(6) Mae hysbysiad neu ddogfen a roddir i berson drwy ei anfon neu ei hanfon yn

(**1**) 1996 p. 56. Mae'r is-adrannau hyn wedi eu diwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (p. 4), Atodlen 4, Rhan 1, paragraff 47, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 49 ac O.S. 2016/413 (Cy. 131), rheoliadau 153 a 157.

(**2**) 1978 p. 30.

(**3**) 2019 dccc 4. Mae adran 13 wedi ei diwygio gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), Atodlen 1, paragraff 5(1), (3)(b) a (4)(a). Mae diwygiadau eraill i adran 13 nad ydynt yn berthnasol.

electronig yn unol â'r adran hon i gael ei drin neu ei thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod yr anfonwyd y cyfathrebiad electronig."

# RHAN 2

## CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

**Categorïau o blant sy'n derbyn gofal a ragnodir o dan adran 15 o Ddeddf 2018**

**5.** Nid yw plentyn i'w drin fel pe bai'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 os nad yw'n ofynnol, gan neu o dan adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya), i gynllun addysg personol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 83(2A) o'r Ddeddf honno) gael ei gynnwys fel rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn o dan yr adran honno.

*Penderfyniadau awdurdodau lleol ar yr angen am gynlluniau datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc*

**Dehongli rheoliadau 6 i 9 ac Atodlen 1**

**6.**—(1) Yn y rheoliad hwn, rheoliadau 7 i 9 ac Atodlen 1—

ystyr "addysg bellach neu hyfforddiant" ("*further education or training*") yw addysg neu hyfforddiant sy'n addas i ofynion personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol a gweithgaredd amser hamdden wedi ei drefnu sy'n gysylltiedig ag addysg neu hyfforddiant o'r fath, ond nid yw'n cynnwys unrhyw addysg neu hyfforddiant a geir gan berson ifanc tra bo'n ddarostyngedig i orchymyn cadw (gweler rheoliad 2(2) ar gyfer pa bryd y mae person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw);

ystyr "deilliannau" ("*outcomes*") yw deilliannau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer gwaith, symud ymlaen i addysg arall, gan gynnwys addysg uwch, neu gyfleoedd hyfforddi neu ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol neu sgiliau neu nodweddion defnyddiol eraill ar gyfer bod yn oedolyn;

ystyr "rhaglen astudio" ("*programme of study*") yw un neu ragor o gyrsiau o addysg bellach neu hyfforddiant, pa un a yw'n arwain at gymhwyster ai peidio ac yn achos mwy nag un cwrs, pa un a yw'r cyrsiau yn cael eu dilyn yn gydredol neu'n

---

(**1**) 2014 dccc 4. Mewnosodwyd adran 83(2A), a diwygiwyd adran 83 yn fwy cyffredinol, gan adran 16 o Ddeddf 2018.

olynol ai peidio (ond os ydynt yn cael eu dilyn yn olynol rhaid iddynt fod yn rhan o raglen astudio gyffredinol).

(2) Wrth benderfynu ar gyfnod para rhaglen astudio at ddibenion rheoliad 9 ac Atodlen 1—

(a) mae rhaglen astudio yn cael ei thrin fel pe bai'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person ifanc yn cychwyn, neu y disgwylir iddo gychwyn, ar y rhaglen astudio ac yn dod i ben â'r diwrnod y disgwylir i'r person ei chwblhau, a

(b) os yw'r rhaglen, neu ran ohoni, yn para am o leiaf 38 o wythnosau mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn, mae'r rhaglen, neu'r rhan honno ohoni, yn cael ei thrin fel pe bai'n cael ei chynnal dros flwyddyn.

(3) Wrth benderfynu ar gyfnod para addysg bellach neu hyfforddiant arall a ddilynir gan berson ifanc at ddibenion rheoliad 9 ac Atodlen 1—

(a) mae'r addysg bellach neu'r hyfforddiant yn cael ei thrin neu ei drin fel pe bai wedi dechrau â diwrnod cyntaf y mis y cychwynnodd y person ifanc arni neu arno ac yn dod i ben â diwrnod olaf y mis—

(i) y cwblhaodd y person ifanc yr addysg bellach neu'r hyfforddiant neu y peidiodd fel arall â chael yr addysg bellach neu'r hyfforddiant, neu

(ii) y disgwylir i'r person ifanc gwblhau'r addysg bellach neu'r hyfforddiant neu y disgwylir fel arall iddo beidio â chael yr addysg bellach neu'r hyfforddiant;

(b) os yw'r addysg bellach neu'r hyfforddiant, neu ran ohoni neu ohono, yn para am o leiaf 38 o wythnosau mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn, mae'n cael ei thrin neu ei drin, neu mae'r rhan honno ohoni neu ohono yn cael ei thrin, fel pe bai'n cael ei chynnal neu ei gynnal dros flwyddyn.

**Rhaglen astudio bosibl**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i benderfyniad awdurdod lleol o dan adran 14(1)(c)(ii) neu 31(6)(b) o Ddeddf 2018 o ran a yw cynllun datblygu unigol yn angenrheidiol ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru nac wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) nodi deilliannau dymunol y person ifanc, os oes rhai, a

(b) ystyried pa raglenni astudio a all fod ar gael ac a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni'r deilliannau dymunol hynny.

(3) Wrth ystyried y mater ym mharagraff (2)(b)—

(a) yn gyntaf rhaid i'r awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau yn y sector addysg bellach;

(b) ni chaiff yr awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio mewn sefydliadau ac eithrio'r rheini a grybwyllir ym mharagraff (7) ond pan fo'n ymddangos yn debygol na ellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i ddilyn rhaglen astudio addas oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau ar gyfer y person ifanc—

(i) lle mewn sefydliad ac eithrio un a grybwyllir ym mharagraff (7), neu

(ii) bwyd a llety.

(4) Wrth benderfynu a yw rhaglen astudio a ddarperir gan sefydliad ac eithrio un a grybwyllir ym mharagraff (7) yn addas ar gyfer person ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried, yn unol â pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1, a oes posibilrwydd realistig y byddai'r person ifanc yn cyflawni deilliannau dymunol y person drwy ddilyn y rhaglen astudio neu drwy barhau i ddilyn y rhaglen astudio (gydag unrhyw addasiadau arfaethedig).

(5) Pan fo'r person ifanc eisoes yn dilyn rhaglen astudio, nid yw paragraff (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio eraill os yw wedi ei fodloni bod y rhaglen y mae'r person ifanc yn ei dilyn yn parhau i fod yn addas, neu y byddai'n addas gydag addasiadau, i alluogi'r person ifanc i gyflawni deilliannau dymunol y person.

(6) Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â pharagraff (2) neu unrhyw ran ohono, os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni na fyddai cydymffurfio ag ef, neu â'r rhan honno ohono, yn effeithio ar ei benderfyniad o dan adran 14(1)(c)(ii) neu 31(6)(b) o Ddeddf 2018.

(7) Mae rheoliad 8 yn gymwys pan fo'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn unrhyw un o'r sefydliadau a ganlyn, neu pan fo'r person ifanc i fod yn ddisgybl neu'n fyfyriwr o'r fath, i ddilyn rhaglen astudio, neu i barhau i ddilyn rhaglen astudio, i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc—

(a) ysgol a gynhelir yng Nghymru neu Loegr;

(b) sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu Loegr;

(c) Academi.

(8) Mae rheoliad 9 yn gymwys i bob achos arall.

### Yr angen am gynllun: rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a sefydliadau penodol yn Lloegr

**8.**—(1) Mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y person ifanc os byddai'r awdurdod lleol, neu os yw'r awdurdod lleol, wrth lunio neu gynnal y cynllun ar gyfer y person ifanc, o dan y ddyletswydd yn adran 14(6) o Ddeddf 2018 i ddisgrifio darpariaeth o fath a restrir yn adran 14(7) o'r Ddeddf honno.

(2) Mae hefyd yn angenrheidiol i awdurdod lleol barhau i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc os yw'r person ifanc i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru i ddilyn rhaglen astudio.

(3) Ar gyfer achosion nad ydynt yn dod o fewn paragraff (1) neu (2), rhaid i'r awdurdod lleol ystyried—

(a) yn achos person ifanc sydd i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, a yw'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;

(b) yn achos person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr, Academi neu sefydliad yn y sector addysg bellach yn Lloegr, neu sydd i fod yn ddisgybl neu'n fyfyriwr o'r fath, a fyddai corff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad neu, yn achos Academi, y perchennog, yn sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(4) Wrth ystyried mater y cyfeirir ato ym mharagraff (3), rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r corff llywodraethu neu'r perchennog.

(5) Mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y person ifanc—

(a) os yw'r awdurdod lleol, yn yr achos y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(a), yn ystyried nad yw'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;

(b) os nad yw'r awdurdod lleol, yn yr achos y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b), wedi ei fodloni y byddai'r corff llywodraethu neu'r perchennog yn sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(6) Fel arall nid yw'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y person ifanc.

(7) Mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyfeiriadau at y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gelwir amdani gan anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc er mwyn dilyn y rhaglen astudio neu barhau i ddilyn y rhaglen astudio.

**Achosion eraill: anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant a'r angen am gynllun datblygu unigol**

**9.**—(1) Mae gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan na fo'r rhaglen astudio addas y bwriedir i'r person ifanc ei dilyn, neu barhau i'w dilyn, ynghyd ag unrhyw addysg bellach neu hyfforddiant arall a ddilynir gan y person ifanc, yn para am fwy na 2 flynedd.

(2) Caiff yr awdurdod lleol benderfynu bod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant os yw unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 3(1), 4(1), 5(1) a 6(1) o Atodlen 1 yn gymwys.

(3) At ddibenion penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan baragraff (2), mae paragraffau 3(2), 4(2), 5(2) a 6(2) o Atodlen 1 yn nodi'r priod ffactorau y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried ar gyfer pob un o'r amgylchiadau sy'n gymwys.

(4) At ddibenion adran 31(6)(b) o Ddeddf 2018, mae gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan fo'r person ifanc yn dilyn rhaglen astudio addas yn unol â phenderfyniad o dan baragraff (2).

(5) Pan fo gan y person ifanc anghenion rhesymol, neu pan fo awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion rhesymol, am addysg neu hyfforddiant o dan y rheoliad hwn—

(a) at ddibenion adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018, mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc os byddai'r awdurdod lleol, pe bai'n llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc, o dan y ddyletswydd yn adran 14(6) o'r Ddeddf honno i bennu yn y cynllun ddarpariaeth o'r math a restrir yn adran 14(7)(a) o'r Ddeddf honno;

(b) at ddibenion adran 31(6)(b) o'r Ddeddf honno, mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol barhau i gynnal cynllun datblygu unigol y person ifanc os yw'r awdurdod lleol o dan y ddyletswydd yn adran 14(6) o'r Ddeddf

honno i bennu yn y cynllun ddarpariaeth o’r math a restrir yn adran 14(7)(a) o’r Ddeddf honno.

(6) Fel arall nid yw’n angenrheidiol i’r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y person ifanc.

**Hysbysiad o benderfyniad o dan adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018 nad oes angen cynllun**

**10.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn penderfynu o dan adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018 nad oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc.

(2) Rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu’r person ifanc am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Rhaid i’r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi’r hysbysiad a grybwyllir ym mharagraff (2), yn brydlon ac mewn unrhyw achos cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cydsyniodd y person ifanc i’r penderfyniad o dan adran 13(1) o Ddeddf 2018 gael ei wneud.

(4) Nid oes angen i’r awdurdod lleol gydymffurfio â’r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi’r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os yw’n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i’w reolaeth.

(5) Wrth roi’r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2), rhaid i’r awdurdod lleol hefyd roi i’r person ifanc—

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;

(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau’r awdurdod lleol o dan adran 9 o Ddeddf 2018 ar gyfer darparu i bobl wybodaeth a chyngor ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a’r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer gan Ran 2 o’r Ddeddf honno;

(c) manylion ynghylch trefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau o dan adran 68 o Ddeddf 2018;

(d) manylion ynghylch trefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 69 o Ddeddf 2018;

(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio i’r Tribiwnlys Addysg o dan adran 70 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.

*Terfynau amser ar gyfer atgyfeiriadau adran 20 a gofyn bod y penderfyniad i beidio â chynnal cynlluniau yn cael ei ailystyried*

**Terfyn amser i gorff GIG ymateb i atgyfeiriad adran 20**

**11.**—(1) Rhaid i gorff GIG sydd o dan ddyletswydd i roi gwybod o dan adran 21(1) neu (2) o Ddeddf 2018 (cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG) gydymffurfio â'r ddyletswydd honno yn brydlon ac mewn unrhyw achos o fewn y cyfnod a ragnodir gan baragraff (2).

(2) Mae'r cyfnod rhagnodedig—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r corff GIG yn cael yr atgyfeiriad o dan adran 20 o Ddeddf 2018, a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Nid oes angen i'r corff GIG gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi gwybod o dan adran 21(1) neu (2) o fewn y cyfnod a ragnodir gan baragraff (2) os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

**Terfyn amser ar gyfer gofyn i benderfyniad i beidio â chynnal cynllun gael ei ailystyried**

**12.**—(1) Mae'r cyfnod a ragnodir at ddibenion adran 32(1)(b) o Ddeddf 2018 (ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 31)—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn rhoi'r hysbysiadau o dan adran 31(8) a (9) o'r Ddeddf honno, a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd 4 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(2) Pan fo'r hysbysiadau o dan adran 31(8) a (9) yn cael eu rhoi ar ddiwrnodau gwahanol (pa un ai oherwydd eu bod yn cael eu rhoi i bersonau gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol neu eu rhoi o dan bob is-adran ar ddiwrnodau gwahanol), mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1)(a) at y diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn rhoi'r hysbysiadau yn gyfeiriad at yr hwyrach o'r diwrnodau hynny.

*Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynlluniau datblygu unigol*

**Cais awdurdod lleol i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach**

**13.**—(1) Rhaid i gais gan awdurdod lleol o dan adran 36(2) o Ddeddf 2018 fod corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yn dod yn gyfrifol am gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad—

(a) cael ei wneud yn ysgrifenedig, a

(b) dod gyda chopi o'r cynllun, oni bai bod gan y corff llywodraethu gopi ohono eisoes.

(2) Mae'r cyfnod a ragnodir at ddibenion adran 36(3) o Ddeddf 2018 (y cyfnod y caiff awdurdod lleol atgyfeirio mater at Weinidogion Cymru ar ei ôl)—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn cael y cais o dan adran 36(2), a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 20 niwrnod amser tymor sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Pan fo corff llywodraethu yn cytuno i gais awdurdod lleol o dan adran 36(2)—

(a) rhaid iddo roi gwybod i'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig am ei gytundeb, a

(b) mae'n dod yn gyfrifol am y cynllun o dan adran 12(4) o Ddeddf 2018—

(i) ar y diwrnod y cytunir arno rhwng y corff llywodraethu a'r awdurdod i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo;

(ii) fel arall ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn cael cytundeb ysgrifenedig y corff llywodraethu i'r cais.

(4) Ym mharagraff (2), ystyr "diwrnod amser tymor" mewn perthynas â sefydliad yn y sector addysg bellach yw diwrnod y mae'r sefydliad i fod i gwrdd at ddiben addysgu myfyrwyr ar yr amod bod y diwrnod hwnnw o fewn cyfnod amser y mae'r sefydliad yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'i gyrsiau llawnamser ynddo.

**Atgyfeiriad awdurdod lleol at Weinidogion Cymru er mwyn penderfynu a ddylai corff llywodraethu sefydliad addysg bellach gynnal cynllun**

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas ag atgyfeiriad o dan adran 36 o Ddeddf 2018 gan awdurdod lleol at Weinidogion Cymru am benderfyniad o ran a ddylai corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach gynnal cynllun

datblygu unigol ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad.

(2) Rhaid i'r atgyfeiriad—

(a) cael ei wneud o fewn y cyfnod o 4 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod a ragnodir gan reoliad 13(2),

(b) cael ei wneud yn ysgrifenedig,

(c) dod gyda chopi o'r adrannau o'r cynllun datblygu unigol sy'n cynnwys y disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc a'r disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, a

(d) dod gyda chopi o unrhyw wybodaeth arall yn y cynllun datblygu unigol y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i benderfynu ar y mater.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r person ifanc a'r corff llywodraethu am yr atgyfeiriad a gwahodd sylwadau.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r person ifanc, yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu am—

(a) eu penderfyniad o dan adran 36(4) o Ddeddf 2018, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylai'r corff llywodraethu gynnal y cynllun, mae dyletswydd y corff llywodraethu i'w gynnal o dan adran 12(4) o Ddeddf 2018 yn cymryd effaith—

(a) ar y diwrnod y caniateir ei bennu yn yr hysbysiad o dan baragraff (4);

(b) fel arall ar y diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn cael yr hysbysiad hwnnw.

**Rhoi copïau o gynlluniau datblygu unigol mewn sefyllfaoedd trosglwyddo**

**15.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o dan bob un o'r amgylchiadau a ganlyn—

(a) mae corff llywodraethu neu awdurdod lleol ("y corff newydd") yn dod yn gyfrifol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 am gynnal neu gadw cynllun datblygu unigol a oedd yn cael ei gynnal neu ei gadw yn flaenorol o dan y Rhan honno gan gorff llywodraethu arall neu awdurdod lleol arall ("yr hen gorff");

(b) byddai awdurdod lleol ("y corff newydd") yn dod yn gyfrifol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 am gynnal neu gadw cynllun datblygu unigol a oedd yn cael ei gynnal neu ei gadw yn flaenorol o dan y Rhan honno gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol arall ("yr hen gorff") oni bai am ddiffyg gwybodaeth y corff newydd am yr amgylchiadau sy'n

arwain at ei gyfrifoldeb am y cynllun (gweler adrannau 30(5) a 42(5) o Ddeddf 2018 a rheoliad 22(3));

(c) mae corff llywodraethu ysgol a gynhelir ("y corff newydd") yn dod yn gyfrifol am gynnal cynllun datblygu unigol yn rhinwedd bod awdurdod lleol ("yr hen gorff") yn cyfarwyddo'r corff llywodraethu o dan adran 14(2)(b)(i) neu (4) o Ddeddf 2018.

(2) Rhaid i'r hen gorff roi copi o'r cynllun i'r corff newydd oni bai bod gan y corff newydd gopi ohono eisoes.

(3) Ond pan na fo'r hen gorff yn ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n arwain at drosglwyddo cyfrifoldeb am y cynllun, nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (2) yn gymwys hyd nes bod yr hen gorff yn ymwybodol o'r amgylchiadau hynny.

**Cyfnodau adolygu pan fo plentyn wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu pan fo plentyn neu berson ifanc wedi peidio â bod yn blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal**

**16.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o dan bob un o'r amgylchiadau a ganlyn—

(a) mae awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol, yn rhinwedd adran 35(10) o Ddeddf 2018, am gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ("y trosglwyddiad");

(b) mae awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol, yn rhinwedd adran 35(12) a (13) o Ddeddf 2018, am gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd wedi peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal ("y trosglwyddiad").

(2) At ddibenion penderfynu ar y cyfnod adolygu y mae rhaid i'r awdurdod lleol, o dan adran 24(1) (ar gyfer achos o fewn paragraff (1)(a)) neu 23(1) (ar gyfer achos o fewn paragraff (1)(b)) o Ddeddf 2018, adolygu'r cynllun yn gyntaf ynddo yn dilyn y trosglwyddiad, mae adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf honno yn gymwys (er gwaethaf adran 23(12) ar gyfer achos o fewn paragraff (1)(a)) fel yr oeddent yn union cyn y trosglwyddiad.

**Sicrhau darpariaeth arall pan fo cyfrifoldeb am gynllun yn cael ei drosglwyddo**

**17.**—(1) Mae paragraffau (2) a (3) yn gymwys—

(a) pan fo awdurdod lleol, yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol o dan adran 35 o Ddeddf 2018, o dan ddyletswydd i sicrhau lle mewn ysgol

benodol neu sefydliad arall a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag adran 14(6) neu 19(4) o'r Ddeddf honno, a

(b) pan na fo, yng ngoleuni'r amgylchiadau sydd wedi arwain at y trosglwyddiad, yn ymarferol mwyach i'r plentyn neu'r person ifanc fynychu'r ysgol neu'r sefydliad arall.

(2) Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau'r lle yn yr ysgol neu'r sefydliad arall yn gymwys hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r cynllun ac eithrio pan fo'r awdurdod yn trefnu bwyd a llety o dan baragraff (3).

(3) Caiff yr awdurdod lleol drefnu bwyd a llety er mwyn galluogi'r plentyn neu'r person ifanc i barhau i fynychu'r ysgol neu'r sefydliad arall hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r cynllun datblygu unigol.

*Personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

**Yr angen am gynllun datblygu unigol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth ar ôl ei ryddhau**

**18.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys at ddiben penderfyniad awdurdod cartref o dan adran 40(2)(b) o Ddeddf 2018.

(2) Mae angen llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac eithrio—

(a) pan fo'n debygol y bydd y person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi cyrraedd 25 oed cyn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth, neu

(b) pan fo'n annhebygol, yn achos person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, y bydd gan y person anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan gaiff ei ryddhau.

(3) At ddibenion paragraff (2)(b), mae gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan bob un o'r amgylchiadau a ganlyn—

(a) mae'r person ifanc wedi ei gofrestru'n ddisgybl neu wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn ysgol a gynhelir, sefydliad yn y sector addysg bellach neu Academi (pa un a yw'r ysgol a gynhelir neu'r sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu Loegr);

(b) mae gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan reoliad 9(1);

(c) mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan reoliad 9(2) fod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.

(4) Pan fo'r awdurdod cartref yn penderfynu na fydd angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff y person

hwnnw ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth, rhaid i'r awdurdod cartref wneud y penderfyniad hwnnw a rhoi'r hysbysiad ohono o dan adran 40(4) o Ddeddf 2018 yn brydlon ac mewn unrhyw achos cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod—

(a) yn achos plentyn, y tynnwyd sylw'r awdurdod cartref, neu yr ymddangosai i'r awdurdod cartref fel arall, y gall fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol;

(b) yn achos person ifanc, y cydsyniodd y person ifanc i'r penderfyniad gael ei wneud o ran a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol.

(5) Nid oes angen i'r awdurdod cartref gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad hwnnw a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

(6) Wrth hysbysu person sy'n cael ei gadw'n gaeth, ac os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, riant y plentyn, o dan adran 40(4) o Ddeddf 2018, na fydd angen cynllun datblygu unigol, rhaid i'r awdurdod cartref hefyd roi—

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cartref;

(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod cartref o dan adran 9 o Ddeddf 2018 ar gyfer darparu i bobl wybodaeth a chyngor ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer gan Ran 2 o'r Ddeddf honno;

(c) manylion ynghylch trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau o dan adran 68 o Ddeddf 2018;

(d) manylion ynghylch trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 69 o Ddeddf 2018;

(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg o dan adran 72 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.

**Diwygiadau i adran 44 o Ddeddf 2018**

**19.**—(1) Mae adran 44 o Ddeddf 2018 (darpariaethau penodol Rhan 2 nad ydynt i fod yn gymwys i blant a phersonau ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn is-adran (1), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(d) corff GIG.";

(b) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(da) adran 20(5)(a) ac (c) (dyletswydd corff GIG i sicrhau triniaeth neu wasanaeth ac i gymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau yn Gymraeg);".

*Cadw'n gaeth o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; cymhwyso Deddf 2018*

**Dehongli rheoliadau 20 i 25 ac Atodlen 2**

**20.**—(1) At ddibenion y rheoliad hwn, rheoliadau 21 i 25 ac Atodlen 2—

mae i "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 yr ystyr a roddir yn rheoliad 21;

ystyr "dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty" ("*beginning of the detention in hospital*") mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 yw—

(a) dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan y Rhan honno, neu

(b) pan fo cyfnod o gadw'n gaeth mewn lle diogel yn unol â chyfarwyddydau llys o dan y Rhan honno yn union cyn y cyfnod hwnnw, dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth yn y lle diogel;

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Iechyd Meddwl 1983(**1**).

(2) Mae rheoliad 2(2) yn ymdrin ag ystyr cyfeiriadau at berson sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw.

(3) At ddibenion y diffiniad o "dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty" ym mharagraff (1), nid yw'n berthnasol a yw'r cyfnod cadw yn unol ag un gorchymyn ai peidio.

**Awdurdod lleol perthnasol**

**21.**—(1) Pan oedd y plentyn neu'r person ifanc yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983, ystyr "yr awdurdod lleol perthnasol" yw awdurdod cartref y plentyn neu'r person ifanc.

---

(**1**) 1983 p. 20. Mewnosododd adran 46 o Ddeddf (Dedfrydau) Troseddau 1997 (p. 43) adrannau 45A a 45B yn Rhan 3. Mae diwygiadau eraill i Ran 3 nad ydynt yn berthnasol.

(2) Pan nad oedd y plentyn neu'r person ifanc yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983—

(a) os oedd y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn gofal yn union cyn dechrau'r cyfnod cadw hwnnw neu os yw wedi bod yn derbyn gofal ar unrhyw adeg ers hynny, ystyr yr "awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc, neu sydd wedi gofalu am y plentyn neu'r person ifanc ddiweddaraf;

(b) fel arall ystyr yr "awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio fel arfer yn ei ardal.

(3) Ond nid yw awdurdod lleol yn Lloegr yn awdurdod lleol perthnasol.

(4) At ddiben paragraff (1), mae'r diffiniadau o "awdurdod cartref" a "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth" (gweler adran 39 o Ddeddf 2018 sy'n cymhwyso ystyron a roddir yn adran 562J o Ddeddf Addysg 1996(**1**) yn ddarostyngedig, yn achos "awdurdod cartref", i unrhyw reoliadau o dan adran 39(2)) yn gymwys fel pe bai'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 yn parhau i fod yn gyfnod o gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol.

(5) At ddiben paragraff (2), mae plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw'r plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**) neu gan awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion Deddf Plant 1989(**3**).

(6) Wrth benderfynu at ddiben paragraff (2) lle y mae plentyn neu berson ifanc yn preswylio fel arfer, mae unrhyw gyfnod pan yw'r person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw i'w ddiystyru.

---

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 562J gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 50. Mae diwygiadau perthnasol iddi wedi eu gwneud gan O.S. 2010/1158, Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 16(1), (2) a (4).

(**2**) 2014 dccc 4. Mae adran 74 yn darparu ar gyfer dehongli cyfeiriadau yn y Ddeddf honno at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

(**3**) 1989 p. 41. Mae adrannau 22(1) a 105(4) yn darparu ar gyfer dehongli cyfeiriadau at blentyn sy'n derbyn gofal. Mae adran 22(1) wedi ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22), Atodlen 5, paragraff 19, Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), adran 2(1) a (2) ac O.S. 2016/413, rheoliadau 55 a 69(a). Amnewidiwyd adran 105(4) gan O.S. 2016/413, rheoliadau 55 a 106(b).

**Plentyn neu berson ifanc a chanddo gynllun datblygu unigol cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

**22.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo plentyn neu berson ifanc yn ddarostyngedig i orchymyn cadw,

(b) pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983, ac

(c) pan oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal neu ei gadw ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i'w drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14 o Ddeddf 2018 at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf honno, ac unrhyw ddarpariaeth a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag adran 19(4) neu 40(7) o Ddeddf 2018 yn cael ei thrin fel pe bai'n cael ei disgrifio yn unol ag adran 14(6).

(3) Ond nid yw'r ddyletswydd i gynnal y cynllun ym mharagraff (2) yn gymwys mewn perthynas â chynllun a oedd yn cael ei gynnal neu ei gadw gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ac eithrio'r awdurdod lleol perthnasol oni thynnir sylw'r awdurdod lleol perthnasol at y ffaith bod y cynllun yn cael ei gynnal neu ei gadw.

(4) Mae Deddf 2018 a darpariaethau eraill o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno (gan gynnwys y Rheoliadau hyn) yn gymwys gyda'r addasiadau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 2 mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc tra bo'r plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw yn ddarostyngedig i orchymyn cadw ac yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983.

(5) Pan oedd y cynllun, yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty, yn cael ei gadw o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol—

(a) rhoi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc ei fod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun,

(b) os yw'r cynllun ar gyfer plentyn, roi gwybod i riant y plentyn, ac

(c) adolygu'r cynllun,

(ar gyfer pan oedd y cynllun yn cael ei gynnal gan gorff arall yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty, gweler adrannau 22(2) a 23 o Ddeddf 2018 fel y'u cymhwysir gan y rheoliad hwn).

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol gwblhau'r adolygiad o'r cynllun yn brydlon ac mewn unrhyw

achos o fewn y cyfnod o 7 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty.

(7) Nid oes angen i'r awdurdod lleol perthnasol gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod hwnnw o 7 wythnos os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod.

(8) At ddibenion paragraff (6), mae adolygiad wedi ei gwblhau pan yw'r awdurdod lleol perthnasol yn rhoi, o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) copi o'r cynllun datblygu unigol diwygiedig;

(b) hysbysiad o benderfyniad na ddylid diwygio'r cynllun;

(c) hysbysiad o benderfyniad nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol mwyach;

(d) os yw'r person yn berson ifanc, hysbysiad o benderfyniad nad oes angen cynnal y cynllun mwyach i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.

**Plentyn neu berson ifanc heb gynllun datblygu unigol cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

**23.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn cadw,

(b) pan fo'r plentyn yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983, ac

(c) pan nad oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal na'i gadw ar gyfer y plentyn o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty.

(2) Mae'r rheoliad hwn hefyd yn gymwys—

(a) pan, ar neu ar ôl 1 Medi 2022—

(i) bo person ifanc yn ddarostyngedig i orchymyn cadw,

(ii) bo'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983, a

(b) pan nad oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal na'i gadw ar gyfer y person ifanc o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty.

(3) Mae Deddf 2018 a darpariaethau eraill o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno (gan gynnwys y Rheoliadau hyn) yn gymwys gyda'r addasiadau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 2 mewn perthynas â'r plentyn neu'r person

ifanc tra bo'r plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw yn ddarostyngedig i orchymyn cadw ac yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 (yn benodol, gweler adran 13).

**Rhyddhau plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

**24.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo plentyn neu berson ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth,

(b) pan oedd awdurdod lleol perthnasol, yn union cyn rhyddhau'r plentyn neu'r person ifanc, yn cynnal cynllun datblygu unigol o dan adran 14 o Ddeddf 2018 ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc,

(c) pan fo awdurdod lleol, ar y dyddiad rhyddhau, yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, a

(d) pan na fo'r person a ryddheir, yn union wrth ei ryddhau, yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (ar gyfer pan fo plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn union wrth ei ryddhau, gweler adran 35(9) a (10) o Ddeddf 2018).

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol a grybwyllir ym mharagraff (1)(c) gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i'w drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14 o Ddeddf 2018 at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf honno.

**Plentyn neu berson ifanc yn trosglwyddo o gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty i gael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol**

**25.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo plentyn neu berson ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw yn trosglwyddo o gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 i gael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr (ar gyfer pan fo plentyn neu berson ifanc o'r fath yn trosglwyddo i gael ei gadw'n gaeth mewn llety ac eithrio llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr, gweler adran 562 o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac adran 44 o Ddeddf 2018).

---

(**1**) 1996 p. 56. Mae adran 562 wedi ei diwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (p. 4), Atodlen 4, Rhan 1, paragraff 47, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 49, O.S. 2010/1158, Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 7(1) i (3) ac O.S. 2016/413, rheoliadau 153 a 157.

(2) Wrth gymhwyso'r diffiniad o "beginning of the detention" (yn adran 562J o Ddeddf Addysg 1996), at ddibenion adran 42 o Ddeddf 2018, nid yw'r cyfnod parhaus y cyfeirir ato yn cynnwys y cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 nac unrhyw gyfnod cyn y cyfnod hwnnw.

# RHAN 3

## SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol*

### Dehongli rheoliadau 26 i 30

**26.** Yn y rheoliad hwn a rheoliadau 27 i 30—

ystyr "athro neu athrawes addysg bellach" ("*further education teacher*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes addysg bellach fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes ysgol fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 ac nid yw'n cynnwys person sydd wedi ei gofrestru ar sail dros dro o dan adran 9(5) o'r Ddeddf honno;

ystyr "cydlynydd anghenion addysgol arbennig" ("*special educational needs co-ordinator*") yw person sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y nodir bod ganddynt anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Addysg (Cymru) 2014(**2**);

ystyr "gwasanaethau perthnasol" ("*relevant services*") yw—

(a) cyngor neu gymorth mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol,

(b) rheoli darpariaeth ddysgu ychwanegol,

(c) asesu anghenion dysgu ychwanegol,

(d) cyngor neu gymorth mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol, ac

(e) rheoli disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol;

ystyr "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" ("*further education learning support*

(**1**) 1996 p. 56.
(**2**) 2014 dccc 5.

*worker*”) yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach fel y’i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr “gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol” (“*school learning support worker*”) yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol fel y’i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

**Cymhwyster neu brofiad rhagnodedig cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol**

**27.** Ni chaiff corff llywodraethu ysgol ddynodi person yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol o dan adran 60(2) o Ddeddf 2018 ond os yw’r person hwnnw—

(a) yn athro neu athrawes ysgol, neu

(b) yn gydlynydd anghenion addysgol arbennig o fewn yr ysgol yn union cyn 4 Ionawr 2021(**1**).

**Cymhwyster rhagnodedig cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliad yn y sector addysg bellach**

**28.** Ni chaiff corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach ddynodi person yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol o dan adran 60(2) o Ddeddf 2018 ond os yw’r person hwnnw yn athro neu athrawes addysg bellach.

**Swyddogaethau cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol**

**29.** Y tasgau y mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol yn gyfrifol am eu cyflawni, neu am sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, yw—

(a) nodi anghenion dysgu ychwanegol disgybl a chydlynu’r gwaith o wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol sy’n diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgybl,

(b) sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi darpariaeth ddysgu ychwanegol disgybl fel y bo’n ofynnol,

(c) cadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a chynlluniau datblygu unigol,

(d) hybu cynhwysiant disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol a’i fynediad

(**1**) Daeth Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1351 (Cy. 299)) i rym ar 4 Ionawr 2021.

at gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol,

(e) monitro effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir,

(f) cynghori'r athrawon ysgol yn yr ysgol ynghylch y dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol ar gyfer disgyblion unigol ag anghenion dysgu ychwanegol,

(g) goruchwylio a hyfforddi gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol sy'n gweithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac

(h) cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon ysgol yn yr ysgol er mwyn cynorthwyo'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni'r tasgau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (e).

**Swyddogaethau cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliad yn y sector addysg bellach**

**30.** Y tasgau y mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yn gyfrifol am eu cyflawni, neu am sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, yw—

(a) nodi anghenion dysgu ychwanegol myfyriwr a chydlynu'r gwaith o wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n diwallu anghenion dysgu ychwanegol myfyriwr,

(b) sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi darpariaeth ddysgu ychwanegol myfyriwr fel y bo'n ofynnol,

(c) cadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a chynlluniau datblygu unigol,

(d) hybu cynhwysiant myfyriwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sefydliad yn y sector addysg bellach a'i fynediad at gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol y sefydliad yn y sector addysg bellach,

(e) monitro effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir,

(f) cynghori'r athrawon yn y sefydliad yn y sector addysg bellach ynghylch y dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol ar gyfer myfyrwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol,

(g) goruchwylio a hyfforddi gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach sy'n gweithio gyda myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac

(h) cyfrannu at hyfforddiant ar gyfer athrawon addysg bellach yn y sefydliad yn y sector addysg bellach er mwyn cynorthwyo'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni'r tasgau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (e).

*Terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â chais adran 65*

**Terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu help arall**

**31.**—(1) Rhaid i berson sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais awdurdod lleol o dan adran 65 o Ddeddf 2018 (dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall) gydymffurfio â'r cais yn brydlon ac mewn unrhyw achos o fewn y cyfnod a ragnodir gan baragraff (2).

(2) Mae'r cyfnod rhagnodedig—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r person yn cael y cais, a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Nid oes angen i'r person gydymffurfio â'r cais o fewn y cyfnod a ragnodir gan baragraff (2)—

(a) os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y person, neu

(b) os nad yw'r cais yn ymwneud ag arfer swyddogaeth mewn cysylltiad â phlentyn neu berson ifanc penodol.

*Nwyddau a gwasanaethau*

**Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol**

**32.**—(1) Caiff awdurdod lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i—

(a) person sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, neu

(b) person sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y Rhan honno,

ar yr amod bod y nwyddau hynny neu'r gwasanaethau hynny yn cael eu cyflenwi at ddiben arfer y swyddogaethau hynny neu wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, yn ôl y digwydd.

(2) Caiff y telerau a'r amodau y mae awdurdod lleol yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau arnynt o dan baragraff (1) gynnwys telerau ac amodau o ran talu a

chânt fod yn wahanol ar gyfer personau gwahanol neu ar achlysuron gwahanol.

(3) Ond rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau na fyddai unrhyw delerau ac amodau o ran talu, drwy gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall, yn arwain at daliadau i'r awdurdod sy'n uwch na'r gost resymol iddo o gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau y gwneir y taliadau mewn cysylltiad â hwy.

*Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

**Diwygio adran 68 o Ddeddf 2018**

**33.** Yn adran 68(8) o Ddeddf 2018 (trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau), ar ôl "ardal" mewnosoder "a phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth y mae'r awdurdod lleol hwnnw yn awdurdod cartref iddynt".

## RHAN 4

## RHIENI A PHOBL IFANC NAD OES GANDDYNT ALLUEDD

**Dehongli'r Rhan hon**

**34.** Yn y Rhan hon—

mae i "yr adeg berthnasol" ("*the relevant time*") yr un ystyr ag yn adran 83(3) o Ddeddf 2018;

ystyr "cynrychiolydd" ("*representative*") yw—

(a) dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod o dan adran 16(2)(b) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**) i wneud penderfyniadau ar ran y rhiant neu'r person ifanc mewn perthynas â materion o fewn Rhan 2 o Ddeddf 2018;

(b) rhoddai atwrneiaeth arhosol (o fewn yr ystyr a roddir i "lasting power of attorney" yn adran 9 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005) a benodir gan riant plentyn neu gan berson ifanc i wneud penderfyniadau ar ran y rhiant neu'r person ifanc mewn perthynas â materion o fewn Rhan 2 o Ddeddf 2018;

(c) atwrnai y mae atwrneiaeth barhaus (o fewn yr ystyr a roddir i "enduring power of attorney" yn Atodlen 4 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**2**)) sydd wedi ei chreu gan y

(**1**) 2005 p. 9.
(**2**) Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud i Atodlen 4 gan O.S. 2012/2404, Atodlen 2, paragraff 53(1) a (6).

rhiant neu'r person ifanc wedi ei breinio ynddo, pan fo'r atwrneiaeth wedi ei chofrestru yn unol â pharagraffau 4 a 13 o'r Atodlen honno neu pan fo cais i gofrestru'r atwrneiaeth wedi ei wneud;

(d) rhiant y person ifanc, pan na fo gan y person ifanc gynrychiolydd a restrir ym mharagraff (a), (b) neu (c).

**Pan nad oes gan riant plentyn alluedd**

**35.**—(1) Pan nad oes gan riant plentyn alluedd ar yr adeg berthnasol, mae cyfeiriadau yn narpariaethau Deddf 2018 a restrir isod at riant plentyn i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw—

(a) adran 11(4);

(b) adran 13(3);

(c) adran 18(3);

(d) adran 20(3)(a) a (b);

(e) adran 22(1)(b) a (2)(b);

(f) adran 23(8), (10) ac (11);

(g) adran 24(7), (9) a (10);

(h) adran 26(1)(b);

(i) adran 27(1)(b) a (4);

(j) adran 28(2)(b), (4), (5) a (7);

(k) adran 31(7)(b), (8) a (9);

(l) adran 32(1)(a) a (b) a (3);

(m) adran 64(3) a (4).

(2) Pan nad oes gan riant plentyn alluedd ar yr adeg berthnasol, mae cyfeiriadau at rieni plant, a rhieni disgyblion yn adran 9(3)(b) a (4)(a) o Ddeddf 2018 yn y drefn honno i'w darllen fel pe baent yn cynnwys y rhieni a chynrychiolydd i'r rhieni.

(3) Pan nad oes gan riant plentyn alluedd ar yr adeg berthnasol, mae'r cyfeiriad yn rheoliad 22(5)(b) at riant y plentyn i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw.

**Pan nad oes gan riant i blentyn sy'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth alluedd**

**36.** Pan nad oes gan riant i berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn alluedd ar yr adeg berthnasol—

(a) mae cyfeiriadau yn adrannau 40(4) a (5)(b) a 42(6) o Ddeddf 2018 at riant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw;

(b) mae'r cyfeiriad yn rheoliad 18(6) at riant y plentyn i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw.

**Pan nad oes gan berson ifanc alluedd**

**37.**—(1) Pan nad oes gan berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol, mae cyfeiriadau at berson ifanc yn narpariaethau Deddf 2018 a restrir isod i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc—

(a) adran 11(3)(c) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(b) adran 11(4) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(c) adran 12(2)(b) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(d) adran 13(2)(d) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(e) adran 13(3) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(f) adran 14(3) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(g) adran 20(3)(a) a (b);

(h) adran 22(1)(a) a (2)(a);

(i) adran 23(8) yn yr ail le y mae'n digwydd;

(j) adran 23(10) ac (11)(a);

(k) adran 26(1)(b) yn y lle cyntaf y mae'n digwydd;

(l) adran 27(1)(b) yn y lle cyntaf y mae'n digwydd;

(m) adran 27(4);

(n) adran 28(2)(a), (4), (5) a (7);

(o) adran 31(7)(a), (8) a (9);

(p) adran 32(1)(a);

(q) adran 32(1)(b) yn y lle cyntaf y mae'n digwydd;

(r) adran 32(3).

(2) Pan nad oes gan berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol, mae'r cyfeiriadau at bobl ifanc yn adran 9(3)(a) ac at fyfyrwyr yn adran 9(5) o Ddeddf 2018 yn y drefn honno i'w darllen fel pe baent yn cynnwys y person ifanc a chynrychiolydd y person ifanc.

(3) Pan nad oes gan berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol, mae cyfeiriadau at berson ifanc yn y rheoliadau isod i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc—

(a) rheoliad 10(2), (3) a (5);

(b) rheoliad 14(3) a (4);

(c) rheoliad 22(5)(a).

**Pan nad oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc alluedd**

**38.** Pan nad oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol,

mae'r cyfeiriadau yn y darpariaethau isod i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gynrychiolydd i'r person ifanc hwnnw—

(a) y cyfeiriad at y person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn y trydydd lle y mae'n digwydd yn adran 40(4) o Ddeddf 2018;

(b) y cyfeiriad at berson sy'n cael ei gadw'n gaeth yn y lle cyntaf y mae'n digwydd yn adran 40(5)(b) o Ddeddf 2018;

(c) y cyfeiriadau yn adrannau 41(2)(a) a 42(4) o Ddeddf 2018 at berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc;

(d) y cyfeiriad at berson sy'n cael ei gadw'n gaeth yn y lle cyntaf y mae'n digwydd yn adran 42(6) o Ddeddf 2018;

(e) y cyfeiriad at berson ifanc yn yr ail le y mae'n digwydd yn rheoliad 18(4)(b);

(f) y cyfeiriad at berson sy'n cael ei gadw'n gaeth yn y lle cyntaf y mae'n digwydd yn rheoliad 18(6).

**Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau o dan adran 68 o Ddeddf 2018**

**39.** Pan nad oes gan riant plentyn neu gan berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol, rhaid i drefniadau a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 68 o Ddeddf 2018 ddarparu i gynrychiolydd gymryd rhan yn y trefniadau ar ran rhiant y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw.

**Gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 69 o Ddeddf 2018**

**40.** Pan nad oes gan berson ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano alluedd ar yr adeg berthnasol, rhaid i'r awdurdod lleol hwnnw atgyfeirio cynrychiolydd y person ifanc hwnnw i wasanaeth eirioli annibynnol os yw'r cynrychiolydd yn gofyn am wasanaeth eirioli annibynnol.

**Cynrychiolaeth mewn apelau**

**41.** Pan nad oes gan riant plentyn, neu riant person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac sy'n blentyn, alluedd ar yr adeg berthnasol, neu pan nad oes gan berson ifanc, neu berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc, alluedd ar yr adeg berthnasol, caiff ei gynrychiolydd apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru ar ei ran ac mae adrannau 70 a 72 o Ddeddf 2018 i'w dehongli yn unol â hynny.

**Deddf Galluedd Meddyliol 2005**

**42.** Mae rheoliadau 35, 36, 37 a 39 yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**).

*Enw*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Nid yw adran 27(1)(g) yn caniatáu i benderfyniadau ar gyflawni cyfrifoldebau rhiant mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag eiddo plentyn gael eu gwneud ar ran person.

# ATODLEN 1

Rheoliadau 6, 7 a 9

# ANGHENION RHESYMOL AM ADDYSG NEU HYFFORDDIANT

**Rhaglen astudio addas**

**1.**—(1) Y ffactorau y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu a oes posibilrwydd realistig y byddai dilyn rhaglen astudio arfaethedig neu barhau i ddilyn rhaglen astudio (gydag unrhyw addasiadau arfaethedig iddi) yn galluogi'r person ifanc i gyflawni deilliannau dymunol y person yw—

(a) gallu'r person ifanc i ddilyn y rhaglen astudio;

(b) addasrwydd y rhaglen astudio i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc;

(c) unrhyw ffactorau eraill y mae'r awdurdod lleol yn ystyried yn rhesymol eu bod yn berthnasol.

(2) Wrth ystyried y ffactorau a grybwyllir yn is-baragraff (1), rhaid i'r awdurdod lleol ystyried gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r ffactorau hynny, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a ddarperir—

(a) gan y rheini sy'n ymwneud â darparu addysg neu hyfforddiant i'r person ifanc, neu'r rheini sydd wedi gwneud hynny yn ddiweddar;

(b) gan broffesiynolion iechyd neu ofal cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw rai sy'n ymwneud â'r person ifanc;

(c) gan berchennog y sefydliad addysgol y gall rhaglen astudio arfaethedig gael ei dilyn ynddo;

(d) gan bersonau sy'n darparu gwasanaethau, neu sydd wedi eu cyflogi gan gyrff sy'n darparu gwasanaethau, yn unol â threfniadau a wneir neu gyfarwyddydau a roddir o dan adran 10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973(**1**) (darparu gwasanaethau gyrfaoedd).

---

(**1**) 1973 p. 50. Amnewidiwyd adran 10 gan Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p. 19), adran 45, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158, Atodlen 2, Rhan 2, paragraff 28(1) a (2). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 10, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

### Ffactorau ychwanegol pan fo person ifanc yn dilyn rhaglen astudio

**2.** Pan fo'r person ifanc eisoes yn dilyn y rhaglen astudio, ni chaiff yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad nad oes posibilrwydd realistig mwyach y byddai parhau i ddilyn y rhaglen astudio fel y'i bwriadwyd ar y dechrau yn galluogi'r person ifanc i gyflawni deilliannau dymunol y person oni bai ei fod wedi ystyried y ffactorau a ganlyn—

(a) bod pobl ifanc yn datblygu ar gyfraddau gwahanol ac efallai na fydd cynnydd person ifanc tuag at gyflawni'r deilliannau dymunol yn amlwg tan yn ddiweddarach yn y rhaglen astudio;

(b) bod y person ifanc yn disgwyl cael y cyfle i gwblhau'r rhaglen astudio fel y'i bwriadwyd ar y dechrau;

(c) a yw newid sylweddol yn amgylchiadau personol neu anghenion y person ifanc wedi effeithio ar allu'r person ifanc i ddysgu.

### Rhaglen astudio y bwriedir iddi bara am fwy na 2 flynedd

**3.**—(1) Bwriedir ar y dechrau i'r rhaglen astudio addas y bwriedir i'r person ifanc ei dilyn (gan gynnwys pan fo'n rhaglen astudio ychwanegol o dan baragraff 5(1)) gael ei chynnal dros gyfnod o fwy na 2 flynedd.

(2) Y ffactorau, pan fônt yn berthnasol, y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried yw—

(a) pan fo'r rhaglen wedi ei chynllunio i ganiatáu i'r person ifanc gael mynediad at gwrs o addysg bellach neu hyfforddiant a ddilynir gan bobl ifanc nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol—

  (i) hyd arferol y cwrs ar gyfer pobl ifanc nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, a

  (ii) a oes angen amser ychwanegol ar y person ifanc, o'i gymharu â'r rhan fwyaf o bobl ifanc eraill nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, i gwblhau'r cwrs;

(b) pan fo'r rhaglen astudio wedi ei chynllunio'n arbennig i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer y person ifanc, a oes unrhyw resymau eithriadol sy'n ymwneud â gallu'r person ifanc i ddysgu fel na ellir cyflawni deilliannau dymunol y person yn realistig o fewn y cyfnod o 2 flynedd.

**Estyn rhaglen astudio**

**4.**—(1) Nid yw'r person ifanc wedi gallu cwblhau rhaglen astudio (gan gynnwys pan fo'n rhaglen astudio ychwanegol o dan baragraff 5(1)) o fewn cyfnod para'r rhaglen fel y'i bwriadwyd ar y dechrau a bwriedir estyn y rhaglen i alluogi'r person ifanc i gyflawni deilliannau dymunol y person ar ddechrau'r rhaglen ("deilliannau gwreiddiol") neu rai sy'n sylweddol debyg i'r deilliannau gwreiddiol ("deilliannau addasedig").

(2) Y ffactorau, pan fônt yn berthnasol, y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried yw—

(a) a oes modd osgoi'r amgylchiadau sy'n arwain at yr estyniad arfaethedig;

(b) a yw'r estyniad arfaethedig yn angenrheidiol i alluogi'r person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio a chyflawni'r deilliannau gwreiddiol neu'r deilliannau addasedig;

(c) a yw'r estyniad arfaethedig at ddiben y dylid bod wedi ymdrin ag ef yn ystod cyfnod para gwreiddiol y rhaglen astudio a phan fo hynny'n wir, y rhesymau pam nad ymdriniwyd ag ef;

(d) a yw'r estyniad arfaethedig yn gymesur â'r deilliannau gwreiddiol nad ydynt wedi eu cyflawni eto neu'r canlyniadau addasedig ac a oes angen hyd gwahanol o estyniad o dan yr amgylchiadau;

(e) pan fo'r rhaglen astudio wedi ei hestyn yn flaenorol—

(i) a yw'r estyniad arfaethedig yn codi o'r un ffeithiau â'r un blaenorol, a

(ii) a oes rhesymau eithriadol pam nad oedd y person ifanc yn gallu cyflawni'r deilliannau yn ystod yr estyniad blaenorol.

**Rhaglen astudio ychwanegol**

**5.**—(1) Mae'r rhaglen astudio y bwriedir i'r person ifanc ei dilyn yn ychwanegol at addysg bellach neu hyfforddiant y mae'r person ifanc eisoes wedi ei dilyn neu ei ddilyn.

(2) Y ffactorau, pan fônt yn berthnasol, y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried yw—

(a) nad yw'r person ifanc yn gallu elwa mewn ffordd ystyrlon ar yr addysg bellach flaenorol neu'r hyfforddiant blaenorol oherwydd—

(i) bod yr addysg bellach flaenorol neu'r hyfforddiant blaenorol wedi syrthio gymaint islaw'r safon ddisgwyliedig fel na ellir honni'n rhesymol bod ei darparwr neu ei ddarparwr wedi cyflenwi'r addysg

neu'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc wrth ei dilyn neu ei ddilyn,

(ii) newid sylweddol yn amgylchiadau personol neu anghenion y person ifanc, neu

(iii) unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill;

(b) pan fo'r person ifanc wedi dilyn yr addysg bellach flaenorol neu'r hyfforddiant blaenorol mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach, na allai elfen hanfodol a sylweddol o'r addysg bellach neu'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc fod wedi ei chyflenwi fel rhan o'r addysg bellach flaenorol honno neu'r hyfforddiant blaenorol hwnnw;

(c) pan fo'r addysg bellach flaenorol neu'r hyfforddiant blaenorol wedi para am lai na 2 flynedd, cyfanswm cyfnod para'r addysg bellach flaenorol honno neu'r hyfforddiant blaenorol hwnnw a chyfnod para'r rhaglen astudio arfaethedig ac a yw'r graddau y mae cyfanswm y cyfnod para hwnnw yn fwy na 2 flynedd yn rhesymol o dan bob un o'r amgylchiadau;

(d) a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill i awgrymu nad yw'r person ifanc wedi cael mynediad effeithiol at addysg bellach neu hyfforddiant.

**Amgylchiadau eithriadol eraill**

**6.**—(1) Mae'r amgylchiadau yn sylweddol debyg i un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff 3(1), 4(1) neu 5(1).

(2) Y ffactorau, pan fônt yn berthnasol, y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried yw'r ffactorau a nodir ym mharagraff 3(2), 4(2) neu 5(2) sy'n cyfateb i ba un bynnag o'r amgylchiadau ym mharagraff 3(1), 4(1) neu 5(1) sy'n sylweddol debyg.

# ATODLEN 2

Rheoliadau 20, 22 a 23

# CYMHWYSO GYDAG ADDASIADAU DDEDDF 2018 MEWN PERTHYNAS Â PHERSONAU SY'N CAEL EU CADW'N GAETH MEWN YSBYTY O DAN RAN 3 O DDEDDF 1983

**1.**—(1) Mae'r pwerau a'r dyletswyddau a roddir i awdurdod lleol neu a osodir ar awdurdod lleol gan Ran 2 o Ddeddf 2018, gan y Rheoliadau hyn neu fel arall o dan y Rhan honno, i'r graddau na fyddent yn gymwys mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc o fewn is-baragraff (3) oherwydd adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 neu adran 44(1) o Ddeddf 2018, yn gymwys i'r plentyn neu'r person ifanc gyda'r addasiadau y darperir ar eu cyfer yn is-baragraff (4).

(2) Mae darpariaethau eraill o Ddeddf 2018, y Rheoliadau hyn ac unrhyw ddarpariaethau eraill o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno, i'r graddau y maent yn gymwys at ddibenion y pwerau hynny a'r dyletswyddau hynny neu fel arall yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc, yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc gyda'r addasiadau y darperir ar eu cyfer yn is-baragraff (4).

(3) Mae plentyn neu berson ifanc o fewn yr is-baragraff hwn os yw'r plentyn neu'r person ifanc—

(a) yn ddarostyngedig i orchymyn cadw, a

(b) yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983.

(4) Yr addasiadau yw—

(a) mae cyfeiriadau, sut bynnag y'u mynegir, at awdurdod lleol sy'n gyfrifol (neu'n dod neu'n peidio â bod yn gyfrifol) am blentyn neu berson ifanc i'w dehongli fel pe baent yn gyfeiriadau at awdurdod lleol, sef yr awdurdod lleol perthnasol (neu sy'n dod neu'n peidio â bod yn awdurdod o'r fath) ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc ac yn unol â hynny nid yw adran 99(4) i fod yn gymwys i'r cyfeiriadau hynny;

(b) hepgorer adran 13(2)(e);

(c) yn adran 14, hepgorer is-adrannau (2)(b) a (4);

(d) yn adran 15(1)—

(i) ar ddiwedd paragraff (a), hepgorer "a";

(ii) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder "ac";

(iii) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) os nad yw—

(i) yn ddarostyngedig i orchymyn cadw (o fewn yr ystyr a roddir i "detention order" gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996), a

(ii) yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.";

(e) hepgorer adran 36;

(f) os yw'r ysbyty yn llety ieuenctid perthnasol, nid yw'r dyletswyddau a osodir ar awdurdod cartref gan adrannau 40 a 42 yn gymwys;

(g) yn adran 84(1)(a), ar y diwedd mewnosoder "neu reoliad 22(5) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021";

(h) yn adran 85(5)(a), ar ôl "42(6)" mewnosoder "a rheoliad 22(5) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021";

(i) yn rheoliad 16(1)(b), ar ôl "Ddeddf 2018" mewnosoder "neu reoliad 22(2)".

**Memorandwm Esboniadol i:**

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Y Rheoliadau canlynol;
   - Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
   - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
   - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021
   - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021
   - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021;
3. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021;
4. Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021;
5. Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021;
6. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg
2 Mawrth 2021

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘y Ddeddf’) yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc (“y system ADY”). Mae Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer nifer o faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY, er enghraifft rhagnodi cyfnodau o amser y bydd dyletswyddau penodol yn cael eu cyflawni oddi mewn iddynt er mwyn gweithredu'n effeithiol a nodi swyddogaethau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (“CADY”). Mae Cod drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (“y Cod”) hefyd yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach (“SABau”) yng Nghymru, awdurdodau lleol a chyrff y GIG sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY ac arfer swyddogaethau oddi tani. Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau i'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y system ADY, ynglŷn ag arfer y swyddogaethau hynny o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

1.2. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn parhau â Thribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ac yn ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru (“y Tribiwnlys”). Yn ogystal ag awdurdodaeth y Tribiwnlys a nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf, mae ganddo awdurdodaeth mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion (gweler adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno o ran darpariaeth ynglŷn â hyn). Mae Rheoliadau drafft Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y Tribiwnlys ac yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys.

1.3. Mae Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ddirprwyo'r swyddogaethau penodedig i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion. Y swyddogaethau penodedig yw swyddogaethau'r corff llywodraethu o dan y Ddeddf sydd, yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996, yn swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion.

1.4. Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru gynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl).

1.5. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Galluoedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yn addasu darpariaethau penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o dan amgylchiadau penodol. Mae'r addasiadau yn sicrhau y gall cynrychiolydd rhiant plentyn nad oes ganddo alluedd, neu gynrychiolydd person ifanc nad oes ganddo alluedd, gyflwyno hawliad ar ran yr unigolyn hwnnw o dan Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Gosodwyd y Cod drafft, y rheoliadau drafft a'r rheoliadau eraill gerbron ar 2 Mawrth 2021 fel un pecyn, a hynny er mwyn dangos y rhyngweithredu rhwng y darpariaethau yn y priod offerynnau.

2.2. Daeth adrannau'r Ddeddf sy'n cynnwys y dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol (adrannau 60 i 62) i rym ar 4 Ionawr. Daeth Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cy. 299) ("Rheoliadau CADY") i rym ar y dyddiad hwnnw hefyd. Mae'r Rheoliadau hynny yn nodi'r cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen ar berson i gael ei ddynodi'n CADY a swyddogaethau'r CADY. Caiff y Rheoliadau hynny eu diddymu drwy Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan fod y darpariaethau yn y cyntaf wedi'u hailddeddfu yn yr olaf (gweler rheoliadau 26 i 30).

2.3. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn gwneud tri diwygiad i'r Ddeddf.

2.3.1. Mae Rheoliad 4 yn diwygio adran 88 o'r Ddeddf ynglŷn â'r rheolau ar hysbysu a dogfennau. Mae'r diwygiad yn darparu y bydd hysbysiad neu ddogfen a roddir yn electronig yn cael ei drin neu ei thrin fel un sydd wedi cael ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod y'i hanfonir. Mae hyn yn adlewyrchu'r rheol yn adran 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, nad yw'n gymwys i'r Ddeddf.

2.3.2. Mae Rheoliad 19 yn diwygio adran 44 o'r Ddeddf i ddarparu bod dyletswyddau cyrff y GIG o dan adran 20(5)(a) ac (c) o'r Ddeddf ynglŷn â sicrhau triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i berson a gedwir yn gaeth yn peidio â bod yn gymwys o ddechrau cyfnod cadw'r person dan sylw. Yn y sefyllfa hon, mae ar awdurdod cartref y person a gedwir yn gaeth ddyletswydd eisoes o dan adran 42 o'r Ddeddf i drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ac mae'r ddyletswydd honno yn addas i ymdrin â sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth. Efallai na fydd corff y GIG yn gallu sicrhau triniaeth na gwasanaeth perthnasol yn ymarferol i berson a gedwir yn gaeth (yn enwedig gan na fyddai'n gyfrifol o bosibl am ddarparu gwasanaethau iechyd i'r

person a gedwir yn gaeth yn ystod y cyfnod cadw) neu nad yw'r driniaeth na'r gwasanaeth perthnasol yn briodol o bosibl mwyach.

2.3.3. Mae Rheoliad 33 yn diwygio adran 68 o'r Ddeddf i ddarparu, at ddibenion dyletswyddau awdurdod lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol, fod awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am bobl a gedwir yn gaeth y mae'n awdurdod cartref iddynt. Mae'n briodol i drefniadau'r awdurdod cartref fod yn gymwys mewn perthynas â phobl a gedwir yn gaeth, gan mai'r awdurdod sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â nhw a'i bod yn osgoi unrhyw anawsterau o ran cadarnhau pa awdurdod lleol fyddai fel arall yn gyfrifol (o ystyried mai sail y prawf ar gyfer cyfrifoldeb yw bod person o fewn ardal awdurdod lleol, sy'n anodd ei chadarnhau mewn sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth).

2.4. Fel yr esbonnir mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cod drafft yn gosod gofynion. Mae Pennod 1 o'r Cod drafft yn esbonio sut y nodir y gofynion hynny yn y Cod.

2.5. Bwriedir rhoi'r system ADY ar waith mewn camau o 1 Medi 2021 (gweler paragraff 3.7 isod). Dyna'r rheswm pam nad yw'r rheoliadau yn diddymu'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn sefydlu'r system ADY. Wrth ei gwraidd, mae'r system yn golygu mai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a SABau ac awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blant neu bobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol ac os felly, nhw fydd yn gyfrifol am baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol ('CDU') iddynt. Mae CDU yn nodi anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae dyletswyddau i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a phethau penodol eraill, a nodir mewn CDU. Mae'r system ADY yn darparu bod gan blant, eu rhieni a phobl ifanc yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn â materion penodol sy'n gysylltiedig ag adnabod eu hanghenion a'r ddarpariaeth i'w diwallu.

3.2. Bydd y system ADY yn disodli'r system o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig ('AAA'), eu hasesu a darparu ar eu cyfer.

3.3. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 (O.S. 2020/Cy. 267) amrywiol bwerau yn y Ddeddf, sef darpariaethau i arfer pwerau ynddynt a darpariaethau cysylltiedig. Cychwynnodd hefyd adrannau 60 i 62 sy'n cynnwys dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol a darpariaethau sy'n ymwneud â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu sefydlu. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cyf. 303) yn darparu ynghylch y rhestr honno a cheisiadau gan ysgolion i gael eu cynnwys ynddi.

3.4. O dan adran 4 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar anghenion dysgu ychwanegol. Gall y cod osod gofynion ynghylch materion penodol (a nodir yn adran 4(5) o'r Ddeddf) ac mae'n ofynnol iddo gynnwys y gofynion penodol a ddisgrifir yn adran 4(6) o'r Ddeddf. Gall hefyd wneud darpariaeth sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r dyletswyddau yn adrannau 7(1) ac 8(1) o'r Ddeddf ynghylch awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn rhoi sylw i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

3.5. Gall y Cod gynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol (adran 4(2) o'r Ddeddf). Mae'n rhaid cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaeth corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu SAB i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgybl neu fyfyriwr yn cael ei chynnig a bod cynllun datblygu unigol yn cael ei baratoi ar gyfer y disgybl neu'r myfyriwr (adran 47(3) o'r Ddeddf).

3.6. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi amrywiol bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ategu'r swyddogaethau yn y Ddeddf.

3.7. Mae pob set o'r rheoliadau yn darparu y byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2021. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo dwyn y Cod i rym, bydd yn rhaid gwneud gorchymyn cychwyn (adran 5(4) o'r Ddeddf). Y bwriad yw y daw'r Cod i rym hefyd ar 1 Medi 2021. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021.

3.8. Bwriedir cyhoeddi'r Cod drafft o dan y pwerau yn adran 4 o'r Ddeddf (yn ogystal â chynnwys darpariaeth a wneir o dan adrannau 7(4) ac 8(4) o'r Ddeddf a'r canllawiau sy'n ofynnol o dan adran 47(3) o'r Ddeddf). Nodir y weithdrefn ar gyfer ei baratoi o dan adran 5 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ar god drafft â phobl benodol (gweler isod am fanylion yr ymgynghoriad ) ac na ellir ei gyhoeddi oni bai bod drafft ohono (a all fod yn ddrafft wedi'i addasu yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw) wedi cael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

3.9. Bwriedir gwneud Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 o dan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o'r Ddeddf).

3.10. Bwriedir gwneud Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 o dan adrannau 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o'r Ddeddf ac adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraffau 6(1), (2) i (5) a (7) a 6A o Atodlen 17 iddi. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o Ddeddf 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.11. Bwriedir gwneud Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraff 6F o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.12. Bwriedir gwneud Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 210(4) o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y darpariaethau hynny i Weinidogion Cymru

yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.13. Gwneir Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 569(1), (4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 15 i Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 569(2) a (2C) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1. Diben y system ADY, gan gynnwys y Cod a’r rheoliadau o dan y pwerau yn y Ddeddf, yw creu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ysbrydoli, ei gymell a’i gefnogi i gyrraedd ei botensial llawn.

4.2. Mae’r Cod yn cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o’r Ddeddf a materion eraill sy’n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Mae’n disgrifio ac yn esbonio llawer o’r swyddogaethau yn y Ddeddf a rhai o’r darpariaethau yn y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae’r Cod ei hun hefyd yn gosod gofynion, yn unol ag adrannau 4(5) a (6), 7 ac 8 o’r Ddeddf. Mae canllawiau statudol y Cod yn cynnwys canllawiau ar y gofynion hynny. Mae’r canllawiau yn helpu i roi’r system ADY ar waith ymhellach.

4.3. Diben llawer o'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a'r gofynion a osodwyd gan y Cod, yw darparu'r manylion angenrheidiol neu ddymunol am y system ADY er mwyn ategu'r darpariaethau yn y Ddeddf, er enghraifft pennu terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf, darpariaethau sy'n effeithio ar benderfyniadau ynghylch pryd y bydd angen CDU a darparu bod hawl rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cael ei harfer gan gynrychiolydd os nad oes gan y rhiant/person ifanc alluedd. Yr effaith fwriadedig yw y gall y system ADY weithredu'n effeithiol.

4.4. Hefyd, y bwriad yw mai'r Cod ADY fydd y brif ddogfen a ddefnyddir gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno'r system ADY, yn enwedig awdurdodau lleol a staff ysgolion a gynhelir a SABau. Llawlyfr gweithredu ydyw i bob diben, gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi manylion am y swyddogaethau sy'n rhan o'r system ADY ac yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut i'w harfer o dan y gwahanol amgylchiadau lle mae angen eu harfer.

4.5. Mae'r Cod yn ei gyfanrwydd yn esbonio gofynion gweithredol y system ADY.

4.6. Felly, mae'r Cod wedi cael ei gynllunio i ganiatáu i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf weld y canllawiau statudol sy'n gymwys i'w cyfrifoldebau unigol o dan y Ddeddf a deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol.

4.7. Felly, mae cynnwys a fformat y Cod yn canolbwyntio ar esbonio swyddogaethau cyfreithiol a chanllawiau ynglŷn â sut i'w harfer, yn hytrach na rhoi astudiaethau achos o arferion da. Y bwriad yw y bydd gweithwyr proffesiynol (megis Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar, CADY mewn ysgol a gynhelir neu SAB, neu swyddog awdurdod lleol) yn gallu deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol, a gweithredu i gydymffurfio â'r

dyletswyddau o dan y system ADY mewn ffordd sy'n briodol i'r amgylchiadau a rhoi'r egwyddorion sy'n sail i'r system ADY ar waith.

4.8. Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ymwneud ag apeliadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas â disgyblion ysgol. Diben y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer rheolau trefniadaeth sy'n caniatáu i weithrediadau'r Tribiwnlys gael eu cynnal mewn ffordd briodol ac effeithiol. Yr effaith fwriadedig yw y bydd apeliadau a hawliadau ger bron y Tribiwnlys yn cael eu trin yn gyfiawn.

4.9. Diben Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau awdurdod lleol i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Yr effaith fwriadedig yw bod pwyllgorau rheoli yn arfer swyddogaethau corff llywodraethu o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion.

4.10. Diben Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw diwygio, fel sy'n ofynnol o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i diwygiwyd gan adran 54(3) o'r Ddeddf), Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 felly bydd ceisiadau i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl). Yr effaith fwriadedig yw y bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei chynnwys ar y gofrestr (gweler adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd gan adran 54 o'r Ddeddf) ac felly bydd y wybodaeth ar gael i awdurdodau lleol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

4.11. Diben Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yw addasu cyfeiriadau at rieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol ym mharagraff 3A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pan nad oes gan riant/person ifanc alluedd meddyliol (o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005) ar adeg pan fydd yn gallu gweithredu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyfeiriadau at riant/person ifanc ym mharagraff 3A, sy'n rhoi'r hawl i unigolion penodol gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael eu haddasu i ddarllen fel cyfeiriadau at ei gynrychiolydd. Yr effaith fwriadedig yw y gall rhieni neu bobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol, drwy eu cynrychiolydd, arfer yr un hawl i gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 â'r rhai sydd â galluedd.

## 5. Ymgynghori

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros ddeuddeg wythnos rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019 ar y canlynol:

- y Cod ADY drafft;
- rheoliadau drafft sy'n ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru a chydlynwyr ADY a'r bwriad polisi i arfer pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf;
- diwygiadau i God Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya.

5.2. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- y brif ddogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys 65 o gwestiynau a oedd yn cwmpasu'r materion uchod;
- fersiwn o'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen a oedd yn cynnwys 15 o gwestiynau ar agweddau ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig;
- dau ddigwyddiad ymgynghori hanner diwrnod ym mhob un o ardaloedd y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru;
- cyfres o sesiynau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni y daeth 228 o bobl iddynt.

5.3. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion ar 14 Mehefin 2019 a gellir ei weld yn:

https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft

5.4. Fel y nododd yr adroddiad hwnnw, mae'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn ymdrin ag amrywiaeth eang iawn o bynciau gwahanol ac felly roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amrywiol iawn eu cwmpas, gan gynnwys cryn nifer o safbwyntiau amrywiol a ffocws gwahanol iawn.

5.5. Ar y cyfan, roedd ymateb y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gadarnhaol. Cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion beirniadol i faterion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- y diffiniad o ADY a sut i'w hadnabod;
- y terfynau amser y mae'n rhaid cyflawni dyletswyddau yn unol â nhw;
- rolau'r CADY, y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (‘SACDA’) a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal;

- trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau, gwasanaethau eirioli ac apeliadau;
- dirprwyo dyletswyddau i unedau cyfeirio disgyblion;
- templedi ar gyfer cynlluniau datblygu unigol (‘CDUau’)
- darparu CDUau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn mynychu lleoliad addysg;
- y system ADY fel y bydd yn gymwys i bobl a gedwir yn gaeth.

5.6. Mae'n werth nodi bod y sylwadau gan ymatebwyr yn tueddu i gael eu cyflwyno gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu agweddau penodol ar y Cod ADY drafft yn fawr iawn, neu a oedd yn ansicr ynglŷn ag agweddau ar y polisïau hynny. Roedd hyn yn wir hefyd o ran y sylwadau ar faterion penodol, hyd yn oed pan oedd y cwestiynau ar y materion hynny yn yr ymgynghoriad wedi cael ymateb cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys cryn nifer o ddiwygiadau technegol awgrymedig i'r Cod ADY.

5.7. Mynegodd ymatebwyr bryder ynglŷn â'r amrywiol dermau sy'n ymddangos yn y Cod ADY drafft. Bu rhai yn galw am ganllawiau ar ystyr termau penodol hefyd. Wrth ystyried y pwyntiau hynny ymhellach, rydym wedi ystyried a fyddai ymhelaethu ar y termau yn werthfawr neu a oes risg y byddai hynny'n culhau neu'n ehangu ystyr y term a'r cyfyngiadau a bennir gan y Ddeddf a hynny'n anfwriadol.

5.8. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn amau amrywiol agweddau ar eiriad y diffiniadau o ADY a DDdY. Nodir y diffiniadau hyn yn y Ddeddf ac ni all y Cod ADY eu newid. Mae geiriad y diffiniadau o ADY a DDdY a ddefnyddir yn y Ddeddf, a ailadroddir yn y Cod ADY drafft, yn debyg yn fwriadol i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r diffiniadau o AAA a darpariaeth addysgol arbennig, y bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn gyfarwydd â nhw.

5.9. Roedd ymatebwyr hefyd yn amau elfennau eraill o'r system a osodwyd yn y Ddeddf. Er enghraifft, roedd rhai yn anghytuno â'r egwyddor mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau i blant sy'n derbyn gofal. Roedd eraill yn galw am greu gofynion newydd nad yw'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, megis ei gwneud yn ofynnol i bartïon gymryd rhan mewn proses datrys anghytundeb cyn y gallant gyflwyno apêl, neu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys. Mae'n rhaid i'r Cod ADY a'r rheoliadau fod yn gyson â'r Ddeddf ac ni allant ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson wneud rhywbeth nad yw'r Ddeddf yn darparu pŵer yn ei gylch.

5.10. Yn yr un modd, bu cryn nifer yn galw am droi llawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft yn “rhaid”. Mae'r amrywiaeth o bethau y mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i wneud gofynion gorfodol yn eu cylch wedi'i gyfyngu gan y Ddeddf. Hyd yn oed pan fydd y Ddeddf yn rhoi pŵer o'r fath, mae'r cwestiwn yn codi ai gofyniad gorfodol (“rhaid”) ynteu canllawiau statudol (“dylid”) sydd fwyaf priodol. Un ystyriaeth bwysig yw a allai adegau godi pan fyddai modd cyfiawnhau achos o

beidio â chydymffurfio ac os felly, a fyddai'n well ymdrin â'r rhain drwy nodi eithriadau penodol i ofyniad gorfodol neu drwy wneud y mater yn un ar gyfer canllawiau statudol, sy'n caniatáu i'r person gyfiawnhau amrywiad ar sail achosion unigol.

5.11. Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd bryder am arddull yr iaith a ddefnyddiwyd yn y Cod ADY drafft. Gan y bydd y Cod ADY yn gosod gofynion gorfodol o dan y gyfraith, mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny. Yn yr un modd, mae angen i'r canllawiau yn y Cod fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny fel y gall y rhai y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt, ddeall yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud hynny. O ganlyniad, mae'r iaith yn eithaf ffurfiol mewn mannau, ond lle y gall fod yn anodd ei dilyn weithiau, rhoddwyd enghreifftiau i egluro'r ystyr. Mae'n bwysig nodi hefyd y bwriedir i'r Cod ADY fod yn ddogfen i'w darllen a'i defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, fel y'u rhestrwyd ym Mhennod 1 o'r Cod ADY drafft yn bennaf. Nid yw'r Cod ADY drafft wedi cael ei lunio i fod yn ddealladwy i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol gan nad y cyhoedd yw cynulleidfa arfaethedig y Cod ADY. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan y Ddeddf wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y system ADY.

5.12. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r Cod ADY drafft yn dweud fawr ddim am alluedd meddyliol mewn perthynas â phobl ifanc a rhieni. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn y Cod ADY drafft. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn Whitehall i sicrhau bod Cod Ymarfer ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn ystyried y Ddeddf ADY a'i Chod a'i rheoliadau.

5.13. Cododd rhai ymatebwyr faterion ynglŷn â darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu. Fel y crybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn sydd wedi'i dargedu hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith pellach ar ddiwygio'r Mesur, a bwriedir ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Yn y cyfamser, mae adran nad yw'n orfodol ar gludiant wedi'i chynnwys yn y templed ar gyfer CDUau, a roddir yn yr Atodiad î'r Cod.

5.14. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r Cod gynnwys canllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodwyd mewn canllawiau statudol eraill. Mae'r Ddeddf yn nodi'r glir bod yn rhaid i'r canllawiau y gall y Cod eu cynnwys ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, felly,

nid yw'n briodol i'r Cod roi canllawiau ar faterion eraill, ond lle y bo'n briodol, cyfeirir at feysydd a chanllawiau cyfreithiol perthnasol eraill.

5.15. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhoi'r system ADY newydd ar waith yn cael effaith ariannol sylweddol. Cafodd goblygiadau ariannol y Ddeddf eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil. Yn benodol, craffwyd yn fanwl iawn ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys pleidlais ohiriedig ar gynnig y penderfyniad ariannol tra bod gwaith dadansoddi annibynnol pellach yn cael ei wneud. Ystyriwyd y gwaith dadansoddi hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn derbyn y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r mater hwn.

5.16. Er mwyn cydnabod costau symud o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r system ADY newydd, darperir cyllid grant ar sail ranbarthol i'w rhoi ar waith, sydd wedi'i gydgysylltu gan Swyddogion Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol, er mwyn cyflwyno hyfforddiant a datblygiad proffesiynol rhanbarthol, amlasiantaethol ar y fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yr hyfforddiant yn targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd (gan gynnwys rolau CADY a SACDA) er mwyn sicrhau y caiff y system ADY newydd ei rhoi ar waith yn effeithiol.

5.17. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu system electronig i gefnogi proses y CDU. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac rydym wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu cychwynnol i gadarnhau dichonoldeb a phriodoldeb datblygu system ar-lein i Gymru gyfan.

5.18. Yn olaf, cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynglŷn â gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wella gallu'r gweithlu arbenigol.

5.19. Ymdrinnir â'r newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r diwygiadau arfaethedig i God Ymarfer Rhan 6 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya ar wahân ac felly nid ymdrinnir â nhw yma.

Ymgynghoriad ar Gynrychiolwyr Pobl Ifanc, a Rhieni Plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

5.20. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gynigion ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol rhwng 3 Medi i 29 Hydref 2020.

5.21. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad yn cynnwys fersiwn ddrafft o Bennod 31 o'r Cod ADY (Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol) a "Rheoliadau drafft pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol 2020".

5.22. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd y rheoliadau drafft hynny eu hymgorffori, gyda diwygiadau, yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 fel Rhan 4.

5.23. Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 22 Ionawr 2021 a gellir ei weld yma https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-a-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol-crynodeb-or-ymatebion.pdf

Newidiadau i'r Cod drafft yn dilyn y ddau ymgynghoriad

5.24. Daeth cryn nifer o sylwadau i law, a oedd yn cwmpasu bron pob agwedd ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus pa newidiadau i'w gwneud yng ngoleuni sylwadau'r ymatebwyr. Esbonnir y newidiadau hyn, a'r rhesymau drostynt, yn y tabl canlynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailstrwythuro'r Cod drafft i wella ei strwythur a'i ddarllenadwyedd, gan gynnwys cyflwyno rhai penodau newydd. Dilëwyd y siartiau llif am ein bod yn gweld y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol a bod risg y gallai'r siartiau llif dynnu sylw oddi wrth y testun cyfreithiol.

| Pennod Newydd | Hen Bennod | Yr hyn sydd wedi newid |
|---|---|---|
| 1 – Cyflwyniad | 1 | Cafodd y cyflwyniad ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i gynnwys y Cod (megis penodau newydd) a'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Cafodd ei symleiddio i wneud y Cod yn haws i'w ddarllen.<br><br>Ceir hefyd esboniadau manylach o'r ffordd y dylid dehongli gofynion a osodir gan y Cod a'r disgrifiadau o ofynion yn y Ddeddf neu'r rheoliadau (er enghraifft mewn perthynas ag achosion lle mae gan blentyn gyfaill achos neu lle nad oes gan riant plentyn/person ifanc alluedd). |
| 2 – Y diffiniad o ADY a DDdY | 7 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei chreu o ran gyntaf yr hen bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. (Mae'r ail ran wedi creu Pennod 20.) Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; symudwyd y bennod tuag |

| | | |
|---|---|---|
| | | at ddechrau'r Cod, a diwygiwyd y strwythur a'r cynnwys i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder mewn perthynas â'r diffiniadau o ADY a DDdY a'r ffordd y maent yn cael eu cymhwyso yn y system ADY. |
| 3 – Egwyddorion y Cod | 2 | Cafodd y bennod hon ei chwtogi'n sylweddol a'i symleiddio er mwyn tynnu sylw at egwyddorion y Cod, heb roi enghreifftiau helaeth a all fod wedi tynnu sylw oddi wrth ei neges allweddol. |
| 4 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc | 3 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi rhagor o ganllawiau a bod yn fwy eglur mewn rhannau penodol. Yn benodol, mae llawer mwy o ganllawiau statudol ynghylch cydsyniad pobl ifanc. |
| 5 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG o ran CCUHP a CCUHPA | 4 | Dim ond mân newidiadau a wnaed i'r bennod hon; nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol. |
| 6 - Cyngor a Gwybodaeth | 6 | Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r bennod hon, a hynny er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn mannau eraill yn y Cod a gwneud rhai rhannau yn fwy eglur. Mae un darn o'r canllawiau statudol yn ofyniad bellach ac mae ychydig mwy o ganllawiau statudol. |
| 7 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol | 5 | Cafodd Pennod 7 (sef Pennod 5 yn y fersiwn a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad) ei symleiddio, a chafodd diwygiadau penodol eu gwneud er mwyn gwneud materion mewn rhai meysydd yn fwy eglur. Cafodd newidiadau eraill eu gwneud i sicrhau bod y bennod yn gyson â'r newidiadau a wnaed mewn mannau eraill yn y Cod. Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r agweddau allweddol ar y bennod hon, os o gwbl; y canllawiau ategol sydd wedi cael eu diwygio'n bennaf neu mae'r strwythur wedi cael ei ad-drefnu. |
| 8 – Rôl Cydlynydd ADY | 24 | Rydym wedi atgyfnerthu'r bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y cyngor sydd eisoes wedi'i gynnwys. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaeth y dylai pennaeth lleoliad addysg ei rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn unol â'r Rheoliadau CADY, diwygiwyd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(h) a 6(h) o'r Rheoliadau CADY drafft – rheoliadau 5(i) a 6(i) gynt yn y fersiwn flaenorol o'r rheoliadau yr ymgynghorwyd arnynt yn 2019). At hynny, mae rhai o ddyletswyddau'r CADY a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu, sef: y ddyletswydd i baratoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen i'r corff llywodraethu ei chyhoeddi yn unol â'r cod; a'r ddyletswydd i roi gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, ei CDU a'r DDdY a gynigir. Dilëwyd y rhain yn y bennod ar ôl iddynt gael eu dileu yn y Rheoliadau CADY. |
| 9 – Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg | 15 (ail ran) | Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn y Bennod (15) flaenorol ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Ni ddiwygiwyd sylwedd y bennod ryw lawer ond cafodd ei symleiddio a'i newid i'w gwneud yn fwy eglur ac yn debycach i strwythur y penodau eraill ar y rolau statudol. |
| 10 – Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (CADY) | 8 (ail ran) | Ni newidiwyd sylwedd y bennod hon yn fawr iawn. Gwnaed rhai newidiadau strwythurol, newidiadau fformatio a mân ddiwygiadau eraill i'w gwneud yn fwy eglur. |
| 11 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir | 8 | Cafodd y penodau hyn eu diwygio'n sylweddol. Mae'r penodau hyn yn cynnwys y prif ddyletswyddau mewn perthynas â'r system ADY ar gyfer y mwyafrif o blant a phobl ifanc. Yn y fersiwn ddrafft o'r Cod, nodwyd y gofynion mewn pedair pennod; fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cawsant eu didoli yn ôl |
| 12 – Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac ALlau i blant mewn ysgol a gynhelir | 9 | |

| | | |
|---|---|---|
| 13 – Dyletswyddau ar ALlau ynghylch plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir | 11 | amgylchiadau ac ystodau oedran mwy penodol. Mae'r darpariaethau ynglŷn â pharatoi CDU wedi cael eu symud i Bennod 23, gan fod llawer ohonynt yn gymwys o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau neu'r holl amgylchiadau gwahanol a gallant hefyd fod yn berthnasol wrth gynnal CDU.<br>Bwriedir i'r newidiadau strwythurol hyn wneud y rhan hon o'r Cod yn haws i ddefnyddwyr.<br>Mae'r cynnwys ei hun hefyd wedi cael ei symleiddio a'i ddiwygio'n sylweddol er mwyn ei wneud yn fwy eglur, sicrhau mwy o gysondeb rhwng y penodau ac ychwanegu mwy o fanylion mewn rhai rhannau er mwyn gwella'r cysylltiadau â'r rhannau eraill o'r Cod a sicrhau bod y gofynion yn gliriach ac yn effeithiol.<br>Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y gofynion na'r canllawiau yn y penodau hyn wedi newid.<br>Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol o ran gofynion yw'r newid mewn perthynas â gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu newid ac felly pan fydd yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae'n **rhaid** i'r awdurdod **ystyried** a ddylai geisio cyngor gan seicolegydd addysgol a, phan fydd o'r farn bod angen cyngor o'r fath i benderfynu ar bethau penodol, mae'n **rhaid** iddo ei geisio. Gwnaed y newid hwn o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod y gofynion yn rhy feichus ac mae'n rhoi statws statudol i rôl y Seicolegydd Addysgol, ond hefyd yn lleihau'r baich sylweddol o bosibl y gallai gofyniad cyffredinol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol o dan yr holl amgylchiadau ei achosi. |
| 14 – Dyletswyddau ar ALl ynghylch plant sy'n derbyn gofal ganddo | Pennod Newydd | |
| 15 – Dyletswyddau ar ysgolion ac ALlau ynghylch pobl ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir | Pennod Newydd | |
| 16 – Dyletswyddau ar Sefydliad Addysg Bellach (SAB) ac ALl ynghylch pobl ifanc mewn SAB | 10 | |
| 17 – Dyletswyddau ac ALlau ynghylch pobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na SAB | 12 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol i fod yn gyson â'r manylion yn rheoliadau 6 i 10 o Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 1 i Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddorion |

| | | |
|---|---|---|
| | | polisi a nodwyd yn wreiddiol yn y bennod ddrafft flaenorol wedi newid. Mae'r bennod yn nodi'r ystyriaethau a'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â nhw wrth benderfynu a oes angen CDU i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (lle nad yw'r person ifanc mewn ysgol a gynhelir na SAB yng Nghymru). Mae'r prif ofynion o ran sicrhau lleoliad ôl-16 arbenigol yn adlewyrchu'r rhai o dan y system bresennol (lle mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau lleoliadau o'r fath).<br><br>Hefyd, gwnaed newidiadau eraill yn debyg i'r rhai a ddisgrifir mewn perthynas â phenodau 11 i 16. |
| 18 – Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol | 23 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi mwy o ganllawiau ar nifer o amgylchiadau gwanhaol. Ceir gofyniad newydd hefyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y mae eu rhiant yn aelod o'r Lluoedd Arfog. |
| 19 – Plant a phobl ifanc o dan orchymyn cadw | 22 | Gwnaed newidiadau i egluro'n well sut y mae'r system ADY yn gymwys mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o dan orchymyn cadw (gan gynnwys pobl a gedwir yn gaeth), gan gynnwys esbonio beth yw ystyr diffiniadau yn ymarferol a sôn am faterion eraill sy'n berthnasol i sefyllfaoedd lle y cedwir pobl ifanc yn gaeth a rhoi mwy o ganllawiau ymarferol.<br><br>Mae'r bennod hefyd yn ymdrin ag atgyfeiriadau at gyrff y GIG o dan adran 20 o'r Ddeddf lle mae CDU yn cael ei baratoi ar gyfer person a gedwir yn gaeth, gan roi canllawiau ynghylch pryd y byddai hyn yn briodol a gosod gofyniad cysylltiedig lle y nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol. Adlewyrchir y diwygiad i adran 44 o'r Ddeddf ynglŷn â'r ddyletswydd ar gyrff y GIG o dan adran 20 (gan nodi nad yw'n gymwys yn ystod y cyfnod cadw).<br><br>O ran y terfynau amser yn y bennod hon, ac yn unol â diwygiadau tebyg drwy'r Cod |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfan, nodir cyfnod penodedig bellach y mae'n rhaid cymryd y cam (e.e. penderfynu ar ADY a pharatoi CDU neu adolygu CDU) oddi mewn iddo, yn amodol ar yr eithriad arferol. Yn y gorffennol, y gofyniad oedd bod yn rhaid cymryd y cam yn brydlon.<br>Mae'r canllawiau blaenorol ar adolygu CDU ar ôl i berson a gedwir yn gaeth gael ei ryddhau wedi cael eu troi'n ofyniad a cheir canllawiau ategol ar y gofyniad hwnnw.<br><br>Ceir newidiadau hefyd i wneud gofynion yn gyson â rhai tebyg mewn mannau eraill sydd wedi cael eu mireinio, er mwyn gwella'r croesgyfeiriadau (ac adlewyrchu'r newidiadau strwythurol) a newidiadau i adlewyrchu gofynion yn Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan gynnwys y rheoliadau sy'n ymdrin â'r angen i baratoi CDU. |
| 20 – Adnabod ADY a phenderfynu a oes angen y DDdY | 7 (ail ran) | Fel yn achos Pennod 2 (Diffiniad o ADY a DDdY), cafodd y bennod hon ei chreu o ail ran yr hen Bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; cafodd y strwythur a'r cynnwys eu diwygio i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder ynghylch adnabod ADY, penderfynu ar y DDdY sydd ei hangen, a chasglu a defnyddio tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau hynny a chysoni â newidiadau mewn mannau eraill. |
| 21 – Gweithio amlasiantaethol | 15 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol; ond nid yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi newid. Y newid allweddol yw bod yr adran ar rôl y SACDA wedi cael ei symud a'i gosod mewn pennod ar wahân (Pennod 9). Yn benodol, cafodd canllawiau statudol ar y Bwrdd Iechyd Lleol y dylid atgyfeirio achos ato o dan adran 20 eu hychwanegu, a hefyd ddarpariaeth ynghylch pryd mae Bwrdd Iechyd Lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc. |
| 22 – Cyfarfodydd am ADY a DDdY | 18 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol a gwella'r strwythur; ond nid yw'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, ceir canllawiau ychwanegol ar gynnal cyfarfodydd drwy ddulliau rhithwir, yn ogystal â rhagor o ganllawiau ar y materion y bydd angen eu hystyried o bosibl er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gyfranogi'n well. |
| 23 – Paratoi CDU a'i gynnwys | 13 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Roedd elfennau penodol wedi'u cynnwys yn y prif benodau ar ddyletswyddau (penodau 11 i 17 bellach), a oedd yn ymwneud â pharatoi neu gynnal CDU, a oedd yn gymwys i'r holl amgylchiadau neu'r rhan fwyaf o amgylchiadau, ac a oedd yn cael eu hailadrodd ym mhob un o'r penodau hynny ac roedd rhai elfennau a oedd ond yn cael eu trafod yn un o'r penodau hynny ond a oedd yn berthnasol o bosibl i sefyllfaoedd eraill. Er mwyn symleiddio'r prif benodau ar ddyletswyddau, a rhoi mwy o eglurder a chanllawiau ar baratoi CDU neu ei adolygu, mae'r elfennau hynny o'r canllawiau wedi cael eu symud a'u cynnwys yma. Cafodd y strwythur a'r geiriad yn y bennod hon eu diwygio hefyd i wella'r llif a'i gwneud yn haws i'w defnyddio. Cafodd adran ei hychwanegu hefyd yma ac yn y templedi ar gyfer ffurflenni safonol yn Atodiadau A a B er mwyn rhoi gwybodaeth am drefniadau teithio. |
| 24 – Paratoi CDU a'i gynnwys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | 14 | Cafodd y bennod hon ei diwygio yn unol â'r newidiadau i Bennod 23 a'i symleiddio i osgoi dyblygu'r wybodaeth a geir yn y bennod honno. Yn syml, mae'r bennod hon bellach yn esbonio'r gwahaniaeth yn y broses a chynnwys CDP i blentyn sy'n derbyn gofal, ond mae'r canllawiau ar gynnwys perthnasol pob rhan o'r CDU wedi'u nodi ym Mhennod 23. |
| 25 – Adolygu a Diwygio CDUau | 16 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. Cafodd ei hailstrwythuro a'i symleiddio hefyd lle y bo modd ond nid yw hanfod y cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 26 – Ailystyriaethau awdurdodau lleol ac | 17 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai |

| | | |
|---|---|---|
| ymgymryd â’r cyfrifoldeb am CDU | | mannau, gan gynnwys gwella’r cysylltiadau â rhannau eraill o’r Cod. O ran strwythur, mae’r bennod wedi newid ond nid yw’r cynnwys wedi newid yn sylweddol. Cafodd darpariaethau ynglŷn ag ymgynghori â seicolegydd addysgol eu dileu. |
| 27 – Cynllunio ar gyfer cyfnod pontio a’i gefnogi | 19 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio’n sylweddol. Mae’r bennod yn llai rhagnodol bellach, gyda llai o ganllawiau statudol. Mae hyn yn ymateb i’r sylwadau lu a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn gwrthddweud ei gilydd ac a oedd yn ei gwneud yn amlwg bod cyfnodau pontio yn hyblyg ac y bydd angen gweithredu yn unol ag anghenion unigolion.<br>Ymdrinnir â manylion am geisio cydsyniad plentyn sy’n dod yn berson ifanc i barhau i gynnal ei CDU ym Mhennod 4 bellach. |
| 28 – Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU | 20 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai mannau, gan gynnwys cysylltu â rhannau eraill o’r Cod ac adlewyrchu manylion Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. O ran strwythur, mae’r bennod wedi newid ond nid yw’r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 29 – Peidio â chynnal CDU | 21 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. O ran strwythur, mae’r bennod wedi newid ond nid yw’r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 30 – Cyfeillion achos i blant nad oes ganddynt alluedd | 27 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu’r newidiadau technegol a wnaed i’r rheoliadau. Mae’n rhoi esboniad clir o’r ffordd y gall plentyn nad oes ganddo alluedd ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am rôl cyfaill achos a sut y cânt eu penodi a'u tynnu'n ôl gan y Tribiwnlys. |
| 31 – Cynrychiolwyr rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd | Pennod Newydd | Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Hydref 2020, cafodd y bennod ei diwygio i gynnwys croesgyfeiriadau ychwanegol, yn enwedig o ran Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r bennod hefyd wedi |

| | | |
|---|---|---|
| | | nodi'n fwy eglur y gall cynrychiolwyr gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys troednodiadau newydd sy'n cyfeirio at effaith achos Re: D. |
| 32 – Osgoi a datrys anghytundebau ac Eiriolaeth Annibynnol | 25 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion lle y bo eu hangen. O ran strwythur, nid yw'r bennod wedi newid ac nid yw'r cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. |
| 33 – Apeliadau a Cheisiadau i'r Tribiwnlys Addysg | 26 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau technegol a wnaed i'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y bennod yn disgrifio'r broses apelio a'r terfynau amser dan sylw. Mae'n rhoi eglurder ynghylch beth y gellir apelio yn ei gylch a chan bwy. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais i'r Tribiwnlys o ran dim galluedd. Mae hefyd yn cynnwys adran ynglŷn â sut y gall plant gyflwyno eu hapêl eu hunain i'r Tribiwnlys. |

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**Y Cod ADY, gan gynnwys diwygiadau ar ôl ymgynghori**

**6. Opsiynau**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â llunio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

Fel rhan o'r diwygiadau hanfodol hyn, bydd y Cod ADY yn disodli'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) presennol i Gymru. Dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau o 1 Medi 2021, bydd proses weithredu fesul cam lle y caiff yr holl ganllawiau statudol yn y Cod Ymarfer AAA eu diffodd a chaiff darpariaethau newydd eu cyflwyno drwy'r Ddeddf ADY, y cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig.

Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ystyried goblygiadau rheoleiddiol gosod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn y Cod ADY (a'r rheoliadau cysylltiedig).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Cod ADY, ynghyd â'r rheoliadau cysylltiedig, gerbron y Senedd ar 2 Mawrth, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adolygu'r cynigion ar b'un a ddylid dwyn y Cod ADY i rym.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adolygu dau opsiwn a ddisgrifir isod.

**Opsiwn un: gwneud dim**

O dan opsiwn un, bydd y system AAA bresennol yn parhau â'r Cod Ymarfer AAA sy'n nodi rôl darparwyr addysg i adnabod plant ag anghenion arbennig a gwella eu profiad.

**6. Manteision**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth opsiwn un.

Hefyd, gallai rhan o'r £20.244m o gyllid y cytunwyd arno ar 7 Chwefror 2017 i dalu costau pontio un system statudol i un arall a chyflwyno'r trawsnewidiadau ehangach i'r system gael ei wario ar bethau eraill.

**7. Anfanteision**

Mae'r system bresennol yn annheg. Mae darpariaeth gwasanaeth a ddiogelir o dan y gyfraith i blant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol ac sydd uwchlaw'r trothwy i gael datganiad AAA. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i diogelu na hawliau statudol i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn llai difrifol ac sydd islaw'r trothwy i gael datganiad AAA.

Mae'r arferion a'r prosesau presennol sy'n gysylltiedig â datganiadau AAA yn aneffeithlon ac anhyblyg, a gallant arwain at ddarpariaeth aneffeithiol i blant a phobl ifanc.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu a diwygio cynlluniau statudol yn feichus yn weinyddol ac mae'n rhaid i ysgolion wahodd set ragnodedig o weithwyr proffesiynol, p'un a oes angen eu presenoldeb a'u cyfraniad ai peidio o ran effeithiolrwydd yr adolygiad. Mae adolygiadau statudol yn cymryd cryn dipyn o amser i drefnu a pharatoi ar eu cyfer. Felly, gall y broses o ddiwygio cynllun fod yn un hirfaith ac arwain at oedi cyn bod dysgwyr yn cael y cymorth mwyaf priodol.

Hefyd, nid oes fawr ddim hyblygrwydd wrth adolygu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ar y trothwy i gael cymorth statudol. Er enghraifft, pan fydd canlyniadau cynllun statudol wedi'u cyflawni i blentyn neu berson ifanc, gall pryder rhieni ynglŷn â cholli'r hawl statudol arwain at bwysau i gynnal y cynllun a'i ddarpariaeth, er na fydd hyn o reidrwydd yn golygu'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol i'r person ifanc.

Yn olaf, heb y Cod ADY, ni allai'r diwygiadau i'r system AAA na'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd fynd rhagddynt.

**Opsiwn dau: cyflwyno Cod ADY yn lle'r Cod Ymarfer AAA**

O dan opsiwn dau, caiff y system AAA bresennol, gan gynnwys y Cod Ymarfer AAA ei disodli'n gyfan gwbl gan y system ADY, gan gynnwys y Cod ADY statudol.

Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

Fel trydydd opsiwn posibl, gellid bod wedi bwrw ymlaen â'r Cod ADY drafft fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 cyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ni fyddai hwn wedi bod yn opsiwn gwirioneddol o ystyried y gofynion cyfreithiol i gynnal ymgynghoriad ystyrlon ar y Cod ADY drafft a'r ymrwymiad cyhoeddus i wneud gwelliannau i'r Cod ADY drafft cyn ei osod gerbron y Senedd.

**8. Manteision**

Trafodir manteision parhau â'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys gosod y Cod ADY diwygiedig a chyflwyno'r system ddeddfwriaethol y mae'r Cod yn helpu i'w hategu, yn fanylach o dan adran 7. Fodd bynnag, mae'r prif fanteision yn ymwneud â'r rhesymau dros ddiwygio'r system AAA yn y lle cyntaf, sef y bydd y Cod ADY diwygiedig yn gwella'n sylweddol y cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

**9. Anfanteision**

Yn yr un modd â'r manteision, trafodir yr anfanteision yn fanwl isod. Fodd bynnag, y prif bwynt i'w nodi yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno system ddeddfwriaethol newydd. Ceir risg y bydd costau yn cynyddu, o ran cost ariannol a phwysau ar adnoddau. Fodd bynnag, yn ôl Adroddiad Blynyddol

2018-2019 Estyn "Mae ysgolion ac UCDau sydd â rolau arwain clir ac arfer ragorol mewn sefyllfa dda i drosglwyddo o'r system AAA bresennol i'r system ADY newydd."

Mae risg hefyd yn gysylltiedig â chyflwyno'r diwygiadau hyn ar adeg na welwyd ei thebyg o'r blaen mewn lleoliadau addysg, gyda COVID-19 o bosibl yn effeithio ar allu awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu (a chyrff statudol eraill) i reoli'r broses o'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r risg hon yn ymwneud mwy â rhoi'r system ar waith yn hytrach na chyflwyno'r Cod ADY.

## 7. Costau a manteision

Mae'r Cod ADY yn cynnwys canllawiau statudol ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ADY, sy'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar faterion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY, ac yn disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai yn y Ddeddf.

Mae'r Cod yn cynnwys cannoedd lawer o ddyletswyddau statudol unigol, lle mae'r gofynion (a ysgrifennir fel "**rhaid**" yn y Cod) yn deillio o bwerau mewn is-ddeddfwriaeth – naill ai o'r Cod ei hun neu o reoliadau – yn hytrach na deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf ADY. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â manylion a phrosesau ynglŷn â sut y bydd y system yn gweithredu, gan gynnwys manylion am y rolau a'r tasgau a nodir yn y Ddeddf ADY.

Nid diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw trafod effaith pob dyletswydd statudol yn y Cod. Yn hytrach, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn trafod y dyletswyddau mewn ffordd thematig, gyda chyfeiriadau penodol at y dyletswyddau newydd fel y'u diwygiwyd ar ôl yr ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft.

Er mwyn deall effaith y dyletswyddau statudol a wneir o dan is-ddeddfwriaeth yn well, cafodd pob enghraifft o "**rhaid**" yn y Cod ei chasglu, ei dadansoddi a'i threfnu'n gategorïau o gost debygol pob dyletswydd o ran ei harwyddocâd yn hytrach nag amcangyfrif ariannol o bob dyletswydd unigol. Cafodd yr holl ddyletswyddau yr ystyrir eu bod yn costio mwy na'r gost isel sy'n gysylltiedig â thasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiad) eu casglu ynghyd yn themâu. Trafodir y themâu hyn yn fanwl isod.

Lle y bo'n berthnasol, defnyddir cyfeiriadau at y costau fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018) yma.

### Pecyn cyllid o £20m i gyflwyno'r system ADY

Defnyddir y pecyn cyllid o £20.244m i helpu i roi'r Ddeddf ar waith a chyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.

Caiff rhan fawr o'r cyllid hwn ei defnyddio i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pob partner yn deall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ac yn barod ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i feithrin gallu a sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i weithredu'r system newydd yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Rydym yn targedu gweithgarwch datblygu'r gweithlu ar dair lefel; datblygu sgiliau craidd i bob ymarferydd, datblygu sgiliau uwch drwy sefydlu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau) a fydd yn disodli rôl bresennol Cydlynwyr AAA; a datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol sydd ar gael i leoliadau addysg.

Mae pum arweinydd trawsnewid ADY wedi bod mewn swydd ers mis Ebrill 2018. Eu rôl yw rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach, wrth iddynt baratoi i roi'r diwygiadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys hunanasesiadau trylwyr o barodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Bydd yr arweinwyr trawsnewid ADY yn gyfrifol am gyflwyno hyfforddiant gweithredu ar sail ranbarthol, amlasiantaethol.

**10. Themâu a nodwyd o'r dyletswyddau statudol yn y Cod ADY**

- Dynodi rolau statudol (swyddogion cydlynu ADY)
  - SACDA
  - CADY
  - Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

- Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)
  - Paratoi CDU
  - Sicrhau DDdY
  - Adolygu CDU

- Gwasanaethau Eirioli Annibynnol

- Costau adolygu'r system

**11. Costio is-ddeddfwriaeth**

Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY i'r casgliad na ddylai'r system ADY newydd ei hun fod yn fwy costus na'r system AAA bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno tystiolaeth os ydynt yn credu y bydd y system newydd yn fwy costus, ond hyd yma nid oes unrhyw dystiolaeth o'r fath wedi dod i law.

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn parhau i gefnogi'r safbwynt a nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf ADY. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod risgiau yn gysylltiedig â rhoi system newydd ar waith pan fydd lefel y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion a SABau a byrddau iechyd yn gyfyngedig. Mae'r mater hwn yn amlwg yn un ehangach nag ADY, ac mae'n ymwneud â chyllid y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, ond mae'r pryderon hyn yn parhau i gael eu mynegi mewn unrhyw drafodaeth gyhoeddus am y diwygiadau ym maes ADY.

Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn helpu'r darllenydd i ddeall y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â'r Cod ADY diwygiedig, a rhoi trosolwg o effaith y Cod ADY yn gyffredinol, gan ddefnyddio'r dull thematig a ddisgrifir uchod.

Mae'r costau a'r manteision a drafodir isod yn seiliedig ar gytuno ar Opsiwn dau.

**12. Y ddyletswydd i ddynodi Swyddogion Cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**13. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)**

**14. Mantais**

Bydd Opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad addysg, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a SABau, benodi CADY. Mae'r hyn yn estyn y trefniadau presennol lle y defnyddir Cydlynwyr AAA anstatudol yn y rhan fwyaf

o ysgolion yng Nghymru. Drwy wneud y CADY yn rôl statudol, bydd hyn yn sicrhau dull cyson o gydlynu DDdY i ddysgwyr yng Nghymru a helpu i feithrin gwell cydberthnasau gwaith rhwng sectorau.

## 15. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad

Yn sgil yr ymgynghoriad ar y Cod ADY, rydym wedi atgyfnerthu'r bennod ar CADYau i roi mwy o eglurder ynglŷn â'r cyngor a ddarperir eisoes. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaethau y dylai penaethiaid eu rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau.

Yn unol â Rheoliadau CADY 2020, cafodd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod eu diwygio. Mae'r diwygiadau hyn yn nodi'n fwy eglur pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(e) a 6(e) o Reoliadau CADY 2020) a pha agweddau ar gadw cofnodion y bydd yn rhaid i CADYau ymgymryd â nhw (rheoliadau 5(c) a 6(c) o Reoliadau CADY 2020). At hynny, mae rhai o'r dyletswyddau a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu. Mae'r rhain yn ymwneud â pharatoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi gan y corff llywodraethu yn unol â'r Cod ADY, a'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, CDU a'r DDdY a gynigir. Mae'r rhain wedi cael eu dileu yn y bennod a Rheoliadau CADY 2020 oherwydd newidiadau a wnaed mewn mannau eraill i'r Cod ADY yn hyn o beth.

Mae'r diwygiadau hyn yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar y gost na'r manteision sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Cod ADY, ond gallant roi cymorth mwy eglur i'r rhai sydd â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â rôl CADY.

16.

## 17. Cost

Trafodwyd cost creu rôl y CADY yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY a'r asesiad effaith integredig ar gyfer rheoliadau CADY. O ystyried cwmpas cyffredinol y rôl a'r ffordd y bydd yn amrywio o leoliad i leoliad, ni fydd modd rhoi cost amcangyfrifedig ar gyfer y rôl. Yr effaith fwyaf sylweddol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn oedd sut y bydd y rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu at godi safonau o ran gweithgarwch cydlynu neu DDdY i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd awdurdodau lleol yn gwneud hyn drwy roi sicrwydd y bydd rôl newydd y CADY yn cael ei chyflawni gan unigolion cymwysedig (h.y. athrawon cymwysedig neu Gydlynwyr AAA profiadol) y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â'r gwaith o gydlynu DDdY mewn ffordd gyson, ni waeth pa fath o leoliad addysg sydd dan sylw. Dylai hyn arwain at welliant yn y ffordd y caiff DDdY ei chynllunio a'i chyflwyno i blant a phobl ifanc.

Ni nodwyd unrhyw gostau ariannol pellach yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â CADYau.

Mae risg ddamcaniaethol o ganfyddiad posibl y bydd y gofynion newydd o ran CADYau yn creu baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a all wneud i'r

Cydlynwyr AAA presennol fod yn amharod i wneud cais i fod yn CADY. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i wneud y CADY yn rôl broffesiynol ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y risg hon yn cael ei gwireddu.

**18. Swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA)**

**19. Mantais**

Bydd opsiwn dau yn sicrhau y bydd pob bwrdd iechyd lleol (BILl) yn dynodi SACDA i fod yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth iechyd o ddydd i ddydd i blant a phobl ifanc ag ADY yn cael ei rheoli a'i chydlynu'n effeithiol.

Er y bydd llawer o'r gwaith y bydd y SACDA yn gyfrifol amdano o dan y system ADY eisoes wedi'i wneud ym mhob BILl ar hyn o bryd, heb y rôl ddynodedig hon, mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â goruchwylio darpariaeth iechyd sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol arbennig wedi bod yn anghyson ac yn anodd i'w fesur.

Bydd penodi SACDA ym mhob bwrdd iechyd yn fanteisiol o ran hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd yn effeithiol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd y SACDA hefyd yn helpu'r bwrdd iechyd i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan system ADY ac yn hwyluso'r cydweithrediad effeithiol rhwng byrddau iechyd a'u partneriaid o ran darparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY.

Bydd y SACDA hefyd yn sicrhau bod strwythur cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chasglu data ar ansawdd, canlyniadau a pherfformiad gwasanaethau; symleiddio'r system i blant, pobl ifanc, rhieni a phartneriaid drwy gynnig un pwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill mewn byrddau iechyd ar faterion ADY. Hefyd, dylai penodi SACDA sicrhau bod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth strategol i fyrddau iechyd.

Un o brif fanteision cyflwyno rôl y SACDA fydd y cysylltiadau gwell rhwng iechyd a sectorau eraill, a'r cyfle i gydlynu gwaith amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Nod y system yw torri nifer y cyfarfodydd a'r asesiadau sydd eu hangen i gael DDdY a sicrhau parhad cymorth i'r unigolion wrth iddynt bontio, o ran oedran, rhwng camau allweddol a datblygiad addysgol.

**20. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae pennod newydd yn y Cod ADY ar rôl y SACDA. Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y SACDA ym Mhennod 15 ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Nid yw sylwedd y bennod wedi newid fawr ddim, ond mae'n haws i'r darllenydd ei ddilyn erbyn hyn.

**21. Cost**

Trafodwyd cost cyflwyno rôl y SACDA yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY lle y daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw gostau newydd i fyrddau iechyd lleol,

a hynny am fod disgwyl i'r rôl gael ei chyflawni gan aelod presennol o'r staff ac y bydd y SACDAau a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ei angen o fewn yr oriau a neilltuir ar eu cyfer i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Er bod y rôl ei hun yn newydd, mae'r dyletswyddau y bydd y SACDA yn gyfrifol amdanynt fel y'u nodwyd yn y Cod eisoes yn cael eu cyflawni gan aelodau presennol o staff mewn byrddau iechyd o dan system AAA. Diben y SACDA fydd safoni'r rôl hon a gwella gwaith amlasiantaethol drwy unigolyn a enwir ym mhob bwrdd iechyd. Ar gyfartaledd, bydd gweithiwr iechyd proffesiynol ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn ymgymryd â chyfrifoldebau SACDA am tua dau ddiwrnod yr wythnos.

Mae'r dyletswyddau yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â rôl y SACDA yn rhoi mwy o fanylion am y rôl ei hun, a defnyddir y canllawiau i nodi sut y disgwylir i SACDAau ymgymryd â'u tasgau. Mae cyflwyno rôl y SACDA a'r amcangyfrif o'r adnodd fydd ei angen yn dwyn risg isel a hawdd ei rheoli i fyrddau iechyd lleol gan na ddisgwylir i SACDAau fod yn swyddi llawn amser ac mae'n debygol y bydd uwch-aelodau presennol o'r bwrdd iechyd lleol yn ymgymryd â'r rôl.

Gyda'r ddyletswydd i ddarparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd i ddysgwyr hyd at 25 oed, efallai y bydd cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeirir at gyrff y GIG lle mae angen DDdY sy'n ymwneud ag iechyd. Gallai'r risg hon, er nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth a welwyd gan Lywodraeth Cymru, gynyddu costau i BILlau o bosibl o ran y systemau y maent yn eu cyflwyno i gefnogi rôl y SACDA a'u swyddogaethau statudol o dan y system ADY. Er ei bod yn anodd amcangyfrif sut y bydd estyn yr ystod oedran i 25 oed yn effeithio ar y costau hyn, esboniodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd gan bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n mynychu sefydliad AB arbenigol gynllun dysgu a sgiliau statudol ar hyn o bryd. Pan fydd angen gofal meddygol ar berson ifanc tra ei fod mewn sefydliad AB arbenigol, gofynnir i'r bwrdd iechyd gyfrannu at y cynllun dysgu a sgiliau. O dan y system ADY, bydd yr arfer hon yn parhau ond gofynnir i fyrddau iechyd gyfrannu at y CDU yn lle hynny. Daethpwyd i'r casgliad na fydd unrhyw gost ychwanegol i fyrddau iechyd pan fydd person ifanc yn mynychu sefydliad AB arbenigol.

**22. Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar)**

**23. Mantais**

O dan opsiwn dau, caiff swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ei benodi gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.

Bydd swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn chwarae rôl bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r system ADY a sut y mae'n gymwys i blant o dan yr oedran ysgol gorfodol; hyrwyddo'r broses o adnabod ADY ar gam cynnar a'u hatal; a chyfrifoldebau strategol eraill. Bydd y dyletswyddau hyn yn helpu teuluoedd i ddeall ADY eu plant a'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi eu haddysg. Felly, dylai'r rôl gynnwys budd cymdeithasol drwy leihau'r ofn sy'n gysylltiedig ag ADY a rhoi sicrwydd i rieni bod cymorth ar gael mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Mantais arall cynnwys y rôl newydd hon yn y Cod ADY fydd gwella'r ffordd y caiff darpariaeth ar gyfer plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ei chydlynu a sicrhau bod un swyddog a enwyd y gellir cyfeirio materion ato. Bydd hyn yn helpu teuluoedd pryderus sydd, o dan y system AAA, wedi cael anhawster o bosibl i ymgysylltu â'r unigolion perthnasol.

**24. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys ers yr ymgynghoriad.

**25.**

**26. Cost**

Crybwyllwyd cost cyflwyno rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fel y nodwyd ynddo, at ddibenion enghreifftiol defnyddir cyflog o £49,700 i amcangyfrif costau parhaus cyflwyno swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Felly, amcangyfrifir y bydd cost barhaus o tua £1,093,400 y flwyddyn i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar, ni fydd hon yn gost barhaus ychwanegol.

Amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol yn mynd i gostau pontio o £126,700 mewn perthynas â hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Mae cost amcangyfrifedig hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar yr un model costio ag a ddefnyddir i amcangyfrif costau hyfforddi CADYau. Hynny yw, tybir y caiff swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar eu hyfforddi i lefel gradd meistr ar gost o £3,600 fesul gradd, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o £79,200 i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac y byddant yn cymryd 10 diwrnod astudio â thâl dros y cyfnod o ddwy flynedd ar gost amcangyfrifedig o £47,520.

Nid oes unrhyw ddyletswyddau eraill yn y bennod ar rôl swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ar wahân i ddyletswydd yr awdurdod lleol i ddynodi swyddog.

**27. Cynlluniau Datblygu Unigol**

- Paratoi CDU
- Sicrhau DDdY
- Adolygu CDU

**28. Cyd-destun**

Mae data a ddangoswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf wedi datgelu bod nifer y plant a phobl ifanc y cofnodwyd bod ganddynt AAA rhwng 2011-12 a 2015-16 wedi bod yn gymharol sefydlog, sef 23% o ddisgyblion. Er bod y system ADY yn estyn yr ystod oedran i 25 oed, mae nifer y bobl ifanc rhwng 19-25 oed ag ADY mewn addysg neu hyfforddiant, sy'n cydsynio i gael CDU, yn debygol o fod yn fach. Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod 83 o leoliadau arbenigol ôl-19 wedi'u sicrhau yn 2018/19. Gan ddefnyddio'r ffigurau sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf a chan Stats Cymru, bydd tua 110,000 o CDUau oedran ysgol, gyda thua 1,000 ar gyfer plant islaw'r oedran ysgol gorfodol, a thua 2,000 ar gyfer pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**29.**

**30. Mantais**

Os dewisir Opsiwn dau, drwy gyflwyno'r Cod ADY, bydd pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael ei drin yn gyfartal o dan y gyfraith, ni waeth pa mor ddifrifol yw eu hanghenion. Bydd gan bob dysgwr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig) a SABau y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) arnynt yr hawl i gael cynllun datblygu unigol (CDU) statudol a'r hawl i apelio. Bydd hyn yn gwneud y system o gymorth i ddysgwyr yn decach ac yn cyfrannu at fudd cymdeithasol drwy estyn hawliau plant a phobl ifanc a gweithio tuag at ganlyniadau addysgol gwell.

Drwy gyflwyno cynlluniau statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY, bydd modd rhoi mwy o ffocws ar adnabod anghenion ar gam cynnar a ddylai atal neu leihau gwrthdaro yn y system. Gallai hyn arwain at leihad yn yr hirdymor yn nifer yr apeliadau a gyflwynir i'r Tribiwnlys, ond bydd nifer y darpar apelwyr, wrth reswm, yn cynyddu gan y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY yr hawl i apelio. Dylai cynlluniau statudol teg hefyd wella'r ffordd y sicrheir darpariaeth a sicrhau y bydd ar waith gyhyd ag y bo'i hangen (hyd at 25 oed).

Mae'r dyletswyddau yn y Cod ADY ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i baratoi CDU, sicrhau'r DDdY ac adolygu CDUau wedi'u nodi'n fras yn y Ddeddf ADY ac mae ei heffaith wedi cael ei dogfennu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fodd bynnag, mae'r Cod ADY diwygiedig yn nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid ymgymryd â'r trefniadau hyn. Er enghraifft, mae llawer o'r gofynion a osodir gan y Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig ynglŷn â CDUau yn ymwneud â'r terfynau amser ar gyfer cwblhau tasgau penodol. Dylai awdurdod lleol, er enghraifft, ymddwyn “yn brydlon” i benderfynu a ddylai ddod yn gyfrifol am gynnal y CDU a chyflwyno'r hysbysiad o fewn y cyfnod o saith wythnos i'r cais ynglŷn â dod yn gyfrifol am y CDU, oni bai nad oes modd gwneud hynny o fewn y cyfnod hwnnw oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

Mae gosod terfynau amser ar gyfer y dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth graidd hon yn y system ADY o fantais am fod hynny'n ei gwneud yn bosibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael disgwyliad rhesymol o ran pryd y dylai penderfyniadau neu brosesau penodol gael eu cwblhau. Dylai hyn helpu i leddfu llawer o'r tensiwn ar hyn o bryd yn y system AAA lle mae oedi ac

anghysondebau wedi achosi cryn bryder yn y gorffennol. Disgwylir hefyd y bydd y terfynau amser hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae'n cymryd ar hyn o bryd i gwblhau penderfyniadau neu brosesau penodol, megis paratoi cynllun statudol o gymorth. Drwy'r ddefnyddio'r ymadrodd “yn brydlon”, mae'r Cod ADY yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu cyflawni heb oedi, ond mae'n bosibl y bydd defnyddio terfyn amser penodedig ar gyfer pob dyletswydd heb ddefnyddio'r term “yn brydlon” yn gyntaf yn arwain at sefyllfa lle mae'r uchafswm amser a ganiateir i gyflawni unrhyw ddyletswydd benodol yn mynd yn derfyn amser arferol.

**31. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae penodau 11-15 o'r Cod ADY yn cynnwys y dyletswyddau craidd mewn perthynas â'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY. Hefyd, mae penodau 16 a 17 yn cynnwys dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SABau neu bobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir. Mae'r rhain wedi cael eu hailddrafftio gryn dipyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad . Maent bellach yn ymddangos mewn penodau ar wahân, ar sail amgylchiadau sy'n ymwneud ag oedrannau penodol, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau cyrff statudol i gefnogi dysgwyr ag ADY.  Mae'r elfennau o'r canllawiau sy'n gymwys i bob un o'r grwpiau oedran hyn bellach yn ymddangos mewn un bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder a chanllawiau wrth baratoi CDU neu ystyried y DDdY y dylai ei chynnwys. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y dyletswyddau allweddol yn y penodau hyn wedi newid.

**32. Cost**

Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau ar gyfer pob plentyn ag ADY sy'n derbyn gofal ganddynt. Amcangyfrifwyd ar adeg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd awdurdodau lleol yn treulio tua awr yn paratoi'r cais ar gost o tua £18 y cais yn seiliedig ar 20 o geisiadau y flwyddyn (ni ddisgwylir i'r nifer hwn newid o ganlyniad i gyflwyno'r system ADY). Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf, ni ddisgwylir i awdurdodau lleol fynd i unrhyw gostau ychwanegol o dan opsiwn dau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn paratoi achos wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad i blentyn neu berson ifanc â datganiad AAA gael lle mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo fel arfer i dderbyn dysgwyr â datganiadau AAA. O dan Opsiwn dau, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni eu hunain o hyd bod y lleoliad yn briodol.

Bu nifer o geisiadau am dystiolaeth, o ymchwil Deloitte yn 2015 i gais swyddogion Llywodraeth Cymru am ddata gan awdurdodau lleol ond nid ydynt wedi rhoi unrhyw arwydd sy'n herio'r amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY ac, yn y pen draw, amcangyfrifir y bydd y system newydd yn gost niwtral o'i chymharu â'r system AAA bresennol.

Bydd y broses o adolygu CDU yn un barhaus ac er bod gofynion i adolygu CDUau (megis adolygiadau blynyddol), dylai'r gwaith i lywio'r cyfarfodydd hyn gael ei wneud yn barhaus. Bydd cost adolygu CDUau yn ymwneud yn bennaf â'r amser y mae'n ei gymryd i'r CADY neu aelod arall o'r staff addysgu gynnal y cyfarfod adolygu.

Yn yr un modd, wrth baratoi CDU, bydd amgylchiadau yn codi pan fydd cynlluniau yn dechrau o'r newydd (dysgwr newydd o dros y ffin, anabledd newydd sy'n gofyn am DDdY), ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y rhai ag ADY eisoes wedi'u hadnabod ac mae'n debygol y bydd rhyw ddarpariaeth eisoes ar waith. Ni fydd y gwaith o baratoi CDU yn arwain at gost sylweddol i'r ysgol na'r awdurdod lleol, ond yn y rhan fwyaf o achosion cymhleth gallai'r gost gael ei hystyried yn un gymedrol. Fodd bynnag, mewn achosion lle roedd dyletswydd ar SAB i baratoi neu gynnal CDU, byddai hyn yn gost newydd a gallai gael ei hystyried yn un feichus i ddechrau. Felly, efallai y bydd costau SABau yn cynyddu ond ni ddisgwylir i'r system yn ei chyfanrwydd arwain at fwy o gost yn gyffredinol. Yn 2018/19, cofnodwyd bod gan 11,095 o bobl ifanc, 16-24 oed, anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn SABau[1]. Er na ddisgwylir y bydd angen i SABau baratoi pob CDU o'r newydd (ymhen amser, bydd llawer o bobl ifanc yn cyrraedd SAB gyda CDU) fel rhan o'r gwaith cynllunio i roi'r system ADY newydd ar waith, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd o helpu SABau i ymgymryd â'u dyletswyddau newydd.

O ystyried bod Datganiadau AAA eisoes yn cael eu paratoi ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 19 oed, a bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar waith ar gyfer llawer mwy o ddysgwyr, mae'r union ddyletswyddau yn y Cod ADY yn rhai newydd, ond mewn gwirionedd, maent yn disodli ac yn gwella'r dyletswyddau presennol yn y system AAA.

Gallai cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â hawl statudol i gael darpariaeth arwain at fwy o bwysau ar y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau DDdY. Er nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol blaenorol o'r Ddeddf ADY wedi nodi unrhyw anghenion heb eu diwallu yn y system AAA (ac ni chredwn y bydd y system ADY yn creu galw newydd), mae risg y bydd y system well yn heriol o bosibl o ran yr adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyflwyno'r system AAA.

O ran cyflwyno'r terfynau amser newydd ar gyfer llawer o'r dyletswyddau yn y Cod ADY a'r rheoliadau, mae risg fach na fydd y lefel bresennol o adnoddau a neilltuir ar gyfer y system AAA yn ddigonol i gyflawni dyletswyddau (â therfynau amser newydd) o dan y system ADY. Er nad oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu hyn, a bod y terfynau amser a gyflwynir o dan y system ADY wedi cael eu dewis yn ofalus mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae posibilrwydd y bydd y system newydd yn gofyn am fwy o adnoddau i gyflawni dyletswyddau o fewn y terfyn amser penodedig.

33.

**34. Eiriolaeth**

**35. Mantais**

Mae'r Cod ADY yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

---

[1] Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl prif anabledd a/neu anhawster dysgu a rhyw https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

Bydd gwasanaethau eirioli annibynnol yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol, drwy gynrychioli neu fel arall blentyn neu berson ifanc, lle mae'r plentyn neu'r person ifanc:

- yn cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, apêl i'r Tribiwnlys;
- yn ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu
- yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundeb.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu am ddim ar adeg ei ddarparu.
Er bod eiriolaeth yn cael ei defnyddio'n aml o dan y system AAA, nid oes gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o dan God Ymarfer AAA. Felly, mae angen gwasanaethau eirioli annibynnol er mwyn cynnig dull cyson o ddarparu gwasanaeth eirioli sy'n ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud ag ADY. Bwriedir i wasanaethau eirioli annibynnol, ynghyd â'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau leihau'n sylweddol nifer yr anghydfodau sy'n codi o fewn y system AAA ar hyn o bryd, a dylent, yn y tymor canolig i'r hirdymor, leihau nifer yr achosion sy'n mynd gerbron y Tribiwnlys. Gallai hyn o bosibl arbed amser ac arian i'r rhai a allai fod wedi cyflwyno apêl pe na bai'r gwasanaethau hyn wedi bod ar gael.

**36. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae'r diwygiadau a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad wedi gwneud y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau eirioli annibynnol a gwasanaethau eirioli eraill yn fwy eglur. Mae hefyd yn fwy eglur bellach bod gan gynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd, hefyd yr hawl i gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Bydd y diwygiadau hyn yn fanteisiol i'r rhai sy'n darllen y Cod ADY heb gynyddu unrhyw gostau.

37.

**38. Cost**

Awdurdodau lleol fydd yn talu am gost rhedeg y gwasanaeth newydd, a bydd yn amrywio gryn dipyn rhwng awdurdodau. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf gost amcangyfrifedig o £5,300 i'r awdurdod lleol am wasanaethau datrys anghydfod sy'n ymwneud ag apeliadau o dan y system AAA. Darperir llawer o'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru gan y trydydd sector neu wirfoddolwyr, lle y telir am y costau weithiau drwy gyfraniadau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gwasanaethau eirioli proffesiynol eraill ar gael a fydd yn codi tâl am eu gwasanaeth.

Drwy gyflwyno gwasanaethau eirioli annibynnol, bydd risg o bosibl mewn perthynas â chost rhedeg y gwasanaeth i awdurdodau lleol Mae hyn yn gysylltiedig â'r defnydd posibl a wneir ohono, a'r anhawster o ran amcangyfrif y galw am wasanaethau eirioli. Wrth i'r system ADY newydd ymsefydlu, mae risg o gynnydd yn nifer yr achosion lle mae angen trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau neu ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol, a allai fod yn gostus a llafurus, ond drwy waith cynllunio gofalus a rhoi'r system newydd ar waith yn llwyddiannus dylid atal anawsterau o'r fath.

39.

**40. Adolygiadau**

**41. Mantais**

O dan Opsiwn dau, bydd y Cod ADY yn nodi'r manylion o ran dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu'r galw am DDdY a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg a'i chyflenwi. Y gofyniad yw bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o adeg gweithredu.

Bydd yr adolygiad yn hwyluso'r gallu i wneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth ynglŷn â DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cefnogi strategiaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**42. Cost**

Bydd adolygu DDdY Gymraeg yn arwain at gost ariannol nad yw wedi'i chyfrifo. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru fydd yn talu am y gost yn hytrach na chyrff statudol, ac mae ar wyneb y Ddeddf. Fel amcangyfrif, caiff y gwaith hwn ei wneud gan dîm bach sy'n cynnwys Uwch-swyddog Gweithredol (£47,000 y flwyddyn) ac un swyddog Cymorth Tîm (£23,830 y flwyddyn) am gyfanswm o dri mis. Mae hyn yn tybio na fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am unrhyw ymchwil allanol ac, yn lle hynny, y bydd yn dibynnu ar ei Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i wneud unrhyw ddadansoddiad o'r data. Amcangyfrifir costau o £17,707.50 ar gyfer y ddwy rôl hyn am dri mis.

**Enghreifftiau newydd o 'rhaid' yn y Cod ADY (ar ôl ymgynghori)**

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob dyletswydd newydd (**rhaid**) a geir yn y Cod ADY ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac eithrio tasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiadau) sydd wedi cael eu hepgor.

Nod y tabl isod yw helpu'r darllenydd i ddeall costau posibl y dyletswyddau newydd hyn.

| Cyf. | Testun | Pwnc | Cost |
|---|---|---|---|
| 19.81 | Os oes rhaid i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, **rhaid** iddo:(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac unrhyw benderfyniad ar a oes angen CDU ar gyfer person ifanc ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei baratoi;<br>(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;<br>(c) cofnodi'r dyddiad y cydsyniodd y person, os yw'n berson ifanc, i'r penderfyniad gael ei wneud;<br>(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd y gall y person ifanc fod ag ADY ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY.<br>(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau (22.64 –22.65). | Dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi cydlynydd | Isel<br><br>Mae'r broses ddynodi ei hun yn dasg weinyddol eithaf syml. |
| 16.14 | **Rhaid** gwneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r dyddiad pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 16.26 | **Rhaid** i'r SAB wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 19.65 | **Rhaid** i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a gafodd ei gadw'n gaeth adolygu'r CDU ar ôl iddo gael ei ryddhau a chwblhau'r adolygiad hwnnw (gan gynnwys, yn ôl y digwydd, roi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad am gasgliad arall o'r adolygiad) yn brydlon a sut bynnag, erbyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos yn dechrau ar ôl i'r person gael ei ryddhau rhag cael ei gadw'n gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod 7 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | Adolygu CDU | |
| 19.67 | Mewn achosion lle mae'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi cael ei ryddhau yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru, **caiff** yr awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r ysgol neu'r SAB gynnal y CDU. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hefyd fod yn fwy priodol i'r sefydliad hwnnw adolygu'r CDU. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, pe bai'r CDU wedi cael ei baratoi'n | Adolygu CDU | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddar gan yr awdurdod a bod gan y person a ryddhawyd anghenion lefel isel neu pe bai'r sefydliad yn cynnal y CDU yn flaenorol a bod y cyfnod cadw yn fyr iawn. Os trosglwyddir y CDU i ysgol neu SAB, byddai hyn yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 14(4) o'r Ddeddf yn achos ysgol neu ar ôl i SAB gytuno i gais yr awdurdod o dan adran 36(2) y daw'r SAB yn gyfrifol am y CDU. Hefyd, dim ond os yw'r person a ryddhawyd yn ddisgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'n berson ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr yn y SAB y gellir trosglwyddo CDU. Os nad yw'r awdurdod lleol wedi'i adolygu ar ôl rhyddhau, **rhaid** i'r ysgol neu'r SAB adolygu'r CDU yn brydlon a sut bynnag o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor i ryddhau'r plentyn neu'r person ifanc rhag cael eu cadw yn gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod tymor yn gymwys os yw'n anymarferol i'r ysgol neu'r SAB wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | | |
| 15.60 | Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, **rhaid** i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor a, lle mae o'r farn bod ceisio cyngor o'r fath yn fuddiol, **rhaid** iddo wneud hynny. | Ystyried a cheisio cyngor | Isel<br><br>Ni fydd ystyriaeth yn rhy feichus, ac mae'n debygol y daw yn rhan o'r broses. Gan fod seicolegwyr addysg eisoes yn rhan o'r system bresennol, nod y ddarpariaeth newydd hon yw safoni'r broses yn hytrach na chreu rhywbeth newydd sbon. Felly, bydd ceisio cyngor ond yn dasg weinyddol fach. |
| 17.32 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol nodi'n gyntaf a oes gan y person ifanc ganlyniadau dymunol a beth ydynt. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Dylai awdurdodau lleol eisoes fod yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn deall anghenion yr unigolion a gallai hyn gynnwys mewn perthynas â nodi canlyniadau dymunol.<br><br>Mewn llawer o achosion, bydd yr ALI yn ymwybodol o'r unigolyn drwy unrhyw ymgysylltu blaenorol ag ef/hi drwy broses y CDU. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.36 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried pa raglenni astudio a all fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ganlyniadau dymunol. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 17.38 | Fel arall, **rhaid** i'r awdurdod lleol yn gyntaf ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir neu SABau prif ffrwd (gallai hyn gynnwys ysgolion a SABau o'r fath yn Lloegr). Yn amlach na pheidio, gall y lleoliadau hynny gynnig rhaglen astudio addas i berson ifanc ag ADY a byddai anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY yn cael eu diwallu wrth ymgymryd â hi. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 31.12 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n ymgymryd â'r trefniadau hyn yn ddiduedd o ran canlyniad unrhyw anghytundebau posibl. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Efallai y bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant neu ganllawiau i'r staff er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa am eu dyletswyddau. |
| 32.13 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu eu dewisiadau a'u hanghenion cyfathrebu (gweler Pennod 3 ar gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc). | Gwybodaeth hygyrch | Isel neu ganolig<br><br>Dylai pob awdurdod lleol eisoes sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ganddo i'r cyhoedd yn hygyrch. Efallai y bydd cost untro am baratoi'r deunyddiau hyn, ond |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fawr ddim costau parhaus. |
| 32.11 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn deall y system ADY yn fanwl. Er mwyn gwneud hynny, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am y trefniadau yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol, a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella safonau. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Gall yr hyfforddiant hwn gael ei addasu o ddeunydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru, gan gadw'r gost yn isel. |
| 32.63 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob eiriolwr:<br>(a) yn deall y system ADY gan gynnwys y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys;<br>(b) yn meddu ar hyfforddiant priodol, gan gynnwys ym maes cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ac unigolion ag anawsterau cyfathrebu, gan barhau i dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol a gwella safonau;<br>(c) yn meddu ar wybodaeth berthnasol am ADY y plentyn neu'r person ifanc;<br>(d) yn cadw cofnodion cyfrinachol;<br>(e) nad ydynt wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant (yn achos eiriolwyr plant) neu gydag oedolion (yn achos eiriolwyr pobl ifanc y credir eu bod yn "wynebu risg"). Os nad oes gan y darparwyr eiriolaeth y wybodaeth hon, **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y darparwyr yn gwneud cais am ddatgeliad manylach a gwiriad o restr y rhai sydd wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn symud ymlaen. | Hyfforddiant | Isel neu ganolig<br><br>Dylai costau hyfforddi eiriolwyr fod yn gymharol isel. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer y system ADY a bydd yn darparu deunydd hyfforddiant am ddim ar-lein.<br><br>Efallai y bydd yn cymryd peth amser i hyfforddi pawb, ond o ystyried y niferoedd bach dan sylw, dylai'r gost fod yn isel. |

## 8. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft rhwng mis 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn ystyried sylwadau a gwneud gwelliannau cyn ei osod gerbron Senedd Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i anelu at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau yn y trydydd sector ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnwyd 65 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymdrin â phum thema:

1. Y Cod ADY drafft;
2. Rheoliadau drafft ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru;
3. Rheoliadau drafft ar gyfer Cydlynwyr ADY;
4. Plant sy'n derbyn gofal;
5. Effaith y cynigion.

Ymatebodd cyfanswm o 644 o bobl i'r prif ymgynghoriad. Mae adroddiad cryno ar gael yma.

Roedd y prif themâu a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- nifer mawr yn gofyn am i lawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft gael eu troi'n enghreifftiau o “rhaid”;
- pryder am arddull yr iaith a ddefnyddir yn y Cod ADY drafft;
- materion o ran darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu;
- ceisiadau am ganllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodir mewn canllawiau statudol eraill;
- pryderon y byddai'r system ADY newydd yn cael effaith ariannol fawr;
- ceisiadau i ddatblygu system electronig i gefnogi proses y CDU;
- gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft.

Ceir crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Cod ADY yn dilyn yr ymgynghoriad yn y tabl ar dudalen 14 o'r Memorandwm Esboniadol.

## 9. Asesu'r Gystadleuaeth

Ni fydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn effeithio ar fusnesau nac elusennau

na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo'r gystadleuaeth.

Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Ddeddf gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr presennol. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth gael eu hysgwyddo gan gyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn.

Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

Caiff y broses o gyflwyno'r system ADY newydd fesul cam ei monitro a'i gwerthuso gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses o'i rhoi ar waith ac ar ôl hynny. Yn ystod y broses o'i rhoi ar waith, bydd prif ffocws y gwaith ar gadarnhau i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Ddeddf ac ar ystyried effeithiau cychwynnol y Ddeddf drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredol o'r Ddeddf ymhen pum mlynedd; bydd hwn yn cynnwys astudiaeth llinell sylfaen o'r system bresennol er mwyn llywio'r gwaith o werthuso effaith y Ddeddf yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr astudiaeth llinell sylfaen gan Arad Research ym mis Chwefror 2019. Bydd yr adolygiad ôl-weithredol yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau'r Ddeddf i bobl ifanc a rhieni.

Mae adran 89 o'r Ddeddf ADY yn amlinellu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yng Nghymru a chyhoeddi adroddiad ar y canlyniad o fewn pum mlynedd i'r system newydd ddod i rym.

Yn y cyfamser, mae dyletswydd barhaus ar awdurdodau lleol o dan adran 63 o'r Ddeddf i adolygu'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd yn ddigonol ac yn briodol, mae'r Cod ADY yn nodi'r disgwyliadau ar y SACDA i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data cadarn i fesur ei gydymffurfiaeth â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Dylai hefyd fesur effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau ansawdd ei weithgareddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Mae hyn yn gwrthbwyso dyletswyddau tebyg ar awdurdodau lleol i sicrhau bod DDdY sy'n ymwneud ag iechyd a'r system ADY ei hun yn cael eu hadolygu'n barhaus, gan roi cyfle i wella systemau mewnol lle y bo angen.

# SL(5)775 – Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018"), sy'n ymwneud ag apelau anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"), sy'n ymwneud â hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn cysylltiad â disgyblion ysgol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 10(1)(b), ymddengys y dylai'r geiriau "yr hysbysiad o" ymddangos yn y geiriad cyn yr is-baragraffau (yn hytrach nag ar ddechrau is-baragraff (i)) gan ei fod yn berthnasol i'r *ddau* is-baragraff, yn hytrach nag is-baragraff (i) yn unig.

Byddai paragraff (1) yn darllen fel a ganlyn:

> *(1) O ran apêl i'r Tribiwnlys—*
>
> *(a) rhaid iddi gael ei gwneud yn ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a*
>
> *(b) rhaid i'r Tribiwnlys ei chael heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod o 8 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad pan roddwyd* ***yr hysbysiad o*** *—*
>
> *(i) benderfyniad yr awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu'r SAB, a*
>
> *(ii) yr hawl i apelio o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.*

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn y fersiwn Saesneg o reoliad 18(8), hepgorwyd y geiriau "so that" cyn y geiriau "the respondent can be represented". Effaith yr hepgoriad yw ei fod yn ei gwneud yn aneglur i'r darllenydd bwrpas gohirio gwrandawiad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn o dan y ddarpariaeth honno (hynny yw, i'r ymatebydd gael ei gynrychioli ar ôl adfer ei hawl i gael ei gynrychioli). Nid yw'r hepgoriad hwn yn digwydd yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r hepgoriad wedi'i ailadrodd yn rheoliad 19(8), sy'n ddarpariaeth weddol debyg.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 55(1) cyfeirir at wneud cais ysgrifenedig i'r "Tribiwnlys Addysg". Ymddengys y dylai hyn gyfeirio at "y Tribiwnlys" gan mai dyna sut y cyfeirir at Dribiwnlys Addysg Cymru drwy weddill y Rheoliadau. Gall unrhyw wyro oddi wrth hyn beri dryswch i'r darllenydd.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 57 yn cyfeirio at y "Llys" ond ni cheir diffiniad o'r term hwn yn unrhyw un o'r Rheoliadau, Deddf 2018 na Deddf 2010. Gall peidio â diffinio'r term arwain at ddryswch ynghylch yr hyn y cyfeirir ato yn rheoliad 57.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Caiff rheoliad 64 ei gynnwys yn y Rheoliadau o dan y pennawd cyffredinol "*Plant nad oes ganddynt alluedd a chyfeillion achos*". Nid yw'n ymddangos bod rheoliad 64 yn gysylltiedig o gwbl â'r pennawd cyffredinol hwn, ond mae'n ymwneud yn hytrach ag argymhellion y Tribiwnlys Addysg i gorff y GIG, o dan adran 76 o Ddeddf 2018 yn ôl pob tebyg (er nad yw hyn yn glir o'r Rheoliadau). Nodir nad yw penawdau mewn Rheoliadau yn cael effaith gyfreithiol ond mae cynnwys rheoliad o dan bennawd nad yw'n gysylltiedig yn debygol o achosi dryswch i'r darllenydd ac nid yw'n hyrwyddo hygyrchedd y gyfraith.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn (a ddaw i rym ar 1 Medi 2021) yn cynnwys cyfeiriadau at ddarpariaethau yn Neddf 2018 nad ydynt wedi'u cychwyn eto. Yn benodol, cyfeirir at adrannau 13, 14, 18, 19, 23, 24, 68, 70, 71, 72, 73, 79, 81, 84 ac 85.

O'r herwydd, bydd angen dwyn darpariaethau perthnasol Deddf 2018 i rym erbyn 1 Medi 2021 yn unol â Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 100(3) o Ddeddf 2018 er mwyn i ddarpariaethau perthnasol y Rheoliadau hyn weithredu'n effeithiol.

Mae paragraff 3.7 o’r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau:

> *“Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021.”*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol:**

1. Rhoddir yr hawliau apelio sy’n ymwneud â materion ADY i blant, i’w rhieni ac i bobl ifanc gan y Ddeddf. Yr hysbysiad o benderfyniad sy’n dechrau’r amserlen ar gyfer dwyn yr apêl yn rheoliad 10. Pe bai’r ffordd arall o ddrafftio a awgrymwyd yn cael ei derbyn, ystyrir y byddai hyn y bwrw amheuaeth ar y sefyllfa.

2. Rydym yn deall pam y codwyd y mater mewn perthynas â rheoliad 18(8). Fodd bynnag, mewn perthynas â’r testun Saesneg, nid ydym yn cytuno bod yr hepgoriad yn cuddio diben gohirio’r gwrandawiad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn. Mae’n glir bod gohirio’r gwrandawiad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn (fel y bo’n briodol) yn gorfod bod yn angenrheidiol. Mae’n glir y caniateir i’r ymatebydd o dan yr amgylchiadau gael ei gynrychioli oherwydd bod caniatâd wedi ei roi. Felly, mae’n glir o dan yr amgylchiadau y gallai’r gwrandawiad gael ei ohirio cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn er mwyn i’r ymatebydd gael ei gynrychioli. Nid yw’r testun Cymraeg yn cynnwys yr hepgoriad a gall y testun hwnnw gael ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddehongli’r testun Saesneg. Fodd bynnag, os bydd cyfle yn nes ymlaen i ailedrych ar y gwaith drafftio ac i ddiwygio’r testun er eglurder, byddwn yn ystyried gwneud hyn.

3. Mae’r cyfeiriad at “Tribiwnlys Addysg Cymru” yn rheoliad 55(1) wedi ei osod mewn cromfachau ac yn gyfeiriad yn unig at enw adran 81 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg 2018 y cyfeirir ati yn rheoliad 55(1). “Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i’r Uwch Dribiwnlys” yw enw adran 81. Nid yw’r cyfeiriad at “Tribiwnlys Addysg” yn nes ymlaen yn rheoliad 55(1), er nad yw’n gyson â’r ffordd y cyfeiriwyd at y tribiwnlys hwnnw yng ngweddill yr offeryn, yn achosi unrhyw amheuaeth o ran ei ystyr serch hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, ac ar y sail honno, ystyrir nad yw defnyddio’r term hwn yn amhriodol ac fe’i deellir yn hawdd.

4. Bydd unrhyw apelau o’r Uwch Dribiwnlys yn cael eu clywed gan y llys apeliadol perthnasol, sef y Llys Apêl neu’r Goruchaf Lys. Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007, sy’n cael ei henwi yn y diffiniad o Uwch Dribiwnlys yn y Rheoliadau, yw’r ddeddfwriaeth sy’n ymdrin â hyn. Mae’r cyfeiriad at “Llys” yn cydnabod y sefyllfa honno. Mae’r geiriad yn rheoliad 57 yn atgynhyrchu’r gwaith drafftio presennol yn rheoliad 60 o Reoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 sy’n ymdrin ar hyn o bryd â’r gweithdrefnau tribiwnlys sy’n ymwneud â’r system anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996. Nid ydym

wedi cael ein hysbysu yn ystod y broses ymgynghori nac ar unrhyw adeg arall fod y ddarpariaeth hon yn aneglur.

5. Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am nodi'r pwynt hwn, ac rydym yn ceisio unioni'r mater drwy slip cywiro, er nad ydym yn credu ei fod yn effeithio ar weithredu'r ddeddfwriaeth.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

Cafwyd esboniad o safbwynt y Llywodraeth o ran cychwyn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pecyn deddfwriaeth ADY yn y Memorandwm Esboniadol fel y'i nodir ac fel y'i henwir yn yr adroddiad. Nid ofynnir am unrhyw ymateb pellach mewn perthynas â'r cychwyn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Mawrth 2021**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2021 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n ymwneud ag apelau anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ymwneud â hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn cysylltiad â disgyblion ysgol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2021 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* *1 Medi 2021*

CYNNWYS


1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli
3. Cymhwyso
4. Y prif amcan
5. Rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu
6. Dulliau eraill o ddatrys anghydfod
7. Aelodau'r panel lleyg
8. Sefydlu paneli tribiwnlys
9. Aelodaeth panel tribiwnlys
10. Y cyfnod y mae rhaid i achos gael ei gychwyn ynddo
11. Cais apelio
12. Cais hawlio
13. Camau gweithredu gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys
14. Apêl neu hawliad a wneir y tu allan i'r amser
15. Digonolrwydd rhesymau
16. Cynrychiolwyr yr apelydd neu'r hawlydd
17. Cyfnodau'r datganiad achos
18. Datganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd

19. Datganiad achos a thystiolaeth yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb
20. Newid cynrychiolydd corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb
21. Newid yr awdurdod lleol mewn apêl
22. Copïau o ddogfennau i'r partïon
23. Methiant i gyflwyno datganiad achos ac absenoldeb gwrthwynebiad

*Ymholiadau'r Tribiwnlys*

24. Ymholiadau gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys
25. Methiant i ymateb i ymholiadau a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys
26. Pŵer i ddileu'r apêl neu'r hawliad
27. Gorchymyn i ddiwygio datganiad achos
28. Tystiolaeth a chyflwyniadau
29. Rheoli'r achos a chyfarwyddydau
30. Amrywio cyfarwyddydau neu eu gosod o'r neilltu
31. Manylion a datganiadau atodol
32. Datgelu dogfennau a deunydd arall
33. Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau
34. Cydgrynhoi apelau neu hawliadau
35. Cydgrynhoi hawliadau gydag apelau
36. Ychwanegu ac amnewid partïon
37. Hysbysu am ddyddiad, lleoliad ac amser gwrandawiadau
38. Trosglwyddiadau
39. Pŵer i benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawiad
40. Gwrandawiadau cyhoeddus a phreifat: trefniadau ac eithriadau
41. Gorchmynion sy'n cyfyngu ar adrodd
42. Y weithdrefn mewn gwrandawiad
43. Tystiolaeth mewn gwrandawiad
44. Newid tyst
45. Gwysio tyst
46. Tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy ddulliau eraill

47. Tystiolaeth ysgrifenedig sy’n hwyr
48. Gohirio gwrandawiad cyn ei gychwyn
49. Gohiriadau ar ôl cychwyn a chyfarwyddydau
50. Cynrychiolaeth mewn gwrandawiad
51. Methiant i fod yn bresennol mewn gwrandawiad
52. Penderfyniad y panel tribiwnlys

*Ar ôl y gwrandawiad*

53. Cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys
54. Adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio ag estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cychwyn achos
55. Cais am ganiatâd i apelio i’r Uwch Dribiwnlys
56. Pŵer i atal dros dro benderfyniad y Tribiwnlys
57. Gorchmynion yr Uwch Dribiwnlys neu’r Llys
58. Cydymffurfio â gorchmynion y panel tribiwnlys – apelau

*Plant nad oes ganddynt alluedd a chyfeillion achos*

59. Ceisiadau o dan adran 70(3) o Ddeddf 2018 am ddatganiad o dan adran 71(2) o Ddeddf 2018 sy’n ymwneud â galluedd plentyn i ddeall
60. Pwy a gaiff fod yn gyfaill achos
61. Sut y daw person yn gyfaill achos
62. Camau mewn achosion
63. Diswyddo cyfaill achos
64. Cyrff GIG – Adroddiadau i’r Tribiwnlys

*Amrywiol*

65. Estyn yr amser
66. Tynnu’n ôl
67. Gorchmynion ar gyfer costau a threuliau
68. Pŵer i arfer swyddogaethau’r Llywydd a’r Cadeirydd
69. Pŵer i arfer swyddogaethau aelod o’r panel mewn perthynas ag adolygiad
70. Ysgrifennydd y Tribiwnlys
71. Y Gofrestr
72. Cyhoeddi
73. Afreoleidd-dra

74. Profi dogfennau ac ardystio penderfyniadau
75. Y dull o anfon, rhoi neu gyflwyno hysbysiadau a dogfennau
76. Cyfrifo amser
77. Llofnodi dogfennau

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), a chan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**2**) a pharagraffau 6(1), (2) i (5) a (7) a 6A o Atodlen 17 iddi.

Yn unol ag adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**3**), ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "apêl" ("*appeal*") yw—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (b), apêl i'r Tribiwnlys o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol neu gorff llywodraethu SAB;

(b) yn rheoliadau 55 i 57, apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad y panel tribiwnlys;

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw person a chanddo hawlogaeth i apelio i'r Tribiwnlys o dan Ran 2 o Ddeddf 2018;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod ac eithrio'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir;

(**1**) 2018 dccc 2; gweler adran 99(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

(**2**) 2010 p. 15; gweler adran 212(1) am y diffiniad o "prescribed". Diwygiwyd Deddf 2010, gan gynnwys amnewid paragraff 6A yn Atodlen 17 iddi, gan baragraff 19 o Atodlen 1 i Ddeddf 2018.

(**3**) Mae'r cyfeiriadau yn adran 98(3) o Ddeddf 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf 2010 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w darllen bellach fel pe baent yn gyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru a wnaeth y penderfyniad a herir;

ystyr “Cadeirydd” (“*Chair*”) yw’r Llywydd neu berson a benodir o dan adran 91(4) o Ddeddf 2018 i’r panel o bersonau a gaiff wasanaethu fel cadeirydd cyfreithiol y Tribiwnlys;

ystyr “clerc i’r panel tribiwnlys” (“*clerk to the tribunal panel*”) yw’r person a benodir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys i weithredu fel clerc mewn un neu ragor o wrandawiadau;

ystyr “Cofrestr” (“*Register*”) yw’r gofrestr y mae’n ofynnol ei chadw o dan reoliad 71;

mae i “corff cyfrifol” yr ystyr a roddir i “responsible body” gan adran 85(9) o Ddeddf 2010;

ystyr “corff llywodraethu SAB” (“*FEI governing body*”) yw corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru a wnaeth y penderfyniad a herir ac mae iddo’r ystyr a roddir gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) fel y cyfeirir ati yn adran 99 o Ddeddf 2018;

ystyr “cyfaill achos” (“*case friend*”) yw person a benodir gan y Tribiwnlys yn unol ag adran 85 o Ddeddf 2018 a rheoliadau 60 i 62, i arfer hawl y plentyn i wneud apêl neu hawliad ar ran y plentyn;

ystyr “cyfeiriad e-bost” (“*e-mail address*”) yw cyfeiriad post electronig person;

ystyr “cyfnod datganiad achos” (“*case statement period*”) yw’r cyfnod a bennir yn rheoliad 17;

ystyr “datganiad achos” (“*case statement*”) yw’r datganiad achos a gyflwynir yn unol â rheoliad 18 neu 19;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(**2**);

ystyr “Deddf 2010” (“*the 2010 Act*”) yw Deddf Cydraddoldeb 2010;

ystyr “Deddf 2018” (“*the 2018 Act*”) yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio—

(a) dydd Sadwrn,

(b) dydd Sul,

(c) unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynwysedig,

(d) dydd Gwener y Groglith,

(e) y dydd Llun cyntaf ym mis Mai,

---

(**1**) 1992 p. 13.
(**2**) 1996 p. 56.

(f) unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, neu

(g) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**);

ystyr "dogfen" ("*document*") yw unrhyw beth y cofnodir gwybodaeth o unrhyw ddisgrifiad ynddo;

ystyr "gwrandawiad" ("*hearing*") yw gwrandawiad gerbron y Llywydd, Cadeirydd neu'r panel tribiwnlys at ddiben galluogi'r Llywydd, Cadeirydd neu'r panel tribiwnlys i wneud penderfyniad ar apêl, hawliad, cais neu unrhyw gwestiwn neu fater y mae hawlogaeth gan y partïon i fod yn bresennol a chael eu clywed ynddo, ac mae'n cynnwys gwrandawiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyswllt fideo, ar y ffôn neu drwy ddull arall o gyfathrebu electronig dwyffordd disymwth;

ystyr "gwŷs tyst" ("*witness summons*") yw dogfen a ddyroddir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys sy'n ei gwneud yn ofynnol i dyst fod yn bresennol mewn gwrandawiad o apêl neu hawliad, i roi tystiolaeth, neu ddangos dogfennau, mewn perthynas ag apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys;

ystyr "hawliad" ("*claim*") yw hawliad ar gyfer gwahaniaethu ar sail anabledd o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ac Atodlen 17 iddi;

ystyr "hawlydd" ("*claimant*") yw person a chanddo hawlogaeth i wneud hawliad i'r Tribiwnlys o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ac Atodlen 17 iddi;

mae i "llofnod electronig" yr ystyr a roddir i "electronic signature" gan adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**);

ystyr "panel tribiwnlys" ("*tribunal panel*") yw panel o'r Tribiwnlys a gaiff benderfynu apêl neu hawliad neu unrhyw gwestiwn neu fater mewn perthynas ag apêl neu hawliad;

ystyr "parti" ("*party*") yw—

(a) mewn apêl, yr apelydd, yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB, a

(b) mewn hawliad, yr hawlydd neu'r corff cyfrifol;

ystyr "penderfyniad a herir" ("*disputed decision*") yw'r penderfyniad neu'r weithred, neu'r methiant i benderfynu neu weithredu, y dygir yr apêl neu'r hawliad mewn cysylltiad ag ef neu hi;

ystyr "person ifanc" ("*young person*") yw—

(a) mewn apêl, person sy'n destun yr apêl neu'r hawliad, a

---

(**1**) 1971 p. 80.
(**2**) 2000 p. 7.

(b) mewn hawliad, person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac sy'n destun yr hawliad;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person sy'n destun yr apêl neu'r hawliad;

mae i "rhiant" yr ystyr a roddir i "parent" gan adran 576 o Ddeddf 1996;

mae "sylwadau llafar" ("*oral representations*") yn cynnwys tystiolaeth a roddir, oherwydd amhariad ar leferydd neu glyw, gan berson sy'n defnyddio iaith arwyddion;

ystyr "sylwedydd" ("*observer*") yw person a gaiff fod yn bresennol mewn gwrandawiad at ddiben arsylwi ar y gwrandawiad, ond ni chaniateir iddo gymryd rhan yn y gwrandawiad, na gwneud unrhyw nodiadau o'r gwrandawiad, na gwneud unrhyw recordiad o'r gwrandawiad drwy ddull clyweledol neu drwy unrhyw ddull arall;

ystyr "Tribiwnlys Haen Gyntaf" ("*First-tier Tribunal*") yw'r tribiwnlys a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**1**), sydd ag awdurdodaeth yn Lloegr dros apelau a hawliadau;

mae "tystiolaeth" ("*evidence*") yn cynnwys deunydd o unrhyw ddisgrifiad a gofnodir ar unrhyw ffurf;

ystyr "Uwch Dribiwnlys" ("*Upper Tribunal*") yw'r tribiwnlys apeliadol a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007;

ystyr "Ysgrifennydd y Tribiwnlys" ("*Secretary of the Tribunal*") yw'r person sydd am y tro yn gweithredu fel Ysgrifennydd swyddfa'r Tribiwnlys.

(2) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Neddf 2018 yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf honno, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i apêl neu hawliad a gofnodir yn y Gofrestr ar neu ar ôl 1 Medi 2021.

**Y prif amcan**

**4.**—(1) Prif amcan y Rheoliadau hyn yw galluogi'r Llywydd, a'r panel tribiwnlys, i ymdrin ag apelau a hawliadau yn deg ac yn gyfiawn.

(2) Mae ymdrin ag achos yn deg ac yn gyfiawn yn cynnwys—

(**1**) 2007 p. 15.

(a) ymdrin â'r apêl neu'r hawliad mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos a chymhlethdod y materion,

(b) osgoi, i'r graddau y bo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried eu bod yn briodol, ffurfioldeb diangen yn yr achosion o dan y Rheoliadau hyn,

(c) sicrhau, i'r graddau y bo'n ymarferol, y trinnir y partïon yn gyfartal o ran trefniadaeth ac y gallant gymryd rhan lawn yn yr achos, gan gynnwys hwyluso unrhyw barti i gyflwyno unrhyw apêl neu hawliad, ond heb argymell pa drywydd y dylai'r parti hwnnw ei ddilyn,

(d) defnyddio arbenigedd neilltuol y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn effeithiol, ac

(e) osgoi oedi, i'r graddau y mae hynny'n gyson â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion.

(3) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys geisio rhoi effaith i brif amcan y Rheoliadau hyn pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o dan y Rheoliadau hyn—

(a) yn arfer unrhyw swyddogaeth, neu

(b) yn dehongli unrhyw reoliad.

(4) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys fynd ati'n weithredol i reoli apelau a hawliadau yn unol â phrif amcan y Rheoliadau hyn.

**Rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu**

**5.**—(1) Rhaid i'r partïon—

(a) cydweithredu â'i gilydd at ddibenion symud yr apêl yn ei blaen neu'r hawliad yn ei flaen,

(b) cydweithredu wrth gyfnewid dogfennau neu wybodaeth â'i gilydd, er mwyn galluogi pob parti i lunio datganiad achos,

(c) cynorthwyo'r Llywydd, neu'r panel tribiwnlys, i hyrwyddo prif amcan y Rheoliadau hyn, a

(d) cydweithredu â'r Llywydd a'r panel tribiwnlys yn gyffredinol.

(2) Caiff y Llywydd, neu'r panel tribiwnlys, ddod i unrhyw gasgliadau anffafriol y maent yn meddwl eu bod yn addas o fethiant parti i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r rhwymedigaethau a bennir ym mharagraff (1).

(3) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi dod i gasgliad anffafriol o dan baragraff (2), caiff gyfarwyddo Ysgrifennydd y Tribiwnlys i gyflwyno hysbysiad i'r parti diffygiol ei fod yn bwriadu gwneud gorchymyn i ddileu—

(a) yr apêl, pan yr apelydd yw'r parti diffygiol,

(b) yr hawliad, pan yr hawlydd yw'r parti diffygiol, neu

(c) y datganiad achos a'r dystiolaeth ysgrifenedig, pan yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yw'r parti diffygiol.

(4) Rhaid i'r hysbysiad ym mharagraff (3) wahodd sylwadau, a rhaid i'r Llywydd, neu'r panel tribiwnlys, ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti diffygiol y caiff y parti hwnnw, o fewn cyfnod (heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar, a

(b) bydd sylwadau wedi eu cyflwyno—

(i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod penodedig, a

(ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(6) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y parti diffygiol, orchymyn bod achos y parti hwnnw yn cael ei ddileu.

**Dulliau eraill o ddatrys anghydfod**

**6.**—(1) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, pan fo'n briodol, dynnu sylw'r partïon at unrhyw weithdrefn arall sydd ar gael i ddatrys yr anghydfod.

(2) Os yw'r partïon yn dymuno defnyddio'r weithdrefn arall i ddatrys yr anghydfod, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar yr amod bod hynny'n gyson â phrif amcan y Rheoliadau hyn, ohirio ystyriaeth o'r apêl neu'r hawliad.

**Aelodau'r panel lleyg**

**7.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni nad yw personau a benodir yn aelodau o'r panel lleyg yn gymwys i'w penodi'n Gadeirydd.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod gan ddigon o aelodau'r panel wybodaeth gyfredol a phrofiad cyfredol o blant, ac o bobl ifanc, sydd ag—

(a) anghenion dysgu ychwanegol,

(b) anableddau, neu

(c) os yw'n ofynnol, y ddau.

**Sefydlu paneli tribiwnlys**

**8.**—(1) Mae awdurdodaeth y Tribiwnlys i'w harfer gan y nifer hwnnw o baneli tribiwnlys y mae'r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd.

(2) Mae'r paneli tribiwnlys sy'n arfer yr awdurdodaeth a roddir iddynt yn unol â pharagraff (1) i eistedd ar yr adegau hynny ac yn y mannau hynny y mae'r Llywydd yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

**Aelodaeth panel tribiwnlys**

**9.**—(1) Rhaid i banel tribiwnlys gael Cadeirydd ynghyd â naill ai un neu ddau aelod o'r panel lleyg.

(2) Ar gyfer pob gwrandawiad—

(a) rhaid i'r Cadeirydd fod naill ai'r Llywydd neu'n berson a ddewisir gan y Llywydd o'r panel cadeirydd cyfreithiol, a

(b) rhaid i'r aelod arall neu'r aelodau eraill fod yn bersonau a ddewisir gan y Llywydd o'r panel lleyg.

(3) Pan fo'r panel wedi ei gyfansoddi o un Cadeirydd ac un aelod o'r panel lleyg, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw os bydd aelodau'r panel yn anghytuno â'i gilydd.

**Y cyfnod y mae rhaid i achos gael ei gychwyn ynddo**

**10.**—(1) O ran apêl i'r Tribiwnlys—

(a) rhaid iddi gael ei gwneud yn ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a

(b) rhaid i'r Tribiwnlys ei chael heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod o 8 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad pan roddwyd—

(i) yr hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu'r SAB, a

(ii) yr hawl i apelio o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.

(2) Mewn perthynas ag apêl neu apêl arfaethedig, os cyfeirir yr anghydfod dan sylw ar gyfer datrys anghydfodau o dan adran 68 o Ddeddf 2018 cyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (1)(b), estynnir am 8 wythnos y cyfnod a ganiateir gan y paragraff hwnnw.

(3) O ran hawliad i'r Tribiwnlys—

(a) rhaid iddo gael ei wneud yn ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a

(b) rhaid i'r Tribiwnlys ei gael heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl

diwedd y cyfnod a ddatgenir ym mharagraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010(**1**).

(4) Mewn perthynas â hawliad neu hawliad arfaethedig, os cyfeirir yr anghydfod dan sylw ar gyfer datrys anghydfodau o dan baragraff 6C o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 cyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (3)(b), estynnir y cyfnod a ganiateir gan y paragraff hwnnw yn unol â pharagraff 4(2A) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 14, ni chaiff y Tribiwnlys ystyried—

(a) cais apelio, oni chychwynnir achos yn unol â pharagraff (1);

(b) cais hawlio, oni chychwynnir achos yn unol â pharagraff (3).

**Cais apelio**

**11.**—(1) Rhaid i'r cais apelio ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud yr apêl ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw,

(b) enw a dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc,

(c) os yw'n berthnasol, y berthynas neu'r cysylltiad rhwng y person sy'n gwneud yr apêl a'r plentyn neu'r person ifanc,

(d) enw a chyfeiriad pob person—

(i) y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu

(ii) sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu

(iii) sy'n gofalu am y plentyn,

neu'r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau'r personau hynny,

(e) enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos ar gyfer y person sy'n gwneud yr apêl ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos,

(f) cyfeiriad ac, os oes un ar gael, cyfeiriad e-bost, lle y dylid anfon hysbysiadau a dogfennau ar gyfer y person sy'n gwneud yr apêl,

(g) enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB a wnaeth y penderfyniad a herir,

---

(**1**) Mae paragraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pennu'r cyfnod y mae rhaid gwneud hawliad i'r Tribiwnlys ynddo.

(h) y dyddiad pan gafodd y person sy'n gwneud yr apêl gadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad a herir,

(i) y rheswm neu'r rhesymau dros wneud yr apêl,

(j) y canlyniad a geisir,

(k) y camau, os oes rhai, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod, ac

(l) unrhyw ofynion a dymuniadau cyfathrebu y plentyn neu'r person ifanc.

(2) Os yw'r person sy'n gwneud yr apêl yn ceisio gorchymyn—

(a) bod cynllun datblygu unigol yn cael ei ddiwygio, rhaid i'r cais apelio bennu pa adran neu adrannau o'r cynllun datblygu unigol y mae'r apêl yn ymwneud â hi neu â hwy, a

(b) ar gyfer lleoliad mewn ysgol neu sefydliad arall, rhaid i'r cais apelio ddatgan enw a chyfeiriad yr ysgol neu'r sefydliad arall.

(3) Caniateir cyflwyno'r canlynol gyda'r cais apelio—

(a) copi o'r penderfyniad a herir,

(b) pan fo'r apêl yn cael ei gwneud o dan adran 70 neu 72 o Ddeddf 2018, copi o gynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennaeth sydd wedi ei hatodi i'r cynllun datblygu unigol neu sy'n ffurfio rhan ohono ac, os yw ar gael, copi o'r adolygiad diweddaraf o dan adran 23 neu 24 o Ddeddf 2018, ac

(c) y datganiad achos yn unol â rheoliadau 17 a 18.

(4) Rhaid cyflwyno'r canlynol gyda'r cais apelio—

(a) cadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi hysbysu'r personau, os oes rhai, a enwir yn unol â pharagraff (1)(d) fod y person yn bwriadu gwneud apêl i'r Tribiwnlys, neu gadarnhad ysgrifenedig sy'n esbonio pam nad yw'r person sy'n gwneud yr hawliad wedi hysbysu'r personau hynny,

(b) pan fo'r cais apelio yn datgan enw ysgol neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn sefydliad arall yn unol â pharagraff (2)(b), gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi rhoi gwybod i bennaeth yr ysgol, neu i gorff llywodraethu neu berchennog y sefydliad arall, fod y person yn bwriadu gofyn i'r ysgol neu i'r sefydliad arall gael ei henwi neu ei enwi yn y cynllun datblygu unigol, ac

(c) pan fo'r cais apelio, o dan baragraff (2)(b), yn datgan enw—

(i) ysgol a gynhelir, gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy’n gwneud yr apêl wedi rhoi gwybod i’r awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol, a all fod yr awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir neu awdurdod lleol gwahanol, fod y person yn bwriadu gofyn i’r ysgol a gynhelir gael ei henwi yn y cynllun datblygu unigol;

(ii) ysgol annibynnol, gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy’n gwneud yr apêl wedi rhoi gwybod i berchennog yr ysgol fod y person yn bwriadu gofyn i’r ysgol annibynnol gael ei henwi yn y cynllun datblygu unigol;

(iii) ysgol annibynnol, gadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol fod lle ar gael yn yr ysgol i’r plentyn;

(iv) unrhyw sefydliad arall, gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy’n gwneud yr apêl wedi cadarnhau pa un a oes darpariaeth addas ar gael yn y sefydliad ai peidio.

(5) Rhaid i’r cais apelio gael ei lofnodi gan y person sy’n gwneud yr apêl, neu gan unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos ar ran y person hwnnw.

(6) Yn unol â rheoliad 35, caiff y cais apelio gynnwys archiad i’r apêl gael ei gwrando ar y cyd â hawliad yn erbyn corff cyfrifol.

**Cais hawlio**

**12.**—(1) Rhaid i’r cais hawlio ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y person sy’n gwneud yr hawliad ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw,

(b) enw a dyddiad geni’r plentyn neu’r person ifanc,

(c) os yw’n berthnasol, y berthynas neu’r cysylltiad rhwng y person sy’n gwneud yr hawliad a’r plentyn,

(d) enwau a chyfeiriadau pob person y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant neu sy’n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy’n gofalu am y plentyn, neu’r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau’r personau hynny,

(e) enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos a benodir gan y person sy’n gwneud yr hawliad ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd neu’r cyfaill achos,

(f) cyfeiriad ac, os oes un ar gael, cyfeiriad e-bost, lle y dylid anfon hysbysiadau a

dogfennau ar gyfer y person sy'n gwneud yr hawliad,

(g) enw a chyfeiriad—

(i) yr ysgol neu'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir, neu

(ii) yr awdurdod ar gyfer yr ysgol a enwir o dan baragraff (1)(g)(i) os yw'r ysgol honno yn ysgol a gynhelir,

(h) manylion y penderfyniad a herir y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef,

(i) y dyddiad neu'r dyddiadau y digwyddodd y penderfyniad a herir arno neu arnynt,

(j) y rheswm neu'r rhesymau dros wneud yr hawliad,

(k) y canlyniad a geisir, ac

(l) y camau, os oes rhai, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod.

(2) Rhaid i'r cais hawlio gynnwys disgrifiad o anabledd y disgybl ysgol.

(3) Rhaid i'r cais hawlio gynnwys disgrifiad o unrhyw ofynion a dymuniadau cyfathrebu y plentyn neu'r person ifanc.

(4) Os yw ar gael, dylid cyflwyno gyda'r cais hawlio dystiolaeth o ddiagnosis meddygol neu ddiagnosis proffesiynol arall mewn perthynas ag anabledd y disgybl.

(5) Rhaid cyflwyno gyda'r cais hawlio gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr hawliad wedi hysbysu'r personau, os oes rhai, a enwir yn unol â pharagraff (1)(d), fod y person wedi gwneud hawliad i'r Tribiwnlys, neu gadarnhad ysgrifenedig sy'n esbonio pam nad yw'r person sy'n gwneud yr hawliad wedi hysbysu'r personau hynny.

(6) Rhaid i'r cais hawlio gael ei lofnodi gan y person sy'n gwneud yr hawliad neu gan unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos ar ran y person hwnnw.

(7) Yn unol â rheoliad 35, caiff y cais hawlio gynnwys archiad i'r hawliad gael ei wrando ar y cyd ag apêl yn erbyn awdurdod lleol.

**Camau gweithredu gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**13.**—(1) Ar ôl cael y cais apelio neu'r cais hawlio, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—

(a) cofnodi ei fanylion yn y Gofrestr, a

(b) anfon at yr apelydd neu'r hawlydd—

(i) cydnabyddiaeth o gael y cais a nodyn o rif yr achos a gofnodwyd yn y Gofrestr,

(ii) nodyn o’r cyfeiriad y dylid anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau iddo ar gyfer y Tribiwnlys,

(iii) hysbysiad y gellir cael cyngor ynghylch y weithdrefn apelio neu’r weithdrefn hawlio o swyddfa’r Tribiwnlys,

(iv) hysbysiad bod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol i blant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt,

(v) datganiad o’r canlyniadau posibl i’r apêl neu’r hawliad os yw parti yn methu â chydymffurfio â rheoliad 5 (rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu), a

(vi) hysbysiad y caiff partïon gyflwyno datganiadau tyst ysgrifenedig a galw tystion yn unol â rheoliad 43.

(2) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon i gorff llywodraethu’r SAB, yr awdurdod lleol neu’r corff cyfrifol, yn ôl y digwydd—

(a) copi o’r cais apelio neu’r cais hawlio ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig,

(b) nodyn o’r cyfeiriad y dylid anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau iddo ar gyfer y Tribiwnlys,

(c) pan yw datganiad achos yn ddogfen gysylltiedig o dan is-baragraff (a), neu pan geir ar wahân, hysbysiad sy’n datgan yr amser ar gyfer cyflwyno datganiad achos corff llywodraethu’r SAB, yr awdurdod lleol neu’r corff cyfrifol a thystiolaeth o dan reoliad 19, a’r canlyniadau os na wneir hynny,

(d) datganiad o’r canlyniadau posibl i’r apêl neu’r hawliad os yw parti yn methu â chydymffurfio â rheoliad 5 (rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu), ac

(e) hysbysiad y caiff partïon gyflwyno datganiadau tyst ysgrifenedig a galw tystion yn unol â rheoliad 43.

(3) Os yw’n angenrheidiol canfod enw’r corff cyfrifol mewn perthynas â hawliad, caiff y Llywydd neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys wneud unrhyw ymholiadau sy’n angenrheidiol at y diben hwn.

(4) Pan fo’n ymddangos i’r Llywydd neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys y gall fod mwy nag un corff cyfrifol mewn perthynas â hawliad, caiff y Tribiwnlys anfon y ddogfennaeth a bennir ym mharagraff (2) i unrhyw un neu ragor neu i bob un o’r cyrff hynny, fel y bo’n briodol.

(5) Pan fo’r Llywydd o’r farn, ar sail y cais apelio neu’r cais hawlio, fod y person sy’n gwneud yr apêl neu’r hawliad yn gofyn i’r Tribiwnlys ystyried mater

sydd y tu allan i'w bwerau, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi hysbysiad i'r person—

(a) sy'n datgan y rhesymau dros y farn honno, a

(b) sy'n rhoi gwybod i'r person na chaniateir i'r cais apelio neu'r cais hawlio gael ei gofnodi yn y Gofrestr oni fydd y person, o fewn amser penodedig (na chaniateir iddo fod yn llai na 5 niwrnod gwaith) yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod y person yn dymuno bwrw ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

(6) Os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys wedi rhoi hysbysiad o dan baragraff (5), mae'r cais apelio neu'r cais hawlio i'w drin fel pe bai wedi ei gael at ddibenion paragraff (1) pan fo'r person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod y person yn dymuno bwrw ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

(7) Pan fo Ysgrifennydd y Tribiwnlys o'r farn bod gwall amlwg yn y cais apelio neu'r cais hawlio, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys gywiro'r gwall hwnnw.

(8) Pan fo gwall wedi ei gywiro yn unol â pharagraff (7), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad am y cywiriad a datgan effaith paragraff (9).

(9) Oni fydd y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Tribiwnlys o fewn 5 niwrnod gwaith i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (8) fod y person yn gwrthwynebu'r cywiriad, rhaid trin y cais apelio neu'r cais hawlio fel y'i cywirwyd fel y cais apelio neu'r cais hawlio at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(10) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau ynghylch yr apêl neu'r hawliad at yr apelydd neu'r hawlydd.

(11) Mae paragraff (10) yn gymwys—

(a) oni fydd yr apelydd neu'r hawlydd yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod rhaid anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau ynghylch yr apêl neu'r hawliad at ei gynrychiolydd yn hytrach nag at yr apelydd neu'r hawlydd;

(b) oni bai bod cyfaill achos wedi ei benodi yn unol ag adran 85 o Ddeddf 2018 a rheoliadau 60 i 62.

(12) Os yw paragraff (11)(a) neu (b) yn gymwys, rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau at yr apelydd neu'r hawlydd, neu at roi hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd, fel pe baent yn gyfeiriadau at anfon dogfennau at y cynrychiolydd neu at y cyfaill achos, neu at roi hysbysiad i'r cynrychiolydd, neu i'r cyfaill achos, yn ôl y digwydd.

**Apêl neu hawliad a wneir y tu allan i'r amser**

**14.**—(1) Caiff y Llywydd ystyried—

(a) unrhyw apêl sydd y tu allan i'r amser os yw'r Llywydd yn ystyried, o dan holl amgylchiadau'r achos, ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny;

(b) unrhyw hawliad sydd y tu allan i'r amser o dan baragraff 4(3) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010.

(2) Caiff y Llywydd geisio gwybodaeth bellach gan y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1).

**Digonolrwydd rhesymau**

**15.**—(1) Os nad yw'r cais apelio neu'r cais hawlio yn cynnwys datganiad o'r rhesymau dros wneud yr apêl neu'r hawliad, neu os na chyflwynir datganiad o'r fath gyda'r cais apelio neu'r cais hawlio, gan gynnwys, mewn perthynas â hawliad, yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 12(1)(i) a (j) a (2) y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol i ymateb i'r apêl neu'r hawliad, rhaid i'r Llywydd gyfarwyddo'r apelydd neu'r hawlydd i anfon manylion o'r rhesymau at Ysgrifennydd y Tribiwnlys o fewn 10 niwrnod gwaith i'r cyfarwyddyd.

(2) Mae rheoliad 33 (methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau) yn gymwys i gyfarwyddyd o dan baragraff (1).

(3) Mae rhesymau a anfonir wrth ymateb i gyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (1) i'w trin fel pe baent yn rhan o'r cais apelio neu'r cais hawlio.

**Cynrychiolwyr yr apelydd neu'r hawlydd**

**16.**—(1) Caiff yr apelydd neu'r hawlydd, yn y cais apelio neu'r cais hawlio neu drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg yn ddiweddarach—

(a) penodi cynrychiolydd;

(b) penodi cynrychiolydd arall i gymryd lle'r cynrychiolydd a benodwyd yn flaenorol ac y diddymir ei benodiad gan y penodiad diweddarach;

(c) datgan nad oes unrhyw berson yn gweithredu fel cynrychiolydd yr apelydd neu'r hawlydd, sy'n diddymu unrhyw benodiad blaenorol.

(2) Pan fo penodiad wedi ei wneud o dan baragraff (1), rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd roi enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y cynrychiolydd.

**Cyfnodau'r datganiad achos**

**17.**—(1) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer apelydd sy'n gwneud apêl yw'r cyfnod o amser perthnasol a nodir yn rheoliad 10 ac mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw o amser a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(2) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer hawlydd yw cyfnod o 8 wythnos sy'n cychwyn ar y dyddiad yr ystyrir bod hysbysiad, a roddir o dan reoliad 13(2)(c), wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11) ac mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(3) Os yw'r Llywydd yn gwneud cyfarwyddyd mewn perthynas ag—

(a) apêl yn unol â rheoliad 15, nid yw'r cyfnod a bennir ym mharagraff (1) yn dechrau, ac ni chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon unrhyw ddogfennau fel sy'n ofynnol gan reoliad 13(2), hyd nes y ceir rhesymau mewn ymateb i'r cyfarwyddyd;

(b) hawliad yn unol â rheoliad 15 neu'n gwneud ymholiadau o dan reoliad 13(3), nid yw'r cyfnod a bennir ym mharagraff (2) yn dechrau, ac ni chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon unrhyw ddogfennau i'r corff cyfrifol fel sy'n ofynnol gan reoliad 13(2), hyd nes y ceir rhesymau mewn ymateb i'r cyfarwyddyd neu y cwblheir yr ymholiadau.

(4) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer awdurdod lleol neu gorff llywodraethu SAB mewn apêl yw—

(a) 4 wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad yr ystyrir bod yr hysbysiad, sy'n gysylltiedig â datganiad achos yr apelydd, wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11), a

(b) mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(5) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer corff cyfrifol yw—

(a) 4 wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad yr ystyrir bod yr hysbysiad, a roddir o dan reoliad 13(2), wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11), a

(b) mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

**Datganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd**

**18.**—(1) Rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, cyn diwedd cyfnod y datganiad achos, yn ôl y digwydd—

(a) datganiad achos, a

(b) yr holl dystiolaeth arall y bwriedir dibynnu arni ac nas cyflwynwyd eisoes.

(2) Rhaid i'r datganiad achos gynnwys—

(a) pan rhiant y plentyn yw'r apelydd neu'r hawlydd—

(i) safbwyntiau'r plentyn ar y materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad, neu

(ii) esboniad pam nad yw'r apelydd neu'r hawlydd wedi canfod safbwyntiau'r plentyn;

(b) pan y plentyn yw'r apelydd neu'r hawlydd—

(i) safbwyntiau rhiant y plentyn ar y materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad, neu

(ii) esboniad pam nad yw'r apelydd neu'r hawlydd wedi canfod safbwyntiau'r rhiant.

(3) Os yw'r Llywydd yn rhoi caniatâd, caiff yr apelydd neu'r hawlydd—

(a) diwygio'r cais apelio neu'r cais hawlio;

(b) cyflwyno datganiad atodol o resymau sy'n cefnogi'r cais apelio neu'r cais hawlio;

(c) diwygio datganiad atodol o resymau sy'n cefnogi'r cais apelio neu'r cais hawlio;

(d) cyflwyno datganiad achos atodol;

(e) diwygio datganiad achos atodol.

(4) Rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd gyflwyno copi i Ysgrifennydd y Tribiwnlys o bob diwygiad a datganiad atodol y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o dan baragraff (3) o fewn y cyfnod o amser a ganiateir.

(5) Os diwygir cais apelio yn unol â pharagraff (3) fel bod yr apelydd yn gwneud apêl o dan adran 70(2)(f) ac (g) o Ddeddf 2018, rhaid i'r apelydd hysbysu pennaeth yr ysgol a gynhelir a enwir yn y cais apelio diwygiedig, gan ddatgan enw a dyddiad geni'r plentyn.

(6) Os na chynhelir yr ysgol y cyfeirir ati ym mharagraff (5) gan yr awdurdod lleol, rhaid i'r apelydd hysbysu'r awdurdod sy'n cynnal yr ysgol.

(7) Pan roddir caniatâd o dan baragraff (3), caiff y Llywydd, os bydd angen, estyn cyfnod y datganiad achos, o dan reoliad 65 neu, os yw wedi dod i ben, ganiatáu unrhyw gyfnod pellach y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn briodol.

(8) Os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb, ar yr adeg y rhoddir caniatâd o dan baragraff (3), wedi colli ei hawlogaeth i fod yn bresennol neu i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad yn unol â rheoliad 23 neu 33, bydd rhoi caniatâd yn adfer hawlogaeth o'r fath ac, os bydd angen, caniateir gohirio'r gwrandawiad cyn ei

gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, fel y bo'n briodol, er mwyn i'r ymatebydd allu cael ei gynrychioli.

### Datganiad achos a thystiolaeth yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb

**19.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb ("yr ymatebydd") gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys cyn diwedd cyfnod y datganiad achos—

(a) copi o'r penderfyniad a herir,

(b) copi o gynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennaeth sydd wedi ei hatodi i'r cynllun neu sy'n ffurfio rhan ohono ac, os yw ar gael, copi o'r adolygiad diweddaraf,

(c) datganiad achos, a

(d) yr holl dystiolaeth arall y bwriedir dibynnu arni ac nas cyflwynwyd eisoes.

(2) Rhaid i ddatganiad achos yr ymatebydd gael ei lofnodi gan berson sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi dogfennau o'r fath ar ran yr ymatebydd, a rhaid iddo ddatgan pa un a yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad ai peidio.

(3) Os yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, rhaid i'w ddatganiad achos ddatgan—

(a) ar ba seiliau y gwrthwynebir yr apêl neu'r hawliad, neu unrhyw ran o'r apêl neu'r hawliad,

(b) enw a chyfeiriad cynrychiolydd yr ymatebydd ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd,

(c) y cyfeiriad lle y dylid anfon neu ddanfon dogfennau ar gyfer yr ymatebydd,

(d) crynodeb o'r ffeithiau ynghylch y penderfyniad a herir,

(e) y rheswm neu'r rhesymau dros y penderfyniad a herir, os nad yw'r rheswm neu'r rhesymau yn gynwysedig yn y penderfyniad, ac

(f) y camau, os oes rhai, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod.

(4) Rhaid i ddatganiad achos yr ymatebydd gynnwys—

(a) safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc ynghylch y materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad, neu

(b) esboniad pam nad yw wedi canfod safbwyntiau'r plentyn.

(5) Caiff yr ymatebydd ddiwygio ei ddatganiad achos, cyflwyno datganiad achos atodol, neu ddiwygio datganiad achos atodol, os rhoddir caniatâd gan y Llywydd.

(6) Rhaid i'r ymatebydd gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gopi o bob diwygiad a datganiad atodol y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o dan baragraff (5) o fewn y cyfnod o amser a ganiateir.

(7) Os rhoddir caniatâd o dan baragraff (5), caiff y Llywydd estyn cyfnod y datganiad achos o dan reoliad 65 neu, os yw wedi dod i ben, ganiatáu unrhyw gyfnod pellach y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn briodol.

(8) Os yw'r apelydd neu'r hawlydd, ar yr adeg y rhoddir caniatâd o dan baragraff (5), wedi colli hawlogaeth i fod yn bresennol neu i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad yn unol â rheoliad 33, bydd rhoi'r caniatâd yn adfer hawlogaeth o'r fath ac, os bydd angen, caniateir gohirio'r gwrandawiad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, fel y bo'n briodol, er mwyn i'r apelydd neu'r hawlydd allu cael ei gynrychioli.

**Newid cynrychiolydd corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb**

**20.**—(1) Caiff corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb ("yr ymatebydd"), ar unrhyw adeg, newid ei gynrychiolydd at ddibenion yr apêl neu'r hawliad drwy hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys am enw a chyfeiriad ei gynrychiolydd newydd ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau i gorff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, neu roi hysbysiad iddo, i'w dehongli fel pe baent yn gyfeiriadau at anfon dogfennau at y cynrychiolydd a enwir yn unol â pharagraff (1) neu reoliad 19(3)(b) neu roi hysbysiad iddo.

**Newid yr awdurdod lleol mewn apêl**

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys at ddibenion apêl os, ar ôl y dyddiad pan wnaeth yr awdurdod lleol y penderfyniad a herir, nad yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol mwyach am y plentyn neu'r person ifanc o fewn ystyr adrannau 13 a 14, neu 18 a 19, o Ddeddf 2018 ("yr hen awdurdod").

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, caiff y Llywydd orchymyn, at holl ddibenion yr apêl ac wrth gael tystiolaeth bod y rheoliad hwn yn gymwys, y rhoddir enw'r awdurdod sy'n gyfrifol am y plentyn o fewn ystyr adran 13 o Ddeddf 2018 ("yr awdurdod newydd") yn lle'r hen awdurdod.

(3) Rhaid rhoi cyfle i'r hen awdurdod, yr awdurdod newydd a'r apelydd i gael eu clywed cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (2).

(4) Pan wneir gorchymyn o dan baragraff (2)—

(a) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r hen awdurdod, yr awdurdod newydd a'r apelydd;

(b) ni fydd yr hen awdurdod yn barti yn yr apêl mwyach;

(c) bydd yr awdurdod newydd yn dod yn barti yn yr apêl;

(d) mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r awdurdod newydd wedi gwneud y penderfyniad a herir;

(e) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copïau i'r awdurdod newydd o'r holl ddogfennau a thystiolaeth ysgrifenedig ynghylch yr apêl a gafodd y Tribiwnlys oddi wrth yr apelydd ac oddi wrth yr hen awdurdod;

(f) mae'r weithdrefn ar gyfer penderfynu'r apêl yn ailddechrau ac mae rheoliad 13 yn gymwys fel pe bai'r dogfennau a'r dystiolaeth ysgrifenedig a anfonwyd yn unol ag is-baragraff (e) yn rhan o'r cais apelio y cyfeirir ato yn rheoliad 13(1).

**Copïau o ddogfennau i'r partïon**

**22.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—

(a) anfon copi i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol o unrhyw ddiwygiad i'r cais apelio neu'r cais hawlio a geir yn ystod cyfnod y datganiad achos;

(b) ar ddiwedd pob cyfnod datganiad achos, anfon copi o ddatganiad achos a thystiolaeth ysgrifenedig y naill barti at y llall;

(c) anfon copïau ar unwaith o unrhyw ddiwygiadau neu ddatganiadau atodol, sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth ysgrifenedig (ac eithrio tystiolaeth ysgrifenedig y ceir copi ohoni yn unol â rheoliad 47 (tystiolaeth ysgrifenedig sy'n hwyr)) neu ddogfennau eraill a geir oddi wrth barti ar ôl diwedd cyfnod y datganiad achos, at y parti arall.

(2) Os cyflwynir cais apelio neu gais hawlio, datganiad achos, diwygiad, datganiad atodol, sylw ysgrifenedig, tystiolaeth ysgrifenedig neu ddogfen arall i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar ôl yr amser a ragnodir gan y Rheoliadau hyn, ni chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r hyn a gyflwynir felly at y

parti arall, onid estynnir y terfyn amser gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(3) Pan fo Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn anfon unrhyw gopïau o ddogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) at barti sydd eisoes wedi rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, mewn ymateb i'r ymholiadau a wneir o dan reoliad 24(a)(i) a (ii), nad yw'r parti yn dymuno bod yn bresennol na chael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ofyn a yw'r parti'n dymuno newid yr ymateb hwnnw ar sail y copïau a gafwyd.

**Methiant i gyflwyno datganiad achos ac absenoldeb gwrthwynebiad**

**23.**—(1) Caiff y panel tribiwnlys benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawiad neu drwy gynnal gwrandawiad—

(a) os na chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys ddatganiad achos gan yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol o fewn cyfnod y datganiad achos;

(b) os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yn datgan yn ysgrifenedig nad yw'n gwrthwynebu—

(i) yr apêl, neu

(ii) yr hawliad;

(c) os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl i—

(i) yr apêl, neu

(ii) yr hawliad.

(2) Pan fo'r panel tribiwnlys yn penderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawiad, rhaid iddo wneud hynny ar sail y cais apelio neu'r cais hawlio ac unrhyw ddogfennaeth arall a gafwyd neu a ddiwygiwyd eisoes yn unol â rheoliad 18(3).

(3) Os yw'r panel tribiwnlys yn penderfynu cynnal gwrandawiad yn unol â pharagraff (1), caiff ddyroddi cyfarwyddyd sy'n gwahardd yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol rhag bod yn bresennol yn y gwrandawiad na chael ei gynrychioli yn y gwrandawiad.

(4) Os yw'r apêl yn ymwneud ag—

(a) yr hyn a gynhwysir mewn cynllun datblygu unigol plentyn neu berson ifanc, ni chaniateir i ddatganiad nad yw'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn gwrthwynebu'r apêl, neu ei fod yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, gael effaith hyd nes bod yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn cyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gadarnhad ysgrifenedig o'r diwygiadau (os oes rhai) y

mae'n cytuno i'w gwneud i gynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc;

(b) penderfyniad i beidio â chynnal cynllun datblygu unigol, ni chaniateir i ddatganiad nad yw'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn gwrthwynebu'r apêl, neu ei fod yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, gael effaith hyd nes bod yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn cyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gadarnhad ysgrifenedig o'i benderfyniad i beidio â gwrthwynebu'r apêl neu i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

*Ymholiadau'r Tribiwnlys*

**Ymholiadau gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**24.** Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg ar ôl cael y cais apelio neu'r cais hawlio—

(a) gofyn i bob parti—

(i) a yw'r parti yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawiad ai peidio;

(ii) a yw'r parti yn dymuno cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad yn unol â rheoliad 50 ac, os felly, enw'r cynrychiolydd;

(iii) a yw'r parti yn bwriadu galw tystion ac, os felly, enwau'r tystion arfaethedig, eu galwedigaethau, ac a oes arbenigwr meddygol neu arbenigwr arall yn eu plith;

(iv) a oes ar y parti, neu dyst, angen cymorth oherwydd nam cyfathrebu ac, os felly, manylion y math o gymorth cyfathrebu sy'n ofynnol;

(v) a oes gan y parti, neu dyst y bwriedir ei alw, unrhyw anableddau a all olygu y byddai'n ofynnol gwneud addasiadau rhesymol;

(vi) a yw'r parti yn dymuno i berson fod yn bresennol fel sylwedydd yn y gwrandawiad ac, os felly, enw'r person hwnnw;

(vii) a yw'r parti yn dymuno i unrhyw berson fod yn bresennol yn y gwrandawiad i gyfleu safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc ac, os felly, enw a chyfeiriad y person hwnnw ac, os yw'n berthnasol, cysylltiad y person â'r plentyn neu'r person ifanc;

(b) rhoi gwybod i bob parti—

(i) am effaith rheoliad 40(6) a darpariaeth rheoliad 42(2), a

(ii) pan fo ateb i unrhyw un neu ragor o’r ymholiadau o dan baragraff (a) yn newid ar ôl i barti ymateb i’r ymholiadau hynny, fod rhaid i’r parti o dan sylw roi gwybod yn ysgrifenedig ar unwaith i Ysgrifennydd y Tribiwnlys.

**Methiant i ymateb i ymholiadau a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**25.**—(1) Caiff y Llywydd orchymyn—

(a) bod y cais apelio neu’r cais hawlio yn cael ei ddileu ar y sail bod methiant yr apelydd neu’r hawlydd i gydymffurfio ag ymholiadau, a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 24, yn rhagfarnu neu’n oedi gwrandawiad teg yr apêl neu’r hawliad;

(b) na chaiff yr awdurdod lleol, corff llywodraethu’r SAB neu’r corff cyfrifol gymryd unrhyw gam pellach yn yr apêl neu’r hawliad na bod yn bresennol yn y gwrandawiad na chael ei gynrychioli yno ar y sail bod methiant i gydymffurfio ag ymholiadau, a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 24, yn rhagfarnu neu’n oedi gwrandawiad teg yr apêl neu’r hawliad.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i’r Llywydd roi hysbysiad i’r parti y mae’r Llywydd yn bwriadu gwneud gorchymyn yn ei erbyn, gan wahodd sylwadau ganddo, a rhaid i’r Llywydd ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) rhaid i hysbysiad sy’n gwahodd sylwadau roi gwybod i’r parti y caiff, o fewn cyfnod (nad yw’n llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar;

(b) bydd sylwadau wedi eu gwneud—

(i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod penodedig, a

(ii) yn achos sylwadau llafar, os yw’r parti sy’n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(4) Os yw cais apelio neu gais hawlio yn cael ei ddileu o dan baragraff (1)(a), ystyrir bod yr achos y mae’r apêl neu’r hawliad yn ymwneud ag ef wedi ei derfynu.

**Pŵer i ddileu'r apêl neu'r hawliad**

**26.**—(1) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, yn ystod unrhyw gam yn yr apêl neu'r hawliad, os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yn gwneud cais neu os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn cyfarwyddo felly, gyflwyno hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd sy'n datgan bod cynnig wedi ei wneud i ddileu'r cyfan neu ran o'r apêl neu'r hawliad, ar un o'r seiliau a bennir ym mharagraff (2) neu oherwydd diffyg erlyniad.

(2) Y seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) bod yr apêl wedi ei gwneud neu'r hawliad wedi ei wneud ac eithrio yn unol â'r Rheoliadau hyn;

(b) nad yw'r apêl neu'r hawliad o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys, neu nad yw o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys mwyach;

(c) nad yw'r apêl neu'r hawliad yn datgelu seiliau rhesymol;

(d) bod yr apêl neu'r hawliad yn camddefnyddio proses y Tribiwnlys.

(3) Rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (1) wahodd yr apelydd neu'r hawlydd i gyflwyno sylwadau.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r apelydd neu'r hawlydd y caiff yr apelydd neu'r hawlydd, o fewn cyfnod (nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar;

(b) mae sylwadau wedi eu gwneud—

(i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod penodedig, a

(ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(5) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan yr apelydd neu'r hawlydd, orchymyn bod y cyfan neu ran o'r apêl neu'r hawliad yn cael ei ddileu neu ei dileu, ar un o'r seiliau a bennir ym mharagraff (2) neu oherwydd diffyg erlyniad.

(6) Caniateir gwneud gorchymyn o dan baragraff (5) heb gynnal gwrandawiad, oni fydd yr apelydd neu'r hawlydd yn gofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar.

(7) Os cyflwynir sylwadau llafar yn unol â pharagraff (6), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys

ystyried y sylwadau llafar ar ddechrau'r gwrandawiad o sylwedd yr apêl neu'r hawliad.

(8) Os yw'r cyfan o gais apelio neu gais hawlio yn cael ei ddileu o dan baragraff (5), bernir bod yr achos y mae'r apêl neu'r hawliad yn ymwneud ag ef wedi ei derfynu.

### Gorchymyn i ddiwygio datganiad achos

**27.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn meddwl ei bod yn addas, yn ystod unrhyw gam o'r apêl neu'r hawliad, orchymyn bod datganiad achos parti yn cael ei ddiwygio ar y sail nad yw'n datgelu seiliau rhesymol dros wneud yr apêl neu'r hawliad neu oherwydd ei fod yn camddefnyddio proses y Tribiwnlys.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi hysbysiad i'r parti y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn bwriadu gwneud gorchymyn yn ei erbyn, gan wahodd sylwadau ganddo, a rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti y caiff, o fewn cyfnod (nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar;

(b) bydd sylwadau wedi eu cyflwyno—

(i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod a bennir felly, a

(ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod a bennir felly.

### Tystiolaeth a chyflwyniadau

**28.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi cyfarwyddydau ar—

(a) y materion y mae'n ofynnol cael tystiolaeth neu gyflwyniadau yn eu cylch,

(b) natur y dystiolaeth neu'r cyflwyniadau sy'n ofynnol,

(c) pa un a ganiateir i'r partïon ddarparu tystiolaeth arbenigol ai peidio neu a yw'n ofynnol iddynt wneud hynny ac, os felly, a oes rhaid i'r partïon ar y cyd benodi un arbenigwr i ddarparu tystiolaeth o'r fath,

(d) y modd y mae unrhyw dystiolaeth neu gyflwyniadau i'w darparu, a all gynnwys cyfarwyddyd i'w rhoi—

(i) ar lafar mewn gwrandawiad, neu

(ii) fel cyflwyniadau ysgrifenedig neu ddatganiad tyst ysgrifenedig, ac

(e) yr amser erbyn pryd y mae unrhyw dystiolaeth neu gyflwyniadau i'w darparu.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfarwyddo, mewn perthynas ag apêl—

(a) rhiant y plentyn i roi'r plentyn ar gael i'w archwilio neu ei asesu gan berson proffesiynol sydd â chymhwyster addas, neu

(b) y person sy'n gyfrifol am ysgol neu leoliad addysgol i ganiatáu i berson proffesiynol sydd â chymhwyster addas gael mynediad i'r ysgol neu'r lleoliad addysgol at ddiben asesu'r plentyn neu'r ddarpariaeth a wneir, neu sydd i'w gwneud, ar gyfer y plentyn.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried bod methiant gan berson, sy'n barti yn yr apêl, i gydymffurfio â gofyniad a wneir o dan baragraff (2), yn absenoldeb unrhyw reswm da dros fethiant o'r fath, yn fethiant i gydweithredu â'r Tribiwnlys.

(4) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

(a) derbyn tystiolaeth, pa un a fyddai'r dystiolaeth yn dderbyniadwy ai peidio mewn treial sifil yng Nghymru neu Loegr;

(b) allgáu tystiolaeth a fyddai fel arall yn dderbyniadwy—

(i) pan na ddarparwyd y dystiolaeth o fewn yr amser a ganiateid gan gyfarwyddyd,

(ii) pan ddarparwyd y dystiolaeth fel arall mewn modd nad oedd yn cydymffurfio â chyfarwyddyd, neu

(iii) pan fyddai'n annheg derbyn y dystiolaeth fel arall.

**Rheoli'r achos a chyfarwyddydau**

**29.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, neu pan wneir cais gan barti, roi pa gyfarwyddydau bynnag i barti ar unrhyw fater sy'n codi mewn cysylltiad â'r apêl neu'r hawliad y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn meddwl ei bod yn addas, gan gynnwys gohirio'r achos, neu'r cyfarwyddydau hynny a ddarperir yn rheoliadau 31 a 32, i alluogi'r partïon i baratoi ar gyfer y gwrandawiad neu i gynorthwyo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys i benderfynu'r materion.

(2) Rhaid i gais gan barti am gyfarwyddydau gael ei wneud yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys.

(3) Rhaid i barti sy'n cyflwyno cais am gyfarwyddydau i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, oni chyflwynir cydsyniad ysgrifenedig y parti arall gyda'r cais, gyflwyno copi o'r cais i'r parti arall.

(4) Os yw'r parti arall yn gwrthwynebu'r cyfarwyddydau a geisir, rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried y gwrthwynebiad ac, os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried bod angen hynny er mwyn penderfynu'r cais, rhaid iddo roi cyfle i'r partïon i gyflwyno sylwadau.

(5) Pe na fyddai, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, amser rhesymol cyn gwrandawiad y rhoddwyd hysbysiad ohono o dan reoliad 37(1) i gydymffurfio â chyfarwyddyd y mae parti yn gwneud cais amdano, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

(a) os yw wedi ei fodloni y gall cydymffurfio â'r cyfarwyddyd gynorthwyo'r panel tribiwnlys i benderfynu'r materion, ohirio'r gwrandawiad, cyn ei gychwyn, o dan reoliad 48, neu

(b) gwrthod y cais.

(6) Rhaid i gyfarwyddyd—

(a) cynnwys datganiad o'r canlyniadau posibl i'r apêl neu'r hawliad fel y'u darperir gan reoliad 33, pe bai parti yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd o fewn yr amser a ganiateir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys;

(b) oni chafodd y person y cyfeirir y cyfarwyddyd ato gyfle i wrthwynebu'r cyfarwyddyd, neu wedi cydsynio'n ysgrifenedig i'r cais am y cyfarwyddyd, gynnwys datganiad i'r perwyl y caiff y person hwnnw wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o dan reoliad 30 am amrywio'r cyfarwyddyd neu ei osod o'r neilltu.

(7) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn unol â rheoliad 35(1), yn gorchymyn—

(a) bod apêl i'w gwrando ar y cyd â hawliad, ni chaiff y cyfarwyddydau a roddir o dan baragraff (1) ymwneud ond â'r apêl;

(b) bod hawliad i'w wrando ar y cyd ag apêl, ni chaiff y cyfarwyddydau a roddir o dan baragraff (1) ymwneud ond â'r hawliad.

(8) Pan fo paragraff (7)(a) yn gymwys, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried a yw'n fuddiol, o ran penderfynu'r apêl a'r hawliad yn effeithlon, ac er budd y partïon, roi'r un cyfarwyddydau, neu gyfarwyddydau tebyg, mewn cysylltiad â'r apêl â'r rheini a roddir yn yr hawliad.

(9) Pan fo paragraff (7)(b) yn gymwys, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried a yw'n fuddiol, o ran penderfynu'r hawliad a'r apêl yn effeithlon, ac er budd y partïon, roi'r un

cyfarwyddydau, neu gyfarwyddydau tebyg, mewn perthynas â'r hawliad â'r rheini a roddir yn yr apêl.

(10) Pan fo'n ymddangos i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys fod mater yn codi mewn apêl neu hawliad y mae rhaid ei benderfynu cyn y gwrandawiad ar sylwedd yr apêl neu'r hawliad, ac na ellir ei benderfynu'n briodol drwy roi cyfarwyddydau, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wysio'r partïon i ymddangos gerbron y Llywydd neu'r panel tribiwnlys at y diben hwn, a chaiff roi unrhyw gyfarwyddydau angenrheidiol sy'n ymwneud â'u hymddangosiad.

**Amrywio cyfarwyddydau neu eu gosod o'r neilltu**

**30.**—(1) Pan na chafodd parti y cyfeirir cyfarwyddyd ato gyfle i wrthwynebu rhoi'r cyfarwyddyd, ac na chydsyniodd yn ysgrifenedig â'r cais am y cyfarwyddyd hwnnw, caiff y parti hwnnw wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar unrhyw adeg drwy hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, i'r cyfarwyddyd gael ei amrywio neu ei osod o'r neilltu.

(2) Ni chaiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys amrywio'r cyfarwyddyd na'i osod o'r neilltu heb yn gyntaf hysbysu'r partïon ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir ganddynt.

**Manylion a datganiadau atodol**

**31.** Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti ddarparu, naill ai yn neu gyda datganiad achos y parti hwnnw, unrhyw fanylion neu ddatganiadau atodol sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer penderfynu'r apêl neu'r hawliad.

**Datgelu dogfennau a deunydd arall**

**32.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

(a) cyfarwyddo parti i gyflwyno i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys erbyn dyddiad penodedig unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall sy'n ofynnol gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ac y mae o fewn pŵer y parti hwnnw i'w chyflwyno neu ei gyflwyno;

(b) rhoi cyfarwyddyd ar—

 (i) unrhyw fater y mae'n ofynnol datgelu tystiolaeth yn ei gylch,

 (ii) natur a graddau'r datgeliad,

 (iii) y modd y mae'r ddogfen neu'r dystiolaeth arall i'w darparu i'r Tribiwnlys, a

 (iv) allgáu unrhyw ddogfen neu dystiolaeth arall sy'n amherthnasol, yn ddiangen neu a gafwyd yn amhriodol.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys osod amod ar gyflenwi copi o unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall a gyflwynir wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan baragraff (1), na chaiff y parti sy'n ei gael ddefnyddio'r copi ond at ddibenion yr apêl neu'r hawliad.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud ymgymeriad ysgrifenedig i gadw'r amod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yn ofynnol cyn cyflenwi copi.

(4) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi gorchymyn i barti ar gyfer y math o ddatgelu neu archwilio dogfennau (gan gynnwys cymryd copïau) y gellid ei ganiatáu o dan Reolau Trefniadaeth Sifil 1998(**1**).

(5) Rhaid i orchymyn o dan baragraff (4) gynnwys cyfeiriad—

(a) mewn perthynas ag apêl, fod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion ynghylch datgelu neu archwilio dogfennau, yn agored, o dan adran 79 o Ddeddf 2018, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, a

(b) mewn perthynas â hawliad, fod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion ynghylch datgelu neu archwilio dogfennau, yn agored, o dan baragraff 6(8) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau**

**33.**—(1) Os nad yw parti wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan y Rheoliadau hyn o fewn yr amser a bennir yn y cyfarwyddyd, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

(a) pan yr apelydd neu'r hawlydd yw'r parti diffygiol, wrthod yr apêl neu'r hawliad heb wrandawiad;

(b) pan yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yw'r parti diffygiol, benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawiad;

(c) cynnal gwrandawiad—

(i) heb hysbysu'r parti diffygiol, lle nad yw'r parti diffygiol yn bresennol nac yn cael ei gynrychioli, neu

(ii) pan fo'r partïon wedi eu hysbysu am y gwrandawiad yn unol â rheoliad 37(1), a chyfarwyddo nad oes hawlogaeth gan y

(**1**) Gweler Rhan 31 – Datgelu ac Archwilio Dogfennau.

parti diffygiol, nac unrhyw berson sy'n bwriadu cynrychioli'r parti hwnnw neu roi tystiolaeth ar ei ran, i fod yn bresennol yn y gwrandawiad.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y parti diffygiol" yw'r parti sydd wedi methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

**Cydgrynhoi apelau neu hawliadau**

**34.**—(1) Os oes mwy nag un apêl yn ymwneud â'r un plentyn neu'r un person ifanc, neu'n galw am benderfyniad ar yr un mater i raddau sylweddol, caiff y Llywydd orchymyn bod yr apelau yn cael eu gwrando gyda'i gilydd.

(2) Os oes mwy nag un hawliad yn ymwneud â'r un plentyn neu'r un person ifanc, neu'n galw am benderfyniad ar yr un mater i raddau sylweddol, caiff y Llywydd orchymyn bod yr hawliadau yn cael eu gwrando gyda'i gilydd.

(3) Caiff y Llywydd wneud gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn cynharach a wnaed o dan baragraff (1) neu (2).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff y Llywydd ddyroddi gorchymyn o dan y rheoliad hwn ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall neu ar ysgogiad y Llywydd ei hunan.

(5) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn ond os yw'n ymddangos, ym marn y Llywydd, ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny, a chyn gwneud gorchymyn, rhaid rhoi cyfle i bob parti, ym mhob un o'r apelau neu'r hawliadau yr effeithir arnynt, i gael ei glywed.

**Cydgrynhoi hawliadau gydag apelau**

**35.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), pan fo hawliad yn ymwneud â'r un plentyn neu'r un person ifanc a'i fod naill ai'n deillio o'r un amgylchiadau neu'n galw am benderfyniad ar yr un mater, i raddau sylweddol, ag apêl, caiff y Llywydd orchymyn bod yr hawliad yn cael ei wrando ar y cyd â'r apêl.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) sy'n caniatáu i'r Llywydd wneud gorchymyn os yw person wedi methu â gwneud apêl o fewn y terfynau amser a bennir gan reoliad 10 neu gan unrhyw estyniad amser i wneud apêl o'r fath a roddir o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Ni chaiff y Llywydd wneud gorchymyn o dan baragraff (1) ond pe na fyddai gwneud y gorchymyn yn achosi oedi gormodol i benderfynu'r apêl, a chan gydymffurfio yn ogystal â gofynion paragraff (6).

(4) Caiff y Llywydd wneud gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn cynharach a wnaed o dan baragraff (1).

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), caiff y Llywydd ddyroddi gorchymyn o dan y rheoliad hwn ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall neu ar ysgogiad y Llywydd ei hunan.

(6) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn ond os yw'n ymddangos, ym marn y Llywydd, ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny, a chyn gwneud gorchymyn, rhaid rhoi cyfle i bob parti, ym mhob un o'r hawliadau neu'r apelau yr effeithir arnynt, i gael ei glywed.

**Ychwanegu ac amnewid partïon**

**36.**—(1) Caiff person wneud cais i gael ei gysylltu yn barti yn yr apêl neu'r hawliad.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn i gysylltu person yn barti yn yr apêl neu'r hawliad—

(a) os gwneir cais ysgrifenedig o dan baragraff (1), neu

(b) ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun, os nad oes cais ysgrifenedig wedi ei wneud ond bod y person yn cydsynio i gael ei gysylltu yn barti yn yr apêl neu'r hawliad.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn i amnewid parti—

(a) os yw'r person anghywir wedi ei enwi'n barti, neu

(b) os yw'r amnewid wedi dod yn angenrheidiol oherwydd newid mewn amgylchiadau er pan ddechreuwyd yr apêl neu'r hawliad.

(4) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (2) neu (3), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud unrhyw gyfarwyddydau canlyniadol, neu ymholiadau o dan reoliad 24, y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Oni fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall, rhaid trin person a benodir neu a amnewidir o dan y rheoliad hwn fel parti at ddiben unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno dogfen i barti yn yr apêl neu'r hawliad, anfon dogfen ato neu roi hysbysiad iddo.

**Hysbysu am ddyddiad, lleoliad ac amser gwrandawiadau**

**37.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2) a rheoliad 39, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, ar ôl ymgynghori â'r partïon, bennu dyddiad, lleoliad ac amser y gwrandawiad ac anfon hysbysiad sy'n pennu dyddiad, lleoliad ac amser y gwrandawiad at bob parti.

(2) Os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys wedi gofyn i barti ddarparu manylion o'r adegau y byddai ar gael i fod yn bresennol mewn gwrandawiad ac nad yw'r parti hwnnw wedi cydymffurfio â'r cais, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys fwrw ymlaen i restru'r apêl neu'r hawliad ar gyfer gwrandawiad heb ymgynghori pellach.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r hysbysiad o wrandawiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei anfon—

(a) mewn perthynas â gwrandawiad o dan reoliad 23, 25, 26, 53 neu 54, heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir ar gyfer gwrandawiad,

(b) mewn unrhyw achos arall, heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad, neu

(c) mewn unrhyw achos, o fewn cyfnod o amser byrrach cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad yn is-baragraff (a) neu (b) y mae'r partïon yn cytuno arno.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gynnwys yn yr hysbysiad o wrandawiad, neu gyda'r hysbysiad o wrandawiad—

(a) gwybodaeth a chanllawiau, ar ffurf a gymeradwyir gan y Llywydd, ynghylch presenoldeb y partïon a'r tystion yn y gwrandawiad, dod â dogfennau, a'r hawl i gynrychiolaeth neu gymorth fel y'i darperir gan reoliad 50, a

(b) datganiad sy'n esbonio'r canlyniadau posibl os methir â bod yn bresennol, a'r hawl sydd gan y canlynol i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig—

(i) yr apelydd neu'r hawlydd os nad yw'r apelydd neu'r hawlydd yn bresennol nac yn cael ei gynrychioli;

(ii) yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol os na chaiff ei gynrychioli ac os yw wedi cyflwyno datganiad o'i achos, oni bai ei fod wedi datgan yn ysgrifenedig nad yw'n gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, neu wedi tynnu'n ôl ei wrthwynebiad i'r apêl neu'r hawliad.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys newid lleoliad ac amser unrhyw wrandawiad, a rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi i'r partïon heb fod yn llai na 5 niwrnod gwaith (neu gyfnod llai y mae'r partïon yn cytuno arno) o rybudd ynghylch lleoliad ac amser newydd y gwrandawiad.

(6) Os yw'r partïon yn bresennol pan fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn cyhoeddi lleoliad

ac amser newydd y gwrandawiad, ni fydd yn ofynnol rhoi hysbysiad pellach.

(7) Nid oes dim ym mharagraff (1) neu (5) sy'n gosod rhwymedigaeth ar Ysgrifennydd y Tribiwnlys i ymgynghori ag unrhyw berson nad oes hawlogaeth ganddo i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, neu anfon hysbysiad at unrhyw berson o'r fath.

**Trosglwyddiadau**

**38.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y Llywydd atgyfeirio achos mewn perthynas ag apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf os oes awdurdodaeth gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas â'r achos.

(2) Ni chaniateir gwneud atgyfeiriad o dan baragraff (1) oni fydd hysbysiad wedi ei roi i'r partïon.

(3) Os trosglwyddir achos mewn perthynas ag apêl i'r Tribiwnlys gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, caiff y Tribiwnlys barhau â'r achos os oes awdurdodaeth gan y Tribiwnlys mewn perthynas â'r achos hwnnw.

**Pŵer i benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawiad**

**39.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys benderfynu'r apêl neu'r hawliad neu unrhyw fater penodol heb wrandawiad—

(a) os yw'r partïon yn cytuno felly yn ysgrifenedig, neu

(b) o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 23 (methiant i gyflwyno datganiad achos ac absenoldeb gwrthwynebiad) neu 33 (methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau).

(2) Cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd eisoes gan y partïon (at ddiben y rheoliad hwn, trinnir y cais apelio neu'r cais hawlio a datganiadau achos y partïon fel pe baent yn sylwadau ysgrifenedig).

**Gwrandawiadau cyhoeddus a phreifat: trefniadau ac eithriadau**

**40.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid cynnal pob un o wrandawiadau'r Tribiwnlys yn breifat.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn bod gwrandawiad neu ran o wrandawiad i'w gynnal neu i'w chynnal yn gyhoeddus os yw'r partïon yn cytuno i gael gwrandawiad cyhoeddus ac os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi ei fodloni—

(a) na fyddai gwrandawiad cyhoeddus yn rhagfarnu lles neu fuddiannau'r plentyn neu'r person ifanc, a

(b) y byddai gwrandawiad cyhoeddus yn caniatáu gwrandawiad teg o'r apêl neu'r hawliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae hawlogaeth gan y personau a ganlyn i fod yn bresennol mewn gwrandawiad er ei fod yn cael ei gynnal yn breifat—

(a) y partïon,

(b) cynrychiolwyr y partïon,

(c) tystion y partïon, a

(d) unrhyw berson sydd wedi ei benodi i weithredu fel cyfaill achos yn unol â rheoliad 61.

(4) Mae hawlogaeth gan y personau a ganlyn hefyd i fod yn bresennol mewn gwrandawiad er ei fod yn cael ei gynnal yn breifat—

(a) y plentyn, pan na fo'r plentyn yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;

(b) rhiant i'r plentyn, pan na fo'r rhiant yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;

(c) y clerc i'r panel tribiwnlys ac Ysgrifennydd y Tribiwnlys;

(d) y Llywydd, Cadeirydd neu aelod o'r panel lleyg (pan nad yw'n eistedd fel aelod o'r panel tribiwnlys);

(e) person sy'n cael ei hyfforddi fel Cadeirydd, aelod o'r panel lleyg neu fel clerc i'r panel tribiwnlys;

(f) person sy'n gweithredu ar ran y Llywydd i hyfforddi neu oruchwylio clercod i banelau tribiwnlys;

(g) cyfieithydd ar y pryd;

(h) unrhyw berson sy'n rhoi cymorth angenrheidiol arall i berson sy'n eistedd fel aelod o'r panel tribiwnlys neu sydd â hawlogaeth i fod yn bresennol yn y gwrandawiad o ganlyniad i'r rheoliad hwn;

(i) unrhyw berson a enwir gan yr apelydd neu'r hawlydd wrth ymateb i'r ymholiad o dan reoliad 24(a)(vi) neu (vii) oni fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi penderfynu na chaiff unrhyw berson o'r fath fod yn bresennol yn y gwrandawiad ac wedi hysbysu'r apelydd neu'r hawlydd yn unol â hynny.

(5) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, gyda chydsyniad y partïon neu eu cynrychiolwyr sy'n bresennol mewn gwirionedd, ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn gwrandawiad a gynhelir yn breifat.

(6) Heb ragfarnu unrhyw bwerau eraill a all fod ganddo, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys allgáu o wrandawiad, neu o ran ohono—

(a) person y mae ei ymddygiad, ym marn y Llywydd neu’r panel tribiwnlys, wedi amharu, neu’n debygol o amharu, ar y gwrandawiad;

(b) person y mae ei bresenoldeb, ym marn y Llywydd neu’r panel tribiwnlys, wedi ei gwneud, neu’n debygol o’i gwneud, yn anodd i unrhyw berson roi tystiolaeth, neu gyflwyno’r sylwadau sy’n angenrheidiol ar gyfer cynnal y gwrandawiad yn briodol;

(c) cynrychiolydd neu dyst nad oedd parti wedi ei enwi, heb esgus rhesymol, mewn ymateb i’r ymholiad gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 24.

(7) Ac eithrio fel y’i darperir yn rheoliad 43(3) a (4), ni chaiff unrhyw un o’r personau a grybwyllir ym mharagraff (4) neu (5), ac eithrio yn achos y personau a bennir yn is-baragraffau (c), (g) ac (h) o baragraff (4) fel sy’n ofynnol gan eu priod ddyletswyddau, gymryd unrhyw ran yn y gwrandawiad nac ychwaith (pan fo ganddynt hawlogaeth neu ganiatâd i aros) yn ystyriaethau’r panel tribiwnlys.

### Gorchmynion sy’n cyfyngu ar adrodd

**41.**—(1) Os yw’n ymddangos yn briodol gwneud hynny, caiff y Llywydd neu’r panel tribiwnlys wneud gorchymyn sy’n cyfyngu ar gyhoeddi, neu’n gwahardd cyhoeddi, unrhyw fater sy’n debygol o arwain aelodau o’r cyhoedd at adnabod yr apelydd, yr hawlydd, y plentyn neu berson arall, pan ystyrir na ddylai fod modd ei adnabod.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae “cyhoeddi”, heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr ymadrodd hwnnw, yn cynnwys—

(a) cyhoeddi unrhyw fater mewn gwasanaeth rhaglenni, fel y diffinnir “programme service” gan adran 201(1) o Ddeddf Darlledu 1990(**1**), a

(b) peri i unrhyw fater gael ei gyhoeddi.

(3) Caniateir gwneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â chyfnod cyfyngedig, a chaiff y Llywydd neu’r panel tribiwnlys amrywio neu ddirymu’r gorchymyn hwnnw.

### Y weithdrefn mewn gwrandawiad

**42.**—(1) Ar ddechrau’r gwrandawiad, rhaid i’r Cadeirydd esbonio’r drefn y mae’r panel tribiwnlys yn bwriadu ei mabwysiadu ar gyfer yr achos.

---

(**1**) 1990 p. 42; diwygiwyd adran 201(1) gan Ran 3, Pennod 6, adran 360 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 1 o Atodlen 19 iddi.

(2) Rhaid i'r panel tribiwnlys gynnal y gwrandawiad mewn modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol er mwyn egluro'r materion a thrin yr achos yn unol â'r prif amcan fel sy'n ofynnol gan reoliad 4.

(3) Rhaid i'r panel tribiwnlys benderfynu ym mha drefn y clywir y partïon ac y penderfynir ar y materion.

(4) Caiff y panel tribiwnlys, os yw wedi ei fodloni ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny, ganiatáu—

(a) i'r apelydd neu'r hawlydd ddibynnu ar seiliau nas datganwyd yn y cais apelio neu'r cais hawlio neu'r datganiad achos, a rhoi tystiolaeth nas cyflwynwyd i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol, cyn iddo wneud y penderfyniad a herir neu ar yr un pryd ag y gwnaed y penderfyniad hwnnw;

(b) i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol ddibynnu ar seiliau nas pennwyd yn ei ddatganiad achos.

(5) Os yw aelod o'r panel tribiwnlys a chanddo dri aelod ac eithrio'r Cadeirydd yn absennol, ar ddechrau'r gwrandawiad neu ar ôl hynny—

(a) caiff y ddau aelod arall, gyda chydsyniad y partïon, gynnal y gwrandawiad, ac os digwydd hynny mae'r panel tribiwnlys i'w ystyried fel pe bai wedi ei gyfansoddi'n briodol, a chaiff y ddau aelod hynny wneud penderfyniad y panel tribiwnlys, a

(b) ni chaiff yr aelod sy'n absennol ailymuno â'r gwrandawiad.

**Tystiolaeth mewn gwrandawiad**

**43.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 40(6), mae hawlogaeth gan y partïon yn ystod y gwrandawiad i roi tystiolaeth, galw tystion, holi unrhyw dyst ac annerch y panel tribiwnlys ar y dystiolaeth, gan gynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd cyn y gwrandawiad, yn ogystal ag yn gyffredinol ar destun yr apêl neu'r hawliad.

(2) Nid oes hawlogaeth gan barti i alw mwy na dau dyst i roi tystiolaeth ar lafar oni fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi rhoi caniatâd ar gais gan barti (yn ogystal ag unrhyw dyst y mae ei bresenoldeb yn ofynnol yn unol â pharagraff (6)).

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ganiatáu i'r personau a ganlyn roi tystiolaeth ac annerch y panel tribiwnlys ar destun yr apêl neu'r hawliad—

(a) y plentyn, pan na fo'r plentyn yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;

(b) rhiant y plentyn, pan na fo'r rhiant yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;

(c) person sydd wedi cyflwyno datganiad o addasrwydd i'r Tribiwnlys yn unol â rheoliad 61 er mwyn gweithredu fel cyfaill achos.

(4) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ganiatáu—

(a) i'r person, os oes un, a enwir mewn ymateb i ymholiad o dan reoliad 24(a)(vii) roi tystiolaeth ac annerch y panel tribiwnlys ar safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, a

(b) i'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol holi'r person a bennir yn is-baragraff (a) mewn perthynas ag unrhyw dystiolaeth neu anerchiad a wneir i'r panel tribiwnlys.

(5) Caniateir rhoi tystiolaeth gerbron y panel tribiwnlys—

(a) ar lafar, neu

(b) drwy ddatganiad ysgrifenedig os cyflwynir y dystiolaeth honno gyda'r cais apelio neu'r cais hawlio neu'r datganiad achos neu yn unol â rheoliad 47.

(6) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn ystod unrhyw gam o'r apêl neu'r hawliad, wneud presenoldeb unrhyw un sy'n gwneud unrhyw ddatganiad ysgrifenedig yn ofynnol.

(7) Caniateir i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael tystiolaeth o unrhyw ffaith sy'n ymddangos yn berthnasol i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys.

(8) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti neu dyst roi tystiolaeth ar lw neu drwy gadarnhad, ac at y diben hwnnw caniateir gweinyddu llw neu gadarnhad ar y ffurf gywir, neu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dystiolaeth a roddir drwy ddatganiad ysgrifenedig gael ei rhoi drwy ddatganiad o wirionedd.

**Newid tyst**

**44.**—(1) Caiff parti newid y person a enwir yn dyst gan y parti hwnnw, mewn ymateb i ymholiad a wneir o dan reoliad 24, os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn cael hysbysiad ysgrifenedig ac os cyflwynir copi o'r hysbysiad i'r parti arall heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

(2) Rhaid i unrhyw gais i newid tyst, a wneir llai na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad, gael ei benderfynu gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys.

**Gwysio tyst**

**45.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar gais gan barti neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys

ei hun, ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i unrhyw berson—

(a) bod yn bresennol fel tyst mewn gwrandawiad, ar yr adeg honno ac yn y lle hwnnw a bennir yn y wŷs, ac mewn unrhyw ohiriad o’r gwrandawiad hwnnw cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, a

(b) yn y gwrandawiad, iddo ateb unrhyw gwestiynau neu ddangos unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall sydd yng ngwarchodaeth, neu sydd o dan reolaeth, y person hwnnw ac sy’n ymwneud ag unrhyw fater o dan sylw yn yr apêl neu’r hawliad.

(2) Ni chaniateir gorfodi unrhyw berson i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall na ellid gorfodi’r person i’w rhoi neu i’w dangos mewn treial o achos mewn llys barn.

(3) Wrth arfer y pŵer a roddir gan y rheoliad hwn, rhaid i’r Llywydd neu’r panel tribiwnlys ystyried yr angen i ddiogelu unrhyw fater sy’n ymwneud ag amgylchiadau o natur bersonol agos neu amgylchiadau ariannol, neu sy’n cynnwys gwybodaeth a gyflëwyd neu a gafwyd yn gyfrinachol.

(4) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i berson fod yn bresennol oni roddwyd o leiaf 5 niwrnod gwaith o rybudd o’r gwrandawiad i’r person hwnnw, neu, os rhoddwyd llai na 5 niwrnod gwaith, oni fydd y person wedi rhoi gwybod i’r Llywydd neu’r panel tribiwnlys fod y person yn derbyn y rhybudd a roddwyd.

(5) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i berson fod yn bresennol a rhoi tystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen, oni fydd swm o arian wedi ei dalu neu wedi ei gynnig, sy’n rhesymol ddigonol i dalu treuliau angenrheidiol presenoldeb y person hwnnw.

(6) Rhaid i barti sy’n ceisio gwŷs tyst wneud cais ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, o leiaf 8 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad, neu’n ddiweddarach os yw’r person y mae’r wŷs i’w chyfeirio ato yn cydsynio’n ysgrifenedig.

(7) Rhaid i wŷs tyst gynnwys—

(a) mewn perthynas ag apêl, datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ac, os yw’r wŷs yn gwneud hynny’n ofynnol, i ddangos dogfennau, yn agored o dan adran 79 o Ddeddf 2018, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol,

(b) mewn perthynas â hawliad, datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ac, os yw’r wŷs yn gwneud hynny’n ofynnol, i ddangos

dogfennau, yn agored o dan baragraff 6(8) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, ac

(c) datganiad o effaith paragraff (8).

(8) Caiff person y cyfeirir gwŷs tyst ato wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, i amrywio'r wŷs neu ei gosod o'r neilltu.

(9) Ni chaiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys amrywio'r wŷs tyst na'i gosod o'r neilltu heb yn gyntaf hysbysu'r parti a wnaeth gais am ddyroddi'r wŷs tyst ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y parti hwnnw.

**Tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy ddulliau eraill**

**46.** Caiff y Llywydd, ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun, ganiatáu i barti neu i dyst roi tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy unrhyw ddull arall o gyfathrebu, os yw wedi ei fodloni na fyddai hynny'n rhagfarnu cyflawni prif amcan y Rheoliadau hyn.

**Tystiolaeth ysgrifenedig sy'n hwyr**

**47.**—(1) Ar ddechrau'r gwrandawiad, caiff parti gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig bellach ar gyfer ei derbyn—

(a) os yw'r partïon yn cytuno i dderbyn y dystiolaeth bellach, neu

(b) os yw'r dystiolaeth yn bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff (2).

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) yw—

(a) nad oedd y dystiolaeth ar gael ac nad oedd modd, yn rhesymol, iddi fod ar gael i'r parti hwnnw cyn diwedd cyfnod y datganiad achos, a

(b) y cyflwynwyd copi o'r dystiolaeth i Ysgrifennydd y Tribiwnlys a chyflwynwyd copi o'r dystiolaeth i'r parti arall o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

(3) Ni chaniateir derbyn tystiolaeth ysgrifenedig bellach a gyflwynir yn unol â pharagraff (1)(b), yn ddarostyngedig i baragraff (4), ond os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o'r farn, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y parti arall, nad yw graddau a ffurf y dystiolaeth honno yn debygol o rwystro cynnal y gwrandawiad yn effeithlon.

(4) Ni chaniateir derbyn tystiolaeth ysgrifenedig bellach pe byddai ei derbyn, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

(5) Os na fodlonir yr amodau ym mharagraff (2), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi caniatâd i barti gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig bellach yn y gwrandawiad os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o'r farn yr achosid risg ddifrifol o ragfarn yn erbyn y parti sy'n ceisio dibynnu ar y dystiolaeth honno pe na dderbynnid hi.

**Gohirio gwrandawiad cyn ei gychwyn**

**48.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, naill ai ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun neu ar gais parti, o dan amgylchiadau eithriadol, wneud gorchymyn i ohirio gwrandawiad cyn ei gychwyn.

(2) Rhaid i gais gan barti o dan baragraff (1)—

(a) cael ei wneud yn ysgrifenedig, gan ddatgan y rhesymau yn llawn, a

(b) dod i law Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a chael ei gyflwyno gan y ceisydd i'r parti arall, o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

(3) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi i'r partïon rybudd nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith (neu unrhyw gyfnod byrrach y mae'r partïon yn cytuno arno) o ddyddiad newydd y gwrandawiad.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) sy'n gosod rhwymedigaeth ar Ysgrifennydd y Tribiwnlys i ymgynghori ag unrhyw berson nad oes hawlogaeth ganddo i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad neu anfon hysbysiad at unrhyw berson o'r fath.

**Gohiriadau ar ôl cychwyn a chyfarwyddydau**

**49.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ohirio gwrandawiad ar ôl ei gychwyn.

(2) Pan ohirir gwrandawiad ar ôl ei gychwyn—

(a) caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi cyfarwyddydau y mae rhaid cydymffurfio â hwy cyn ailgychwyn y gwrandawiad, neu yn y gwrandawiad ar ôl ailgychwyn, a

(b) caiff y Cadeirydd gyhoeddi casgliadau dros dro a wnaed gan y panel tribiwnlys. Nid yw'r casgliadau dros dro yn benderfyniad gan y panel tribiwnlys.

(3) Caiff cyfarwyddyd o dan baragraff (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i barti ddarparu unrhyw fanylion, unrhyw dystiolaeth neu unrhyw ddatganiadau sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer penderfynu'r apêl neu'r hawliad.

(4) Os yw parti yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (2)(a), caiff y panel tribiwnlys ystyried y ffaith honno wrth

benderfynu'r apêl neu'r hawliad neu wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn ar gyfer costau.

(5) Os cyhoeddir lleoliad ac amser y gwrandawiad a ohiriwyd ar ôl ei gychwyn yn y gwrandawiad cyn ei ohirio felly, ni fydd unrhyw hysbysiad pellach yn ofynnol.

**Cynrychiolaeth mewn gwrandawiad**

**50.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mewn unrhyw wrandawiad neu ran o wrandawiad—

(a) caiff yr apelydd neu'r hawlydd gynnal yr apêl neu'r hawliad (gyda chymorth gan un person os yw'r apelydd neu'r hawlydd yn dymuno hynny), neu caniateir iddo ymddangos a chael ei gynrychioli gan un person, pa un a oes cymhwyster cyfreithiol gan y person hwnnw ai peidio;

(b) caiff yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol ymddangos a chael ei gynrychioli gan un person, pa un a oes cymhwyster cyfreithiol gan y person hwnnw ai peidio.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi caniatâd—

(a) i'r apelydd neu'r hawlydd gael cymorth neu gael ei gynrychioli gan fwy nag un person;

(b) i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol gael ei gynrychioli gan fwy nag un person.

(3) Os nad yw parti yn bwriadu bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, caiff y parti hwnnw, heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad, anfon at Ysgrifennydd y Tribiwnlys sylwadau ysgrifenedig ychwanegol i gefnogi achos y parti hwnnw.

**Methiant i fod yn bresennol mewn gwrandawiad**

**51.**—(1) Os yw parti yn methu â bod yn bresennol neu'n methu â chael ei gynrychioli mewn gwrandawiad yr hysbyswyd y parti hwnnw amdano, caiff y panel tribiwnlys—

(a) oni bai ei fod wedi ei fodloni bod rheswm digonol dros absenoldeb o'r fath, wrando a phenderfynu'r apêl neu'r hawliad yn absenoldeb y parti, neu

(b) gohirio'r gwrandawiad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, fel y bo'n briodol.

(2) Cyn penderfynu apêl neu hawliad yn absenoldeb parti, rhaid i'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y parti hwnnw mewn ymateb i'r hysbysiad o wrandawiad ac, at ddiben y rheoliad hwn, trinnir y cais apelio neu'r

cais hawlio a datganiadau achos y partïon fel pe baent yn sylwadau ysgrifenedig.

**Penderfyniad y panel tribiwnlys**

**52.**—(1) At ddibenion gwneud ei benderfyniad rhaid i'r panel tribiwnlys, ac at ddibenion trafod mater gweithdrefnol, caiff y panel tribiwnlys, er gwaethaf unrhyw beth a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn, orchymyn i bob person adael eisteddiad y panel tribiwnlys ac eithrio aelodau'r panel tribiwnlys ac unrhyw un neu ragor o'r personau a grybwyllir yn rheoliad 40(4)(c) i (f), neu, fel sy'n ofynnol gan eu priod ddyletswyddau, reoliad 40(4)(g) ac (h).

(2) Caiff panel tribiwnlys a chanddo dri aelod wneud penderfyniad drwy fwyafrif, a phan fo gan y panel tribiwnlys ddau aelod, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(3) Caniateir rhoi penderfyniad y panel tribiwnlys ar lafar ar ddiwedd y gwrandawiad neu ohirio'r penderfyniad ac, ym mhob achos, pa un a gynhaliwyd gwrandawiad ai peidio, rhaid cofnodi'r penderfyniad ar unwaith mewn dogfen y mae rhaid cynnwys ynddi hefyd, neu fel atodiad iddi, ac eithrio mewn achos a benderfynir drwy gydsyniad, ddatganiad o'r rhesymau (ar ffurf gryno) dros benderfyniad y panel tribiwnlys, a rhaid i'r ddogfen honno gael ei llofnodi a'i dyddio gan y Cadeirydd.

(4) Ni chaiff penderfyniad a roddir ar lafar na'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3) gynnwys unrhyw gyfeiriad at wneud y penderfyniad drwy fwyafrif (os dyna a ddigwyddodd) nac at unrhyw farn lleiafrif.

(5) Rhaid cofnodi pob penderfyniad y panel tribiwnlys yn y Gofrestr.

(6) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3), cyn gynted ag y bo'n ymarferol, at bob parti ynghyd â chanllawiau, ar ffurf a gymeradwyir gan y Llywydd, ar yr amgylchiadau pan fo hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y panel tribiwnlys ac ar y weithdrefn i'w dilyn.

(7) Pan fo rheoliad 13(11)(a) neu 62(2) yn gymwys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) at yr apelydd neu'r hawlydd yn ogystal ag at y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos.

(8) Mae pob penderfyniad i'w drin fel pe bai wedi ei wneud ar y dyddiad yr anfonir copi o'r ddogfen sy'n ei gofnodi at yr apelydd neu'r hawlydd (pa un a gyhoeddwyd y penderfyniad yn flaenorol ar ddiwedd y gwrandawiad ai peidio).

**Cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys**

**53.**—(1) Caiff parti wneud cais i Ysgrifennydd y Tribiwnlys i benderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael ei adolygu ar y seiliau—

(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud yn anghywir o ganlyniad i wall perthnasol ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys,

(b) bod gan barti a oedd â hawlogaeth i gael ei glywed yn y gwrandawiad, ond a fethodd ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos,

(c) bod gwall amlwg a pherthnasol yn y penderfyniad, neu

(d) bod buddiannau cyfiawnder yn gwneud hynny'n ofynnol.

(2) Rhaid i gais am adolygu penderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael ei wneud—

(a) yn ysgrifenedig, gan ddatgan y seiliau, a

(b) heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon.

(3) Caiff y Llywydd—

(a) ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd ei hun, adolygu a gosod o'r neilltu neu amrywio unrhyw benderfyniad a wneir gan y Llywydd, ar un o'r seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), neu

(b) gwrthod cais am adolygiad o benderfyniad y Llywydd yn unol â pharagraff (6).

(4) Caiff y Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos—

(a) ar gais parti, neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun, adolygu a gosod o'r neilltu neu amrywio unrhyw benderfyniad a wneir gan y panel tribiwnlys ar un o'r seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), neu

(b) gwrthod cais am adolygiad o benderfyniad y panel tribiwnlys yn unol â pharagraff (6).

(5) Caiff Cadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos orchymyn cynnal ail wrandawiad, gerbron yr un panel tribiwnlys neu gerbron panel tribiwnlys sydd wedi ei gyfansoddi'n wahanol.

(6) Caiff Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos wrthod y cais am adolygiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol os, ym marn y Llywydd

neu'r Cadeirydd, nad oes siawns resymol i'r cais cyfan hwnnw neu'r rhan honno lwyddo.

(7) Oni wrthodir cais am adolygiad yn unol â pharagraff (6), rhaid i'r adolygiad gael ei benderfynu ar ôl rhoi cyfle i'r partïon i gael eu clywed—

(a) gan y Llywydd, pan wnaed y penderfyniad gan y Llywydd, neu

(b) pan wnaed y penderfyniad gan banel tribiwnlys, gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad neu gan banel tribiwnlys arall a benodir gan y Llywydd.

(8) Os yw Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos, ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun, yn cynnig y dylid adolygu penderfyniad—

(a) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad i'r partïon heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon, a

(b) rhaid rhoi cyfle i'r partïon i gael eu clywed.

(9) Wrth benderfynu cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o dan baragraff (3), (4) neu (7), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddydau y mae rhaid cydymffurfio â hwy cyn neu yn ystod y gwrandawiad o'r adolygiad.

(10) Os yw parti yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (9), caiff y panel tribiwnlys ystyried y ffaith honno wrth benderfynu'r adolygiad neu wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn ar gyfer costau.

(11) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd, ar gais parti, roi caniatâd i'r parti hwnnw newid tyst at ddiben y gwrandawiad adolygu.

(12) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff (11) ddod i law Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a rhaid i'r ceisydd gyflwyno'r cais i'r parti arall, heb fod yn hwyrach na 14 o ddiwrnodau cyn y gwrandawiad adolygu.

(13) Rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfle i'r partïon i gael eu clywed ynghylch unrhyw gais a wneir o dan baragraff (11).

(14) Os gosodir penderfyniad o'r neilltu neu os amrywir penderfyniad yn dilyn adolygiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid y cofnod yn y Gofrestr a rhaid iddo hysbysu'r partïon yn unol â hynny.

**Adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio ag estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cychwyn achos**

**54.**—(1) Caniateir i benderfyniad gan y Llywydd i beidio ag estyn yr amser a ganiateir o dan reoliad 14 ar gyfer cyflwyno cais apelio gael ei adolygu o dan

reoliad 53 ar gais person fel pe bai'r person hwnnw yn barti yn yr apêl.

(2) Pan fo'r Llywydd yn penderfynu peidio ag ystyried hawliad sydd y tu allan i'r amser, o dan baragraff 4(3) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, caniateir adolygu'r penderfyniad hwnnw o dan reoliad 53 ar gais person fel pe bai'r person hwnnw yn barti yn yr hawliad.

(3) Os gwneir cais am adolygiad o dan baragraff (1) neu (2), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno copi o'r cais i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol ynghyd â hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod penodedig.

**Cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys**

**55.**—(1) Rhaid i barti sy'n ceisio caniatâd i apelio ar bwynt cyfreithiol o dan adran 81 o Ddeddf 2018 neu baragraff 6AA o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 (apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys) wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys Addysg am ganiatâd i apelio.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) gael ei anfon at Ysgrifennydd y Tribiwnlys heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y diweddaraf o'r dyddiadau yr anfonodd Ysgrifennydd y Tribiwnlys at y parti sy'n gwneud y cais—

(a) hysbysiad o'r penderfyniad,

(b) hysbysiad bod cais i'r penderfyniad gael ei adolygu wedi bod yn aflwyddiannus, neu

(c) hysbysiad bod y penderfyniad wedi ei amrywio yn dilyn adolygiad.

(3) Rhaid i gais o dan baragraff (1)—

(a) nodi'r penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef,

(b) nodi'r gwall cyfreithiol honedig neu'r gwallau cyfreithiol honedig yn y penderfyniad, ac

(c) datgan y canlyniad a geisir gan y parti sy'n gwneud y cais.

(4) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddydau mewn perthynas â phenderfynu'r cais, a chaiff wneud ei benderfyniad ar y cais gyda gwrandawiad neu hebddo.

(5) Wrth gael cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys rhaid i Lywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos ystyried yn gyntaf, gan gymryd i ystyriaeth y prif amcan yn rheoliad 4, pa un ai i adolygu penderfyniad y Tribiwnlys yn unol â rheoliad 53, oni fydd y Llywydd neu'r Cadeirydd eisoes wedi adolygu'r penderfyniad, neu wedi penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad.

(6) Os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad, neu'n

adolygu'r penderfyniad ac yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r penderfyniad, neu ran ohono, rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd ystyried wedyn pa un ai i roi caniatâd i apelio mewn perthynas â'r penderfyniad, neu'r rhan honno o'r penderfyniad.

(7) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Llywydd neu'r Cadeirydd ar y cais at y partïon cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan gynnwys manylion unrhyw benderfyniad i roi caniatâd i apelio a wneir o dan baragraff (6).

(8) Os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd wedi gwrthod y cais rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (7) hefyd gynnwys—

(a) y rhesymau dros wrthodiad o'r fath, a

(b) hysbysiad o'r hawl i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio ac o fewn pa gyfnod o amser, a thrwy ba ddull, y mae rhaid gwneud cais o'r fath.

(9) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi caniatâd i apelio ar seiliau cyfyngedig, ond rhaid iddo gydymffurfio â pharagraff (8) mewn perthynas ag unrhyw seiliau y mae wedi gwrthod caniatâd arnynt.

**Pŵer i atal dros dro benderfyniad y Tribiwnlys**

**56.** Caiff Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos, ar gais, neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun, wneud gorchymyn i atal dros dro effaith penderfyniad y panel tribiwnlys hyd nes y ceir penderfyniad gan y Llywydd neu'r Cadeirydd neu'r Uwch Dribiwnlys ar gais am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw ac unrhyw apêl neu adolygiad ohono.

**Gorchmynion yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys**

**57.**—(1) Os caiff unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys ei osod o'r neilltu, ei amrywio neu ei newid mewn unrhyw ffordd drwy orchymyn gan yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid y cofnod yn y Gofrestr i gyfateb i'r gorchymyn hwnnw, a rhaid iddo hysbysu'r partïon yn unol â hynny.

(2) Os ailgyflwynir yr apêl neu'r hawliad i'r Tribiwnlys, drwy orchymyn gan yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys, i'w hailglywed neu i'w ailglywed, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r partïon y caiff pob parti, yn ystod cyfnod o 15 niwrnod gwaith (neu gyfnod byrrach y mae'r partïon yn cytuno arno), gyflwyno datganiad achos atodol a thystiolaeth ysgrifenedig bellach.

(3) Os caiff gorchymyn i ddileu'r cais apelio neu'r cais hawlio ei ddiddymu neu ei osod o'r neilltu gan yr

Uwch Dribiwnlys neu'r Llys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r partïon—

(a) mewn achos pan nad oedd cyfnod y datganiad achos wedi dod i ben cyn i'r gorchymyn i ddileu gael effaith—

(i) bod cyfnod datganiad achos newydd i ddechrau, a

(ii) y caiff y partïon, o fewn cyfnod y datganiad achos newydd, gyflwyno'r ddogfennaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (b) mewn cysylltiad â datganiad achos neu dystiolaeth a gyflwynwyd cyn i'r dileu gymryd effaith, neu

(b) pan na fo is-baragraff (a) yn gymwys, fod gan bob parti 15 niwrnod gwaith (neu gyfnod byrrach y mae'r partïon yn cytuno arno) i gyflwyno datganiad achos atodol a thystiolaeth ysgrifenedig bellach.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r holl ddatganiadau achos a thystiolaeth ysgrifenedig a geir gan barti yn ystod y cyfnodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (2) a (3)(b) at y parti arall.

**Cydymffurfio â gorchmynion y panel tribiwnlys – apelau**

**58.**—(1) Os yw'r panel tribiwnlys, yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag apêl, yn gwneud gorchymyn o dan adran 71 o Ddeddf 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu SAB gyflawni'r camau gweithredu y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cyfnod o amser a bennir ym mharagraff (2).

(2) Yn achos gorchymyn—

(a) yn erbyn awdurdod lleol i lunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo lunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;

(b) yn erbyn corff llywodraethu SAB i lunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo lunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r person ifanc o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor;

(c) yn erbyn awdurdod lleol i ddiwygio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo ddiwygio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;

(d) yn erbyn corff llywodraethu SAB i ddiwygio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo

ddiwygio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r person ifanc o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor;

(e) i barhau i gynnal cynllun datblygu unigol (gyda diwygiadau neu hebddynt), gydag effaith ar unwaith;

(f) yn erbyn awdurdod lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol, gan ddechrau â'r dyddiad a bennir gan y tribiwnlys;

(g) yn erbyn awdurdod lleol i adolygu cynllun datblygu unigol, rhaid iddo gynnal yr adolygiad a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr adolygiad, yn ysgrifenedig, o fewn 7 wythnos;

(h) yn erbyn corff llywodraethu SAB i adolygu cynllun datblygu unigol, rhaid iddo gynnal yr adolygiad a hysbysu'r person ifanc am ganlyniad yr adolygiad, yn ysgrifenedig, o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor;

(i) i anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gweithredu gwahanol, rhaid i'r awdurdod lleol wneud hynny, a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr ailystyriaeth honno o fewn 7 wythnos;

(j) i anfon yr achos yn ôl i gorff llywodraethu'r SAB sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gweithredu gwahanol, rhaid i gorff llywodraethu'r SAB wneud hynny, a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr ailystyriaeth honno o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor.

(3) Os yw'r panel tribiwnlys, yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag apêl, yn gwneud gorchymyn o dan adran 73 o Ddeddf 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cartref gyflawni gweithred y cyfeirir ati ym mharagraff (4), rhaid i'r awdurdod cartref gyflawni'r weithred honno o fewn y cyfnod o amser a bennir ym mharagraff (4).

(4) Yn achos gorchymyn—

(a) i lunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo lunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;

(b) i ddiwygio cynllun datblygu unigol fel a bennir yn y gorchymyn, rhaid iddo

ddiwygio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;

(c) i anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod cartref sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gweithredu gwahanol, rhaid iddo wneud hynny a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr ailystyriaeth honno o fewn 7 wythnos.

(5) Ym mhob achos ym mharagraffau (2) a (4), oni phennir fel arall, mae'r cyfnod yn dechrau â'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl gwneud y gorchymyn.

(6) Pan fo gorchymyn wedi ei wneud mewn cysylltiad â chorff llywodraethu SAB, ystyr "diwrnod amser tymor" yw diwrnod y mae'r sefydliad addysg bellach i fod i gwrdd at ddiben addysgu myfyrwyr, ar yr amod bod y diwrnod hwnnw o fewn cyfnod o amser pan fo'r sefydliad addysg bellach yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyrsiau llawnamser.

*Plant nad oes ganddynt alluedd a chyfeillion achos*

**Ceisiadau o dan adran 70(3) o Ddeddf 2018 am ddatganiad o dan adran 71(2) o Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â galluedd plentyn i ddeall**

**59.**—(1) Rhaid i blentyn neu riant i blentyn sy'n ceisio datganiad o'r tribiwnlys yn unol ag adran 71(2) o Ddeddf 2018 gyflwyno cais yn ysgrifenedig i'r tribiwnlys.

(2) Rhaid i'r cais ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y person sy'n ceisio'r datganiad ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw;

(b) enw a dyddiad geni'r plentyn;

(c) enw a chyfeiriad ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol perthnasol;

(d) perthynas y ceisydd â'r plentyn;

(e) enw a chyfeiriad pob person—

(i) y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn, neu

(ii) sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn, neu

(iii) sy'n gofalu am y plentyn,

neu'r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau'r personau hynny;

(f) copi o benderfyniadau'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol o dan adran 84 o Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â galluedd y plentyn;

(g) y rheswm neu'r rhesymau dros wneud y cais;

(h) tystiolaeth ategol o alluedd y plentyn, neu dystiolaeth ategol nad oes ganddo alluedd, o fewn ystyr adran 85(1) o Ddeddf 2018;

(i) y datganiad a geisir.

(3) Pan fo'n ymddangos i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys bod angen gwybodaeth bellach cyn y gall datganiad gael ei wneud, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfarwyddo'r ceisydd i ddarparu'r wybodaeth honno.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad ynghylch unrhyw ddatganiad a wneir o dan adran 71(2) o Ddeddf 2018 i'r ceisydd, y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a, phan fo'n briodol, y rheini a restrir ym mharagraff (2)(e).

(5) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gofnodi'r penderfyniad ac unrhyw ddatganiad yn y Gofrestr.

**Pwy a gaiff fod yn gyfaill achos**

**60.** Ni chaiff person weithredu fel cyfaill achos ond os nad yw'r person hwnnw wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**).

**Sut y daw person yn gyfaill achos**

**61.**—(1) Rhaid i berson sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos gyflwyno cais yn ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.

(2) Rhaid i'r cais ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw;

(b) enw a dyddiad geni'r plentyn;

(c) enw a chyfeiriad ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol perthnasol;

(d) perthynas neu gysylltiad y person â'r plentyn;

(e) datganiad o addasrwydd sy'n cadarnhau bod y person yn bodloni'r amodau a'r gofynion a bennir yn y Rheoliadau hyn ac yn adran 85(6) o Ddeddf 2018;

(f) tystiolaeth ategol nad oes gan y plentyn alluedd o fewn ystyr adran 85(1) o Ddeddf 2018.

---

(**1**) O dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47), mae person wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant os yw enw'r person wedi ei gynnwys yn y rhestr yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno ("*the children's barred list*").

(3) Rhaid i’r cais gynnwys—

(a) safbwyntiau rhiant y plentyn mewn perthynas â dymuniad y person i weithredu fel y cyfaill achos, neu

(b) esboniad pam nad yw’r person wedi canfod safbwyntiau’r rhiant.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid cyflwyno tystysgrif datgeliad manylach a ddyroddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda’r datganiad addasrwydd.

(5) Nid yw’r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo’r person sy’n dymuno gweithredu fel y cyfaill achos yn rhiant, llys-riant, brawd, llysfrawd, hanner brawd, chwaer, llyschwaer, hanner chwaer, tad-cu/taid, mam-gu/nain, ewythr, modryb, nai neu nyth i’r plentyn.

(6) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—

(a) cofnodi ar gofrestr y Tribiwnlys rif y dystysgrif datgeliad manylach ynghyd â’r dyddiad dechrau a’r dyddiad dod i ben, a

(b) defnyddio’r gwasanaeth danfon cofnodedig i ddychwelyd y dystysgrif datgeliad manylach i’r person.

(7) Rhaid i dystiolaeth i gefnogi addasrwydd y person i weithredu fel cyfaill achos gael ei chyflwyno gyda’r cais.

(8) Rhaid i’r cais gael ei lofnodi gan y person sy’n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn.

(9) Rhaid i’r person sy’n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn gyflwyno copi o’r cais i—

(a) y partïon yn yr achos,

(b) rhiant y plentyn, ac

(c) ysgol y plentyn a’r awdurdod lleol.

**Camau mewn achosion**

**62.**—(1) Os yw’r Llywydd neu’r panel tribiwnlys yn ystod yr apêl neu’r hawliad yn gwneud canfyddiad nad oes gan blentyn sy’n apelydd neu’n hawlydd alluedd i ddeall o fewn ystyr adran 85(1) o Ddeddf 2018, ac y mae arno angen cyfaill achos i gynnal yr achos ar ei ran, ni chaiff unrhyw barti gymryd cam pellach yn yr apêl neu’r hawliad heb ganiatâd y Llywydd neu’r panel tribiwnlys, hyd nes y bydd ac oni fydd person sy’n dymuno gweithredu fel cyfaill achos yr apelydd neu’r hawlydd wedi cyflwyno cais i’r Tribiwnlys yn unol â rheoliad 61.

(2) Pan fo’r Llywydd neu’r panel tribiwnlys wedi gorchymyn bod person yn gyfaill achos, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o’r gorchymyn at y cyfaill achos, rhiant y plentyn ac i ysgol y plentyn a’r awdurdod lleol.

(3) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi gorchymyn bod person yn gyfaill achos, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau sy'n ymwneud â'r apêl neu'r hawliad at y cyfaill achos yn hytrach nag at yr apelydd neu'r hawlydd.

(4) Os yw paragraff (3) yn gymwys, rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau at yr apelydd neu'r hawlydd, neu at roi hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd, fel cyfeiriadau at anfon dogfennau at y cyfaill achos, neu at roi hysbysiad i'r cyfaill achos.

**Diswyddo cyfaill achos**

**63.**—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos drwy orchymyn yn unol ag adran 85(2)(b) o Ddeddf 2018 ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun neu ar gais, os yw wedi ei fodloni—

(a) nad yw'r person yn bodloni un neu ragor o'r amodau a nodir yn adran 85(6) o Ddeddf 2018, neu

(b) bod rheswm da arall yn bodoli.

(2) Rhaid i gais am orchymyn i ddiswyddo cyfaill achos gael ei gefnogi gan dystiolaeth.

(3) Pan fo gorchymyn wedi ei wneud o dan baragraff (1), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ohirio'r apêl neu'r hawliad hyd nes bod yr apelydd neu'r hawlydd wedi penodi cyfaill achos newydd.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad i'r partïon ynghylch unrhyw orchymyn a wneir o dan baragraff (1) gan ddatgan—

(a) nad yw'r person yn gweithredu mwyach fel cyfaill achos yr apelydd neu'r hawlydd, a

(b) pan fo person arall wedi ei roi yn ei le fel cyfaill achos, enw a chyfeiriad y cyfaill achos newydd ar gyfer cyflwyno hysbysiadau a dogfennau.

(5) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno copi o gyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (1) i—

(a) y person sydd wedi ei ddiswyddo fel y cyfaill achos,

(b) rhiant y plentyn, ac

(c) ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol.

**Cyrff GIG – Adroddiadau i'r Tribiwnlys**

**64.**—(1) Rhaid i gorff GIG y gwnaed argymhelliad iddo gan y Tribiwnlys lunio adroddiad i'r Tribiwnlys cyn diwedd 6 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad y gwneir yr argymhelliad.

(2) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r adroddiad at bob parti.

*Amrywiol*

**Estyn yr amser**

**65.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y Llywydd, ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd ei hun, gyfarwyddo bod cyfnod o amser yn y Rheoliadau hyn neu mewn cyfarwyddyd a wneir odanynt, yn cael ei estyn.

(2) Ni chaiff y Llywydd estyn cyfnod o amser yn unol â pharagraff (1) ond os yw'r Llywydd yn ystyried ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny.

(3) Caiff y Llywydd estyn cyfnod o amser yn ôl unrhyw gyfnod y mae'r Llywydd yn meddwl ei fod yn addas.

(4) Pan fo'r Llywydd wedi estyn cyfnod o amser, rhaid dehongli cyfeiriad at y cyfnod hwnnw o amser yn y Rheoliadau hyn, neu mewn cyfarwyddyd a wneir odanynt, fel pe bai'n gyfeiriad at y cyfnod o amser a estynnwyd felly.

**Tynnu'n ôl**

**66.** Caiff person dynnu apêl neu hawliad yn ôl—

(a) drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg cyn gwrandawiad, neu

(b) ar lafar mewn gwrandawiad.

**Gorchmynion ar gyfer costau a threuliau**

**67.**—(1) Fel rheol, ni chaiff y Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos wneud gorchymyn mewn cysylltiad â chostau a threuliau, ond, yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff wneud gorchymyn o'r fath—

(a) yn erbyn parti os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd o'r farn bod y parti wedi bod yn gyfrifol am weithred neu anweithred amhriodol, afresymol neu esgeulus, neu am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd, neu am unrhyw oedi y gellid, gyda diwydrwydd, fod wedi ei osgoi, neu fod ymddygiad y parti, wrth wneud neu wrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, yn afresymol;

(b) yn erbyn cynrychiolydd os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd o'r farn bod y cynrychiolydd yn gyfrifol am weithred neu anweithred amhriodol, afresymol neu esgeulus, neu am unrhyw fethiant i gydymffurfio â

chyfarwyddyd, neu am unrhyw oedi y gellid, gyda diwydrwydd, fod wedi ei osgoi;

(c) yn erbyn parti sydd wedi methu â bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn gwrandawiad yr hysbyswyd y parti hwnnw amdano yn briodol;

(d) yn erbyn yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol pan na fo wedi cyflwyno datganiad achos o dan reoliad 19;

(e) yn erbyn yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol pan fo'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn ystyried bod y penderfyniad a herir yn afresymol.

(2) Caniateir gwneud unrhyw orchymyn mewn cysylltiad â chostau a threuliau—

(a) mewn perthynas ag unrhyw gostau a threuliau yr eir iddynt, neu unrhyw lwfansau a delir, neu

(b) mewn perthynas â'r cyfan, neu unrhyw ran, o unrhyw lwfans (ac eithrio lwfansau a delir i aelodau o'r Tribiwnlys) a delir gan Weinidogion Cymru i unrhyw berson at ddibenion presenoldeb person mewn gwrandawiad Tribiwnlys neu mewn cysylltiad â'r presenoldeb hwnnw.

(3) Caniateir gwneud gorchymyn ar gyfer costau ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun.

(4) Rhaid i barti sy'n gwneud cais am orchymyn o dan baragraff (3)—

(a) cyflwyno cais ysgrifenedig a rhestr o'r costau a hawlir i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a

(b) cyflwyno copi o'r cais a'r rhestr o gostau i'r person y bwriedir gwneud y gorchymyn yn ei erbyn.

(5) Caniateir gwneud cais am orchymyn o dan baragraff (3) ar unrhyw adeg yn ystod yr apêl neu'r hawliad ond ni chaniateir ei wneud yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad—

(a) pan ddyroddodd y panel tribiwnlys yr hysbysiad o benderfyniad a oedd yn cofnodi'r penderfyniad a oedd yn penderfynu'n derfynol ar yr holl faterion yn yr apêl neu'r hawliad,

(b) ar ôl tynnu'n ôl yr apêl neu'r hawliad, pan wnaeth y panel tribiwnlys orchymyn a oedd yn gwrthod yr apêl neu'r hawliad, neu

(c) yn dilyn ildiad yr awdurdod lleol i'r apêl, pan ddyroddodd y panel tribiwnlys yr hysbysiad o benderfyniad.

(6) Yn achos cais am orchymyn o dan baragraff (3)—

(a) rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd ei wrthod os yw parti yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried mater sydd y tu allan i'w bwerau;

(b) caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd ei wrthod yn gyfan gwbl neu'n rhannol os, ym marn y Llywydd neu'r Cadeirydd, nad oes siawns resymol i'r cais cyfan hwnnw neu'r rhan honno lwyddo.

(7) Oni wrthodir cais am orchymyn o dan baragraff (6), rhaid ei benderfynu ar ôl rhoi cyfle i'r parti a'r person y bwriedir gwneud y gorchymyn ei erbyn i gael eu clywed gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

(8) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (3), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddydau y mae rhaid cydymffurfio â hwy cyn neu yn ystod y gwrandawiad costau.

(9) Os yw parti yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan baragraff (8), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd ystyried y ffaith honno wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn ar gyfer costau.

(10) Caiff gorchymyn o dan baragraff (3) ei gwneud yn ofynnol i'r parti neu'r cynrychiolydd y gwneir y gorchymyn yn ei erbyn dalu i barti naill ai swm penodedig mewn cysylltiad â'r costau a'r treuliau y mae'r parti arall hwnnw yn mynd iddynt mewn cysylltiad â'r apêl neu'r hawliad, neu'r cyfan neu ran o'r costau hynny, fel y'u hasesir, os na chytunir arnynt fel arall.

(11) Rhaid i orchymyn o dan y rheoliad hwn ar gyfer asesu costau ganiatáu i'r llys sirol wneud asesiad manwl o gostau yn unol â Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998, naill ai ar y sail safonol neu, os pennir hynny yn y gorchymyn, ar sail indemniad.

**Pŵer i arfer swyddogaethau'r Llywydd a'r Cadeirydd**

**68.**—(1) Caiff Cadeirydd arfer unrhyw swyddogaeth y mae'n ofynnol i'r Llywydd ei harfer, neu yr awdurdodir y Llywydd i'w harfer, o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Pan, yn unol â pharagraff (1)—

(a) bo'n ofynnol i Gadeirydd ddewis Cadeirydd i banel tribiwnlys, caiff Cadeirydd ddewis ei hunan;

(b) bo Cadeirydd yn gwneud penderfyniad, mae rheoliadau 53 a 55 yn gymwys mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw fel pe baent yn cyfeirio at Gadeirydd yn lle'r Llywydd.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 73(6), os bydd farw'r Cadeirydd neu os â'n analluog, neu os yw'n peidio â bod yn aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol, yn dilyn penderfyniad o'r panel tribiwnlys, caiff y Llywydd neu Gadeirydd arall a benodir o'r panel cadeirydd cyfreithiol arfer swyddogaethau'r Cadeirydd.

### Pŵer i arfer swyddogaethau aelod o'r panel mewn perthynas ag adolygiad

**69.**—(1) Os bydd farw aelod o'r panel tribiwnlys ac eithrio'r Cadeirydd, neu os â'n analluog, neu os yw person yn peidio â bod yn aelod o'r panel lleyg, yn dilyn penderfyniad o'r panel tribiwnlys, caiff y ddau aelod arall o'r panel ymgymryd â swyddogaethau'r panel tribiwnlys mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o benderfyniad.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i banel tribiwnlys—

(a) a gyfansoddir o ddau aelod;

(b) yr awdurdodir unrhyw berson i weithredu yn lle'r Cadeirydd ynddo yn unol â rheoliad 68.

### Ysgrifennydd y Tribiwnlys

**70.** Caiff aelod arall o staff y Tribiwnlys a awdurdodir gan y Llywydd gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Ysgrifennydd y Tribiwnlys.

### Y Gofrestr

**71.**—(1) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gadw Cofrestr o'r apelau a'r hawliadau a gofrestrir gan y Tribiwnlys.

(2) Rhaid gwneud cofnod yn y Gofrestr o bob apêl a hawliad a gofrestrir, a rhaid i'r cofnod ym mhob achos gynnwys y manylion a ganlyn pan fo'n briodol—

(a) enwau a chyfeiriadau'r partïon,

(b) manylion cryno am natur yr apêl neu'r hawliad,

(c) dyddiad unrhyw wrandawiad, gan gynnwys unrhyw wrandawiad ar faterion rhagarweiniol neu gysylltiedig, a phan fo'n briodol, natur y gwrandawiad,

(d) manylion unrhyw gyfarwyddydau neu orchmynion a ddyroddir,

(e) y ddogfen y cofnodwyd penderfyniad y panel tribiwnlys ynddi o dan reoliad 52(3), ac

(f) a yw'r apêl neu'r hawliad wedi ei thynnu neu ei dynnu yn ôl.

(3) Caniateir cadw'r Gofrestr neu unrhyw ran ohoni ar ffurf electronig.

**Cyhoeddi**

**72.**—(1) Caiff y Llywydd wneud unrhyw drefniadau y mae'r Llywydd yn ystyried eu bod yn briodol ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau'r panel tribiwnlys.

(2) Caniateir cyhoeddi penderfyniadau yn electronig.

(3) Caniateir cyhoeddi penderfyniad ar ffurf sydd wedi ei golygu, neu'n ddarostyngedig i unrhyw ddileadau, pan fo'r Llywydd yn ystyried bod hynny'n briodol, ar ôl rhoi sylw i—

(a) yr angen i ddiogelu lles a buddiannau'r plentyn, y person ifanc, neu unrhyw berson arall,

(b) yr angen i barchu bywyd preifat unrhyw berson, neu

(c) unrhyw sylwadau ar y mater a ddarparwyd yn ysgrifenedig gan unrhyw berson i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi, o dan y trefniadau a wneir o dan baragraff (1).

(4) Rhaid cyhoeddi penderfyniad y panel tribiwnlys mewn modd a fydd yn sicrhau bod enw'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau'n anhysbys.

**Afreoleidd-dra**

**73.**—(1) Ni chaiff afreoleidd-dra, sy'n deillio o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, o gyfarwyddyd ymarfer(**1**), neu o unrhyw gyfarwyddyd gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys cyn i'r panel tribiwnlys wneud ei benderfyniad beri, ynddo'i hun, fod yr achos yn ddi-rym.

(2) Pan fo unrhyw afreoleidd-dra o'r fath yn dod i sylw'r panel tribiwnlys, caiff y panel tribiwnlys, os yw'n ystyried y gall unrhyw berson fod wedi ei ragfarnu gan yr afreoleidd-dra, roi unrhyw gyfarwyddydau y mae'n meddwl eu bod yn gyfiawn, cyn gwneud ei benderfyniad i gywiro'r afreoleidd-dra.

(3) Caiff y Cadeirydd neu'r Llywydd (yn ôl y digwydd), ar unrhyw adeg, gywiro camgymeriadau clercol mewn unrhyw ddogfen sy'n cofnodi cyfarwyddyd neu benderfyniad y panel tribiwnlys neu gyfarwyddyd neu benderfyniad y Llywydd a luniwyd gan neu ar ran y Tribiwnlys, neu wallau mewn dogfennau o'r fath a achoswyd gan lithriadau neu hepgoriadau damweiniol, drwy gyfrwng tystysgrif a lofnodir gan y Cadeirydd neu'r Llywydd.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, anfon copi at bob parti o unrhyw

---

(**1**) Gweler adran 61(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) am bwerau i wneud cyfarwyddydau ymarfer.

ddogfen gywiredig sy’n cynnwys rhesymau dros benderfyniad y panel tribiwnlys.

(5) Pan fo person wedi penodi cynrychiolydd yn unol â rheoliad 16, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys (er gwaethaf rheoliad 13(11)(a)) anfon copi o’r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (4) at y person yn ogystal ag at y cynrychiolydd.

(6) Pan fo’r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cadeirydd lofnodi dogfen, ond na all y Cadeirydd wneud hynny oherwydd marwolaeth neu analluedd, rhaid i aelodau eraill y panel tribiwnlys lofnodi’r ddogfen ac ardystio na all y Cadeirydd ei llofnodi.

**Profi dogfennau ac ardystio penderfyniadau**

**74.**—(1) Mae dogfen sy’n honni bod yn ddogfen a ddyroddwyd gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar ran y Llywydd neu’r panel tribiwnlys, oni phrofir i’r gwrthwyneb, i’w hystyried yn ddogfen a ddyroddwyd felly.

(2) Mae dogfen sy’n honni ei bod wedi ei hardystio gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys fel copi gwir o ddogfen sy’n cynnwys penderfyniad y panel tribiwnlys, oni phrofir i’r gwrthwyneb, yn dystiolaeth ddigonol o gynnwys y ddogfen honno.

**Y dull o anfon, rhoi neu gyflwyno hysbysiadau a dogfennau**

**75.**—(1) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig, a rhaid i barti y mae’r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys am fater, wneud hynny yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i hysbysiadau a dogfennau i’w darparu o dan y Rheoliadau hyn gael—

(a) eu hanfon drwy’r post rhagdaledig at Ysgrifennydd y Tribiwnlys neu eu danfon â llaw i swyddfa’r Tribiwnlys neu i unrhyw swyddfa arall y mae Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn hysbysu’r partïon amdani,

(b) eu hanfon drwy e-bost i’r cyfeiriad a bennir ar gyfer y Tribiwnlys, neu

(c) eu hanfon neu eu danfon drwy unrhyw ddull arall a ganiateir neu a gyfarwyddir gan y Tribiwnlys.

(3) Ni chaiff parti sy’n anfon hysbysiad neu ddogfen i’r Tribiwnlys drwy e-bost drin yr hysbysiad neu’r ddogfen fel pe bai wedi ei ddanfon neu ei danfon oni cheir cydnabyddiaeth o hynny gan y Tribiwnlys.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), os yw parti yn darparu cyfeiriad e-bost neu fanylion eraill ar gyfer cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau iddo, rhaid i’r

parti hwnnw dderbyn danfon dogfennau ato drwy'r dull hwnnw.

(5) Os yw parti yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys ac i'r parti arall na chaniateir defnyddio dull cyfathrebu penodol, ac eithrio'r post rhagdaledig neu ddanfon â llaw, i ddarparu dogfennau i'r parti hwnnw, ni chaniateir defnyddio'r dull cyfathrebu hwnnw.

(6) Os yw'r Tribiwnlys neu barti yn anfon dogfen at barti neu i'r Tribiwnlys drwy e-bost neu unrhyw ddull cyfathrebu electronig arall, caiff y derbynnydd ofyn i'r anfonwr ddarparu copi caled o'r ddogfen i'r derbynnydd. Rhaid i'r derbynnydd wneud cais o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael y ddogfen yn electronig.

(7) Caiff y Tribiwnlys a phob parti gymryd mai'r cyfeiriad a ddarperir gan barti neu gynrychiolydd yw'r cyfeiriad y mae rhaid anfon neu ddanfon dogfennau iddo, ac y bydd yn parhau felly, oni chânt hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb.

(8) Caniateir i'r hysbysiadau a'r dogfennau y mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi'r Llywydd, y panel tribiwnlys neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys i'w hanfon, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo anfon, gael eu hanfon (yn ddarostyngedig i baragraff (10)), naill ai drwy'r post dosbarth cyntaf neu e-bost, neu drwy eu danfon—

(a) yn achos parti—

(i) i gyfeiriad y parti hwnnw ar gyfer cyflwyno a bennir yn y cais apelio neu'r cais hawlio neu mewn ateb ysgrifenedig neu mewn hysbysiad o dan baragraff (9), neu

(ii) os nad oes cyfeiriad ar gyfer cyflwyno wedi ei bennu felly, i'r cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys ar gyfer y parti hwnnw, a

(b) yn achos unrhyw berson arall, i breswylfa neu fan busnes y person hwnnw, neu, os yw'r person yn gorfforaeth, i swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r gorfforaeth.

(9) Caiff parti, ar unrhyw adeg, drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid cyfeiriad y parti hwnnw ar gyfer cyflwyno o dan y Rheoliadau hyn.

(10) Rhaid defnyddio'r gwasanaeth danfon cofnodedig yn lle'r post dosbarth cyntaf i gyflwyno gwŷs a ddyroddir o dan reoliad 45, sy'n gwneud presenoldeb tyst yn ofynnol.

(11) Rhaid cymryd bod hysbysiad neu ddogfen a anfonwyd gan y Tribiwnlys drwy'r post dosbarth cyntaf yn unol â'r Rheoliadau hyn, ac nas dychwelwyd i'r Tribiwnlys, wedi ei gael neu ei chael gan y derbynnydd ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio, oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

(12) Rhaid tybio, oni ddangosir i'r gwrthwyneb, mai'r dyddiad a ddangosir yn y marc post ar yr amlen sy'n cynnwys yr hysbysiad neu'r ddogfen yw'r dyddiad postio.

(13) Rhaid cymryd bod hysbysiad neu ddogfen a anfonir gan y Tribiwnlys at barti drwy ddefnyddio e-bost wedi ei ddanfon neu ei danfon pan geir yr hysbysiad neu'r ddogfen ar ffurf ddarllenadwy.

(14) Pan na ellir, am unrhyw reswm digonol, gyflwyno unrhyw ddogfen neu hysbysiad yn y dull a ragnodir o dan y rheoliad hwn, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys hepgor y cyflwyno, neu wneud gorchymyn ar gyfer cyflwyno mewn unrhyw ddull arall y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn barnu ei fod yn briodol, a rhaid bod cyflwyno yn y dull arall hwnnw yn cael yr un effaith â chyflwyno yn y dull a ragnodir o dan y rheoliad hwn.

**Cyfrifo amser**

**76.**—(1) Rhaid i weithred y mae'r Rheoliadau hyn, cyfarwyddyd ymarfer neu gyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei gwneud ar ddiwrnod penodol neu erbyn diwrnod penodol gael ei gwneud erbyn 5pm ar y diwrnod hwnnw.

(2) Os yw'r amser a bennir gan y Rheoliadau hyn, gan gyfarwyddyd ymarfer neu gan gyfarwyddyd ar gyfer gwneud unrhyw weithred yn gorffen ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, mae'r weithred wedi ei gwneud mewn pryd os yw wedi ei gwneud ar y diwrnod gwaith canlynol.

(3) Os yw'r amser ar gyfer cychwyn achos drwy ddarparu'r cais apelio neu'r cais hawlio i'r Tribiwnlys o dan reoliad 10 yn gorffen ar ddiwrnod yn y cyfnod sy'n dechrau â 25 Rhagfyr ac sy'n dod i ben ag 1 Ionawr, neu ar unrhyw ddiwrnod ym mis Awst—

(a) mae'r cais apelio neu'r cais hawlio wedi ei ddarparu mewn pryd os yw'r Tribiwnlys yn ei gael ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl 1 Ionawr neu 31 Awst, fel y bo'n briodol, a

(b) ni chaniateir cynnwys y diwrnodau yn y cyfnod sy'n dechrau â 25 Rhagfyr ac sy'n dod i ben ag 1 Ionawr nac unrhyw ddiwrnod ym mis Awst wrth gyfrifo'r amser erbyn pryd y mae rhaid gwneud unrhyw weithred arall.

(4) Nid yw paragraff (3)(b) yn gymwys pan fo'r Tribiwnlys yn cyfarwyddo bod rhaid i weithred gael ei gwneud erbyn dyddiad penodedig neu ar y dyddiad hwnnw.

**Llofnodi dogfennau**

**77.** Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfen gael ei llofnodi, mae'r gofyniad hwnnw wedi ei fodloni—

(a) os yw'r llofnod wedi ei ysgrifennu, neu

(b) yn achos dogfen a gyfathrebir yn electronig yn unol â'r Rheoliadau hyn, gan lofnod electronig y person y mae'n ofynnol iddo ei llofnodi.

*Enw*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

**Memorandwm Esboniadol i:**

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Y Rheoliadau canlynol;
    - Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
    - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
    - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021
    - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021
    - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021;
3. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021;
4. Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021;
5. Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021;
6. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg
2 Mawrth 2021

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘y Ddeddf’) yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc (“y system ADY”). Mae Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer nifer o faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY, er enghraifft rhagnodi cyfnodau o amser y bydd dyletswyddau penodol yn cael eu cyflawni oddi mewn iddynt er mwyn gweithredu'n effeithiol a nodi swyddogaethau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (“CADY”). Mae Cod drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (“y Cod”) hefyd yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach (“SABau”) yng Nghymru, awdurdodau lleol a chyrff y GIG sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY ac arfer swyddogaethau oddi tani. Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau i'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y system ADY, ynglŷn ag arfer y swyddogaethau hynny o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

1.2. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn parhau â Thribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ac yn ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru (“y Tribiwnlys”). Yn ogystal ag awdurdodaeth y Tribiwnlys a nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf, mae ganddo awdurdodaeth mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion (gweler adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno o ran darpariaeth ynglŷn â hyn). Mae Rheoliadau drafft Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y Tribiwnlys ac yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys.

1.3. Mae Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ddirprwyo'r swyddogaethau penodedig i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion. Y swyddogaethau penodedig yw swyddogaethau'r corff llywodraethu o dan y Ddeddf sydd, yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996, yn swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion.

1.4. Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru gynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl).

1.5. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Galluoedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yn addasu darpariaethau penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o dan amgylchiadau penodol. Mae'r addasiadau yn sicrhau y gall cynrychiolydd rhiant plentyn nad oes ganddo alluedd, neu gynrychiolydd person ifanc nad oes ganddo alluedd, gyflwyno hawliad ar ran yr unigolyn hwnnw o dan Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Gosodwyd y Cod drafft, y rheoliadau drafft a'r rheoliadau eraill gerbron ar 2 Mawrth 2021 fel un pecyn, a hynny er mwyn dangos y rhyngweithredu rhwng y darpariaethau yn y priod offerynnau.

2.2. Daeth adrannau'r Ddeddf sy'n cynnwys y dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol (adrannau 60 i 62) i rym ar 4 Ionawr. Daeth Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cy. 299) (“Rheoliadau CADY”) i rym ar y dyddiad hwnnw hefyd. Mae'r Rheoliadau hynny yn nodi'r cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen ar berson i gael ei ddynodi'n CADY a swyddogaethau'r CADY. Caiff y Rheoliadau hynny eu diddymu drwy Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan fod y darpariaethau yn y cyntaf wedi'u hailddeddfu yn yr olaf (gweler rheoliadau 26 i 30).

2.3. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn gwneud tri diwygiad i'r Ddeddf.

2.3.1. Mae Rheoliad 4 yn diwygio adran 88 o'r Ddeddf ynglŷn â'r rheolau ar hysbysu a dogfennau. Mae'r diwygiad yn darparu y bydd hysbysiad neu ddogfen a roddir yn electronig yn cael ei drin neu ei thrin fel un sydd wedi cael ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod y'i hanfonir. Mae hyn yn adlewyrchu'r rheol yn adran 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, nad yw'n gymwys i'r Ddeddf.

2.3.2. Mae Rheoliad 19 yn diwygio adran 44 o'r Ddeddf i ddarparu bod dyletswyddau cyrff y GIG o dan adran 20(5)(a) ac (c) o'r Ddeddf ynglŷn â sicrhau triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i berson a gedwir yn gaeth yn peidio â bod yn gymwys o ddechrau cyfnod cadw'r person dan sylw. Yn y sefyllfa hon, mae ar awdurdod cartref y person a gedwir yn gaeth ddyletswydd eisoes o dan adran 42 o'r Ddeddf i drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ac mae'r ddyletswydd honno yn addas i ymdrin â sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth. Efallai na fydd corff y GIG yn gallu sicrhau triniaeth na gwasanaeth perthnasol yn ymarferol i berson a gedwir yn gaeth (yn enwedig gan na fyddai'n gyfrifol o bosibl am ddarparu gwasanaethau iechyd i'r

person a gedwir yn gaeth yn ystod y cyfnod cadw) neu nad yw'r driniaeth na'r gwasanaeth perthnasol yn briodol o bosibl mwyach.

2.3.3. Mae Rheoliad 33 yn diwygio adran 68 o'r Ddeddf i ddarparu, at ddibenion dyletswyddau awdurdod lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol, fod awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am bobl a gedwir yn gaeth y mae'n awdurdod cartref iddynt. Mae'n briodol i drefniadau'r awdurdod cartref fod yn gymwys mewn perthynas â phobl a gedwir yn gaeth, gan mai'r awdurdod sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â nhw a'i bod yn osgoi unrhyw anawsterau o ran cadarnhau pa awdurdod lleol fyddai fel arall yn gyfrifol (o ystyried mai sail y prawf ar gyfer cyfrifoldeb yw bod person o fewn ardal awdurdod lleol, sy'n anodd ei chadarnhau mewn sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth).

2.4. Fel yr esbonnir mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cod drafft yn gosod gofynion. Mae Pennod 1 o'r Cod drafft yn esbonio sut y nodir y gofynion hynny yn y Cod.

2.5. Bwriedir rhoi'r system ADY ar waith mewn camau o 1 Medi 2021 (gweler paragraff 3.7 isod). Dyna'r rheswm pam nad yw'r rheoliadau yn diddymu'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn sefydlu'r system ADY. Wrth ei gwraidd, mae'r system yn golygu mai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a SABau ac awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blant neu bobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol ac os felly, nhw fydd yn gyfrifol am baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (‘CDU’) iddynt. Mae CDU yn nodi anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae dyletswyddau i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a phethau penodol eraill, a nodir mewn CDU. Mae'r system ADY yn darparu bod gan blant, eu rhieni a phobl ifanc yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn â materion penodol sy'n gysylltiedig ag adnabod eu hanghenion a'r ddarpariaeth i'w diwallu.

3.2. Bydd y system ADY yn disodli'r system o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig (‘AAA’), eu hasesu a darparu ar eu cyfer.

3.3. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 (O.S. 2020/Cy. 267) amrywiol bwerau yn y Ddeddf, sef darpariaethau i arfer pwerau ynddynt a darpariaethau cysylltiedig. Cychwynnodd hefyd adrannau 60 i 62 sy'n cynnwys dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol a darpariaethau sy'n ymwneud â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu sefydlu. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cyf. 303) yn darparu ynghylch y rhestr honno a cheisiadau gan ysgolion i gael eu cynnwys ynddi.

3.4. O dan adran 4 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar anghenion dysgu ychwanegol. Gall y cod osod gofynion ynghylch materion penodol (a nodir yn adran 4(5) o'r Ddeddf) ac mae'n ofynnol iddo gynnwys y gofynion penodol a ddisgrifir yn adran 4(6) o'r Ddeddf. Gall hefyd wneud darpariaeth sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r dyletswyddau yn adrannau 7(1) ac 8(1) o'r Ddeddf ynghylch awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn rhoi sylw i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

3.5. Gall y Cod gynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol (adran 4(2) o'r Ddeddf). Mae'n rhaid cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaeth corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu SAB i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgybl neu fyfyriwr yn cael ei chynnig a bod cynllun datblygu unigol yn cael ei baratoi ar gyfer y disgybl neu'r myfyriwr (adran 47(3) o'r Ddeddf).

3.6. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi amrywiol bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ategu'r swyddogaethau yn y Ddeddf.

3.7. Mae pob set o'r rheoliadau yn darparu y byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2021. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo dwyn y Cod i rym, bydd yn rhaid gwneud gorchymyn cychwyn (adran 5(4) o'r Ddeddf). Y bwriad yw y daw'r Cod i rym hefyd ar 1 Medi 2021. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021.

3.8. Bwriedir cyhoeddi'r Cod drafft o dan y pwerau yn adran 4 o'r Ddeddf (yn ogystal â chynnwys darpariaeth a wneir o dan adrannau 7(4) ac 8(4) o'r Ddeddf a'r canllawiau sy'n ofynnol o dan adran 47(3) o'r Ddeddf). Nodir y weithdrefn ar gyfer ei baratoi o dan adran 5 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ar god drafft â phobl benodol (gweler isod am fanylion yr ymgynghoriad ) ac na ellir ei gyhoeddi oni bai bod drafft ohono (a all fod yn ddrafft wedi'i addasu yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw) wedi cael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

3.9. Bwriedir gwneud Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 o dan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o'r Ddeddf).

3.10. Bwriedir gwneud Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 o dan adrannau 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o'r Ddeddf ac adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraffau 6(1), (2) i (5) a (7) a 6A o Atodlen 17 iddi. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o Ddeddf 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.11. Bwriedir gwneud Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraff 6F o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.12. Bwriedir gwneud Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 210(4) o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y darpariaethau hynny i Weinidogion Cymru

yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.13. Gwneir Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 569(1), (4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 15 i Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 569(2) a (2C) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

4.1. Diben y system ADY, gan gynnwys y Cod a'r rheoliadau o dan y pwerau yn y Ddeddf, yw creu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ysbrydoli, ei gymell a'i gefnogi i gyrraedd ei botensial llawn.

4.2. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf a materion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n disgrifio ac yn esbonio llawer o'r swyddogaethau yn y Ddeddf a rhai o'r darpariaethau yn y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae'r Cod ei hun hefyd yn gosod gofynion, yn unol ag adrannau 4(5) a (6), 7 ac 8 o'r Ddeddf. Mae canllawiau statudol y Cod yn cynnwys canllawiau ar y gofynion hynny. Mae'r canllawiau yn helpu i roi'r system ADY ar waith ymhellach.

4.3. Diben llawer o'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a'r gofynion a osodwyd gan y Cod, yw darparu'r manylion angenrheidiol neu ddymunol am y system ADY er mwyn ategu'r darpariaethau yn y Ddeddf, er enghraifft pennu terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf, darpariaethau sy'n effeithio ar benderfyniadau ynghylch pryd y bydd angen CDU a darparu bod hawl rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cael ei harfer gan gynrychiolydd os nad oes gan y rhiant/person ifanc alluedd. Yr effaith fwriadedig yw y gall y system ADY weithredu'n effeithiol.

4.4. Hefyd, y bwriad yw mai'r Cod ADY fydd y brif ddogfen a ddefnyddir gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno'r system ADY, yn enwedig awdurdodau lleol a staff ysgolion a gynhelir a SABau. Llawlyfr gweithredu ydyw i bob diben, gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi manylion am y swyddogaethau sy'n rhan o'r system ADY ac yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut i'w harfer o dan y gwahanol amgylchiadau lle mae angen eu harfer.

4.5. Mae'r Cod yn ei gyfanrwydd yn esbonio gofynion gweithredol y system ADY.

4.6. Felly, mae'r Cod wedi cael ei gynllunio i ganiatáu i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf weld y canllawiau statudol sy'n gymwys i'w cyfrifoldebau unigol o dan y Ddeddf a deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol.

4.7. Felly, mae cynnwys a fformat y Cod yn canolbwyntio ar esbonio swyddogaethau cyfreithiol a chanllawiau ynglŷn â sut i'w harfer, yn hytrach na rhoi astudiaethau achos o arferion da. Y bwriad yw y bydd gweithwyr proffesiynol (megis Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar, CADY mewn ysgol a gynhelir neu SAB, neu swyddog awdurdod lleol) yn gallu deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol, a gweithredu i gydymffurfio â'r

dyletswyddau o dan y system ADY mewn ffordd sy'n briodol i'r amgylchiadau a rhoi'r egwyddorion sy'n sail i'r system ADY ar waith.

4.8. Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ymwneud ag apeliadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas â disgyblion ysgol. Diben y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer rheolau trefniadaeth sy'n caniatáu i weithrediadau'r Tribiwnlys gael eu cynnal mewn ffordd briodol ac effeithiol. Yr effaith fwriadedig yw y bydd apeliadau a hawliadau ger bron y Tribiwnlys yn cael eu trin yn gyfiawn.

4.9. Diben Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau awdurdod lleol i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Yr effaith fwriadedig yw bod pwyllgorau rheoli yn arfer swyddogaethau corff llywodraethu o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion.

4.10. Diben Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw diwygio, fel sy'n ofynnol o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i diwygiwyd gan adran 54(3) o'r Ddeddf), Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 felly bydd ceisiadau i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl). Yr effaith fwriadedig yw y bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei chynnwys ar y gofrestr (gweler adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd gan adran 54 o'r Ddeddf) ac felly bydd y wybodaeth ar gael i awdurdodau lleol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

4.11. Diben Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yw addasu cyfeiriadau at rieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol ym mharagraff 3A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pan nad oes gan riant/person ifanc alluedd meddyliol (o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005) ar adeg pan fydd yn gallu gweithredu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyfeiriadau at riant/person ifanc ym mharagraff 3A, sy'n rhoi'r hawl i unigolion penodol gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael eu haddasu i ddarllen fel cyfeiriadau at ei gynrychiolydd. Yr effaith fwriadedig yw y gall rhieni neu bobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol, drwy eu cynrychiolydd, arfer yr un hawl i gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 â'r rhai sydd â galluedd.

## 5. Ymgynghori

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros ddeuddeg wythnos rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019 ar y canlynol:

- y Cod ADY drafft;
- rheoliadau drafft sy'n ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru a chydlynwyr ADY a'r bwriad polisi i arfer pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf;
- diwygiadau i God Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya.

5.2. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- y brif ddogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys 65 o gwestiynau a oedd yn cwmpasu'r materion uchod;
- fersiwn o'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen a oedd yn cynnwys 15 o gwestiynau ar agweddau ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig;
- dau ddigwyddiad ymgynghori hanner diwrnod ym mhob un o ardaloedd y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru;
- cyfres o sesiynau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni y daeth 228 o bobl iddynt.

5.3. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion ar 14 Mehefin 2019 a gellir ei weld yn:

https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft

5.4. Fel y nododd yr adroddiad hwnnw, mae'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn ymdrin ag amrywiaeth eang iawn o bynciau gwahanol ac felly roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amrywiol iawn eu cwmpas, gan gynnwys cryn nifer o safbwyntiau amrywiol a ffocws gwahanol iawn.

5.5. Ar y cyfan, roedd ymateb y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gadarnhaol. Cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion beirniadol i faterion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- y diffiniad o ADY a sut i'w hadnabod;
- y terfynau amser y mae'n rhaid cyflawni dyletswyddau yn unol â nhw;
- rolau'r CADY, y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (‘SACDA’) a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal;

- trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau, gwasanaethau eirioli ac apeliadau;
- dirprwyo dyletswyddau i unedau cyfeirio disgyblion;
- templedi ar gyfer cynlluniau datblygu unigol (‘CDUau’)
- darparu CDUau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn mynychu lleoliad addysg;
- y system ADY fel y bydd yn gymwys i bobl a gedwir yn gaeth.

5.6. Mae'n werth nodi bod y sylwadau gan ymatebwyr yn tueddu i gael eu cyflwyno gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu agweddau penodol ar y Cod ADY drafft yn fawr iawn, neu a oedd yn ansicr ynglŷn ag agweddau ar y polisïau hynny. Roedd hyn yn wir hefyd o ran y sylwadau ar faterion penodol, hyd yn oed pan oedd y cwestiynau ar y materion hynny yn yr ymgynghoriad wedi cael ymateb cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys cryn nifer o ddiwygiadau technegol awgrymedig i'r Cod ADY.

5.7. Mynegodd ymatebwyr bryder ynglŷn â'r amrywiol dermau sy'n ymddangos yn y Cod ADY drafft. Bu rhai yn galw am ganllawiau ar ystyr termau penodol hefyd. Wrth ystyried y pwyntiau hynny ymhellach, rydym wedi ystyried a fyddai ymhelaethu ar y termau yn werthfawr neu a oes risg y byddai hynny'n culhau neu'n ehangu ystyr y term a'r cyfyngiadau a bennir gan y Ddeddf a hynny'n anfwriadol.

5.8. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn amau amrywiol agweddau ar eiriad y diffiniadau o ADY a DDdY. Nodir y diffiniadau hyn yn y Ddeddf ac ni all y Cod ADY eu newid. Mae geiriad y diffiniadau o ADY a DDdY a ddefnyddir yn y Ddeddf, a ailadroddir yn y Cod ADY drafft, yn debyg yn fwriadol i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r diffiniadau o AAA a darpariaeth addysgol arbennig, y bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn gyfarwydd â nhw.

5.9. Roedd ymatebwyr hefyd yn amau elfennau eraill o'r system a osodwyd yn y Ddeddf. Er enghraifft, roedd rhai yn anghytuno â'r egwyddor mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau i blant sy'n derbyn gofal. Roedd eraill yn galw am greu gofynion newydd nad yw'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, megis ei gwneud yn ofynnol i bartïon gymryd rhan mewn proses datrys anghytundeb cyn y gallant gyflwyno apêl, neu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys. Mae'n rhaid i'r Cod ADY a'r rheoliadau fod yn gyson â'r Ddeddf ac ni allant ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson wneud rhywbeth nad yw'r Ddeddf yn darparu pŵer yn ei gylch.

5.10. Yn yr un modd, bu cryn nifer yn galw am droi llawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft yn “rhaid”. Mae'r amrywiaeth o bethau y mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i wneud gofynion gorfodol yn eu cylch wedi'i gyfyngu gan y Ddeddf. Hyd yn oed pan fydd y Ddeddf yn rhoi pŵer o'r fath, mae'r cwestiwn yn codi ai gofyniad gorfodol (“rhaid”) ynteu canllawiau statudol (“dylid”) sydd fwyaf priodol. Un ystyriaeth bwysig yw a allai adegau godi pan fyddai modd cyfiawnhau achos o

beidio â chydymffurfio ac os felly, a fyddai'n well ymdrin â'r rhain drwy nodi eithriadau penodol i ofyniad gorfodol neu drwy wneud y mater yn un ar gyfer canllawiau statudol, sy'n caniatáu i'r person gyfiawnhau amrywiad ar sail achosion unigol.

5.11. Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd bryder am arddull yr iaith a ddefnyddiwyd yn y Cod ADY drafft. Gan y bydd y Cod ADY yn gosod gofynion gorfodol o dan y gyfraith, mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny. Yn yr un modd, mae angen i'r canllawiau yn y Cod fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny fel y gall y rhai y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt, ddeall yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud hynny. O ganlyniad, mae'r iaith yn eithaf ffurfiol mewn mannau, ond lle y gall fod yn anodd ei dilyn weithiau, rhoddwyd enghreifftiau i egluro'r ystyr. Mae'n bwysig nodi hefyd y bwriedir i'r Cod ADY fod yn ddogfen i'w darllen a'i defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, fel y'u rhestrwyd ym Mhennod 1 o'r Cod ADY drafft yn bennaf. Nid yw'r Cod ADY drafft wedi cael ei lunio i fod yn ddealladwy i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol gan nad y cyhoedd yw cynulleidfa arfaethedig y Cod ADY. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan y Ddeddf wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y system ADY.

5.12. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r Cod ADY drafft yn dweud fawr ddim am alluedd meddyliol mewn perthynas â phobl ifanc a rhieni. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn y Cod ADY drafft. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn Whitehall i sicrhau bod Cod Ymarfer ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn ystyried y Ddeddf ADY a'i Chod a'i rheoliadau.

5.13. Cododd rhai ymatebwyr faterion ynglŷn â darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu. Fel y crybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn sydd wedi'i dargedu hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith pellach ar ddiwygio'r Mesur, a bwriedir ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Yn y cyfamser, mae adran nad yw'n orfodol ar gludiant wedi'i chynnwys yn y templed ar gyfer CDUau, a roddir yn yr Atodiad î'r Cod.

5.14. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r Cod gynnwys canllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodwyd mewn canllawiau statudol eraill. Mae'r Ddeddf yn nodi'r glir bod yn rhaid i'r canllawiau y gall y Cod eu cynnwys ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, felly,

nid yw'n briodol i'r Cod roi canllawiau ar faterion eraill, ond lle y bo'n briodol, cyfeirir at feysydd a chanllawiau cyfreithiol perthnasol eraill.

5.15. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhoi'r system ADY newydd ar waith yn cael effaith ariannol sylweddol. Cafodd goblygiadau ariannol y Ddeddf eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil. Yn benodol, craffwyd yn fanwl iawn ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys pleidlais ohiriedig ar gynnig y penderfyniad ariannol tra bod gwaith dadansoddi annibynnol pellach yn cael ei wneud. Ystyriwyd y gwaith dadansoddi hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn derbyn y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r mater hwn.

5.16. Er mwyn cydnabod costau symud o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r system ADY newydd, darperir cyllid grant ar sail ranbarthol i'w rhoi ar waith, sydd wedi'i gydgysylltu gan Swyddogion Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol, er mwyn cyflwyno hyfforddiant a datblygiad proffesiynol rhanbarthol, amlasiantaethol ar y fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yr hyfforddiant yn targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd (gan gynnwys rolau CADY a SACDA) er mwyn sicrhau y caiff y system ADY newydd ei rhoi ar waith yn effeithiol.

5.17. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu system electronig i gefnogi proses y CDU. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac rydym wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu cychwynnol i gadarnhau dichonoldeb a phriodoldeb datblygu system ar-lein i Gymru gyfan.

5.18. Yn olaf, cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynglŷn â gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wella gallu'r gweithlu arbenigol.

5.19. Ymdrinnir â'r newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r diwygiadau arfaethedig i God Ymarfer Rhan 6 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya ar wahân ac felly nid ymdrinnir â nhw yma.

<u>Ymgynghoriad ar Gynrychiolwyr Pobl Ifanc, a Rhieni Plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol</u>

5.20. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gynigion ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol rhwng 3 Medi i 29 Hydref 2020.

5.21. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad yn cynnwys fersiwn ddrafft o Bennod 31 o'r Cod ADY (Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol) a “Rheoliadau drafft pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol 2020”.

5.22. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd y rheoliadau drafft hynny eu hymgorffori, gyda diwygiadau, yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 fel Rhan 4.

5.23. Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 22 Ionawr 2021 a gellir ei weld yma https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-a-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol-crynodeb-or-ymatebion.pdf

Newidiadau i'r Cod drafft yn dilyn y ddau ymgynghoriad

5.24. Daeth cryn nifer o sylwadau i law, a oedd yn cwmpasu bron pob agwedd ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus pa newidiadau i'w gwneud yng ngoleuni sylwadau'r ymatebwyr. Esbonnir y newidiadau hyn, a'r rhesymau drostynt, yn y tabl canlynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailstrwythuro'r Cod drafft i wella ei strwythur a'i ddarllenadwyedd, gan gynnwys cyflwyno rhai penodau newydd. Dilëwyd y siartiau llif am ein bod yn gweld y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol a bod risg y gallai'r siartiau llif dynnu sylw oddi wrth y testun cyfreithiol.

| Pennod Newydd | Hen Bennod | Yr hyn sydd wedi newid |
|---|---|---|
| 1 – Cyflwyniad | 1 | Cafodd y cyflwyniad ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i gynnwys y Cod (megis penodau newydd) a'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Cafodd ei symleiddio i wneud y Cod yn haws i'w ddarllen.<br><br>Ceir hefyd esboniadau manylach o'r ffordd y dylid dehongli gofynion a osodir gan y Cod a'r disgrifiadau o ofynion yn y Ddeddf neu'r rheoliadau (er enghraifft mewn perthynas ag achosion lle mae gan blentyn gyfaill achos neu lle nad oes gan riant plentyn/person ifanc alluedd). |
| 2 – Y diffiniad o ADY a DDdY | 7 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei chreu o ran gyntaf yr hen bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. (Mae'r ail ran wedi creu Pennod 20.) Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; symudwyd y bennod tuag |

| | | |
|---|---|---|
| | | at ddechrau'r Cod, a diwygiwyd y strwythur a'r cynnwys i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder mewn perthynas â'r diffiniadau o ADY a DDdY a'r ffordd y maent yn cael eu cymhwyso yn y system ADY. |
| 3 – Egwyddorion y Cod | 2 | Cafodd y bennod hon ei chwtogi'n sylweddol a'i symleiddio er mwyn tynnu sylw at egwyddorion y Cod, heb roi enghreifftiau helaeth a all fod wedi tynnu sylw oddi wrth ei neges allweddol. |
| 4 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc | 3 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi rhagor o ganllawiau a bod yn fwy eglur mewn rhannau penodol. Yn benodol, mae llawer mwy o ganllawiau statudol ynghylch cydsyniad pobl ifanc. |
| 5 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG o ran CCUHP a CCUHPA | 4 | Dim ond mân newidiadau a wnaed i'r bennod hon; nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol. |
| 6 - Cyngor a Gwybodaeth | 6 | Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r bennod hon, a hynny er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn mannau eraill yn y Cod a gwneud rhai rhannau yn fwy eglur. Mae un darn o'r canllawiau statudol yn ofyniad bellach ac mae ychydig mwy o ganllawiau statudol. |
| 7 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol | 5 | Cafodd Pennod 7 (sef Pennod 5 yn y fersiwn a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad) ei symleiddio, a chafodd diwygiadau penodol eu gwneud er mwyn gwneud materion mewn rhai meysydd yn fwy eglur. Cafodd newidiadau eraill eu gwneud i sicrhau bod y bennod yn gyson â'r newidiadau a wnaed mewn mannau eraill yn y Cod. Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r agweddau allweddol ar y bennod hon, os o gwbl; y canllawiau ategol sydd wedi cael eu diwygio'n bennaf neu mae'r strwythur wedi cael ei ad-drefnu. |
| 8 – Rôl Cydlynydd ADY | 24 | Rydym wedi atgyfnerthu'r bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y cyngor sydd eisoes wedi'i gynnwys. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaeth y dylai pennaeth lleoliad addysg ei rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn unol â'r Rheoliadau CADY, diwygiwyd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(h) a 6(h) o'r Rheoliadau CADY drafft – rheoliadau 5(i) a 6(i) gynt yn y fersiwn flaenorol o'r rheoliadau yr ymgynghorwyd arnynt yn 2019). At hynny, mae rhai o ddyletswyddau'r CADY a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu, sef: y ddyletswydd i baratoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen i'r corff llywodraethu ei chyhoeddi yn unol â'r cod; a'r ddyletswydd i roi gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, ei CDU a'r DDdY a gynigir. Dilëwyd y rhain yn y bennod ar ôl iddynt gael eu dileu yn y Rheoliadau CADY. |
| 9 – Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg | 15 (ail ran) | Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn y Bennod (15) flaenorol ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Ni ddiwygiwyd sylwedd y bennod ryw lawer ond cafodd ei symleiddio a'i newid i'w gwneud yn fwy eglur ac yn debycach i strwythur y penodau eraill ar y rolau statudol. |
| 10 – Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (CADY) | 8 (ail ran) | Ni newidiwyd sylwedd y bennod hon yn fawr iawn. Gwnaed rhai newidiadau strwythurol, newidiadau fformatio a mân ddiwygiadau eraill i'w gwneud yn fwy eglur. |
| 11 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir | 8 | Cafodd y penodau hyn eu diwygio'n sylweddol. Mae'r penodau hyn yn cynnwys y prif ddyletswyddau mewn perthynas â'r system ADY ar gyfer y mwyafrif o blant a phobl ifanc. Yn y fersiwn ddrafft o'r Cod, nodwyd y gofynion mewn pedair pennod; fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cawsant eu didoli yn ôl |
| 12 – Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac ALlau i blant mewn ysgol a gynhelir | 9 | |

| | | |
|---|---|---|
| 13 – Dyletswyddau ar ALlau ynghylch plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir | 11 | amgylchiadau ac ystodau oedran mwy penodol. Mae'r darpariaethau ynglŷn â pharatoi CDU wedi cael eu symud i Bennod 23, gan fod llawer ohonynt yn gymwys o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau neu'r holl amgylchiadau gwahanol a gallant hefyd fod yn berthnasol wrth gynnal CDU.<br>Bwriedir i'r newidiadau strwythurol hyn wneud y rhan hon o'r Cod yn haws i ddefnyddwyr.<br>Mae'r cynnwys ei hun hefyd wedi cael ei symleiddio a'i ddiwygio'n sylweddol er mwyn ei wneud yn fwy eglur, sicrhau mwy o gysondeb rhwng y penodau ac ychwanegu mwy o fanylion mewn rhai rhannau er mwyn gwella'r cysylltiadau â'r rhannau eraill o'r Cod a sicrhau bod y gofynion yn gliriach ac yn effeithiol.<br>Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y gofynion na'r canllawiau yn y penodau hyn wedi newid.<br>Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol o ran gofynion yw'r newid mewn perthynas â gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu newid ac felly pan fydd yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae'n **rhaid** i'r awdurdod **ystyried** a ddylai geisio cyngor gan seicolegydd addysgol a, phan fydd o'r farn bod angen cyngor o'r fath i benderfynu ar bethau penodol, mae'n **rhaid** iddo ei geisio. Gwnaed y newid hwn o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod y gofynion yn rhy feichus ac mae'n rhoi statws statudol i rôl y Seicolegydd Addysgol, ond hefyd yn lleihau'r baich sylweddol o bosibl y gallai gofyniad cyffredinol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol o dan yr holl amgylchiadau ei achosi. |
| 14 – Dyletswyddau ar ALl ynghylch plant sy'n derbyn gofal ganddo | Pennod Newydd | |
| 15 – Dyletswyddau ar ysgolion ac ALlau ynghylch pobl ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir | Pennod Newydd | |
| 16 – Dyletswyddau ar Sefydliad Addysg Bellach (SAB) ac ALl ynghylch pobl ifanc mewn SAB | 10 | |
| 17 – Dyletswyddau ac ALlau ynghylch pobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na SAB | 12 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol i fod yn gyson â'r manylion yn rheoliadau 6 i 10 o Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 1 i Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddorion |

| | | |
|---|---|---|
| | | polisi a nodwyd yn wreiddiol yn y bennod ddrafft flaenorol wedi newid. Mae'r bennod yn nodi'r ystyriaethau a'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â nhw wrth benderfynu a oes angen CDU i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (lle nad yw'r person ifanc mewn ysgol a gynhelir na SAB yng Nghymru). Mae'r prif ofynion o ran sicrhau lleoliad ôl-16 arbenigol yn adlewyrchu'r rhai o dan y system bresennol (lle mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau lleoliadau o'r fath).<br><br>Hefyd, gwnaed newidiadau eraill yn debyg i'r rhai a ddisgrifir mewn perthynas â phenodau 11 i 16. |
| 18 – Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol | 23 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi mwy o ganllawiau ar nifer o amgylchiadau gwanhaol. Ceir gofyniad newydd hefyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y mae eu rhiant yn aelod o'r Lluoedd Arfog. |
| 19 – Plant a phobl ifanc o dan orchymyn cadw | 22 | Gwnaed newidiadau i egluro'n well sut y mae'r system ADY yn gymwys mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o dan orchymyn cadw (gan gynnwys pobl a gedwir yn gaeth), gan gynnwys esbonio beth yw ystyr diffiniadau yn ymarferol a sôn am faterion eraill sy'n berthnasol i sefyllfaoedd lle y cedwir pobl ifanc yn gaeth a rhoi mwy o ganllawiau ymarferol.<br><br>Mae'r bennod hefyd yn ymdrin ag atgyfeiriadau at gyrff y GIG o dan adran 20 o'r Ddeddf lle mae CDU yn cael ei baratoi ar gyfer person a gedwir yn gaeth, gan roi canllawiau ynghylch pryd y byddai hyn yn briodol a gosod gofyniad cysylltiedig lle y nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol. Adlewyrchir y diwygiad i adran 44 o'r Ddeddf ynglŷn â'r ddyletswydd ar gyrff y GIG o dan adran 20 (gan nodi nad yw'n gymwys yn ystod y cyfnod cadw).<br><br>O ran y terfynau amser yn y bennod hon, ac yn unol â diwygiadau tebyg drwy'r Cod |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfan, nodir cyfnod penodedig bellach y mae'n rhaid cymryd y cam (e.e. penderfynu ar ADY a pharatoi CDU neu adolygu CDU) oddi mewn iddo, yn amodol ar yr eithriad arferol. Yn y gorffennol, y gofyniad oedd bod yn rhaid cymryd y cam yn brydlon.<br>Mae'r canllawiau blaenorol ar adolygu CDU ar ôl i berson a gedwir yn gaeth gael ei ryddhau wedi cael eu troi'n ofyniad a cheir canllawiau ategol ar y gofyniad hwnnw.<br><br>Ceir newidiadau hefyd i wneud gofynion yn gyson â rhai tebyg mewn mannau eraill sydd wedi cael eu mireinio, er mwyn gwella'r croesgyfeiriadau (ac adlewyrchu'r newidiadau strwythurol) a newidiadau i adlewyrchu gofynion yn Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan gynnwys y rheoliadau sy'n ymdrin â'r angen i baratoi CDU. |
| 20 – Adnabod ADY a phenderfynu a oes angen y DDdY | 7 (ail ran) | Fel yn achos Pennod 2 (Diffiniad o ADY a DDdY), cafodd y bennod hon ei chreu o ail ran yr hen Bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; cafodd y strwythur a'r cynnwys eu diwygio i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder ynghylch adnabod ADY, penderfynu ar y DDdY sydd ei hangen, a chasglu a defnyddio tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau hynny a chysoni â newidiadau mewn mannau eraill. |
| 21 – Gweithio amlasiantaethol | 15 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol; ond nid yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi newid. Y newid allweddol yw bod yr adran ar rôl y SACDA wedi cael ei symud a'i gosod mewn pennod ar wahân (Pennod 9). Yn benodol, cafodd canllawiau statudol ar y Bwrdd Iechyd Lleol y dylid atgyfeirio achos ato o dan adran 20 eu hychwanegu, a hefyd ddarpariaeth ynghylch pryd mae Bwrdd Iechyd Lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc. |
| 22 – Cyfarfodydd am ADY a DDdY | 18 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol a gwella'r strwythur; ond nid yw'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, ceir canllawiau ychwanegol ar gynnal cyfarfodydd drwy ddulliau rhithwir, yn ogystal â rhagor o ganllawiau ar y materion y bydd angen eu hystyried o bosibl er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gyfranogi'n well. |
| 23 – Paratoi CDU a'i gynnwys | 13 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Roedd elfennau penodol wedi'u cynnwys yn y prif benodau ar ddyletswyddau (penodau 11 i 17 bellach), a oedd yn ymwneud â pharatoi neu gynnal CDU, a oedd yn gymwys i'r holl amgylchiadau neu'r rhan fwyaf o amgylchiadau, ac a oedd yn cael eu hailadrodd ym mhob un o'r penodau hynny ac roedd rhai elfennau a oedd ond yn cael eu trafod yn un o'r penodau hynny ond a oedd yn berthnasol o bosibl i sefyllfaoedd eraill. Er mwyn symleiddio'r prif benodau ar ddyletswyddau, a rhoi mwy o eglurder a chanllawiau ar baratoi CDU neu ei adolygu, mae'r elfennau hynny o'r canllawiau wedi cael eu symud a'u cynnwys yma. Cafodd y strwythur a’r geiriad yn y bennod hon eu diwygio hefyd i wella’r llif a’i gwneud yn haws i’w defnyddio. Cafodd adran ei hychwanegu hefyd yma ac yn y templedi ar gyfer ffurflenni safonol yn Atodiadau A a B er mwyn rhoi gwybodaeth am drefniadau teithio. |
| 24 – Paratoi CDU a’i gynnwys ar gyfer plant sy’n derbyn gofal | 14 | Cafodd y bennod hon ei diwygio yn unol â’r newidiadau i Bennod 23 a’i symleiddio i osgoi dyblygu’r wybodaeth a geir yn y bennod honno. Yn syml, mae’r bennod hon bellach yn esbonio’r gwahaniaeth yn y broses a chynnwys CDP i blentyn sy’n derbyn gofal, ond mae’r canllawiau ar gynnwys perthnasol pob rhan o’r CDU wedi’u nodi ym Mhennod 23. |
| 25 – Adolygu a Diwygio CDUau | 16 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. Cafodd ei hailstrwythuro a’i symleiddio hefyd lle y bo modd ond nid yw hanfod y cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 26 – Ailystyriaethau awdurdodau lleol ac | 17 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai |

| | | |
|---|---|---|
| ymgymryd â'r cyfrifoldeb am CDU | | mannau, gan gynnwys gwella'r cysylltiadau â rhannau eraill o'r Cod. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol.   Cafodd darpariaethau ynglŷn ag ymgynghori â seicolegydd addysgol eu dileu. |
| 27 – Cynllunio ar gyfer cyfnod pontio a'i gefnogi | 19 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Mae'r bennod yn llai rhagnodol bellach, gyda llai o ganllawiau statudol.  Mae hyn yn ymateb i'r sylwadau lu a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn gwrthddweud ei gilydd ac a oedd yn ei gwneud yn amlwg bod cyfnodau pontio yn hyblyg ac y bydd angen gweithredu yn unol ag anghenion unigolion.<br>Ymdrinnir â manylion am geisio cydsyniad plentyn sy'n dod yn berson ifanc i barhau i gynnal ei CDU ym Mhennod 4 bellach. |
| 28 – Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU | 20 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai mannau, gan gynnwys cysylltu â rhannau eraill o'r Cod ac adlewyrchu manylion Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 29 – Peidio â chynnal CDU | 21 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 30 – Cyfeillion achos i blant nad oes ganddynt alluedd | 27 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau technegol a wnaed i'r rheoliadau. Mae'n rhoi esboniad clir o'r ffordd y gall plentyn nad oes ganddo alluedd ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am rôl cyfaill achos a sut y cânt eu penodi a'u tynnu'n ôl gan y Tribiwnlys. |
| 31 – Cynrychiolwyr rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd | Pennod Newydd | Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Hydref 2020, cafodd y bennod ei diwygio i gynnwys croesgyfeiriadau ychwanegol, yn enwedig o ran Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r bennod hefyd wedi |

| | | |
|---|---|---|
| | | nodi'n fwy eglur y gall cynrychiolwyr gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys troednodiadau newydd sy'n cyfeirio at effaith achos Re: D. |
| 32 – Osgoi a datrys anghytundebau ac Eiriolaeth Annibynnol | 25 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion lle y bo eu hangen. O ran strwythur, nid yw'r bennod wedi newid ac nid yw'r cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. |
| 33 – Apeliadau a Cheisiadau i'r Tribiwnlys Addysg | 26 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau technegol a wnaed i'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y bennod yn disgrifio'r broses apelio a'r terfynau amser dan sylw. Mae'n rhoi eglurder ynghylch beth y gellir apelio yn ei gylch a chan bwy. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais i'r Tribiwnlys o ran dim galluedd. Mae hefyd yn cynnwys adran ynglŷn â sut y gall plant gyflwyno eu hapêl eu hunain i'r Tribiwnlys. |

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Y Cod ADY, gan gynnwys diwygiadau ar ôl ymgynghori

### 6. Opsiynau

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â llunio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

Fel rhan o'r diwygiadau hanfodol hyn, bydd y Cod ADY yn disodli'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) presennol i Gymru. Dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau o 1 Medi 2021, bydd proses weithredu fesul cam lle y caiff yr holl ganllawiau statudol yn y Cod Ymarfer AAA eu diffodd a chaiff darpariaethau newydd eu cyflwyno drwy'r Ddeddf ADY, y cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig.

Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ystyried goblygiadau rheoleiddiol gosod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn y Cod ADY (a'r rheoliadau cysylltiedig).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Cod ADY, ynghyd â'r rheoliadau cysylltiedig, gerbron y Senedd ar 2 Mawrth, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adolygu'r cynigion ar b'un a ddylid dwyn y Cod ADY i rym.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adolygu dau opsiwn a ddisgrifir isod.

### Opsiwn un: gwneud dim

O dan opsiwn un, bydd y system AAA bresennol yn parhau â'r Cod Ymarfer AAA sy'n nodi rôl darparwyr addysg i adnabod plant ag anghenion arbennig a gwella eu profiad.

### 6. Manteision

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth opsiwn un.

Hefyd, gallai rhan o'r £20.244m o gyllid y cytunwyd arno ar 7 Chwefror 2017 i dalu costau pontio un system statudol i un arall a chyflwyno'r trawsnewidiadau ehangach i'r system gael ei wario ar bethau eraill.

### 7. Anfanteision

Mae'r system bresennol yn annheg. Mae darpariaeth gwasanaeth a ddiogelir o dan y gyfraith i blant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol ac sydd uwchlaw'r trothwy i gael datganiad AAA. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i diogelu na hawliau statudol i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn llai difrifol ac sydd islaw'r trothwy i gael datganiad AAA.

Mae'r arferion a'r prosesau presennol sy'n gysylltiedig â datganiadau AAA yn aneffeithlon ac anhyblyg, a gallant arwain at ddarpariaeth aneffeithiol i blant a phobl ifanc.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu a diwygio cynlluniau statudol yn feichus yn weinyddol ac mae'n rhaid i ysgolion wahodd set ragnodedig o weithwyr proffesiynol, p'un a oes angen eu presenoldeb a'u cyfraniad ai peidio o ran effeithiolrwydd yr adolygiad. Mae adolygiadau statudol yn cymryd cryn dipyn o amser i drefnu a pharatoi ar eu cyfer. Felly, gall y broses o ddiwygio cynllun fod yn un hirfaith ac arwain at oedi cyn bod dysgwyr yn cael y cymorth mwyaf priodol.

Hefyd, nid oes fawr ddim hyblygrwydd wrth adolygu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ar y trothwy i gael cymorth statudol. Er enghraifft, pan fydd canlyniadau cynllun statudol wedi'u cyflawni i blentyn neu berson ifanc, gall pryder rhieni ynglŷn â cholli'r hawl statudol arwain at bwysau i gynnal y cynllun a'i ddarpariaeth, er na fydd hyn o reidrwydd yn golygu'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol i'r person ifanc.

Yn olaf, heb y Cod ADY, ni allai'r diwygiadau i'r system AAA na'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd fynd rhagddynt.

**Opsiwn dau: cyflwyno Cod ADY yn lle'r Cod Ymarfer AAA**

O dan opsiwn dau, caiff y system AAA bresennol, gan gynnwys y Cod Ymarfer AAA ei disodli'n gyfan gwbl gan y system ADY, gan gynnwys y Cod ADY statudol.

Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

Fel trydydd opsiwn posibl, gellid bod wedi bwrw ymlaen â'r Cod ADY drafft fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 cyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ni fyddai hwn wedi bod yn opsiwn gwirioneddol o ystyried y gofynion cyfreithiol i gynnal ymgynghoriad ystyrlon ar y Cod ADY drafft a'r ymrwymiad cyhoeddus i wneud gwelliannau i'r Cod ADY drafft cyn ei osod gerbron y Senedd.

**8. Manteision**

Trafodir manteision parhau â'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys gosod y Cod ADY diwygiedig a chyflwyno'r system ddeddfwriaethol y mae'r Cod yn helpu i'w hategu, yn fanylach o dan adran 7. Fodd bynnag, mae'r prif fanteision yn ymwneud â'r rhesymau dros ddiwygio'r system AAA yn y lle cyntaf, sef y bydd y Cod ADY diwygiedig yn gwella'n sylweddol y cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

**9. Anfanteision**

Yn yr un modd â'r manteision, trafodir yr anfanteision yn fanwl isod. Fodd bynnag, y prif bwynt i'w nodi yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno system ddeddfwriaethol newydd. Ceir risg y bydd costau yn cynyddu, o ran cost ariannol a phwysau ar adnoddau. Fodd bynnag, yn ôl Adroddiad Blynyddol

2018-2019 Estyn "Mae ysgolion ac UCDau sydd â rolau arwain clir ac arfer ragorol mewn sefyllfa dda i drosglwyddo o'r system AAA bresennol i'r system ADY newydd."

Mae risg hefyd yn gysylltiedig â chyflwyno'r diwygiadau hyn ar adeg na welwyd ei thebyg o'r blaen mewn lleoliadau addysg, gyda COVID-19 o bosibl yn effeithio ar allu awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu (a chyrff statudol eraill) i reoli'r broses o'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r risg hon yn ymwneud mwy â rhoi'r system ar waith yn hytrach na chyflwyno'r Cod ADY.

## 7. Costau a manteision

Mae'r Cod ADY yn cynnwys canllawiau statudol ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ADY, sy'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar faterion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY, ac yn disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai yn y Ddeddf.

Mae'r Cod yn cynnwys cannoedd lawer o ddyletswyddau statudol unigol, lle mae'r gofynion (a ysgrifennir fel "**rhaid**" yn y Cod) yn deillio o bwerau mewn is-ddeddfwriaeth – naill ai o'r Cod ei hun neu o reoliadau – yn hytrach na deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf ADY. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â manylion a phrosesau ynglŷn â sut y bydd y system yn gweithredu, gan gynnwys manylion am y rolau a'r tasgau a nodir yn y Ddeddf ADY.

Nid diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw trafod effaith pob dyletswydd statudol yn y Cod. Yn hytrach, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn trafod y dyletswyddau mewn ffordd thematig, gyda chyfeiriadau penodol at y dyletswyddau newydd fel y'u diwygiwyd ar ôl yr ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft.

Er mwyn deall effaith y dyletswyddau statudol a wneir o dan is-ddeddfwriaeth yn well, cafodd pob enghraifft o "**rhaid**" yn y Cod ei chasglu, ei dadansoddi a'i threfnu'n gategorïau o gost debygol pob dyletswydd o ran ei harwyddocâd yn hytrach nag amcangyfrif ariannol o bob dyletswydd unigol. Cafodd yr holl ddyletswyddau yr ystyrir eu bod yn costio mwy na'r gost isel sy'n gysylltiedig â thasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiad) eu casglu ynghyd yn themâu. Trafodir y themâu hyn yn fanwl isod.

Lle y bo'n berthnasol, defnyddir cyfeiriadau at y costau fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018) yma.

### Pecyn cyllid o £20m i gyflwyno'r system ADY

Defnyddir y pecyn cyllid o £20.244m i helpu i roi'r Ddeddf ar waith a chyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.

Caiff rhan fawr o'r cyllid hwn ei defnyddio i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pob partner yn deall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ac yn barod ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i feithrin gallu a sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i weithredu'r system newydd yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Rydym yn targedu gweithgarwch datblygu'r gweithlu ar dair lefel; datblygu sgiliau craidd i bob ymarferydd, datblygu sgiliau uwch drwy sefydlu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau) a fydd yn disodli rôl bresennol Cydlynwyr AAA; a datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol sydd ar gael i leoliadau addysg.

Mae pum arweinydd trawsnewid ADY wedi bod mewn swydd ers mis Ebrill 2018. Eu rôl yw rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach, wrth iddynt baratoi i roi'r diwygiadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys hunanasesiadau trylwyr o barodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Bydd yr arweinwyr trawsnewid ADY yn gyfrifol am gyflwyno hyfforddiant gweithredu ar sail ranbarthol, amlasiantaethol.

## 10. Themâu a nodwyd o'r dyletswyddau statudol yn y Cod ADY

- Dynodi rolau statudol (swyddogion cydlynu ADY)
  - SACDA
  - CADY
  - Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

- Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)
  - Paratoi CDU
  - Sicrhau DDdY
  - Adolygu CDU

- Gwasanaethau Eirioli Annibynnol

- Costau adolygu'r system

## 11. Costio is-ddeddfwriaeth

Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY i'r casgliad na ddylai'r system ADY newydd ei hun fod yn fwy costus na'r system AAA bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno tystiolaeth os ydynt yn credu y bydd y system newydd yn fwy costus, ond hyd yma nid oes unrhyw dystiolaeth o'r fath wedi dod i law.

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn parhau i gefnogi'r safbwynt a nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf ADY. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod risgiau yn gysylltiedig â rhoi system newydd ar waith pan fydd lefel y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion a SABau a byrddau iechyd yn gyfyngedig. Mae'r mater hwn yn amlwg yn un ehangach nag ADY, ac mae'n ymwneud â chyllid y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, ond mae'r pryderon hyn yn parhau i gael eu mynegi mewn unrhyw drafodaeth gyhoeddus am y diwygiadau ym maes ADY.

Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn helpu'r darllenydd i ddeall y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â'r Cod ADY diwygiedig, a rhoi trosolwg o effaith y Cod ADY yn gyffredinol, gan ddefnyddio'r dull thematig a ddisgrifir uchod.

Mae'r costau a'r manteision a drafodir isod yn seiliedig ar gytuno ar Opsiwn dau.

## 12. Y ddyletswydd i ddynodi Swyddogion Cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol

## 13. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)

## 14. Mantais

Bydd Opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad addysg, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a SABau, benodi CADY. Mae'r hyn yn estyn y trefniadau presennol lle y defnyddir Cydlynwyr AAA anstatudol yn y rhan fwyaf

o ysgolion yng Nghymru. Drwy wneud y CADY yn rôl statudol, bydd hyn yn sicrhau dull cyson o gydlynu DDdY i ddysgwyr yng Nghymru a helpu i feithrin gwell cydberthnasau gwaith rhwng sectorau.

## 15. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad

Yn sgil yr ymgynghoriad ar y Cod ADY, rydym wedi atgyfnerthu'r bennod ar CADYau i roi mwy o eglurder ynglŷn â'r cyngor a ddarperir eisoes. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaethau y dylai penaethiaid eu rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau.

Yn unol â Rheoliadau CADY 2020, cafodd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod eu diwygio. Mae'r diwygiadau hyn yn nodi'n fwy eglur pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(e) a 6(e) o Reoliadau CADY 2020) a pha agweddau ar gadw cofnodion y bydd yn rhaid i CADYau ymgymryd â nhw (rheoliadau 5(c) a 6(c) o Reoliadau CADY 2020). At hynny, mae rhai o'r dyletswyddau a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu. Mae'r rhain yn ymwneud â pharatoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi gan y corff llywodraethu yn unol â'r Cod ADY, a'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, CDU a'r DDdY a gynigir. Mae'r rhain wedi cael eu dileu yn y bennod a Rheoliadau CADY 2020 oherwydd newidiadau a wnaed mewn mannau eraill i'r Cod ADY yn hyn o beth.

Mae'r diwygiadau hyn yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar y gost na'r manteision sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Cod ADY, ond gallant roi cymorth mwy eglur i'r rhai sydd â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â rôl CADY.

16.

## 17. Cost

Trafodwyd cost creu rôl y CADY yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY a'r asesiad effaith integredig ar gyfer rheoliadau CADY. O ystyried cwmpas cyffredinol y rôl a'r ffordd y bydd yn amrywio o leoliad i leoliad, ni fydd modd rhoi cost amcangyfrifedig ar gyfer y rôl. Yr effaith fwyaf sylweddol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn oedd sut y bydd y rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu at godi safonau o ran gweithgarwch cydlynu neu DDdY i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd awdurdodau lleol yn gwneud hyn drwy roi sicrwydd y bydd rôl newydd y CADY yn cael ei chyflawni gan unigolion cymwysedig (h.y. athrawon cymwysedig neu Gydlynwyr AAA profiadol) y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â'r gwaith o gydlynu DDdY mewn ffordd gyson, ni waeth pa fath o leoliad addysg sydd dan sylw. Dylai hyn arwain at welliant yn y ffordd y caiff DDdY ei chynllunio a'i chyflwyno i blant a phobl ifanc.

Ni nodwyd unrhyw gostau ariannol pellach yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â CADYau.

Mae risg ddamcaniaethol o ganfyddiad posibl y bydd y gofynion newydd o ran CADYau yn creu baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a all wneud i'r

Cydlynwyr AAA presennol fod yn amharod i wneud cais i fod yn CADY. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i wneud y CADY yn rôl broffesiynol ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y risg hon yn cael ei gwireddu.

**18. Swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA)**

**19. Mantais**

Bydd opsiwn dau yn sicrhau y bydd pob bwrdd iechyd lleol (BILl) yn dynodi SACDA i fod yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth iechyd o ddydd i ddydd i blant a phobl ifanc ag ADY yn cael ei rheoli a'i chydlynu'n effeithiol.

Er y bydd llawer o'r gwaith y bydd y SACDA yn gyfrifol amdano o dan y system ADY eisoes wedi'i wneud ym mhob BILl ar hyn o bryd, heb y rôl ddynodedig hon, mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â goruchwylio darpariaeth iechyd sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol arbennig wedi bod yn anghyson ac yn anodd i'w fesur.

Bydd penodi SACDA ym mhob bwrdd iechyd yn fanteisiol o ran hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd yn effeithiol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd y SACDA hefyd yn helpu'r bwrdd iechyd i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan system ADY ac yn hwyluso'r cydweithrediad effeithiol rhwng byrddau iechyd a'u partneriaid o ran darparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY.

Bydd y SACDA hefyd yn sicrhau bod strwythur cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chasglu data ar ansawdd, canlyniadau a pherfformiad gwasanaethau; symleiddio'r system i blant, pobl ifanc, rhieni a phartneriaid drwy gynnig un pwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill mewn byrddau iechyd ar faterion ADY. Hefyd, dylai penodi SACDA sicrhau bod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth strategol i fyrddau iechyd.

Un o brif fanteision cyflwyno rôl y SACDA fydd y cysylltiadau gwell rhwng iechyd a sectorau eraill, a'r cyfle i gydlynu gwaith amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Nod y system yw torri nifer y cyfarfodydd a'r asesiadau sydd eu hangen i gael DDdY a sicrhau parhad cymorth i'r unigolion wrth iddynt bontio, o ran oedran, rhwng camau allweddol a datblygiad addysgol.

**20. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae pennod newydd yn y Cod ADY ar rôl y SACDA. Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y SACDA ym Mhennod 15 ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Nid yw sylwedd y bennod wedi newid fawr ddim, ond mae'n haws i'r darllenydd ei ddilyn erbyn hyn.

**21. Cost**

Trafodwyd cost cyflwyno rôl y SACDA yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY lle y daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw gostau newydd i fyrddau iechyd lleol,

a hynny am fod disgwyl i'r rôl gael ei chyflawni gan aelod presennol o'r staff ac y bydd y SACDAau a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ei angen o fewn yr oriau a neilltuir ar eu cyfer i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Er bod y rôl ei hun yn newydd, mae'r dyletswyddau y bydd y SACDA yn gyfrifol amdanynt fel y'u nodwyd yn y Cod eisoes yn cael eu cyflawni gan aelodau presennol o staff mewn byrddau iechyd o dan system AAA. Diben y SACDA fydd safoni'r rôl hon a gwella gwaith amlasiantaethol drwy unigolyn a enwir ym mhob bwrdd iechyd. Ar gyfartaledd, bydd gweithiwr iechyd proffesiynol ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn ymgymryd â chyfrifoldebau SACDA am tua dau ddiwrnod yr wythnos.

Mae'r dyletswyddau yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â rôl y SACDA yn rhoi mwy o fanylion am y rôl ei hun, a defnyddir y canllawiau i nodi sut y disgwylir i SACDAau ymgymryd â'u tasgau. Mae cyflwyno rôl y SACDA a'r amcangyfrif o'r adnodd fydd ei angen yn dwyn risg isel a hawdd ei rheoli i fyrddau iechyd lleol gan na ddisgwylir i SACDAau fod yn swyddi llawn amser ac mae'n debygol y bydd uwch-aelodau presennol o'r bwrdd iechyd lleol yn ymgymryd â'r rôl.

Gyda'r ddyletswydd i ddarparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd i ddysgwyr hyd at 25 oed, efallai y bydd cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeirir at gyrff y GIG lle mae angen DDdY sy'n ymwneud ag iechyd. Gallai'r risg hon, er nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth a welwyd gan Lywodraeth Cymru, gynyddu costau i BILlau o bosibl o ran y systemau y maent yn eu cyflwyno i gefnogi rôl y SACDA a'u swyddogaethau statudol o dan y system ADY. Er ei bod yn anodd amcangyfrif sut y bydd estyn yr ystod oedran i 25 oed yn effeithio ar y costau hyn, esboniodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd gan bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n mynychu sefydliad AB arbenigol gynllun dysgu a sgiliau statudol ar hyn o bryd. Pan fydd angen gofal meddygol ar berson ifanc tra ei fod mewn sefydliad AB arbenigol, gofynnir i'r bwrdd iechyd gyfrannu at y cynllun dysgu a sgiliau. O dan y system ADY, bydd yr arfer hon yn parhau ond gofynnir i fyrddau iechyd gyfrannu at y CDU yn lle hynny. Daethpwyd i'r casgliad na fydd unrhyw gost ychwanegol i fyrddau iechyd pan fydd person ifanc yn mynychu sefydliad AB arbenigol.

**22. Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar)**

**23. Mantais**

O dan opsiwn dau, caiff swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ei benodi gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.

Bydd swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn chwarae rôl bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r system ADY a sut y mae'n gymwys i blant o dan yr oedran ysgol gorfodol; hyrwyddo'r broses o adnabod ADY ar gam cynnar a'u hatal; a chyfrifoldebau strategol eraill. Bydd y dyletswyddau hyn yn helpu teuluoedd i ddeall ADY eu plant a'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi eu haddysg. Felly, dylai'r rôl gynnwys budd cymdeithasol drwy leihau'r ofn sy'n gysylltiedig ag ADY a rhoi sicrwydd i rieni bod cymorth ar gael mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Mantais arall cynnwys y rôl newydd hon yn y Cod ADY fydd gwella'r ffordd y caiff darpariaeth ar gyfer plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ei chydlynu a sicrhau bod un swyddog a enwyd y gellir cyfeirio materion ato. Bydd hyn yn helpu teuluoedd pryderus sydd, o dan y system AAA, wedi cael anhawster o bosibl i ymgysylltu â'r unigolion perthnasol.

**24. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys ers yr ymgynghoriad.

**25.**

**26. Cost**

Crybwyllwyd cost cyflwyno rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fel y nodwyd ynddo, at ddibenion enghreifftiol defnyddir cyflog o £49,700 i amcangyfrif costau parhaus cyflwyno swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Felly, amcangyfrifir y bydd cost barhaus o tua £1,093,400 y flwyddyn i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar, ni fydd hon yn gost barhaus ychwanegol.

Amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol yn mynd i gostau pontio o £126,700 mewn perthynas â hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Mae cost amcangyfrifedig hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar yr un model costio ag a ddefnyddir i amcangyfrif costau hyfforddi CADYau. Hynny yw, tybir y caiff swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar eu hyfforddi i lefel gradd meistr ar gost o £3,600 fesul gradd, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o £79,200 i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac y byddant yn cymryd 10 diwrnod astudio â thâl dros y cyfnod o ddwy flynedd ar gost amcangyfrifedig o £47,520.

Nid oes unrhyw ddyletswyddau eraill yn y bennod ar rôl swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ar wahân i ddyletswydd yr awdurdod lleol i ddynodi swyddog.

**27. Cynlluniau Datblygu Unigol**

- Paratoi CDU
- Sicrhau DDdY
- Adolygu CDU

**28. Cyd-destun**

Mae data a ddangoswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf wedi datgelu bod nifer y plant a phobl ifanc y cofnodwyd bod ganddynt AAA rhwng 2011-12 a 2015-16 wedi bod yn gymharol sefydlog, sef 23% o ddisgyblion. Er bod y system ADY yn estyn yr ystod oedran i 25 oed, mae nifer y bobl ifanc rhwng 19-25 oed ag ADY mewn addysg neu hyfforddiant, sy'n cydsynio i gael CDU, yn debygol o fod yn fach. Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod 83 o leoliadau arbenigol ôl-19 wedi'u sicrhau yn 2018/19. Gan ddefnyddio'r ffigurau sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf a chan Stats Cymru, bydd tua 110,000 o CDUau oedran ysgol, gyda thua 1,000 ar gyfer plant islaw'r oedran ysgol gorfodol, a thua 2,000 ar gyfer pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**29.**

**30. Mantais**

Os dewisir Opsiwn dau, drwy gyflwyno'r Cod ADY, bydd pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael ei drin yn gyfartal o dan y gyfraith, ni waeth pa mor ddifrifol yw eu hanghenion. Bydd gan bob dysgwr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig) a SABau y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) arnynt yr hawl i gael cynllun datblygu unigol (CDU) statudol a'r hawl i apelio. Bydd hyn yn gwneud y system o gymorth i ddysgwyr yn decach ac yn cyfrannu at fudd cymdeithasol drwy estyn hawliau plant a phobl ifanc a gweithio tuag at ganlyniadau addysgol gwell.

Drwy gyflwyno cynlluniau statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY, bydd modd rhoi mwy o ffocws ar adnabod anghenion ar gam cynnar a ddylai atal neu leihau gwrthdaro yn y system. Gallai hyn arwain at leihad yn yr hirdymor yn nifer yr apeliadau a gyflwynir i'r Tribiwnlys, ond bydd nifer y darpar apelwyr, wrth reswm, yn cynyddu gan y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY yr hawl i apelio. Dylai cynlluniau statudol teg hefyd wella'r ffordd y sicrheir darpariaeth a sicrhau y bydd ar waith gyhyd ag y bo'i hangen (hyd at 25 oed).

Mae'r dyletswyddau yn y Cod ADY ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i baratoi CDU, sicrhau'r DDdY ac adolygu CDUau wedi'u nodi'n fras yn y Ddeddf ADY ac mae ei heffaith wedi cael ei dogfennu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fodd bynnag, mae'r Cod ADY diwygiedig yn nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid ymgymryd â'r trefniadau hyn. Er enghraifft, mae llawer o'r gofynion a osodir gan y Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig ynglŷn â CDUau yn ymwneud â'r terfynau amser ar gyfer cwblhau tasgau penodol. Dylai awdurdod lleol, er enghraifft, ymddwyn “yn brydlon” i benderfynu a ddylai ddod yn gyfrifol am gynnal y CDU a chyflwyno'r hysbysiad o fewn y cyfnod o saith wythnos i'r cais ynglŷn â dod yn gyfrifol am y CDU, oni bai nad oes modd gwneud hynny o fewn y cyfnod hwnnw oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

Mae gosod terfynau amser ar gyfer y dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth graidd hon yn y system ADY o fantais am fod hynny'n ei gwneud yn bosibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael disgwyliad rhesymol o ran pryd y dylai penderfyniadau neu brosesau penodol gael eu cwblhau. Dylai hyn helpu i leddfu llawer o'r tensiwn ar hyn o bryd yn y system AAA lle mae oedi ac

anghysondebau wedi achosi cryn bryder yn y gorffennol. Disgwylir hefyd y bydd y terfynau amser hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae'n cymryd ar hyn o bryd i gwblhau penderfyniadau neu brosesau penodol, megis paratoi cynllun statudol o gymorth. Drwy'r ddefnyddio'r ymadrodd “yn brydlon”, mae'r Cod ADY yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu cyflawni heb oedi, ond mae'n bosibl y bydd defnyddio terfyn amser penodedig ar gyfer pob dyletswydd heb ddefnyddio'r term “yn brydlon” yn gyntaf yn arwain at sefyllfa lle mae'r uchafswm amser a ganiateir i gyflawni unrhyw ddyletswydd benodol yn mynd yn derfyn amser arferol.

**31. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae penodau 11-15 o'r Cod ADY yn cynnwys y dyletswyddau craidd mewn perthynas â'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY. Hefyd, mae penodau 16 a 17 yn cynnwys dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SABau neu bobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir. Mae'r rhain wedi cael eu hailddrafftio gryn dipyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad . Maent bellach yn ymddangos mewn penodau ar wahân, ar sail amgylchiadau sy'n ymwneud ag oedrannau penodol, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau cyrff statudol i gefnogi dysgwyr ag ADY.  Mae'r elfennau o'r canllawiau sy'n gymwys i bob un o'r grwpiau oedran hyn bellach yn ymddangos mewn un bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder a chanllawiau wrth baratoi CDU neu ystyried y DDdY y dylai ei chynnwys. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y dyletswyddau allweddol yn y penodau hyn wedi newid.

**32. Cost**

Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau ar gyfer pob plentyn ag ADY sy'n derbyn gofal ganddynt. Amcangyfrifwyd ar adeg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd awdurdodau lleol yn treulio tua awr yn paratoi'r cais ar gost o tua £18 y cais yn seiliedig ar 20 o geisiadau y flwyddyn (ni ddisgwylir i'r nifer hwn newid o ganlyniad i gyflwyno'r system ADY). Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf, ni ddisgwylir i awdurdodau lleol fynd i unrhyw gostau ychwanegol o dan opsiwn dau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn paratoi achos wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad i blentyn neu berson ifanc â datganiad AAA gael lle mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo fel arfer i dderbyn dysgwyr â datganiadau AAA. O dan Opsiwn dau, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni eu hunain o hyd bod y lleoliad yn briodol.

Bu nifer o geisiadau am dystiolaeth, o ymchwil Deloitte yn 2015 i gais swyddogion Llywodraeth Cymru am ddata gan awdurdodau lleol ond nid ydynt wedi rhoi unrhyw arwydd sy'n herio'r amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY ac, yn y pen draw, amcangyfrifir y bydd y system newydd yn gost niwtral o'i chymharu â'r system AAA bresennol.

Bydd y broses o adolygu CDU yn un barhaus ac er bod gofynion i adolygu CDUau (megis adolygiadau blynyddol), dylai'r gwaith i lywio'r cyfarfodydd hyn gael ei wneud yn barhaus. Bydd cost adolygu CDUau yn ymwneud yn bennaf â'r amser y mae'n ei gymryd i'r CADY neu aelod arall o'r staff addysgu gynnal y cyfarfod adolygu.

Yn yr un modd, wrth baratoi CDU, bydd amgylchiadau yn codi pan fydd cynlluniau yn dechrau o'r newydd (dysgwr newydd o dros y ffin, anabledd newydd sy'n gofyn am DDdY), ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y rhai ag ADY eisoes wedi'u hadnabod ac mae'n debygol y bydd rhyw ddarpariaeth eisoes ar waith. Ni fydd y gwaith o baratoi CDU yn arwain at gost sylweddol i'r ysgol na'r awdurdod lleol, ond yn y rhan fwyaf o achosion cymhleth gallai'r gost gael ei hystyried yn un gymedrol. Fodd bynnag, mewn achosion lle roedd dyletswydd ar SAB i baratoi neu gynnal CDU, byddai hyn yn gost newydd a gallai gael ei hystyried yn un feichus i ddechrau.  Felly, efallai y bydd costau SABau yn cynyddu ond ni ddisgwylir i'r system yn ei chyfanrwydd arwain at fwy o gost yn gyffredinol. Yn 2018/19, cofnodwyd bod gan 11,095 o bobl ifanc, 16-24 oed, anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn SABau[1]. Er na ddisgwylir y bydd angen i SABau baratoi pob CDU o'r newydd (ymhen amser, bydd llawer o bobl ifanc yn cyrraedd SAB gyda CDU) fel rhan o'r gwaith cynllunio i roi'r system ADY newydd ar waith, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd o helpu SABau i ymgymryd â'u dyletswyddau newydd.

O ystyried bod Datganiadau AAA eisoes yn cael eu paratoi ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 19 oed, a bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar waith ar gyfer llawer mwy o ddysgwyr, mae'r union ddyletswyddau yn y Cod ADY yn rhai newydd, ond mewn gwirionedd, maent yn disodli ac yn gwella'r dyletswyddau presennol yn y system AAA.

Gallai cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â hawl statudol i gael darpariaeth arwain at fwy o bwysau ar y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau DDdY. Er nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol blaenorol o'r Ddeddf ADY wedi nodi unrhyw anghenion heb eu diwallu yn y system AAA (ac ni chredwn y bydd y system ADY yn creu galw newydd), mae risg y bydd y system well yn heriol o bosibl o ran yr adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyflwyno'r system AAA.

O ran cyflwyno'r terfynau amser newydd ar gyfer llawer o'r dyletswyddau yn y Cod ADY a'r rheoliadau, mae risg fach na fydd y lefel bresennol o adnoddau a neilltuir ar gyfer y system AAA yn ddigonol i gyflawni dyletswyddau (â therfynau amser newydd) o dan y system ADY. Er nad oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu hyn, a bod y terfynau amser a gyflwynir o dan y system ADY wedi cael eu dewis yn ofalus mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae posibilrwydd y bydd y system newydd yn gofyn am fwy o adnoddau i gyflawni dyletswyddau o fewn y terfyn amser penodedig.
33.

**34. Eiriolaeth**

**35. Mantais**

Mae'r Cod ADY yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

[1] Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl prif anabledd a/neu anhawster dysgu a rhyw https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

Bydd gwasanaethau eirioli annibynnol yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol, drwy gynrychioli neu fel arall blentyn neu berson ifanc, lle mae'r plentyn neu'r person ifanc:

- yn cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, apêl i'r Tribiwnlys;
- yn ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu
- yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundeb.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu am ddim ar adeg ei ddarparu.
Er bod eiriolaeth yn cael ei defnyddio'n aml o dan y system AAA, nid oes gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o dan God Ymarfer AAA. Felly, mae angen gwasanaethau eirioli annibynnol er mwyn cynnig dull cyson o ddarparu gwasanaeth eirioli sy'n ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud ag ADY. Bwriedir i wasanaethau eirioli annibynnol, ynghyd â'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau leihau'n sylweddol nifer yr anghydfodau sy'n codi o fewn y system AAA ar hyn o bryd, a dylent, yn y tymor canolig i'r hirdymor, leihau nifer yr achosion sy'n mynd gerbron y Tribiwnlys. Gallai hyn o bosibl arbed amser ac arian i'r rhai a allai fod wedi cyflwyno apêl pe na bai'r gwasanaethau hyn wedi bod ar gael.

**36. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**
Mae'r diwygiadau a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad wedi gwneud y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau eirioli annibynnol a gwasanaethau eirioli eraill yn fwy eglur. Mae hefyd yn fwy eglur bellach bod gan gynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd, hefyd yr hawl i gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Bydd y diwygiadau hyn yn fanteisiol i'r rhai sy'n darllen y Cod ADY heb gynyddu unrhyw gostau.
37.
**38. Cost**
Awdurdodau lleol fydd yn talu am gost rhedeg y gwasanaeth newydd, a bydd yn amrywio gryn dipyn rhwng awdurdodau. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf gost amcangyfrifedig o £5,300 i'r awdurdod lleol am wasanaethau datrys anghydfod sy'n ymwneud ag apeliadau o dan y system AAA. Darperir llawer o'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru gan y trydydd sector neu wirfoddolwyr, lle y telir am y costau weithiau drwy gyfraniadau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gwasanaethau eirioli proffesiynol eraill ar gael a fydd yn codi tâl am eu gwasanaeth.

Drwy gyflwyno gwasanaethau eirioli annibynnol, bydd risg o bosibl mewn perthynas â chost rhedeg y gwasanaeth i awdurdodau lleol Mae hyn yn gysylltiedig â'r defnydd posibl a wneir ohono, a'r anhawster o ran amcangyfrif y galw am wasanaethau eirioli. Wrth i'r system ADY newydd ymsefydlu, mae risg o gynnydd yn nifer yr achosion lle mae angen trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau neu ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol, a allai fod yn gostus a llafurus, ond drwy waith cynllunio gofalus a rhoi'r system newydd ar waith yn llwyddiannus dylid atal anawsterau o'r fath.
39.
**40. Adolygiadau**

**41. Mantais**

O dan Opsiwn dau, bydd y Cod ADY yn nodi'r manylion o ran dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu'r galw am DDdY a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg a'i chyflenwi. Y gofyniad yw bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o adeg gweithredu.

Bydd yr adolygiad yn hwyluso'r gallu i wneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth ynglŷn â DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cefnogi strategiaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**42. Cost**

Bydd adolygu DDdY Gymraeg yn arwain at gost ariannol nad yw wedi'i chyfrifo. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru fydd yn talu am y gost yn hytrach na chyrff statudol, ac mae ar wyneb y Ddeddf. Fel amcangyfrif, caiff y gwaith hwn ei wneud gan dîm bach sy'n cynnwys Uwch-swyddog Gweithredol (£47,000 y flwyddyn) ac un swyddog Cymorth Tîm (£23,830 y flwyddyn) am gyfanswm o dri mis. Mae hyn yn tybio na fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am unrhyw ymchwil allanol ac, yn lle hynny, y bydd yn dibynnu ar ei Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i wneud unrhyw ddadansoddiad o'r data. Amcangyfrifir costau o £17,707.50 ar gyfer y ddwy rôl hyn am dri mis.

**Enghreifftiau newydd o 'rhaid' yn y Cod ADY (ar ôl ymgynghori)**

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob dyletswydd newydd (**rhaid**) a geir yn y Cod ADY ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac eithrio tasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiadau) sydd wedi cael eu hepgor.

Nod y tabl isod yw helpu'r darllenydd i ddeall costau posibl y dyletswyddau newydd hyn.

| Cyf. | Testun | Pwnc | Cost |
|---|---|---|---|
| 19.81 | Os oes rhaid i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, **rhaid** iddo:(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac unrhyw benderfyniad ar a oes angen CDU ar gyfer person ifanc ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei baratoi;<br>(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;<br>(c) cofnodi'r dyddiad y cydsyniodd y person, os yw'n berson ifanc, i'r penderfyniad gael ei wneud;<br>(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd y gall y person ifanc fod ag ADY ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY.<br>(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau (22.64 –22.65). | Dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi cydlynydd | Isel<br><br>Mae'r broses ddynodi ei hun yn dasg weinyddol eithaf syml. |
| 16.14 | **Rhaid** gwneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r dyddiad pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 16.26 | **Rhaid** i'r SAB wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 19.65 | **Rhaid** i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a gafodd ei gadw'n gaeth adolygu'r CDU ar ôl iddo gael ei ryddhau a chwblhau'r adolygiad hwnnw (gan gynnwys, yn ôl y digwydd, roi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad am gasgliad arall o'r adolygiad) yn brydlon a sut bynnag, erbyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos yn dechrau ar ôl i'r person gael ei ryddhau rhag cael ei gadw'n gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod 7 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | Adolygu CDU | |
| 19.67 | Mewn achosion lle mae'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi cael ei ryddhau yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru, **caiff** yr awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r ysgol neu'r SAB gynnal y CDU. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hefyd fod yn fwy priodol i'r sefydliad hwnnw adolygu'r CDU. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, pe bai'r CDU wedi cael ei baratoi'n | Adolygu CDU | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddar gan yr awdurdod a bod gan y person a ryddhawyd anghenion lefel isel neu pe bai'r sefydliad yn cynnal y CDU yn flaenorol a bod y cyfnod cadw yn fyr iawn. Os trosglwyddir y CDU i ysgol neu SAB, byddai hyn yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 14(4) o'r Ddeddf yn achos ysgol neu ar ôl i SAB gytuno i gais yr awdurdod o dan adran 36(2) y daw'r SAB yn gyfrifol am y CDU. Hefyd, dim ond os yw'r person a ryddhawyd yn ddisgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'n berson ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr yn y SAB y gellir trosglwyddo CDU. Os nad yw'r awdurdod lleol wedi'i adolygu ar ôl rhyddhau, **rhaid** i'r ysgol neu'r SAB adolygu'r CDU yn brydlon a sut bynnag o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor i ryddhau'r plentyn neu'r person ifanc rhag cael eu cadw yn gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod tymor yn gymwys os yw'n anymarferol i'r ysgol neu'r SAB wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | | |
| 15.60 | Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, **rhaid** i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor a, lle mae o'r farn bod ceisio cyngor o'r fath yn fuddiol, **rhaid** iddo wneud hynny. | Ystyried a cheisio cyngor | Isel<br><br>Ni fydd ystyriaeth yn rhy feichus, ac mae'n debygol y daw yn rhan o'r broses. Gan fod seicolegwyr addysg eisoes yn rhan o'r system bresennol, nod y ddarpariaeth newydd hon yw safoni'r broses yn hytrach na chreu rhywbeth newydd sbon. Felly, bydd ceisio cyngor ond yn dasg weinyddol fach. |
| 17.32 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol nodi'n gyntaf a oes gan y person ifanc ganlyniadau dymunol a beth ydynt. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Dylai awdurdodau lleol eisoes fod yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn deall anghenion yr unigolion a gallai hyn gynnwys mewn perthynas â nodi canlyniadau dymunol.<br><br>Mewn llawer o achosion, bydd yr ALI yn ymwybodol o'r unigolyn drwy unrhyw ymgysylltu blaenorol ag ef/hi drwy broses y CDU. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.36 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried pa raglenni astudio a all fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ganlyniadau dymunol. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 17.38 | Fel arall, **rhaid** i'r awdurdod lleol yn gyntaf ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir neu SABau prif ffrwd (gallai hyn gynnwys ysgolion a SABau o'r fath yn Lloegr). Yn amlach na pheidio, gall y lleoliadau hynny gynnig rhaglen astudio addas i berson ifanc ag ADY a byddai anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY yn cael eu diwallu wrth ymgymryd â hi. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 31.12 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n ymgymryd â'r trefniadau hyn yn ddiduedd o ran canlyniad unrhyw anghytundebau posibl. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Efallai y bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant neu ganllawiau i'r staff er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa am eu dyletswyddau. |
| 32.13 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu eu dewisiadau a'u hanghenion cyfathrebu (gweler Pennod 3 ar gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc). | Gwybodaeth hygyrch | Isel neu ganolig<br><br>Dylai pob awdurdod lleol eisoes sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ganddo i'r cyhoedd yn hygyrch. Efallai y bydd cost untro am baratoi'r deunyddiau hyn, ond |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fawr ddim costau parhaus. |
| 32.11 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn deall y system ADY yn fanwl. Er mwyn gwneud hynny, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am y trefniadau yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol, a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella safonau. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Gall yr hyfforddiant hwn gael ei addasu o ddeunydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru, gan gadw'r gost yn isel. |
| 32.63 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob eiriolwr:<br>(a) yn deall y system ADY gan gynnwys y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys;<br>(b) yn meddu ar hyfforddiant priodol, gan gynnwys ym maes cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ac unigolion ag anawsterau cyfathrebu, gan barhau i dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol a gwella safonau;<br>(c) yn meddu ar wybodaeth berthnasol am ADY y plentyn neu'r person ifanc;<br>(d) yn cadw cofnodion cyfrinachol;<br>(e) nad ydynt wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant (yn achos eiriolwyr plant) neu gydag oedolion (yn achos eiriolwyr pobl ifanc y credir eu bod yn "wynebu risg"). Os nad oes gan y darparwyr eiriolaeth y wybodaeth hon, **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y darparwyr yn gwneud cais am ddatgeliad manylach a gwiriad o restr y rhai sydd wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn symud ymlaen. | Hyfforddiant | Isel neu ganolig<br><br>Dylai costau hyfforddi eiriolwyr fod yn gymharol isel. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer y system ADY a bydd yn darparu deunydd hyfforddiant am ddim ar-lein.<br><br>Efallai y bydd yn cymryd peth amser i hyfforddi pawb, ond o ystyried y niferoedd bach dan sylw, dylai'r gost fod yn isel. |

**8. Ymgynghori**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft rhwng mis 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn ystyried sylwadau a gwneud gwelliannau cyn ei osod gerbron Senedd Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i anelu at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau yn y trydydd sector ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnwyd 65 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymdrin â phum thema:

1. Y Cod ADY drafft;
2. Rheoliadau drafft ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru;
3. Rheoliadau drafft ar gyfer Cydlynwyr ADY;
4. Plant sy'n derbyn gofal;
5. Effaith y cynigion.

Ymatebodd cyfanswm o 644 o bobl i'r prif ymgynghoriad. Mae adroddiad cryno ar gael yma.

Roedd y prif themâu a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- nifer mawr yn gofyn am i lawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft gael eu troi'n enghreifftiau o “rhaid”;
- pryder am arddull yr iaith a ddefnyddir yn y Cod ADY drafft;
- materion o ran darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu;
- ceisiadau am ganllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodir mewn canllawiau statudol eraill;
- pryderon y byddai'r system ADY newydd yn cael effaith ariannol fawr;
- ceisiadau i ddatblygu system electronig i gefnogi proses y CDU;
- gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft.

Ceir crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Cod ADY yn dilyn yr ymgynghoriad yn y tabl ar dudalen 14 o'r Memorandwm Esboniadol.

**9. Asesu'r Gystadleuaeth**

Ni fydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn effeithio ar fusnesau nac elusennau

na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo'r gystadleuaeth.

Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Ddeddf gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr presennol. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth gael eu hysgwyddo gan gyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn.

Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

**10. Adolygiad ar ôl gweithredu**

Caiff y broses o gyflwyno'r system ADY newydd fesul cam ei monitro a'i gwerthuso gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses o'i rhoi ar waith ac ar ôl hynny. Yn ystod y broses o'i rhoi ar waith, bydd prif ffocws y gwaith ar gadarnhau i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Ddeddf ac ar ystyried effeithiau cychwynnol y Ddeddf drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredol o'r Ddeddf ymhen pum mlynedd; bydd hwn yn cynnwys astudiaeth llinell sylfaen o'r system bresennol er mwyn llywio'r gwaith o werthuso effaith y Ddeddf yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr astudiaeth llinell sylfaen gan Arad Research ym mis Chwefror 2019. Bydd yr adolygiad ôl-weithredol yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau'r Ddeddf i bobl ifanc a rhieni.

Mae adran 89 o'r Ddeddf ADY yn amlinellu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yng Nghymru a chyhoeddi adroddiad ar y canlyniad o fewn pum mlynedd i'r system newydd ddod i rym.

Yn y cyfamser, mae dyletswydd barhaus ar awdurdodau lleol o dan adran 63 o'r Ddeddf i adolygu'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd yn ddigonol ac yn briodol, mae'r Cod ADY yn nodi'r disgwyliadau ar y SACDA i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data cadarn i fesur ei gydymffurfiaeth â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Dylai hefyd fesur effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau ansawdd ei weithgareddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Mae hyn yn gwrthbwyso dyletswyddau tebyg ar awdurdodau lleol i sicrhau bod DDdY sy'n ymwneud ag iechyd a'r system ADY ei hun yn cael eu hadolygu'n barhaus, gan roi cyfle i wella systemau mewnol lle y bo angen.

# SL(5)798 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") a pharagraff 6F o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau yn darparu personau sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, a rhieni plant nad ydynt yn hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, nad oes ganddynt alluedd, â’r hawl i ddod â hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn corff sy’n gyfrifol am ysgol yng Nghymru yn unol ag Atodlen 17 i Ddeddf 2010.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud hyn drwy ddarparu y caiff cynrychiolydd ddod â hawliad ar ran y rhiant neu'r person sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol nad oes ganddo alluedd. At ddibenion y Rheoliadau, nid oes gan berson alluedd o fewn ystyr “lacks capacity” yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 (“Deddf 2005”), hynny yw, pan nad oes ganddo alluedd meddyliol, nid galluedd cyfreithiol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau yn adran 86 o Ddeddf 2010 gael eu darllen yn wahanol fel na all disgyblion, a phersonau sy'n gwneud cais i fod yn ddisgyblion, gael eu herlid oherwydd gweithredoedd gwarchodedig penodedig gan y cynrychiolydd, megis dwyn achos o dan Ddeddf 2010.

Bydd y rheoliadau yn dod i rym ar 1 Medi 2021.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliadau 3, 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn, a ddaw i rym ar 1 Medi 2021, yn cyfeirio at ddarpariaethau yn Atodlen 17 i Ddeddf 2010 fel y'u mewnosodwyd yn ôl-weithredol gan baragraff 19 o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Felly, bydd angen dwyn darpariaethau perthnasol paragraff 19 i rym erbyn 1 Medi 2021, yn unol â Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 100(3) o Ddeddf 2018, er mwyn i ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn weithredu'n effeithiol.

Mae paragraff 3.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau:

> *"Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Mawrth 2021**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2021 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# CYDRADDOLDEB, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y fframwaith gweithdrefnol yn Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf"). Mae'r Rheoliadau yn darparu'r hawl i bersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol a rhieni nad oes ganddynt alluedd i ddod â hawliad mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd etc. o dan yr Atodlen honno. Mae'r Rheoliadau yn gwneud hyn drwy ddarparu y caiff cynrychiolydd ddod â hawliad ar ran y rhiant neu'r person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol nad oes ganddo alluedd. At ddibenion y Rheoliadau, nid oes gan berson alluedd o fewn ystyr "lacks capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, hynny yw, pan nad oes ganddo alluedd meddyliol, nid galluedd cyfreithiol.

Mae rheoliad 3 yn darparu, pan na fo gan riant i blentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol alluedd, fod y cyfeiriad at "parent" yn y ddarpariaeth sy'n galluogi'r rhiant hwnnw i ddod â hawliad o dan Atodlen 17 i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw.

Mae rheoliad 4 yn darparu, pan na fo gan berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol alluedd, fod y cyfeiriad at "person" yn y ddarpariaeth sy'n galluogi'r person hwnnw i ddod â hawliad o dan Atodlen 17 i'w

ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd i'r person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Mae rheoliad 5 yn gymwys pan fo rheoliad 3 neu 4 yn gymwys i hawliadau o dan baragraff 3A(1) o Atodlen 17 i'r Ddeddf. Pan fo rheoliad 5 yn gymwys, mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau penodol yn adran 86 o'r Ddeddf gael eu darllen yn wahanol gan ddibynnu ai at blentyn sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol nad oes ganddo alluedd, rhiant i blentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol nad oes ganddo alluedd, neu oedolyn nad oes ganddo alluedd y cyfeirir. Mae adran 86 o'r Ddeddf yn darparu na ellir erlid disgyblion, a phersonau sy'n gwneud cais i fod yn ddisgyblion, oherwydd gweithredoedd gwarchodedig a wneir gan eu rhiant neu eu brawd neu eu chwaer. Drwy ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau penodol yn adran 86 o'r Ddeddf gael eu darllen yn wahanol, mae'r Rheoliadau yn sicrhau na ellir erlid disgyblion, neu bersonau sy'n gwneud cais i fod yn ddisgyblion, am weithredoedd gwarchodedig gan eu cynrychiolydd (os ydynt yn blentyn sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol neu'n oedolyn) neu gynrychiolydd i'w rhiant (os ydynt yn blentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol).

Mae'r Rheoliadau yn pennu bod y darpariaethau yn y Rheoliadau sy'n ymwneud â galluedd meddyliol, mewn achosion penodedig, yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# CYDRADDOLDEB, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**), a pharagraff 6F o Atodlen 17 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 209(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2021.

---

(**1**) 2010 p. 15. Mewnosodwyd paragraff 6F o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan baragraff 19(5)(h) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2).

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 209(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adeg berthnasol" ("*relevant time*") yw'r adeg y mae'n ofynnol, neu y caniateir, o dan y Ddeddf, i rywbeth gael ei wneud gan riant neu berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, oedolyn) neu mewn perthynas â rhiant neu berson o'r fath;

ystyr "cynrychiolydd" ("*representative*"), mewn perthynas â rhiant neu berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, oedolyn), yw—

(a) dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod o dan adran 16(2)(b) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i wneud penderfyniadau ar ran y rhiant neu'r person mewn perthynas â materion o fewn Atodlen 17 i'r Ddeddf;

(b) rhoddai atwrneiaeth arhosol (o fewn ystyr "lasting power of attorney" yn adran 9 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005) a benodir gan y rhiant neu'r person i wneud penderfyniadau ar ei ran mewn perthynas â materion o fewn Atodlen 17 i'r Ddeddf;

(c) atwrnai y mae atwrneiaeth barhaus (o fewn ystyr "enduring power of attorney" yn Atodlen 4 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005) sydd wedi ei chreu gan y rhiant neu'r person wedi ei breinio ynddo, pan fo'r atwrneiaeth wedi ei chofrestru yn unol â pharagraffau 4 a 13 o'r Atodlen honno neu pan fo cais i gofrestru'r atwrneiaeth wedi ei wneud;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cydraddoldeb 2010;

mae i "galluedd" yr un ystyr â "capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**);

ystyr "oedolyn" ("*adult*") yw person sy'n 18 oed neu drosodd;

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr ystyr a roddir i "compulsory school age" yn adran 8 o Ddeddf Addysg 1996(**2**);

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed;

mae i "rhiant" yr un ystyr â "parent" yn Neddf Addysg 1996.

---

(**1**) 2005 p. 9.
(**2**) 1996 p. 56; diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

### Pan nad oes gan riant plentyn alluedd

**3.** Pan nad oes gan riant i blentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol alluedd ar yr adeg berthnasol, mae'r cyfeiriad at "parent" ym mharagraff 3A(1)(b) o Atodlen 17 i'r Ddeddf i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw.

### Pan nad oes gan berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol alluedd

**4.** Pan nad oes gan berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol alluedd ar yr adeg berthnasol, mae'r cyfeiriad at "person" ym mharagraff 3A(1)(a) o Atodlen 17 i'r Ddeddf i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd i'r person hwnnw.

### Erlid am ymddygiad cynrychiolwyr

**5.**—(1) Pan fo rheoliad 3 yn gymwys i hawliad o dan baragraff 3A(1)(b) o Atodlen 17 i'r Ddeddf, mae'r cyfeiriadau at "parent" yn adran 86(2), (3) a (4) o'r Ddeddf i'w darllen fel cyfeiriadau at gynrychiolydd i'r rhiant hwnnw.

(2) Pan fo rheoliad 4 yn gymwys i hawliad o dan baragraff 3A(1)(a) o Atodlen 17 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â phlentyn sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, mae'r cyfeiriadau at "parent" yn adran 86(2), (3) a (4) o'r Ddeddf i'w darllen fel cyfeiriadau at gynrychiolydd i'r plentyn hwnnw.

(3) Pan fo rheoliad 4 yn gymwys i hawliad o dan baragraff 3A(1)(a) o Atodlen 17 i'r Ddeddf mewn cysylltiad ag oedolyn, mae'r cyfeiriadau yn adran 86(2), (3) a (4) o'r Ddeddf at—

(a) "parent or sibling" i'w darllen fel cyfeiriadau at gynrychiolydd i'r oedolyn hwnnw, a

(b) "child" i'w darllen fel cyfeiriadau at yr oedolyn hwnnw.

### Deddf Galluedd Meddyliol 2005

**6.**—(1) Mae rheoliadau 3, 5(1) a (2) yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**).

(2) Pan fo rheoliad 4 yn gymwys mewn cysylltiad â phlentyn, mae'r rheoliad yn cael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

*Enw*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

---

(**1**) Nid yw adran 27(1)(g) yn caniatáu i benderfyniadau ar gyflawni cyfrifoldebau rhiant mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag eiddo plentyn gael eu gwneud ar ran person.

Dyddiad

**Memorandwm Esboniadol i:**

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Y Rheoliadau canlynol;
    - Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
    - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
    - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021
    - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021
    - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

1. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
2. Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021;
3. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021;
4. Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021;
5. Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021;
6. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg
18 Mawrth 2021

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

**1. Disgrifiad**

1.1. Mae Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘y Ddeddf’) yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc (“y system ADY”). Mae Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer nifer o faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY, er enghraifft rhagnodi cyfnodau o amser y bydd dyletswyddau penodol yn cael eu cyflawni oddi mewn iddynt er mwyn gweithredu'n effeithiol a nodi swyddogaethau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (“CADY”). Mae Cod drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (“y Cod”) hefyd yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach (“SABau”) yng Nghymru, awdurdodau lleol a chyrff y GIG sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY ac arfer swyddogaethau oddi tani. Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau i'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y system ADY, ynglŷn ag arfer y swyddogaethau hynny o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

1.2. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn parhau â Thribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ac yn ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru (“y Tribiwnlys”). Yn ogystal ag awdurdodaeth y Tribiwnlys a nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf, mae ganddo awdurdodaeth mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion (gweler adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno o ran darpariaeth ynglŷn â hyn). Mae Rheoliadau drafft Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y Tribiwnlys ac yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys.

1.3. Mae Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ddirprwyo'r swyddogaethau penodedig i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion. Y swyddogaethau penodedig yw swyddogaethau'r corff llywodraethu o dan y Ddeddf sydd, yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996, yn swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion.

1.4. Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru gynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl).

1.5. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Galluoedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yn addasu darpariaethau penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o dan amgylchiadau penodol. Mae'r addasiadau yn sicrhau y gall cynrychiolydd rhiant plentyn nad oes ganddo alluedd, neu gynrychiolydd person ifanc nad oes ganddo alluedd, gyflwyno hawliad ar ran yr unigolyn hwnnw o dan Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Gosodwyd y Cod drafft, y rheoliadau drafft a'r rheoliadau eraill gerbron ar 2 Mawrth 2021 fel un pecyn, a hynny er mwyn dangos y rhyngweithredu rhwng y darpariaethau yn y priod offerynnau.

2.2. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a osodwyd ar 2 Mawrth wedi eu disodli ar 12 Mawrth gan fod anghysondebau wedi'u nodi rhwng y testun Cymraeg a Saesneg, sydd bellach wedi'u cywiro. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021a osodwyd ar 2 Mawrth hefyd, bellach wedi eu disodli er mewn cywiro mater technegol a nodwyd. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru a osodwyd ar 2 Mawrth wedi eu disodli gan y fersiwn yma gan fod anghysondebau wedi'u nodi rhwng y testun Cymraeg a Saesneg, sydd bellach wedi'u cywiro. Mae dau fân newid hefyd i'r Cod ADY yn y ddwy iaith er cywirdeb (yn troednodyn 2 i baragraff 11.4 ac ym mharagraff 15.81) ac ychydig o newidiadau fformat i gysoni'r fersiynau Cymraeg a Saesneg. Rydym hefyd wedi canfod rhai anghysondebau mewn un ymadrodd cyffredin a ddefnyddir drwy gydol y Cod. Er bod gan y fersiwn Saesneg yr un geiriad yn union am yr ymadrodd, mae'r fersiwn Gymraeg yn defnyddio dau ymadrodd ychydig yn wahanol. Er nad ydy'n golygu unrhyw newidiadau sylweddol, credwn ei bod yn werth gwneud y newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio yn y ddau fersiwn o'r Cod. Yr ymadrodd Saesneg dan sylw oedd “information and advice about ALN and the ALN system”. Ar rai achlysuron defnyddiwyd "ar" am "about" ac ar eraill "am" . Mae'r cyfeiriadau hyn bellach wedi'u newid i "am" (er enghraifft, gweler paragraff 11.18(b)).

2.3. Daeth adrannau'r Ddeddf sy'n cynnwys y dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol (adrannau 60 i 62) i rym ar 4 Ionawr. Daeth Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cy. 299) (“Rheoliadau CADY”) i rym ar y dyddiad hwnnw hefyd. Mae'r Rheoliadau hynny yn nodi'r cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen ar berson i gael ei ddynodi'n CADY a swyddogaethau'r CADY. Caiff y Rheoliadau hynny eu diddymu drwy Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan fod y darpariaethau yn y cyntaf wedi'u hailddeddfu yn yr olaf (gweler rheoliadau 26 i 30).

2.4. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn gwneud tri diwygiad i'r Ddeddf.

2.4.1. Mae Rheoliad 4 yn diwygio adran 88 o'r Ddeddf ynglŷn â'r rheolau ar hysbysu a dogfennau. Mae'r diwygiad yn darparu y bydd hysbysiad neu ddogfen a roddir yn electronig yn cael ei drin neu ei thrin fel un sydd wedi cael ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod y'i hanfonir. Mae hyn yn adlewyrchu'r rheol yn adran 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, nad yw'n gymwys i'r Ddeddf.

2.4.2. Mae Rheoliad 19 yn diwygio adran 44 o'r Ddeddf i ddarparu bod dyletswyddau cyrff y GIG o dan adran 20(5)(a) ac (c) o'r Ddeddf ynglŷn â sicrhau triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i berson a gedwir yn gaeth yn peidio â bod yn gymwys o ddechrau cyfnod cadw'r person dan sylw. Yn y sefyllfa hon, mae ar awdurdod cartref y person a gedwir yn gaeth ddyletswydd eisoes o dan adran 42 o'r Ddeddf i drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ac mae'r ddyletswydd honno yn addas i ymdrin â sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth. Efallai na fydd corff y GIG yn gallu sicrhau triniaeth na gwasanaeth perthnasol yn ymarferol i berson a gedwir yn gaeth (yn enwedig gan na fyddai'n gyfrifol o bosibl am ddarparu gwasanaethau iechyd i'r person a gedwir yn gaeth yn ystod y cyfnod cadw) neu nad yw'r driniaeth na'r gwasanaeth perthnasol yn briodol o bosibl mwyach.

2.4.3. Mae Rheoliad 33 yn diwygio adran 68 o'r Ddeddf i ddarparu, at ddibenion dyletswyddau awdurdod lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol, fod awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am bobl a gedwir yn gaeth y mae'n awdurdod cartref iddynt. Mae'n briodol i drefniadau'r awdurdod cartref fod yn gymwys mewn perthynas â phobl a gedwir yn gaeth, gan mai'r awdurdod sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â nhw a'i bod yn osgoi unrhyw anawsterau o ran cadarnhau pa awdurdod lleol fyddai fel arall yn gyfrifol (o ystyried mai sail y prawf ar gyfer cyfrifoldeb yw bod person o fewn ardal awdurdod lleol, sy'n anodd ei chadarnhau mewn sefyllfa lle y cedwir person yn gaeth).

2.5. Fel yr esbonnir mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Cod drafft yn gosod gofynion. Mae Pennod 1 o'r Cod drafft yn esbonio sut y nodir y gofynion hynny yn y Cod.

2.6. Bwriedir rhoi'r system ADY ar waith mewn camau o 1 Medi 2021 (gweler paragraff 3.7 isod). Dyna'r rheswm pam nad yw'r rheoliadau yn diddymu'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn sefydlu'r system ADY. Wrth ei gwraidd, mae'r system yn golygu mai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a SABau ac awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blant neu bobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol ac os felly, nhw fydd yn gyfrifol am baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (‘CDU’) iddynt. Mae CDU yn nodi anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae dyletswyddau i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a phethau penodol eraill, a nodir mewn CDU. Mae'r system ADY yn darparu bod gan blant, eu rhieni a phobl ifanc yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn â materion penodol sy'n gysylltiedig ag adnabod eu hanghenion a'r ddarpariaeth i'w diwallu.

3.2. Bydd y system ADY yn disodli'r system o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig (‘AAA’), eu hasesu a darparu ar eu cyfer.

3.3. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020 (O.S. 2020/Cy. 267) amrywiol bwerau yn y Ddeddf, sef darpariaethau i arfer pwerau ynddynt a darpariaethau cysylltiedig. Cychwynnodd hefyd adrannau 60 i 62 sy'n cynnwys dyletswyddau i ddynodi pobl ar gyfer y rolau statudol a darpariaethau sy'n ymwneud â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu sefydlu. Mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/Cyf. 303) yn darparu ynghylch y rhestr honno a cheisiadau gan ysgolion i gael eu cynnwys ynddi.

3.4. O dan adran 4 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar anghenion dysgu ychwanegol. Gall y cod osod gofynion ynghylch materion penodol (a nodir yn adran 4(5) o'r Ddeddf) ac mae'n ofynnol iddo gynnwys y gofynion penodol a ddisgrifir yn adran 4(6) o'r Ddeddf. Gall hefyd wneud darpariaeth sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r dyletswyddau yn adrannau 7(1) ac 8(1) o'r Ddeddf ynghylch awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn rhoi sylw i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

3.5. Gall y Cod gynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol (adran 4(2) o'r Ddeddf). Mae'n rhaid cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaeth corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu SAB i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgybl neu fyfyriwr yn cael ei chynnig a bod cynllun datblygu unigol yn cael ei baratoi ar gyfer y disgybl neu'r myfyriwr (adran 47(3) o'r Ddeddf).

3.6. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi amrywiol bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ategu'r swyddogaethau yn y Ddeddf.

3.7. Mae pob set o'r rheoliadau yn darparu y byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2021. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo dwyn y Cod i rym, bydd yn rhaid gwneud gorchymyn cychwyn (adran 5(4) o'r Ddeddf). Y bwriad yw y daw'r Cod i rym hefyd ar 1 Medi 2021. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021.

3.8. Bwriedir cyhoeddi'r Cod drafft o dan y pwerau yn adran 4 o'r Ddeddf (yn ogystal â chynnwys darpariaeth a wneir o dan adrannau 7(4) ac 8(4) o'r Ddeddf a'r canllawiau sy'n ofynnol o dan adran 47(3) o'r Ddeddf). Nodir y weithdrefn ar gyfer ei baratoi o dan adran 5 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ar god drafft â phobl benodol (gweler isod am fanylion yr ymgynghoriad ) ac na ellir ei gyhoeddi oni bai bod drafft ohono (a all fod yn ddrafft wedi'i addasu yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw) wedi cael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

3.9. Bwriedir gwneud Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 o dan adrannau 15(2), 21(10), 32(1)(b), 36(3), 37(1)(a) a (b), 45, 46, 60(4), 65(5), 67, 82, 83, 97 a 98(2) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o'r Ddeddf).

3.10. Bwriedir gwneud Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 o dan adrannau 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o'r Ddeddf ac adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraffau 6(1), (2) i (5) a (7) a 6A o Atodlen 17 iddi. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 98(3) o Ddeddf 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.11. Bwriedir gwneud Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraff 6F o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft (fel sy'n ofynnol o dan adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

3.12. Bwriedir gwneud Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adrannau 160(1), 168 a 210(1) a (7) o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 210(4) o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y darpariaethau hynny i Weinidogion Cymru

yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.13. Gwneir Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 569(1), (4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 15 i Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 569(2) a (2C) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1. Diben y system ADY, gan gynnwys y Cod a'r rheoliadau o dan y pwerau yn y Ddeddf, yw creu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ysbrydoli, ei gymell a'i gefnogi i gyrraedd ei botensial llawn.

4.2. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf a materion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n disgrifio ac yn esbonio llawer o'r swyddogaethau yn y Ddeddf a rhai o'r darpariaethau yn y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae'r Cod ei hun hefyd yn gosod gofynion, yn unol ag adrannau 4(5) a (6), 7 ac 8 o'r Ddeddf. Mae canllawiau statudol y Cod yn cynnwys canllawiau ar y gofynion hynny. Mae'r canllawiau yn helpu i roi'r system ADY ar waith ymhellach.

4.3. Diben llawer o'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a'r gofynion a osodwyd gan y Cod, yw darparu'r manylion angenrheidiol neu ddymunol am y system ADY er mwyn ategu'r darpariaethau yn y Ddeddf, er enghraifft pennu terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf, darpariaethau sy'n effeithio ar benderfyniadau ynghylch pryd y bydd angen CDU a darparu bod hawl rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cael ei harfer gan gynrychiolydd os nad oes gan y rhiant/person ifanc alluedd. Yr effaith fwriadedig yw y gall y system ADY weithredu'n effeithiol.

4.4. Hefyd, y bwriad yw mai'r Cod ADY fydd y brif ddogfen a ddefnyddir gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno'r system ADY, yn enwedig awdurdodau lleol a staff ysgolion a gynhelir a SABau. Llawlyfr gweithredu ydyw i bob diben, gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi manylion am y swyddogaethau sy'n rhan o'r system ADY ac yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut i'w harfer o dan y gwahanol amgylchiadau lle mae angen eu harfer.

4.5. Mae'r Cod yn ei gyfanrwydd yn esbonio gofynion gweithredol y system ADY.

4.6. Felly, mae'r Cod wedi cael ei gynllunio i ganiatáu i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf weld y canllawiau statudol sy'n gymwys i'w cyfrifoldebau unigol o dan y Ddeddf a deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol.

4.7. Felly, mae cynnwys a fformat y Cod yn canolbwyntio ar esbonio swyddogaethau cyfreithiol a chanllawiau ynglŷn â sut i'w harfer, yn hytrach na rhoi astudiaethau achos o arferion da. Y bwriad yw y bydd gweithwyr proffesiynol (megis Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar, CADY mewn ysgol a gynhelir neu SAB, neu swyddog awdurdod lleol) yn gallu deall y broses fel y mae'n gymwys i blentyn neu berson ifanc penodol, a gweithredu i gydymffurfio â'r

dyletswyddau o dan y system ADY mewn ffordd sy'n briodol i'r amgylchiadau a rhoi'r egwyddorion sy'n sail i'r system ADY ar waith.

4.8. Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ymwneud ag apeliadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas â disgyblion ysgol. Diben y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer rheolau trefniadaeth sy'n caniatáu i weithrediadau'r Tribiwnlys gael eu cynnal mewn ffordd briodol ac effeithiol. Yr effaith fwriadedig yw y bydd apeliadau a hawliadau ger bron y Tribiwnlys yn cael eu trin yn gyfiawn.

4.9. Diben Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau awdurdod lleol i bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Yr effaith fwriadedig yw bod pwyllgorau rheoli yn arfer swyddogaethau corff llywodraethu o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r uned cyfeirio disgyblion.

4.10. Diben Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yw diwygio, fel sy'n ofynnol o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i diwygiwyd gan adran 54(3) o'r Ddeddf), Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 felly bydd ceisiadau i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl). Yr effaith fwriadedig yw y bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei chynnwys ar y gofrestr (gweler adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd gan adran 54 o'r Ddeddf) ac felly bydd y wybodaeth ar gael i awdurdodau lleol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

4.11. Diben Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021 yw addasu cyfeiriadau at rieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol ym mharagraff 3A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pan nad oes gan riant/person ifanc alluedd meddyliol (o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005) ar adeg pan fydd yn gallu gweithredu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyfeiriadau at riant/person ifanc ym mharagraff 3A, sy'n rhoi'r hawl i unigolion penodol gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael eu haddasu i ddarllen fel cyfeiriadau at ei gynrychiolydd. Yr effaith fwriadedig yw y gall rhieni neu bobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol, drwy eu cynrychiolydd, arfer yr un hawl i gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 â'r rhai sydd â galluedd.

## 5. Ymgynghori

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros ddeuddeg wythnos rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019 ar y canlynol:

- y Cod ADY drafft;
- rheoliadau drafft sy'n ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru a chydlynwyr ADY a'r bwriad polisi i arfer pwerau eraill i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf;
- diwygiadau i God Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya.

5.2. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- y brif ddogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys 65 o gwestiynau a oedd yn cwmpasu'r materion uchod;
- fersiwn o'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen a oedd yn cynnwys 15 o gwestiynau ar agweddau ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig;
- dau ddigwyddiad ymgynghori hanner diwrnod ym mhob un o ardaloedd y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru;
- cyfres o sesiynau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni y daeth 228 o bobl iddynt.

5.3. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion ar 14 Mehefin 2019 a gellir ei weld yn:

https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft

5.4. Fel y nododd yr adroddiad hwnnw, mae'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn ymdrin ag amrywiaeth eang iawn o bynciau gwahanol ac felly roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amrywiol iawn eu cwmpas, gan gynnwys cryn nifer o safbwyntiau amrywiol a ffocws gwahanol iawn.

5.5. Ar y cyfan, roedd ymateb y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gadarnhaol. Cafwyd y nifer mwyaf o ymatebion beirniadol i faterion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- y diffiniad o ADY a sut i'w hadnabod;
- y terfynau amser y mae'n rhaid cyflawni dyletswyddau yn unol â nhw;
- rolau'r CADY, y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ('SACDA') a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal;

- trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau, gwasanaethau eirioli ac apeliadau;
- dirprwyo dyletswyddau i unedau cyfeirio disgyblion;
- templedi ar gyfer cynlluniau datblygu unigol (‘CDUau’)
- darparu CDUau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn mynychu lleoliad addysg;
- y system ADY fel y bydd yn gymwys i bobl a gedwir yn gaeth.

5.6. Mae'n werth nodi bod y sylwadau gan ymatebwyr yn tueddu i gael eu cyflwyno gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu agweddau penodol ar y Cod ADY drafft yn fawr iawn, neu a oedd yn ansicr ynglŷn ag agweddau ar y polisïau hynny. Roedd hyn yn wir hefyd o ran y sylwadau ar faterion penodol, hyd yn oed pan oedd y cwestiynau ar y materion hynny yn yr ymgynghoriad wedi cael ymateb cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys cryn nifer o ddiwygiadau technegol awgrymedig i'r Cod ADY.

5.7. Mynegodd ymatebwyr bryder ynglŷn â'r amrywiol dermau sy'n ymddangos yn y Cod ADY drafft. Bu rhai yn galw am ganllawiau ar ystyr termau penodol hefyd. Wrth ystyried y pwyntiau hynny ymhellach, rydym wedi ystyried a fyddai ymhelaethu ar y termau yn werthfawr neu a oes risg y byddai hynny'n culhau neu'n ehangu ystyr y term a'r cyfyngiadau a bennir gan y Ddeddf a hynny'n anfwriadol.

5.8. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn amau amrywiol agweddau ar eiriad y diffiniadau o ADY a DDdY. Nodir y diffiniadau hyn yn y Ddeddf ac ni all y Cod ADY eu newid. Mae geiriad y diffiniadau o ADY a DDdY a ddefnyddir yn y Ddeddf, a ailadroddir yn y Cod ADY drafft, yn debyg yn fwriadol i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r diffiniadau o AAA a darpariaeth addysgol arbennig, y bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn gyfarwydd â nhw.

5.9. Roedd ymatebwyr hefyd yn amau elfennau eraill o'r system a osodwyd yn y Ddeddf. Er enghraifft, roedd rhai yn anghytuno â'r egwyddor mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau i blant sy'n derbyn gofal. Roedd eraill yn galw am greu gofynion newydd nad yw'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, megis ei gwneud yn ofynnol i bartïon gymryd rhan mewn proses datrys anghytundeb cyn y gallant gyflwyno apêl, neu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys. Mae'n rhaid i'r Cod ADY a'r rheoliadau fod yn gyson â'r Ddeddf ac ni allant ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson wneud rhywbeth nad yw'r Ddeddf yn darparu pŵer yn ei gylch.

5.10. Yn yr un modd, bu cryn nifer yn galw am droi llawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft yn “rhaid”. Mae'r amrywiaeth o bethau y mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i wneud gofynion gorfodol yn eu cylch wedi'i gyfyngu gan y Ddeddf. Hyd yn oed pan fydd y Ddeddf yn rhoi pŵer o'r fath, mae'r cwestiwn yn codi ai gofyniad gorfodol (“rhaid”) ynteu canllawiau statudol (“dylid”) sydd fwyaf priodol. Un ystyriaeth bwysig yw a allai adegau godi pan fyddai modd cyfiawnhau achos o

beidio â chydymffurfio ac os felly, a fyddai'n well ymdrin â'r rhain drwy nodi eithriadau penodol i ofyniad gorfodol neu drwy wneud y mater yn un ar gyfer canllawiau statudol, sy'n caniatáu i'r person gyfiawnhau amrywiad ar sail achosion unigol.

5.11. Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd bryder am arddull yr iaith a ddefnyddiwyd yn y Cod ADY drafft. Gan y bydd y Cod ADY yn gosod gofynion gorfodol o dan y gyfraith, mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny. Yn yr un modd, mae angen i'r canllawiau yn y Cod fod yn glir ac yn fanwl gywir yn unol â hynny fel y gall y rhai y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt, ddeall yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud hynny. O ganlyniad, mae'r iaith yn eithaf ffurfiol mewn mannau, ond lle y gall fod yn anodd ei dilyn weithiau, rhoddwyd enghreifftiau i egluro'r ystyr. Mae'n bwysig nodi hefyd y bwriedir i'r Cod ADY fod yn ddogfen i'w darllen a'i defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, fel y'u rhestrwyd ym Mhennod 1 o'r Cod ADY drafft yn bennaf. Nid yw'r Cod ADY drafft wedi cael ei lunio i fod yn ddealladwy i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol gan nad y cyhoedd yw cynulleidfa arfaethedig y Cod ADY. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan y Ddeddf wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y system ADY.

5.12. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r Cod ADY drafft yn dweud fawr ddim am alluedd meddyliol mewn perthynas â phobl ifanc a rhieni. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn y Cod ADY drafft. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn Whitehall i sicrhau bod Cod Ymarfer ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn ystyried y Ddeddf ADY a'i Chod a'i rheoliadau.

5.13. Cododd rhai ymatebwyr faterion ynglŷn â darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu. Fel y crybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn sydd wedi'i dargedu hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith pellach ar ddiwygio'r Mesur, a bwriedir ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Yn y cyfamser, mae adran nad yw'n orfodol ar gludiant wedi'i chynnwys yn y templed ar gyfer CDUau, a roddir yn yr Atodiad î'r Cod.

5.14. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r Cod gynnwys canllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodwyd mewn canllawiau statudol eraill. Mae'r Ddeddf yn nodi'r glir bod yn rhaid i'r canllawiau y gall y Cod eu cynnwys ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, felly,

nid yw'n briodol i'r Cod roi canllawiau ar faterion eraill, ond lle y bo'n briodol, cyfeirir at feysydd a chanllawiau cyfreithiol perthnasol eraill.

5.15. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhoi'r system ADY newydd ar waith yn cael effaith ariannol sylweddol. Cafodd goblygiadau ariannol y Ddeddf eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil. Yn benodol, craffwyd yn fanwl iawn ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys pleidlais ohiriedig ar gynnig y penderfyniad ariannol tra bod gwaith dadansoddi annibynnol pellach yn cael ei wneud. Ystyriwyd y gwaith dadansoddi hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn derbyn y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r mater hwn.

5.16. Er mwyn cydnabod costau symud o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r system ADY newydd, darperir cyllid grant ar sail ranbarthol i'w rhoi ar waith, sydd wedi'i gydgysylltu gan Swyddogion Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol, er mwyn cyflwyno hyfforddiant a datblygiad proffesiynol rhanbarthol, amlasiantaethol ar y fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yr hyfforddiant yn targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd (gan gynnwys rolau CADY a SACDA) er mwyn sicrhau y caiff y system ADY newydd ei rhoi ar waith yn effeithiol.

5.17. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu system electronig i gefnogi proses y CDU. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac rydym wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu cychwynnol i gadarnhau dichonoldeb a phriodoldeb datblygu system ar-lein i Gymru gyfan.

5.18. Yn olaf, cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynglŷn â gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wella gallu'r gweithlu arbenigol.

5.19. Ymdrinnir â'r newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r diwygiadau arfaethedig i God Ymarfer Rhan 6 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya ar wahân ac felly nid ymdrinnir â nhw yma.

<u>Ymgynghoriad ar Gynrychiolwyr Pobl Ifanc, a Rhieni Plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol</u>

5.20. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gynigion ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol rhwng 3 Medi i 29 Hydref 2020.

5.21. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad yn cynnwys fersiwn ddrafft o Bennod 31 o'r Cod ADY (Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol) a “Rheoliadau drafft pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol 2020”.

5.22. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd y rheoliadau drafft hynny eu hymgorffori, gyda diwygiadau, yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 fel Rhan 4.

5.23. Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 22 Ionawr 2021 a gellir ei weld yma https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-a-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol-crynodeb-or-ymatebion.pdf

Newidiadau i'r Cod drafft yn dilyn y ddau ymgynghoriad

5.24. Daeth cryn nifer o sylwadau i law, a oedd yn cwmpasu bron pob agwedd ar y Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus pa newidiadau i'w gwneud yng ngoleuni sylwadau'r ymatebwyr. Esbonnir y newidiadau hyn, a'r rhesymau drostynt, yn y tabl canlynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailstrwythuro'r Cod drafft i wella ei strwythur a'i ddarllenadwyedd, gan gynnwys cyflwyno rhai penodau newydd. Dilëwyd y siartiau llif am ein bod yn gweld y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol a bod risg y gallai'r siartiau llif dynnu sylw oddi wrth y testun cyfreithiol.

| Pennod Newydd | Hen Bennod | Yr hyn sydd wedi newid |
|---|---|---|
| 1 – Cyflwyniad | 1 | Cafodd y cyflwyniad ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i gynnwys y Cod (megis penodau newydd) a'r darpariaethau yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Cafodd ei symleiddio i wneud y Cod yn haws i'w ddarllen.<br><br>Ceir hefyd esboniadau manylach o'r ffordd y dylid dehongli gofynion a osodir gan y Cod a'r disgrifiadau o ofynion yn y Ddeddf neu'r rheoliadau (er enghraifft mewn perthynas ag achosion lle mae gan blentyn gyfaill achos neu lle nad oes gan riant plentyn/person ifanc alluedd). |
| 2 – Y diffiniad o ADY a DDdY | 7 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei chreu o ran gyntaf yr hen bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. (Mae'r ail ran wedi creu Pennod 20.) Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; symudwyd y bennod tuag |

| | | |
|---|---|---|
| | | at ddechrau'r Cod, a diwygiwyd y strwythur a'r cynnwys i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder mewn perthynas â'r diffiniadau o ADY a DDdY a'r ffordd y maent yn cael eu cymhwyso yn y system ADY. |
| 3 – Egwyddorion y Cod | 2 | Cafodd y bennod hon ei chwtogi'n sylweddol a'i symleiddio er mwyn tynnu sylw at egwyddorion y Cod, heb roi enghreifftiau helaeth a all fod wedi tynnu sylw oddi wrth ei neges allweddol. |
| 4 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc | 3 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi rhagor o ganllawiau a bod yn fwy eglur mewn rhannau penodol. Yn benodol, mae llawer mwy o ganllawiau statudol ynghylch cydsyniad pobl ifanc. |
| 5 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG o ran CCUHP a CCUHPA | 4 | Dim ond mân newidiadau a wnaed i'r bennod hon; nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol. |
| 6 - Cyngor a Gwybodaeth | 6 | Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r bennod hon, a hynny er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn mannau eraill yn y Cod a gwneud rhai rhannau yn fwy eglur. Mae un darn o'r canllawiau statudol yn ofyniad bellach ac mae ychydig mwy o ganllawiau statudol. |
| 7 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol | 5 | Cafodd Pennod 7 (sef Pennod 5 yn y fersiwn a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad) ei symleiddio, a chafodd diwygiadau penodol eu gwneud er mwyn gwneud materion mewn rhai meysydd yn fwy eglur. Cafodd newidiadau eraill eu gwneud i sicrhau bod y bennod yn gyson â'r newidiadau a wnaed mewn mannau eraill yn y Cod. Dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r agweddau allweddol ar y bennod hon, os o gwbl; y canllawiau ategol sydd wedi cael eu diwygio'n bennaf neu mae'r strwythur wedi cael ei ad-drefnu. |
| 8 – Rôl Cydlynydd ADY | 24 | Rydym wedi atgyfnerthu'r bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y cyngor sydd eisoes wedi'i gynnwys. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaeth y dylai pennaeth lleoliad addysg ei rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn unol â'r Rheoliadau CADY, diwygiwyd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(h) a 6(h) o'r Rheoliadau CADY drafft – rheoliadau 5(i) a 6(i) gynt yn y fersiwn flaenorol o'r rheoliadau yr ymgynghorwyd arnynt yn 2019). At hynny, mae rhai o ddyletswyddau'r CADY a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu, sef: y ddyletswydd i baratoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen i'r corff llywodraethu ei chyhoeddi yn unol â'r cod; a'r ddyletswydd i roi gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, ei CDU a'r DDdY a gynigir. Dilëwyd y rhain yn y bennod ar ôl iddynt gael eu dileu yn y Rheoliadau CADY. |
| 9 – Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg | 15 (ail ran) | Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn y Bennod (15) flaenorol ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Ni ddiwygiwyd sylwedd y bennod ryw lawer ond cafodd ei symleiddio a'i newid i'w gwneud yn fwy eglur ac yn debycach i strwythur y penodau eraill ar y rolau statudol. |
| 10 – Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (CADY) | 8 (ail ran) | Ni newidiwyd sylwedd y bennod hon yn fawr iawn. Gwnaed rhai newidiadau strwythurol, newidiadau fformatio a mân ddiwygiadau eraill i'w gwneud yn fwy eglur. |
| 11 – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir | 8 | Cafodd y penodau hyn eu diwygio'n sylweddol. Mae'r penodau hyn yn cynnwys y prif ddyletswyddau mewn perthynas â'r system ADY ar gyfer y mwyafrif o blant a phobl ifanc. Yn y fersiwn ddrafft o'r Cod, nodwyd y gofynion mewn pedair pennod; fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cawsant eu didoli yn ôl |
| 12 – Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac ALlau i blant mewn ysgol a gynhelir | 9 | |

<table>
<tr><td>13 – Dyletswyddau ar ALlau ynghylch plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir</td><td>11</td><td rowspan="4">amgylchiadau ac ystodau oedran mwy penodol. Mae'r darpariaethau ynglŷn â pharatoi CDU wedi cael eu symud i Bennod 23, gan fod llawer ohonynt yn gymwys o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau neu'r holl amgylchiadau gwahanol a gallant hefyd fod yn berthnasol wrth gynnal CDU.<br>Bwriedir i'r newidiadau strwythurol hyn wneud y rhan hon o'r Cod yn haws i ddefnyddwyr.<br>Mae'r cynnwys ei hun hefyd wedi cael ei symleiddio a'i ddiwygio'n sylweddol er mwyn ei wneud yn fwy eglur, sicrhau mwy o gysondeb rhwng y penodau ac ychwanegu mwy o fanylion mewn rhai rhannau er mwyn gwella'r cysylltiadau â'r rhannau eraill o'r Cod a sicrhau bod y gofynion yn gliriach ac yn effeithiol.<br>Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y gofynion na'r canllawiau yn y penodau hyn wedi newid.<br>Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol o ran gofynion yw'r newid mewn perthynas â gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu newid ac felly pan fydd yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried a ddylai geisio cyngor gan seicolegydd addysgol a, phan fydd o'r farn bod angen cyngor o'r fath i benderfynu ar bethau penodol, mae'n rhaid iddo ei geisio. Gwnaed y newid hwn o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod y gofynion yn rhy feichus ac mae'n rhoi statws statudol i rôl y Seicolegydd Addysgol, ond hefyd yn lleihau'r baich sylweddol o bosibl y gallai gofyniad cyffredinol i ymgynghori â Seicolegydd Addysgol o dan yr holl amgylchiadau ei achosi.</td></tr>
<tr><td>14 – Dyletswyddau ar ALl ynghylch plant sy'n derbyn gofal ganddo</td><td>Pennod Newydd</td></tr>
<tr><td>15 – Dyletswyddau ar ysgolion ac ALlau ynghylch pobl ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir</td><td>Pennod Newydd</td></tr>
<tr><td>16 – Dyletswyddau ar Sefydliad Addysg Bellach (SAB) ac ALl ynghylch pobl ifanc mewn SAB</td><td>10</td></tr>
<tr><td>17 – Dyletswyddau ac ALlau ynghylch pobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na SAB</td><td>12</td><td>Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol i fod yn gyson â'r manylion yn rheoliadau 6 i 10 o Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 1 i Reoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddorion</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | polisi a nodwyd yn wreiddiol yn y bennod ddrafft flaenorol wedi newid. Mae'r bennod yn nodi'r ystyriaethau a'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â nhw wrth benderfynu a oes angen CDU i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (lle nad yw'r person ifanc mewn ysgol a gynhelir na SAB yng Nghymru). Mae'r prif ofynion o ran sicrhau lleoliad ôl-16 arbenigol yn adlewyrchu'r rhai o dan y system bresennol (lle mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau lleoliadau o'r fath).<br><br>Hefyd, gwnaed newidiadau eraill yn debyg i'r rhai a ddisgrifir mewn perthynas â phenodau 11 i 16. |
| 18 – Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol | 23 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio gryn dipyn er mwyn gwella strwythur a llif y bennod; a rhoi mwy o ganllawiau ar nifer o amgylchiadau gwanhaol. Ceir gofyniad newydd hefyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y mae eu rhiant yn aelod o'r Lluoedd Arfog. |
| 19 – Plant a phobl ifanc o dan orchymyn cadw | 22 | Gwnaed newidiadau i egluro'n well sut y mae'r system ADY yn gymwys mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o dan orchymyn cadw (gan gynnwys pobl a gedwir yn gaeth), gan gynnwys esbonio beth yw ystyr diffiniadau yn ymarferol a sôn am faterion eraill sy'n berthnasol i sefyllfaoedd lle y cedwir pobl ifanc yn gaeth a rhoi mwy o ganllawiau ymarferol.<br><br>Mae'r bennod hefyd yn ymdrin ag atgyfeiriadau at gyrff y GIG o dan adran 20 o'r Ddeddf lle mae CDU yn cael ei baratoi ar gyfer person a gedwir yn gaeth, gan roi canllawiau ynghylch pryd y byddai hyn yn briodol a gosod gofyniad cysylltiedig lle y nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol. Adlewyrchir y diwygiad i adran 44 o'r Ddeddf ynglŷn â'r ddyletswydd ar gyrff y GIG o dan adran 20 (gan nodi nad yw'n gymwys yn ystod y cyfnod cadw).<br><br>O ran y terfynau amser yn y bennod hon, ac yn unol â diwygiadau tebyg drwy'r Cod |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfan, nodir cyfnod penodedig bellach y mae'n rhaid cymryd y cam (e.e. penderfynu ar ADY a pharatoi CDU neu adolygu CDU) oddi mewn iddo, yn amodol ar yr eithriad arferol. Yn y gorffennol, y gofyniad oedd bod yn rhaid cymryd y cam yn brydlon.<br>Mae'r canllawiau blaenorol ar adolygu CDU ar ôl i berson a gedwir yn gaeth gael ei ryddhau wedi cael eu troi'n ofyniad a cheir canllawiau ategol ar y gofyniad hwnnw.<br><br>Ceir newidiadau hefyd i wneud gofynion yn gyson â rhai tebyg mewn mannau eraill sydd wedi cael eu mireinio, er mwyn gwella'r croesgyfeiriadau (ac adlewyrchu'r newidiadau strwythurol) a newidiadau i adlewyrchu gofynion yn Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, gan gynnwys y rheoliadau sy'n ymdrin â'r angen i baratoi CDU. |
| 20 – Adnabod ADY a phenderfynu a oes angen y DDdY | 7 (ail ran) | Fel yn achos Pennod 2 (Diffiniad o ADY a DDdY), cafodd y bennod hon ei chreu o ail ran yr hen Bennod 7 yn y fersiwn ddrafft o'r Cod. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad; cafodd y strwythur a'r cynnwys eu diwygio i roi rhagor o ganllawiau a mwy o eglurder ynghylch adnabod ADY, penderfynu ar y DDdY sydd ei hangen, a chasglu a defnyddio tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau hynny a chysoni â newidiadau mewn mannau eraill. |
| 21 – Gweithio amlasiantaethol | 15 (rhan gyntaf) | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol; ond nid yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi newid. Y newid allweddol yw bod yr adran ar rôl y SACDA wedi cael ei symud a'i gosod mewn pennod ar wahân (Pennod 9). Yn benodol, cafodd canllawiau statudol ar y Bwrdd Iechyd Lleol y dylid atgyfeirio achos ato o dan adran 20 eu hychwanegu, a hefyd ddarpariaeth ynghylch pryd mae Bwrdd Iechyd Lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc. |
| 22 – Cyfarfodydd am ADY a DDdY | 18 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol a gwella'r strwythur; ond nid yw'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, ceir canllawiau ychwanegol ar gynnal cyfarfodydd drwy ddulliau rhithwir, yn ogystal â rhagor o ganllawiau ar y materion y bydd angen eu hystyried o bosibl er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gyfranogi'n well. |
| 23 – Paratoi CDU a'i gynnwys | 13 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Roedd elfennau penodol wedi'u cynnwys yn y prif benodau ar ddyletswyddau (penodau 11 i 17 bellach), a oedd yn ymwneud â pharatoi neu gynnal CDU, a oedd yn gymwys i'r holl amgylchiadau neu'r rhan fwyaf o amgylchiadau, ac a oedd yn cael eu hailadrodd ym mhob un o'r penodau hynny ac roedd rhai elfennau a oedd ond yn cael eu trafod yn un o'r penodau hynny ond a oedd yn berthnasol o bosibl i sefyllfaoedd eraill. Er mwyn symleiddio'r prif benodau ar ddyletswyddau, a rhoi mwy o eglurder a chanllawiau ar baratoi CDU neu ei adolygu, mae'r elfennau hynny o'r canllawiau wedi cael eu symud a'u cynnwys yma. Cafodd y strwythur a'r geiriad yn y bennod hon eu diwygio hefyd i wella'r llif a'i gwneud yn haws i'w defnyddio. Cafodd adran ei hychwanegu hefyd yma ac yn y templedi ar gyfer ffurflenni safonol yn Atodiadau A a B er mwyn rhoi gwybodaeth am drefniadau teithio. |
| 24 – Paratoi CDU a'i gynnwys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | 14 | Cafodd y bennod hon ei diwygio yn unol â'r newidiadau i Bennod 23 a'i symleiddio i osgoi dyblygu'r wybodaeth a geir yn y bennod honno. Yn syml, mae'r bennod hon bellach yn esbonio'r gwahaniaeth yn y broses a chynnwys CDP i blentyn sy'n derbyn gofal, ond mae'r canllawiau ar gynnwys perthnasol pob rhan o'r CDU wedi'u nodi ym Mhennod 23. |
| 25 – Adolygu a Diwygio CDUau | 16 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. Cafodd ei hailstrwythuro a'i symleiddio hefyd lle y bo modd ond nid yw hanfod y cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 26 – Ailystyriaethau awdurdodau lleol ac | 17 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai |

| | | |
|---|---|---|
| ymgymryd â'r cyfrifoldeb am CDU | | mannau, gan gynnwys gwella'r cysylltiadau â rhannau eraill o'r Cod. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. Cafodd darpariaethau ynglŷn ag ymgynghori â seicolegydd addysgol eu dileu. |
| 27 – Cynllunio ar gyfer cyfnod pontio a'i gefnogi | 19 | Cafodd y bennod hon ei hailddrafftio'n sylweddol. Mae'r bennod yn llai rhagnodol bellach, gyda llai o ganllawiau statudol. Mae hyn yn ymateb i'r sylwadau lu a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn gwrthddweud ei gilydd ac a oedd yn ei gwneud yn amlwg bod cyfnodau pontio yn hyblyg ac y bydd angen gweithredu yn unol ag anghenion unigolion.<br>Ymdrinnir â manylion am geisio cydsyniad plentyn sy'n dod yn berson ifanc i barhau i gynnal ei CDU ym Mhennod 4 bellach. |
| 28 – Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU | 20 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn rhai mannau, gan gynnwys cysylltu â rhannau eraill o'r Cod ac adlewyrchu manylion Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 29 – Peidio â chynnal CDU | 21 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion mewn mannau penodol. O ran strwythur, mae'r bennod wedi newid ond nid yw'r cynnwys wedi newid yn sylweddol. |
| 30 – Cyfeillion achos i blant nad oes ganddynt alluedd | 27 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau technegol a wnaed i'r rheoliadau. Mae'n rhoi esboniad clir o'r ffordd y gall plentyn nad oes ganddo alluedd ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am rôl cyfaill achos a sut y cânt eu penodi a'u tynnu'n ôl gan y Tribiwnlys. |
| 31 – Cynrychiolwyr rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd | Pennod Newydd | Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Hydref 2020, cafodd y bennod ei diwygio i gynnwys croesgyfeiriadau ychwanegol, yn enwedig o ran Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r bennod hefyd wedi |

| | | |
|---|---|---|
| | | nodi'n fwy eglur y gall cynrychiolwyr gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys troednodiadau newydd sy'n cyfeirio at effaith achos Re: D. |
| 32 – Osgoi a datrys anghytundebau ac Eiriolaeth Annibynnol | 25 | Cafodd y bennod hon ei diwygio i roi mwy o eglurder a manylion lle y bo eu hangen. O ran strwythur, nid yw'r bennod wedi newid ac nid yw'r cynnwys na'r dyletswyddau wedi newid yn sylweddol. |
| 33 – Apeliadau a Cheisiadau i'r Tribiwnlys Addysg | 26 | Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu’r newidiadau technegol a wnaed i’r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y bennod yn disgrifio'r broses apelio a'r terfynau amser dan sylw. Mae'n rhoi eglurder ynghylch beth y gellir apelio yn ei gylch a chan bwy. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais i'r Tribiwnlys o ran dim galluedd. Mae hefyd yn cynnwys adran ynglŷn â sut y gall plant gyflwyno eu hapêl eu hunain i'r Tribiwnlys. |

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Y Cod ADY, gan gynnwys diwygiadau ar ôl ymgynghori

### 6. Opsiynau

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â llunio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

Fel rhan o'r diwygiadau hanfodol hyn, bydd y Cod ADY yn disodli'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) presennol i Gymru. Dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau o 1 Medi 2021, bydd proses weithredu fesul cam lle y caiff yr holl ganllawiau statudol yn y Cod Ymarfer AAA eu diffodd a chaiff darpariaethau newydd eu cyflwyno drwy'r Ddeddf ADY, y cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig.

Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ystyried goblygiadau rheoleiddiol gosod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn y Cod ADY (a'r rheoliadau cysylltiedig).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Cod ADY, ynghyd â'r rheoliadau cysylltiedig, gerbron y Senedd ar 2 Mawrth, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adolygu'r cynigion ar b'un a ddylid dwyn y Cod ADY i rym.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adolygu dau opsiwn a ddisgrifir isod.

### Opsiwn un: gwneud dim

O dan opsiwn un, bydd y system AAA bresennol yn parhau â'r Cod Ymarfer AAA sy'n nodi rôl darparwyr addysg i adnabod plant ag anghenion arbennig a gwella eu profiad.

### 6. Manteision

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth opsiwn un.

Hefyd, gallai rhan o'r £20.244m o gyllid y cytunwyd arno ar 7 Chwefror 2017 i dalu costau pontio un system statudol i un arall a chyflwyno'r trawsnewidiadau ehangach i'r system gael ei wario ar bethau eraill.

### 7. Anfanteision

Mae'r system bresennol yn annheg. Mae darpariaeth gwasanaeth a ddiogelir o dan y gyfraith i blant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol ac sydd uwchlaw'r trothwy i gael datganiad AAA. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i diogelu na hawliau statudol i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn llai difrifol ac sydd islaw'r trothwy i gael datganiad AAA.

Mae'r arferion a'r prosesau presennol sy'n gysylltiedig â datganiadau AAA yn aneffeithlon ac anhyblyg, a gallant arwain at ddarpariaeth aneffeithiol i blant a phobl ifanc.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu a diwygio cynlluniau statudol yn feichus yn weinyddol ac mae'n rhaid i ysgolion wahodd set ragnodedig o weithwyr proffesiynol, p'un a oes angen eu presenoldeb a'u cyfraniad ai peidio o ran effeithiolrwydd yr adolygiad. Mae adolygiadau statudol yn cymryd cryn dipyn o amser i drefnu a pharatoi ar eu cyfer. Felly, gall y broses o ddiwygio cynllun fod yn un hirfaith ac arwain at oedi cyn bod dysgwyr yn cael y cymorth mwyaf priodol.

Hefyd, nid oes fawr ddim hyblygrwydd wrth adolygu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ar y trothwy i gael cymorth statudol. Er enghraifft, pan fydd canlyniadau cynllun statudol wedi'u cyflawni i blentyn neu berson ifanc, gall pryder rhieni ynglŷn â cholli'r hawl statudol arwain at bwysau i gynnal y cynllun a'i ddarpariaeth, er na fydd hyn o reidrwydd yn golygu'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol i'r person ifanc.

Yn olaf, heb y Cod ADY, ni allai'r diwygiadau i'r system AAA na'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd fynd rhagddynt.

**Opsiwn dau: cyflwyno Cod ADY yn lle'r Cod Ymarfer AAA**

O dan opsiwn dau, caiff y system AAA bresennol, gan gynnwys y Cod Ymarfer AAA ei disodli'n gyfan gwbl gan y system ADY, gan gynnwys y Cod ADY statudol.

Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

Fel trydydd opsiwn posibl, gellid bod wedi bwrw ymlaen â'r Cod ADY drafft fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 cyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, ni fyddai hwn wedi bod yn opsiwn gwirioneddol o ystyried y gofynion cyfreithiol i gynnal ymgynghoriad ystyrlon ar y Cod ADY drafft a'r ymrwymiad cyhoeddus i wneud gwelliannau i'r Cod ADY drafft cyn ei osod gerbron y Senedd.

## 8. Manteision

Trafodir manteision parhau â'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys gosod y Cod ADY diwygiedig a chyflwyno'r system ddeddfwriaethol y mae'r Cod yn helpu i'w hategu, yn fanylach o dan adran 7. Fodd bynnag, mae'r prif fanteision yn ymwneud â'r rhesymau dros ddiwygio'r system AAA yn y lle cyntaf, sef y bydd y Cod ADY diwygiedig yn gwella'n sylweddol y cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

## 9. Anfanteision

Yn yr un modd â'r manteision, trafodir yr anfanteision yn fanwl isod. Fodd bynnag, y prif bwynt i'w nodi yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno system ddeddfwriaethol newydd. Ceir risg y bydd costau yn cynyddu, o ran cost ariannol a phwysau ar adnoddau. Fodd bynnag, yn ôl Adroddiad Blynyddol

2018-2019 Estyn "Mae ysgolion ac UCDau sydd â rolau arwain clir ac arfer ragorol mewn sefyllfa dda i drosglwyddo o'r system AAA bresennol i'r system ADY newydd."

Mae risg hefyd yn gysylltiedig â chyflwyno'r diwygiadau hyn ar adeg na welwyd ei thebyg o'r blaen mewn lleoliadau addysg, gyda COVID-19 o bosibl yn effeithio ar allu awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu (a chyrff statudol eraill) i reoli'r broses o'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r risg hon yn ymwneud mwy â rhoi'r system ar waith yn hytrach na chyflwyno'r Cod ADY.

## 7. Costau a manteision

Mae'r Cod ADY yn cynnwys canllawiau statudol ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ADY, sy'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar faterion eraill sy'n gysylltiedig ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY, ac yn disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai yn y Ddeddf.

Mae'r Cod yn cynnwys cannoedd lawer o ddyletswyddau statudol unigol, lle mae'r gofynion (a ysgrifennir fel "**rhaid**" yn y Cod) yn deillio o bwerau mewn is-ddeddfwriaeth – naill ai o'r Cod ei hun neu o reoliadau – yn hytrach na deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf ADY. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â manylion a phrosesau ynglŷn â sut y bydd y system yn gweithredu, gan gynnwys manylion am y rolau a'r tasgau a nodir yn y Ddeddf ADY.

Nid diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw trafod effaith pob dyletswydd statudol yn y Cod. Yn hytrach, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn trafod y dyletswyddau mewn ffordd thematig, gyda chyfeiriadau penodol at y dyletswyddau newydd fel y'u diwygiwyd ar ôl yr ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft.

Er mwyn deall effaith y dyletswyddau statudol a wneir o dan is-ddeddfwriaeth yn well, cafodd pob enghraifft o "**rhaid**" yn y Cod ei chasglu, ei dadansoddi a'i threfnu'n gategorïau o gost debygol pob dyletswydd o ran ei harwyddocâd yn hytrach nag amcangyfrif ariannol o bob dyletswydd unigol. Cafodd yr holl ddyletswyddau yr ystyrir eu bod yn costio mwy na'r gost isel sy'n gysylltiedig â thasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiad) eu casglu ynghyd yn themâu. Trafodir y themâu hyn yn fanwl isod.

Lle y bo'n berthnasol, defnyddir cyfeiriadau at y costau fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018) yma.

### Pecyn cyllid o £20m i gyflwyno'r system ADY

Defnyddir y pecyn cyllid o £20.244m i helpu i roi'r Ddeddf ar waith a chyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.

Caiff rhan fawr o'r cyllid hwn ei defnyddio i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pob partner yn deall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ac yn barod ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i feithrin gallu a sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i weithredu'r system newydd yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Rydym yn targedu gweithgarwch datblygu'r gweithlu ar dair lefel; datblygu sgiliau craidd i bob ymarferydd, datblygu sgiliau uwch drwy sefydlu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau) a fydd yn disodli rôl bresennol Cydlynwyr AAA; a datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol sydd ar gael i leoliadau addysg.

Mae pum arweinydd trawsnewid ADY wedi bod mewn swydd ers mis Ebrill 2018. Eu rôl yw rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach, wrth iddynt baratoi i roi'r diwygiadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys hunanasesiadau trylwyr o barodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Bydd yr arweinwyr trawsnewid ADY yn gyfrifol am gyflwyno hyfforddiant gweithredu ar sail ranbarthol, amlasiantaethol.

## 10. Themâu a nodwyd o'r dyletswyddau statudol yn y Cod ADY

- Dynodi rolau statudol (swyddogion cydlynu ADY)
  - SACDA
  - CADY
  - Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

- Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)
  - Paratoi CDU
  - Sicrhau DDdY
  - Adolygu CDU

- Gwasanaethau Eirioli Annibynnol

- Costau adolygu'r system

## 11. Costio is-ddeddfwriaeth

Daeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ADY i'r casgliad na ddylai'r system ADY newydd ei hun fod yn fwy costus na'r system AAA bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno tystiolaeth os ydynt yn credu y bydd y system newydd yn fwy costus, ond hyd yma nid oes unrhyw dystiolaeth o'r fath wedi dod i law.

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn parhau i gefnogi'r safbwynt a nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf ADY. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod risgiau yn gysylltiedig â rhoi system newydd ar waith pan fydd lefel y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion a SABau a byrddau iechyd yn gyfyngedig. Mae'r mater hwn yn amlwg yn un ehangach nag ADY, ac mae'n ymwneud â chyllid y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, ond mae'r pryderon hyn yn parhau i gael eu mynegi mewn unrhyw drafodaeth gyhoeddus am y diwygiadau ym maes ADY.

Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn helpu'r darllenydd i ddeall y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â'r Cod ADY diwygiedig, a rhoi trosolwg o effaith y Cod ADY yn gyffredinol, gan ddefnyddio'r dull thematig a ddisgrifir uchod.

Mae'r costau a'r manteision a drafodir isod yn seiliedig ar gytuno ar Opsiwn dau.

## 12. Y ddyletswydd i ddynodi Swyddogion Cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol

## 13. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)

## 14. Mantais

Bydd Opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad addysg, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a SABau, benodi CADY. Mae'r hyn yn estyn y trefniadau presennol lle y defnyddir Cydlynwyr AAA anstatudol yn y rhan fwyaf

o ysgolion yng Nghymru. Drwy wneud y CADY yn rôl statudol, bydd hyn yn sicrhau dull cyson o gydlynu DDdY i ddysgwyr yng Nghymru a helpu i feithrin gwell cydberthnasau gwaith rhwng sectorau.

## 15. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad

Yn sgil yr ymgynghoriad ar y Cod ADY, rydym wedi atgyfnerthu'r bennod ar CADYau i roi mwy o eglurder ynglŷn â'r cyngor a ddarperir eisoes. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ystyriaethau y dylai penaethiaid eu rhoi i neilltuo digon o amser i'r CADY ymgymryd â'i rôl a'r disgwyliadau o ran hyfforddiant a datblygu i CADYau.

Yn unol â Rheoliadau CADY 2020, cafodd rhai o'r dyletswyddau ar CADYau a nodir yn y bennod eu diwygio. Mae'r diwygiadau hyn yn nodi'n fwy eglur pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol (rheoliadau 5(e) a 6(e) o Reoliadau CADY 2020) a pha agweddau ar gadw cofnodion y bydd yn rhaid i CADYau ymgymryd â nhw (rheoliadau 5(c) a 6(c) o Reoliadau CADY 2020). At hynny, mae rhai o'r dyletswyddau a nodwyd yn flaenorol yn y drafft o'r bennod hon wedi cael eu dileu. Mae'r rhain yn ymwneud â pharatoi ac adolygu'r wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi gan y corff llywodraethu yn unol â'r Cod ADY, a'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r unigolyn (ac yn achos disgybl, ei riant) ynglŷn â'i ADY, CDU a'r DDdY a gynigir. Mae'r rhain wedi cael eu dileu yn y bennod a Rheoliadau CADY 2020 oherwydd newidiadau a wnaed mewn mannau eraill i'r Cod ADY yn hyn o beth.

Mae'r diwygiadau hyn yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar y gost na'r manteision sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Cod ADY, ond gallant roi cymorth mwy eglur i'r rhai sydd â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â rôl CADY.

16.

## 17. Cost

Trafodwyd cost creu rôl y CADY yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY a'r asesiad effaith integredig ar gyfer rheoliadau CADY. O ystyried cwmpas cyffredinol y rôl a'r ffordd y bydd yn amrywio o leoliad i leoliad, ni fydd modd rhoi cost amcangyfrifedig ar gyfer y rôl. Yr effaith fwyaf sylweddol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn oedd sut y bydd y rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu at godi safonau o ran gweithgarwch cydlynu neu DDdY i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd awdurdodau lleol yn gwneud hyn drwy roi sicrwydd y bydd rôl newydd y CADY yn cael ei chyflawni gan unigolion cymwysedig (h.y. athrawon cymwysedig neu Gydlynwyr AAA profiadol) y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â'r gwaith o gydlynu DDdY mewn ffordd gyson, ni waeth pa fath o leoliad addysg sydd dan sylw. Dylai hyn arwain at welliant yn y ffordd y caiff DDdY ei chynllunio a'i chyflwyno i blant a phobl ifanc.

Ni nodwyd unrhyw gostau ariannol pellach yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â CADYau.

Mae risg ddamcaniaethol o ganfyddiad posibl y bydd y gofynion newydd o ran CADYau yn creu baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a all wneud i'r

Cydlynwyr AAA presennol fod yn amharod i wneud cais i fod yn CADY. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i wneud y CADY yn rôl broffesiynol ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y risg hon yn cael ei gwireddu.

**18. Swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA)**

**19. Mantais**

Bydd opsiwn dau yn sicrhau y bydd pob bwrdd iechyd lleol (BILl) yn dynodi SACDA i fod yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth iechyd o ddydd i ddydd i blant a phobl ifanc ag ADY yn cael ei rheoli a'i chydlynu'n effeithiol.

Er y bydd llawer o'r gwaith y bydd y SACDA yn gyfrifol amdano o dan y system ADY eisoes wedi'i wneud ym mhob BILl ar hyn o bryd, heb y rôl ddynodedig hon, mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â goruchwylio darpariaeth iechyd sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol arbennig wedi bod yn anghyson ac yn anodd i'w fesur.

Bydd penodi SACDA ym mhob bwrdd iechyd yn fanteisiol o ran hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd yn effeithiol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY. Bydd y SACDA hefyd yn helpu'r bwrdd iechyd i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan system ADY ac yn hwyluso'r cydweithrediad effeithiol rhwng byrddau iechyd a'u partneriaid o ran darparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY.

Bydd y SACDA hefyd yn sicrhau bod strwythur cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chasglu data ar ansawdd, canlyniadau a pherfformiad gwasanaethau; symleiddio'r system i blant, pobl ifanc, rhieni a phartneriaid drwy gynnig un pwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill mewn byrddau iechyd ar faterion ADY. Hefyd, dylai penodi SACDA sicrhau bod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth strategol i fyrddau iechyd.

Un o brif fanteision cyflwyno rôl y SACDA fydd y cysylltiadau gwell rhwng iechyd a sectorau eraill, a'r cyfle i gydlynu gwaith amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Nod y system yw torri nifer y cyfarfodydd a'r asesiadau sydd eu hangen i gael DDdY a sicrhau parhad cymorth i'r unigolion wrth iddynt bontio, o ran oedran, rhwng camau allweddol a datblygiad addysgol.

**20. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae pennod newydd yn y Cod ADY ar rôl y SACDA. Crëwyd y bennod hon drwy ddileu'r adran ynglŷn â rôl y SACDA ym Mhennod 15 ar weithio amlasiantaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi pennod unigol ar bob un o'r rolau statudol yn y Cod a'r system ADY. Nid yw sylwedd y bennod wedi newid fawr ddim, ond mae'n haws i'r darllenydd ei ddilyn erbyn hyn.

**21. Cost**

Trafodwyd cost cyflwyno rôl y SACDA yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Ddeddf ADY lle y daethpwyd i'r casgliad na fyddai unrhyw gostau newydd i fyrddau iechyd lleol,

a hynny am fod disgwyl i'r rôl gael ei chyflawni gan aelod presennol o'r staff ac y bydd y SACDAau a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ei angen o fewn yr oriau a neilltuir ar eu cyfer i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Er bod y rôl ei hun yn newydd, mae'r dyletswyddau y bydd y SACDA yn gyfrifol amdanynt fel y'u nodwyd yn y Cod eisoes yn cael eu cyflawni gan aelodau presennol o staff mewn byrddau iechyd o dan system AAA. Diben y SACDA fydd safoni'r rôl hon a gwella gwaith amlasiantaethol drwy unigolyn a enwir ym mhob bwrdd iechyd. Ar gyfartaledd, bydd gweithiwr iechyd proffesiynol ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn ymgymryd â chyfrifoldebau SACDA am tua dau ddiwrnod yr wythnos.

Mae'r dyletswyddau yn y bennod o'r Cod ADY sy'n ymwneud â rôl y SACDA yn rhoi mwy o fanylion am y rôl ei hun, a defnyddir y canllawiau i nodi sut y disgwylir i SACDAau ymgymryd â'u tasgau. Mae cyflwyno rôl y SACDA a'r amcangyfrif o'r adnodd fydd ei angen yn dwyn risg isel a hawdd ei rheoli i fyrddau iechyd lleol gan na ddisgwylir i SACDAau fod yn swyddi llawn amser ac mae'n debygol y bydd uwch-aelodau presennol o'r bwrdd iechyd lleol yn ymgymryd â'r rôl.

Gyda'r ddyletswydd i ddarparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd i ddysgwyr hyd at 25 oed, efallai y bydd cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeirir at gyrff y GIG lle mae angen DDdY sy'n ymwneud ag iechyd. Gallai'r risg hon, er nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth a welwyd gan Lywodraeth Cymru, gynyddu costau i BILlau o bosibl o ran y systemau y maent yn eu cyflwyno i gefnogi rôl y SACDA a'u swyddogaethau statudol o dan y system ADY. Er ei bod yn anodd amcangyfrif sut y bydd estyn yr ystod oedran i 25 oed yn effeithio ar y costau hyn, esboniodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd gan bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n mynychu sefydliad AB arbenigol gynllun dysgu a sgiliau statudol ar hyn o bryd. Pan fydd angen gofal meddygol ar berson ifanc tra ei fod mewn sefydliad AB arbenigol, gofynnir i'r bwrdd iechyd gyfrannu at y cynllun dysgu a sgiliau. O dan y system ADY, bydd yr arfer hon yn parhau ond gofynnir i fyrddau iechyd gyfrannu at y CDU yn lle hynny. Daethpwyd i'r casgliad na fydd unrhyw gost ychwanegol i fyrddau iechyd pan fydd person ifanc yn mynychu sefydliad AB arbenigol.

## 22. Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar)

## 23. Mantais

O dan opsiwn dau, caiff swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ei benodi gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.

Bydd swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn chwarae rôl bwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r system ADY a sut y mae'n gymwys i blant o dan yr oedran ysgol gorfodol; hyrwyddo'r broses o adnabod ADY ar gam cynnar a'u hatal; a chyfrifoldebau strategol eraill. Bydd y dyletswyddau hyn yn helpu teuluoedd i ddeall ADY eu plant a'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi eu haddysg. Felly, dylai'r rôl gynnwys budd cymdeithasol drwy leihau'r ofn sy'n gysylltiedig ag ADY a rhoi sicrwydd i rieni bod cymorth ar gael mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Mantais arall cynnwys y rôl newydd hon yn y Cod ADY fydd gwella'r ffordd y caiff darpariaeth ar gyfer plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ei chydlynu a sicrhau bod un swyddog a enwyd y gellir cyfeirio materion ato. Bydd hyn yn helpu teuluoedd pryderus sydd, o dan y system AAA, wedi cael anhawster o bosibl i ymgysylltu â'r unigolion perthnasol.

**24. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys ers yr ymgynghoriad.

**25.**

**26. Cost**

Crybwyllwyd cost cyflwyno rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fel y nodwyd ynddo, at ddibenion enghreifftiol defnyddir cyflog o £49,700 i amcangyfrif costau parhaus cyflwyno swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Felly, amcangyfrifir y bydd cost barhaus o tua £1,093,400 y flwyddyn i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar, ni fydd hon yn gost barhaus ychwanegol.

Amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol yn mynd i gostau pontio o £126,700 mewn perthynas â hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Mae cost amcangyfrifedig hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar yr un model costio ag a ddefnyddir i amcangyfrif costau hyfforddi CADYau. Hynny yw, tybir y caiff swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar eu hyfforddi i lefel gradd meistr ar gost o £3,600 fesul gradd, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o £79,200 i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac y byddant yn cymryd 10 diwrnod astudio â thâl dros y cyfnod o ddwy flynedd ar gost amcangyfrifedig o £47,520.

Nid oes unrhyw ddyletswyddau eraill yn y bennod ar rôl swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ar wahân i ddyletswydd yr awdurdod lleol i ddynodi swyddog.

**27. Cynlluniau Datblygu Unigol**

- Paratoi CDU
- Sicrhau DDdY
- Adolygu CDU

**28. Cyd-destun**

Mae data a ddangoswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf wedi datgelu bod nifer y plant a phobl ifanc y cofnodwyd bod ganddynt AAA rhwng 2011-12 a 2015-16 wedi bod yn gymharol sefydlog, sef 23% o ddisgyblion. Er bod y system ADY yn estyn yr ystod oedran i 25 oed, mae nifer y bobl ifanc rhwng 19-25 oed ag ADY mewn addysg neu hyfforddiant, sy'n cydsynio i gael CDU, yn debygol o fod yn fach. Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod 83 o leoliadau arbenigol ôl-19 wedi'u sicrhau yn 2018/19. Gan ddefnyddio'r ffigurau sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf a chan Stats Cymru, bydd tua 110,000 o CDUau oedran ysgol, gyda thua 1,000 ar gyfer plant islaw'r oedran ysgol gorfodol, a thua 2,000 ar gyfer pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**29.**

**30. Mantais**

Os dewisir Opsiwn dau, drwy gyflwyno'r Cod ADY, bydd pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael ei drin yn gyfartal o dan y gyfraith, ni waeth pa mor ddifrifol yw eu hanghenion. Bydd gan bob dysgwr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig) a SABau y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) arnynt yr hawl i gael cynllun datblygu unigol (CDU) statudol a'r hawl i apelio. Bydd hyn yn gwneud y system o gymorth i ddysgwyr yn decach ac yn cyfrannu at fudd cymdeithasol drwy estyn hawliau plant a phobl ifanc a gweithio tuag at ganlyniadau addysgol gwell.

Drwy gyflwyno cynlluniau statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY, bydd modd rhoi mwy o ffocws ar adnabod anghenion ar gam cynnar a ddylai atal neu leihau gwrthdaro yn y system. Gallai hyn arwain at leihad yn yr hirdymor yn nifer yr apeliadau a gyflwynir i'r Tribiwnlys, ond bydd nifer y darpar apelwyr, wrth reswm, yn cynyddu gan y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY yr hawl i apelio. Dylai cynlluniau statudol teg hefyd wella'r ffordd y sicrheir darpariaeth a sicrhau y bydd ar waith gyhyd ag y bo'i hangen (hyd at 25 oed).

Mae'r dyletswyddau yn y Cod ADY ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i baratoi CDU, sicrhau'r DDdY ac adolygu CDUau wedi'u nodi'n fras yn y Ddeddf ADY ac mae ei heffaith wedi cael ei dogfennu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY. Fodd bynnag, mae'r Cod ADY diwygiedig yn nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid ymgymryd â'r trefniadau hyn. Er enghraifft, mae llawer o'r gofynion a osodir gan y Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig ynglŷn â CDUau yn ymwneud â'r terfynau amser ar gyfer cwblhau tasgau penodol. Dylai awdurdod lleol, er enghraifft, ymddwyn “yn brydlon” i benderfynu a ddylai ddod yn gyfrifol am gynnal y CDU a chyflwyno'r hysbysiad o fewn y cyfnod o saith wythnos i'r cais ynglŷn â dod yn gyfrifol am y CDU, oni bai nad oes modd gwneud hynny o fewn y cyfnod hwnnw oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

Mae gosod terfynau amser ar gyfer y dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth graidd hon yn y system ADY o fantais am fod hynny'n ei gwneud yn bosibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael disgwyliad rhesymol o ran pryd y dylai penderfyniadau neu brosesau penodol gael eu cwblhau. Dylai hyn helpu i leddfu llawer o'r tensiwn ar hyn o bryd yn y system AAA lle mae oedi ac

anghysondebau wedi achosi cryn bryder yn y gorffennol. Disgwylir hefyd y bydd y terfynau amser hyn yn helpu i leihau faint o amser y mae'n cymryd ar hyn o bryd i gwblhau penderfyniadau neu brosesau penodol, megis paratoi cynllun statudol o gymorth. Drwy'r ddefnyddio'r ymadrodd “yn brydlon”, mae'r Cod ADY yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu cyflawni heb oedi, ond mae'n bosibl y bydd defnyddio terfyn amser penodedig ar gyfer pob dyletswydd heb ddefnyddio'r term “yn brydlon” yn gyntaf yn arwain at sefyllfa lle mae'r uchafswm amser a ganiateir i gyflawni unrhyw ddyletswydd benodol yn mynd yn derfyn amser arferol.

**31. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae penodau 11-15 o'r Cod ADY yn cynnwys y dyletswyddau craidd mewn perthynas â'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY. Hefyd, mae penodau 16 a 17 yn cynnwys dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SABau neu bobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir. Mae'r rhain wedi cael eu hailddrafftio gryn dipyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad . Maent bellach yn ymddangos mewn penodau ar wahân, ar sail amgylchiadau sy'n ymwneud ag oedrannau penodol, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau cyrff statudol i gefnogi dysgwyr ag ADY. Mae'r elfennau o'r canllawiau sy'n gymwys i bob un o'r grwpiau oedran hyn bellach yn ymddangos mewn un bennod er mwyn rhoi mwy o eglurder a chanllawiau wrth baratoi CDU neu ystyried y DDdY y dylai ei chynnwys. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw hanfod y dyletswyddau allweddol yn y penodau hyn wedi newid.

**32. Cost**

Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau ar gyfer pob plentyn ag ADY sy'n derbyn gofal ganddynt. Amcangyfrifwyd ar adeg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf y bydd awdurdodau lleol yn treulio tua awr yn paratoi'r cais ar gost o tua £18 y cais yn seiliedig ar 20 o geisiadau y flwyddyn (ni ddisgwylir i'r nifer hwn newid o ganlyniad i gyflwyno'r system ADY). Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf, ni ddisgwylir i awdurdodau lleol fynd i unrhyw gostau ychwanegol o dan opsiwn dau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn paratoi achos wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad i blentyn neu berson ifanc â datganiad AAA gael lle mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo fel arfer i dderbyn dysgwyr â datganiadau AAA. O dan Opsiwn dau, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni eu hunain o hyd bod y lleoliad yn briodol.

Bu nifer o geisiadau am dystiolaeth, o ymchwil Deloitte yn 2015 i gais swyddogion Llywodraeth Cymru am ddata gan awdurdodau lleol ond nid ydynt wedi rhoi unrhyw arwydd sy'n herio'r amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf ADY ac, yn y pen draw, amcangyfrifir y bydd y system newydd yn gost niwtral o'i chymharu â'r system AAA bresennol.

Bydd y broses o adolygu CDU yn un barhaus ac er bod gofynion i adolygu CDUau (megis adolygiadau blynyddol), dylai'r gwaith i lywio'r cyfarfodydd hyn gael ei wneud yn barhaus. Bydd cost adolygu CDUau yn ymwneud yn bennaf â'r amser y mae'n ei gymryd i'r CADY neu aelod arall o'r staff addysgu gynnal y cyfarfod adolygu.

Yn yr un modd, wrth baratoi CDU, bydd amgylchiadau yn codi pan fydd cynlluniau yn dechrau o'r newydd (dysgwr newydd o dros y ffin, anabledd newydd sy'n gofyn am DDdY), ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y rhai ag ADY eisoes wedi'u hadnabod ac mae'n debygol y bydd rhyw ddarpariaeth eisoes ar waith. Ni fydd y gwaith o baratoi CDU yn arwain at gost sylweddol i'r ysgol na'r awdurdod lleol, ond yn y rhan fwyaf o achosion cymhleth gallai'r gost gael ei hystyried yn un gymedrol. Fodd bynnag, mewn achosion lle roedd dyletswydd ar SAB i baratoi neu gynnal CDU, byddai hyn yn gost newydd a gallai gael ei hystyried yn un feichus i ddechrau. Felly, efallai y bydd costau SABau yn cynyddu ond ni ddisgwylir i'r system yn ei chyfanrwydd arwain at fwy o gost yn gyffredinol. Yn 2018/19, cofnodwyd bod gan 11,095 o bobl ifanc, 16-24 oed, anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn SABau[1]. Er na ddisgwylir y bydd angen i SABau baratoi pob CDU o'r newydd (ymhen amser, bydd llawer o bobl ifanc yn cyrraedd SAB gyda CDU) fel rhan o'r gwaith cynllunio i roi'r system ADY newydd ar waith, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd o helpu SABau i ymgymryd â'u dyletswyddau newydd.

O ystyried bod Datganiadau AAA eisoes yn cael eu paratoi ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 19 oed, a bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar waith ar gyfer llawer mwy o ddysgwyr, mae'r union ddyletswyddau yn y Cod ADY yn rhai newydd, ond mewn gwirionedd, maent yn disodli ac yn gwella'r dyletswyddau presennol yn y system AAA.

Gallai cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â hawl statudol i gael darpariaeth arwain at fwy o bwysau ar y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau DDdY. Er nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol blaenorol o'r Ddeddf ADY wedi nodi unrhyw anghenion heb eu diwallu yn y system AAA (ac ni chredwn y bydd y system ADY yn creu galw newydd), mae risg y bydd y system well yn heriol o bosibl o ran yr adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyflwyno'r system AAA.

O ran cyflwyno'r terfynau amser newydd ar gyfer llawer o'r dyletswyddau yn y Cod ADY a'r rheoliadau, mae risg fach na fydd y lefel bresennol o adnoddau a neilltuir ar gyfer y system AAA yn ddigonol i gyflawni dyletswyddau (â therfynau amser newydd) o dan y system ADY. Er nad oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu hyn, a bod y terfynau amser a gyflwynir o dan y system ADY wedi cael eu dewis yn ofalus mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae posibilrwydd y bydd y system newydd yn gofyn am fwy o adnoddau i gyflawni dyletswyddau o fewn y terfyn amser penodedig.

33.

**34. Eiriolaeth**

**35. Mantais**

Mae'r Cod ADY yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

[1] Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl prif anabledd a/neu anhawster dysgu a rhyw https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

Bydd gwasanaethau eirioli annibynnol yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol, drwy gynrychioli neu fel arall blentyn neu berson ifanc, lle mae'r plentyn neu'r person ifanc:

- yn cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, apêl i'r Tribiwnlys;
- yn ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu
- yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundeb.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu am ddim ar adeg ei ddarparu.
Er bod eiriolaeth yn cael ei defnyddio'n aml o dan y system AAA, nid oes gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o dan God Ymarfer AAA. Felly, mae angen gwasanaethau eirioli annibynnol er mwyn cynnig dull cyson o ddarparu gwasanaeth eirioli sy'n ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud ag ADY. Bwriedir i wasanaethau eirioli annibynnol, ynghyd â'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau leihau'n sylweddol nifer yr anghydfodau sy'n codi o fewn y system AAA ar hyn o bryd, a dylent, yn y tymor canolig i'r hirdymor, leihau nifer yr achosion sy'n mynd gerbron y Tribiwnlys. Gallai hyn o bosibl arbed amser ac arian i'r rhai a allai fod wedi cyflwyno apêl pe na bai'r gwasanaethau hyn wedi bod ar gael.

**36. Ychwanegiadau ar ôl yr ymgynghoriad**

Mae'r diwygiadau a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad wedi gwneud y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau eirioli annibynnol a gwasanaethau eirioli eraill yn fwy eglur. Mae hefyd yn fwy eglur bellach bod gan gynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd, hefyd yr hawl i gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Bydd y diwygiadau hyn yn fanteisiol i'r rhai sy'n darllen y Cod ADY heb gynyddu unrhyw gostau.

37.

**38. Cost**

Awdurdodau lleol fydd yn talu am gost rhedeg y gwasanaeth newydd, a bydd yn amrywio gryn dipyn rhwng awdurdodau. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf gost amcangyfrifedig o £5,300 i'r awdurdod lleol am wasanaethau datrys anghydfod sy'n ymwneud ag apeliadau o dan y system AAA. Darperir llawer o'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru gan y trydydd sector neu wirfoddolwyr, lle y telir am y costau weithiau drwy gyfraniadau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gwasanaethau eirioli proffesiynol eraill ar gael a fydd yn codi tâl am eu gwasanaeth.

Drwy gyflwyno gwasanaethau eirioli annibynnol, bydd risg o bosibl mewn perthynas â chost rhedeg y gwasanaeth i awdurdodau lleol Mae hyn yn gysylltiedig â'r defnydd posibl a wneir ohono, a'r anhawster o ran amcangyfrif y galw am wasanaethau eirioli. Wrth i'r system ADY newydd ymsefydlu, mae risg o gynnydd yn nifer yr achosion lle mae angen trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau neu ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol, a allai fod yn gostus a llafurus, ond drwy waith cynllunio gofalus a rhoi'r system newydd ar waith yn llwyddiannus dylid atal anawsterau o'r fath.

39.

**40. Adolygiadau**

**41. Mantais**
O dan Opsiwn dau, bydd y Cod ADY yn nodi'r manylion o ran dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu'r galw am DDdY a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg a'i chyflenwi. Y gofyniad yw bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o adeg gweithredu.

Bydd yr adolygiad yn hwyluso'r gallu i wneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth ynglŷn â DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cefnogi strategiaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**42. Cost**
Bydd adolygu DDdY Gymraeg yn arwain at gost ariannol nad yw wedi'i chyfrifo. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru fydd yn talu am y gost yn hytrach na chyrff statudol, ac mae ar wyneb y Ddeddf. Fel amcangyfrif, caiff y gwaith hwn ei wneud gan dîm bach sy'n cynnwys Uwch-swyddog Gweithredol (£47,000 y flwyddyn) ac un swyddog Cymorth Tîm (£23,830 y flwyddyn) am gyfanswm o dri mis. Mae hyn yn tybio na fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am unrhyw ymchwil allanol ac, yn lle hynny, y bydd yn dibynnu ar ei Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i wneud unrhyw ddadansoddiad o'r data. Amcangyfrifir costau o £17,707.50 ar gyfer y ddwy rôl hyn am dri mis.

**Enghreifftiau newydd o 'rhaid' yn y Cod ADY (ar ôl ymgynghori)**

Mae'r tabl isod yn cynnwys pob dyletswydd newydd (**rhaid**) a geir yn y Cod ADY ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac eithrio tasgau gweinyddol bach (megis anfon hysbysiadau) sydd wedi cael eu hepgor.

Nod y tabl isod yw helpu'r darllenydd i ddeall costau posibl y dyletswyddau newydd hyn.

| Cyf. | Testun | Pwnc | Cost |
|---|---|---|---|
| 19.81 | Os oes rhaid i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, **rhaid** iddo:(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac unrhyw benderfyniad ar a oes angen CDU ar gyfer person ifanc ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei baratoi;<br>(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;<br>(c) cofnodi'r dyddiad y cydsyniodd y person, os yw'n berson ifanc, i'r penderfyniad gael ei wneud;<br>(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd y gall y person ifanc fod ag ADY ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY.<br>(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau (22.64 –22.65). | Dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi cydlynydd | Isel<br><br>Mae'r broses ddynodi ei hun yn dasg weinyddol eithaf syml. |
| 16.14 | **Rhaid** gwneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r dyddiad pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 16.26 | **Rhaid** i'r SAB wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad. | Penderfyniad a therfyn amser | Isel i Ganolig |
| 19.65 | **Rhaid** i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a gafodd ei gadw'n gaeth adolygu'r CDU ar ôl iddo gael ei ryddhau a chwblhau'r adolygiad hwnnw (gan gynnwys, yn ôl y digwydd, roi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad am gasgliad arall o'r adolygiad) yn brydlon a sut bynnag, erbyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos yn dechrau ar ôl i'r person gael ei ryddhau rhag cael ei gadw'n gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod 7 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | Adolygu CDU | |
| 19.67 | Mewn achosion lle mae'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi cael ei ryddhau yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru, **caiff** yr awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r ysgol neu'r SAB gynnal y CDU. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hefyd fod yn fwy priodol i'r sefydliad hwnnw adolygu'r CDU. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, pe bai'r CDU wedi cael ei baratoi'n | Adolygu CDU | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddar gan yr awdurdod a bod gan y person a ryddhawyd anghenion lefel isel neu pe bai'r sefydliad yn cynnal y CDU yn flaenorol a bod y cyfnod cadw yn fyr iawn. Os trosglwyddir y CDU i ysgol neu SAB, byddai hyn yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 14(4) o'r Ddeddf yn achos ysgol neu ar ôl i SAB gytuno i gais yr awdurdod o dan adran 36(2) y daw'r SAB yn gyfrifol am y CDU. Hefyd, dim ond os yw'r person a ryddhawyd yn ddisgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'n berson ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr yn y SAB y gellir trosglwyddo CDU. Os nad yw'r awdurdod lleol wedi'i adolygu ar ôl rhyddhau, **rhaid** i'r ysgol neu'r SAB adolygu'r CDU yn brydlon a sut bynnag o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor i ryddhau'r plentyn neu'r person ifanc rhag cael eu cadw yn gaeth. Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod tymor yn gymwys os yw'n anymarferol i'r ysgol neu'r SAB wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. | | |
| 15.60 | Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, **rhaid** i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor a, lle mae o'r farn bod ceisio cyngor o'r fath yn fuddiol, **rhaid** iddo wneud hynny. | Ystyried a cheisio cyngor | Isel<br><br>Ni fydd ystyriaeth yn rhy feichus, ac mae'n debygol y daw yn rhan o'r broses. Gan fod seicolegwyr addysg eisoes yn rhan o'r system bresennol, nod y ddarpariaeth newydd hon yw safoni'r broses yn hytrach na chreu rhywbeth newydd sbon. Felly, bydd ceisio cyngor ond yn dasg weinyddol fach. |
| 17.32 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol nodi'n gyntaf a oes gan y person ifanc ganlyniadau dymunol a beth ydynt. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Dylai awdurdodau lleol eisoes fod yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn deall anghenion yr unigolion a gallai hyn gynnwys mewn perthynas â nodi canlyniadau dymunol.<br><br>Mewn llawer o achosion, bydd yr ALI yn ymwybodol o'r unigolyn drwy unrhyw ymgysylltu blaenorol ag ef/hi drwy broses y CDU. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.36 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried pa raglenni astudio a all fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ganlyniadau dymunol. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 17.38 | Fel arall, **rhaid** i'r awdurdod lleol yn gyntaf ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir neu SABau prif ffrwd (gallai hyn gynnwys ysgolion a SABau o'r fath yn Lloegr). Yn amlach na pheidio, gall y lleoliadau hynny gynnig rhaglen astudio addas i berson ifanc ag ADY a byddai anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY yn cael eu diwallu wrth ymgymryd â hi. | Adolygu | Isel i ganolig.<br><br>Bydd hwn yn ofyniad newydd ar y cyfan ar awdurdodau lleol sydd hyd yma ond wedi gorfod ystyried addysg ôl-16 i'r rhai sy'n aros yn yr ysgol. Dylai hyn fynd yn llai beichus dros amser wrth i ALlau ddatblygu eu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael. |
| 31.12 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n ymgymryd â'r trefniadau hyn yn ddiduedd o ran canlyniad unrhyw anghytundebau posibl. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Efallai y bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant neu ganllawiau i'r staff er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa am eu dyletswyddau. |
| 32.13 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu eu dewisiadau a'u hanghenion cyfathrebu (gweler Pennod 3 ar gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc). | Gwybodaeth hygyrch | Isel neu ganolig<br><br>Dylai pob awdurdod lleol eisoes sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ganddo i'r cyhoedd yn hygyrch. Efallai y bydd cost untro am baratoi'r deunyddiau hyn, ond |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fawr ddim costau parhaus. |
| 32.11 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn deall y system ADY yn fanwl. Er mwyn gwneud hynny, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am y trefniadau yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol, a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella safonau. | Hyfforddiant | Isel<br><br>Gall yr hyfforddiant hwn gael ei addasu o ddeunydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru, gan gadw'r gost yn isel. |
| 32.63 | **Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob eiriolwr:<br>(a) yn deall y system ADY gan gynnwys y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys;<br>(b) yn meddu ar hyfforddiant priodol, gan gynnwys ym maes cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ac unigolion ag anawsterau cyfathrebu, gan barhau i dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol a gwella safonau;<br>(c) yn meddu ar wybodaeth berthnasol am ADY y plentyn neu'r person ifanc;<br>(d) yn cadw cofnodion cyfrinachol;<br>(e) nad ydynt wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant (yn achos eiriolwyr plant) neu gydag oedolion (yn achos eiriolwyr pobl ifanc y credir eu bod yn "wynebu risg"). Os nad oes gan y darparwyr eiriolaeth y wybodaeth hon, **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod y darparwyr yn gwneud cais am ddatgeliad manylach a gwiriad o restr y rhai sydd wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn symud ymlaen. | Hyfforddiant | Isel neu ganolig<br><br>Dylai costau hyfforddi eiriolwyr fod yn gymharol isel. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer y system ADY a bydd yn darparu deunydd hyfforddiant am ddim ar-lein.<br><br>Efallai y bydd yn cymryd peth amser i hyfforddi pawb, ond o ystyried y niferoedd bach dan sylw, dylai'r gost fod yn isel. |

## 8. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft rhwng mis 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn ystyried sylwadau a gwneud gwelliannau cyn ei osod gerbron Senedd Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i anelu at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau yn y trydydd sector ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnwyd 65 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymdrin â phum thema:

1. Y Cod ADY drafft;
2. Rheoliadau drafft ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru;
3. Rheoliadau drafft ar gyfer Cydlynwyr ADY;
4. Plant sy'n derbyn gofal;
5. Effaith y cynigion.

Ymatebodd cyfanswm o 644 o bobl i'r prif ymgynghoriad. Mae adroddiad cryno ar gael yma.

Roedd y prif themâu a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- nifer mawr yn gofyn am i lawer o'r enghreifftiau o “dylid” yn y Cod ADY drafft gael eu troi'n enghreifftiau o “rhaid”;
- pryder am arddull yr iaith a ddefnyddir yn y Cod ADY drafft;
- materion o ran darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu;
- ceisiadau am ganllawiau ar ddeddfwriaeth berthnasol arall neu ar faterion a nodir mewn canllawiau statudol eraill;
- pryderon y byddai'r system ADY newydd yn cael effaith ariannol fawr;
- ceisiadau i ddatblygu system electronig i gefnogi proses y CDU;
- gallu'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflwyno elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft.

Ceir crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Cod ADY yn dilyn yr ymgynghoriad yn y tabl ar dudalen 14 o'r Memorandwm Esboniadol.

## 9. Asesu'r Gystadleuaeth

Ni fydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn effeithio ar fusnesau nac elusennau

na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo'r gystadleuaeth.

Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Ddeddf gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr presennol. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth gael eu hysgwyddo gan gyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn.

Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

Caiff y broses o gyflwyno'r system ADY newydd fesul cam ei monitro a'i gwerthuso gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses o'i rhoi ar waith ac ar ôl hynny. Yn ystod y broses o'i rhoi ar waith, bydd prif ffocws y gwaith ar gadarnhau i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Ddeddf ac ar ystyried effeithiau cychwynnol y Ddeddf drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredol o'r Ddeddf ymhen pum mlynedd; bydd hwn yn cynnwys astudiaeth llinell sylfaen o'r system bresennol er mwyn llywio'r gwaith o werthuso effaith y Ddeddf yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr astudiaeth llinell sylfaen gan Arad Research ym mis Chwefror 2019. Bydd yr adolygiad ôl-weithredol yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau'r Ddeddf i bobl ifanc a rhieni.

Mae adran 89 o'r Ddeddf ADY yn amlinellu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yng Nghymru a chyhoeddi adroddiad ar y canlyniad o fewn pum mlynedd i'r system newydd ddod i rym.

Yn y cyfamser, mae dyletswydd barhaus ar awdurdodau lleol o dan adran 63 o'r Ddeddf i adolygu'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu DDdY sy'n ymwneud ag iechyd yn ddigonol ac yn briodol, mae'r Cod ADY yn nodi'r disgwyliadau ar y SACDA i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data cadarn i fesur ei gydymffurfiaeth â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Dylai hefyd fesur effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau ansawdd ei weithgareddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Mae hyn yn gwrthbwyso dyletswyddau tebyg ar awdurdodau lleol i sicrhau bod DDdY sy'n ymwneud ag iechyd a'r system ADY ei hun yn cael eu hadolygu'n barhaus, gan roi cyfle i wella systemau mewnol lle y bo angen.

Eitem 4.11

# SL(5)778 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud yng Nghymru â gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, ac yn ei gwneud yn drosedd i drydydd partïon masnachol werthu cŵn bach a chathod bach sy'n iau na 6 mis oed.

Mae'r Rheoliadau yn pennu'r gweithgareddau at ddibenion adran 13(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006") ac yn darparu i awdurdodau lleol fod yr awdurdodau trwyddedu. Canlyniad y pennu hwn, yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwyso, yw bod rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru gael trwydded oddi wrth yr awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r gofynion hyn yn disodli'r gofynion, yng Nghymru, i gael trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Mae person sy'n cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru heb drwydded yn cyflawni trosedd o dan adran 13(6) o Ddeddf 2006 ac yn agored i gael ei garcharu am gyfnod hyd at 6 mis, neu i gael dirwy, neu'r ddau. O dan adran 30 o Ddeddf 2006, caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau yn nodi sut y caiff person wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded ac yn nodi materion y mae rhaid i awdurdod lleol fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â hwy wrth ystyried rhoi trwydded neu adnewyddu trwydded. Mae'r Rheoliadau'n darparu i awdurdod lleol godi ffioedd i dalu'r costau y mae'n mynd iddynt wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, gan ystyried cydymffurfiad deiliad trwydded â'r Rheoliadau hyn, gorfodi a gweinyddu. Mae'r Rheoliadau'n pennu bod rhaid i awdurdod lleol osod amodau trwydded penodol ar bob trwydded a roddir neu a adnewyddir. Ymhellach, mae'n rhaid i awdurdod lleol benodi arolygydd pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol, at ddiben sicrhau cydymffurfedd ag amodau'r drwydded. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn. Mae'n darparu pwerau i arolygwyr gymryd samplau o anifeiliaid.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod ferswin ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae rheoliad 12 o'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffioedd i dalu'r costau y mae'n mynd iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau trwyddedu.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Codwyd pryderon ynghylch yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Ysgrifennodd Pennaeth Materion Cyhoeddus The Kennel Club at y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2021 i rannu pryderon y Clwb am ganlyniadau anfwriadol posibl y Rheoliadau. Mae ei lythyr yn disgrifio pryderon y Clwb:

> *"…The Welsh Government did not consult on the introduction of a de facto new licensing threshold for dog breeders in either the 2019 or 2020 consultations, nor has this been taken into account in the legislation's accompanying explanatory memorandum or accompanying regulatory impact assessment. As such, we are highly concerned that the Regulations' implications – in terms of the general puppy buying public, breeders and licensing authorities – will not have been duly considered…"*

Gwnaethom ystyried y llythyr hwn yn ein cyfarfod ar 15 Mawrth 2021. Ar ôl y cyfarfod, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog gan atodi copi o lythyr y Clwb, i dynnu sylw'r Gweinidog ato cyn gynted â phosibl, a hynny cyn y ddadl ar y Rheoliadau ar 23 Mawrth.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt craffu ar rinweddau 2:** ***Cais am ymateb i'r canlynol gan y Kennel Club:***

> ***"…The Welsh Government did not consult on the introduction of a de facto new licensing threshold for dog breeders in either the 2019 or 2020 consultations, nor has this been taken into account in the legislation's accompanying explanatory memorandum or accompanying regulatory impact assessment. As such, we are highly concerned that the Regulations' implications – in terms of the general puppy buying public, breeders and licensing authorities – will not have been duly considered…"***

Ni dderbynnir bod y Rheoliadau hyn yn cyflwyno trothwy trwyddedu newydd de facto ar gyfer bridwyr cŵn. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar fridwyr, maent yn ymwneud â'r gweithgaredd o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes yng nghwrs busnes.

Mae effaith y Rheoliadau hyn bron yn union yr un fath ag effaith Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019). Mae'r unig wahaniaeth yn ymwneud â chategori o fridiwr sy'n bridio mwy na thri thorllwyth o ddwy ast mewn cyfnod o 12 mis. Mae'r categori hwn yn codi gan fod paragraff 8 o Ran 5 o Atodlen 1 i Reoliadau 2018 yn eithrio bridwyr o'r drwydded ar sail nifer y torllwythau yn unig, tra bod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, a ddefnyddir i'w heithrio yn y Rheoliadau hyn, hefyd yn gwneud bod yn berchen ar 3 neu ragor o eist bridio yn ofynnol.

Penderfynir a fydd yn ofynnol i fridiwr ar raddfa fach ddal trwydded o dan y Rheoliadau hyn ar sail y prawf 'yng nghwrs busnes' ac yn unol â chanllawiau statudol i awdurdodau lleol, nad ydynt wedi'u drafftio eto ac a fydd yn destun ymgynghori â rhanddeiliaid.

Mae'n wir y rhagwelir y bydd yn ofynnol i rai bridwyr ar raddfa fach nad oedd yn ofynnol iddynt ddal trwydded o'r blaen wneud hynny o dan y Rheoliadau, fel y byddai'n ofynnol i fridiwr bach yn Lloegr. Ni fwriedir iddi fod yn ofynnol i bob bridiwr bach wneud hynny, ond o ystyried y symiau mawr a all fod ynghlwm hyd yn oed pan fydd nifer y cŵn bach yn fach, mae perygl y bydd y cymhellion ariannol yn drech na phryderon ynghylch lles. Bydd y Rheoliadau hyn a'r canllawiau yn lleihau'r risg honno cyn belled ag y bo modd.

Nodir bod y Kennel Club, yn ei lythyr at y Pwyllgor, yn codi pryderon am awdurdodau lleol rhy frwd. Byddwn yn ymateb i hyn wrth lunio'r canllawiau ac fel rhan o brosiect hyfforddi'r awdurdodau lleol a gynhelir dros y tair blynedd nesaf ac a gynlluniwyd i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso'r Rheoliadau hyn, yn ogystal â'r Rheoliadau Bridio Cŵn.

Roedd y cyflwyniadau i'r ymgynghoriadau yn 2019 a 2020 ac i ymgynghoriad Plant yng Nghymru yn nodi bod "*sicrhau safonau lles ar draws y diwydiant cyfan yn hanfodol. Agwedd bwysig o'r ddeddfwriaeth hon yw hyrwyddo magu cyfrifol a sicrhau bod cŵn bach yn cael eu magu mewn amodau addas*" a "*bydd y cynigion sy'n cael eu hystyried yn golygu newid trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid anwes, gan gynnwys cŵn [a chathod] bach*." Nid oedd yn eglur bod newidiadau ehangach yn yr arfaeth ond roedd yn amlwg bod hyn yn cael ei ystyried.

Mewn ymateb i bob ymgynghoriad cafwyd nifer fawr o ymatebion yn awgrymu ei bod yn ddymunol trwyddedu gwerthiant anifeiliaid anwes yn ehangach na dim ond mewn perthynas â thrydydd partïon. Roedd yn amlwg o'r ymatebion (fel y'u cyhoeddwyd) fod cefnogaeth eang i gam o'r fath. Byddai wedi bod yn esgeulus ar ran Gweinidogion Cymru pe na baent wedi ymateb i hyn.

Gyda golwg ar y Memorandwm Esboniadol, mae'n ei gwneud yn glir bod y newidiadau i drefniadau trwyddedu yn cynnwys gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti masnachol, a fydd yn cyd-fynd â Rheoliadau 2018 Lloegr. Ceir dyfyniad a gymeradwyir, "*Dogs should only be available from licensed, regulated breeders or approved rehoming organisations*". Awgrymir "*yng Nghymru, ystyrir mai dim ond un o'r camau angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod*

*mewn safleoedd bridio yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru*." Rydym yn cadarnhau nad cynnwys bridwyr trwyddedig yn y gyfundrefn newydd yw ein bwriad.

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gwahaniaethu rhwng bridwyr trwyddedig a bridwyr didrwydded. Mae'r tabl ym mharagraff 7.18 yn seiliedig ar bob bridiwr. O ganlyniad, ystyriwyd yr effaith ar bob bridiwr sydd hefyd yn gwerthu, yn rhai trwyddedig a didrwydded.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Mawrth 2021**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 61(2) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# ANIFEILIAID, CYMRU

# Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud yng Nghymru â gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r gweithgareddau hyn at ddibenion adran 13(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006") ac yn darparu i awdurdodau lleol fod yr awdurdodau trwyddedu. Canlyniad y pennu hwn, yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwyso, yw bod rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru gael trwydded oddi wrth yr awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r gofynion hyn yn disodli'r gofynion, yng Nghymru, i gael trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Mae person sy'n cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru heb drwydded o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd o dan adran 13(6) o Ddeddf 2006 ac yn agored i gael ei garcharu am gyfnod hyd at 6 mis, neu i gael dirwy, neu'r ddau. O dan adran 30 o Ddeddf 2006, caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf honno.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn nodi sut y caiff person wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded ac yn nodi materion y mae rhaid i awdurdod lleol fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â hwy wrth ystyried rhoi trwydded neu adnewyddu trwydded. Mae'n darparu i awdurdod lleol godi ffioedd i dalu'r costau y

mae'n mynd iddynt wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, gan ystyried cydymffurfedd deiliad trwydded â'r Rheoliadau hyn, gorfodi a gweinyddu. Mae'n pennu bod rhaid i awdurdod lleol osod amodau trwydded penodol ar bob trwydded a roddir neu a adnewyddir. Mae'n darparu bod rhaid i awdurdod lleol benodi arolygydd pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol, at ddiben sicrhau cydymffurfedd ag amodau'r drwydded. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn. Mae'n darparu pwerau i arolygwyr gymryd samplau o anifeiliaid.

Mae Rhan 3 yn nodi'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau y caniateir atal dros dro, amrywio neu ddirymu trwydded oddi tanynt. Mae hefyd yn darparu bod torri amod trwydded neu rwystro unrhyw arolygydd a benodir at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn yn drosedd ac mae'n cymhwyso pwerau perthnasol yn dilyn euogfarn sydd wedi eu cynnwys yn Neddf 2006.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu gan awdurdodau lleol.

Mae Rhan 5 yn gwneud diddymiadau, diwygiadau canlyniadol a darpariaeth arbed.

Mae Rhan 6 yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth benodol i Weinidogion Cymru.

Mae Atodlen 1 yn disgrifio pob math o weithgaredd trwyddedadwy.

Mae Atodlen 2 yn nodi'r amodau cyffredinol sy'n gymwys i'r holl weithgareddau trwyddedadwy.

Mae Atodlen 3 yn nodi'r amodau penodol sy'n gymwys i bob gweithgaredd trwyddedadwy.

Mae Atodlen 4 yn rhestru personau na chaniateir iddynt wneud cais am drwydded.

Mae Atodlen 5 yn darparu ar gyfer diddymiadau a diwygiadau canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu drwy e-bostio cais i: LlesAnifeiliaidAnwes@llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 61(2) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *10 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 13(2), (7), (8) a (10) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**2**), a Rhannau 1 a 3 o Atodlen 1 iddi.

Yn unol ag adran 13(9) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddynt hwy eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy fel yr oeddent yn ystyried ei bod yn briodol.

Yn unol ag adran 61(2) o'r Ddeddf honno(**3**), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

---

(**1**) Mae "the appropriate national authority" ("yr awdurdod cenedlaethol priodol") wedi ei ddiffinio yn adran 62(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45). Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2006 p. 45.

(**3**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 34 o Atodlen 11 iddi, mae'r cyfeiriad yn adran 61(2) at "House of Parliament" yn cynnwys Senedd Cymru.

# RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.—**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 10 Medi 2021.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac eithrio paragraff 2 o Atodlen 5 sy'n gymwys o ran Cymru a Lloegr.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "amod cyffredinol" ("*general condition*") yw'r amodau a nodir yn Atodlen 2;

ystyr "amodau penodol perthnasol" ("*relevant specific conditions*") mewn perthynas â'r gweithgaredd o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda'r bwriad o'u hailwerthu'n ddiweddarach fel anifeiliaid anwes) fel a ddisgrifir ym mharagraff 2 o Atodlen 1, yw'r amodau a nodir yn Atodlen 3;

ystyr "amodau trwydded" ("*licence conditions*") yw—

(a) yr amodau cyffredinol, a

(b) yr amodau penodol perthnasol;

ystyr "anifail anwes" ("*pet*") yw anifail a gedwir yn bennaf neu'n barhaol, neu y bwriedir ei gadw'n bennaf neu'n barhaol, gan berson ar gyfer—

(a) diddordeb personol,

(b) cwmnïaeth,

(c) dibenion addurnol, neu

(d) unrhyw gyfuniad o baragraffau (a) i (c);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "cath fach" (*kitten*") yw cath sy'n iau na 6 mis oed;

ystyr "ci bach" ("*puppy*") yw ci sy'n iau na 6 mis oed;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006;

ystyr "gweithgaredd trwyddedadwy" ("*licensable activity*") yw gweithgaredd a ddisgrifir ym mharagraff 2 o Atodlen 1;

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") yw unigolyn—

(a) sy'n cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy, sy'n ceisio cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy, neu sy'n caniatáu yn fwriadol i'r gweithgaredd trwyddedadwy gael ei gynnal, neu

(b) pan fo trwydded wedi ei rhoi neu ei hadnewyddu, sy'n ddeiliad y drwydded;

ystyr "ci llawndwf" ("adult dog") yw ci nad ydyw'n iau na 6 mis oed;

ystyr "milfeddyg" ("*veterinary surgeon*") yw person a gofrestrir yn y gofrestr milfeddygon neu yn y gofrestr filfeddygol atodol, a gedwir o dan Ddeddf Milfeddygon 1996(**1**);

ystyr "trwydded" ("*licence*"), ac eithrio fel y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall yn rheoliad 10(1)(b) neu pan ddarperir yr ystyr yn fwy penodol, yw trwydded i gynnal gweithgaredd trwyddedadwy a roddir neu a adnewyddir o dan y Rheoliadau hyn, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

**Trwyddedu gweithredwyr**

**3.**—(1) Mae pob gweithgaredd trwyddedadwy yn weithgaredd penodedig at ddibenion adran 13(1) o'r Ddeddf.

(2) Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer unrhyw weithgaredd trwyddedadwy a gynhelir mewn mangre yn ei ardal.

## RHAN 2

## Rhoi, adnewyddu ac amrywio trwydded â chydsyniad ac arolygu mangre

**Amodau rhoi neu adnewyddu trwydded**

**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo awdurdod lleol wedi cael cais ysgrifenedig oddi wrth weithredwr i roi neu adnewyddu trwydded i gynnal gweithgaredd trwyddedadwy ar fangre yn ardal yr awdurdod lleol, a

(b) pan fo'r cais yn rhoi'r wybodaeth honno sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) penodi un neu ragor o arolygwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas i arolygu unrhyw fangre y mae'r gweithgaredd trwyddedadwy,

(**1**) 1971 p. 80.

neu unrhyw ran ohono, yn cael ei gynnal neu i'w gynnal arni, a

(b) yn dilyn yr arolygiad hwnnw, roi trwydded i'r gweithredwr, neu adnewyddu trwydded y gweithredwr, yn unol â'r cais, os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni—

(i) y caiff amodau'r drwydded eu bodloni,

(ii) bod unrhyw ffi briodol wedi ei thalu yn unol â rheoliad 12, a

(iii) bod rhoi neu adnewyddu'r drwydded yn briodol ar ôl ystyried yr adroddiad a gyflwynir iddo yn unol â rheoliad 9.

(3) Rhaid i awdurdod lleol atodi i bob trwydded a roddir neu a adnewyddir—

(a) yr amodau cyffredinol, a

(b) yr amodau penodol perthnasol.

(4) Wrth ystyried pa un a gaiff amodau'r drwydded eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol ystyried ymddygiad y ceisydd fel gweithredwr y gweithgaredd trwyddedadwy y mae'r cais am roi neu adnewyddu trwydded yn ymwneud ag ef, pa un a yw'r ceisydd yn berson addas a phriodol i fod yn weithredwr y gweithgaredd hwnnw ac unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill.

(5) Ni chaniateir i awdurdod lleol roi trwydded i weithredwr, neu adnewyddu trwydded gweithredwr, o dan unrhyw amgylchiadau ac eithrio'r rhai a ddisgrifir yn y Rheoliadau hyn.

(6) Mae pob trwydded a roddir neu a adnewyddir mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau trwyddedadwy hyn yn ddarostyngedig i amodau'r drwydded.

**Cyfnod trwydded**

**5.** Caiff awdurdod lleol roi neu adnewyddu trwydded am unrhyw gyfnod hyd at 1 flwyddyn.

**Pŵer i gymryd samplau o anifeiliaid**

**6.** Caiff arolygydd, at ddibenion sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r drwydded, gymryd samplau ar gyfer profion labordy o unrhyw anifeiliaid ar fangre a feddiennir gan weithredwr.

**Dyletswydd i gynorthwyo o ran cymryd samplau o anifeiliaid**

**7.** Rhaid i weithredwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan arolygydd i hwyluso adnabod ac archwilio anifail a chymryd samplau yn unol â rheoliad 6 ac, yn benodol, rhaid iddo drefnu i anifail gael ei atal mewn ffordd addas os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd.

**Amrywio neu ddirymu trwydded ar gais deiliad trwydded, neu â chydsyniad deiliad trwydded**

**8.** Caiff awdurdod lleol ar unrhyw adeg amrywio neu ddirymu trwydded—

(a) ar gais ysgrifenedig deiliad y drwydded, neu

(b) ar ei gymhelliad ei hun, gyda chydsyniad ysgrifenedig deiliad y drwydded.

**Adroddiad yr arolygydd**

**9.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn trefnu arolygiad yn unol â rheoliad 4(2)(a), rhaid iddo drefnu i'r arolygydd gyflwyno adroddiad iddo.

(2) Rhaid i adroddiad yr arolygydd—

(a) cynnwys gwybodaeth am y gweithredwr, unrhyw fangre berthnasol, unrhyw gofnodion perthnasol, cyflwr unrhyw anifeiliaid, ac unrhyw faterion perthnasol eraill, a

(b) datgan pa un a yw'r arolygydd yn ystyried y caiff amodau'r drwydded eu bodloni ai peidio.

**Personau na chaniateir iddynt wneud cais am drwydded**

**10.**—(1) Ni chaniateir i'r personau a ganlyn wneud cais am drwydded mewn cysylltiad ag unrhyw weithgaredd trwyddedadwy—

(a) person a restrir yn berson anghymwys ym mharagraffau 2 i 8 o Atodlen 4 pan fo'r terfyn amser ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn yr anghymwyso hwnnw wedi dod i ben neu, os cyflwynwyd apêl, pan fo'r apêl honno wedi ei gwrthod;

(b) person a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 4 yn berson a oedd yn ddeiliad trwydded a ddirymwyd pan fo'r terfyn amser ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn y dirymu hwnnw wedi dod i ben neu, os cyflwynwyd apêl, pan fo'r apêl honno wedi ei gwrthod.

(2) Mae unrhyw drwydded a roddir neu a adnewyddir, neu a ddelir, gan berson a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) neu (b) wedi ei dirymu yn awtomatig.

**Marwolaeth deiliad trwydded**

**11.**—(1) Os bydd deiliad trwydded yn marw, bernir bod y drwydded wedi ei rhoi i gynrychiolwyr personol y deiliad trwydded blaenorol hwnnw, neu wedi ei hadnewyddu mewn cysylltiad â chynrychiolwyr personol y deiliad trwydded blaenorol hwnnw.

(2) O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (1), mae'r drwydded i barhau mewn grym

am 3 mis gan ddechrau â dyddiad marwolaeth deiliad blaenorol y drwydded neu am ba hyd bynnag yr oedd i barhau mewn grym oni bai am y farwolaeth (pa gyfnod bynnag yw'r byrraf) ond mae'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn Rhan 2.

(3) Rhaid i'r cynrychiolwyr personol hysbysu yn ysgrifenedig yr awdurdod lleol a roddodd neu a adnewyddodd y drwydded mai hwy yw deiliaid y drwydded bellach o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad marwolaeth deiliad blaenorol y drwydded.

(4) Os yw'r cynrychiolwyr personol yn methu â hysbysu'r awdurdod lleol yn unol â hynny o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3), bydd y drwydded yn peidio â chael effaith pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben.

(5) Caiff yr awdurdod lleol a roddodd neu a adnewyddodd y drwydded, ar gais y cynrychiolwyr personol, estyn y cyfnod a bennir ym mharagraff (2) am hyd at 3 mis os yw wedi ei fodloni bod angen yr estyniad at ddiben dirwyn i ben ystad deiliad blaenorol y drwydded a bod hynny'n briodol o dan yr holl amgylchiadau.

**Ffioedd**

**12.**—(1) Caiff awdurdod lleol godi'r ffioedd hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol am—

(a) ystyried cais i roi, adnewyddu neu amrywio trwydded gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyried hwnnw, ac ar gyfer rhoi, adnewyddu neu amrywio trwydded,

(b) costau disgwyliedig rhesymol ystyried cydymffurfedd deiliad y drwydded â'r Rheoliadau hyn ac amodau'r drwydded y mae deiliad y drwydded yn ddarostyngedig iddynt o dan amgylchiadau ac eithrio'r rhai a ddisgrifir yn is-baragraff (a) gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyried hwnnw,

(c) costau disgwyliedig rhesymol gorfodi mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd trwyddedadwy gan weithredwr didrwydded, a

(d) costau disgwyliedig rhesymol cydymffurfio â rheoliad 26.

(2) Ni chaniateir i'r ffi a godir am ystyried cais i roi, adnewyddu neu amrywio trwydded ac ar gyfer unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyried hwnnw fod yn fwy na chostau rhesymol yr ystyried hwnnw a'r arolygiad cysylltiedig.

**Canllawiau**

**13.** Rhaid i awdurdod lleol, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

## RHAN 3

### Gorfodi a hysbysiadau

**Seiliau dros atal trwydded dros dro, amrywio trwydded heb gydsyniad neu ddirymu trwydded**

**14.** Caiff awdurdod lleol, heb unrhyw ofyniad i sicrhau cydsyniad deiliad y drwydded, benderfynu atal dros dro, amrywio neu ddirymu trwydded ar unrhyw adeg os yw wedi ei fodloni—

(a) na chydymffurfir ag amodau'r drwydded,

(b) y torrwyd y Rheoliadau hyn,

(c) bod gwybodaeth a roddir gan ddeiliad y drwydded yn ffug neu'n gamarweiniol,

(d) bod hynny'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifail, neu

(e) na fyddai deiliad y drwydded wedi gallu gwneud cais am drwydded newydd yn unol â rheoliad 10.

**Y weithdrefn ar gyfer atal dros dro neu amrywio heb gydsyniad**

**15.**—(1) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y rheoliad hwn, mae atal dros dro neu amrywio trwydded yn dilyn penderfyniad o dan reoliad 14 yn cael effaith ar ddiwedd cyfnod o 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y dyroddir hysbysiad am y penderfyniad i ddeiliad y drwydded neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, y diwrnod gwaith nesaf.

(2) Os yw hynny'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifail, caiff yr awdurdod lleol bennu yn yr hysbysiad am ei benderfyniad bod yr atal dros dro neu'r amrywio yn cael effaith ar unwaith.

(3) Mewn perthynas â phenderfyniad i atal dros dro neu amrywio trwydded, rhaid—

(a) hysbysu deiliad y drwydded yn ysgrifenedig amdano,

(b) datgan seiliau'r awdurdod lleol dros yr atal dros dro neu'r amrywio,

(c) datgan pa bryd y bydd yn cael effaith,

(d) pennu mesurau y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i unioni'r seiliau hynny, ac

(e) esbonio hawl deiliad y drwydded i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn unol â pharagraff (4) a rhoi manylion y person y caniateir cyflwyno'r sylwadau hynny iddo, ac erbyn diwedd pa ddyddiad y mae rhaid i'r sylwadau hynny ddod i'w law.

(4) Caiff deiliad y drwydded gyflwyno sylwadau ysgrifenedig y mae rhaid iddynt ddod i law'r awdurdod lleol o fewn cyfnod o 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â dyddiad dyroddi'r hysbysiad am y penderfyniad o dan reoliad 14 i atal dros dro neu amrywio'r drwydded neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, y diwrnod gwaith nesaf.

(5) Ac eithrio mewn perthynas â hysbysiadau o dan baragraff (2), pan fo deiliad trwydded yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig sy'n dod i law'r awdurdod lleol o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (4), nid yw'r atal dros dro neu'r amrywio i gael effaith oni bai bod yr awdurdod lleol, ar ôl ystyried y sylwadau, yn atal y drwydded dros dro neu'n ei hamrywio yn unol â pharagraff (6)(a).

(6) O fewn 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y mae unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (5) yn dod i law, rhaid i'r awdurdod lleol, ar ôl ystyried y sylwadau—

(a) atal dros dro neu amrywio'r drwydded,

(b) canslo ei benderfyniad o dan reoliad 14 i atal dros dro neu amrywio'r drwydded,

(c) cadarnhau atal dros dro neu amrywio'r drwydded o dan baragraff (2), neu

(d) adfer y drwydded os yw wedi ei hatal dros dro, neu ganslo amrywio'r drwydded os yw wedi ei hamrywio, o dan baragraff (2).

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol ddyroddi i ddeiliad y drwydded hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad o dan baragraff (6) a'r rhesymau drosto o fewn 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y mae unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (4) yn dod i law neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith nesaf.

(8) Mae penderfyniad yr awdurdod lleol o dan baragraff (6) i gael effaith pan fo'n cyflwyno ei hysbysiad o dan baragraff (7).

(9) Mae paragraff (10) yn gymwys os yw'r awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â pharagraff (6) neu (7).

(10) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, ar ôl 7 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y mae unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (4) yn dod i law neu, os nad yw'r dyddiad hwnnw yn ddiwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith nesaf—

(a) bernir bod trwydded a ataliwyd dros dro o dan baragraff (2) wedi ei hadfer;

(b) bernir bod trwydded a amrywiwyd o dan baragraff (2) yn cael effaith fel pe na bai wedi ei hamrywio;

(c) bernir bod trwydded a ataliwyd dros dro o dan baragraff (6)(a) wedi ei hadfer;

(d) bernir bod trwydded a amrywiwyd o dan baragraff (6)(a) yn cael effaith fel pe na bai wedi ei hamrywio;

(e) bernir bod unrhyw drwydded a ddelir gan ddeiliad y drwydded ac eithrio trwydded a ataliwyd dros dro neu a amrywiwyd o dan baragraff (2) neu (6)(a) y penderfynodd yr awdurdod lleol ei hatal dros dro neu ei hamrywio o dan reoliad 14 yn parhau mewn grym ac nad yw wedi ei hamrywio felly.

(11) Unwaith y mae trwydded wedi ei hatal dros dro am 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r awdurdod lleol, ar y diwrnod gwaith nesaf—

(a) adfer y drwydded heb ei hamrywio,

(b) amrywio'r drwydded a'i hadfer wedi ei hamrywio, neu

(c) dirymu'r drwydded.

(12) Os yw'r awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â pharagraff (11), bernir bod y drwydded wedi ei hadfer heb ei hamrywio gan gael effaith ar unwaith.

### Adfer trwydded a ataliwyd dros dro gan awdurdod lleol

**16.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol adfer trwydded a ataliwyd dros dro drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig unwaith y mae wedi ei fodloni bod y seiliau a bennwyd yn yr hysbysiad atal dros dro wedi eu hunioni, neu y cânt eu hunioni.

(2) Pan fo awdurdod lleol yn adfer trwydded o dan baragraff (1), caiff lleihau'r cyfnod y mae wedi ei hadfer ar ei gyfer.

### Hysbysiad dirymu

**17.**—(1) Mewn perthynas â phenderfyniad dirymu, rhaid—

(a) hysbysu deiliad y drwydded yn ysgrifenedig amdano,

(b) datgan seiliau'r awdurdod lleol dros ddirymu, ac

(c) rhoi hysbysiad am hawl deiliad y drwydded i apelio i lys ynadon a'r cyfnod o dan reoliad 23 y caniateir cyflwyno apêl o'r fath o'i fewn.

(2) Mae'r penderfyniad yn cael effaith pan gyflwynir yr hysbysiad.

**Rhwystro arolygwyr**

**18.** Ni chaniateir i berson rwystro yn fwriadol arolygydd a benodir at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn wrth arfer unrhyw bwerau a roddir gan y Ddeddf neu oddi tani.

**Troseddau**

**19.**—(1) Mae'n drosedd i berson, heb awdurdod cyfreithlon neu esgus cyfreithlon—

(a) torri amod trwydded;

(b) methu â chydymffurfio â rheoliad 7 neu 18.

(2) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan baragraff (1) yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

**Pwerau mynediad**

**20.** Rhaid trin torri amod trwydded fel trosedd berthnasol at ddibenion adran 23 o'r Ddeddf (mynd i fangre a'i chwilio o dan warant mewn cysylltiad â throseddau).

**Pwerau ar ôl euogfarnu**

**21.** Mae'r pwerau perthnasol ar ôl euogfarnu sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 34 a 42 o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas ag euogfarn am drosedd o dan reoliad 19.

**Hysbysiadau**

**22.**—(1) Caniateir i'r awdurdod lleol ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg unrhyw hysbysiad a ddyroddir ganddo o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Caniateir cyflwyno hysbysiad i berson—

(a) drwy ei draddodi i'r person,

(b) drwy ei adael yng nghyfeiriad post cyfredol neu hysbys diwethaf y person neu ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad post hwnnw, neu

(c) drwy ei anfon mewn neges e-bost i gyfeiriad e-bost cyfredol neu hysbys diwethaf y person.

## RHAN 4

### Apelau

**Apelau**

**23.**—(1) Caiff unrhyw weithredwr sydd wedi ei dramgwyddo gan benderfyniad gan awdurdod lleol i wrthod rhoi neu adnewyddu trwydded, neu'r penderfyniad i ddirymu trwydded, apelio i lys ynadon.

(2) Mae'r weithdrefn mewn apêl i lys ynadon o dan baragraff (1) ar ffurf cwyn, ac mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**) yn gymwys i'r achos.

(3) Y cyfnod pan ganiateir dwyn apêl yw 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y cyflwynir hysbysiad am y penderfyniad.

## RHAN 5

### Diddymiadau, diwygiadau canlyniadol a darpariaeth arbed

**Diddymiadau a diwygiadau canlyniadol**

**24.** Mae Atodlen 5 (diddymiadau a diwygiadau canlyniadol) i gael effaith.

**Darpariaeth arbed**

**25.** Bydd unrhyw drwydded sydd heb ddod i ben a roddir yn unol â darpariaethau Deddf Anifeiliaid Anwes 1951(**2**) yn parhau mewn grym am weddill ei chyfnod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf honno fel yr oedd yn cael effaith ar y dyddiad perthnasol.

## RHAN 6

### Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru

**Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru**

**26.**—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth a ganlyn yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru—

(a) nifer y trwyddedau mewn grym yn ei ardal ar bob dyddiad cyfeirio, a

(b) lefel gyfartalog y ffioedd a godwyd gan yr awdurdod lleol am drwyddedau a roddwyd

(**1**) 1980. p. 43.
(**2**) 1951 p. 35 (14 & 15 Geo 6).

neu a adnewyddwyd ganddo ym mhob cyfnod cyfeirio.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth i Weinidogion Cymru—

(a) ar ffurf electronig, neu sicrhau ei bod yn hygyrch i Weinidogion Cymru ar ffurf electronig, a

(b) heb fod yn hwyrach na'r 31 Mai nesaf yn dilyn y dyddiad cyfeirio perthnasol.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod cyfeirio" ("*reference period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau â 10 Medi 2021 ac sy'n gorffen â 31 Mawrth 2022 a phob cyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau â 1 Ebrill;

ystyr "dyddiad cyfeirio" ("*reference date*") yw 31 Mawrth.

*Enw*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

# ATODLEN 1

## Gweithgareddau trwyddedadwy

### RHAN 1 Prawf busnes

**1.** Mae'r amgylchiadau y mae rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu pa un a yw gweithgaredd yn cael ei gynnal wrth gynnal busnes at ddibenion yr Atodlen hon yn cynnwys, er enghraifft, pa un a yw'r gweithredwr—

(a) yn gwneud unrhyw werthiant drwy'r gweithgaredd, neu fel arall yn cynnal y gweithgaredd gyda'r bwriad o wneud elw, neu

(b) yn ennill unrhyw gomisiwn neu ffi o'r gweithgaredd.

### RHAN 2 Gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes

**2.** Mae gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn ddiweddarach fel anifeiliaid anwes) wrth gynnal busnes yn cynnwys cadw anifeiliaid wrth gynnal busnes gyda'r bwriad o'u gwerthu neu eu hailwerthu.

**3.** Nid yw gweithgaredd a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn cynnwys—

(a) gwerthu anifeiliaid wrth gynnal busnes cynhyrchu dyframaethol a awdurdodir o dan reoliad 5(1) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009(**1**), neu

(b) person sydd yn dal trwydded dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 sydd yn gwerthu:

  (i) ci bach y mae'r person wedi ei fridio ei hunain o'r fangre ble magwyd y ci bach hwnnw; neu

  (ii) ci llawndwf y mae'r person wedi ei fridio eu hunain.

(**1**) O.S. 2009/463.

# ATODLEN 2

## Amodau cyffredinol

**Arddangos trwydded**

**1.**—(1) Rhaid i gopi o’r drwydded fod wedi ei arddangos yn glir ac yn amlwg ar unrhyw fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.

(2) Rhaid i enw deiliad y drwydded, wedi ei ddilyn gan rif trwydded deiliad y drwydded, fod wedi eu harddangos yn glir ac yn amlwg ar unrhyw wefan a ddefnyddir mewn cysylltiad â’r gweithgaredd trwyddedadwy.

**Cofnodion**

**2.**—(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl gofnodion y mae’n ofynnol i ddeiliad y drwydded eu cadw fel un o amodau’r drwydded ar gael ar unrhyw adeg i’w harolygu gan arolygydd ar ffurf weladwy a darllenadwy neu, pan fo unrhyw gofnodion o’r fath yn cael eu storio ar ffurf electronig, ar ffurf y gellir cyflwyno’r cofnodion ar ffurf weladwy a darllenadwy yn rhwydd ohoni.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw’r holl gofnodion o’r fath am 3 blynedd o leiaf, gan ddechrau â’r dyddiad y crëwyd y cofnod.

**Defnyddio anifeiliaid, nifer yr anifeiliaid a’r mathau o anifeiliaid**

**3.**—(1) Ni chaniateir defnyddio unrhyw anifeiliaid, neu unrhyw fathau o anifeiliaid, ac eithrio’r anifeiliaid hynny a’r mathau hynny o anifeiliaid a bennir yn y drwydded, mewn perthynas â’r gweithgaredd trwyddedadwy perthnasol.

(2) Ni chaniateir i nifer yr anifeiliaid a gedwir ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy ar unrhyw adeg fod yn fwy na’r uchafswm sy’n rhesymol gan ystyried y cyfleusterau a’r staffio ar unrhyw fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.

**Staffio**

**4.**—(1) Rhaid i niferoedd digonol o bobl sy’n gymwys at y diben fod ar gael i ddarparu lefel o ofal sy’n sicrhau y diwellir anghenion lles pob anifail.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded neu reolwr dynodedig ac unrhyw staff a gyflogir i ofalu am yr anifeiliaid feddu ar gymhwysedd i adnabod ymddygiad arferol y rhywogaethau o dan eu gofal ac i adnabod arwyddion poen, dioddefaint, anaf, clefyd neu

ymddygiad annormal, ac i gymryd camau priodol i liniaru neu atal yr effeithiau hynny.

(3) Rhaid i ddeiliad y drwydded ddarparu polisi hyfforddiant ysgrifenedig, sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff 9 ar gyfer yr holl staff, a sicrhau y rhoddir y polisi hwnnw ar waith.

**Amgylchedd addas**

**5.**—(1) Rhaid i bob ardal, cyfarpar ac offer y mae gan yr anifeiliaid fynediad iddynt beri'r risgiau lleiaf posibl o achosi anaf, salwch a dianc, a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu o ddeunydd cadarn, diogel a gwydn, bod mewn cyflwr da a bod wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.

(2) Rhaid cadw anifeiliaid ar bob adeg mewn amgylchedd sy'n addas i'w rhywogaeth a'u cyflwr (gan gynnwys statws iechyd ac oedran) mewn cysylltiad ag—

(a) eu hanghenion ymddygiadol;

(b) ei sefyllfa, faint o le sydd ar gael, ansawdd yr aer, glendid a'r tymheredd;

(c) ansawdd y dŵr (pan fo'n berthnasol);

(d) lefelau sŵn;

(e) lefelau goleuni;

(f) awyriad.

(3) Rhaid i staff sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw'n lân ac yn gyfforddus.

(4) Pan fo'n briodol i'r rhywogaeth, rhaid darparu ardal doiled a chyfleoedd i'r anifeiliaid fynd i'r toiled.

(5) Rhaid i weithdrefnau fod yn eu lle i sicrhau bod y llety ac unrhyw gyfarpar ynddo yn cael eu glanhau mor aml ag y bo'n angenrheidiol, ac y cynhelir safonau hylendid da, a rhaid bod yn bosibl i lanhau a diheintio'r llety yn drwyadl.

(6) Rhaid cludo a thrin yr anifeiliaid mewn modd (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â llety, tymheredd, awyru ac amlder) sy'n eu diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau.

(7) Rhaid i'r holl anifeiliaid fod yn hygyrch i'r staff ac ar gyfer arolygu a rhaid bod digon o oleuni i'r staff weithio'n effeithiol ac arsylwi ar yr anifeiliaid.

(8) Rhaid darparu'r holl adnoddau mewn ffordd (er enghraifft o ran amlder, lleoliad a mynedfeydd) sy'n lleihau ymddygiad cystadleuol neu oruchafiaeth anifeiliaid unigol.

(9) Ni chaniateir gadael yr anifeiliaid heb neb i ofalu amdanynt mewn unrhyw sefyllfa, nac am unrhyw gyfnod, sy'n debygol o beri gofid iddynt.

**Deiet addas**

**6.**—(1) Rhaid darparu deiet i'r anifeiliaid sy'n addas o ran ansawdd, maint ac amlder, a rhaid cyflwyno unrhyw fwydydd anifeiliaid newydd yn raddol er mwyn caniatáu i'r anifeiliaid ddod i arfer â hwy.

(2) Rhaid monitro cymeriant bwyd anifeiliaid a (pan fo'n briodol) dŵr, a rhaid cofnodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â hwy.

(3) Rhaid i'r bwyd anifeiliaid â'r dŵr yfed a ddarperir i'r anifeiliaid fod heb ei ddifetha a heb ei halogi.

(4) Rhaid gallu glanhau a diheintio daliedyddion bwyd anifeiliaid a dŵr yfed, neu rhaid iddynt fod yn rhai untro.

(5) Rhaid darparu mynediad parhaus i ddŵr yfed ffres a glân mewn daliedydd addas i'r rhywogaethau sydd ei angen.

(6) Pan fo bwyd anifeiliaid yn cael ei baratoi ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy, rhaid bod cyfleusterau hylan ar gael ar gyfer ei baratoi, gan gynnwys arwyneb gwaith, dŵr rhedegog poeth ac oer a chyfleusterau storio.

**Monitro ymddygiad a hyfforddi anifeiliaid**

**7.**—(1) Rhaid cyfoethogi'r amgylchedd mewn ffordd weithredol ac effeithiol i'r anifeiliaid sydd yn unrhyw amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored.

(2) O ran rhywogaethau y mae eu lles yn dibynnu'n rhannol ar ymarfer corff, rhaid darparu cyfleoedd ymarfer corff sy'n llesol i iechyd corfforol a meddyliol yr anifeiliaid, oni bai bod cyngor gan filfeddyg yn awgrymu fel arall.

(3) Rhaid monitro ymddygiad yr anifeiliaid ac unrhyw newidiadau o ran eu hymddygiad a rhaid gofyn am gyngor, fel y bo'n briodol ac yn ddi-oed, gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, gan unrhyw berson sy'n gymwys i roi cyngor o'r fath, os canfyddir ymddygiad andwyol neu annormal.

(4) Pan fônt yn cael eu defnyddio, ni chaniateir i ddulliau hyfforddi neu gyfarpar hyfforddi achosi poen, dioddefaint neu anaf.

(5) Rhaid rhoi cyfleoedd addas a digonol i bob anifail anaeddfed—

(a) dysgu sut i ryngweithio â phobl, â'i rywogaeth ei hun ac ag anifeiliaid eraill pan fo rhyngweithio o'r fath yn fuddiol i'w les, a

(b) ymgynefino â seiniau, gwrthrychau a gweithgareddau yn ei amgylchedd.

**Trin anifeiliaid a rhyngweithio ag anifeiliaid**

**8.**—(1) Rhaid i'r holl bobl sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid fod yn gymwys o ran trin pob anifail yn briodol i'w ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf neu glefyd.

(2) Rhaid cadw'r anifeiliaid ar wahân neu mewn grwpiau cymdeithasol cydnaws addas sy'n briodol i'r rhywogaeth ac i'r anifeiliaid unigol ac ni chaniateir i unrhyw anifeiliaid o rywogaeth gymdeithasol gael eu hynysu na'u cadw ar wahân oddi wrth anifeiliaid eraill o'r un rywogaeth am unrhyw gyfnod sy'n hwy nag y bo'n angenrheidiol.

(3) Rhaid i anifeiliaid gael cyfleoedd o leiaf bob dydd i ryngweithio â phobl pan fo'r rhyngweithio hwnnw yn llesol iddynt.

**Diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau**

**9.**—(1) Rhaid i weithdrefnau ysgrifenedig—

(a) bod yn eu lle ac ar waith o ran—

(i) cyfundrefnau bwydo;

(ii) cyfundrefnau glanhau;

(iii) cludiant;

(iv) atal clefydau a rheoli eu lledaeniad;

(v) monitro a sicrhau iechyd a lles yr holl anifeiliaid;

(vi) anifail yn marw neu yn dianc (gan gynnwys storio carcasau);

(b) bod yn eu lle o ran gofalu am yr anifeiliaid yn dilyn atal dros dro neu ddirymu'r drwydded neu yn ystod argyfwng ac ar ôl argyfwng.

(2) Rhaid sicrhau bod yr holl bobl sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid yn llwyr ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.

(3) Rhaid i gyfleusterau ynysu priodol, mewn cyfleusterau hunangynhwysol ar wahân, fod ar gael i ofalu am anifeiliaid sâl, anifeiliaid a anafwyd neu anifeiliaid a all fod yn heintus.

(4) Rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus, pathogenau a pharasitiaid ymhlith yr anifeiliaid ac ymhlith pobl.

(5) Rhaid storio a gwaredu'r holl garthion a'r holl wasarn budr mewn modd hylan ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

(6) Rhaid i anifeiliaid sy'n sâl neu wedi eu hanafu gael sylw prydlon gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, gan berson cymwys priodol, a rhaid dilyn cyngor y milfeddyg hwnnw neu, yn achos pysgod, y person cymwys hwnnw.

(7) Pan fo’n angenrheidiol, rhaid i anifeiliaid dderbyn triniaeth ataliol gan berson cymwys priodol.

(8) Rhaid i ddeiliad y drwydded gofrestru â milfeddyg sy’n meddu ar lefel briodol o brofiad ym maes gofynion iechyd a lles unrhyw anifeiliaid a bennir yn y drwydded, a rhaid i fanylion cyswllt y milfeddyg hwnnw fod ar gael yn rhwydd i’r holl staff ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.

(9) Rhaid storio meddyginiaethau ar brescripsiwn yn saff ac yn ddiogel er mwyn eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod, ar y tymheredd cywir, a rhaid iddynt gael eu defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau’r milfeddyg.

(10) Rhaid i feddyginiaethau ac eithrio meddyginiaethau ar brescripsiwn gael eu storio, eu defnyddio a’u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr neu’r milfeddyg.

(11) Rhaid i gynnyrch glanhau fod yn addas, yn ddiogel ac yn effeithiol yn erbyn pathogenau sy’n peri risg i’r anifeiliaid, a rhaid iddynt gael eu defnyddio, eu storio a’u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a’u defnyddio mewn ffordd sy’n atal gofid neu ddioddefaint i’r anifeiliaid.

(12) Ni chaniateir i unrhyw berson ewthaneiddio anifail ac eithrio milfeddyg neu berson a awdurdodwyd gan filfeddyg yn berson cymwys at y diben hwnnw neu yn achos pysgod, person sy’n gymwys at y diben hwnnw.

(13) Rhaid archwilio pob anifail o leiaf unwaith bob dydd, ac yn fwy rheolaidd fel y bo’n angenrheidiol i chwilio am unrhyw arwyddion poen, dioddefaint, anafiadau, clefydau neu ymddygiad annormal, a rhaid archwilio anifeiliaid hyglwyf yn fwy aml.

(14) Rhaid cofnodi unrhyw arwyddion poen, dioddefaint, anafiadau, clefydau neu ymddygiad annormal, a rhaid gofyn am gyngor, a chyngor pellach (os oes angen) gan filfeddyg (neu yn achos pysgod, gan berson cymwys priodol) a dilyn y cyngor hwnnw.

**Argyfyngau**

**10.**—(1) Rhaid i gynllun argyfwng ysgrifenedig sy’n dderbyniol i’r awdurdod lleol fod yn ei le, yn hysbys ac ar gael i’r holl staff ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy, a rhaid dilyn y cynllun hwnnw pan fo’n angenrheidiol i sicrhau y cymerir camau priodol i ddiogelu yr holl bobl ac anifeiliaid ar y fangre yn achos tân neu pe bai systemau gwresogi, awyru ac awyriad neu hidlo hanfodol yn torri i lawr, neu argyfyngau eraill yn codi.

(2) Rhaid i’r cynllun gynnwys manylion y camau sydd i’w cymryd mewn argyfwng i fynd â’r anifeiliaid ymaith pe bai’r fangre yn mynd i gyflwr nad yw’n

addas i fyw ynddo, a rhestr o rifau ffôn mewn argyfwng sy'n cynnwys y gwasanaeth tân a'r heddlu.

(3) Rhaid i ddrysau a gatiau allanol fod yn gloadwy.

(4) Rhaid i ddeiliad allweddi dynodedig sydd â mynediad i'r holl fannau i anifeiliaid ar bob adeg fod o fewn pellter teithio rhesymol i'r fangre ac ar gael i fod yn bresennol mewn argyfwng.

# ATODLEN 3

## Amodau penodol: gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr “darpar berchennog” (“*prospective owner*”) yw person sy’n prynu anifail i’w gadw neu i gael ei gadw fel anifail anwes;

ystyr “mangre” (“*premises*”) yw’r fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda’r bwriad o’u hailwerthu’n ddiweddarach fel anifeiliaid anwes);

ystyr “prynwr” (“*purchaser*”) yw person sy’n prynu anifail i’w gadw fel anifail anwes neu gyda’r bwriad o’i ailwerthu’n ddiweddarach fel anifail anwes.

### Cofnodion a hysbysebion

**2.**—(1) Rhaid cadw cofrestr o’r holl anifeiliaid, neu yn achos pysgod, yr holl grwpiau o bysgod, ar y fangre, a rhaid iddi gynnwys—

(a) enw llawn cyflenwr yr anifail,

(b) rhyw yr anifail (pan fo’n hysbys),

(c) (ac eithrio yn achos pysgod) oedran yr anifail (pan fo’n hysbys),

(d) manylion unrhyw driniaeth filfeddygol (pan fo’n hysbys),

(e) dyddiad geni’r anifail neu, os caffaelwyd yr anifail gan ddeiliad y drwydded, dyddiad ei gaffael,

(f) dyddiad gwerthu’r anifail gan ddeiliad y drwydded, ac

(g) dyddiad marwolaeth yr anifail (os yw’n gymwys).

(2) Pan fo anifail yn cael unrhyw driniaeth feddygol—

(a) rhaid nodi’r ffaith honno yn glir—

(i) yn ysgrifenedig nesaf ato, neu

(ii) (pan fo’n briodol) drwy ei labelu yn unol â hynny, a

(b) ni chaniateir ei werthu.

(3) Rhaid i unrhyw hysbyseb ar gyfer gwerthu anifail—

(a) cynnwys rhif trwydded deiliad y drwydded,

(b) pennu'r awdurdod lleol a ddyroddodd y drwydded,

(c) cynnwys ffotograff adnabyddadwy o'r anifail sy'n cael ei hysbysebu,

(d) (ac eithrio yn achos pysgod) dangos oedran yr anifail sy'n cael ei hysbysebu,

(e) datgan ym mha wlad y mae'r anifail yn byw ac y mae'n cael ei werthu ohoni, ac

(f) datgan y wlad y mae'r anifail yn tarddu ohoni.

**Darpar werthiannau: gofal anifeiliaid anwes a chyngor ynghylch hynny**

**3.**—(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod unrhyw gyfarpar ac ategolion sy'n cael eu gwerthu gydag anifail yn addas i'r anifail.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r darpar berchennog ar ofal priodol yr anifail gan gynnwys mewn perthynas â—

(a) bwydo,

(b) llety,

(c) trin,

(d) hwsmonaeth,

(e) disgwyliad oes ei rywogaeth,

(f) darparu ategolion addas, ac

(g) gofal milfeddygol.

(3) Rhaid i ddeunyddiau cyfeirio priodol ynghylch gofal yr holl anifeiliaid sydd ar werth gael eu harddangos a'u darparu i'r darpar berchennog.

(4) Rhaid bod deiliad y drwydded a'r holl staff wedi cael hyfforddiant addas i roi cyngor i ddarpar berchnogion ynghylch yr anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu.

(5) Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod y prynwr yn cael ei hysbysu ynghylch y wlad y mae'r anifail yn tarddu ohoni a'i rywogaeth, a phan fo'n hysbys, oedran, rhyw a chofnod milfeddygol yr anifail sy'n cael ei werthu.

**Llety addas**

**4.**—(1) Rhaid cadw anifeiliaid mewn llety sy'n lleihau straen, gan gynnwys straen a achosir gan anifeiliaid eraill a'r cyhoedd.

(2) Pan fo aelodau o'r cyhoedd yn gallu gweld yr anifeiliaid neu ddod i gysylltiad â hwy, rhaid bod arwyddion wedi eu gosod i annog pobl i beidio ag aflonyddu ar yr anifeiliaid.

(3) Rhaid cadw anifeiliaid gwyllt peryglus (os oes rhai) mewn caetsys sy'n ddiogel ac y gellir eu cloi ac sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth.

(4) At ddibenion is-baragraff (3), ystyr “anifail gwyllt peryglus” yw anifail o fath a bennir yng ngholofn gyntaf yr Atodlen i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976(**1**).

### Gwerthu anifeiliaid

**5.**—(1) Ni chaniateir i unrhyw anifail o’r disgrifiadau a ganlyn gael ei werthu fel anifail anwes, neu ei werthu gyda’r bwriad o’i ailwerthu fel anifail anwes, gan ddeiliad y drwydded neu ar ei ran—

- (a) mamaliaid heb eu diddyfnu;
- (b) mamaliaid a ddiddyfnwyd ar oedran na ddylent fod wedi eu diddyfnu arno;
- (c) anifeiliaid nad ydynt yn famaliaid nad ydynt yn gallu bwydo eu hunain;
- (d) cŵn bach, cathod bach, ffuredau neu gwningod iau nag 8 wythnos oed;
- (e) cŵn bach neu gathod bach nad oeddent wedi eu bridio gan ddeiliad y drwydded yn y fangre.

(2) Rhaid cwblhau gwerthiant ci yng ngŵydd y prynwr ar y fangre.

### Diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau

**6.**—(1) Rhaid i’r holl anifeiliaid sydd ar werth fod mewn cyflwr da o ran eu hiechyd.

(2) Ni chaniateir i unrhyw anifail sydd â chyflwr sy’n debygol o effeithio ar ansawdd ei fywyd gael ei symud, ei drosglwyddo neu ei gynnig ar werth, ond caniateir ei symud i gyfleuster ynysu neu gyfleuster gofal milfeddygol os yw hynny’n angenrheidiol hyd nes i’r anifail wella.

(3) Wrth drefnu i dderbyn anifeiliaid, rhaid i ddeiliad y drwydded wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau y cânt eu cludo mewn dull addas.

(4) Rhaid cludo anifeiliaid neu eu traddodi i brynwyr mewn cynwysyddion addas ar gyfer y rhywogaeth a hyd disgwyliedig y daith.

---

(**1**) 1976 p. 38. Amnewidiwyd yr Atodlen o ran Cymru a Lloegr gan erthygl 2 o O.S. 2007/2465.

# ATODLEN 4

## Personau na chaniateir iddynt wneud cais am drwydded

**1.** Person a oedd ar unrhyw adeg yn ddeiliad trwydded a ddirymwyd o dan reoliad 14 o’r Rheoliadau hyn.

**2.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 33 o Ddeddf Llesiant Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011(**1**).

**3.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 34 o’r Ddeddf.

**4.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 40(1) a (2) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006(**2**).

**5.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 6(2) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976(**3**) rhag cadw anifail gwyllt peryglus.

**6.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 5(3) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951(**4**) rhag cadw siop anifeiliaid anwes.

**7.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 1(1) o Ddeddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygio) 1954(**5**) rhag cael gwarchodaeth anifail.

**8.** Person sydd wedi ei anghymwyso o dan adran 3 o Ddeddf Diogelu Anifeiliaid 1911(**6**) rhag bod yn berchen ar anifail.

---

(**1**) 2011 p. 16.
(**2**) 2006 dsa 11.
(**3**) 1976 p. 38; diwygiwyd adran 6(2) ond nid yw’r diwygiadau yn berthnasol.
(**4**) Diwygiwyd adran 5(3) gan baragraff 3(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.
(**5**) 1954 p. 40 (2 & 3 Eliz 2); diddymwyd adran 1 gan Atodlen 4 i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.
(**6**) 1911 p. 27 (1 & 2 Geo 5); diddymwyd adran 3 gan Atodlen 4 i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

## ATODLEN 5

## Diddymiadau a diwygiadau canlyniadol

**Deddf Anifeiliaid Anwes 1951**

**1.** Mae adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 (cyfyngiad ar gadw siop anifeiliaid anwes) yn peidio â chael effaith o ran Cymru.

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018**

**2.** Yn Atodlen 6(1)(c)(ii) i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018(**1**), yn lle "the Pet Animals Act 1951 to keep the shop" rhodder "regulations 2 and 4 of the Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (Wales) Regulations 2021".

(**1**) SI 2014/486

**Memorandwm Esboniadol** i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

**2 Mawrth 2021**

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r Memorandwm Esboniadol (Rhan 1) a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Rhan 2).

## RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu unigolion yng Nghymru sy'n rhan o'r broses o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, ac yn ei gwneud yn drosedd i drydydd partïon masnachol werthu cŵn a chathod bach o dan 6 mis oed.

1.2 Bydd y Rheoliadau hyn yn pennu gweithgareddau at ddibenion adran 13(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006[1] ("Deddf 2006") ac yn galluogi awdurdodau lleol i fod yn awdurdodau trwyddedu. O ganlyniad i'r hyn sydd wedi'i bennu yma, yn amodol ar feini prawf cymhwyso, bydd unrhyw unigolyn sy'n dymuno cyflawni unrhyw o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru yn gorfod cael trwydded gan yr awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r gofynion hyn yn disodli'r gofynion yng Nghymru i gael trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951[2].

1.3 Bydd unigolyn sy'n cyflawni unrhyw o'r gweithgareddau hyn yng Nghymru heb drwydded o dan y Rheoliadau hyn yn troseddu o dan adran 13(6) o Ddeddf 2006 ac yn agored i gyfnod o hyd at chwe mis yn y carchar, i ddirwy, neu'r ddau. O dan adran 30 o Ddeddf 2006, caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf.

1.4 Mae'r Rheoliadau'n nodi sut gall unigolyn wneud cais am drwydded i'r awdurdod lleol ac yn nodi'r materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol fod yn fodlon yn eu cylch wrth ystyried rhoi neu adnewyddu trwydded. Mae'n galluogi awdurdod lleol i godi ffioedd i dalu am y costau y mae'n eu talu wrth gyflawni'r swyddogaeth hon ac ystyried cydymffurfiad deiliad trwydded â'r Rheoliadau hyn, yn ogystal â'r gwaith gorfodi a gweinyddu. Mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ychwanegu amodau trwydded penodol at bob trwydded sy'n cael ei rhoi neu ei hadnewyddu. Mae'n datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol benodi arolygydd pan fo'n ystyried bod hynny'n briodol, a hynny at y diben o sicrhau cydymffurfedd ag amodau'r drwydded. Mae'n mynnu bod awdurdod lleol yn ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn. Mae'n rhoi pwerau i arolygwyr gymryd samplau gan anifeiliaid.

1 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents
**2** https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/14-15/35

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r fersiwn hon o'r offeryn yn cymryd lle'r fersiwn wreiddiol a osodwyd ar 27 Ionawr 2021 a'i thynnu'n ôl wedyn.

2.2 Roedd camgymeriad yn y fersiwn flaenorol sydd bellach wedi'i gywiro.

2.3 Mae'r fersiwn hon o'r offeryn yn darparu mai dim ond ar y safle lle cafodd ci bach ei fridio y caiff ci bach ei werthu. Mae hyn yn gymwys lle bo'r gwerthiant yn cael ei wneud fel rhan o weithgaredd drwyddedadwy o dan y rheoliadau hyn a'i fod hefyd yn amod ar gyfer eithrio o'r diffiniad o weithgaredd drwyddedadwy y bridwyr sydd wedi'u trwyddedu o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 (2014/3266 (Cy. 333)).

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Ar hyn o bryd, mae trydydd parti masnachol sy'n gwerthu anifeiliaid anwes yng Nghymru wedi'u trwyddedu o dan adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951. Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn bosibl diddymu Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 ac yn darparu'r pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer trwyddedu neu gofrestru gweithgareddau sy'n cynnwys anifeiliaid.

3.2 Mae Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 11 (Ffioedd) yn galluogi rheoliadau i gynnwys darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol.

3.3 Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â Chymru[3]. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 13(2), (7), (8) a (10) o Rannau 1 a 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Anifeiliaid Anwes 2006[4].

3.4 Yn unol ag adran 13(9) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r unigolion hynny sydd yn eu tyb hwy yn cynrychioli buddiannau y mae'r Rheoliadau hyn yn delio â hwy, fel y bo'n briodol yn eu barn hwy.

3.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.

3.6 Bydd y Rheoliadau yn debyg eu natur i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr)

---

(**3**) Diffinnir yr "awdurdod cenedlaethol priodol" yn adran 62(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45). Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf hon.

(**4**) 2006 p. 45.

(Diwygio) 2019[5] a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020, gan wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth i wahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach.

4.2 Bydd y cynigion yn newid y trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, sy'n cynnwys gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Mae codi safonau lles cyn uched â phosibl ledled Cymru yn flaenoriaeth ac un o oblygiadau'r Rheoliadau newydd yw hyrwyddo bridio cyfrifol, a sicrhau bod cŵn a chathod bach yn cael eu bridio mewn amgylchiadau addas. Ni all gwaharddiad ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â masnachu cŵn bach. Bydd y gwaharddiad arfaethedig yn un rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â chodi'r safonau lles mewn sefydliadau bridio cŵn, sy'n cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi.

4.3 Mae gwerthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig yn gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol ac yn gyfreithlon: gall hyn fod yn siop anifeiliaid anwes traddodiadol, yn annedd ddomestig, yn ddelwyr sy'n gweithredu fel broceriaid rhwng bridwyr, neu fridwyr sy'n gwerthu cŵn bach o doreidiau nad ydynt wedi'u bridio eu hunain. Ar hyn o bryd yng Nghymru, rhaid iddynt ddal trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

4.4 Bydd Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 adran 1(1) (cyfyngiad ar gadw siop anifeiliaid anwes) yn peidio â bod yn effeithiol mewn perthynas â Chymru a chaiff ei disodli gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Bydd hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud â Chymru wrth werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes a'i gwneud yn drosedd i drydydd partïon masnachol werthu cŵn bach a chathod bach o dan 6 mis oed.

4.5 Mae pryderon y gall gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol fod yn gysylltiedig ag amodau lles gwaelach i'r anifeiliaid o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Mae eu cyflwyno i nifer o amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, a'r tebygolrwydd uwch o orfod gwneud mwy nag un siwrnai, yn gallu cyfrannu at risg uwch o glefyd a diffyg cymdeithasoli a chynefino i'r cŵn a chathod bach.

4.6 Mae'r Rheoliadau'n cael eu drafftio fel cam cyntaf tuag at sicrhau bod lles cŵn a chathod bach yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd yn cael eu

**5** Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019

bridio â'u gwerthu i drydydd partïon, yn cael ei wella'n sylweddol drwy ddim ond cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r perchennog newydd gan y bridiwr. Dylai'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwerthu anifeiliaid anwes adlewyrchu'r arferion gorau. Mae caniatáu i drydydd partïon masnachol werthu cŵn a chathod bach yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd y prynwyr yn gweld y ci neu'r gath fach yn rhyngweithio â'r fam neu'r brodyr a chwiorydd, na'r amodau y maent wedi'u bridio ynddynt.

Hefyd, bydd y Rheoliadau newydd yn:

- Cysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ranbarth.
- Darparu cyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.
- Darparu mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014[6] yn y dyfodol.

4.7 Bydd y Rheoliadau yn debyg eu natur i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019[7] a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020, gan wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Nid yw Rheoliadau Lloegr yn atal bridwyr yn Lloegr rhag gwerthu cŵn a chathod bach i werthwyr trydydd parti yng Nghymru. Bydd cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd hon yn atal gwerthwyr trydydd parti sy'n bodoli eisoes yng Nghymru rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Bydd hefyd yn atal gwerthwyr trydydd parti yn y dyfodol ac yn darparu cyfle i atal bridwyr a broceriaid yn Lloegr rhag parhau i werthu yng Nghymru. Mae'r Alban yn dwyn deddfwriaeth ymlaen ar y mater hwn hefyd.

4.8 Mae Adroddiad 2016 Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 'Animal Welfare in England: Domestic Pets'[8] yn datgan:

> "Responsible breeders would never sell through a pet shop licence holder. The process of selling through a third party seller has an unavoidable negative impact upon the welfare of puppies. It also distances the purchaser from the environment in which their puppy was bred. Banning third party sales so that the public bought directly from breeders would bring public scrutiny to bear on breeders, thereby improving the welfare conditions of puppies. It would also bring a positive financial impact to breeders, allowing them to retain money that is currently lost in the supply chain. We acknowledge that

**6** https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3266/contents/made
**7** https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111186954
**8** https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmenvfru/117/117.pdf

difficulties of public access, due to a rural location, security issues and diseases, may be challenging for some breeders. On balance, however, we consider it is more important that animal welfare standards are ensured across all breeders. (Paragraff 90)

*“We recommend that the Government ban third party sales of dogs. Dogs should only be available from licensed, regulated breeders or approved rehoming.” organisations.” (Paragraff 91)*

4.9 Yn Lloegr, cafodd deiseb a oedd yn gysylltiedig ag ymgyrch Lucy’s Law dros 100,000 o lofnodion a chafodd ei thrafod yn Senedd y DU ar 21 Mai 2018. Roedd ymgyrch Lucy’s Law yn galw am waharddiad ar unwaith ar werthiant cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a delwyr trydydd parti masnachol eraill. Roedd yr ymgyrchwyr yn hawlio bod rheoleiddio gwerthiannau trydydd parti masnachol yn aneffeithiol o ran atal niwed, ac felly bod yn rhaid gwahardd.

4.10 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ledled y DU ymrwymo i egwyddorion Lucy’s Law. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ledled y DU ymrwymo i egwyddorion Lucy’s Law a chafwyd cefnogaeth eang gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

4.11 Ym mis Chwefror 2018, lansiodd DEFRA Gais am Dystiolaeth ar gyfer gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach yn Lloegr. Cafodd dros 300 o ymatebion ac roedd tua 70% o blaid gwaharddiad.

4.12 Cafodd ymarfer ymgynghori DEFRA ar wahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach 6,854 o ymatebion yn ystod ei bedair wythnos (22 Awst - 19 Medi 2018). Roedd y mwyafrif helaeth o blaid gwaharddiad.

4.12 Bron o’r adeg y cyhoeddodd DEFRA ei bod yn bwriadu gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach, mae Aelodau’r Cynulliad/Senedd wedi lobïo, deisebu a gofyn dro ar ôl tro i Lywodraeth Cymru pa bryd fyddai Cymru’n cyflwyno gwaharddiad. Rhwng mis Mai 2018 a mis Rhagfyr 2019, cafodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig 74 darn o ohebiaeth. Cafodd 63 yn 2020. Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig hefyd wedi mynegi cefnogaeth lwyr ar gyfer dwyn y newidiadau deddfwriaethol gofynnol ymlaen.

4.14 Cafodd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy’n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018 eu diwygio (Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy’n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019) i gynnwys gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol. Daeth y gwaharddiad i rym ar 6 Ebrill 2020.

4.15 Yn ei datganiad llafar ar 19 Mehefin 2018, ymrwymodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, i ymchwilio i

werthiannau trydydd parti yng Nghymru. Lansiodd ymgynghoriad ar effaith gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon yn gynnar yn 2019. Cafodd ymgynghoriad terfynol ei gynnal yn 2020.

4.16 Mae ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a DEFRA ill dau wedi dangos cefnogaeth eang ar gyfer gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Fodd bynnag, yng Nghymru, ystyrir mai dim ond un o'r camau angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod mewn safleoedd bridio yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014[9] yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

4.17 Bydd Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 adran 1(1) (cyfyngiad ar gadw siop anifeiliaid anwes) yn peidio â bod yn effeithiol mewn perthynas â Chymru a chaiff ei disodli gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Bydd hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud â Chymru wrth werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes a'i gwneud yn drosedd i drydydd partïon masnachol werthu cŵn bach a chathod bach o dan 6 mis oed.

4.18 Nid bwriad polisi y rheoliadau yw ei gwneud hi'n ofynnol i ddeiliaid trwyddedau o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 sy'n gwerthu cŵn y maent wedi'u bridio eu hunain ar y safle feddu ar drwydded o dan y rheoliadau hyn. Mae'r rheoliadau a gafodd eu gosod yn wreiddiol ar 27 Ionawr wedi'u hailosod er mwyn adlewyrchu hyn.

4.19 Bydd proses drwyddedu newydd o dan y Rheoliadau yn gwella lles cŵn a chathod bach, a chŵn a chathod sy'n cael eu defnyddio ar gyfer bridio, gan gysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau cyn lleied o anghysondebau â phosibl rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i wlad.

4.20 Hefyd, bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn darparu mecanwaith ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn y dyfodol, a chyfle i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig eraill yn y dyfodol gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.

## 5. Ymgynghori

Mae manylion gweithgareddau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar gael yn Rhan 2 o'r ddogfen hon o dan ystyriaethau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

---

**9** https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3266/contents/made

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**
***Sail resymegol dros ymyrryd a'r effeithiau bwriadedig***

5.1 Yn 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn archwilio'r dystiolaeth ynghylch pa bryd dylai'r Llywodraeth ymyrryd mewn safleoedd bridio er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â lles anifeiliaid. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang ar gyfer gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach.

5.2 Ystyrir mai dim ond y cam cyntaf angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod, a'u hepil, yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o Reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni'r Rheoliadau Bridio cyfredol yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

5.3 O dan y rheolau cyfredol, mae'n bosibl i rywun werthu cŵn bach a/neu gathod bach yng Nghymru, yng nghwrs busnes, heb fod wedi eu bridio ei hun. Gwerthiant masnachol gan drydydd parti yw enw gwerthiannau o'r fath. Mae Adroddiad 2016 Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 'Animal Welfare in England: Domestic pets' yn tynnu sylw at y problemau sy'n gysylltiedig â gwerthu drwy werthwr trydydd parti, gan wneud sylw ar yr effaith niweidiol anochel ar les cŵn bach a phellter y prynwr oddi wrth yr amgylchedd lle cafodd y ci bach ei fridio. Mae hefyd yn nodi y byddai gwahardd gwerthiannau trydydd parti, er mwyn i'r cyhoedd brynu'n uniongyrchol gan y bridiwr, yn arwain at graffu ar fridwyr ac felly'n gwella amodau lles cŵn bach. Mae cyfiawnhad dros Lywodraeth Cymru yn ymyrryd i godi safonau lles.

5.4 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn yr is-ddeddfwriaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

## 6. Opsiynau

***Opsiynau***

**Opsiynau polisi a ystyriwyd, gan gynnwys dewisiadau ar wahân i reoleiddio**

Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

1. Gwneud dim (sylfaenol) – Cadw'r status quo, hy busnes fel arfer.

2. Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i werthwyr trydydd parti masnachol barhau i werthu cŵn a chathod bach yn amodol ar amodau penodol.

3. Cyflwyno gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yng Nghymru.

## 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i werthwyr trydydd parti masnachol barhau i werthu cŵn a chathod bach**

7.1 Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

7.2 Ni fyddai busnes fel arfer yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau lles uchel i'r holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru drwy gydol eu hoes.

7.3 Er byddai'r dull gweithredu 'gwneud dim' yn niwtral o ran cost i werthwyr trydydd parti masnachol ac yn golygu dim newidiadau i awdurdodau lleol, mae'n glir bod y status quo yn ddull gweithredu annigonol ar gyfer codi a gorfodi safonau lles cŵn a chathod bach sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru. Byddai hefyd yn golygu bod Cymru'n debygol o weld cynnydd yn nifer y cŵn a chathod bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwyr trydydd parti yng Nghymru a/neu yn nifer y siopau anifeiliaid anwes sy'n cael eu sefydlu, oherwydd mae'r gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol a ddaeth i rym yn Lloegr ar 6 Ebrill 2020 yn nodi y gellir gwerthu cŵn a chathod bach i werthwyr trydydd parti yng Nghymru.

7.4 Mae'r Alban yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol hefyd, a allai adael Cymru mewn sefyllfa fregus.

7.5 Bydd y drefn drwyddedu sy'n bodoli eisoes yn parhau. Caiff trwyddedau eu cyhoeddi/adnewyddu yn flynyddol yn dilyn arolygiad.

7.6 I awdurdodau lleol, mae Rheoliad 12 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 yn caniatáu iddynt godi'r ffioedd y maent yn eu credu sy'n angenrheidiol i ystyried cais am drwydded, neu am adnewyddu neu amrywio trwydded, gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyriaeth honno ac ar gyfer y broses o roi, adnewyddu neu amrywio trwydded. Hefyd, gellir codi ffioedd am gostau disgwyliedig rhesymol ystyried cydymffurfedd deiliad trwydded â'r Rheoliadau a'r amodau trwydded y mae'r deiliad trwydded yn rhwym iddynt mewn amgylchiadau ar wahân

i'r rhai a ddisgrifir yn y Rheoliadau, gan gynnwys unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyriaeth honno; am gostau disgwyliedig rhesymol darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn unol â Rheoliad 30; ac am gostau disgwyliedig rhesymol gorfodi mewn cysylltiad â gweithgareddau trwyddedadwy perchennog siop anifeiliaid anwes heb drwydded. Er na chaiff y ffioedd fod yn fwy na chostau rhesymol ystyried y pwyntiau a amlinellir yn y paragraff hwn, dylai'r Rheoliadau ganiatáu i unrhyw gamau gorfodi fod yn niwtral o ran cost.

***Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru a fyddai'n caniatáu i werthwyr trydydd parti masnachol barhau i werthu cŵn a chathod bach yn amodol ar amodau penodol.***

7.7 Byddai'r opsiwn hwn yn cael yr un effaith ag Opsiwn 1, 'Gwneud dim'. Byddai'n niwtral o ran cost oherwydd mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn caniatáu i awdurdodau lleol ychwanegu amodau ar gyfer deiliaid trwydded. Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r ymrwymiad i sicrhau safonau lles uchel i'r holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru drwy gydol eu hoes.

7.8 Roedd yr ymgyrchwyr dros Lucy's Law yn credu bod rheoleiddio gwerthiannau trydydd parti masnachol yn aneffeithiol o ran atal niwed, ac felly bod yn rhaid gwahardd.

7.9 Nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried ymhellach.

***Opsiwn 3: Gwahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol***

7.10 Mae'r opsiwn hwn yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau lles uchel i'r holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru drwy gydol eu hoes.

7.11 Mae 115 o siopau anifeiliaid anwes trwyddedig yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 10 o'r rhain yn dal trwyddedau sy'n caniatáu iddynt werthu cŵn a chathod bach. Mae llawer o broblemau yn gysylltiedig â gwerthiannau trydydd parti masnachol, gan gynnwys amodau lles gwael, trawma cludiant, cael eu gwahanu oddi wrth y fam yn rhy gynnar, diffyg cymdeithasoli, safonau iechyd a hylendid gwael, a diffyg sgrinio meddygol i geist sy'n bridio a chŵn magu. Mae'r holl bethau hyn yn ei gwneud yn bosibl y bydd cŵn bach yn cael clefydau a chyflyrau etifeddol nychus, eu bod yn agored i glefydau sy'n peryglu bywyd, bod ganddynt broblemau o ran ymddygiad, a diffyg cymdeithasoli. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yn awgrymu cefnogaeth lethol ar gyfer gwaharddiad.

7.12 Ystyrir mai dim ond y cam cyntaf angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod, a'u hepil, yw gwaharddiad. Bydd y cyfuniad o Reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni'r Rheoliadau Bridio cyfredol yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

7.13 Byddai'r Rheoliadau newydd yn diddymu ac yn disodli Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, ac yn parhau i ganiatáu i awdurdodau lleol godi'r ffioedd y maent yn eu credu sy'n angenrheidiol i ystyried cais am drwydded, neu am adnewyddu neu amrywio trwydded sy'n caniatáu gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes. Gellir hefyd codi ffioedd am gostau disgwyliedig rhesymol ystyried cydymffurfedd deiliad trwydded â'r Rheoliadau ac amodau'r drwydded.

***Asesiad o'r effaith ar fusnes***

7.14 Mewn sawl ffordd, mae'r farchnad cŵn bach yn gymhleth ac mae'r ddealltwriaeth ohoni'n wael. Mae galw uchel am gŵn bach – tua 750,000 o gŵn bach y flwyddyn ar draws y DU, a thua 55,000 yng Nghymru. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod gwerthiannau gan werthwyr trydydd parti trwyddedig yn cyfrif am gyfran isel o'r gwerthiannau cŵn bach yn gyffredinol. Mae nifer sylweddol, os nad mwyafrif, o'r cŵn bach hyn yn cael eu bridio gan fridwyr swm isel sy'n gweithredu'n gwbl annibynnol ar ei gilydd ac yn gwerthu o eiddo domestig.

7.15 Amcangyfrifir y byddai gwaharddiad yn cynhyrchu cost rhwng £2.0m a £3.6m y flwyddyn i werthwyr trydydd parti masnachol yng Nghymru, oherwydd byddent yn colli'r elw byddent wedi parhau i'w wneud drwy werthiannau trydydd parti yn absenoldeb gwaharddiad. Mae'n debygol y byddai'r gwaharddiad hefyd yn effeithio ar fridwyr sy'n gwerthu drwy werthwyr trydydd parti ar hyn o bryd.

7.16 Rydym wedi tybio na fyddai cyfran o'r bridwyr hyn yn gallu parhau i weithredu o ganlyniad i waharddiad ar werthiannau trydydd parti; felly, gallai'r gost uniongyrchol flynyddol iddynt fod rhwng £75,000 a £130,000 drwy golli elw yn y dyfodol. Byddai bridwyr sy'n aros yn y farchnad yn gorfod gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr, yn hytrach na gwerthu drwy werthwyr trydydd parti. Rydym yn rhag-weld y byddai eu helw'n cynyddu oherwydd byddent yn gallu gwerthu eu cŵn a'u cathod bach ar gyfradd y farchnad, yn hytrach na chyfradd ddisgownt. Rydym yn amcangyfrif mantais uniongyrchol flynyddol o rhwng £1.4m a £2.6m i fridwyr.

7.17 Yn ogystal â hynny, gallai cyfran marchnad y bridwyr sy'n gadael y farchnad gael ei chymryd gan fridwyr domestig eraill, ac mae'n bosibl y

bydd bridwyr domestig hefyd yn cymryd y gyfran marchnad a oedd arfer bod yn gysylltiedig â chŵn a chathod bach wedi'u mewnforio, a oedd yn cael eu gwerthu gan werthwyr trydydd parti. Mae'r effeithiau hyn wedi cael eu dosbarthu fel manteision anuniongyrchol ac nid oes gwerth ariannol wedi'i bennu iddynt ar hyn o bryd.

***Lefel ddisgwyliedig yr effaith ar fusnes***

7.18 Mae'r tabl isod yn dangos yr effeithiau disgwyliedig ar fusnesau mewn cysylltiad ag opsiwn 3, o'i gymharu â'r opsiwn sylfaenol (opsiwn 1 – gwneud dim).

| Effeithiau disgwyliedig Opsiwn 3 o'i gymharu â'r opsiwn sylfaenol (Opsiwn 1 – Gwneud Dim). | | |
|---|---|---|
| **Cost i werthwyr trydydd parti** | Ni fyddent yn gallu parhau i werthu cŵn a chathod bach heb eu bridio, felly byddent yn colli'r elw maent yn ei gael drwy werthiannau trydydd parti ar hyn o bryd | Cost flynyddol rhwng £2.0m a £3.6m. (effaith uniongyrchol) |
| **Cost i fridwyr** | Mae'n bosibl y bydd rhai bridwyr yn gadael y farchnad os nad ydynt yn gallu parhau i werthu i drydydd parti. | Cost flynyddol rhwng £75,000 a £130,000. (effaith uniongyrchol) |
| **Mantais i fridwyr** | Drwy werthu'r anifeiliaid yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, mae disgwyl i fridwyr gael refeniw uwch (oherwydd ni fyddant yn rhannu'r elw â thrydydd partïon mwyach). | Mantais flynyddol rhwng £1.4m a £2.6m (effaith uniongyrchol) |
| **Mantais i fridwyr** | Mae'n bosibl y bydd rhai bridwyr yn cymryd cyfran marchnad bridwyr eraill sy'n gadael y farchnad, yn ogystal â'r gyfran marchnad a oedd arfer cael ei dal gan anifeiliaid wedi'u mewnforio a oedd yn cael eu gwerthu gan werthwyr trydydd parti. | Mantais flynyddol heb ei mesur (effaith anuniongyrchol) |

7.19 Mae cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch maint yr effeithiau hyn. Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon. I fesur yr effeithiau hyn rydym wedi defnyddio tystiolaeth gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan DEFRA drwy Gais am Dystiolaeth – i geisio asesu hyd a lled y fasnach ar hyn o bryd, maint yr effeithiau a nifer y busnesau yr effeithir arnynt, ond mae llawer o fylchau yn y dystiolaeth, yn enwedig ar gyfer cathod bach.

7.20 Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr RSPCA mewn ymateb i Gais DEFRA am Dystiolaeth yn amcangyfrif bod rhwng 40,000 ac 80,000 o

gŵn bach wedi cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti ym Mhrydain bob blwyddyn (cyn y gwaharddiad yn Lloegr).

7.21 I ddosrannu'r ffigurau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r data rhanbarthol diweddaraf a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwydydd Anifeiliaid Anwes y DU (UK PFMA)[10] sy'n dangos bod tua 7.4% o boblogaeth cŵn Prydain yn byw yng Nghymru. Yn seiliedig ar hynny, rydym yn amcangyfrif bod rhwng 3,000 a 6,000 o gŵn bach yn cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r amcangyfrif o nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn yn cael effaith sylweddol ar hyd a lled effaith y Rheoliadau ar werthwyr a bridwyr. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer y gwerthiannau trydydd parti, rydym wedi cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd sy'n edrych ar effaith newid y newidyn hwn. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd ar dudalen 17.

7.22 Mae data gan UK PFMA[11] yn dangos bod tua 596,000 o gathod yn byw yng Nghymru yn 2018. Gan bennu mai cyfartaledd oes cath yw tua 14 mlynedd a thybio bod y boblogaeth cathod yn aros yn eithaf sefydlog, mae hyn yn awgrymu y bydd 42,500 o gathod bach yn cael eu gwerthu yng Nghymru bob blwyddyn. Credir bod cyfran y cathod bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yn is nag y mae ar gyfer cŵn bach. Heb dystiolaeth gadarn, rydym wedi tybio bod 3% o gathod bach, neu tua 1,300, yn cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti bob blwyddyn.

7.23 Mae'r adrannau canlynol yn nodi sut mae'r amcangyfrifon o'r costau wedi cael eu cyfrifo.

***Cost i werthwyr trydydd parti yng Nghymru (gweler y Dadansoddiad o Sensitifrwydd yn 7.40 hefyd)***

7.24 Bydd cost i werthwyr trydydd parti oherwydd mae'r gwaharddiad yn golygu y byddant yn colli'r elw o werthiant unrhyw gŵn neu gathod bach nad ydynt wedi'u bridio.

7.25 Mae gwerth ci bach wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2020. Mae'r cyfyngiadau symud a gyflwynwyd ar draws y DU i helpu i fynd i'r afael â'r coronafeirws wedi creu cynnydd mawr yn y galw. Mae data o wefan Pets4homes yn awgrymu mai £1,875 oedd pris cyfartalog ci bach yn 2020. Mae hyn yn fwy na dwbl y pris a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2019 (£810).

7.26 Nid yw'n glir a fydd y prisiau uwch yn parhau. Mae brechlynnau Covid-19 yn cael eu cyflwyno bellach a'r gobaith yw na fydd angen yn y dyfodol am gyfyngiadau symud cenedlaethol fel y gwelwyd yn 2020 ac

**10** https://www.pfma.org.uk/dog-population-2018
**11** https://www.pfma.org.uk/cat-population-2018

ar ddechrau'r flwyddyn hon. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd y galw am gŵn bach a'u pris yn dychwelyd i'r lefelau cyn y cyfyngiadau symud (caiff hyn ei ystyried ymhellach yn y dadansoddiad o sensitifrwydd). Felly, mae'r cyfrifiadau canlynol yn sail ar gost gyfartalog ci bach yn 2019, sef £810. Mae defnyddio'r gwerth cyfartalog hwn ar gyfer yr amcangyfrif o nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn yn rhoi amrediad o'r refeniw blynyddol, sef rhwng £2.4m a £4.8m.

7.27 Fel y nodir uchod, rydym yn amcangyfrif bod tua 1,300 o gathod bach yn cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti yng Nghymru bob blwyddyn. Ar sail gwefan Pets4homes, rydym wedi tybio mai £480 yw pris cyfartalog cath fach. Felly, amcangyfrifir mai £0.6m yw'r refeniw a gynhyrchir drwy werthiant cathod bach gan drydydd partïon yng Nghymru bob blwyddyn.

7.28 At ei gilydd, amcangyfrifir bod y refeniw blynyddol a gynhyrchir drwy werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon yng Nghymru rhwng £3.0m a £5.4m.

7.29 I amcangyfrif cost y gwaharddiad i werthwyr trydydd parti, mae'n rhaid inni ddeall sut mae'r refeniw o werthiannau trydydd parti yn cael ei rannu rhwng y gwerthwyr a'r bridwyr, a hefyd y costau sy'n cael eu talu gan werthwyr trydydd parti cyn gwerthu. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth ar rannu refeniw rhwng gwerthwyr a bridwyr.

7.30 Mae adroddiad Canine Action 2016[12] yn datgan bod bridwyr yng Nghymru a ymatebodd i ymgynghoriad trwyddedu Cymru yn 2011 wedi dweud bod tua 60% o werth gwerthiant yn mynd i werthwyr trydydd parti. Roedd adroddiad gan Lywodraeth yr Alban yn 2017[13] yn cynnwys astudiaeth achos a oedd yn dangos bod gwerthwyr trydydd parti yn y DU a oedd yn gwerthu cŵn bach wedi'u mewnforio o Iwerddon yn cael tua 86% o refeniw'r gwerthiant. Mae defnyddio cyfartaledd y ddau adroddiad hyn yn golygu mai 73% yw'r amcangyfrif canolog o gyfran gwerthwyr trydydd parti o'r refeniw. Heb unrhyw dystiolaeth amgen, tybir yr un rhaniad refeniw ar gyfer gwerthiant cathod bach gan drydydd partïon.

7.31 Yn seiliedig ar hyn, amcangyfrifir bod cyfran y gwerthwr o refeniw gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon rhwng £2.2m a £4.0m y flwyddyn.

7.32 Byddai disgwyl i werthwyr trydydd parti dalu rhywfaint o gostau yn y cyfnod rhwng cael cŵn a chathod bach gan eu bridiwr a'r pwynt gwerthu (er enghraifft ar gyfer bwyd a llety). Yr amcangyfrif o'r costau hyn yw £50 fesul ci bach a £35 fesul cath fath. Gan ystyried y costau hyn, yr

**12** https://cariadcampaign.files.wordpress.com/2016/05/licensed-third-party-puppy-vending-in-gb-20164.pdf
**13** http://www.gov.scot/Publications/2017/11/1736/347297

amcangyfrif o'r elw y bydd gwerthwyr trydydd parti yn ei golli o ganlyniad i'r gwaharddiad yw rhwng £2.0m a £3.6m y flwyddyn.

### *Cost i fridwyr*

7.33 Ni fydd gwaharddiad ar werthiant trydydd parti o reidrwydd yn gorfodi bridwyr sy'n gwerthu drwy drydydd parti ar hyn o bryd allan o fusnes. Mae disgwyl i gyfran uchel o'r bridwyr hyn ddewis parhau i fridio a gwerthu'r cŵn bach a/neu'r cathod bach i ddefnyddwyr yn uniongyrchol. Fodd bynnag, am amrywiaeth o resymau (fel materion yn ymwneud â lleoliad neu ddiogelwch), ni fydd hyn yn opsiwn i'r holl fridwyr. Roedd adroddiad Canine Action 2016 yn ystyried a fyddai lleoliad gwledig yng Nghymru yn rhwystr i werthu uniongyrchol, a chanfu fod 89% o fridwyr a oedd yn gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti wedi'u lleoli mewn ardaloedd post lle dylai hi fod yn bosibl gwerthu'n uniongyrchol. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar fridwyr mewn un ardal wledig yng Nghymru ac nid yw'n ystyried ffactorau ar wahân i leoliad (ee diogelwch). At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi tybio y bydd 20% o fridwyr sy'n gwerthu drwy drydydd parti ar hyn o bryd yn gorfod gadael y farchnad os cyflwynir gwaharddiad. Mae'r dybiaeth hon yn cael ei hystyried ymhellach yn y dadansoddiad o sensitifrwydd.

7.34 Roeddem yn amcangyfrif uchod bod 73% o refeniw gwerthiant cŵn a chathod bach drwy drydydd partïon yn mynd i'r gwerthwr, gan adael 27% o'r refeniw i'r bridwyr. Fodd bynnag, ni fydd yr holl gŵn a chathod bach sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru drwy werthwr trydydd parti wedi cael eu bridio yng Nghymru, na'r DU hyd yn oed. Mae effaith gwaharddiad ar fridwyr o dramor y tu allan i gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ac felly mae angen addasu'r ffigurau refeniw i adlewyrchu hyn. Canfu adroddiad Canine Action 2016[14] fod tua 12% o siopau anifeiliaid anwes yn mewnforio cŵn bach o dramor. Roedd adroddiadau yn ystod cyfyngiadau symud 2020 o gynnydd yn nifer y cŵn bach sy'n cael eu mewnforio i'r DU ond heb dystiolaeth gadarn o hyn, mae'r ffigur 12% wedi cael ei ddefnyddio. Credir bod nifer y cathod bach sy'n cael eu mewnforio i'r DU i'w gwerthu yn sylweddol is, felly mae ffigur o 2% wedi cael ei ddefnyddio. Felly, amcangyfrifir mai rhwng £0.7m a £1.3m yw refeniw bridwyr yn y DU o werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon.

7.35 Gan dybio y bydd 20% o fridwyr yn y DU yn gadael y farchnad ac yn colli refeniw o ganlyniad i'r gwaharddiad, rydym yn amcangyfrif colled o rhwng £145,000 a £260,000 mewn refeniw gwerthiant i fridwyr yn y DU. I gyfrifo'r golled mewn elw, mae angen inni ystyried y costau mae'r bridwyr yn eu talu. Heb dystiolaeth amgen, tybir bod elw bridwyr yn 50% o'r refeniw maent yn ei gael drwy werthiannau trydydd parti. Yn seiliedig ar hyn, amcangyfrifir mai rhwng £75,000 a £130,000 yw cost

**14** https://cariadcampaign.files.wordpress.com/2016/05/licensed-third-party-puppy-vending-in-gb-20164.pdf

(colled mewn elw) gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti i fridwyr yn y DU. O ystyried bod nifer uchel o fridwyr cŵn bach y DU wedi'u lleoli yng Nghymru, bydd llawer o'r gost hon yn berthnasol i fusnesau yng Nghymru.

7.36 Mae'n anodd gwneud tybiaethau ynghylch pa mor debygol yw hi y bydd bridwyr yng Nghymru yn lleihau eu stoc bridio neu'n rhoi'r gorau i fasnachu'n gyfan gwbl o ganlyniad i waharddiad ar werthiannau trydydd parti. Nid oes ffigurau cyfredol ar sawl ci bach sy'n cael eu gwerthu drwy drydydd parti gan fridwyr yng Nghymru. Mae'n bosibl y byddai'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn Lloegr wedi darparu rhywfaint o wybodaeth am yr effaith ar fridwyr yng Nghymru oni bai am amseriad pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud canlyniadol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan fridwyr hawl i ddanfon cŵn bach i brynwyr, gan gael gwared ar y posibilrwydd o ddilyn y cyngor sy'n cael ei argymell, sef mynd i weld y ci bach gyda'i fam. O ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn y galw am gŵn bach yn ystod y cyfnod hwn, a'r prisiau uwch yr oedd pobl yn fodlon eu talu amdanynt, mae'n annhebygol y byddai bridwyr mawr wedi dewis gadael y farchnad oherwydd bod eu llwybr blaenorol i'r farchnad wedi cau.

### *Manteision i fridwyr*

7.37 Er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ar pam mae bridwyr yn dewis gwerthu drwy werthwyr trydydd parti, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o fridwyr yn parhau i weithredu a gwerthu eu cŵn a'u cathod bach yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, a hynny am bris uwch o bosibl o'i gymharu â'u gwerthu drwy werthwr trydydd parti. Er y byddai disgwyl i'r bridiwr orfod talu rhywfaint o gostau ychwanegol drwy werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr (o gymharu â gwerthu drwy drydydd parti) fel hysbysebu bod yr anifeiliaid ar werth a chostau bwydo ychwanegol, byddai disgwyl i'r pris gwerthu uwch dalu am y costau hyn. Felly, byddai mantais bosibl i fridwyr.

7.38 Rhagwelir y gallai'r elw sy'n mynd i drydydd partïon ar hyn o bryd fynd i fridwyr yn lle, pe baent yn dewis aros yn y farchnad. Amcangyfrifir mai rhwng £2.0m a £3.6m yw elw blynyddol gwerthwyr trydydd parti yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae addasu hyn i adlewyrchu'r ffaith fod rhai cŵn a chathod bach yn cael eu mewnforio ar hyn o bryd, a'r dybiaeth y byddai 20% o fridwyr yn gadael y farchnad, yn awgrymu mantais bosibl o rhwng £1.4m a £2.6m i'r bridwyr yn y DU sy'n weddill. Eto, disgwylir i lawer o'r fantais hon fod yn berthnasol i Gymru.

### *Manteision anuniongyrchol i fridwyr*

7.39 Mae'n bosibl y bydd rhai bridwyr yn cymryd cyfran marchnad bridwyr eraill sy'n gadael y farchnad, yn ogystal â'r gyfran marchnad a oedd arfer cael ei dal gan anifeiliaid wedi'u mewnforio a oedd yn cael eu gwerthu gan werthwyr trydydd parti. Mae'r manteision hyn wedi cael eu

dosbarthu fel rhai anuniongyrchol ac nid oes gwerth ariannol wedi'i bennu iddynt eto.

***Dadansoddiad o sensitifrwydd a gynhaliwyd gan Economegydd Llywodraeth Cymru***

7.40 Mae nifer o feysydd o ansicrwydd yn y dadansoddiad uchod sydd wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud tybiaethau eithaf eang er mwyn amcangyfrif effaith gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach ar werthwyr ac ar fridwyr. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd canlynol yn edrych ar effaith newid rhai o'r tybiaethau allweddol ar brif ganlyniadau'r dadansoddiad. Ym mhob achos, dim ond un dybiaeth sy'n cael ei newid ar y tro. Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd yn canolbwyntio ar y tybiaethau ynghylch gwerthiant cŵn bach gan drydydd partïon, gan fod y rhain yn cael mwy o effaith ar y canlyniadau na'r tybiaethau ynghylch gwerthu cathod bach.

***Nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy drydydd parti yng Nghymru***

7.41 Mae'r cyfrifiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar adroddiad gan yr RSPCA sy'n awgrymu bod rhwng 40,000 ac 80,000 o gŵn bach wedi cael eu gwerthu drwy werthwr trydydd parti bob blwyddyn ym Mhrydain, cyn cyflwyno'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn Lloegr. Ceir amcangyfrif o'r gwerthiannau trydydd parti yng Nghymru drwy ddosrannu'r ffigur hwn ar gyfer Prydain yn ôl cyfran Cymru o'r boblogaeth cŵn, fel y ceir o'r data gan UK PFMA (7.4%).

7.42 Gwerthwyr trydydd parti masnachol yw'r rhai sy'n werthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig. Fodd bynnag, cymharol isel yw nifer y siopau anifeiliaid anwes yng Nghymru sydd wedi'u trwyddedu i werthu cŵn a chathod bach ac yn wahanol i Loegr (cyn y gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon), nid oes 'archfarchnadoedd' anifeiliaid anwes sy'n gwerthu cŵn a chathod bach yng Nghymru. Felly, ceir awgrym y byddai dosrannu'r amcangyfrif o werthiannau trydydd parti ym Mhrydain yn ôl maint y boblogaeth cŵn yn goramcangyfrif nifer y gwerthiannau trydydd parti yng Nghymru.

7.43 Pe baem yn tybio bod rhwng 2% a 5% o'r amcangyfrif o werthiannau cŵn bach gan drydydd partïon ym Mhrydain bob blwyddyn yn digwydd yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i rhwng 800 a 4,000 o gŵn bach yn cael eu gwerthu drwy'r llwybr hwn yng Nghymru bob blwyddyn. Byddai cynnwys y ffigurau hyn yn y dadansoddiad yn lleihau'r amcangyfrif o'r golled mewn elw i werthwyr trydydd parti yn dilyn gwaharddiad i rhwng £0.8m a £2.6m y flwyddyn. Yn yr un modd, yn ôl yr amcangyfrifon, byddai'r lleihad yn yr elw blynyddol i'r bridwyr hynny sy'n dewis gadael y farchnad yn disgyn i rhwng £30,000 a £95,000 a byddai'r cynnydd posibl mewn elw blynyddol i'r bridwyr hynny sy'n aros

ac yn gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid (yn lle defnyddio gwerthwr trydydd parti) yn disgyn i rhwng £0.6m ac £1.8m.

***Ymateb bridwyr yn dilyn gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti ar sail y DU***

7.44 Maes arall o ansicrwydd yn y dadansoddiad yw sut bydd bridwyr domestig yn ymateb i'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti. Yn y dadansoddiad, tybir (am resymau sy'n ymwneud â lleoliad a diogelwch, ac ati) y bydd 20% o fridwyr yn dewis rhoi'r gorau i fridio cŵn a chathod bach yn hytrach na gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid. Fodd bynnag, ceir awgrym bod hwn yn goramcangyfrif yr effaith debygol ac mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu nad oes unrhyw fridiwr yng Nghymru wedi rhoi'r gorau i weithredu yn dilyn y gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn Lloegr (ond, fel y nodir uchod, mae'n bosibl bod y pandemig a'r cyfyngiadau symud yn camlunio marchnadoedd ar hyn o bryd).

7.45 Gan ei bod yn flwyddyn ers dwyn Rheoliadau Lloegr ymlaen, pe bai canran y bridwyr y tybir y byddant yn gadael y farchnad yn cael ei leihau i 10%, mae'r amcangyfrif o'r lleihad mewn elw blynyddol i'r bridwyr hynny sy'n gadael y farchnad yn disgyn i rhwng £35,000 a £65,000. Yn yr un modd, mae'r cynnydd posibl mewn elw blynyddol i fridwyr yn y DU (os yw'r bridwyr sy'n weddill yn gallu cipio'r elw a wnaed yn flaenorol gan werthwyr trydydd parti) yn codi i rhwng £1.6m a £2.9m.

7.46 Pe na bai unrhyw fridwyr yn gadael y farchnad, byddai'r cynnydd posibl yn yr amcangyfrif o elw blynyddol bridwyr yn y DU yn codi i rhwng £1.8m a £3.2m. Mae'n dilyn, gan nad oes unrhyw fridwyr yn gadael y farchnad, sero yw'r lleihad yn elw bridwyr yn y senario hon.

***Pris cyfartalog ci bach***

7.47 Fel y nodir uchod, mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar bris cyfartalog ci bach yn 2019 (£810) yn hytrach na phris cyfartalog 2020 (£1,875). Y rheswm am hyn yw bod y pandemig a'r cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am gŵn bach yn 2020 a'u pris, ac nid ydym yn credu bod pris cyfartalog 2020 yn cynrychioli'r pris cyfartalog tebygol yn y dyfodol.

7.48 Fodd bynnag, pe baem yn tybio bod y prisiau uchel ar hyn o bryd yn parhau ac yn cynnwys £1,875 fel pris cyfartalog ci bach yn y cyfrifiadau, byddai'r amcangyfrif o'r golled mewn incwm i werthwyr trydydd parti yn dilyn gwaharddiad rhwng £4.3m ac £8.2m y flwyddyn. Byddai'r golled mewn elw i'r bridwyr hynny yn y DU sy'n gadael y farchnad (gan dybio bod 20%) yn gadael) rhwng £145,000 a £280,000 y flwyddyn. Yn ôl yr amcangyfrif, byddai'r cynnydd mewn elw blynyddol i'r bridwyr hynny yn y DU sy'n aros yn y farchnad rhwng £3.1m a £5.8m.

## Effeithiau ehangach

### *Effaith ar Lywodraeth Cymru*

7.49 Mae rhannau o'r cyhoedd yng Nghymru a nifer o sefydliadau trydydd sector wedi bod yn lobïo dros wahardd yr ymarfer hwn ac mae Llywodraeth Cymru, am nifer o flynyddoedd, wedi cael gohebiaeth reolaidd yn adlewyrchu hynny. Hyd yma, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymateb i 63 o lythyrau eleni, ac wedi darparu nifer o ddogfennau briffio ar gyfer Cwestiynau'r Cynulliad a Chwestiynau Ysgrifenedig. Roedd Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig bryd hynny, wedi ymgynghori ar wahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon a chyhoeddodd ei bwriad i edrych ar gyfleoedd i ddwyn deddfwriaeth ymlaen er mwyn gwahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon yng Nghymru ym mis Mehefin 2018, gan ymgynghori wedyn ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021 yn nes ymlaen y flwyddyn honno.

7.50 Mae ymateb i ohebiaeth yn gallu cymryd amser. Mae pob ymateb, ar gyfartaledd, yn cymryd hanner diwrnod o amser Swyddog Gweithredol neu Swyddog Gweithredol Uwch, ar gyfradd ddyddiol o £135 neu £175 yn y drefn honno. Gan dybio rhaniad 50/50 rhwng Swyddogion Gweithredol a Swyddogion Gweithredol Uwch, mae ymateb i ohebiaeth ar y pwnc hwn wedi costio rhwng £9,200 a £12,000 i Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae disgwyl i ohebiaeth ar y pwnc hwn leihau'n sylweddol os bydd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon yn cael ei wahardd. Ni ellir diystyru'r posibilrwydd o gynnydd yn yr ohebiaeth gan y rhai sy'n gwrthwynebu gwaharddiad, neu gan y rhai sy'n galw am ymestyn y gwaharddiad i rywogaethau eraill, ond nid yw'n debygol y byddai hynny i'r un graddau o bell ffordd. Felly mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyn yn anhysbys.

7.51 Bydd cost weithredu fach i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu canllawiau ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Mae disgwyl i'r gwaith o gynhyrchu canllawiau, ar sail amcangyfrif o 5,000 o eiriau, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben, gymryd tua phedair wythnos dros gyfnod o dri mis o amser Swyddog Gweithredol Uwch, a fydd yn costio £3,500. Bydd y canllawiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai'r gwaith cyfieithu a dylunio yn cymryd hyd at bythefnos. Byddai'r gwaith cyfieithu yn cymryd tua wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, a fydd yn costio £900. Byddai'r gwaith dylunio yn cymryd tua wythnos o amser Swyddog Gweithredol, a fydd yn costio £700. Byddai'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cael eu rhannu'n electronig ag awdurdodau lleol. Ni fyddai costau argraffu a dosbarthu. Byddai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau yn codi

yn 2020-21. Tua £5,100 fyddai cyfanswm y gost o gynhyrchu canllawiau.

7.52 Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r costau o gyfathrebu gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol hefyd. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw cyhoeddi'r newid i'r busnesau yr effeithir arnynt, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn gymryd dim mwy na'r hyn sydd gyfwerth ag wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch, a fydd yn costio £900.

### *Effaith ar y System Gyfiawnder*

7.53 Roedd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019 yn sefydlu gwerthu cŵn a chathod bach fel trosedd.

7.54 Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno cynllun trwyddedu newydd ac o ganlyniad yn darparu ffordd newydd o ddal pobl i gyfrif pan fyddant yn gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes yng Nghymru.

7.55 Nid yw'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer newid ym mhroses y Llys neu Dribiwnlysoedd, ond mae'n bosibl y bydd cynnydd bach iawn yn nifer y ceisiadau i'r Llys os bydd angen cymryd camau yn erbyn unigolion. Gan fod hwn yn gynllun trwyddedu newydd, nid yw'n bosibl pennu'r union effaith ar y system gyfiawnder ond rydym yn rhag-weld y bydd yn eithaf isel oherwydd ar hyn o bryd, dim ond 10 gwerthwr trydydd parti trwyddedig yng Nghymru sydd â hawl i werthu cŵn a chathod bach.

### *Effaith ar Awdurdodau Lleol*

7.56 Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau, fel y maent am orfodi Deddf Anifeiliaid Anwes 1951. O dan adran 30 o Ddeddf 2006, caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf.

7.57 Mae'n rhaid i werthwyr trydydd parti masnachol eisoes wneud cais am drwydded ac maent yn destun arolygiadau parhaus. Felly, nid oes disgwyl y bydd costau ychwanegol. Fodd bynnag, bydd gan awdurdodau lleol gyfle i ganiatáu ar gyfer costau disgwyliedig cofrestru, arolygu a gorfodi drwy godi ffi am gyhoeddi trwydded (rheoliad 14).

7.58 Ni chaiff y ffi a godir am ystyried cais am roi, adnewyddu neu amrywio trwydded, ac am unrhyw arolygiad sy'n ymwneud â'r ystyriaeth honno, fod yn fwy na chostau rhesymol yr ystyriaeth honno a'r arolygiad cysylltiedig.

7.59 Mae'r ffioedd trwydded ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol o ganlyniad i amgylchiadau unigol pob

awdurdod. Pe bai'r 10 o werthwyr trydydd parti sy'n bodoli eisoes yn rhoi'r gorau i fasnachu, byddai'r golled mewn incwm o ffioedd trwydded yn fach iawn.

***Manteision***

7.60 Ar hyn o bryd, mae gwerthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig yn gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol ac yn gyfreithlon: gall hyn fod yn siop anifeiliaid anwes traddodiadol, yn ddelwyr sy'n gweithredu fel y rhai yn y canol rhwng bridwyr, neu fridwyr sy'n gwerthu cŵn bach o doreidiau nad ydynt wedi'u bridio eu hunain. Ar hyn o bryd yng Nghymru, rhaid iddynt ddal trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

7.61 Mae pryderon y gall gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol fod yn gysylltiedig ag amodau lles gwaelach i'r anifeiliaid o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Er enghraifft, mae eu cyflwyno i nifer o amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, a'r tebygolrwydd uwch o orfod gwneud mwy nag un siwrnai, yn gallu cyfrannu at risg uwch o glefyd a diffyg cymdeithasoli a chynefino i'r cŵn a chathod bach.

7.62 Y Rheoliadau yw'r cam cyntaf tuag at sicrhau bod lles cŵn a chathod bach yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd yn cael eu bridio â'u gwerthu i drydydd partïon, yn cael ei wella'n sylweddol drwy ddim ond cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r perchennog newydd gan y bridiwr. Dylai'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwerthu anifeiliaid anwes adlewyrchu'r arferion gorau. Mae caniatáu i drydydd partïon masnachol werthu cŵn a chathod bach yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd y prynwyr yn gweld y ci neu'r gath fach yn rhyngweithio â'r fam neu'r brodyr a chwiorydd. Byddai'r gwaharddiad yn:

- Helpu prynwyr i wneud penderfyniadau prynu cyfrifol yn seiliedig ar weld y ci neu'r gath fach gyda'r fam a gweld o dan ba amodau y mae wedi'i fridio.
- Gwella lles cŵn a chathod bach a chŵn a chathod sy'n cael eu defnyddio i fridio a lleihau gwerthiant cŵn bach sydd heb eu bridio i'r safonau lles cydnabyddedig yng Nghymru.
- Annog sefydliadau trwyddedig bridio cŵn i wella lles drwy sicrhau tryloywder, atebolrwydd a thâl priodol i fridwyr.
- Cysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ranbarth.
- Darparu mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn y dyfodol a fydd yn cysoni'r broses drwyddedu'n agosach â'r Gweinyddiaethau eraill.
- Darparu cyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.

7.63 Mae'r cynnig i wahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach wedi cael ei groesawu a'i gefnogi'n dda gan y cyhoedd a sefydliadau iechyd a lles anifeiliaid.

7.64 Roedd ymgyrch Lucy's Law yn Lloegr yn galw am waharddiad ar unwaith ar werthiant cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a delwyr trydydd parti masnachol eraill. Roedd Lucy yn Sbaengi Siarl ac yn ast bridio mewn cyflwr gwael iawn. Cafodd Lucy ei hachub a'i mabwysiadu yn 2013 a daeth yn fasgot ar gyfer ymgyrch yn erbyn ffermydd cŵn bach. Bu farw Lucy ym mis Rhagfyr 2016 a chafodd Cyfraith Lucy ei henwi er anrhydedd iddi.

7.65 Cafodd y ddeiseb a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch dros 100,000 o lofnodion a chafodd ei thrafod yn Senedd y DU ar 21 Mai 2018. Roedd yn galw am waharddiad ar unwaith ar werthiant cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a gwerthwyr trydydd parti masnachol eraill. Daeth y gwaharddiad i rym ar 6 Ebrill 2020.

7.66 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ledled y DU ymrwymo i egwyddorion Lucy's Law a chafwyd cefnogaeth eang gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

7.67 Mae ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn 2019 a 2020 wedi dangos cefnogaeth eang i'r gwaharddiad. Fodd bynnag, ystyrir hyn fel dim ond y cam cyntaf angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod a chŵn a chathod bach. Bydd y cyfuniad o reoliadau newydd ar werthu anifeiliaid anwes a phrosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi; rhagor o hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol i wella'r gwaith o orfodi a chyflawni'r Rheoliadau Bridio cyfredol yn arwain at welliannau parhaus i safonau lles cŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru.

7.68 Bydd dal croeso i siopau anifeiliaid anwes yng Nghymru, ar yr amod nad ydynt yn gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti. Ar ôl cyfnod pontio, dylai'r 10 siop anifeiliaid anwes y mae'r gwaharddiad hwn yn effeithio arnynt allu parhau i fasnachu'n llwyddiannus. Mae'r nifer fach a gostyngol o siopau anifeiliaid anwes sy'n dal trwyddedau yn caniatáu iddynt werthu cŵn a chathod bach yn awgrymu nad yw eu presenoldeb yn ffactor pwysig o ran penderfynu pa mor boblogaidd yw'r galw am gŵn a chathod bach ymysg bridwyr.

7.69 Yn amlwg, bydd gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach yn effeithio ar fodel gweithredu bridwyr, er y byddai amharu ar y model hwn yn ddymunol. Ar gyfer sefydliadau mawr sy'n fwy masnachol, gall y gwaharddiad effeithio ar ba mor gyflym gallant werthu eu cŵn bach. Er y gall gwerthwr trydydd parti gasglu torllwythi o gŵn bach i'w hail-werthu, bydd mwyafrif helaeth o'r cyhoedd sy'n prynu cŵn bach ond yn prynu un ar y tro. Mae hyn yn debygol o arwain at ddeiliad y drwydded (staff) yn gorfod treulio mwy o amser yn gwerthu

cŵn bach, a gall hyn leihau'r amser sydd ganddynt i ofalu am y cŵn a'r cŵn bach eraill yn y sefydliad. Os bydd gwaharddiad yn dod i rym, bydd cyfnod pontio yn cael ei ddarparu i ddeiliaid trwyddedau addasu eu gweithdrefnau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hyn, ar y cyd â'u hawdurdod trwyddedu.

7.70 Mae'r ffordd rydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau bridio cŵn a chathod bach, eu tynnu oddi wrth eu mam yn ifanc a'u cadw mewn amodau gwael. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahardd gwerthiannau gan drydydd partïon masnachol yn awgrymu bod cefnogaeth lethol ar gyfer gwaharddiad. Bydd gwaharddiad yn helpu i annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau plant a phobl ifanc at bob rhywogaeth. Bydd hefyd yn helpu i wella syniadau pobl am siopau anifeiliaid anwes a sut mae cŵn a chathod bach yn cael eu bridio.

7.71 Bydd angen i fridwyr sydd ar hyn o bryd yn gwerthu cŵn bach drwy drydydd partïon wella 'llawr eu siop', gan y bydd rhywun sy'n chwilio am eu hanifail anwes nesaf yn poeni mwy am safonau sefydliad y bridiwr a sut mae'n cael ei gynnal a'i chadw o'i gymharu â gwerthwyr trydydd parti.

7.72 Fodd bynnag, gan fod y cwestiwn ar gyfer bridwyr trwyddedig yn unig, mae'n rhaid i ni gymryd yn ganiataol na ddylai'r bridwyr hyn orfod poeni am y cyhoedd yn prynu'r cŵn bach yn uniongyrchol o'u sefydliadau. Rydym yn gwybod y bydd y cyhoedd sy'n prynu cŵn bach yn teithio cryn bellter i'w prynu. Felly, ni fydd bridiwr sydd ag enw da yn cael trafferth gwerthu ei gŵn bach yn uniongyrchol o'i sefydliad bridio. Bydd y gostyngiad yn nifer y cŵn bach sy'n cael eu gwerthu yn cael ei wrthbwyso gan y cynnydd mewn prisiau gwerthu, gan fod gwerthwr trydydd parti yn cael rhan fawr o bris gwerthu'r ci bach yn y pen draw er mwyn talu ei gostau a chynhyrchu ei refeniw ei hun.

7.73 Bydd cŵn bach sy'n cael eu magu'n iawn yn ystod yr wythnosau cynnar yn llawer iawn fwy tebygol o dyfu i fod yn gŵn hyderus a digynnwrf sy'n fwy agored i ddysgu pethau newydd a byddant yn llai tebygol o ymateb yn ofnus neu'n ymosodol i bethau newydd - yn fyr, maent yn fwy tebygol o fod yn gŵn teulu da.

7.74 Mae cyfnod cymdeithasoli cŵn bach, sy'n para nes eu bod yn 12 wythnos oed, yn hanfodol gan eu bod yn dysgu'n gyflym yn ystod y cyfnod hwn. Yn anffodus, os na fydd ci bach yn dod i gysylltiad â digon o brofiadau, pobl, anifeiliaid eraill a synau yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn gi ofnus am byth a gallai arwain at broblemau ymosod.

7.75 Dylai cathod bach ddechrau cymdeithasu pan maent rhwng 3 a 4 wythnos oed. Mae cathod bach yn datblygu orau pan fyddant wedi dysgu popeth erbyn 9 wythnos oed, mae'n well dysgu pethau iddynt yn gynnar. Yn ddelfrydol, profiadau cadarnhaol sydd ddim yn fygythiol

gyda nifer o anifeiliaid o'r un rhywogaeth a rhywogaethau eraill, pobl, sbardunau a phrofiadau bywyd cyffredin i anifeiliaid anwes, fel cael eu gafael a theithio. Dylid parhau i atgyfnerthu rhyngweithio cymdeithasol drwy gydol bywyd yr anifail yn ôl yr angen er mwyn cefnogi natur dda a hyrwyddo llesiant yr anifail.

7.76 Mae cŵn bach sy'n cael eu gwerthu drwy werthwyr trydydd parti masnachol yn agored i nifer o ddigwyddiadau heriol sy'n achosi straen iddynt yn ystod cyfnodau sy'n allweddol i'w datblygiad ac mae hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar eu hymddygiad, eu hiechyd a'u lles. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys:

- Y posibilrwydd o wahanu cŵn bach oddi wrth eu mamau a'u cydanedigion yn gynnar neu'n gyflym cyn iddynt droi'n 7-8 wythnos oed. Mae hyn yn tarfu ar y broses naturiol o ddiddyfnu ac mae'n gallu achosi straen gronig neu straen ddifrifol.
- Y tebygolrwydd o sawl siwrnai, yn enwedig i'r cŵn bach hynny sy'n cael eu mewnforio o Iwerddon a'r Cyfandir ee o'r bridiwr i'r man gwerthu i'r prynwr neu o'r bridiwr i'r deliwr i'r man gwerthu i'r prynwr. Mae astudiaethau sydd wedi mesur sut mae teithio'n effeithio ar les cŵn wedi dangos ei fod yn achosi straen ac mae nifer o ffactorau'n debygol o gyfrannu at y straen hwn, gan gynnwys sut maent yn cael eu trin, mewn beth maent yn teithio, awyru a thymheredd, dull gyrru, a oes ganddynt fynediad at fwyd a dŵr a chyfleoedd i wneud ymarfer corff.
- Cael eu cyflwyno i bobl ac amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, gan gynnwys cerbydau, llety'r deliwr mewn rhai achosion, y man gwerthu a chartref y prynwr a fydd yn debygol o arwain at ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ofn.
- Gall cyflwyno a chymysgu anifeiliaid ifanc ac anghyfarwydd beri risg o glefyd, yn arbennig yn adeiladau gwerthwyr sy'n bridio'u cŵn eu hunain hefyd. Gan fod rhai cŵn bach yn cael eu gwahanu oddi wrth eu mam a'u cydanedigion cyn 7 i 8 wythnos ac fel arfer yn cael eu brechu yn wyth ac yn ddeg wythnos oed, mae'n debygol iawn na fyddant wedi'u diogelu rhag clefydau gan gynnwys parfofeirws y cŵn a chlefyd y cŵn.

7.77 Mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod anifeiliaid anwes yn gwneud ffrindiau da i blant o bob oed, yn enwedig helpu i leihau problemau iechyd meddwl a gorbryder. Er enghraifft, yn 2019, cafodd Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf[15], Caerdydd labradôr bach du yn barhaol ar gyfer yr ysgol. Mae'r 'ci llesiant' yn lleihau gorbryder y plant ac yn helpu 'plant gyda'u hiechyd meddwl'. Mae tystiolaeth i awgrymu bod plant ag anableddau, gan gynnwys plant awtistig, yn wirioneddol mwynhau anwesu anifeiliaid. Mae anifeiliaid anwes yn gallu cynnig therapi a chymorth bob dydd hefyd.

15 https://www.itv.com/news/wales/2019-07-15/meet-georgie-the-therapy-dog-whos-delighting-pupils-at-a-welsh-high-school

7.78 Mae prif gasgliadau'r ymchwil a gynhaliwyd gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol[16] yn awgrymu bod y teulu cyfan, nid dim ond y plentyn awtistig, yn elwa o gael ci yn eu tŷ. Yn aml, mae'n gallu lleihau straen, annog cymdeithasu a chreu arferion iach, fel mynd allan am dro ddwywaith y dydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod diffyg ymchwil wyddonol i'r maes yma ac mae llawer o'r canfyddiadau'n seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd.

7.79 Yn 2010, 'derbyniodd Dogs for the Disabled grant ymchwil gan y Gronfa Loteri Fawr i ymchwilio i sut yn union gall cŵn anwes helpu a gwella llesiant a datblygiad' plant awtistig a'u teuluoedd.

Canfu'r astudiaeth fod cŵn anwes yn gallu gwneud y canlynol:

- cael effaith ddofn ar lesiant y teulu cyfan,
- gwella'r berthynas rhwng rhieni a phlant,
- lleihau lefelau straen rhieni,
- gwella ymddygiad plant,
- galluogi plant i gadw at drefn yn annibynnol,
- Rhoi mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb i'r plentyn.

7.80 Yn eu papur ymchwil '*What Factors Are Associated with Positive Effects of Dog Ownership in Families with Children with ASD?'* (2016)[17], mae Sophie Susannah Hall, Hannah F Wright, a Daniel Simon Mills yn edrych ar fanteision cyflwyno plant awtistig i amgylchedd lle mae ci'n bresennol.

7.81 Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw gi bach sy'n cael ei brynu am unrhyw un o'r rhesymau hyn yn cael ei ddysgu i gymdeithasu yn yr amgylchedd cywir. Bydd cŵn bach sy'n cael eu magu'n iawn yn ystod yr wythnosau cynnar yn llawer iawn fwy tebygol o dyfu i fod yn gŵn hyderus a digynnwrf sy'n fwy agored i ddysgu pethau newydd a byddant yn llai tebygol o ymateb yn ofnus neu'n ymosodol i bethau newydd - yn fyr, maent yn fwy tebygol o fod yn gŵn teulu da.

7.82 Mae bod yn berchennog cyfrifol ar gi yn cynnwys sicrhau eich bod yn mynd a'r ci am dro bob dydd. Fodd bynnag, mae llawer o fanteision i berchennog fel gwell ffitrwydd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed is, cyhyrau ac esgyrn cryfach (drwy gerdded yn rheolaidd), a llai o straen. Felly, mae'n hanfodol bod y ci bach yn cymdeithasu'n briodol pan fydd yn ifanc. Drwy gymdeithasu, mae eich ci'n dysgu sut mae ymateb i'r byd o'i gwmpas mewn ffordd iach, heb ofn neu ymddygiad ymosodol diangen.

7.83 Ar 30 Medi 2019, darlledodd BBC Cymru Wales raglen o'r enw *BBC Investigates: Inside the UKs Puppy Farm Capital.* Roedd y rhaglen gan y BBC yn edrych yn bennaf ar ymddygiad bridwyr cŵn trwyddedig o

**16** https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/strategies-and-interventions/strategies-and-interventions
**17** https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0149736

dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Roedd gan y BBC bum enghraifft o fridwyr trwyddedig a oedd yn cadw cŵn mewn amodau cwbl annerbyniol er bod milfeddygon annibynnol wedi dweud hyn wrthynt.

7.84 Bydd cyflwyno gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yn helpu i ailadeiladu enw da Cymru o ran bridio cŵn. Barn sy'n cael ei hategu mewn ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.

7.85 Gall gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach effeithio ar lochesi ailgartrefu. Gyda llai o anifeiliaid ar gael gan ffynonellau eraill, gallai hyn annog pobl i brynu gan loches anifeiliaid yn lle. Dylai llochesi ailgartrefu hefyd weld gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu gadael oherwydd problemau iechyd neu oherwydd bod pobl wedi'u prynu'n fyrbwyll. Mae cŵn bach nad yw pobl eu heisiau'n cael eu rhoi i lochesi ar draws y DU yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol ar ôl y Nadolig ac mae cŵn/cathod sy'n cael eu bridio'n benodol ar gyfer y Nadolig yn cael eu gadael mewn llochesi. Mae gormod o gŵn a chathod bach yn cael eu cynhyrchu yn y DU yn ystod y flwyddyn.

## 8. Ymgynghori

8.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar Wahardd Trydydd Partïon rhag Gwerthu Cŵn a Chathod Bach am ddeuddeg wythnos, rhwng 19 Chwefror 2019 ac 17 Mai 2019. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, mewn cylchlythyrau ac ar sawl platfform cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar dystiolaeth ynghylch pryd y dylai'r llywodraeth ymweld â safleoedd sy'n bridio ar raddfa fawr a mynd i'r afael â phryderon am les anifeiliaid Cafwyd 458 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

8.2 Aeth swyddogion i ddigwyddiad *Big Walkies* RSPCA Cymru ar 18 Mai 2019 ac i Sioe Arddwriaethol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2019 i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch perchnogaeth gyfrifol a phrynu anifeiliaid anwes. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i'r swyddogion ddefnyddio holiadur i gasglu data gan blant a phobl ifanc. Nid oedd y cwestiynau wedi'u llunio'n benodol i gasglu barn am y gwaharddiad ond yn ôl yr wybodaeth a gafodd ei chasglu, mae diffyg addysg am gyflyrau a lles anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu gan drydydd partïon masnachol.

8.3 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus olaf a gynhaliwyd dros wyth wythnos am y drafft yn gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach ar 22 Mehefin 2020. Gofynnwyd naw cwestiwn i'r ymatebwyr am y polisi cyffredinol, yr effeithiau economaidd, darpariaethau'r Rheoliadau a'r effeithiau ar y Gymraeg. Cafwyd 226 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan

y cyhoedd, sefydliadau'r trydydd sector, Cymdeithas Milfeddygon Prydain a chyrff gorfodi.

8.4 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Phlant yng Nghymru drwy ei gynllun Young Wales i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yn gofyn iddynt am eu barn ar wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach.

8.5 Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bedwar prif gwestiwn gyda'r nod o glywed llais ac argymhellion plant a phobl ifanc i lywio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd; sy'n rhan o'n hagenda cyfranogiad plant a phobl ifanc.

8.6 Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, cynhaliodd Young Wales ymgynghoriad ar-lein i geisio cael barn plant a phobl ifanc am wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a chathod bach. Cafodd Young Wales 59 o ymatebion gan blant a phobl ifanc ledled Cymru, gydag oedrannau'n amrywio o dan 10 i 21 oed. Roedd 96% o'r ymatebwyr yn cytuno â gwaharddiad, roedd 2% yn anghytuno ac roedd 2% yn annsicr.

8.7 Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi a chyhoeddwyd crynodeb ohonynt ar 5 Hydref 2020 https://gov.wales/ban-commercial-third-party-sales-puppies-and-kittens-young-peoples-consultation

8.8 Ar ôl adolygu a dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad yn llawn, ystyriodd Llywodraeth Cymru'r holl dystiolaeth a gasglwyd gan y cyhoedd a sefydliadau lles anifeiliaid a gwnaethant gadarnhau y byddai gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y Senedd.

8.9 Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru (yn 2019 a 2020) wedi dangos cefnogaeth eang i'r gwaharddiad. Cofnodwyd nifer fach o sylwadau negyddol o'n hymgynghoriad terfynol eleni gan aelodau o'r cyhoedd yn bennaf. Roeddent yn teimlo fod y Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 cyfredol yn ddigon cynhwysfawr i berchnogion siopau anifeiliaid anwes gadw anifeiliaid mewn amodau priodol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y cynnig i wahardd gwerthiannau trydydd parti ond yn cael ei ystyried fel un o'r camau sy'n angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod ar safleoedd bridio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â rhwystrau i orfodi; gwell hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol fel rhan o brosiect tair blynedd sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

## 9. Asesiad o’r Gystadleuaeth

9.1 Cynhaliwyd Asesiad o’r Gystadleuaeth i asesu effaith bosibl gwahardd gwerthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yng Nghymru. Ni ddisgwylir i’r polisi hwn gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth yn y diwydiant bridio. Nid yw’r polisi’n gwahaniaethu rhwng bridwyr, mae’r un mor gymwys i bawb. Isod, mae canlyniadau prawf hidlo (sy’n cynnwys naw cwestiwn ✓ neu ✗) sy’n cefnogi’r casgliad hwn. Yna mae tystiolaeth i gefnogi’r atebion.

9.2 Tabl: Prawf hidlo ar gyfer cyflwyno gwaharddiad ar werthiant cŵn a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yng Nghymru.

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb ✓ neu ✗** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o’r farchnad? | ✗ |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% o’r farchnad? | ✗ |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd gyfran o leiaf 50% o’r farchnad? | ✗ |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio’n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | ✗ |
| **C5**: Ydy’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | ✗ |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | ✗ |
| **C7**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer darpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | ✗ |
| **C8**: Ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd amlwg yn y sector? | ✗ |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch? | ✗ |

9.3 Byddai cyfnod pontio er mwyn galluogi perchenogion siopau anifeiliaid anwes i ystyried gwahanol fodel gweithredol er mwyn lleddfu unrhyw effaith bosibl. Er nad yw’r ddeddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu i drydydd partïon werthu cŵn bach a chathod bach o dan 6 mis oed nid dyma’r sefyllfa os ydych wedi bridio’r anifail ar y safle. Bydd siopau anifeiliaid anwes hefyd yn cael eu caniatáu i werthu cŵn a cathod dros 6 mis oed.

9.4 Bydd costau glynu wrth y gwaharddiad yn effeithio ar y 10 gwerthwr trydydd parti masnachol trwyddedig sy'n gwerthu cŵn a chathod bach ar hyn o bryd, ond ni fydd yn effeithio ar y rheini sydd ddim yn gwerthu cŵn a chathod bach ar hyn o bryd, nac ymgeiswyr newydd. Efallai y bydd cynnydd mewn costau i siopau anifeiliaid anwes sy'n dewis addasu eu model busnes i fridio cŵn a chathod bach, yn y tymor byr o leiaf, ond bydd y graddau y bydd hyn yn effeithio arnynt yn dibynnu ar nifer o ffactorau ac efallai byddant yn arbed costau wrth beidio â phrynu drwy werthwr trydydd parti.

9.5 Bydd cymhellion cydymffurfio â'r gwaharddiad yn gwrthbwyso'r cymhellion dros beidio â chydymffurfio. Byddai'r sawl sy'n gwerthu cŵn neu gathod bach os nad ef/hi yw perchennog y fam yn cyflawni trosedd. Mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

9.6 Dechreuodd Blue Cross ei ymchwil ym mis Chwefror 2016 a llunio'r adroddiad: *Unpicking the Knots*. Mae'r adroddiad yn nodi bod prynu anifail anwes yn y DU fel loteri cod post ac mae lles miloedd o anifeiliaid anwes sy'n cael eu bridio a'u gwerthu mewn perygl. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod awdurdodau lleol sy'n brin o adnoddau'n cael trafferth ymdopi â gorfodi safonau lles ar siopau anifeiliaid anwes a bridwyr cŵn ac mae'r farchnad masnachu anifeiliaid anwes ar-lein heb drwydded sy'n parhau i dyfu yn gwneud hyn yn gwbl ddiarwybod, gyda bridwyr yn gwneud miloedd o bunnoedd tra'n rhoi anifeiliaid anwes mewn perygl.

9.7 Gall gwahardd trydydd partïon masnachol rhag gwerthu cŵn a chathod bach effeithio ar lochesi ailgartrefu. Gyda llai o anifeiliaid ar gael gan ffynonellau eraill, gallai hyn annog pobl i brynu gan loches anifeiliaid yn lle. Dylai llochesi ailgartrefu hefyd weld gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu gadael oherwydd problemau iechyd neu oherwydd bod pobl wedi'u prynu'n fyrbwyll. Mae cŵn bach nad yw pobl eu heisiau'n cael eu rhoi i lochesi ar draws y DU yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol ar ôl y Nadolig ac mae cŵn/cathod sy'n cael eu bridio'n benodol ar gyfer y Nadolig yn cael eu gadael mewn llochesi. Mae gormod o gŵn a chathod bach yn cael eu cynhyrchu yn y DU yn ystod y flwyddyn.

9.8 Roedd cyfiawnhad dros y gwaharddiad i gyflawni amcan y polisi yn amlwg o gefnogaeth ysgubol yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Byddai pobl yn gallu prynu cŵn a chathod bach yn ddiogel os byddant yn hyderus eu bod wedi cael eu magu'n iawn yn ystod yr wythnosau cynnar a bydd y cŵn a'r cathod bach hynny'n llawer iawn fwy tebygol o dyfu i fod yn hyderus a digynnwrf ac yn fwy agored i ddysgu pethau newydd a byddant yn llai tebygol o ymateb yn ofnus neu'n ymosodol i bethau newydd. Yn fyr, maent yn fwy tebygol o fod yn gŵn teulu da.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Mae'n bwysig nodi bod y cynnig i wahardd gwerthiannau trydydd parti ond yn cael ei ystyried fel un o'r camau sy'n angenrheidiol i wella lles cŵn a chathod bach ar safleoedd bridio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â rhwystrau i orfodi; gwell hyfforddiant; gwell canllawiau; a gwell defnydd o adnoddau mewn awdurdodau lleol fel rhan o brosiect tair blynedd sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

10.2 Byddai'n briodol ystyried adolygu'r ddeddfwriaeth ar ôl cwblhau Prosiect Gorfodi'r Awdurdod Lleol ar fridio cŵn. Bryd hynny, efallai y bydd yn briodol ystyried ymgorffori gweithgareddau trwyddedadwy eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid yn y Rheoliadau hyn. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i wneud y canlynol:

- Cysoni'r broses drwyddedu â Gweinyddiaethau eraill. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y Gweinyddiaethau lle bydd rhai bridwyr yn croesi'r ffin o bosibl i osgoi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ranbarth.
- Darparu cyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys, ymysg eraill, stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth.
- Darparu mecanwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 yn y dyfodol.

THE KENNEL CLUB

Dr Edward Hayes
Head of Public Affairs
The Kennel Club
Clarges Street
London
W1J 8AB

Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

9 March 2021

Dear Chair,

We are writing with regard to The Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (Wales) Regulations 2021. We are aware that the Regulations will be going back to the Committee on 22nd March and are very concerned by their potential unintended consequences.

The Kennel Club firmly believes that, due to the drafting of the regulations, their scope of impact will be much wider than the Government's stated aim to prohibit commercial third party sales of puppies and kittens in Wales and will introduce a new licensing threshold for one to two litter breeders. Legitimate low volume breeders who are explicitly out of scope of The Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014 – i.e. breeders with one or two bitches, producing one or two litters in a 12 month period – could reasonably fall within the scope of the new regulations. If they are deemed to be selling their puppies as pets in the course of a business, as outlined in Schedule 1, (1) and (2), the regulations as drafted would surely necessitate the acquisition of a 'pet vending' licence. Since the introduction of an identically worded 'business test' licensing threshold in England in 2018, we have seen a number of one and two litter dog breeders being deemed to be operating a business by overzealous local authorities.

The Welsh Government did not consult on the introduction of a de facto new licensing threshold for dog breeders in either the 2019 or 2020 consultations, nor has this been taken into account in the legislation's accompanying explanatory memorandum or accompanying regulatory impact assessment. As such, we are highly concerned that the Regulations' implications – in terms of the general puppy buying public, breeders and licensing authorities – will not have been duly considered.

We believe that the implementation of a licensing regime whereby some dog breeders would need to adhere to the conditions set out within the 2014 breeding regulations, others by these new 'pet vending' conditions, and a third group of unlicensed breeders would introduce excessive and unnecessary complications for all relevant stakeholders.

Furthermore, we do not believe the implementation of this licensing threshold for dog breeders would be in line with the recommendations of the recent independent review of Welsh dog breeding regulations. The expert panel, commissioned by the Welsh Government, highlighted that the extension of 'full licensing' (i.e. inspections) to one and two litter dog breeders, as being introduced in practice by this legislation, would require a significant increase in local

authority resources to enable effective implementation, which was a major factor as to why they did not support such a measure.

The panel also highlighted the significant unintended and unwanted consequences that such a step could result in: “Many of the best welfare conditions for the breeding of dogs occur in low volume, home breeding situations with an owner who may wish to have one or two litters from a well looked after, well socialised, pet dog. There is therefore a legitimate argument that full licensing of all breeders, regardless of size, could deter the best small-scale breeders from continuing. This reduction of supply in the face of ongoing demand for puppies could inadvertently lead to an increase in the sourcing of dogs from lower welfare situations including large-scale licensed breeding establishments, illegally unlicensed establishments, or those imported from overseas.”

In the Welsh Government’s formal response to the Group’s recommendations, there was no indication that the Government felt that one and two litter dog breeders should come under the scope of a licensing regime. Whilst we clearly note that these new regulations do not amend the 2014 breeding regulations, we believe that they will have an equivalent effect in practice.

The Kennel Club fully supports the principle aim of the legislation to prohibit the commercial third party sale of puppies and kittens in Wales. However, we firmly believe that the draft regulations exceed what the Welsh Government has consulted upon and assessed within the accompanying explanatory memorandum and impact assessment. As such, we believe that the scope of the Regulations, in their current form, far exceeds what the Welsh Government stated they hoped to achieve by introducing a new licensing threshold for one and two litter breeders in Wales.

We urge you to consider these points when the Regulations come before your Committee and to seek further clarification from the Welsh Government on this matter.

Yours sincerely,

Dr Edward Hayes
Head of Public Affairs
The Kennel Club

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

15 Mawrth 2021

Annwyl Lesley,

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021**

Yn ein cyfarfod bore ma, fe drafodom lythyr gan y Kennel Club mewn perthynas â **Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021** (llythyr ynghlwm).

Nid ydym wedi craffu'n ffurfiol ar y Rheoliadau eto, yn unol â'n rôl a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, o gofio bod cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau wedi'i drefnu i'w drafod a'i benderfynu ddydd Mawrth nesaf, 23 Mawrth, cytunwyd i godi pryderon y Kennel Club gyda chi cyn gynted â phosibl.

Bydd ein hadroddiad ar y Rheoliadau yn cael ei rannu gyda chi maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i'r Kennel Club.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Eitem 4.12

# SL(5)790 - Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu'r rhaglen datblygu gwledig er mwyn rhoi fframwaith domestig ar waith i gyllido cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE a sicrhau bod y fframwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol er mwyn ymdrin â gwallau a sicrhau bod y gyfraith yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ymgorffori cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r nod ar gyfer cymorth ar gyfer datblygu gwledig.

Nododd y Pwyllgor fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau hyn ac Adroddiad drafft ar y Rheoliadau hynny yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau craffu technegol a'r pwyntiau craffu ar y rhinweddau a godwyd yn Adroddiad drafft y Pwyllgor.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod ferswin ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 6(3)(h) yn hepgor y diffiniad o "*flwyddyn gyfrifyddu*" o Erthygl 2(29) o Reoliad (yr UE) Rhif 1303/2013. Er bod rheoliad 6(32) yn diwygio Erthygl 127(1) o Reoliad (yr UE) Rhif 1303/2013 i hepgor "*am flwyddyn gyfrifyddu*" ac "*yn ystod blwyddyn gyfrifyddu*", erys y diffiniad hwnnw yn Erthygl 127(4).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn sawl man yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi "*may*" yn lle "*shall*", a hefyd maent yn defnyddio "*must*" yn lle "*shall*" o fewn testun a amnewidir. Mewn mannau eraill, mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio "*shall*" o fewn testun a amnewidir.

Yn benodol, mae rheoliad 7(7) yn defnyddio "*shall*" pan ddefnyddir "*must*" ar achlysur cynharach a diweddarach o fewn y testun a amnewidir yn Erthygl 6 o Reoliad (UE) rhif 1305/2013.

Nodir mai ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn, o'i godi ar fersiwn blaenorol y Rheoliadau hyn oedd:

> *"Nodwn fod anghysondeb yn y defnydd o ""shall"" a ""must"", ond na fydd hyn yn newid effaith y testun a amnewidir."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn dweud bod swyddogion o'r farn bod y Rheoliadau hyn yn:

> *"ddiwygiadau technegol arferol i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu gwledig sydd, er enghraifft, yn dileu gofynion ar gyfer cymeradwyo a diwygio rhaglenni datblygu gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd am na fydd hyn yn weithredol ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE. Mae hyn yn cysoni proses gweinyddu a llywodraethu cymorth ar gyfer datblygu gwledig â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd. Ni chaiff yr Offeryn unrhyw effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol."*

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio bod y Rheoliadau hyn yn "*rhoi fframwaith domestig ar waith i gyllido cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE*", yn symleiddio'r "*trefniadau ar gyfer llywodraethu a gweinyddu cymorth ar gyfer datblygu gwledig*" ac yn ymgorffori "*cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r genhadaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer cymorth ar gyfer datblygu gwledig fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth*".

Mae'r Cod Ymarfer ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr eithriad a ganlyn i'r drefn o gynnal asesiad effaith rheoleiddiol:

*"Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddaru rheoliadau ac ati nad ydynt yn effeithio'n fawr ar bolisi".*

Er ei bod yn ymddangos bod yr eithriad hwn yn gymwys i rai o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, ymddengys fod darpariaethau eraill, yn enwedig o gofio'r esboniad y cyfeirir ato uchod, yn golygu mwy na diwygiadau arferol neu ffeithiol. Nid yw'n glir bod unrhyw un o'r eithriadau eraill o dan y Cod yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

Yn Adroddiad drafft y Pwyllgor ar y fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau hyn, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa eithriad o dan y Cod sy'n berthnasol i'r penderfyniad i beidio â chynhyrchu asesiad effaith rheoleiddiol.

Nodir mai ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn oedd:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Rheoliadau yn cynnwys diwygiadau technegol arferol neu ddiwygiadau ffeithiol sy'n ofynnol er mwyn diweddaru rheoliadau o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar bolisi. Mae'r Rheoliadau yn galluogi rhoi fframwaith domestig yn ei le ond nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau newydd o ran cyllid, ac nid ydynt yn creu unrhyw sancsiynau troseddol na beichiau gweinyddol newydd, a fyddai'n effeithio ar y sectorau cyhoeddus na phreifat, elusennau na'r sector gwirfoddol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Diolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad. Dyma'r ymateb mewn perthynas â'r Pwynt Technegol a godwyd yn yr adroddiad.

**Craffu Technegol**

**Pwynt 1**

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ddod â hyn i'n sylw.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod cyfeiriadau at "accounting year" yn parhau i fod yn Erthygl 127(4). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai effaith fân sydd i hyn a bydd yn cywiro'r cyfeiriadau hyn pan ddaw'r cyfle addas nesaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Mawrth 2021**

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) a pharagraffau 2(1), 4(1) a 6(1) o Atodlen 5 iddi, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithredu a diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ac er mwyn gwneud darpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu rhaglenni datblygu gwledig ar gyfer sicrhau cymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru.

Mae rheoliadau 2, 3, 4 a 5 yn addasu Rheoliadau (EU) Rhif 1306/2013, 640/2014, 809/2014, a 908/2014 i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer fframwaith i ganiatáu creu cynllun cymorth datblygu gwledig domestig newydd.

Mae rheoliadau 6 i 12 yn addasu Rheoliadau (EU) Rhif 1303/2013, 1305/2013, 480/2014, 807/2014, 808/2014, 821/2014, a 964/2014 i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn i gymorth datblygu gwledig weithredu'n effeithiol a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithredu. Mae'r Rheoliadau UE hynny'n cynnwys rhai o'r rheolau sy'n llywodraethu

cymorth datblygu gwledig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r corff cyfreithiol hwnnw i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig yn unig.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig. Mae'r newidiadau'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth ddomestig yn cyd-fynd â'r newidiadau a wneir gan Rannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ac sy'n llywodraethu cymorth ar gyfer datblygu gwledig.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau (UE) Rhif 1306/2013, 640/2014 ac 809/2014, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cynlluniau taliadau uniongyrchol yn unig. Mae'r diwygiadau'n fân ac yn dechnegol eu natur ac yn mynd i'r afael â gwallau er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gywir ac yn gweithredu'n effeithiol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2021 Rhif (Cy. )

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(**1**), a pharagraffau 2(1), 4(1) a 6(1) o Atodlen 5 iddi, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**2**).

Yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 2020 p. 21.
(**2**) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority".

# RHAN 1

## Rhagarweiniol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

# RHAN 2

## Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Lorweddol

**Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013**

**2.**—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin(**1**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn lle pennawd Erthygl 8 rhodder "Powers".

(3) Yn Erthygl 12—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle "must" rhodder "may";

(ii) yn lle "shall", yn yr ail frawddeg, rhodder "may";

(b) ym mharagraff 2—

(i) ar ôl pwynt (a) mewnosoder—

"(aa) maintenance of the agricultural area as referred to in point (c) of Article 4(1) Regulation (EU) No 1307/2013;";

(ii) hepgorer pwynt (e);

(c) hepgorer paragraff 3.

(4) Hepgorer Erthyglau 13 i 15.

(5) Hepgorer Erthygl 32.

(6) Hepgorer Erthygl 46.

(7) Yn Erthygl 54—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer "within 18 months";

---

(**1**) EUR 2013/1306, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chymorth ar gyfer datblygu gwledig gan O.S. 2020/90 a 576. Mae EUR 2013/1306 wedi ei ddiwygio gan O.S. 2019/748 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/831), 763 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/812), 831 a 1402. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn O.S. 2020/1445, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chymorth ar gyfer datblygu gwledig.

(b) ym mharagraff 3(a)—

(i) ym mhwynt (i), yn lle “EUR 100” rhodder “£100”;

(ii) ym mhwynt (ii)—

(aa) yn lle “EUR 100” rhodder “£100”;

(bb) yn lle “EUR 250” rhodder “£250”.

(8) Hepgorer Erthygl 56.

(9) Yn Erthygl 59(4), yn lle “retained direct EU legislation regarding agricultural aid and rural development support” rhodder “sectoral agricultural legislation”.

(10) Yn Erthygl 67(4)(a), ar ôl “continuous area of land” mewnosoder “within Wales”.

(11) Yn Erthygl 69—

(a) hepgorer brawddeg olaf paragraff 1;

(b) hepgorer paragraff 2.

(12) Yn Erthygl 70(1)—

(a) hepgorer “and, as from 2016, at a scale of 1:5 000,”;

(b) hepgorer yr ail is-baragraff.

(13) Yn Erthygl 72(5), yn lle “By way of derogation from Council Regulation (EEC, Euratom) No 1182/71, the” rhodder “The”.

(14) Yn Erthygl 84(6), yn lle “EUR 40 000” rhodder “£40 000”.

(15) Yn Erthygl 91(3)(a), yn lle “the United Kingdom” rhodder “Wales”.

(16) Yn Erthygl 97(3), yn lle “EUR 100” rhodder “£100”.

(17) Yn Erthygl 105(2), yn lle’r frawddeg olaf rhodder “They shall be granted or collected in sterling.”.

(18) Hepgorer Erthygl 108.

(19) Hepgorer is-baragraff olaf Erthygl 111(1).

(20) Yn Erthygl 112, yn y paragraff cyntaf, yn lle “EUR 1250” rhodder “£1250”.

(21) Yn Erthygl 114, yn lle’r pennawd rhodder “Powers”.

(22) Hepgorer Atodiad I.

(23) Yn Atodiad II, yn y rhes “Landscape, minimum level of maintenance”, yn y bedwaredd golofn, ar ôl “measures for avoiding invasive plant species” mewnosoder—

“. Restrictions on converting, ploughing or reseeding environmentally sensitive permanent grassland.”

**Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014**

**3.**—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu'n ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth ar gyfer datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**1**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthygl 1(j).

(3) Yn Erthygl 9—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) ym mharagraff 3, hepgorer yr is-baragraff olaf.

(4) Hepgorer Erthygl 10.

(5) Yn Erthygl 13—

(a) ym mharagraff 1—

(i) hepgorer yr ail is-baragraff;

(ii) ar ôl yr is-baragraff olaf mewnosoder—

"All documents in support of an aid application or payment claim must be submitted by 31 December of that calendar year.";

(b) ym mharagraff 3, yn yr is-baragraff olaf, yn lle "third" rhodder "second".

(6) Hepgorer yr is-baragraff olaf yn Erthygl 16(1).

(7) Yn Erthygl 19a—

(a) yn y pennawd, ar ôl "of areas for" mewnosoder "agri-environment climate, organic farming,";

(b) ym mharagraff 1, ar ôl "Articles" mewnosoder "28, 29";

(c) yn lle paragraff 2 rhodder—

"**2.** The administrative penalty referred to in paragraph 1 shall be reduced by 50% if the difference between the area declared and the area determined does not exceed 10% of the area determined.";

(d) hepgorer paragraffau 3 a 4.

---

(**1**) EUR 2014/640, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chymorth gwledig gan O.S. 2020/90 ac mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2020/551. Mae EUR 2014/640 hefyd wedi ei ddiwygio gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn O.S. 2020/1445, nid yw'r diwygiadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â chymorth ar gyfer datblygu gwledig.

(8) Yn Erthygl 35—

(a) ym mharagraff 1, yn lle “shall” rhodder “may”;

(b) ym mharagraff 2—

(i) yn lle “shall” rhodder “may”;

(ii) hepgorer “State aid”;

(c) ym mharagraff 3—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf—

(aa) yn lle “shall” rhodder “may”;

(bb) yn lle “extent, duration and reoccurrence” rhodder “extent and duration”;

(ii) hepgorer yr is-baragraff olaf;

(d) ym mharagraff 5, hepgorer y frawddeg olaf;

(e) hepgorer paragraff 7.

(9) Hepgorer Pennod I o Deitl IV.

(10) Hepgorer brawddeg olaf Erthygl 38(1).

(11) Hepgorer Teitl V.

**Diwygio Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014**

**4.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**1**), wedi ei ddiwygio, i’r graddau y mae’n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 4, hepgorer y paragraff olaf.

(3) Yn Erthygl 6(2), ym mhwynt (c), yn lle “Articles 13 and 14” rhodder “Article 13”.

(4) Yn Erthygl 15—

(a) hepgorer paragraff 1b;

(b) hepgorer paragraff 2b;

(c) ym mharagraff 3, hepgorer yr is-baragraff olaf.

(5) Yn Erthygl 17—

(a) hepgorer paragraff 2;

(b) hepgorer paragraff 5;

---

(**1**) EUR 2014/809, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynllluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 a 576. Mae EUR 2014/809 hefyd wedi ei ddiwygio mewn perthynas â chynllluniau datblygu gwledig yng Nghymru gan O.S. 2020/510 a 575. Mae EUR 2014/809 hefyd wedi ei ddiwygio gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn O.S. 2020/1445, nid yw’r diwygiadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â chymorth datblygu gwledig.

(c) hepgorer paragraff 6.

(6) Yn Erthygl 25, hepgorer “and shall not exceed 14 days”.

(7) Yn Erthygl 26—

(a) hepgorer paragraff 2;

(b) hepgorer paragraff 4.

(8) Yn Erthygl 27, hepgorer yr ail baragraff a’r trydydd.

(9) Yn Erthygl 32—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer y frawddeg olaf;

(ii) hepgorer yr ail is-baragraff;

(b) hepgorer paragraff 2;

(c) hepgorer paragraff 2a;

(d) hepgorer paragraff 4.

(10) Ar ôl Erthygl 32 mewnosoder—

“**Article 32a**

For animal aid schemes, the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall for each of the aid schemes cover at least 5% of all beneficiaries applying for that respective aid scheme.”

(11) Yn Erthygl 34—

(a) ym mharagraff 2, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) hepgorer paragraffau 3, 4 a 4a;

(c) ym mharagraff 5—

(i) yn lle “shall” rhodder “may”;

(ii) ym mhwynt (d), ar ôl “that” mewnosoder “may”.

(12) Yn Erthygl 35, hepgorer “or in a region or part of a region”.

(13) Yn Erthygl 36(4), hepgorer yr ail is-baragraff.

(14) Yn Erthygl 38—

(a) hepgorer y frawddeg olaf ym mharagraff 5;

(b) hepgorer paragraff 9;

(c) ym mharagraff 10, hepgorer “or permanent pastures”.

(15) Yn Erthygl 39, hepgorer paragraff 4.

(16) Hepgorer Erthygl 40a.

(17) Yn Erthygl 41—

(a) hepgorer yr is-baragraff olaf ym mharagraff 1;

(b) yn yr is-baragraff olaf ym mharagraff 2—

(i) hepgorer "or by means of monitoring in accordance with Article 40a,";

(ii) hepgorer "or by monitoring" yn y ddau le y mae'n digwydd;

(iii) hepgorer y frawddeg olaf.

(18) Yn Erthygl 42(1), yn yr ail is-baragraff—

(a) hepgorer "at least 50% of";

(b) yn lle "shall", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "may".

(19) Yn Erthygl 43(2), yn lle "shall" rhodder "may" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd.

(20) Yn Erthygl 46, hepgorer ", Article 39b and Article 51(2)".

(21) Yn Erthygl 47(2), hepgorer "and 19(1)(c),".

(22) Yn Erthygl 48—

(a) ym mharagraff 2—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer "State aid";

(ii) ym mhwynt (e)—

(aa) yn lle "EUR 5 000" rhodder "£5 000";

(bb) hepgorer "ex ante";

(b) ym mharagraff 5—

(i) ar ddiwedd yr is-baragraff cyntaf mewnosoder—

"Those checks shall, to the extent possible, be carried out before the final payment is made for an operation.";

(ii) hepgorer pwynt (a).

(23) Hepgorer Erthyglau 49 i 51.

(24) Yn Erthygl 52(3), yn lle'r frawddeg olaf rhodder "A sample shall be selected randomly."

(25) Hepgorer Erthygl 62.

(26) Yn Erthygl 63—

(a) ym mharagraff 1, yn lle "calculated" rhodder "adjusted";

(b) hepgorer paragraff 2.

(27) Yn Erthygl 68—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer "and the other beneficiaries receiving direct payment support";

(ii) hepgorer yr ail is-baragraff a'r trydydd;

(b) ym mharagraff 4, yn lle "shall" rhodder "may".

(28) Yn Erthygl 69(1), hepgorer brawddeg olaf yr is-baragraff cyntaf.

(29) Yn Erthygl 70—

(a) ym mharagraff 3, hepgorer y geiriau o “or by using” hyd at y diwedd;

(b) hepgorer paragraff 4.

(30) Hepgorer Erthyglau 70a a 70b.

(31) Yn Erthygl 72—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) ym mharagraff 2, hepgorer “checked by monitoring in accordance with Article 70a,”;

(c) ym mharagraff 3, hepgorer brawddeg olaf yr is-baragraff cyntaf;

(d) ym mharagraff 4, hepgorer ail frawddeg yr is-baragraff cyntaf.

**Diwygio Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014**

**5.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder(**1**) wedi ei ddiwygio, i’r graddau y mae’n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 4(1)—

(a) hepgorer pwynt (i);

(b) ym mhwynt (ii), hepgorer “on a single website”.

(3) Yn Erthygl 27(1), yn lle “EUR 5” rhodder “£5.00”.

(4) Yn lle Erthygl 41(1) rhodder—

“**1.** The relevant authorities may decide to reduce the minimum level of on-the-spot checks in accordance with Article 59(5) of Regulation (EU) No 1306/2013. For the reduced control rate to apply, the paying agency must confirm that—

(a) the internal control system is functioning correctly; and

(b) the error rate for the population concerned was below the materiality threshold of 2.0%.”

(5) Yn Erthygl 42—

(a) ym mharagraff 1, yn lle “EUR 150 000” rhodder “£150 000”;

(**1**) EUR 2014/908, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/90.

(b) ym mharagraff 3, yn lle “EUR 350 000” rhodder “£350 000”.

(6) Yn Erthygl 56(1), yn lle “EUR 1 000” rhodder “£1 000”.

(7) Hepgorer Erthygl 62.

(8) Yn Atodiad XI—

(a) yn lle “EUR 150, 000” rhodder “£150,000”;

(b) yn lle “EUR 350 000” rhodder “£350 000” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(c) yn lle “EUR 40 000” rhodder “£40 000” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(d) yn y tabl yn nalen B—

(i) yn lle “(EUR)” rhodder “£” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(ii) yn lle “40 000 EUR” rhodder “£40 000”.

# RHAN 3

## Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

### Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013

**6.**—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy’n gosod darpariaethau cyffredin ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac yn gosod darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 1083/2006(**1**), wedi ei ddiwygio, i’r graddau y mae’n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn lle Erthygl 1 rhodder—

“*Article 1*

**Subject-matter**

This Regulation lays down the common rules applicable to support for rural development.”

(3) Yn Erthygl 2—

(a) hepgorer paragraff 4;

(b) hepgorer paragraff 5;

(c) ym mharagraff 10—

---

(**1**) EUR 2013/1303, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/785, 2018/1046, 2019/785, 2019/748, a 2019/1422.

(i) hepgorer pwynt (a);

(ii) ym mhwynt (b), hepgorer “or the fund of funds as appropriate”;

(d) hepgorer paragraff 13;

(e) hepgorer paragraff 15;

(f) hepgorer paragraff 21;

(g) ym mharagraff 26, hepgorer “point (c) of Article 42(1), Article 42(2), Article 42(3) and”;

(h) hepgorer paragraffau 27, 28, 29, 30 a 33;

(i) hepgorer paragraffau 38, 39 a 42.

(4) Yn Erthygl 4—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “Fund-specific”;

(b) ym mharagraff 2—

(i) hepgorer “, taking account of the specific context of each constituent nation,”;

(ii) hepgorer “and direct payment support”;

(c) ym mharagraff 4—

(i) hepgorer “, in partnership with the relevant partners referred to in Article 5,”;

(ii) hepgorer “and the Fund-specific rules”;

(d) ym mharagraff 9, yn lle “the relevant authority” rhodder “The relevant authority”;

(e) ym mharagraff 10, yn lle “the relevant authority” rhodder “The relevant authority”.

(5) Hepgorer Erthygl 5.

(6) Yn lle Erthygl 8(2) rhodder—

“**2.** The relevant authority must ensure that the environmental protection requirements, resource efficiency, climate change mitigation and adaptation, biodiversity, disaster resilience, and risk prevention and management are promoted in the preparation and implementation of programmes.

The appropriate authority may make regulations setting out uniform conditions for support for rural development.”

(7) Hepgorer Teitl II.

(8) Hepgorer Pennod I o Deitl III.

(9) Yn Erthygl 32—

(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

“**1.** Support for rural development must be provided by the relevant authority for community-led local development. For the purposes of this Chapter, “the support concerned” means support for rural development.”;

(b) ym mharagraff 5, hepgorer “Fund-specific”.

(10) Yn Erthygl 34(3), hepgorer “in accordance with the Fund-specific rules” yn yr is-baragraff olaf.

(11) Yn Erthygl 35(2), hepgorer “public”.

(12) Yn Erthygl 37—

(a) hepgorer “ex ante” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(b) ym mharagraff 1—

(i) hepgorer “, including when organised through fund of funds,”;

(ii) hepgorer “, the bodies implementing funds of funds,”;

(c) ym mharagraff 2, ym mhwynt (a), hepgorer “and thematic objectives”;

(d) ym mharagraff 3, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(e) ym mharagraff 4—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf—

(aa) hepgorer “, including SMEs”;

(bb) hepgorer “in accordance with the Fund-specific rules”;

(ii) yn yr ail is-baragraff, yn lle “SMEs” rhodder “businesses”;

(f) ym mharagraff 9, yn lle “paragraphs 7 and 8” rhodder “paragraph 7”;

(g) ym mharagraff 11, yn lle “paragraphs 7 and 8” rhodder “paragraph 7”.

(13) Yn Erthygl 38—

(a) hepgorer paragraff 5;

(b) ym mharagraff 7—

(i) hepgorer pwynt (a);

(ii) ym mhwynt (b), hepgorer “, or where applicable, the body that implements the fund of funds,”;

(c) hepgorer paragraff 8;

(d) ym mharagraff 9—

(i) hepgorer “fund of funds, at the level of the”;

(ii) hepgorer “Fund-specific”;

(e) ym mharagraff 10, hepgorer “and in Article 39a(5)”.

(14) Yn Erthygl 40—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf—

(aa) yn lle “authorities designated” rhodder “designated authorities”;

(bb) hepgorer “in accordance with Article 65 of the Regulation (EU) No 1305/2013”;

(ii) yn y trydydd is-baragraff, hepgorer “as set out in Article 46(1) and (2) of this Regulation”;

(iii) hepgorer y pedwerydd is-baragraff a’r pumed;

(b) ym mharagraff 2, yn lle “Without prejudice to Article 127 of this Regulation and Article 9 of Regulation (EU) No 1306/2013, the” rhodder “The”;

(c) hepgorer paragraff 5A.

(15) Yn Erthygl 41—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer “during the eligibility period laid down in Article 65(2) (the ‘eligibility period’)”;

(ii) yn lle pwynt (a) rhodder—

“(a) the amount of the programme contribution paid to the financial instrument included in each application for interim payment shall not exceed 25% of the total amount of programme contributions committed to the financial instrument under the relevant funding agreement;”;

(iii) ym mhwynt (b), hepgorer y geiriau o “, or at the level of final recipients” hyd at y diwedd;

(iv) hepgorer pwynt (c);

(v) ym mhwynt (d), hepgorer “and the amounts paid as eligible expenditure within the meaning of points (a), (b) and (d) of Article 42(1)”;

(vi) hepgorer yr ail is-baragraff;

(b) hepgorer paragraff 2.

(16) Hepgorer Erthygl 42.

(17) Yn Erthygl 43, yn lle paragraff 2 rhodder—

“**2.** Interest and other gains attributable to support for rural development paid to financial instruments shall be used for the same purposes, including the reimbursement of management costs incurred or payment of management fees of the financial instrument as the initial support for rural development either within the same financial instrument or, following the winding up of the financial instrument, in other financial instruments or forms of support in accordance with the specific objectives set out under a priority, until the end of the eligibility period.”

(18) Yn Erthygl 44, yn lle’r pennawd, rhodder “Re-use of resources attributable to the support for rural development”.

(19) Yn Erthygl 45—

(a) yn lle’r pennawd rhodder “Re-use of resources”;

(b) hepgorer “after the end of the eligibility period”;

(c) hepgorer “or programmes”.

(20) Hepgorer Erthyglau 46 i 59.

(21) Yn Erthygl 61—

(a) ym mharagraff 3, yn y trydydd is-baragraff hepgorer “, including subsectors for sectors in Annex V, falling under the thematic objectives defined in the first paragraph of Article 9 and funded by support for rural development”;

(b) hepgorer paragraff 5;

(c) ym mharagraff 6—

(i) yn lle “paragraphs 3 or 5” rhodder “paragraph 3”;

(ii) hepgorer “, or by the deadline for the submission of documents for programme closure fixed in the Fund-Specific rules, whichever is the earlier,”;

(d) ym mharagraff 7—

(i) ym mhwynt (b), yn lle “EUR 1000 000” rhodder “£1,000,000”;

(ii) hepgorer pwynt (d);

(iii) hepgorer pwynt (h);

(iv) hepgorer yr is-baragraff olaf.

(22) Yn lle pennawd Pennod II o Deitl VII rhodder “Special rules on support to PPPs”.

(23) Yn Erthygl 64(1), hepgorer “, by way of derogation from Article 65(2),”.

(24) Yn Erthygl 65—

(a) ym mharagraff 1, yn lle “Fund-specific” rhodder “rural development”;

(b) hepgorer paragraff 2;

(c) hepgorer paragraff 4;

(d) ym mharagraff 8—

(i) hepgorer pwynt (a);

(ii) ym mhwynt (f), hepgorer “ex ante”;

(iii) ym mhwynt (g), hepgorer “ex ante”;

(iv) hepgorer pwynt (h);

(e) ym mharagraff 9, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(f) ym mharagraff 10, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(g) ym mharagraff 11, hepgorer “or direct payment support”.

(25) Yn Erthygl 66, hepgorer “, or to another competent authority,”.

(26) Yn Erthygl 67—

(a) ym mharagraff 1, yn lle’r ail is-baragraff rhodder—

“Rules may limit the forms of grants or repayable assistance applicable to certain operations.”;

(b) hepgorer paragraff 2;

(c) ym mharagraff 5—

(i) ym mhwynt (aa)—

(aa) hepgorer “ex ante”;

(bb) yn lle “EUR 100 000” rhodder “£100 000”;

(ii) ym mhwynt (d), hepgorer “or the Fund-specific rules”;

(iii) ym mhwynt (e), hepgorer “in accordance with Fund-specific rules”.

(27) Yn Erthygl 68a(1)—

(i) yn lle “the relevant authority” rhodder “The relevant authority”;

(ii) yn lle “point (a) of Article 4 of Directive 2014/24/EU” rhodder “regulation 5 of the Public Contracts Regulations 2015(**1**)”.

(28) Yn Erthygl 70—

(a) ym mharagraff 1—

(i) hepgorer “and the Fund-specific rules”;

(ii) hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) ym mharagraff 2, hepgorer pwynt (c);

(c) ym mharagraff 3—

(i) hepgorer “technical assistance or”;

(ii) hepgorer “, and for operations concerning the thematic objective referred to in point (1) of the first paragraph of Article 9,”.

(29) Yn Erthygl 71—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle’r is-baragraff cyntaf rhodder—

“An operation comprising investment in infrastructure or productive investment shall repay the contribution

(**1**) O.S. 2015/102.

from support for rural development if within five years of the final payment to the beneficiary it is subject to any of the following:”;

(ii) hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) yn lle paragraff 2 rhodder—

“**2.** An operation comprising investment in infrastructure or productive investment shall repay the contribution from support for rural development if within 10 years of the final payment to the beneficiary the productive activity is subject to relocation outside the United Kingdom and its territorial sea.”;

(c) ym mharagraff 4, yn lle “Paragraphs 1, 2 and 3” rhodder “Paragraphs 1 and 2”.

(30) Hepgorer Penodau I a II o Deitl IX.

(31) Yn Erthygl 125(2), hepgorer pwyntiau (a) a (b).

(32) Yn erthygl 127(1)—

(a) hepgorer “for an accounting year”;

(b) hepgorer “during an accounting year” ym mhob lle y mae’n digwydd.

(33) Yn Erthygl 132—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “public”;

(b) hepgorer paragraff 2(a).

(34) Hepgorer Erthygl 154.

(35) Hepgorer Atodiad I.

(36) Yn Atodiad IV—

(a) ym mharagraff 1—

(i) hepgorer pwynt (d);

(ii) ym mhwynt (e), hepgorer “(and at the level of the fund of funds where appropriate)”;

(iii) ym mhwynt (k), hepgorer “, including the fund of funds where applicable”;

(iv) hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) hepgorer paragraff 2.

(37) Hepgorer Atodiad XI.

**Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013**

**7.**—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005(**1**) wedi ei ddiwygio i’r graddau y

(**1**) EUR 2013/1305, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/748, O.S. 2019/764, ac O.S. 2019/1422.

mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 1(1), hepgorer y frawddeg olaf.

(3) Yn Erthygl 2—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer "“public expenditure”, “SMEs”,";

(ii) ym mhwynt (f), hepgorer “permanent pasture or”;

(iii) hepgorer pwynt (o);

(iv) hepgorer pwynt (p);

(v) yn lle pwynt (v) rhodder—

"“appropriate authority” means the relevant authority for the constituent nation in which the regulations apply.";

(b) hepgorer paragraff 4.

(4) Yn lle Erthygl 3 rhodder—

“*Article 3*

**Aim**

Support for rural development shall contribute to the development of rural economies and sectors that are more resilient, competitive and innovative and which support the achievement of the well-being goals as set out in section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015(**1**), the sustainable management of natural resources as set out in Part 1 of the Environment (Wales) Act 2016(**2**) and climate resilience.”

(5) Yn lle Erthygl 4 rhodder—

“*Article 4*

**Objectives**

Support for rural development, must contribute to achieving the following objectives:

(a) fostering the competitiveness of agriculture;

(b) contributing towards the sustainable management of natural resources as set out in Part 1 of the Environment (Wales) Act 2016;

(c) ensuring climate resilience;

(d) achieving a balanced territorial development of rural economies and

(**1**) 2015 p. 2.
(**2**) 2016 p. 3.

communities including the creation and maintenance of employment."

(6) Yn lle Erthygl 5 rhodder—

"*Article 5*

**Priorities for rural development**

Support for rural development must support the following priorities:

(1) fostering knowledge transfer and innovation in agriculture, forestry, and rural areas;

(2) enhancing farm viability and competitiveness of all types of agriculture in all regions and promoting innovative farm technologies and the sustainable management of forests;

(3) promoting food chain organisation, including processing and marketing of agricultural products, animal welfare and risk management in agriculture;

(4) restoring, preserving and enhancing ecosystems dependent on agriculture and forestry;

(5) promoting resource efficiency and supporting the shift towards a low carbon and climate resilient economy in the agriculture, food and forestry sectors;

(6) promoting social inclusion, poverty reduction and economic development in rural areas.

Each of these priorities shall contribute to the cross-cutting objectives of innovation, environment and climate change mitigation and adaptation."

(7) Yn lle Erthygl 6 rhodder—

"*Article 6*

**The rural development programme**

Support for rural development must be provided in accordance with the rural development programme. This programme shall implement a strategy to meet the priorities for rural development through a set of measures as defined in Title III. Support for rural development must be provided to further the objectives and the priorities of rural development."

(8) Hepgorer Erthyglau 8 i 12.

(9) Yn Erthygl 13, hepgorer y frawddeg olaf.

(10) Yn Erthygl 14(2)—

(a) ar ôl "land managers" mewnosoder ", animal health and welfare sector";

(b) yn lle "SMEs" rhodder "businesses".

(11) Yn Erthygl 15—

(a) ym mharagraff 1—

(i) ym mhwynt (a), yn lle “SMEs” rhodder “businesses”;

(ii) ym mharagraff 1(b), yn lle “Articles 12 to 14” rhodder “Article 12”;

(b) ym mharagraff 3, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(c) hepgorer paragraff 3a;

(d) ym mharagraff 4—

(i) ym mhwynt (b), hepgorer “the agricultural practices beneficial for the climate and the environment as laid down in Chapter 3 of Title III of Regulation (EU) No 1307/2013 and”;

(ii) yn yr is-baragraff olaf, hepgorer “as laid down in Annex I to Regulation (EU) No 1306/2013”;

(e) ym mharagraff 6, yn lle “SMEs” rhodder “businesses”;

(f) ym mharagraff 8, hepgorer y frawddeg gyntaf.

(12) Yn Erthygl 16—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle “shall” rhodder “may”;

(ii) ar ôl “groups of farmers” mewnosoder “and food processors”;

(b) ym mharagraff 3, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(c) hepgorer paragraff 4.

(13) Yn Erthygl 17—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle “shall” rhodder “may”;

(ii) ym mhwynt (a), ar ôl “holding” mewnosoder “, or those involved in food processing”;

(iii) ym mhwynt (c), ar y diwedd, hepgorer “or”;

(iv) ar ôl pwynt (d) mewnosoder—

“; or

(e) are investments linked to activities to protect, conserve, promote and enhance the historic environment as a resource for the general well-being of present and future generations.”;

(b) ym mharagraff 2, ar ôl “groups of farmers” mewnosoder “or those involved in food processing”;

(c) hepgorer paragraffau 3 a 4.

(14) Hepgorer Erthygl 18(5).

(15) Yn Erthygl 19—

(a) hepgorer paragraff 1(c);

(b) ym mharagraff 2, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(c) yn y trydydd is-baragraff ym mharagraff 4, hepgorer “, as applicable in the relevant authority concerned,”;

(d) ym mharagraff 6, hepgorer y frawddeg gyntaf;

(e) hepgorer paragraff 7.

(16) Yn Erthygl 20—

(a) ym mharagraff 1—

(i) ym mhwynt (g), ar ôl “conversion” mewnosoder “and adaptive reuse”;

(ii) ar ôl pwynt (g) mewnosoder—

“(h) investments in infrastructure or activities to protect, conserve, promote and enhance the historic environment as a resource for the general well-being of present and future generations.”;

(b) yn lle paragraff 2 rhodder—

“**2.** Support under this measure shall only concern small-scale infrastructure and services, as defined by each relevant authority. However, the rural development programme may provide for specific derogations from this rule for investments in broadband and renewable energy.”

(17) Yn Erthygl 21(1)—

(a) yn lle pwynt (d) rhodder—

“(d) investments in the sustainable management of woodlands;”;

(b) yn lle pwynt (e) rhodder—

“(e) investments which contribute to the development of a National Forest in Wales;

(f) investments improving the resilience and environmental value as well as the mitigation potential of forest ecosystems;

(g) investments in forestry technologies and in the processing, the mobility and marketing of forest products;

(h) investments to protect, conserve, promote and enhance the historic environment within forest areas.”

(18) Yn lle Erthygl 22(1) rhodder—

“**1.** Support under point (a) of Article 21(1) shall be granted to public and private land-

holders and their associations and may cover the costs of establishments (including planning costs) and an annual premium per hectare to cover the costs of agricultural income foregone and maintenance, including early and late cleanings and/or payments for the public benefits derived from woodlands for a maximum period of twelve years. In the case of state owned land, support may only be granted if the body managing such land is a private body or municipality."

(19) Yn Erthygl 23—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle "shall", yn yr ail le y mae'n digwydd, rhodder "may";

(ii) yn lle "for a maximum period of five years" rhodder "and/or payments for the public benefits derived from the woodlands";

(b) hepgorer paragraff 3.

(20) Yn Erthygl 25(2), ar ôl "enhancement of the" mewnosoder "historic environment and the".

(21) Yn Erthygl 26—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer "and to SMEs";

(b) hepgorer paragraffau 3 a 4.

(22) Yn Erthygl 27—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle "shall" rhodder "may";

(ii) ar ôl "agriculture" mewnosoder ", food processing";

(b) ym mharagraff 2, hepgorer "It shall be limited to producer groups and organisations that are SMEs.";

(c) hepgorer paragraff 4.

(23) Yn Erthygl 28—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle "their territories" rhodder "Wales";

(ii) hepgorer "their" yn yr ail le y mae'n digwydd;

(iii) yn lle "rural development programmes" rhodder "the rural development programme";

(iv) hepgorer "at national and/or regional level";

(b) ym mharagraff 5—

(i) yn lle "their rural development programmes" rhodder "the rural development programme" yn y ddau le y mae'n digwydd;

(ii) hepgorer y trydydd hyd at y pumed is-baragraff;

(c) ym mharagraff 6, hepgorer yr ail is-baragraff;

(d) ym mharagraff 8, hepgorer y frawddeg gyntaf;

(e) hepgorer paragraff 11.

(24) Yn Erthygl 29—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer "and who are active farmers within the meaning of Article 9 of Regulation (EU) No 1307/2013, as applicable in the relevant authority concerned";

(b) ym mharagraff 3, yn lle "their rural development programmes" rhodder "the rural development programme" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(c) ym mharagraff 4, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(d) hepgorer paragraffau 5 a 6.

(25) Yn Erthygl 30—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer yr is-baragraff olaf;

(b) ym mharagraff 4—

(i) ym mhwynt (a), hepgorer "as it applies in the constituent nation";

(ii) ym mhwynt (c), hepgorer "as it applied in the constituent nation existing";

(c) hepgorer paragraffau 7 ac 8.

(26) Yn Erthygl 31—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer ", taking into account payments pursuant to Chapter 4 of Title III of Regulation (EU) No 1307/2013";

(b) ym mharagraff 2, hepgorer "and are active farmers within the meaning of Article 9 of Regulation (EU) No 1307/2013";

(c) hepgorer paragraff 3;

(d) ym mharagraff 4—

(i) hepgorer ", except if the grant covers only the minimum payment per hectare per year as laid down in Annex II";

(ii) ym mhwynt (a), hepgorer "as it applies in the constituent nation";

(e) hepgorer paragraff 5.

(27) Yn Erthygl 32, ym mharagraff 4, hepgorer yr is-baragraff olaf.

(28) Yn Erthygl 33—

(a) yn lle "animal welfare" rhodder "animal health and welfare" yn y pennawd ac ym mhob lle y mae'n digwydd;

(b) ym mharagraff 1, hepgorer “and who are active farmers within the meaning of Article 9 of Regulation (EU) No 1307/2013,”;

(c) ym mharagraff 3, hepgorer yr is-baragraff olaf.

(29) Yn Erthygl 34—

(a) yn lle’r pennawd rhodder “Forest-environmental, climate commitments and forest historic environment commitments”;

(b) ym mharagraff 1—

(i) yn lle “forest environment and climate commitments” rhodder “forest-environmental, climate commitments and forest historic environment commitments”;

(ii) yn lle “their rural development programmes” rhodder “the rural development programme”;

(c) ym mharagraff 3, yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer y frawddeg olaf.

(30) Yn Erthygl 35—

(a) hepgorer paragraff 1(c);

(b) ym mharagraff 5(b), hepgorer “or a project to be carried out by an operational group of the EIP for Agricultural Productivity and Sustainability as referred to in Article 56”;

(c) ym mharagraff 6, hepgorer “or support under Regulation 508/2014, CMO support or direct payment support”.

(31) Hepgorer Erthygl 36(2) a (5).

(32) Hepgorer Erthygl 37(5).

(33) Yn Erthygl 38—

(a) ym mharagraff 3, yn lle yr ail is-baragraff rhodder—

“Support under point (b) of Article 36(1) shall only be granted to cover for loss caused by the outbreak of adverse climatic events, an animal or plant disease, a pest infestation, or a measure adopted in accordance with Directive 2000/29/EC to eradicate or contain a plant disease or pest or an environmental incident, which destroy more than 30% of the average annual production of the farmer in the preceding three-year period or a three-year average based on the preceding five-year period, excluding the highest and lowest entry. Indexes may be used in order to calculate the annual production of the farmer. The calculation method used shall permit the determination of the actual loss of an individual farmer in a given year.”;

(b) hepgorer paragraff 5.

(34) Yn Erthygl 39—

(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

“**1.** Support under point (c) of Article 36(1) shall only be granted where the drop in income exceeds 30% of the average annual income of the individual farmer in the preceding three-year period or a three-year average based on the preceding five-year period excluding the highest and lowest entry. Income for the purposes of point (c) of Article 36(1) shall refer to the sum of revenues the farmer receives from the market, including any form of public support, deducting input costs. Payments by the mutual fund to farmers shall compensate for less than 70% of the income lost in the year the producer becomes eligible to receive this assistance. Indexes may be used to calculate the annual loss of income of the farmer.”;

(b) ym mharagraff 5, hepgorer y frawddeg gyntaf.

(35) Hepgorer Erthygl 39b.

(36) Yn Erthygl 41(c), hepgorer “other than those used in Annex II,”.

(37) Yn Erthygl 42, yn lle paragraff 1 rhodder—

“**1.** In addition to the tasks referred to in Article 34 of Regulation (EU) No 1303/2013 local action groups may also perform additional tasks delegated to them by the Managing Authority and/or the paying agency.”

(38) Hepgorer Erthygl 43.

(39) Yn Erthygl 45(5), yn lle “EUR 200 000” rhodder “£200 000”.

(40) Yn Erthygl 46(2)—

(a) hepgorer “in each of the constituent nations”;

(b) hepgorer “, or, before IP completion day, to the Commission,”.

(41) Yn Erthygl 47(6), ar ôl “public money,” mewnosoder “the”.

(42) Yn Erthygl 48—

(a) hepgorer y frawddeg olaf yn yr is-baragraff cyntaf;

(b) hepgorer yr ail is-baragraff.

(43) Yn Erthygl 49—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “following consultation with the Monitoring Committee” yn y ddau le y mae’n digwydd;

(b) ym mharagraff 2, yn lle “39b” rhodder “39a”.

(44) Hepgorer Erthyglau 51 i 59.

(45) Yn Erthygl 60—

(a) ym mharagraff 2, hepgorer “an” yn yr is-baragraff cyntaf;

(b) hepgorer paragraff 3.

(46) Yn Erthygl 63(1), yn y frawddeg gyntaf, yn lle “shall” rhodder “may”.

(47) Hepgorer Erthyglau 65 i 80.

(48) Yn Erthygl 82, hepgorer “as provided for in paragraph 1(j) of Article 8”.

(49) Yn lle pennawd Pennod I o Deitl IX rhodder “Powers”.

(50) Yn Erthygl 86—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “respective”;

(b) hepgorer paragraff 2.

(51) Hepgorer Erthyglau 88 i 90.

(52) Hepgorer Atodiadau I, Ia a II.

(53) Yn Atodiad III, yn lle “Member States” rhodder “The relevant authority”.

(54) Hepgorer Atodiadau V a VI.

**Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 480/2014**

**8.**—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 480/2014 sy’n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod darpariaethau cyffredin ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac sy’n gosod darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop(**1**), wedi ei ddiwygio, i’r graddau y mae’n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 1(a), hepgorer “and support under Regulation 508/2014”.

(3) Yn Erthygl 1A, hepgorer “and support under Regulation 508/2014”.

(4) Ym mhennawd Pennod II, hepgorer “and support under Regulation 508/2014”.

(5) Yn Erthygl 6(3)(a), hepgorer y geiriau o “or, in the case of a fund” hyd at y diwedd.

(6) Hepgorer Erthygl 7(3).

(7) Yn Erthygl 8, hepgorer “ex ante” ym mhob lle y mae’n digwydd.

(8) Yn Erthygl 9—

(**1**) EUR 2014/480, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/783, 2015/616 a 2019/625.

(a) yn lle’r pennawd rhodder “Management and control of financial instruments set up at national or regional level”;

(b) ym mharagraff 1—

(i) yn lle “national, regional transnational or cross border” rhodder “national or regional”;

(ii) hepgorer “referred to in Article 38(1)(b) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(iii) ym mhwynt (c), hepgorer y geiriau o “in accordance with Article 125(4)” hyd at “Regulation (EU) No 1305/2013”;

(iv) yn lle pwynt (d)(i) rhodder—

“(i) kept for the operation by the managing authority or the financial intermediary in order to provide evidence of the use of the funds for the intended purposes, of compliance with applicable law and of compliance with the criteria and the conditions for funding under the relevant programmes;”;

(v) ym mhwynt (e)—

(aa) ym mhwynt (ii), hepgorer “axis”;

(bb) ym mhwynt (ii), hepgorer “and support under Regulation 508/2014”;

(cc) hepgorer pwynt (ix);

(c) ym mharagraff 2, hepgorer yr is-baragraff cyntaf.

(9) Yn ail is-baragraff Erthygl 10, hepgorer y frawddeg olaf.

(10) Yn Erthygl 11—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “referred to in Article 42(1)(c) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(b) hepgorer paragraff 2.

(11) Yn Erthygl 12—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “pursuant to Article 42(1)(d) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(b) hepgorer paragraff 2.

(12) Yn Erthygl 13—

(a) hepgorer paragraff 1;

(b) ym mharagraff 2—

(i) hepgorer “pursuant to Article 42(1)(d) of that Regulation”;

(ii) ym mhwynt (a)—

(aa) ym mhwynt (i), hepgorer “or to the fund of funds,”;

(bb) ym mhwynt (ii), hepgorer “, or to the fund of funds,”;

(iii) ym mhwynt (b)—

(aa) ym mhwynt (i), hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(a) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(bb) ym mhwynt (ii), hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(a) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(cc) ym mhwynt (iii), hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(b) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(dd) ym mhwynt (iv), hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(a) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(ee) ym mhwynt (v), hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(a) of that Regulation”;

(iv) hepgorer yr is-baragraff olaf;

(c) ym mharagraff 3—

(i) hepgorer “laid down in Article 65(2) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(ii) hepgorer paragraff 3(a);

(d) hepgorer paragraff 4;

(e) ym mharagraff 6—

(i) hepgorer “1,”;

(ii) hepgorer “, including, where applicable, when it implements the fund of funds,”.

(13) Yn Erthygl 14—

(a) ym mharagraff 1—

(i) hepgorer “in accordance with Article 42(2) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(ii) hepgorer “for the period laid down in Article 42(2) of that Regulation,”;

(b) ym mharagraff 2—

(i) hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(a) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(ii) hepgorer “or the period referred to in Article 42(2) of that Regulation,”;

(c) ym mharagraff 3—

(i) hepgorer “within the meaning of Article 42(1)(a) of Regulation (EU) No 1303/2013”;

(ii) yn lle “, the end of the recovery procedure in the case of defaults or the

period referred to in Article 42(2) of that Regulation," rhodder "or the end of the recovery procedure in the case of defaults,";

(d) hepgorer paragraff 4.

(14) Yn Erthygl 16(b), hepgorer "or regional budgets or national public insurance".

(15) Yn Erthygl 19(3), hepgorer "or support under Regulation 508/2014".

(16) Yn Erthygl 20—

(a) ym mhwynt (c), hepgorer y frawddeg olaf;

(b) hepgorer pwynt (d).

(17) Yn Erthygl 21—

(a) hepgorer "(EU, Euratom)" yn y pennawd ac yn yr is-baragraff cyntaf;

(b) hepgorer pwynt (d).

**Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 807/2014**

**9.**—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a chyflwyno darpariaethau trosiannol(**1**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 1—

(a) ym mharagraff 1, ym mhwynt (i), ar ôl "animal" mewnosoder "health and";

(b) hepgorer paragraff 2.

(3) Yn Erthygl 3, yn lle "in their rural development programmes" rhodder "in the rural development programme".

(4) Hepgorer Erthygl 9.

(5) Yn Erthygl 10, yn lle "animal welfare" rhodder "animal health and welfare" ym mhob lle y mae'n digwydd (gan gynnwys y pennawd).

(6) Yn Erthygl 13(1)(c), hepgorer ", where such standards exist at national level".

(7) Yn Erthygl 14(1)(a), yn lle "animal welfare" rhodder "animal health and welfare".

(8) Hepgorer Erthyglau 16, 19 ac 20.

(9) Hepgorer Atodiadau I a II.

---

(**1**) EUR 2014/807, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/770.

### Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 808/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor

**10.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 808/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)(**1**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthyglau 2 a 4.

(3) Yn Erthygl 11(1), hepgorer y frawddeg olaf.

(4) Hepgorer Erthyglau 12 a 14 i 17.

(5) Hepgorer Atodiad I.

(6) Hepgorer Atodiad IV, V a VII.

### Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 821/2014

**11.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 821/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â threfniadau manwl ar gyfer trosglwyddo a rheoli cyfraniadau rhaglenni, adroddiadau ar offerynnau ariannol, nodweddion technegol mesurau gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer gweithrediadau a'r system i gofnodi a storio data(**2**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl A1, hepgorer "and support under Regulation 508/2014".

(3) Yn Erthygl 1—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer "axis" yn y ddau le y mae'n digwydd;

(b) ym mharagraff 2—

(i) hepgorer "Fund-specific";

(ii) hepgorer "constituting national co-financing and";

(c) ym mharagraff 3, hepgorer "constituting national co-financing" ym mhob lle y mae'n digwydd;

(d) ym mharagraff 4, yn lle "contributions from the programmes" rhodder "contribution from the programme";

(e) ym mharagraff 5, hepgorer "constituting national co-financing";

---

(**1**) EUR 2014/808, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/770.

(**2**) EUR 964/2014, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/783 a 2016/1157.

(f) ym mharagraff 6, hepgorer “constituting national co-financing”.

(4) Hepgorer Erthygl 2.

(5) Hepgorer Atodiad I.

**Diwygio Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 964/2014**

**12.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 964/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor mewn perthynas â thelerau ac amodau safonol ar gyfer offerynnau ariannol, wedi ei ddiwygio i’r graddau y mae’n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 1A, hepgorer “and support under Regulation 508/2014”.

(3) Yn Erthygl 3(1), hepgorer y geiriau o “or support under Regulation 508/2014” hyd at y diwedd.

(4) Yn Erthygl 4—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “or, if applicable, the fund of funds manager”;

(b) ym mharagraff 2, hepgorer y frawddeg olaf;

(c) ym mharagraff 4—

(i) hepgorer “fund of funds manager and the”;

(ii) hepgorer “fund of funds manager or of the”.

(5) Yn Erthygl 5—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “which shall contain the terms and conditions in accordance with Annex I.”;

(b) ym mharagraff 2, hepgorer pwynt (a).

(6) Hepgorer Erthygl 6(2).

(7) Hepgorer Erthygl 7(2).

(8) Hepgorer Erthygl 8(3).

(9) Yn Erthygl 8a—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn lle “small and medium-sized enterprises (SMEs)” rhodder “businesses”;

(ii) yn lle “investments in SMEs” rhodder “investments in businesses”;

(b) hepgorer paragraff 2.

(10) Hepgorer Atodiadau I i V.

# RHAN 4

## Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Ddomestig

**Diwygio Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014**

**13.** Hepgorer rheoliad 2(3) o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014(**1**).

**Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**2**) wedi eu diwygio, i'r graddau y maent yn ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

"**Trosi, aredig neu ailhadu tir a ddynodwyd yn laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif**

**16.**—(1) Ni chaiff buddiolwr drosi, aredig neu ailhadu darnau penodol o laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif oni bai—

(a) bod hysbysiad y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr aredig neu drosi darnau penodol o'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu eu trosi neu'n caniatáu i'r buddiolwr wneud hynny; neu

(b) bod cydsyniad i wneud hynny wedi ei roi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif" ("*environmentally sensitive permanent grassland*") yw—

(a) glaswelltir a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a

(b) glaswelltir y mae angen cydsyniad ysgrifenedig i aredig mewn perthynas ag ef yn unol ag adran 28E(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

---

(**1**) O.S. 2014/3222 (Cy. 327), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/688 (Cy. 132).

(**2**) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2016/1154, O.S. 2017/565 (Cy. 134), O.S. 2019/688 (Cy. 132), O.S. 2020/104 (Cy. 17) ac O.S. 2020/1556 (Cy. 328).

1981([1]) ond nad yw'r cydsyniad hwnnw wedi ei sicrhau;

mae i "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" yr ystyr a roddir i "*site of special scientific interest*" yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981."

# RHAN 5

## Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

**Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013**

**15.**—(1) Mae Rheoliad (EU) Rif 1306/2013, wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 63(5)(b), ar ôl "as well as" mewnosoder "in respect of unduly allocated payment entitlements and".

(3) Ar ôl Erthygl 76(2)(a) mewnosoder—

"(aa) the basic features, technical rules and quality requirements of the system for the identification and registration of payment entitlements provided for in Article 71;".

(4) Yn Erthygl 78(b), ar ôl "Article 72," mewnosoder "and applications for payment entitlements,".

**Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014**

**16.**—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Hepgorer is-baragraff olaf Erthygl 9(1).

(3) Yn Erthygl 12(b), yn lle "third of" rhodder "second subparagraph of".

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014**

**17.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn ail is-baragraff Erthygl 36(2), hepgorer y geiriau o "in accordance" hyd at y diwedd.

---

(**1**) 1981 p. 69.

*Enw*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

**Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

**Memorandwm Esboniadol**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

Lesley Griffiths AS
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
12 Mawrth 2021

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("yr Offeryn") yn gwneud diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu'r rhaglen datblygu gwledig er mwyn rhoi fframwaith domestig ar waith i gyllido cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE a sicrhau bod y fframwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.

At hynny, mae'r Offeryn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol er mwyn ymdrin â gwallau a sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae pum Rhan i'r Offeryn. Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaethau rhagarweiniol ar gyfer yr Offeryn. Mae Rhannau 2 i 5 yn cynnwys y diwygiadau o sylwedd, a nodir isod.

<u>Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Lorweddol</u>

Mae Rhan 2 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig:

- Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol");

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a'r cosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, cymeradwyo cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder.

<u>Cymorth Gwledig:</u> <u>Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir</u>

Mae Rhan 3 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol:

- Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n gosod darpariaethau cyffredin ar Gronfa Datblygu

Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac sy'n gosod darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1083/2006;

- Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005;

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod darpariaethau cyffredin ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac sy'n gosod darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop;

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac yn cyflwyno darpariaethau trosiannol;

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD);

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 821/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran trefniadau manwl ar gyfer trosglwyddo a rheoli cyfraniadau rhaglenni, adrodd ar offerynnau ariannol, nodweddion technegol gwybodaeth a mesurau cyfathrebu ar gyfer gweithrediadau a'r system i gofnodi a storio data;

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) 964/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) 1303/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran amodau a thelerau safonol ar gyfer offerynnau ariannol.

Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth ddomestig

Mae Rhan 4 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygu gwledig:

- Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014;

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014.

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

Mae Rhan 5 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol yn unig:

- y Rheoliadau Llorweddol;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Daw'r Offeryn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir yr Offeryn.

Gwneir yr Offeryn wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (c.21), a pharagraffau 2(1), 4(1) a 6(1) o Atodlen 5 i'r ddeddf honno, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16).

Yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gosodwyd drafft o'r Offeryn gerbron Senedd Cymru ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth drwy benderfyniad y Senedd.

Gosodwyd yr Offeryn Statudol drafft gerbron y Senedd yn wreiddiol ar 23 Chwefror. Ers hynny, nodwyd nifer o faterion technegol yr eir i'r afael â hwy yn y fersiwn ddiwygiedig hon.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ac Atodlen 5 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig a thaliadau uniongyrchol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno, i'r graddau y mae'n cael effaith mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Yn unol â gofynion Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Offeryn hwn yn darparu fframwaith deddfwriaethol i alluogi darparu cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig domestig newydd o 2021 ymlaen.

Roedd cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn cael ei ddarparu'n flaenorol drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a'i ddosbarthu drwy ail golofn y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, caiff cymorth ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig newydd ei ariannu'n ddomestig ac ni fydd yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE. Bydd gweithgareddau presennol a pharhaus a gyflawnir drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 yn parhau i weithredu o dan gyfraith yr UE.

Mae diben y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan yr Offeryn fel a ganlyn:

Rhan 2 – Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Lorweddol

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol") yn gosod y rheolau ar: gyllido gwariant o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), gan gynnwys gwariant ar ddatblygu gwledig; y system cynghori ffermwyr; y systemau rheoli a roddir ar waith gan yr Aelod-wladwriaethau; y system drawsgydymffurfio; cymeradwyo cyfrifon.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod darpariaethau sy'n ategu elfennau anhanfodol penodol o Reoliad (UE) Rhif 1306/2013 mewn perthynas â: gwrthod rhoi cymorth neu dynnu cymorth yn ôl; cosbau gweinyddol; rheolau ar gyfer cyflwyno ceisiadau neu ddiwygiadau ar ŵyl gyhoeddus, dydd Sadwrn neu ddydd Sul; diffiniadau penodol er mwyn sicrhau y caiff y system integredig ei rhoi ar waith yn gyson; nodweddion sylfaenol a rheolau technegol a gofynion ansawdd; y sail ar gyfer cyfrifo cymorth; rheolau ychwanegol i gyfryngwyr sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer rhoi'r cymorth; trawsgydymffurfio.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 mewn perthynas â: hysbysiadau i'r Comisiwn i ddiogelu buddiannau ariannol yr Undeb; archwiliadau gweinyddol ac archwiliadau yn y fan a'r lle; mesurau a dulliau rheoli ar gyfer nodi lefelau tetrahydrocanabinol mewn cywarch; sefydliadau cydadrannol at ddibenion gwneud taliadau cnwd-benodol ar gyfer cotwm; ceisiadau am gymorth a hawliadau am daliadau; cosbau gweinyddol; diffyg cydymffurfio; trosglwyddo daliadau; gwneud taliadau ymlaen llaw.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, cymeradwyo cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder.

Rhan 3 – Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 yn gosod y rheolau cyffredin sy'n gymwys i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), sy'n gweithredu o dan fframwaith cyffredin ('Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd'). Mae hefyd yn gosod y darpariaethau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn effeithiol a'u cydgysylltu â'i gilydd ac ag offerynnau eraill yr Undeb;

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 yn gosod rheolau cyffredinol ynglŷn â chymorth yr Undeb ar gyfer datblygu gwledig, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ("EAFRD") ac a sefydlir gan Reoliad (UE) Rhif 1306/2013. Mae'n nodi'r amcanion y bydd polisi datblygu gwledig yn cyfrannu atynt a blaenoriaethau perthnasol yr Undeb ar gyfer datblygu gwledig; yn amlinellu'r cyd-destun strategol ar gyfer polisi datblygu gwledig; yn diffinio'r mesurau sydd i'w mabwysiadu er mwyn rhoi polisi datblygu gwledig ar waith; yn gosod rheolau ar raglennu, rhwydweithio, rheoli, monitro a gwerthuso ar sail cyfrifoldebau a rennir rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn a rheolau i sicrhau y caiff EAFRD ei chydgysylltu ag offerynnau eraill yr Undeb.

- O ran cymorth ar gyfer datblygu gwledig, mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/2014 dyddiedig 3 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn nodi: darpariaethau o ran y meini prawf ar gyfer pennu lefel y cywiriad ariannol sydd i'w gymhwyso o dan y fframwaith perfformio; rheolau mewn perthynas ag offerynnau ariannol; y dull o gyfrifo refeniw net wedi'i ddisgowntio gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw net ar ôl iddynt gael eu cwblhau; a'r gyfradd safonol ar gyfer costau anuniongyrchol a'r dulliau cysylltiedig sy'n gymwys i bolisïau eraill yr Undeb.

- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 yn gosod darpariaethau sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 o ran: ffermwyr ifanc; cynlluniau cyfnewid rhwng ffermydd a choedwigoedd ac ymweliadau â ffermydd a choedwigoedd; cynlluniau ansawdd — hyrwyddo; datblygu ffermydd a busnesau; coedwigo a chreu coetir; amaeth-amgylchedd-hinsawdd; gwarchod adnoddau genetig mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth; atal cyllido dwbl; lles anifeiliaid; cydweithredu; benthyciadau masnachol i gronfeydd cydfuddiannol; buddsoddiadau; trosi neu addasu ymrwymiadau; ymrwymiadau estynedig neu newydd.

- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 yn gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 o ran cyflwyno rhaglenni, gweithdrefnau ac amserlenni datblygu

gwledig i'w cymeradwyo a diwygio rhaglenni a fframweithiau cenedlaethol datblygu gwledig, cynnwys fframweithiau cenedlaethol, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig, rhoi mesurau datblygu gwledig penodol ar waith, monitro a gwerthuso ac adrodd.

- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 821/2014 dyddiedig 28 Gorffennaf 2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran trefniadau manwl ar gyfer trosglwyddo a rheoli cyfraniadau rhaglenni, adrodd ar offerynnau ariannol, nodweddion technegol gwybodaeth a mesurau cyfathrebu a mesurau gwelededd ar gyfer gweithrediadau a'r system i gofnodi a storio data.

- Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) Rhif 964/2014 dyddiedig 11 Medi 2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran amodau a thelerau safonol ar gyfer offerynnau ariannol.

Rhan 4 – Datblygu Gwledig: <u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>

- Mae Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 yn rheoleiddio rhaglenni newydd a weinyddir gan Weinidogion Cymru ac yn darparu fframwaith cyfreithiol domestig ar gyfer gweithredu deddfwriaeth yr UE yng Nghymru.

- Mae Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, ar gyfer gweithredu Rheoliadau Ewropeaidd (gan gynnwys y Rheoliadau Llorweddol a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol a'r Rheoliadau Dirprwyedig a Gweithredu cysylltiedig) sy'n ymwneud â gweinyddu PAC yr UE. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â rheoli a gorfodi mewn perthynas â thaliadau a roddir yn uniongyrchol i ffermwyr o dan Daliadau Uniongyrchol, dyddiadau cymwys ar gyfer ceisiadau, maint lleiaf daliadau, gweithdrefnau ar gyfer dyledion, pwerau mynediad, troseddau a chosbau a rheolau ynglŷn â thrawsgydymffurfio.

<u>Rhan 5 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol</u>

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin (“y Rheoliadau Llorweddol”) yn cael ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn cael ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.
- Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd

Ewrop a'r Cyngor yn cael ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

**Pam y mae'n cael ei newid?**

Mae'r Offeryn hwn yn ei gwneud yn bosibl i gymorth ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru barhau y tu hwnt i Ddiwedd Cyfnod Gweithredu'r UE.

Mae'r Offeryn hwn yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a gweinyddu cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn ogystal â dileu darpariaethau nad ydynt yn gymwys yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE o gyfraith yr UE a ddargedwir. Er enghraifft, mae'r Offeryn yn dileu rheolau sy'n ymwneud â chynnwys rhaglenni datblygu gwledig a diwygio rhaglenni datblygu gwledig a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac a oedd yn cael eu monitro ganddo yn flaenorol. Mae hyn yn cysoni'r gofynion ar gyfer cymeradwyo a monitro cynnwys a diwygiadau i raglenni datblygu gwledig â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd.

Mae'r Offeryn hwn hefyd yn ymgorffori cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r genhadaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer cymorth ar gyfer datblygu gwledig fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth.

At hynny, mae'r Offeryn yn diwygio deddfwriaeth ynglŷn â'r cynllun taliadau uniongyrchol yng Nghymru er mwyn ymdrin â gwallau a sicrhau ei bod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

## 5. Ymgynghori

Mae'r diwygiadau yn Rhannau 2 – 4 o'r Offeryn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Cynhaliwyd 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i gynnal a symleiddio Cymorth Amaethyddol i Ffermwyr a'r Economi Wledig' rhwng 31 Gorffennaf a 23 Hydref 2020.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogion o'r farn bod y diwygiadau hyn yn ddiwygiadau technegol arferol i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu gwledig sydd, er enghraifft, yn dileu gofynion ar gyfer cymeradwyo a diwygio rhaglenni datblygu gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd am na fydd hyn yn weithredol ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE. Mae hyn yn cysoni proses gweinyddu a llywodraethu cymorth ar gyfer datblygu gwledig â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd. Ni chaiff yr Offeryn unrhyw effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol.

O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Atodiad**

**Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

**Rhan 1**

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

| **Datganiad** | **Lle y ceir y gofyniad** | **I bwy y mae'n gymwys?** | **Yr hyn sy'n ofynnol** |
|---|---|---|---|
| Sifftio | Paragraffau 3(3), 3(7) a 17(3) a 17(7) o Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) er mwyn gwneud OS Negyddol | Rhaid cwblhau asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig a allai effeithio ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol a'r sector gwirfoddol. |
| Priodoldeb | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. | Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol. |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. | Esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam gweithredu rhesymol. |
| Cydraddoldebau | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn | Esbonio pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a deddfwriaeth a wnaed oddi tanynt. Datgan bod y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Atodlen 2 ar y cyd. | Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waharddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020. |
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Yn ogystal â'r rhwymedigaeth statudol, mae'r Llywodraeth hefyd wedi gwneud ymrwymiad gwleidyddol i gynnwys y datganiadau hyn ochr yn ochr â holl Offerynnau Statudol Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. | Esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, e.e. ai dim ond mân newidiadau neu newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd i greu trosedd. | Nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd a'r gosb sydd ynghlwm wrthi. |
| Is-ddirprwyo | Paragraff 30, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 10(1), 12 a rhan 1 o Atodlen 4 er mwyn creu pŵer deddfwriaethol nad yw'n arferadwy gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod | Datgan pam mae'n briodol creu'r fath bŵer a is-ddirprwywyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Datganoledig drwy Offeryn Statudol. | |
| Brys | Paragraff 34, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraffau 4 neu 14, Atodlen 7. | Datgan y rhesymau pam mae'r Gweinidog o'r farn bod yr OS yn fater o frys. |
| Esboniad lle mae rheoliadau yn cael eu diwygio o dan a.2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | Paragraff 13, Atodlen 8 | Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan a. 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | Datganiad sy'n esbonio'r rhesymau da dros addasu'r offeryn a wnaed o dan a. 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, sy'n nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, ac yn esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Datganiad craffu lle mae rheoliadau yn cael eu diwygio o dan a.2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | Paragraff 16, Atodlen 8 | Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan a. 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. | Datganiad:<br><br>a) sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod perthnasol wedi'u cymryd er mwyn gwneud yr offeryn drafft a gyhoeddir yn unol â pharagraff 16(2), Atodlen 8 sydd ar gael i ddau Dŷ'r Senedd,<br><br>b) sy'n cynnwys gwybodaeth am ymateb yr awdurdod perthnasol i — (i) unrhyw argymhellion a wnaed gan un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi ynghylch yr offeryn drafft a gyhoeddwyd, a (ii) unrhyw sylwadau eraill a gyflwynwyd i'r awdurdod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | perthnasol ar yr offeryn drafft a gyhoeddwyd,<br><br>c) sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod perthnasol o'r farn ei bod yn briodol mewn perthynas â chraffu ar yr offeryn neu'r offeryn drafft sydd i'w osod. |

**Rhan 2**

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**1. Datganiad(au) sifftio**

Ddim yn gymwys.

**2. Datganiad priodoldeb**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 yn gwneud mwy nag sy'n briodol.”

Mae hyn yn wir am fod yr Offeryn yn cywiro diffygion, sy'n codi yn sgil ymadael â'r UE, ac yn sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol ar waith i ariannu cynlluniau datblygu gwledig newydd yn effeithiol yng Nghymru ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae'r Offeryn yn gwneud newidiadau sy'n fach ond sy'n cael effaith sy'n galluogi dull wedi'i deilwra o ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n gyfredol a'i bod yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae hyn yn unol â pholisi'r Llywodraeth.

**3. Rhesymau da**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr Offeryn hwn ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gam gweithredu rhesymol.”

Y rheswm dros hyn yw bod y darpariaethau yn sicrhau y bydd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan yr Offeryn hwn yn darparu ar gyfer pontio'n ddidrafferth o'r Cyfnod Gweithredu a nes i gymorth amaethyddol a chymorth ar gyfer datblygu gwledig gael ei ddiwygio yn y dyfodol.

**4. Cydraddoldebau**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol:

“Nid yw'r Offeryn yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.”

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r Offeryn, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani.”

**5. Esboniadau**

Mae'r datganiad o esboniadau wedi'i wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y Memorandwm Esboniadol hwn.

**6. Troseddau**

Ddim yn gymwys/gofynnol.

**7. Is-ddirprwyo deddfwriaeth**

Ddim yn gymwys/gofynnol.

**8. Brys**

Ddim yn gymwys/gofynnol.

# SL(5)792 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau –

(a) yn estyn dyddiad dod i ben y prif Reoliadau i 28 Mai 2021;

(b) yn dirymu cyfyngiadau sy'n gwahardd disgyblion a myfyrwyr rhag mynd i ysgolion a cholegau addysg bellach;

(c) yn darparu y gellir defnyddio mangreoedd sydd ar gau i'r cyhoedd (megis theatrau) i ymarfer;

(d) yn darparu na waherddir digwyddiad chwaraeon, os athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol, o dan y cyfyngiadau sy'n gymwys i Lefel Rhybudd 3;

(e) yn gwneud mân newidiadau technegol i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r broses i bobl gytuno i ffurfio aelwydydd estynedig, er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad oes person sy'n 18 oed neu drosodd ar bob aelwyd;

(f) yn atgynhyrchu'r newidiadau a wnaed o'r blaen i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, a oedd yn galluogi'r rhai o dan 18 oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain i ffurfio aelwyd estynedig, ar gyfer Lefelau Rhybudd 1, 2 a 3;

(g) yn gwneud addasiadau dros dro i'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys i ardal Lefel Rhybudd 4 o dan Atodlen 4 i'r prif Reoliadau, sydd—

(i) yn estyn cyfnod para'r addasiadau dros dro a wnaed o'r blaen tan ddiwedd y diwrnod ar 26 Mawrth 2021

(ii) o 13 Mawrth 2021, yn newid y gwaharddiad ym mharagraff 1 o Atodlen4 ar ymadael â'r man lle y mae person yn byw (heb esgus rhesymol) fel y daw'n waharddiad ar ymadael â'r ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw (heb esgus rhesymol);

(iii) o 13 Mawrth 2021, yn darparu bod gan berson esgus rhesymol dros ymadael â'r ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw, ac ymgynnull, wrth ymweld â ffrind neu berthynas mewn cartref gofal, cyhyd ag y bo ganddo ganiatâd y person sy'n gyfrifol am y cartref gofal;

(iv) o 13 Mawrth 2021, yn darparu y caiff hyd at 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed na gofalwyr) o ddim mwy na 2 aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat, at unrhyw ddiben;

(v) o 13 Mawrth 2021, yn darparu na waherddir digwyddiad chwaraeon os athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol;

(vi) o 15 Mawrth 2021, yn caniatáu i salonau gwallt a barbwyr agor at ddibenion torri, steilio neu liwio gwallt (drwy apwyntiad),

(vii) o 13 Mawrth 2021, yn caniatáu i gyfleusterau chwaraeon ac ymarfer corff awyr agored agor;

(viii) o 22 Mawrth 2021, yn darparu y caiff archfarchnadoedd a siopau eraill sy'n gwerthu sawl math o nwyddau, sydd eisoes ar agor i'r cyhoedd ac sy'n gwerthu'n bennaf y nwyddau y caniateir eu gwerthu yn unol â chyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, werthu nwyddau eraill yn eu mangreoedd;

(ix) o 22 Mawrth 2021, yn caniatáu i ganolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion agor.

Mae darpariaeth wedi ei gwneud i wahardd ymgynnull at ddibenion ymgyrchu gwleidyddol, fel canfasio. Caniateir y rhan fwyaf o weithgareddau eraill sy'n ymwneud ag etholiad, er enghraifft, mynd i bleidleisio neu ddosbarthu deunydd ymgyrchu.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 i newid eu dyddiad dod i ben i 28 Mai 2021 ac yn gwneud addasiad dros dro sy'n ganlyniadol ar ddiwygiadau eraill a wneir i'r prif Reoliadau).

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Rheoliad 2(6)(c) yn dirymu paragraff 5 o Atodlen 3 i'r prif Reoliadau. Fodd bynnag, mae paragraff 4(2) o Atodlen 3 yn croesgyfeirio at baragraff 5.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Rheoliad 2(8)(d) yn ychwanegu paragraff newydd (ba) at Atodlen 5 i'r prif Reoliadau. Mae paragraff (ba) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Atodlen 4 i'r prif Reoliadau gael ei darllen fel pe bai is-baragraff (6) newydd wedi'i ychwanegu at baragraff 1 o Atodlen 4, ymhlith pethau eraill. Fodd bynnag, mae is-baragraff 6 i baragraff 1 yn Atodlen 4 yn bod eisoes.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Rheoliad 2(8)(e) yn ychwanegu paragraff (cb) at Atodlen 5 i'r prif Reoliadau. Mae'r ddarpariaeth honno'n ei gwneud yn ofynnol i drin paragraff 5 o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau fel pe bai wedi'i hepgor. Fodd bynnag, mae paragraff 4(2) o Atodlen 4 yn croesgyfeirio at baragraff 5 ac nid yw'n cael ei drin fel pe bai wedi'i hepgor.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawl amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.*

*Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.*"

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y rhoddir effaith i'r newidiadau a ddaw i rym drwy gyfrwg y Rheoliadau drwy, i raddau helaeth, ei gwneud yn ofynnol i ddarllenydd y Rheoliadau ddarllen amrywiol ddarpariaethau mewn ffordd benodol. Yn benodol, gwahoddir darllenwyr i ddarllen Atodlen 4 i'r prif Reoliadau fel pe bai geiriad yr Atodlen honno'n wahanol i'r geiriad sy'n ymddangos ynddi mewn gwirionedd. Defnyddiwyd y dull hwn yn lle diwygio'r prif Reoliadau.

Rydym yn cydnabod mai'r rheswm dros hyn, o bosibl, yw oherwydd bod y newidiadau'n gyfyngedig o ran amser. Rydym hefyd yn cydnabod y pwysau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn hollbwysig i'r rhai sy'n byw yng Nghymru. Mae defnyddio'r dull cymhleth hwn yn golygu mai dim ond darllenwyr medrus sydd â phrofiad o ddarllen deddfwriaeth fydd yn gallu dod o hyd i wir effaith y Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae diffyg tryloywder yn y gyfraith yn y maes pwysig hwn.

Nodwn hefyd mai dull tebyg a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021. Ni wnaethom gyflwyno adroddiad ar y dull a ddefnyddiwyd bryd hynny oherwydd roedd y newidiadau'n llawer llai helaeth. Yn yr achos hwn, mae'r newidiadau'n bellgyrhaeddol. Mae hyn yn ei gwneud yn amlycach fyth bod dull mor gymhleth wedi'i ddefnyddio.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn dilyn y pwynt blaenorol, mae Rheoliad 3 yn darparu bod yn rhaid darllen Rheoliad 6(2)(d) yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 fel pe bai'n cyfeirio'r darllenydd at baragraff 2A o Atodlen 4 i'r prif

Reoliadau (yn hytrach na pharagraff 2 o'r Atodlen honno). Fodd bynnag, nid oes paragraff 2A yn Atodlen 4.

Yn hytrach, mae Rheoliad 8(d) yn y Rheoliadau hyn yn ychwanegu is-baragraff (ba) newydd at baragraff 2 o Atodlen 5 i'r prif Reoliadau. Mae'r is-baragraff newydd hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i Atodlen 4 i'r prif Reoliadau gael ei darllen fel pe bai paragraff 2 a 2A newydd yn cael eu hychwanegu at Atodlen 4.

Unwaith eto, mae diffyg tryloywder gan na fydd y darllenydd yn gallu dod o hyd i baragraff 2A yn Atodlen 4 yn y prif Reoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwyntiau Craffu Technegol 1 - 3: ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y materion a godwyd.

Mewn perthynas â phwyntiau 1 a 3, mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai'r croesgyfeiriadau at baragraff 5 o Atodlen 3 a pharagraff 5 o Atodlen 4 fod wedi cael eu hepgor neu wedi cael eu trin fel pe baent wedi eu hepgor, yn eu trefn.

Mewn perthynas â phwynt 2, mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai'r is-baragraff newydd, sydd i'w ddarllen fel pe bai wedi ei gynnwys ym mharagraff 1 o Atodlen 4, gael ei rifo'n (7), nid (6).

Bydd y Llywodraeth yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol ar y cyfle cyntaf.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 7: y dull drafftio i wneud addasiadau annhestunol i ofynion a chyfyngiadau Atodlen 4**

Fel y'i nodir yn adroddiad drafft y Pwyllgor, mae rhai o'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau wedi eu gwneud drwy addasiadau (annhestunol) dros dro i gyfyngiadau a gofynion Lefel Rhybudd 4 a nodir yn Atodlen 4. Mae'r addasiadau wedi eu nodi yn Atodlen 5.

Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau mai rhan o'r rhesymeg dros wneud y newidiadau yn y ffordd hon yw eu bod yn gyfyngedig o ran amser oherwydd y dymuniad i gadw'r Lefelau Rhybudd fel y'u cynigiwyd yn wreiddiol (yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau parhaol). Felly, ar ddiwedd y cyfnod perthnasol, bydd yr addasiadau yn peidio â bod yn gymwys a bydd cyfyngiadau a gofynion Lefel Rhybudd 4 yn dychwelyd i'r rheini y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 4. At ei gilydd, mae'r Llywodraeth yn ystyried mai dyna'r ffordd fwyaf priodol o wneud y newidiadau angenrheidiol tra bo prif ofynion a strwythur craidd Atodlen 4 yn cael eu cadw. Er bod y Llywodraeth yn gobeithio na fydd hyn yn angenrheidiol, byddai'r system y darperir ar ei chyfer yn y Rheoliadau yn galluogi dychwelyd i gyfyngiadau llymach yn gyflym, naill ai am Gymru gyfan neu am ran o Gymru.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno bod y darpariaethau hyn o bwys mawr i'r cyhoedd, ac wedi ymrwymo i sicrhau bod y gyfraith mor hygyrch â phosibl. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi cyhoeddi dogfen eglurhaol sy'n dangos cyfyngiadau a gofynion Lefel Rhybudd 4 fel y maent wedi eu haddasu dros dro gan Atodlen 5. Mae'r ddogfen wedi ei chyhoeddi wrth ochr y prif dogfen eglurhaol sy'n dangos y prif Reoliadau cyfyngiadau fel y'u diwygiwyd , ar tudalennau 'Coronafeirws a'r gyfraith' ar LLYW.cymru. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried ffyrdd o dynnu sylw'r cyhoedd at y ddogfen hon os bydd y dull drafftio hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio mewn rheoliadau diwygio yn y dyfodol (e.e. drwy ddefnyddio troednodiadau i'r rheoliadau perthnasol, neu yn y Memorandwm Esboniadol). Mae hyn yn ategu nifer o ddogfennau esboniadol eraill a ddarparwyd eisoes gan y Llywodraeth.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 8: y croesgyfeiriad at baragraff 2A o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau wrth addasu rheoliad 6 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.**

Mae adroddiad drafft y Pwyllgor yn cwestiynu hygyrchedd y newid a wneir gan reoliad 3(2) o'r Rheoliadau (Diwygio) (Rhif 5). Mae'r rheoliad hwnnw yn darparu bod rheoliad 6(2)(d) o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc. i'w ddarllen, tan ddiwedd y diwrnod ar 26 Mawrth 2021, fel pe bai "paragraff 2A" wedi ei roi yn lle "paragraff 2" (o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau cyfyngiadau). Mae'n ofynnol i Atodlen 4 o'r prif Reoliadau cyfyngiadau gael ei darllen fel pe bai'n cynnwys paragraff 2A yn rhinwedd rheoliad 2(8)(d) o'r Rheoliadau (Diwygio) (Rhif 5).

Mae'r Rheoliadau (Diwygio) (Rhif 5) wedi eu drafftio fel bod rheoliad 3(2) yn dilyn yn fuan ar ôl rheoliad 2(8)(d) (y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Atodlen 4 gael ei darllen fel pe bai'n cynnwys paragraff 2A). Felly, mae'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn ddigon clir o gyd-destun rheoliad 3(2) fod y croesgyfeiriad at y paragraff 2A y mae'n ofynnol ei ddarllen yn Atodlen 4 o'r prif Reoliadau cyfyngiadau.

Fodd bynnag, bydd y Llywodraeth yn ystyried ffyrdd ychwanegol o sicrhau bod darpariaethau o'r fath yn hygyrch, os bydd angen gwneud addasiadau canlyniadol tebyg mewn unrhyw ddiwygiadau i'r prif Reoliadau cyfyngiadau yn y dyfodol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 307 (Cy. 79)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn estyn dyddiad dod i ben y prif Reoliadau i 28 Mai 2021;

(b) yn dirymu cyfyngiadau sy'n gwahardd disgyblion a myfyrwyr rhag mynd i ysgolion a cholegau addysg bellach;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) yn ei gwneud yn glir y caniateir defnyddio mangreoedd sydd ar gau i'r cyhoedd, megis theatrau, i ymarfer ar gyfer perfformiad;

(d) yn darparu na waherddir digwyddiad chwaraeon, os athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol, o dan y cyfyngiadau sy'n gymwys i Lefel Rhybudd 3;

(e) yn gwneud mân newidiadau technegol i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r broses i bobl gytuno i ffurfio aelwydydd estynedig, er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad oes person sy'n 18 oed neu drosodd ar bob aelwyd;

(f) yn atgynhyrchu'r newidiadau a wnaed o'r blaen i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, a oedd yn galluogi'r rhai o dan 18 oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain i ffurfio aelwyd estynedig, ar gyfer Lefelau Rhybudd 1, 2 a 3;

(g) yn gwneud addasiadau dros dro i'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys i ardal Lefel Rhybudd 4 o dan Atodlen 4 i'r prif Reoliadau, sydd—

(i) yn estyn cyfnod para'r addasiadau dros dro a wnaed o'r blaen tan ddiwedd y diwrnod ar 26 Mawrth 2021;

(ii) o 13 Mawrth 2021, yn newid y gwaharddiad ym mharagraff 1 o Atodlen 4 ar ymadael â'r man lle y mae person yn byw (heb esgus rhesymol) fel y daw'n waharddiad ar ymadael â'r ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw (heb esgus rhesymol);

(iii) o 13 Mawrth 2021, yn darparu bod gan berson esgus rhesymol dros ymadael â'r ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw, ac ymgynnull, wrth ymweld â ffrind neu berthynas mewn cartref gofal, cyhyd ag y bo ganddo ganiatâd y person sy'n gyfrifol am y cartref gofal;

(iv) o 13 Mawrth 2021, yn darparu y caiff hyd at 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed na gofalwyr) o ddim mwy na 2 aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat, at unrhyw ddiben;

(v) o 13 Mawrth 2021, yn darparu na waherddir digwyddiad chwaraeon os athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol;

(vi) o 15 Mawrth 2021, yn caniatáu i salonau gwallt a barbwyr agor at ddibenion torri,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

steilio neu liwio gwallt (yn unig), drwy apwyntiad;

(vii) o 13 Mawrth 2021, yn caniatáu i gyfleusterau chwaraeon ac ymarfer corff awyr agored agor;

(viii) o 22 Mawrth 2021, yn darparu y caiff archfarchnadoedd a siopau eraill sy'n gwerthu sawl math o nwyddau, sydd eisoes ar agor i'r cyhoedd ac sy'n gwerthu'n bennaf y nwyddau y caniateir eu gwerthu yn unol â chyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, werthu nwyddau eraill yn eu mangreoedd;

(ix) o 22 Mawrth 2021, yn caniatáu i ganolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion agor;

(h) yn gwneud mân newidiadau eraill a newidiadau canlyniadol eraill.

Er gwaethaf yr esgus rhesymol i bobl ymgynnull i weithio neu i ddarparu gwasanaethau elusennol, ac er gwaethaf yr addasiad dros dro i Atodlen 4 sy'n caniatáu i 4 o bobl o ddim mwy na 2 aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored at unrhyw ddibenion, mae darpariaeth wedi ei gwneud i wahardd ymgynnull at ddibenion ymgyrchu gwleidyddol (er enghraifft, canfasio o ddrws i ddrws). Caniateir y rhan fwyaf o weithgareddau eraill sy'n ymwneud ag etholiad (er enghraifft, mynd i bleidleisio neu ddosbarthu deunydd ymgyrchu).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 235)) i newid eu dyddiad dod i ben i 28 Mai 2021 (ac yn gwneud addasiad dros dro i reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny sy'n ganlyniadol ar ddiwygiadau a wneir i'r prif Reoliadau).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 307 (Cy. 79)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

*Gwnaed* *am 2.56 p.m. ar 12 Mawrth 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 6.00 p.m. ar 12 Mawrth 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) i (4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio is-baragraffau (f) ac (h) o reoliad 2(8), i rym yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 13 Mawrth 2021.

(3) Daw is-baragraff (f) o reoliad 2(8) i rym ar 15 Mawrth 2021.

(4) Daw is-baragraff (h) o reoliad 2(8) i rym ar 22 Mawrth 2021.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn lle "31 Mawrth" rhodder "28 Mai".

(3) Yn rheoliad 31(3)(**2**), hepgorer ", paragraff 5 o Atodlen 3".

(4) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (2), yn lle "un oedolyn" rhodder "anghenion llesiant";

(ii) yn is-baragraff (3), yn lle "i'r holl aelodau o'r aelwydydd sy'n oedolion" rhodder "i holl aelodau'r aelwydydd";

(iii) yn is-baragraff (6), hepgorer "sy'n oedolyn";

(iv) ar ôl is-baragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Mae is-baragraff (6B) yn gymwys—

---

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40) ac O.S. 2021/210 (Cy. 52).

(**2**) Fel y'i diwygiwyd gan reoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) pan fo person a fyddai'n aelod o aelwyd estynedig, neu sy'n aelod o aelwyd estynedig, yn blentyn, a

(b) pan fo person ("P") a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn aelod o aelwyd y plentyn.

(6B) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) mae'r cytundeb sy'n ofynnol gan is-baragraff (3) i'w roi gan P (ac nid gan y plentyn), a

(b) mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig yn unol ag is-baragraff (6) os yw P yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig (pa un a yw'r plentyn yn peidio â chytuno hefyd ai peidio).";

(v) ar ôl is-baragraff (8) mewnosoder—

"(9) Yn y paragraff hwn, ystyr "aelwyd anghenion llesiant" yw—

(a) aelwyd un oedolyn;

(b) aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion.";

(b) ym mharagraff 7(2)(c), hepgorer "ar gyfer darllediad o'r fath".

(5) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (2), yn lle "un oedolyn" rhodder "anghenion llesiant";

(ii) yn is-baragraff (3), yn lle "i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion" rhodder "i holl aelodau'r aelwydydd";

(iii) yn is-baragraff (7), hepgorer "sy'n oedolyn";

(iv) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(7A) Mae is-baragraff (7B) yn gymwys—

(a) pan fo person a fyddai'n aelod o aelwyd estynedig, neu sy'n aelod o aelwyd estynedig, yn blentyn, a

(b) pan fo person ("P") a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn aelod o aelwyd y plentyn.

(7B) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) mae'r cytundeb sy'n ofynnol gan is-baragraff (3) i'w roi gan P (ac nid gan y plentyn), a

(b) mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig yn unol ag is-baragraff (7) os yw P yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

bai'n rhan o'r aelwyd estynedig (pa un a yw'r plentyn yn peidio â chytuno hefyd ai peidio).";

(v) ar ôl is-baragraff (9) mewnosoder—

"(10) Yn y paragraff hwn, ystyr "aelwyd anghenion llesiant" yw—

(a) aelwyd un oedolyn;

(b) aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion.";

(b) ym mharagraff 7(2)(c), hepgorer "ar gyfer darllediad o'r fath".

(6) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (2), yn lle "un oedolyn" rhodder "anghenion llesiant";

(ii) yn is-baragraff (3), yn lle "i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion" rhodder "i holl aelodau'r aelwydydd";

(iii) yn is-baragraff (7), hepgorer "sy'n oedolyn";

(iv) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(7A) Mae is-baragraff (7B) yn gymwys—

(a) pan fo person a fyddai'n aelod o aelwyd estynedig, neu sy'n aelod o aelwyd estynedig, yn blentyn, a

(b) pan fo person ("P") a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn aelod o aelwyd y plentyn.

(7B) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) mae'r cytundeb sy'n ofynnol gan is-baragraff (3) i'w roi gan P (ac nid gan y plentyn), a

(b) mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig yn unol ag is-baragraff (7) os yw P yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig (pa un a yw'r plentyn yn peidio â chytuno hefyd ai peidio).";

(v) ar ôl is-baragraff (9) mewnosoder—

"(10) Yn y paragraff hwn, ystyr "aelwyd anghenion llesiant" yw—

(a) aelwyd un oedolyn;

(b) aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion.";

(b) ym mharagraff 4(3)(c), ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder—

"(v) digwyddiad chwaraeon elît os athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol.";

(c) hepgorer paragraff 5;

(d) ym mharagraff 7(2)(c), hepgorer "ar gyfer darllediad o'r fath".

(7) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (2), yn lle "i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion" rhodder "i holl aelodau'r aelwydydd";

(ii) yn is-baragraff (5), hepgorer "sy'n oedolyn";

(iii) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Mae is-baragraff (5B) yn gymwys—

(a) pan fo person a fyddai'n aelod o aelwyd estynedig, neu sy'n aelod o aelwyd estynedig, yn blentyn, a

(b) pan fo person ("P") a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn aelod o aelwyd y plentyn.

(5B) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) mae'r cytundeb sy'n ofynnol gan is-baragraff (3) i'w roi gan P (ac nid gan y plentyn), a

(b) mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig yn unol ag is-baragraff (5) os yw P yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig (pa un a yw'r plentyn yn peidio â chytuno hefyd ai peidio).";

(b) hepgorer Rhan 3A.

(8) Ym mharagraff 2 o Atodlen 5—

(a) yn lle "o ddechrau'r diwrnod ar 20 Chwefror 2021 tan ddiwedd y diwrnod ar 12 Mawrth 2021" rhodder "sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 26 Mawrth 2021";

(b) o flaen paragraff (a) mewnosoder—

"(za) mae rheoliad 28 i'w ddarllen fel pe bai—

(i) "2A(1)" wedi ei roi yn lle "2(1)" ym mharagraff (3)(d)";

(ii) "ardal sy'n lleol i'r" wedi ei fewnosod ar ôl "i ffwrdd o'r" ym mharagraff (5);

(iii) "ardal sy'n lleol i'r" wedi ei fewnosod ar ôl "ddychwelyd i'r" ym mharagraff (5)(a);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iv) "ardal honno" wedi ei roi yn lle "man hwnnw" ym mharagraff (5)(b);

(zb) mae rheoliad 31(3) i'w ddarllen fel pe bai "neu baragraff 5 o Atodlen 2" wedi ei roi yn lle ", paragraff 5 o Atodlen 2 neu baragraff 5 o Atodlen 4";

(zc) mae rheoliad 37(1)(d) i'w ddarllen fel pe bai ", 2(1) neu 2A(1)" wedi ei roi yn lle "neu 2(1)";";

(c) hepgorer paragraffau (a) a (b);

(d) o flaen paragraff (c) mewnosoder—

"(ba) mae paragraff 1 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai—

(i) "Gofyniad i aros yn lleol" wedi ei roi yn lle'r pennawd;

(ii) "ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r ardal honno" wedi ei roi yn lle "man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw" yn is-baragraff (1);

(ii) "ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw neu'n aros i ffwrdd o'r ardal honno" wedi ei roi yn lle "man lle y mae'n byw, neu'n aros i ffwrdd o'r man hwnnw," yn is-baragraff (2)(a);

(iii) yn is-baragraff (3)—

(aa) "ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r ardal honno" wedi ei roi yn lle "man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw" yn y geiriau o flaen paragraff (a);

(bb) wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (1)—

"(m) ymweld â pherson sy'n preswylio mewn cartref gofal, â chaniatâd darparwr y gwasanaeth.";

(iv) is-baragraff (4)(b) wedi ei hepgor;

(v) wedi ei roi yn lle is-baragraff (4)(f)—

"(f) gwneud ymarfer corff, pan fo'r ymarfer corff yn dechrau ac yn gorffen yn y man lle y mae'r person yn byw neu lle y mae aelod o aelwyd estynedig y person yn byw;";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(vi) is-baragraff (5) wedi ei hepgor;

(vii) wedi ei fewnosod ar y diwedd—

"(6) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 2A—

(a) ystyr "cartref gofal" yw mangre lle y darperir "gwasanaeth cartref gofal" o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**);

(b) mae i "darparwr gwasanaeth" yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(c) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.";

(bb) mae paragraff 2 o Atodlen 4 i'w drin fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn ei le—

**"Cyfyngiad ar gynulliadau mewn anheddau preifat**

**2.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad mewn annedd breifat oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath yn yr awyr agored os nad oes mwy na 4 person o ddim mwy na 2 aelwyd yn y cynulliad.

(3) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (2), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynulliad, nid yw'r canlynol i'w hystyried—

(a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu

(b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(4) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

(a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu

(b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (6) yn gymwys.

---

(**1**) 2016 dccc 2, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2017/1326 (Cy. 299) ac O.S. 2018/195 (Cy. 44).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

(a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;

(d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**), pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(f) symud cartref;

(g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;

(h) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (4)(b) yw bod y person yn—

(a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;

(b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;

(c) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—

---

(**1**) 2006 p. 47. Mewnosodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) yn byw yn yr un fangre, a

(ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.

(7) Er gwaethaf is-baragraffau (2) a (5)(b), ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad mewn annedd breifat at ddibenion darbwyllo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad.

(8) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

**Cyfyngiad ar gynulliadau mewn mannau cyhoeddus**

**2A.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd yn unman ac eithrio mewn annedd breifat oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath yn yr awyr agored—

(a) os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd estynedig, neu

(b) os nad oes mwy na 4 person o ddim mwy na 2 aelwyd yn y cynulliad.

(3) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (2)(b), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynulliad, nid yw'r canlynol i'w hystyried—

(a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu

(b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(4) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

(a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu

(b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (6) yn gymwys.

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(f) symud cartref;

(g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;

(h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;

(i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny;

(j) ymweld â pherson sy'n preswylio mewn cartref gofal, â chaniatâd darparwr y gwasanaeth.

(6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (4)(b) yw bod y person yn—

(a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;

(b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—

(i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,

(ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;

(d) mynd i angladd—

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(e) mynd i addoldy;

(f) athletwr elît ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;

(g) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon elît.

(7) Er gwaethaf is-baragraffau (2)(b) a (5)(b), ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad at ddibenion darbwyllo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad oni bai bod y person yn cymryd rhan mewn darllediad heb gynulleidfa (pa un ai dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu).

(8) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.";

(e) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(ca) mae paragraff 4 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (3)(c)(ii)—

"(iii) digwyddiad chwaraeon elît os athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol.";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(cb) mae paragraff 5 o Atodlen 4 i'w drin fel pe bai wedi ei hepgor;

(cc) mae paragraff 10 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "ar gyfer darllediad o'r fath" wedi eu hepgor yn is-baragraff (2)(c);";

(f) yn lle paragraff (cc) (fel y'i mewnosodir uchod) rhodder—

"(cc) mae paragraff 10 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai—

(i) y geiriau "ar gyfer darllediad o'r fath" wedi eu hepgor yn is-baragraff (2)(c);

(ii) wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (2)—

"(2A) Er gwaethaf is-baragraff (1), caiff person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraff 22 (salonau gwallt a barbwyr) agor ei fangre i'r cyhoedd, ond dim ond at ddibenion torri, steilio neu liwio gwallt, drwy apwyntiad."";

(g) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(e) mae paragraff 39 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai "amgaeedig neu" wedi ei hepgor;

(f) mae paragraff 43 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai "o dan do" wedi ei fewnosod ar ôl "corff";

(g) mae paragraff 45 o Atodlen 4 i'w drin fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn ei le—

"**45.** Cyrtiau chwaraeon o dan do, lawntiau bowlio o dan do a meysydd neu leiniau chwaraeon eraill o dan do."";

(h) ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

"(h) mae paragraff 56 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai ", gorsafoedd petrol, canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion" wedi ei roi yn lle "a gorsafoedd petrol";

(i) mewn perthynas ag archfarchnad neu siop arall sy'n gwerthu sawl math o nwyddau—

(i) a oedd ar agor i'r cyhoedd ar 11 Mawrth 2021, a

(ii) sy'n defnyddio ei mangre, yng nghwrs arferol ei busnes, yn bennaf i werthu—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(aa) y nwyddau a restrir ym mharagraff 55 o Atodlen 4, neu

(bb) nwyddau o fath a werthir fel arfer gan unrhyw un neu ragor o'r busnesau a restrir ym mharagraff 56 o Atodlen 4;

mae paragraff 57 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "ond dim ond at ddibenion" hyd at y diwedd wedi eu hepgor."

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 a'u haddasu dros dro**

**3.**—(1) Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(**1**), yn lle "31 Mawrth" rhodder "28 Mai".

(2) Am y cyfnod sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 26 Mawrth 2021, mae rheoliad 6(2)(d) o'r Rheoliadau hynny i'w ddarllen fel pe bai "paragraff 2A" wedi ei roi yn lle "paragraff 2".

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 2.56 p.m. ar 12 Mawrth 2021

(**1**) O.S. 2020/1011 (Cy. 225) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1100 (Cy. 250), O.S. 2020/1149 (Cy. 261), O.S. 2020/1219 (Cv. 276), O.S. 2020/1409 (Cy. 311), O.S. 2020/1609 (Cy. 335) ac O.S. 2021/57 (Cy. 13).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

12 Mawrth 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawl amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr 2020 yn amlinellu cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y fersiwn fwyaf diweddar o'r Cynllun Rheoli Coronafeirws. Mae Cymru wedi bod o dan Lefel Rhybudd 4 ers dechrau'r dydd ar 20 Rhagfyr 2020.

Adolygwyd y prif Reoliadau ar 11 Mawrth 2021, yn unol â rheoliad 2(b) o'r Rheoliadau hynny, a chytunodd Gweinidogion Cymru y dylai Cymru barhau yn Lefel Rhybudd 4. Fodd bynnag, gwneir diwygiadau ac addasiadau dros dro yn awr i gyfyngiadau a gofynion Lefel Rhybudd 4 y prif Reoliadau, ac mae dyddiad dod i ben yr addasiadau dros dro presennol ym mharagraff 2 o Atodlen 5 i'r prif Reoliadau yn cael ei ddiwygio fel eu bod hwy, a'r addasiadau newydd a nodir isod, yn parhau i fod yn gymwys tan ddiwedd y dydd ar 26 Mawrth 2021.

Daw'r newidiadau canlynol i rym ar 13 Mawrth 2021:

- cyfyngiadau 'aros gartref' yn cael eu disodli gan reolau 'aros yn lleol'

  Ar hyn o bryd, ar Lefel Rhybudd 4, mae Cymru gyfan yn destun cyfyngiadau 'aros gartref'. Caiff y cyfyngiad hwn ei addasu dros dro, a bydd ei effaith yn golygu y bydd pobl yn cael eu gwahardd rhag gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle maent yn byw, heb esgus rhesymol.

- caniatáu i hyd at bedwar o bobl o ddwy aelwyd wahanol gyfarfod y tu allan, gan gynnwys drwy hynny mewn gerddi a mannau awyr agored preifat

  Ar hyn o bryd, ar Lefel Rhybudd 4, mae'r prif Reoliadau yn caniatáu i grwpiau o hyd at bedwar o bobl o ddwy aelwyd wahanol ymarfer corff gyda'i gilydd yn yr awyr agored (er bod yn rhaid i'r ymarfer barhau i ddechrau a gorffen o'r man lle mae'r bobl yn byw). Gall grŵp o'r fath gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed o'r aelwydydd hynny.

  Mae hyn bellach yn cael ei addasu dros dro er mwyn caniatáu i grwpiau o hyd at bedwar o bobl o ddwy aelwyd wahanol gyfarfod yn yr awyr agored, a fyddai'n

cynnwys gerddi preifat a mannau awyr agored eraill, am unrhyw reswm. Gall grŵp o'r fath gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed o'r aelwydydd hynny heb fod hynny’n cyfrif tuag at yr uchafswm o bedwar o bobl.

Gwneir darpariaeth benodol i ddarparu na chaiff pobl ymgynnull at ddibenion darbwyllo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad (er enghraifft, canfasio), oni bai bod y person yn cymryd rhan mewn darllediad heb gynulleidfa.

- caniatáu i gyfleusterau chwaraeon ac ymarfer corff yn yr awyr agored ailagor

  Yn Lefel Rhybudd 4, mae'n ofynnol i gyfleusterau chwaraeon ac ymarfer corff awyr agored (fel cyrtiau tennis, lawntiau bowlio, cyrsiau golff, campfeydd awyr agored) aros ar gau. Mae hyn bellach yn cael ei addasu dros dro er mwyn caniatáu i'r cyfleusterau hyn agor.

- cynnwys ymweliadau â phreswylwyr cartrefi gofal (oedolion a phlant) fel esgus rhesymol dros ymgynnull o dan do gyda rhywun y tu allan i aelwyd neu aelwyd estynedig unigolyn

  Ar hyn o bryd, ar Lefel Rhybudd 4 nid yw'r prif Reoliadau yn darparu'n benodol ar gyfer ymweliadau rhwng aelodau o wahanol aelwydydd fel esgus rhesymol i ymgynnull. Mae hyn bellach yn cael ei addasu dros dro i ehangu'r esgusodion rhesymol y gall person deithio neu ymgynnull o dan do ar eu cyfer i gynnwys ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau mewn cartrefi gofal, ar yr amod eu bod yn cael caniatâd y person sy'n gyfrifol am y cartref gofal.

- dileu'r angen i Weinidogion awdurdodi digwyddiadau chwaraeon elît unigol yn benodol

  Ar Lefel Rhybudd 3 a 4, mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion awdurdodi digwyddiadau chwaraeon elît unigol er mwyn eu galluogi i ddigwydd. Mae hyn bellach yn cael ei addasu dros dro ar gyfer Lefel Rhybudd 4 a’i ddiwygio’n barhaol yn Lefel Rhybudd 3 i ddileu'r gofyniad am awdurdodiad o'r fath, ar yr amod mai'r unig bobl sy'n bresennol yn y digwyddiad yw athletwyr elît a phobl sy'n gweithio yn y digwyddiad, neu'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

- caniatáu defnyddio theatrau ac adeiladau eraill at ddibenion ymarferion, p'un a ydynt yn gysylltiedig â darllediad ai peidio

  Mae'r prif Reoliadau yn caniatáu i safleoedd sydd fel arall ar gau gael eu defnyddio at ddibenion darlledu neu ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath yn unig. Mae hyn bellach yn cael ei addasu dros dro yn Lefel Rhybudd 4 a’i ddiwygio’n barhaol yn y Lefelau Rhybudd eraill i ganiatáu i unrhyw ymarferion ddigwydd mewn safleoedd, nid dim ond ymarferion at ddibenion darllediad o'r fath.

- “swigod cefnogaeth” ym mhob Lefel Rhybudd i gynnwys “aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion”

  Ar hyn o bryd, ar Lefel Rhybudd 4, gall aelwydydd un oedolyn (a ddiffinnir yn rheoliad 57(1) (u) o’r prif Reoliadau) ac aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion ffurfio aelwyd estynedig gydag aelwyd arall. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth gyfatebol ar gyfer plant (er enghraifft y rhai 16 neu 17 oed) sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu ar aelwyd gydag eraill o'r un oedran heb oedolyn ar Lefelau Rhybudd 1, 2 a 3. Roedd hwn yn fwlch anfwriadol yn y ddarpariaeth ac roedd yn golygu na fyddai unigolion o'r fath yn cael yr un mynediad at gymorth ag y byddai oedolion yn ei gael. Mae Lefelau Rhybudd 1, 2 a 3 bellach wedi'u diwygio i ganiatáu i aelwydydd o'r fath ffurfio aelwyd estynedig.

Daw'r newidiadau canlynol i rym ddechrau 15 Mawrth 2021:

- dileu'r cyfyngiadau sy'n darparu ar gyfer cau safleoedd ysgolion;

  Yn Lefel Rhybudd 4, mae holl safleoedd ysgolion a cholegau ar gau i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, ar wahân i blant gweithwyr hanfodol neu blant sy'n agored i niwed. O 20 Chwefror 2021 mae dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant y cyfnod sylfaen (y rhai rhwng tair a saith oed) wedi’i ganiatáu, ynghyd â galluogi rhai dysgwyr hŷn ar gyrsiau galwedigaethol i fynychu'r coleg.

  Mae’r holl gyfyngiadau mewn perthynas â safleoedd ysgolion ac addysg yn cael eu codi yn awr.

- darparu i siopau trin gwallt a siopau barbwr agor

  Ar Lefel Rhybudd 4, mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i salonau gwallt a siopau barbwr gau. Mae hyn bellach yn cael ei addasu dros dro i ganiatáu i siopau barbwr a salonau gwallt ailagor at ddibenion torri, steilio a lliwio gwallt, drwy apwyntiad yn unig

Daw'r diwygiad canlynol i rym ddechrau 22 Mawrth 2021.

- darparu i archfarchnadoedd a manwerthwyr cymysg werthu eitemau nad ydynt yn hanfodol a chaniatáu i ganolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion ailagor

  Ar Lefel Rhybudd 4, mae'r prif Reoliad yn caniatáu i archfarchnadoedd a manwerthwyr cymysg barhau ar agor i werthu eitemau hanfodol yn unig. Mae hyn yn cael ei addasu i ganiatáu i archfarchnadoedd a manwerthwyr cymysg sydd ar agor ar hyn o bryd (ac sy'n gwerthu'n bennaf y nwyddau y caniateir eu gwerthu ar hyn o bryd o dan Lefel Rhybudd 4) werthu unrhyw eitemau eraill. Bydd yr addasiadau dros dro hefyd yn caniatáu i ganolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion ailagor.

  Mae'r Rheoliadau hefyd yn estyn dyddiad dod i ben presennol y prif Reoliadau a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Swyddogaethau Awdurdodau Lleol

etc.) (Cymru) 2020 i 28 Mai 2021, ac yn gwneud addasiad dros dro i'r Rheoliadau hynny o ganlyniad i’r addasiadau i'r prif Reoliadau.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi’i gynnal mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi’i lunio mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i’r afael â’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mawrth 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol ar 13 Mawrth, ac at bob diben sy'n weddill ar 15 a 22 Mawrth 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyno fewn 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud, heb gynnwys diwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad o bedwar diwrnod neu fwy neu wedi'i diddymu, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog** |

Yn ôl Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, rhaid adolygu'r cyfyngiadau coronafeirws bob tair wythnos. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ar 11 Mawrth.

Mae nifer yr achosion o'r coronafeirws yn ein cymunedau'n parhau i gwympo, mae'r pwysau ar ein GIG yn raddol lacio ac mae'n rhaglen frechu yn dal i fynd o nerth i nerth. Diolch i ymdrechion pawb yng Nghymru dros y cyfnod aros gartref, gallwn nawr newid y cyfyngiadau sydd mewn grym, yn ofalus a fesul cam.

Rydym wedi bod yn glir mai ein blaenoriaeth bennaf yw cael cymaint o blant a myfyrwyr i ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb â phosibl. Cafodd dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a rhai myfyrwyr galwedigaethol ddychwelyd ym mis Chwefror, ac fel cam ymlaen o hynny, o ddydd Llun, bydd pob disgybl cynradd a'r rheini ym mlynyddoedd eu cymwysterau yn cael dychwelyd.

Rydym am roi'r hyblygrwydd i ysgolion allu dod â'u dysgwyr blynyddoedd 10 a 12 hefyd yn ôl, iddynt allu mynd yn eu blaenau at gam nesaf eu dysgu, a chaiff mwy o ddysgwyr ddychwelyd i golegau hefyd. Bydd hyblygrwydd hefyd i ysgolion fedru cynnal sesiynau ailgydio ar gyfer eu holl ddisgyblion eraill.

Bydd pob dysgwr yn cael dychwelyd i safle dysgu ar ôl gwyliau'r Pasg ar 12 Ebrill. Dylai ysgolion, colegau a darparwyr dysg eraill gynllunio ar gyfer hyn.

Yn dilyn yr adolygiad o'r rheoliadau coronafeirws, gallaf gyhoeddi, o ddydd Sadwrn, 13 Mawrth:

- Yn lle'r rheol aros gartref cyffredinol, bydd rheol arhoswch yn lleol dros dro newydd yng Nghymru. Mae hynny'n golygu y bydd pobl yn cael gadael eu cartrefi a theithio yn eu hardal leol – fel arfer o fewn pum milltir – ond byddwn

yn hyblyg, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a'r rheini sydd â'u siopau a'u gwasanaethau cyhoeddus agosaf ymhellach i ffwrdd.

- Ni chaiff mwy na phedwar o bobl o ddwy aelwyd wahanol gwrdd yn eu hardal leol yn yr awyr agored ar y tro, gan gynnwys mewn gerddi. Nid yw plant o dan 11 oed na gofalwyr yn cyfrif at y terfyn hwn. Ni chaiff pobl gymysgu dan do a rhaid cadw pellter cymdeithasol.

- Bydd cyfleusterau chwaraeon awyr agored, gan gynnwys cyrtiau tenis, cyrsiau golff a lleiniau bowlio, yn cael agor. Bydd hyd at bedwar o bobl o ddwy aelod yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n defnyddio cyfleusterau chwaraeon lleol.

- Bydd ymweliadau dan do â chartrefi gofal yn cael ailddechrau ar gyfer un ymwelydd dynodedig, gyda chaniatâd y cartref gofal. Bydd angen ychydig amser ar rai cartrefi gofal i wneud y trefniadau angenrheidiol i gynnal ymweliadau dan do mor ddiogel â phosibl.

O ddydd Llun, 15 March:

- Bydd siopau trin gwallt a barbwrs yn cael ailagor trwy apwyntiadau yn unig i dorri gwallt. Cyn belled â bod y sefyllfa o ran iechyd cyhoeddus yn parhau'n ffafriol, caiff pob gwasanaeth cyswllt agos agor o 12 Ebrill.

O ddydd Llun, 22 Mawrth:

- Rydym am ddechrau ar ein camau cyntaf i agor siopau nad ydyn nhw'n hanfodol. Yn y siopau hynny sydd ar agor, codir y cyfyngiadau ar werthu eitemau nad ydyn nhw'n hanfodol. Bydd canolfannau garddio'n cael ailagor. Cyn belled â bod y sefyllfa o ran iechyd cyhoeddus yn parhau'n ffafriol, caiff pob siop agor o 12 Ebrill, fel sy'n debygol o ddigwydd yn Lloegr.

Yn ystod trydedd wythnos y cyfnod adolygu, byddwn yn pwyso a mesur y dystiolaeth ddiweddaraf cyn cadarnhau newidiadau ar gyfer gwyliau'r Pasg. Os bydd yr amodau o ran iechyd cyhoeddus yn parhau'n ffafriol, o 27 Mawrth:

- Caiff y cyfyngiadau aros yn lleol eu codi er mwyn i bobl allu teithio o fewn Cymru.

- Bydd llety gwyliau hunan-gynhwysol yn cael ailagor i bobl o un aelwyd gael aros dros nos.

- Bydd gweithgareddau wedi'u trefnu i blant yn ailddechrau.

- Bydd llyfrgelloedd yn ailagor.

Mae nifer o newidiadau eraill yn cael eu gwneud, gan gynnwys:

- Ni fydd angen caniatâd penodol Gweinidogion i gynnal digwyddiadau chwaraeon elît unigol mwyach.

- Bydd perfformwyr proffesiynol yn cael defnyddio theatrau a neuaddau cyngerdd i gynnal rihyrsals, waeth a ydyn nhw'n gysylltiedig â darllediad neu beidio.

- Newidir y dyddiad pan ddaw'r rheoliadau hyn i ben i 31 Mai 2021.

Daethom i'r casgliad yn yr addoliad nad oedd yr amodau ar gyfer gohirio etholiad Senedd Cymru wedi'u bodloni. Felly bydd y paratoadau ar gyfer 6 Mai yn parhau. Cyhoeddir y canllawiau ar gyfer ymgyrchu ddydd Gwener a chaiff elfennau eu hadlewyrchu yn y rheoliadau. Mae'r newid i 'aros yn lleol' yn golygu y bydd modd rhannu taflenni'n lleol, ond bydd canfasio o ddrws i ddrws yn dal yn waharddedig, yn unol â'r rheoliadau.

Mae'r sefyllfa o ran iechyd cyhoeddus yn ddi-os wedi gwella dros yr ychydig fisoedd diwethaf, diolch i gefnogaeth pawb ledled Cymru, ond nid yw'r coronafeirws wedi ymadael â'n gwlad.

Y pecyn hwn o fesurau yw'r cam arwyddocaol cyntaf at godi cyfyngiadau'r rhybudd lefel pedwar yr ydym wedi byw gyda nhw ers canol mis Rhagfyr. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd a gwneud popeth y gallwn ni i gadw nifer yr achosion o'r coronafeirws yn isel wrth inni roi eu rhyddid personol yn ôl i bobl a chaniatáu iddyn nhw gymysgu unwaith eto.

Ni all y Llywodraeth wneud hyn ar ei phen ei hun. Mae angen help pawb yng Nghymru arnom i gadw'r coronafeirws o dan reolaeth.

Eitem 4.14

# SL(5)795 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021 a byddant yn dod i ben ar ddiwedd y dydd ar 30 Mehefin 2021. Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid adolygu'r Rheoliadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir yn parhau i fod yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu niwsans; neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu ar yr adeg pan fo'n bresennol a phan fo'r gorchymyn meddiant wedi ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

Mewn datganiad ar 17 Mawrth 2021, dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y canlynol:

> *"Mae'r rheoliadau hyn yn ailadrodd mewn sylwedd Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Byddant yn ymestyn y cyfyngiadau presennol ar droi allan, sydd i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth, hyd at ddiwedd Mehefin 2021 – er y bydd y cyfyngiadau, fel sy'n digwydd mewn perthynas â chyfyngiadau eraill sy'n ymwneud â'r coronafeirws, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod hwnnw.*
>
> *Fel sy'n digwydd yn achos y trefniadau presennol sy'n diogelu rhag troi allan, bydd Rheoliadau Rhif 2 yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau). Byddant yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, fod yn bresennol mewn tŷ annedd er mwyn gweithredu gwrit neu warant meddiannu, gweithredu gwrit neu warant adfer, neu gyflwyno gorchymyn troi allan.*

*Fy mwriad hefyd yw i Reoliadau gael eu gwneud ar wahân er mwyn ymestyn cyfnod gweithredu'n unol â'r gofynion a nodir yn Atodlen 29 i Ddeddf Coronafeirws 2020 tan ddiwedd Mis Mehefin 2021. Mae hyn yn golygu y bydd landlordiaid yn parhau i fod o dan rwymedigaeth statudol i ddarparu cyfnod hysbysu o chwe mis i denantiaid cyn hawlio meddiant (ac eithrio mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig).*

*Gyda'i gilydd, bydd y ddwy set hyn o Reoliadau yn cefnogi ymateb parhaus Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws ar ran iechyd y cyhoedd drwy helpu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu troi allan, neu sydd mewn perygl o gael eu troi allan, a all arwain at fod yn ddigartref. Yn enwedig o ran bod yn ddigartref ar y stryd, lle gallant fod yn fwy agored i niwed oherwydd y feirws, ac mae mwy o debygolrwydd y byddant yn ei ledaenu. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun amrywiolynnau newydd o'r feirws sy'n cynyddu ei drosglwyddadwyedd neu ddifrifoldeb ei effaith, neu drydedd don bosibl neu gynnydd lleol mewn lefelau'r feirws yn ystod y cyfnod y mae'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.*

*Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai ymestyn yr amddiffyniadau dros dro hyn am gyfnod pellach achosi anawsterau i rai landlordiaid yn y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, ein prif flaenoriaeth yw diogelu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd.*

*Drwy gydol y cyfnod y maent mewn grym, bydd Rheoliadau Rhif 2 yn ddarostyngedig i'r cylch adolygu rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau'n parhau i fod yn gymesur ac yn angenrheidiol. Bydd yr adolygiadau hyn yn cyd-fynd ag amseriadau'r adolygiadau yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020."*

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 3 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd â hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Mae'r Pwyllgor yn nodi bod eithriadau wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau sy'n caniatáu ar gyfer troi allan mewn amgylchiadau penodol, bod y rheoliadau'n cael eu gwneud am gyfnod penodedig yn unig, eu bod i'w hadolygu ar gylch 3 wythnos rheolaidd a'u bod yn cael eu gwneud yng nghyd-destun yr argyfwng iechyd presennol.

Mae'r pwyllgor yn nodi ymhellach ystyriaeth y llywodraeth o gymesuredd y rheoliadau hyn yn y Memorandwm Esboniadol.

> *"Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod yr ymatebion priodol ar ran iechyd y cyhoedd i fynychder a throsglwyddiad cynyddol feirws Covid-19 yn parhau drwy ymestyn y cyfnod o atal achosion o orfodi troi allan yng Nghymru, ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2021, ar ôl i Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ddod i ben, a dônt i ben ar 30 Mehefin 2021. Rhaid adolygu p'un a oes yn dal i fod angen y rheoliadau, a pha mor gymesur y maent, bob tair wythnos. Bydd yr adolygiadau tair wythnos hyn yn gydnaws â'r cyfnodau adolygu a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, gan y bydd y Lefel Rhybudd berthnasol yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu p'un a yw'r mesurau yn dal i fod yn gymesur."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O ystyried yr argyfwng iechyd y cyhoedd, ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statudol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai; mae cyrff sy'n cynrychioli landlordiaid wedi bod yn cyfrannu'n anffurfiol at y Rheoliadau hyn.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Mae'r argyfwng COVID-19 a brys gwneud y Rheoliadau hyn yn golygu [na] fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintioli."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod paragraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn ceisio nodi crynodeb o effaith bosibl y Rheoliadau hyn sy'n darparu rhywfaint o asesiad ansoddol o'u heffaith.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod oddeutu 12 wythnos pan fydd landlord yn cael ei atal rhag ceisio meddiannu eu heiddo oherwydd rhent heb ei dalu. Ar y cyd â Rheoliadau blaenorol a basiwyd ym mis Ionawr 2021 a mis Rhagfyr 2020, bydd landlordiaid wedi eu hatal rhag adennill meddiant oherwydd rhent heb ei dalu am gyfnod sylweddol. Gall ôl-ddyledion rhent rhai landlordiaid gael effaith economaidd niweidiol arnynt.

Mae’r Pwyllgor yn nodi’r asesiad canlynol o’r risg hon gan y llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Gallai ymestyn yr amddiffyniadau hyn am gyfnod pellach olygu bod rhai tenantiaid yn cronni lefelau uwch o ôl-ddyledion rhent na fyddai'n digwydd pe na bai'r rheoliadau'n cael eu gwneud, a gall hynny yn ei dro arwain at anawsterau ariannol i rai landlordiaid yn y sector rhentu preifat – yn enwedig landlordiaid ar raddfa fach a allai ddibynnu ar eu hincwm rhent i dalu am daliadau morgais neu fel eu hunig ffynhonnell incwm. Mae Cynllun Rhybudd Cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer ôl-ddyledion rhent a dyledion aelwydydd eraill yn y sector rhentu preifat wedi'i roi ar waith i helpu tenantiaid i gytuno ar gynlluniau ad-dalu fforddiadwy gyda'u landlord neu eu hasiant gosod eiddo i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent a lleihau'r risg y byddant yn colli eu cartref, tra bo'r Cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth yn galluogi tenantiaid yn y sector preifat i wneud cais am fenthyciad, a delir yn uniongyrchol i'r landlord neu'r asiant, ac sydd ar gael i denantiaid ar log APR o 1%, sy'n ad-daladwy dros hyd at bum mlynedd. Mae gwaith yn cael ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynlluniau ymhlith landlordiaid a thenantiaid. Fodd bynnag, efallai y byddai’n rhaid i unrhyw anawsterau ariannol y gallai landlordiaid eu hysgwyddo gael eu cydbwyso â’r gost o ran iechyd y cyhoedd, ac effeithiau caniatáu troi allan ar y gwasanaeth iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, lle mae risg sylweddol bod hyn yn cyfrannu at fynychder a lledaeniad y feirws.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**18 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 325 (Cy. 84)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru fel "the appropriate Minister", drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021 a deuant i ben ar ddiwedd y dydd ar 30 Mehefin 2021. Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid adolygu'r Rheoliadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir yn parhau i fod yn gymesur.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu niwsans; neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu ar yr adeg pan fo'n bresennol a phan fo'r gorchymyn meddiant wedi ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2021 Rhif 325 (Cy. 84)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *17 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) ("Deddf 2008"). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno(**1**), oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "tŷ annedd" yr un ystyr ag a roddir i "dwelling-house" yn Neddf Tai 1985(**2**), Deddf Tai 1988(**3**) neu Ddeddf Rhenti 1977(**4**), yn ôl y digwydd.

**Tenantiaethau preswyl (gwarchodaeth rhag troi allan)**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff unrhyw berson fod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben—

(a) gweithredu gwrit neu warant meddiant,

(b) gweithredu gwrit neu warant adfer, neu

(c) danfon hysbysiad troi allan.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo'r llys wedi ei fodloni bod y writ, y warant neu'r hysbysiad yn ymwneud â gorchymyn meddiant a wneir—

(a) yn erbyn tresmaswyr yn unol â hawliad y mae rheol 55.6 (cyflwyno hawliadau yn erbyn tresmaswyr) o Reolau'r Drefniadaeth Sifil 1998(**5**) yn gymwys iddo,

(b) yn llwyr neu'n rhannol o dan adran 84A (sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol) o Ddeddf Tai 1985(**6**),

(c) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 2 neu Sail 2A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai

(**1**) Mewnosodwyd adran 45R gan adran 129 o Ddeddf 2008.
(**2**) 1985 p. 68.
(**3**) 1988 p. 50.
(**4**) 1977 p. 42.
(**5**) O.S. 1998/3132 (Cyfr. 17). Mewnosodwyd rheol 55.6 gan Atodlen 1 i O.S. 2001/256 (Cyfr. 7).
(**6**) Mewnosodwyd adran 84A gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (p. 12) ("Deddf 2014") ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 84 o Atodlen 24 i Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17) ("Deddf 2020").

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau diogel) i Ddeddf Tai 1985(**1**),

(d) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7A, Sail 14 neu Sail 14A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau sicr) i Ddeddf Tai 1988(**2**),

(e) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7 (sail ar gyfer meddiannu pan fo tenant yn marw ac na cheir hawl olyniaeth) yn Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988(**3**), neu

(f) yn llwyr neu'n rhannol o dan Achos 2 o Atodlen 15 (sail ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau gwarchodedig neu statudol, neu sy'n ddarostyngedig iddynt) i Ddeddf Rhenti 1977.

(3) Pan fo paragraff (2)(e) yn gymwys, rhaid i'r person sy'n bresennol yn y tŷ annedd gymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu cyn cyflawni'r materion hynny a nodir ym mharagraff (1)(a), (b) neu (c).

**Adolygu a dod i ben**

**3.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 23 Ebrill 2021;

(b) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 30 Mehefin 2021.

---

(**1**) Amnewidiwyd Sail 2 gan adran 144 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ("Deddf 1996") ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 45 o Atodlen 7 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15) ("Deddf 2005") ac adran 98(1) o Ddeddf 2014. Mewnosodwyd Sail 2A gan adran 145 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 33 o Atodlen 8 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ("Deddf 2004") a chan O.S. 2019/1458.

(**2**) Mewnosodwyd Sail 7A gan adran 97(1) o Ddeddf 2014 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 97 o Atodlen 24 i Ddeddf 2020. Amnewidiwyd Sail 14 gan adran 148 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 46 o Atodlen 7 i Ddeddf 2005 ac adran 98(2) o Ddeddf 2014. Mewnosodwyd Sail 14A gan adran 149 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 43(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2004, O.S. 2010/866, O.S. 2011/1396 ac O.S. 2019/1458.

(**3**) Mae diwygiadau i Sail 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
16 Mawrth 2021

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

17 Mawrth 2021

## 1. Disgrifiad

1.1 Bydd y Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfyngiadau a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2021 gan Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ('rheoliadau 2021') o 1 Ebrill 2021 tan 30 Mehefin 2021, sef i atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannau ar yr adeg pan fo'n bresennol, farwolaeth y meddiannydd. Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 30 Mehefin 2021, ond rhaid adolygu p'un a oes yn dal i fod angen y rheoliadau, a pha mor gymesur y maent, bob tair wythnos. Maent yn atgynhyrchu cynnwys Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Cyflwynwyd Rheoliadau 2021 ar adeg pan oedd cyfradd y feirws yn uchel iawn yng Nghymru. Er bod lefelau heintio a throsglwyddo'r feirws yn parhau i ostwng, a bod y rhaglen frechu bellach yn mynd rhagddi'n dda, bydd cadw'r amddiffyniadau hyn ar waith ar gyfer y misoedd nesaf – er eu bod yn ddarostyngedig i'r cylch adolygu rheolaidd – yn cefnogi ymateb parhaus Llywodraeth Cymru ar ran iechyd y cyhoedd i'r coronafeirws drwy helpu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu troi allan, neu sydd mewn perygl o gael eu troi allan, a all arwain at fod yn ddigartref (yn enwedig o ran bod yn ddigartref ar y stryd) lle mae eu potensial i fod yn agored i niwed oherwydd y feirws, a'r tebygolrwydd y byddant yn ei ledaenu, yn cynyddu.  Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun amrywiolynnau newydd o'r feirws sy'n cynyddu ei drosglwyddadwyedd neu ddifrifoldeb ei effaith, neu drydedd don bosibl, neu gynnydd lleol mewn lefelau'r feirws yn ystod y cyfnod y mae'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.

2.2 Yng ngoleuni hyn, gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984" ac fe'u gwnaed heb fod drafft wedi ei osod yn gyntaf ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd, fel y byddai'n ofynnol fel arfer o dan adran 45Q o'r Ddeddf.  Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft wedi ei osod felly na'i gymeradwyo fel y gall camau iechyd y cyhoedd gael eu cymryd mewn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad COVID-19. Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2021. Gan eu bod wedi eu gwneud o dan y weithdrefn frys, byddant yn peidio â bod yn weithredol ar ddiwedd 28 diwrnod i'r diwrnod y'u gwneir oni chânt eu cymeradwyo drwy benderfyniad Senedd Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw.

**3. Cefndir deddfwriaethol**

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i alluogi cymryd camau iechyd y cyhoedd er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad COVID-19. Mae adran 45C o'r Ddeddf honno yn galluogi Gweinidogion Cymru (fel yr "appropriate Minister"), drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau yn atal achosion o droi tenantiaid preswyl allan yn ystod yr adeg allweddol hon o'r pandemig. Yn unol ag adran 45R o Ddeddf 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb fod drafft wedi ei osod gerbron y Senedd ac wedi ei gymeradwyo ganddi.

3.2 Mae mesurau deddfwriaethol wedi cael eu rhoi ar waith yn flaenorol er mwyn atal tenantiaid rhag cael eu troi allan yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") yn rhoi gwarchodaeth rhag troi allan mewn perthynas â'r rhan fwyaf o denantiaethau preswyl a hysbysiadau[1] a gyflwynir yn ystod y 'cyfnod perthnasol' (y diffiniwyd y byddai'n dod i ben ar 30 Medi 2020 i ddechrau ond a gafodd ei ymestyn tan 31 Mawrth 2021 ar ôl hynny). Gwna hyn drwy gynyddu, yn y rhan fwyaf o achosion, gyfnod yr hysbysiad y mae'n rhaid ei gyflwyno cyn y gellir dechrau gweithrediadau meddiant yn y llysoedd.

3.3. Yn ogystal, cafodd ataliad dros dro ar weithrediadau llys yng Nghymru a Lloegr ei ddechrau ym mis Mawrth 2020, a daeth i ben ar 20 Medi 2020. Wedi hynny, roedd yn bosibl cychwyn gweithrediadau meddiant drwy'r llysoedd pan oedd cyfnod gofynnol yr hysbysiad wedi mynd heibio, ac, os gwneid gorchymyn, i'r landlord geisio gorfodi'r gorchymyn hwnnw drwy wneud cais i'r llys am writ neu warant meddiant, a allai arwain at droi allan gan feilïod Llys Sirol neu swyddogion gorfodi'r Uchel Lys.

3.4 Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio atal achosion o droi allan (yng Nghymru a Lloegr) pan dybiwyd bod y rhain yn anghyson â mesurau iechyd y cyhoedd drwy roi arweiniad i feilïod Llysoedd Sirol a thrwy lythyr gan yr Arglwydd Ganghellor at Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys.

3.5 Ar 16 Tachwedd 2020, gosododd Llywodraeth y DU reoliadau gerbron Senedd y DU – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws) (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan a Chymryd Rheolaeth dros Nwyddau) (Lloegr) 2020. Ymhlith pethau eraill, roedd y rheoliadau hynny yn atal yn Lloegr y rhan fwyaf o achosion o droi allan yn ystod y cyfnod hyd at 11 Ionawr 2021.

3.6 I sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag cael eu troi allan yng Nghymru dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ar yr un sail statudol ag yn Lloegr, daeth Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 i rym ar 11 Rhagfyr, a'r dyddiad dod i ben oedd ar 11

[1] Yr hysbysiadau perthnasol yw'r rhai a gyflwynir o dan Ddeddf Gwarchodaeth Rhag Troi Allan 1977, Deddf Rhenti 1977, Deddf Tai 1985, Deddf Tai 1988 a Deddf Tai 1996.

Ionawr 2021. Fodd bynnag, o ystyried pryderon parhaus, yn enwedig o ran amrywiolynnau newydd a phwysau gormodol ar wasanaethau cyhoeddus, gwnaed rheoliadau pellach ar gyfer y cyfnod rhwng 11 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Mae'r rheoliadau presennol yn atal, ac eithrio mewn amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi'i fodloni bod yr hawliad yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys, neu pan y’i gwneir yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol, niwsans, trais domestig neu, mewn achosion lle mae'r person a fydd yn mynd yno wedi'i fodloni nad yw’r tŷ annedd wedi’i feddiannu ar yr adeg pan fydd yno, farwolaeth y meddiannydd. Daw’r Rheoliadau presennol i ben ar 31 Mawrth 2021.

3.7 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yr ataliad ar droi allan yn Lloegr yn cael ei ymestyn tan ddiwedd mis Mai, tra bo Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi y bydd y trefniadau yn cael eu hymestyn yn yr Alban tan ddiwedd mis Medi.

**4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

4.1 Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod yr ymatebion priodol ar ran iechyd y cyhoedd i fynychder a throsglwyddiad cynyddol feirws Covid-19 yn parhau drwy ymestyn y cyfnod o atal achosion o orfodi troi allan yng Nghymru, ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2021, ar ôl i Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ddod i ben, a dônt i ben ar 30 Mehefin 2021. Rhaid adolygu p’un a oes yn dal i fod angen y rheoliadau, a pha mor gymesur y maent, bob tair wythnos. Bydd yr adolygiadau tair wythnos hyn yn gydnaws â’r cyfnodau adolygu a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, gan y bydd y Lefel Rhybudd berthnasol yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu p’un a yw’r mesurau yn dal i fod yn gymesur.

4.2 Hyd at 20 Medi 2020, ac felly drwy gydol ton gyntaf y pandemig, ataliwyd achosion o droi allan drwy ddiwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a ataliodd achosion o feddiannu. O ystyried yr ataliad, nid oedd angen ystyried cymryd camau i atal gorfodi troi allan yn ystod y cyfnod hwnnw drwy ddefnyddio'r pwerau a nodwyd yn Neddf 1984 ar y pryd hwnnw. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa honno wedi newid yn sgil codi'r ataliad, a’r pwysau cynyddol sy’n parhau ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.

4.3 Dros gyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf, ar adeg pan oedd y risg o drosglwyddo'r feirws yn uchel iawn, a mynediad at wasanaethau a llety amgen yn gyfyngedig, rhoddwyd Rheoliadau ar waith i sicrhau na fyddai pobl yn cael eu troi allan. O ystyried pryderon parhaus ynghylch y feirws a'r pwysau ar wasanaethau iechyd a chyhoeddus ehangach, rhoddwyd Rheoliadau pellach ar waith ym mis Ionawr 2021 i atal troi pobl allan. Daw'r Rheoliadau hynny i ben ar 31 Mawrth 2021

4.4 Mae’r effaith ar iechyd y cyhoedd, ac yn benodol ar fynychder a lledaeniad Covid-19, achosion o droi pobl allan a digartrefedd yn dal i fod yn bryder. Pryder arall yw'r mater o ran capasiti y mae gwasanaethau'n parhau i'w hwynebu o ganlyniad i'r pandemig, sy'n golygu bod mwy o debygolrwydd o hyd y bydd troi pobl allan yn arwain at ddigartrefedd, yn enwedig digartrefedd ar y stryd.

4.5 Mae digartrefedd yn rhoi pobl mewn sefyllfaoedd lle maent mewn mwy o berygl o ddal y feirws a'i drosglwyddo i eraill. Maent yn llai tebygol o allu cadw pellter cymdeithasol, hyd yn oed pan sicrheir llety arall dros dro ar eu cyfer, ac maent yn debygol o ddod i gysylltiad â llawer mwy o bobl, boed yn rheini sy'n darparu gwasanaethau cymorth i’r digartref, neu’n bobl ddigartref eraill. Os caniateir i bobl gael eu troi allan ar hyn o bryd, mae perygl y byddai hynny’n arwain at lefelau uwch o drosglwyddo’r feirws, gan danseilio ymdrechion cenedlaethol i barhau i leihau nifer yr achosion o'r feirws.

4.6 Gallai'r cyfyngiadau presennol ar Lefel Rhybudd 4 ei gwneud yn anoddach i'r rhai sy'n wynebu cael eu troi allan gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyngor a chymorth, oherwydd y gallai sefydliadau fod ar gau neu maent yn cael eu gweithredu ar sail capasiti llai. Mae hefyd yn bosibl y byddai sicrhau llety arall yn achosi mwy o anawsterau ymarferol os yw teuluoedd a ffrindiau yn amharod i gynnig llety dros dro; mae'r pandemig wedi taflu goleuni ar faint o bobl sy'n mynd o un soffa i'r llall yn nhai ffrindiau, a'r nifer sy'n ddigartref oherwydd bod y berthynas â'u teulu a'u ffrindiau wedi chwalu o ganlyniad i'r pandemig a'r pwysau sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau ar aelwydydd. Mewn sefyllfa lle mae pryder parhaus ynghylch trosglwyddo'r feirws yn eang yn y gymuned, ynghyd â'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol drwy gyfyngiadau a gynlluniwyd i leihau trosglwyddo'r feirws, mae mwy o debygolrwydd y bydd troi pobl allan o'u cartrefi yn arwain at ddigartrefedd. Mae hynny'n arbennig o wir o gofio'r pwysau sylweddol ar argaeledd llety dros dro a llety camu ymlaen ar gyfer awdurdodau lleol, gan fod y niferoedd sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn parhau i fod yn uchel

4.7 Er mwyn sicrhau bod y mesurau yn parhau'n gymesur â'r risg uwch i iechyd y cyhoedd, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen rhai eithriadau i'r gwaharddiad ar orfodi gorchmynion meddiant. Yr un eithriadau yw’r rhain ag a sefydlwyd ar gyfer Rheoliadau blaenorol 2021, sef, yn bennaf oll, achosion lle y bernir bod buddiannau atal niwed i drydydd partïon a gweithredu yn erbyn ymddygiad dybryd yn ddigon i fod yn drech na'r risgiau i iechyd y cyhoedd a berir gan droi allan, ond hefyd lle nad oes unrhyw risg amlwg i iechyd y cyhoedd. Yn benodol, mae'r rhain yn:

- achosion lle mae'r llys wedi'i fodloni bod y gorchymyn meddiant wedi cael ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol; niwsans; a/neu drais domestig mewn tenantiaethau cymdeithasol; neu
- achosion lle mae'r llys wedi'i fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu

- achosion lle mae’r person yn yr eiddo wedi'i fodloni nad yw’r tŷ annedd wedi’i feddiannu ar yr adeg y mae yno, ac y gwneir y gorchymyn adennill meddiant yn llwyr neu’n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

4.8 Wrth gymhwyso'r amgylchiadau penodedig hyn lle bydd modd gorfodi, mae Gweinidogion Cymru yn nodi y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn arwain at effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant cymdogion. Os nad oes modd troi allan ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a melltith gall landlordiaid fod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt ailgartrefu'r cymdogion hynny yr effeithir fwyaf ar eu llesiant neu efallai y bydd preswylwyr agos yn cymryd camau eu hunain i ddod o hyd i lety newydd a symud iddo. O dan amgylchiadau eithriadol, gall unigolion sy'n agored i niwed hyd yn oed ddewis mynd yn ddigartref yn hytrach na pharhau i ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd ailgartrefu cymdogion oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r camau a gymerir gan y cymdogion eu hunain i ddod o hyd i gartref newydd a symud iddo amlygu'r unigolion hynny o bosibl i sefyllfaoedd lle maent yn wynebu mwy o risg o ddal ac o drosglwyddo'r feirws. Yn achos y rhai sy'n dewis mynd yn ddigartref, mae'r risgiau hynny yn debygol o fod hyd yn oed yn waeth. Gall achosion sy'n ymwneud â thresmaswyr yn aml fod yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.

4.9 Yn yr achosion hyn, gall caniatáu i orchmynion meddiant gael eu gorfodi arwain at lai o risg y caiff y feirws ei ddal a'i ledaenu na chaniatáu i'r rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol aros yn eu cartrefi. Er bod hyn yn golygu y bydd rhai pobl yn cael eu troi allan, bydd atal achosion o orfodi troi allan ac eithrio yn yr achosion mwyaf dybryd yn lleihau'n sylweddol nifer y gweithrediadau gorfodi yn gyffredinol.

4.10 Yr amgylchiad penodedig arall lle bydd modd gorfodi yw pan fydd y tenant wedi marw ac nad oes unrhyw hawl etifeddu. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r person sy'n mynd i'r tŷ annedd gymryd camau rhesymol i fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi'i feddiannu cyn gweithredu gwrit neu warant meddiant neu adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw meddiannu eiddo gwag yn peri unrhyw risg i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 Ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statuol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â rhanddeiliaid o bob rhan o’r sector tai; mae cyrff sy’n cynrychioli landlordiaid wedi bod yn cyfrannu’n anffurfiol at y Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae natur brys y Rheoliadau hyn yn golygu fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintioli. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn rhoi disgrifiad ansoddol o'r effeithiau tebygol.

### Opsiynau

6.2 Ystyriwyd dau opsiwn:

*Opsiwn A – Gwneud dim*

*Opsiwn B – Deddfu i atal y rhan fwyaf o achosion o droi allan rhag digwydd rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021, yn amodol ar adolygiad rheolaidd.*

**Costau a Manteision**

*Opsiwn A – Gwneud dim – peidio â chymryd unrhyw gamau pellach ar ôl i'r Rheoliadau presennol ddod i ben ar 1 Ebrill 2021.*

6.3 Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, ni fydd yn sicrhau'r fantais i iechyd y cyhoedd nac yn rheoli'r feirws fel y byddem yn ei weld drwy atal achosion o droi allan yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad i'r olaf, bydd cost sylweddol o bosibl yn y tymor canolig i'r tymor hwy, o ran niwed posibl i iechyd y cyhoedd a'r effaith ar wasanaethau sy'n gorfod ymdrin â'r rhai sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan a mynd yn ddigartref.

*Opsiwn B – adnewyddu'r rheoliadau fel bod y rhan fwyaf o achosion o droi allan yn parhau i gael eu hatal rhag digwydd rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021, yn amodol ar adolygiad rheolaidd.*

6.4 O dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau yn parhau i atal achosion orfodi gorchmynion meddiant, oni bai bod y sail dros feddiant yn un o'r amgylchiadau penodedig lle y gellir gorfodi gorchymyn. O ganlyniad, byddai'r manteision i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag atal cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac unrhyw gynnydd cysylltiedig ym mynychder a throsglwyddiad y feirws yn cael eu gwireddu. Byddai arbediad hefyd i awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n rhoi cymorth i unigolion sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan, gyda'u llwythi achosion yn lleihau dros dro, a fyddai o bosibl yn eu galluogi i gyfeirio adnoddau at feysydd eraill.

6.5 Nid oes unrhyw gostau gweinyddol na throsiannol amlwg yn gysylltiedig ag atal achosion o droi allan dros y cyfnod dros dro hwn. Fodd bynnag, gallai ymestyn yr amddiffyniadau hyn am gyfnod pellach olygu bod rhai tenantiaid yn cronni lefelau uwch o ôl-ddyledion rhent na fyddai'n digwydd pe na bai'r rheoliadau'n cael eu gwneud, a gall hynny yn ei dro arwain at anawsterau ariannol i rai landlordiaid yn y sector rhentu preifat – yn enwedig landlordiaid ar raddfa fach a allai ddibynnu ar eu hincwm rhent i dalu am daliadau morgais neu fel eu hunig ffynhonnell incwm. Mae Cynllun Rhybudd Cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer ôl-ddyledion rhent a dyledion aelwydydd eraill yn y sector rhentu preifat wedi'i roi ar waith i helpu tenantiaid i gytuno ar gynlluniau ad-dalu fforddiadwy gyda'u landlord neu eu hasiant gosod eiddo i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent a lleihau'r risg y byddant yn colli eu cartref, tra bo'r Cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth yn galluogi tenantiaid yn y sector preifat i wneud cais am fenthyciad, a delir yn uniongyrchol i'r landlord neu'r asiant, ac sydd ar gael i denantiaid ar log APR o 1%, sy'n ad-daladwy dros hyd at bum mlynedd. Mae gwaith yn cael ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynlluniau ymhlith landlordiaid a thenantiaid. Fodd bynnag, efallai y byddai’n rhaid i unrhyw

anawsterau ariannol y gallai landlordiaid eu hysgwyddo gael eu cydbwyso â’r gost o ran iechyd y cyhoedd, ac effeithiau caniatáu troi allan ar y gwasanaeth iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, lle mae risg sylweddol bod hyn yn cyfrannu at fynychder a lledaeniad y feirws.

## Asesu'r Gystadleuaeth

6.6 Ni fu modd asesu'r gystadleuaeth yn llawn mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, o ystyried bod terfyn amser i'w cymhwyso, mae'n annhebygol y byddant yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

## Profion Effaith Penodol

*Cyfleoedd cyfartal*

6.7 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn personau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. I'r gwrthwyneb, gall y darpariaethau a geir yn y rheoliadau fod yn fuddiol iawn i unigolion sy'n agored i niwed a allai fel arall wynebu'r risg o gael eu troi allan a'u gorfodi i ddod o hyd i lety amgen yn ystod cyfnod pan fyddai ceisio dod o hyd i lety o'r fath yn heriol iawn. Mae'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn debygol o gael eu cynrychioli'n ymhlith y rhai sy'n byw yn y sector rhentu ac felly'n debygol o fod yn fwy agored i gael eu troi allan. Er bod data cadarn ar nodweddion gwarchodedig landlordiaid yng Nghymru yn gyfyngedig[2], nid ydym yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau negyddol i'r Rheoliadau a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

*Hawliau plant*

6.8 Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â CCUHP ac ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau negyddol ar blant na phobl ifanc godi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Ar gyfer teuluoedd sydd â phlant dibynnol, gallai parhau i atal achosion o droi allan dros dro helpu i leihau'r tarfu ar blant pan fydd cartref yn symud drwy roi mwy o amser i rieni ddod o hyd i lety amgen gerllaw, neu roi digon o amser i wneud trefniadau i symud ymhellach i ffwrdd pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol.

*Y Gymraeg*

6.9 Ni ddylai'r Rheoliadau hyn arwain at unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas â llesiant diwylliannol y Gymraeg.

*Llywodraeth Leol*

[2] Mae Rhentu Doeth Cymru yn casglu data ar nodweddion gwarchodedig landlordiaid cofrestredig ond mae'r nifer sylweddol o'r rheini sy'n "well ganddynt beidio â dweud" mewn nifer o gategorïau yn golygu nad yw'r data'n gwbl ddibynadwy. Am y rheswm hwnnw, nid ydym wedi gallu cynnal asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â landlordiaid.

6.10 Gall y Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol, gyfyngedig ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r lleihad yn y galw am wasanaethau digartrefedd mewn argyfwng o ganlyniad i lai o achosion o droi allan.

*Effeithiau economaidd*

6.11 Fel y nodir uchod, er y byddai landlordiaid yn gallu ailfeddiannu eiddo o hyd pe bai tenant yn methu â thalu'r rhent, neu fel arall yn torri telerau ei denantiaeth, ac y byddai benthycwyr yn gallu adfeddiannu eiddo o hyd pe bai'r landlord yn methu â thalu'r morgais, mae cost ychwanegol bosibl iddynt o ganlyniad i'r oedi a achosir drwy atal troi allan dros dro. Fodd bynnag, mae natur dros dro y rheoliadau, a'r mecanweithiau cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u sefydlu, yn golygu y dylai unrhyw effaith economaidd negyddol a achosir fod yn gyfyngedig i’r cyfnod y maent yn weithredol.

*Effaith ar Breifatrwydd*

6.12 Nid yw'r Rheoliadau yn creu unrhyw ofynion newydd o ran preifatrwydd na rhannu gwybodaeth.

*Prawfesur gwledig*

6.13 Bydd y Rheoliadau yn gymwys yn yr un modd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Fel y cyfryw, ni ddylai'r effeithiau – na'r manteision – fod yn wahanol rhwng y ddau.

*Iechyd a Llesiant*

6.14 Yn ogystal â'r manteision penodol i iechyd y cyhoedd a fyddai'n deillio o leihau nifer y bobl sy'n cael eu troi allan ac yn mynd yn ddigartref, dylai'r Rheoliadau hefyd gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n agored i gael eu troi allan drwy roi sicrwydd na fyddant yn wynebu'r risg o gael eu troi allan nes diwedd pob cyfnod adolygu.

*Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol*

6.15 Mae'r amddiffyniad dros dro rhag troi pobl allan drwy ymestyn y Rheoliadau hyn yn helpu i gyfrannu at gyflawni nodau llesiant, yn enwedig o ran Cymru fwy cyfartal a Chymru iachach. Mae'r pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori, o ran bod y cam gweithredu hwn yn un ataliol; o ran ystyried yr effaith hirdymor ar y rhai sy'n debygol o gael eu troi allan fel arall; o ran gweithredu ar y cyd â phartneriaid yn y trydydd sector, megis Shelter Cymru; o ran mabwysiadu dull integredig o ymdrin ag iechyd a thai a meysydd eraill; ac o ran cynnwys rhanddeiliaid drwy gyfarfodydd i randdeiliaid.

*Effaith ar y System Gyfiawnder*

6.16 Bydd y Rheoliadau yn effeithio ar y system gyfiawnder yn yr ystyr y byddant yn atal gweithredu gorchmynion llys. Bydd unrhyw effaith hirdymor yn dibynnu ar

ba mor hir y bydd y rheoliadau yn weithredol, ac ar nifer y Gorchmynion Adennill Meddiant a fydd yn cronni.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Mawrth 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Rwyf heddiw wedi gwneud Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol, ac rwy'n bwriadu ei osod ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 21 Mai 2021 er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol. O dan yr amgylchiadau hyn, deallaf fod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Gallai fod o gymorth ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y drafodaeth ar yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth yn y cyfarfod llawn ar 24 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **COVID-19: gosod Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021, a'r cynnig arfaethedig i ymestyn Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ymhellach (sy'n cynyddu'r cyfnod hysbysu mewn perthynas â thenantiaeth i chwe mis) tan fis Mehefin 2021** |
| **DYDDIAD** | **17 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** |

Heddiw, rwyf wedi gosod Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ('Rheoliadau Rhif 2'). Mae'r rheoliadau hyn yn ailadrodd mewn sylwedd Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Byddant yn ymestyn y cyfyngiadau presennol ar droi allan, sydd i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth, hyd at ddiwedd Mehefin 2021 – er y bydd y cyfyngiadau, fel sy'n digwydd mewn perthynas â chyfyngiadau eraill sy'n ymwneud â'r coronafeirws, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Fel sy'n digwydd yn achos y trefniadau presennol sy'n diogelu rhag troi allan, bydd Rheoliadau Rhif 2 yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau). Byddant yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig[1], fod yn bresennol mewn tŷ annedd er mwyn gweithredu gwrit neu warant meddiannu, gweithredu gwrit neu warant adfer, neu gyflwyno gorchymyn troi allan.

Fy mwriad hefyd yw i Reoliadau gael eu gwneud ar wahân er mwyn ymestyn cyfnod gweithredu'n unol â'r gofynion a nodir yn Atodlen 29 i Ddeddf Coronafeirws 2020 tan ddiwedd Mis Mehefin 2021. Mae hyn yn golygu y bydd landlordiaid yn parhau i fod o dan rwymedigaeth statudol i ddarparu cyfnod hysbysu o chwe mis i denantiaid cyn hawlio meddiant (ac eithrio mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig).

[1]Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi'i fodloni bod: yr hawliad yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu pan wneir y gorchymyn adennill meddiant yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol, niwsans, trais domestig; neu, mewn achosion lle mae'r person a fydd yn mynd yno wedi'i fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi'i feddiannu ar yr adeg pan fydd yno, ac y gwneir y gorchymyn adennill meddiant yn llwyr neu'n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

Gyda'i gilydd, bydd y ddwy set hyn o Reoliadau yn cefnogi ymateb parhaus Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws ar ran iechyd y cyhoedd drwy helpu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu troi allan, neu sydd mewn perygl o gael eu troi allan, a all arwain at fod yn ddigartref. Yn enwedig o ran bod yn ddigartref ar y stryd, lle gallant fod yn fwy agored i niwed oherwydd y feirws, ac mae mwy o debygolrwydd y byddant yn ei ledaenu. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun amrywiolynnau newydd o'r feirws sy'n cynyddu ei drosglwyddadwyedd neu ddifrifoldeb ei effaith, neu drydedd don bosibl neu gynnydd lleol mewn lefelau'r feirws yn ystod y cyfnod y mae'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai ymestyn yr amddiffyniadau dros dro hyn am gyfnod pellach achosi anawsterau i rai landlordiaid yn y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, ein prif flaenoriaeth yw diogelu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd. Drwy gydol y cyfnod y maent mewn grym, bydd Rheoliadau Rhif 2 yn ddarostyngedig i'r cylch adolygu rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau'n parhau i fod yn gymesur ac yn angenrheidiol.  Bydd yr adolygiadau hyn yn cyd-fynd ag amseriadau'r adolygiadau yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020.

Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Reoliadau Rhif 2 wedi'i threfnu ar gyfer 24 Mawrth 2021, ac mae'r rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael yma a yma.

# SL(5)796 – The Senedd Cymru (Representation of the People) (Amendment) Order 2021

## Background and Purpose

The Senedd Cymru (Representation of the People) (Amendment) Order 2021 ("the Order") amends the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 ("the 2007 Order"). The amendments made by the Order only apply for the purpose of the ordinary Senedd election due to take place in 2021.

The 2007 Order sets out the detailed rules for the conduct of elections to Senedd Cymru. The Welsh Elections (Coronavirus) Act 2021 ("the Act") made modifications to the 2007 Order to respond to the potential risks to the ordinary general election for membership of Senedd Cymru arising from the coronavirus pandemic. The provisions in the Act apply only for the 2021 ordinary Senedd election.

Time of closure for receipt of nominations for the 2021 Senedd election

For the purposes of the 2021 Senedd election, section 14(5)(a) of the Act extended the time for delivery of nomination papers, from 10:00am to 4:00pm on each day that nominations can be delivered, to 9:00am to 5:00pm. The last day for delivery of nominations is the nineteenth day before the day of the election. The last day for the withdrawal of nominations is also the nineteenth day before the election, but the time of the deadline to withdraw a nomination was not changed by the Act and therefore remains at 4:00pm. The Order reverts the time for closure of receipt of nominations to 4:00pm on the nineteenth day before the day of the poll to align the times for receipt and withdrawal of nominations.

Prescribed "Home Address Form" for the Senedd elections

The Senedd Cymru (Representation of the People) (Amendment) Order 2020 inserted the home address form into the 2007 Order. The form allows candidates to request that their home address not be made public on nomination papers. The form asks a candidate to insert the name of the Senedd Cymru constituency within which the candidate resides.

The Order makes amendments so that any candidates living outside Wales but within the UK can refer to the UK Parliament constituency in which they reside on the home address form. Separate provision is already made on the form for candidates who live outside the UK.

## Procedure

Made Affirmative.

The Order was made by the Welsh Ministers before it was laid before the Senedd.

The Senedd must approve the Order within 28 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date it was made for it to continue to have effect.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following two points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

The Order amends the home address form which allows candidates to request that their home address not be made public on nomination forms. Where this is used, the candidate must provide the name of the Senedd constituency within which they reside. The amendments made by the Order allow candidates who reside outside of Wales but within the UK to provide the name of the UK Parliamentary constituency within which they reside. This change applies to the 2021 Senedd election only, but the Explanatory Memorandum notes that it will need to be incorporated into a revised or new order for subsequent Senedd elections.

**2. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

With regard to consultation, the Explanatory Memorandum notes:

> *"The Electoral Commission have been consulted throughout the process of producing the Senedd Cymru (Representation of the People) (Amendment) Order 2021. This is in line with Section 7 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 which requires consultation with the Electoral Commission before an Order under Section 13 of the Government of Wales Act 2006 can be made.*
>
> *The Electoral Commission's response when consulted on the draft Order was that they are content with both the provisions relating to the time of closure of receipt of nominations and the home address form.*
>
> *The changes included in the 2021 Order have also been discussed with the electoral community, including with the five Regional Returning Officers ("RROs"). It was agreed with the RROs to include the provision to revert the time for closure of receipt of nominations to 4:00pm on the nineteenth day before the day of the poll to align the times for receipt and withdrawal of nominations."*

The Committee welcomes the fact that consultation has been carried out before this Order was made. However, it is noted that although the Explanatory Memorandum refers to discussions with Regional Returning Officers, it does not mention discussions with Constituency Returning Officers. The Welsh Government is therefore asked to confirm whether it had any discussions with Constituency Returning Officers – if so, what was the outcome of such discussions or, if not, why were no such discussions held?

## Welsh Government response

Regional Returning Officers ("RROs") are responsible for liaising with the returning officers for the Senedd constituencies in their region to ensure a consistent approach to the administration of the Senedd election throughout their region. The Welsh Government therefore consulted them on this basis. In addition, one of the RROs is the Chair of the Wales Electoral Coordination Board which has the role of ensuring consistent electoral administration and practice across Wales. The Welsh Government also consulted the Wales Branch of the Association of Electoral Administrators, which represents election professionals across Wales. The views expressed during these discussions were considered before the Order was made.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**18 March 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gorchymyn a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 12(3) o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Gorchymyn, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 335 (Cy. 90)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007").

Gwnaed Gorchymyn 2007 gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pwerau galluogi i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017. Gwnaeth Gweinidogion Cymru eu Gorchymyn cyntaf mewn perthynas â chynnal etholiadau Senedd Cymru yn 2020, sef Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 ("Gorchymyn 2020").

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 i newid yr amser ar gyfer danfon papurau enwebu i 4 p.m. ar y 19eg diwrnod cyn diwrnod yr etholiad.

Mae erthyglau 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraffau 4, 6 a 7 o Atodlen 5 i Orchymyn 2007 a Rhan 2 o ffurflen CZ (Ffurflen cyfeiriad cartref) yn Atodlen 10 iddo. Mae'r diwygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd, nad yw am i'w

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gyfeiriad cartref gael ei wneud yn gyhoeddus, ddarparu naill ai ei etholaeth Senedd Cymru, neu os yw'n preswylio y tu allan i Gymru, ei etholaeth Senedd y DU lle y mae ei gartref. Mae Ffurflen CZ wedi ei diwygio i adlewyrchu'r newid hwn hefyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gorchymyn a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 12(3) o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Gorchymyn, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 335 (Cy. 90)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 4.13 p.m. ar 17 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 5.55 p.m. ar 17 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1) a (2) a 157(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) fel y'i hestynnir gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**).

Yn unol ag adran 12(3) o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021(**3**), gosodwyd yr offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad o fewn 28 o ddiwrnodau iddo gael ei wneud.

(**1**) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
(**2**) 1993 p. 38.
(**3**) 2021 dsc. 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**1**), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn iddo gael ei wneud.

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir..

(3) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond i etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd sy'n digwydd yn 2021.

(4) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "etholiad 2021" ("*the 2021 election*") yw etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd y bwriedir i'r pôl ar ei gyfer gael ei gynnal yn 2021;

ystyr "Gorchymyn 2007" ("*the 2007 Order*") yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**2**).

**Diwygio Gorchymyn 2007**

**2.** Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio yn unol â Rhannau 2 a 3.

# RHAN 2

## Danfon papurau enwebu

**3.** Yn rheol 1(1) (amserlen ar gyfer cynnal trafodion mewn etholiad i'r Senedd) o Atodlen 5, yng ngholofn y tabl â'r pennawd "Time", yn y cofnod sy'n cyfateb i'r cofnod "Delivery of nomination papers.", ym mrawddeg gyntaf y golofn honno, ar ôl "notice of election but not later than" mewnosoder "4 in the afternoon on".

---

(**1**) 2000 p. 41; amnewidiwyd is-adran (2)(f) gan O.S. 2007/1388.

(**2**) O.S. 2007/236. Diwygiwyd y Gorchymyn hwn gan O.S. 2009/1182; O.S. 2010/1142 (Cy. 101); O.S. 2010/2931; O.S. 2011/1441; O.S. 2011/2085; O.S. 2012/1479; O.S. 2013/388; O.S. 2013/591; O.S. 2015/664; O.S. 2016/272; O.S. 2016/292; O.S. 2020/1558 (Cy. 329); adran 3 o Ddeddf Cymru 2014 (p. 29), adran 27 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac adran 12 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 (dsc 2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 3

### Ffurflen cyfeiriad cartref

**4.** Yn erthygl 2(1) (dehongli), yn y lle priodol, mewnosoder—

> ""UK Parliamentary constituency" means a constituency specified in an Order in Council made under section 4 of the Parliamentary Constituencies Act 1986(**1**)."

**5.**—(1) Mae Atodlen 5 (Rheolau Etholiadau'r Senedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheol 4(4B)(b)(i), ar ôl "state the" mewnosoder "Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary".

(3) Yn rheol 6(4B)(b)(i), ar ôl "state the" mewnosoder "Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary".

(4) Yn rheol 7(6B)(b)(i), ar ôl "state the" mewnosoder "Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary".

**6.** Yn Atodlen 10 (Atodiad ffurflenni), yn Rhan 2 o ffurflen CZ, ar ôl "etholaeth Senedd Cymru" mewnosoder "neu, os yw'r ymgeisydd yn preswylio y tu allan i Gymru, etholaeth Senedd y DU".

*Mark Drakeford*
Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru
Am 4.13 p.m. ar 17 Mawrth 2021

(**1**) 1986 p. 56.

**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021

**Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog Cymru**

17 Mawrth 2021

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236) ("y Gorchymyn Ymddygiad")[1], sy'n nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd yn cael ei adolygu, ac wedi'i ddiwygio'n gyffredinol, cyn pob etholiad cyffredinol i'r Senedd.

2. Yn dilyn Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 ("y Ddeddf") yn cael Cydsyniad Brenhinol, mae angen diwygiadau pellach i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 drwy Orchymyn diwygio cyn etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd ar 6 Mai 2021.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

3. Dim

**Cefndir deddfwriaethol**

4. Gwnaed y Gorchymyn Ymddygiad yn wreiddiol o dan Adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (rhagflaenydd Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)[2] ond o ganlyniad i baragraff 8 i Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru caiff ei drin fel pe bai wedi ei wneud o dan Adran 13 o'r Ddeddf honno.

5. Diwygiwyd adran 13 gan Ddeddf Cymru 2017 ac roedd gynt yn bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r pwerau hyn bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru. Felly, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud Gorchymyn ynghylch cynnal etholiad Senedd 2021 o dan Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

6. Fel arfer, gwneir unrhyw Orchymyn diwygio i'r Gorchymyn Ymddygiad o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn unol ag Adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

7. Mae Adran 12 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 yn newid gweithdrefn Senedd Cymru sy'n gymwys i reoliadau sy'n gwneud newidiadau dros dro i'r rheolau ar gyfer etholiadau'r Senedd sy'n digwydd cyn 6 Tachwedd 2021.

8. Effaith Adran 12 o'r Ddeddf yw y bydd rheoliadau a wneir o dan Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas ag etholiadau sy'n digwydd cyn 6 Tachwedd 2021 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a wnaed.

---

[1] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2007/236/contents/made

[2] Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/13/2018-04-01

9. O dan y weithdrefn gadarnhaol a wnaed, gall yr offeryn statudol ddod i rym o'r diwrnod y'i gwnaed gan y Gweinidog. Fodd bynnag, oni bai bod y Senedd yn cytuno ar gynnig i gymeradwyo'r offeryn statudol o fewn yr amserlen a bennir yn y rhiant-ddeddf, bydd yr offeryn yn peidio â bod yn effeithiol. Mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, rhaid i'r Gorchymyn gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod a wneir, heb gyfrif cyfnodau diddymu neu pan fydd y Senedd ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

10. Mae Adran 12(3) o'r Ddeddf yn nodi:

"(3) Rhaid i offeryn statudol y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru a rhaid iddo beidio â bod yn effeithiol pan ddaw 28 o ddiwrnodau i ben sy'n dechrau ar y diwrnod y'i gwnaed oni bai ei fod, cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, yn cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru."

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

11. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru. Mae'n nodi'r ffordd y bydd yr etholiad ac ymgyrch yr etholiad yn cael eu cynnal, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer her gyfreithiol i etholiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch casglu a chadw dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy a gofynion yn ymwneud â delio â phleidleisiau absennol a'r cais ar eu cyfer.

12. Mae'r Gorchymyn Ymddygiad yn cael ei adolygu ac fel arfer mae wedi'i ddiwygio cyn pob un o etholiadau cyffredinol y Senedd. Gan amlaf, gwneir diwygiadau i'r Gorchymyn Ymddygiad er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol mewn polisi neu ddeddfwriaeth, neu unrhyw ddiweddariadau technegol a/neu fân ddiweddariadau sydd wedi digwydd ers yr etholiad blaenorol.

13. Gwnaed Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 a amlinellodd ddiwygiadau i'r Gorchymyn Ymddygiad yn barod ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd 2021 ar 16 Rhagfyr 2020 a daeth i rym ar 17 Rhagfyr 2020.

14. Gwnaeth Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 hefyd addasiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 i ymateb i'r risgiau posibl i'r etholiad cyffredinol cyffredin ar gyfer aelodaeth o Senedd Cymru sy'n deillio o bandemig y coronafeirws.

15. Dim ond ar gyfer etholiad cyffredinol cyffredin 2021 y mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn gymwys, sydd i fod i ddigwydd ar hyn o bryd ar 6 Mai 2021 neu gellir ei ohirio o dan y Ddeddf i ddyddiad dim hwyrach na 5 Tachwedd 2021. Nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw etholiadau dilynol.

16. Yn dilyn Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 yn cael Cydsyniad Brenhinol, mae angen gwneud diwygiadau pellach i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 drwy Orchymyn diwygio cyn

etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd sydd wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar 6 Mai 2021.

17. Bydd y darpariaethau a gynhwysir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol a wnaed yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, ac yn gymwys i etholiad cyffredinol Senedd 2021.

Amser cau ar gyfer derbyn enwebiadau ar gyfer etholiad Senedd 2021

18. At ddibenion etholiad Senedd 2021, estynnodd Adran 14(5)(a) o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 yr amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu o rhwng 10:00am a 4:00pm bob dydd y gellir cyflwyno enwebiadau i 9:00am i 5:00pm i roi mwy o amser ar bob diwrnod pan ellir cyflwyno enwebiadau i ymateb i amgylchiadau'r pandemig.

19. Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw'r pedwaredd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad. Y diwrnod hwnnw, mae'n well i'r dyddiad cau ar gyfer cau enwebiadau a thynnu enwebiadau gydgyffwrdd.

20. Bydd Gorchymyn 2021 yn symud yr amser ar gyfer cau derbyn enwebiadau yn ôl i 4:00pm ar y pedwaredd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod y bleidlais i gysoni'r amseroedd ar gyfer derbyn enwebiadau a'u tynnu'n ôl.

“Ffurflen Cyfeiriad Cartref” ragnodedig ar gyfer etholiadau'r Senedd

21. Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 wedi mewnosod y ffurflen cyfeiriad cartref yn y Gorchymyn Ymddygiad. Mae'r ffurflen yn caniatáu i ymgeiswyr ofyn i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei wneud yn gyhoeddus yn y papurau enwebu. Mae'r ffurflen yn gofyn i ymgeisydd fewnosod enw etholaeth Senedd Cymru y mae'r ymgeisydd yn byw ynddi.

22. Bydd Gorchymyn 2021 yn diwygio'r ffurflen i gynnwys cyfeiriad at Senedd y DU a bydd hyn yn cynnwys unrhyw ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i Gymru. Bydd y darpariaethau yn y Gorchymyn Ymddygiad sy'n ymwneud â'r ffurflen hefyd yn cael eu diwygio i gyfeirio at Senedd Cymru ac etholaethau Senedd y DU.

23. Bydd y diwygiad hwn yn gymwys i etholiad Senedd 2021 yn unig a bydd angen ei ymgorffori mewn Gorchymyn diwygiedig neu newydd ar gyfer etholiadau dilynol.

24. Diben Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021 a'r effaith y bwriedir iddi ei chael yw cywiro'r safbwyntiau ar yr amser ar gyfer cau enwebiadau a'r ffurflen cyfeiriad cartref.

**Ymgynghori**

25. Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol drwy gydol y broses o lunio Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021. Mae hyn yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 sy'n ei

gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn y gellir gwneud Gorchymyn o dan Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

26. Ymateb y Comisiwn Etholiadol pan ymgynghorwyd ar y Gorchymyn drafft oedd eu bod yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cau derbyn enwebiadau a'r ffurflen cyfeiriad cartref.

27. Mae'r newidiadau a gynhwyswyd yng Ngorchymyn 2021 hefyd wedi'u trafod gyda'r gymuned etholiadol, gan gynnwys gyda'r pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Cytunwyd â'r Swyddogion hynny i gynnwys y ddarpariaeth i symud yr amser ar gyfer cau derbyn enwebiadau yn ôl i 4:00pm ar y pedwaredd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod y bleidlais i gysoni'r amseroedd ar gyfer derbyn a thynnu enwebiadau yn ôl.

**Asesiad effaith rheoleiddiol**

28. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cau derbyn enwebiadau a'r ffurflen cyfeiriad cartref gan fod y rhain yn dod o fewn yr esemptiad a geir yn y Cod lle mae angen diwygiadau technegol rheolaidd neu ddiwygiadau ffeithiol i ddiweddaru rheoliadau.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Mawrth 2021

Annwyl Elin

**Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021 o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a ddaw i rym ar 18 Mawrth 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 12 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 22 Mai er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 24 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 5.1

# SL(5)758 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021 (15 munud)

## Cefndir a diben

Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") o dan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). yrY Cyngor yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer:

- athrawon ysgol;
- gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- athrawon addysg bellach (darlithwyr);
- gweithwyr cymorth dysgu yn y sector addysg bellach;
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith;
- gweithwyr ieuenctid cymwysedig; a
- gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.

Fel rhan o'i rôl fel rheoleiddiwr, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofrestr o bawb sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor ym mhob un o'r categorïau a restrir uchod (a elwir yn "Pobl Gofrestredig").

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal unrhyw ymchwiliadau sy'n briodol yn ei farn ef os honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod yr unigolyn wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol. Ar ôl cynnal ymchwiliad o'r fath, rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y camau i'w cymryd, ac un canlyniad posibl yw y gwneir gorchymyn disgyblu yn dilyn gwradawiad.

Ar hyn o bryd, nid yw'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cyngor yn caniatáu iddo atal Person Cofrestredig rhag gweitho hyd nes y ceir canlyniad ymchwiliad a gwrandawiad disgyblu. Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at swyddogaethau'r Cyngor fel y gall y Cyngor, drwy Orchymyn Atal Dros Dro Interim, ddileu enw Person Cofrestredig oddi ar y gofrestr gyhoeddus cyn y ceir canlyniad ymchwiliad a gwrandawiad disgyblu.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim gan y person y mae'n ymwneud ag ef.

Mae paragraff (1)(a) yn caniatáu i gyn-berson cofrestredig wneud cais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim cyn pen 6 mis ar ôl:

(i) y dyddiad y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim; neu'r

(ii) dyddiad y cafodd y gorchymyn ei estyn gan yr Uchel Lys.

Mae paragraff (1)(b) yn caniatáu i'r cyn-berson cofrestredig wneud cais arall cyn pen 6 mis wedi hynny.

Pan fydd cais am adolygiad wedi'i wneud o dan baragraff (1)(a) neu (b) rhaid i'r Cyngor, o dan baragraffau (2)(a) a (b) yn y drefn honno, gynnull gwrandawiad i ystyried yr achos cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben.

Effaith hyn yw mai ychydig iawn o amser fydd gan y Cyngor i gynnull cyfarfod o bosibl. Mae'r enghraifft a ganlyn yn dangos hyn:

> *Gwneir gorchymyn atal dros dro interim yn erbyn person ("P") ddydd Iau 1 Ebrill. Bydd y cyfnod o 6 mis ers y dyddiad y gwnaed y gorchymyn yn dod i ben ddydd Iau 30 Medi.*
>
> *Ddydd Mercher 29 Medi, mae P yn cyflwyno cais (sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Erthygl 13) i'r Cyngor yn gofyn iddo adolygu'r gorchymyn.*
>
> *Gan fod cais P yn bodloni Erthygl 12(1)(a) (fe'i gwnaed cyn pen 6 mis), er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 12(2)(a)* ***rhaid*** *i'r Cyngor gynnull gwrandawiad i ystyried yr achos erbyn diwedd dydd Iau 30 Medi (pan ddaw'r cyfnod o 6 mis i ben).*

Drwy gymhwyso paragraffau (2)(a) a (b), gellid gorfodi'r Cyngor i gadw at amserlenni beichus mewn rhai amgylchiadau. Mae hyn yn anghyson â'r hyn a nodir ym mharagraff (2) (c) sy'n

caniatáu cyfnod o 10 diwrnod gwaith i'r Cyngor gynnull gwrandawiad yn dilyn cais a wnaed o dan baragraff (1)(c).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Government Response: The Education Workforce Council (Interim Suspension Orders) (Additional Functions) (Wales) Order 2021**

**Merit Scrutiny point:**

The effect of article 12 is that the EWC may have to convene a hearing to review an ISO at the request of a former registered person at 6 monthly intervals (or more often if evidence becomes available that is relevant to the case or there is a material change of circumstances since the interim suspension order was made).

It is possible that a former registered person could request that the ISO be reviewed at the end of the 6th month period (as in the example set out), but the EWC will be aware of the 6th monthly deadlines and will have had the opportunity to prepare for that eventuality.

As pointed out in the report, if new evidence did become available the former registered person is able to request a review at any time and the EWC would have 10 working days within which to convene a hearing.

This instrument has been drafted having regard to extensive consultation and input from stakeholders including the EWC who did not express any concern with regard to the timescale presented. Article 12 was drafted in order to prevent the EWC from having to convene a hearing more frequently than every 6 months unless there was evidence provided by the former registered person that there were material changes in circumstance. The suggestion formed part of the EWC's consultation response and was supported by other consultees.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau:**

Effaith erthygl 12 yw ei bod yn bosibl y bydd rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg gynnal gwrandawiad i adolygu gorchymyn atal dros dro interim ar gais cyn-berson cofrestredig fesul ysbaid o 6 mis (neu'n fwy aml os daw tystiolaeth ar gael sy'n berthnasol i'r achos neu os oes newid sylweddol mewn amgylchiadau ers i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud).

Mae'n bosibl y gallai cyn-berson cofrestredig ofyn bod y gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod o 6 mis (fel yn yr enghraifft a nodir), ond bydd y Cyngor yn ymwybodol o'r terfynau amser bob 6 mis ac wedi cael y cyfle i baratoi ar gyfer hynny yn y pen draw.

Fel y'i nodir yn yr adroddiad, pe deuai tystiolaeth newydd ar gael gallai'r cyn-berson cofrestredig ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg a byddai gan y Cyngor 10 niwrnod gwaith i gynnal gwrandawiad.

Mae'r offeryn hwn wedi ei ddrafftio gan roi sylw i ymgynghoriad a chyfraniad helaeth gan randdeiliaid gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg nad oeddent yn mynegi unrhyw bryder ynghylch yr amserlen a gyflwynwyd. Drafftiwyd erthygl 12 er mwyn atal y Cyngor rhag gorfod cynnal gwrandawiad yn fwy aml na phob 6 mis oni bai bod tystiolaeth wedi ei darparu gan y cyn-berson cofrestredig fod newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau. Roedd yr awgrym yn rhan o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ac yn cael ei gefnogi gan ymgyngoreion eraill.

# SL(5)767 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Gwneir Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 ("y Rheoliadau") o dan y pwerau galluogi sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

Mae Rhan 5 o Ddeddf 2021 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny yng Nghymru a bennir yn y Rheoliadau sy'n eu sefydlu. Caniateir iddynt arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) swyddogaethau penodedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o ran trafnidiaeth.

Mae adran 83(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n berthnasol mewn perthynas â (a) yr holl gyd-bwyllgorau corfforedig; (b) cyd-bwyllgor corfforedig penodol, ac (c) disgrifiad penodol o gyd-bwyllgor corfforedig.  At hynny, mae adran 84 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â Rhan 5 o Ddeddf 2021, sy'n diwygio, addasu, cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad. Yn olaf, mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Mae Rhan 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) ("Deddf 2000") yn gwneud darpariaeth ynghylch trafnidiaeth leol yng Nghymru. Yn benodol, mae'n gwneud darpariaeth ynghylch Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol sydd, yng Nghymru, wedi'u diffinio at ddibenion Rhan 2 fel cynghorau sir neu fwrdeistref sirol.

Mae adran 108 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Trafnidiaeth Lleol ddatblygu cynllun trafnidiaeth lleol sy'n hyrwyddo trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn ardal yr awdurdod.

Mae'r Rheoliadau'n addasu Deddf 2000 mewn achosion lle mae cyd-bwyllgor corfforedig wedi'i sefydlu gan Reoliadau, ac mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi'i rhoi i'r cyd-bwyllgor corfforedig. Mae'r addasiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyd bwyllgor corfforedig ddatblygu polisïau trafnidiaeth a sefydlu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal. Fodd bynnag, rôl pob Awdurdod Trafnidiaeth Lleol yn ardal y cydbwyllgor corfforedig yw rhoi'r polisïau ar waith.  Mae pedwar cyd-bwyllgor corfforedig wedi'u sefydlu o dan eu Rheoliadau priodol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae pennawd y Rheoliadau yn cyfeirio at "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU". Nodir mai prif ffocws y Rheoliadau yw trosglwyddo swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth leol i'r cyd-bwyllgorau corfforedig perthnasol sydd newydd eu ffurfio. O'r herwydd, nid yw'n eglur pam nad yw'r pennawd pwnc yn cynnwys 'TRAFNIDIAETH' hefyd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021**

**Pwynt craffu ar rinweddau 1: *Hepgor pennawd ychwanegol***

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater hwn. Cytunwn y byddai'n werth categoreiddio'r offeryn hwn o dan y pennawd "TRAFNIDIAETH" yn ogystal â'r pennawd "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU". Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, bydd y pennawd ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y fersiwn sydd i'w llofnodi gan y Gweinidog.

Eitem 6

# Is-ddeddfwriaeth sydd ag Adroddiadau Clir
# 22 Mawrth 2021

## SL(5)799 – Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

### Cefndir a Diben

Dyroddir y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ("y Cod") o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf, ynghyd â'r Cod a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, yn darparu'r system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc.

Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau statudol ar arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf (sy'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu ADY plant a phobl ifanc). Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar faterion eraill sy'n ymwneud ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY, ac mae'n disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y gofynion yn y Ddeddf.

Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a ganlyn (y mae'r Cod yn cyfeirio atynt fel "personau perthnasol") roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

- awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
- perchennog Academi;
- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaeth GIG;
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig.

Rhaid i Dribiwnlys Addysg Cymru roi sylw i unrhyw ddarpariaeth yn y Cod yr ymddengys iddo ei bod yn berthnasol i gwestiwn sy'n codi ar apêl o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir, a ariennir gan awdurdod lleol, y mae'n ofynnol i ddarparwyr o'r fath, yn unol â gofynion cyllid

yr awdurdod lleol, roi sylw iddynt.

Mae'r Cod yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf i wneud trefniadau ar gyfer–

- darparu cyngor a gwybodaeth,
- osgoi a datrys anghytundebau, a
- darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

Mae'r Cod yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r canlynol:

- penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY,
- llunio, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol ("CDUau"), yn ogystal â'u ffurf a'u cynnwys, a
- pheidio â chynnal CDUau.

Mae'r Cod hefyd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff y GIG ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau gan roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

# SL(5)788 - Gorchymyn Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 (Diwrnod Penodedig) 2021

## Cefndir a Diben

Pennodd y Gorchymyn hwn 9 Mawrth 2021 fel y diwrnod y byddai'r Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021 ("y Cod Ymarfer") yn dod i rym.

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod Ymarfer a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod Ymarfer, a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 20 Ionawr 2021.

Cyflwynodd y Pwyllgor hwn adroddiad ar y Cod Ymarfer ar 1 Chwefror 2021.

Ni phenderfynodd y Senedd beidio â chymeradwyo'r Cod Ymarfer. O ganlyniad, gwnaeth Gweinidogion Cymru y Gorchymyn hwn er mwyn i'r Cod Ymarfer ddod i rym ar 9 Mawrth 2021.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

**Rhiant-Ddeddf:** Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
**Fe'u gwnaed ar:** 8 Mawrth 2021

# SL(5)794 – Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys y cyfansymiau mwyaf y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer cynnal etholiad Senedd Cymru neu mewn cysylltiad â hynny.

Mae erthyglau 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn yn pennu'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad etholaethol a ymleddir neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath. Mae'r symiau wedi eu rhestru yn y tabl yn Atodlen 1.

Mae erthyglau 7, 8 a 9 yn pennu'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad rhanbarthol a ymleddir neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath. Mae'r symiau wedi eu rhestru yn y tabl yn Atodlen 2.

Mae erthygl 10 yn pennu'r cyfanswm mwyaf am etholiad etholaethol nas ymleddir, tra bo erthygl 11 yn pennu'r cyfanswm mwyaf am etholiad rhanbarthol nas ymleddir.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

**Rhiant-Ddeddf:** Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
**Fe'u gwnaed ar:** 12 Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio ac ati) 2021** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio ac ati) 2021**

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio neu'n dirymu'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Diwygio Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (UE) 2016/2031 ("y Rheoliad Iechyd Planhigion") ar fesurau i amddiffyn rhag plâu planhigion;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072 ("Rheoliad Amodau Ffytoiechydol") sy'n pennu amodau unffurf ar gyfer rhoi Rheoliad (UE) 2016/2031 ar waith;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1217 ar randdirymu Rheoliad Gweithredu (UE) 2019/2072 sy'n ymwneud â chyflwyno corblanhigion naturiol neu artiffisial i'r UE, ar gyfer plannu *Chamaecyparis Spach, Juniperus* L. a rhywogaethau penodol o *Pinus* L., sy'n tarddu o Japan;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1231 ar fformat a chyfarwyddiadau adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau arolygon ac ar fformat rhaglenni arolygu amlflynyddol a'r trefniadau ymarferol y darperir ar eu cyfer yn eu tro yn Erthyglau 22 a 23 o Reoliad (UE) 2016/2031;a
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/66 ar reolau ar drefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol ar blanhigion, cynnyrch planhigion a gwrthrychau eraill er mwyn dilysu eu bod yn cydymffurfio â Rheolau'r Undeb ar fesurau i amddiffyn rhag plâu planhigion sy'n gymwys i'r nwyddau hynny.

Diddymu Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1292 o ran mesurau i wahardd *Agrilus planipennis Fairmaire* o'r Wcrain rhag cael mynediad i'r Undeb; a
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1549 sy'n dirymu Penderfyniad 2004/200/EC ar fesurau i rwystro feirws mosaig *Pepino* rhag cael ei gyflwyno i'r Gymuned a'i ledaenu ynddi.

Diwygio Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Marchnata Hadau 2011;
- Rheoliadau Tatws Hadyd (Lloegr) 2015;
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; a
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2021.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2021 yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru heb lyffethair fel 'Awdurdod Cymwys'. Maent yn rhoi swyddogaethau hefyd i Gorff Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig ar gyfer Amddiffyn Planhigion. Gall y swyddogaethau hyn at ddiben paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fod yn swyddogaethau awdurdod a ddargedwir. Gallent felly o bosibl gyfyngu ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r diwygiadau a gyflwynir gan Reoliadau 2021 yn ddiwygiadau sy'n ymwneud â gweithrediad technegol ac nid ydynt yn newid polisi. Pwrpas Rheoliadau 2021 yw sicrhau bod y mesurau ar gyfer rheoli iechyd planhigion yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol.

Mae Rheoliadau 2021 yn cywiro diffygion na chawsant eu cywiro'n llawn gan Reoliadau ymadael â'r UE blaenorol sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Maent yn diwygio penderfyniadau'r UE hefyd, mewn perthynas â Phrydain Fawr, a gawsant eu cyflwyno ar ôl pennu ffurf derfynol drafft Rheoliadau ymadael â'r UE blaenorol sy'n ymwneud ag iechyd planhigion.

Mae Rheoliadau 2021 yn addasu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/66 er mwyn nodi pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau ffisegol a gwiriadau adnabod ar rai planhigion a reoleiddir, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill a fewnforir i Brydain Fawr o aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir a Liechtenstein, ar sail y risg y mae pob un yn ei achosi.

Mae Rheoliadau 2021 hefyd yn gwneud nifer fach o gywiriadau i is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Loegr ac is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Brydain Fawr.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-official-controls-plant-health-seeds-and-seed-potatoes-amendment-etc-dot-regulations-2021

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid ydynt yn newid polisi. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfnod Pontio Ewrop ym mis Mai.

**GWEINIDOGION Y DU SY’N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**218 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio ac ati) 2021**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 9 Mawrth 2021*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 24 Mawrth 2021 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae’r rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill (yn benodol diffygion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (c) o adran 8(2)) sy’n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn sicrhau bod mesurau ar gyfer rheoli iechyd planhigion yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol.

Mae Rheoliad (EU) 2016/2031 ("y Rheoliad Iechyd Planhigion") a Rheoliad (UE) 2017/625 ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol"), (ynghyd â "Rheoliadau'r UE"), yn eu tro yn sefydlu mesurau i amddiffyn rhag plâu planhigion, a darparu ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill i sicrhau bod rheolau ar iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu gweithredu'n briodol.

Cafodd Rheoliadau'r UE, a deddfwriaeth ychwanegol yr UE a wnaed o danynt, eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig ("cyfraith yr UE a ddargedwir") drwy'r defnydd o bwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf Ymadael"). Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â'r diffygion sy'n weddill yn y gyfraith UE honno a ddargedwir, ac yn gwneud nifer fach o gywiriadau i offeryn cynharach (O.S. 2019/809) ac i is-ddeddfwriaeth ar farchnata hadau llysiau a thatws hadyd, sydd wedi deillio o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a Phrotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon i'r Cytundeb Ymadael ("Protocol Gogledd Iwerddon").

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwall mewn offeryn cynharach sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol (O.S. 2021/136), mewn cysylltiad â mewnforio tatws nwyddau o Bortiwgal, Gwlad Pwyl, Romania a Sbaen. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau'n addasu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/66 ("Rheoliad Gweithredu 2019/66") i gyflwyno cyfraddau amlder gwiriadau iechyd planhigion ar blanhigion a chynhyrchion planhigion rheoledig a gwrthrychau eraill a fewnforir i Brydain Fawr o'r Undeb Ewropeaidd, y Swistir a Liechtenstein. Bydd hyn yn gymwys i blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yr ystyrir eu bod yn risg uwch i fioddiogelwch Prydain Fawr.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 10 Mawrth 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Yn benodol, nodwn fod y Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru yn ddilyffethair fel 'Awdurdod Cymwys'. Maent hefyd yn rhoi swyddogaethau i Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Gall y swyddogaethau hyn fod yn swyddogaethau awdurdod neilltuedig at ddibenion paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

**DYDDIAD** **12 Mawrth 2021**

**GAN** **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**OS a osodwyd gerbron Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

**<u>Y gyfraith sy'n cael ei diwygio</u>**

<u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>

- Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008
- Rheoliadau Nodau Masnach (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Rheoli Mewnforion) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019
- Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

<u>Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir</u>

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1416/2006 sy'n gosod rheolau penodol ar weithredu Erthygl 7(2) o'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd ac Unol Daleithiau America ar fasnachu gwin sy'n ymwneud â diogelu enwau tarddleoedd o'r Unol Daleithiau yn y Gymuned

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 936/2009 sy’n cymhwyso'r cytundebau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a’r trydydd gwledydd ar gydnabyddiaeth gilyddol o ddiodydd gwirodol penodol

- Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a deunydd bwyd

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn Rhif 716/2013 sy’n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 110/2008 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ddiffinio, disgrifio, cyflwyno, labelu a gwarchod dynodiadau daearyddol ar ddiodydd gwirodol

- Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol

- Rheoliad (EU) Rhif 251/2014 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ddiffinio, disgrifio, cyflwyno, labelu a gwarchod dynodiadau daearyddol ar gynhyrchion gwin wedi’u persawru

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn 668/2014 sy’n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a deunydd bwyd

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 sy’n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran ceisiadau i ddynodiadau tarddiad, dynodiadau daearyddol a thelerau traddodiadol yn y sector gwin gael eu gwarchod, o ran y weithdrefn wrthwynebu, cyfyngiadau ar eu defnyddio, newid manylebau cynnyrch, diddymu gwarchodaeth, a labelu a chyflwyno

- Rheoliad (EU) 2019/787 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ddiffinio, disgrifio, cyflwyno, a labelu diodydd gwirodol, defnyddio enwau diodydd gwirodol wrth gyflwyno a labeli deunydd bwyd eraill, gwarchod dynodiadau daearyddol ar gyfer diodydd gwirodol, defnyddio ethyl alcohol a distylladau o darddiad amaethyddol mewn diodydd alcoholig

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o’r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy’n rhoi swyddogaethau i’r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Bydd swyddogaethau a roddir i’r Ysgrifennydd Gwladol heb lyffethair yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddileu neu addasu swyddogaethau o'r fath heb ymgynghori â gweinidog perthnasol llywodraeth y DU.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau bwyd a diod yr UE a ddargedwir ac is-ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â chynlluniau dynodiadau daearyddol ("GI"), sy'n gysylltiedig â gwin a chynhyrchion organig. Mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed oherwydd roedd angen i'r darpariaethau a gynhwyswyd ynddynt ddod i rym cyn gynted ag y daeth y cyfnod pontio i ben, ond am resymau amseru, nid oedd modd eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth flaenorol.
Yn bennaf, mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i alluogi'r DU i ddarparu ar gyfer gwarchod dynodiadau daearyddol trydydd gwlad dros dro a thelerau gwin traddodiadol y cytunwyd arnynt mewn cytundebau parhad masnach rhwng y DU a'r trydydd gwledydd, ond nad ydynt wedi'u cadarnhau eto - y cyfeirir atynt fel "trefniadau pontio".

Roedd Rheoliadau 2020 hefyd yn cynnwys rhai mân ddiwygiadau eraill yr oedd angen iddynt ddod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys ar ardystiadau mewnforio gwin, enwau tarddleoedd gwin o'r Unol Daleithiau, mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid organig, gwarchod dynodiadau cynnyrch UDA a Mecsico yn barhaus, gweithrediad rheoliadau diodydd gwirodol a ddargedwir ac ychwanegu dosbarth newydd o ddynodiad daearyddol i gefnogi cytundeb masnach rhwng y DU a Japan.

Gosodwyd Rheoliadau 2020 i fynd i'r afael â diffygion yn Neddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n deillio o Ymadael â'r UE. Mae'n ofynnol i sicrhau bod modd gweithredu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn y DU (fel y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018).

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214109/contents

**Cydsyniad**

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod cynlluniau dynodiadau daearyddol sy'n gysylltiedig â gwin, diodydd gwirodol a bwyd a bwyd anifeiliaid organig wedi'u datganoli ac nad ydynt yn ymwneud â'r materion a gedwir yn ôl o dan unrhyw bennawd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno, ac mae'n credu bod pwnc Rheoliadau 2020 wedi'i gadw yn ôl. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y byddai Cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, wedi'i roi pe bai wedi'i geisio am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth o sylwedd a wneir gan Reoliadau 2020. Mae'r diwygiadau hyn i sicrhau bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sydd o dan sylw, a'r cyfundrefnau a ategir gan y ddeddfwriaeth honno, yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i’w hysbysu o’n barn nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau unochrog ar faterion sy’n cael effaith uniongyrchol ar feysydd cymhwysedd datganoledig.

| **GWEINIDOGION Y DU SY’N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **219 - Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 31 Rhagfyr 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Gwneud Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Gwneud Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 20 Ionawr 2021 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 12 Ionawr 2021 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraffau 5(3) a 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau bwyd a diod yr UE a ddargedwir ac is-ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â chynlluniau dynodiad daearyddol, gwin a chynhyrchion organig.

Yn bennaf, mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i alluogi'r DU i sicrhau y diogelir dros dro ddynodiadau daearyddol trydydd gwlad a thelerau gwin traddodiadol y cytunwyd arnynt mewn cytundebau parhad masnach rhwng y DU a thrydydd gwledydd, ond nad ydynt wedi'u cadarnhau eto - y cyfeirir atynt fel "trefniadau pontio".

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn cynnwys rhai mân ddiwygiadau eraill yr oedd angen iddynt ddod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys ar ardystiadau mewnforio gwin, enwau tarddiad gwin yr Unol Daleithiau, mewnforio bwyd a phorthiant organig, diogelu parhaus ddynodiadau cynnyrch UDA a Mecsico, ymarferoldeb rheoliadau diodydd gwirod a ddargedwir ac ychwanegu dosbarth newydd o ddynodiad daearyddol i gefnogi cytundeb masnach y DU-Japan.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r linc i'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn a geir yn y datganiad yn anghywir. Mae'r linc yn cyfeirio'n anghywir at Reoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020 – roedd y Rheoliadau hynny'n destun Datganiad SO30C a wnaed ar 23 Tachwedd 2020.

Ac eithrio'r gwall hwnnw, mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 12 Mawrth 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Bydd swyddogaethau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol heb ensyniad yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddileu neu addasu swyddogaethau o'r fath heb ymgynghori â gweinidog perthnasol llywodraeth y DU.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ynghylch a yw cynlluniau Dynodiad Daearyddol, gwin, diodydd gwirod a bwyd a phorthiant organig wedi'u datganoli. Dywed datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

> *"Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod cynlluniau dynodiadau daearyddol sy'n gysylltiedig âgwin, diodydd gwirodol a bwyd a bwyd anifeiliaid organig wedi'u datganoli ac nad ydynt ynymwneud â'r materion a gedwir yn ôl o dan unrhyw bennawd yn Atodlen 7A i DdeddfLlywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno, ac mae'ncredu bod pwnc Rheoliadau 2020 wedi'i gadw yn ôl. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedigofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru."*

Nodwn, p'un a yw’r materion hyn wedi'u datganoli ai peidio, po fwyaf eang yw’r maint tiriogaethol, y mwyaf y bydd cynhyrchion Cymru yn cael eu diogelu.

Mae datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y byddai cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, wedi’i roi pe bai wedi’i geisio am resymau effeithlonrwydd a hwylustod.

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i’w hysbysu o’i barn nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau unochrog ar faterion sy’n cael effaith uniongyrchol ar feysydd cymhwysedd datganoledig.

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Esemptiadau Rhag Mesurau Rheoli Swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau (Diwygio) 2021**

Mae'r rheoliadau a enwir uchod ("Rheoliadau 2021") yn arfer pwerau yn y Rheoliadau Rheoli Swyddogol (OCR) (EU) 2017/625 (yr "OCR") i estyn esemptiad rhag mesurau rheoli swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau ar gyfer rhai categorïau o anifeiliaid. Mae infertebratau y bwriedir eu defnyddio at ddibenion gwyddonol eisoes wedi'u esemptio rhag y gofyniad am fesurau rheoli swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau. Bydd Rheoliadau 2021 yn estyn yr esemptiad i fathau eraill o anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion gwyddonol, sy'n tarddu o'r UE.

Mae'r OCR sy'n ffurfio rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn ddarostyngedig i ddiwygiadau a wneir gan ddeddfwriaeth yn cynnwys Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, fel rheol yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal gwiriadau ar anifeiliaid byw sy'n dod i mewn i Brydain Fawr mewn Safle Rheoli Ffiniau. Mae Erthygl 48 o'r OCR yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnwys rhanddirymiadau o'r gofyniad i gynnal gwiriadau mewn Safle Rheoli Ffiniau mewn rheoliadau ar gyfer rhai categorïau o anifeiliaid neu nwyddau. Mae hyn yn cynnwys anifeiliaid a nwyddau y bwriedir eu defnyddio at ddibenion gwyddonol.

Mae Rheoliadau 2021 yn defnyddio'r pwerau o fewn Erthygl 48 i ddiwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn 2019/2122 i ehangu cwmpas yr esemptiad, fel ei fod hefyd yn berthnasol i anifeiliaid a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. Bydd diwygiadau cyfatebol i'r ddeddfwriaeth sy'n gorfodi'r OCR yng Nghymru, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("TARP") yn cael eu gwneud ar yr un pryd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y diwygiadau i 2019/2122 yn galluogi masnach pwysig mewn anifeiliaid sydd ei angen ar gyfer ymchwil gwyddonol, y mae'r risg bioddiogelwch sydd ynghlwm wrthynt yn isel iawn, fel y gallant ddod i mewn yn ddiogel i Brydain Fawr drwy'r prif lwybra (o'r UE neu drwy dramwy drwy'r UE) heb wiriadau mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau. Heb y Rheoliadau hyn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

byddai gofyn i'r anifeiliaid y bwriedir eu defnyddio at ddibenion ymchwil ddod i mewn i Brydain Fawr drwy BCP ar gyfer archwiliad, a hynny er gwaethaf y ffaith bod y risgiau bioddiogelwch yn isel. Caiff anifeiliaid y bwriedir eu defnyddo at ddibenion ymchwil gwyddonol ddod i mewn i Brydain Fawr ar drwydded, lle y bo'n ofynnol, a chaiff mesurau rheoli bioddiogelwch eu rheoli yn y cyrchfan. O'r herwydd nid oes angen cynnal gwiriadau ychwanegol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau.

Mae'r dull wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Polisi ar Glefydau Anifeiliaid, sef y corff sy'n gwneud penderfyniadau o fewn Fframwaith Cyffredin y DU ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Mae un diwygiad i 2019/2122 sy'n berthnasol i bob gweinyddiaeth yn sicrhau eglurder i'r bobl hynny sy'n dibynnu ar y darpariaethau.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi fy mod yn rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau 2021 fel bod y diwygiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122 mewn grym yng Nghymru. Rwy'n deall y bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 6 Ebrill. Bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fydd yn ofynnol i ni ystyried a chywiro swm digynsail o ddeddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan mewn nifer fawr o offerynnau statudol. Pe bai cydsyniad yn cael ei ddal yn ôl, bydd angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

15 Mawrth 2021

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Esemptiadau Rhag Mesurau Rheoli Swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau (Diwygio) 2021**

Mae'r rheoliadau a enwir uchod ("Rheoliadau 2021") yn arfer pwerau yn y Rheoliadau Rheoli Swyddogol (OCR) (EU) 2017/625 (yr "OCR") i estyn esemptiad rhag mesurau rheoli swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau ar gyfer rhai categorïau o anifeiliaid. Mae infertebratau y bwriedir eu defnyddio at ddibenion gwyddonol eisoes wedi'u esemptio rhag y gofyniad am fesurau rheoli swyddogol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau. Bydd Rheoliadau 2021 yn estyn yr esemptiad i fathau eraill o anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion gwyddonol, sy'n tarddu o'r UE.

Mae'r OCR sy'n ffurfio rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn ddarostyngedig i ddiwygiadau a wneir gan ddeddfwriaeth yn cynnwys Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, fel rheol yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal gwiriadau ar anifeiliaid byw sy'n dod i mewn i Brydain Fawr mewn Safle Rheoli Ffiniau. Mae Erthygl 48 o'r OCR yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnwys rhanddirymiadau o'r gofyniad i gynnal gwiriadau mewn Safle Rheoli Ffiniau mewn rheoliadau ar gyfer rhai categorïau o anifeiliaid neu nwyddau. Mae hyn yn cynnwys anifeiliaid a nwyddau y bwriedir eu defnyddio at ddibenion gwyddonol.

Mae Rheoliadau 2021 yn defnyddio'r pwerau o fewn Erthygl 48 i ddiwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn 2019/2122 i ehangu cwmpas yr esemptiad, fel ei fod hefyd yn berthnasol i anifeiliaid a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. Bydd diwygiadau cyfatebol i'r ddeddfwriaeth sy'n gorfodi'r OCR yng Nghymru, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("TARP") yn cael eu gwneud ar yr un pryd gan Lywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y diwygiadau i 2019/2122 yn galluogi masnach pwysig mewn anifeiliaid sydd ei angen ar gyfer ymchwil gwyddonol, y mae’r risg bioddiogelwch sydd ynghlwm wrthynt yn isel iawn, fel y gallant ddod i mewn yn ddiogel i Brydain Fawr drwy’r prif lwybra (o’r UE neu drwy dramwy drwy’r UE) heb wiriadau mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau. Heb y Rheoliadau hyn byddai gofyn i’r anifeiliaid y bwriedir eu defnyddio at ddibenion ymchwil ddod i mewn i Brydain Fawr drwy BCP ar gyfer archwiliad, a hynny er gwaethaf y ffaith bod y risgiau bioddiogelwch yn isel. Caiff anifeiliaid y bwriedir eu defnyddo at ddibenion ymchwil gwyddonol ddod i mewn i Brydain Fawr ar drwydded, lle y bo’n ofynnol, a chaiff mesurau rheoli bioddiogelwch eu rheoli yn y cyrchfan. O’r herwydd nid oes angen cynnal gwiriadau ychwanegol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau.

Mae’r dull wedi’i gymeradwyo gan y Grŵp Polisi ar Glefydau Anifeiliaid, sef y corff sy’n gwneud penderfyniadau o fewn Fframwaith Cyffredin y DU ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Mae un diwygiad i 2019/2122 sy’n berthnasol i bob gweinyddiaeth yn sicrhau eglurder i’r bobl hynny sy’n dibynnu ar y darpariaethau.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi fy mod yn rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau 2021 fel bod y diwygiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122 mewn grym yng Nghymru. Rwy'n deall y bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 6 Ebrill. Bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fydd yn ofynnol i ni ystyried a chywiro swm digynsail o ddeddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan mewn nifer fawr o offerynnau statudol. Pe bai cydsyniad yn cael ei ddal yn ôl, bydd angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

15 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i ystyriaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o Reolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021.

Rwyf wedi ymgynghori â swyddogion sydd wedi adolygu ein hymateb yng ngoleuni'ch sylwadau. Rwy'n cytuno mai'r ddarpariaeth arbed a nodir ym mharagraff 26 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu'r sail i hepgor y gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Trysorlys yn yr achos hwn.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

9 Mawrth 2021

Annwyl Julie

**Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021**

Trafododd y Pwyllgor **Reolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021** yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2021. Wrth wneud hynny, trafodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r un pwynt rhinweddau yn ein hadroddiad, sy'n awr wedi'i **osod** gerbron y Senedd.

Rydym yn cydnabod eich bod wedi esbonio pam nad oedd angen caniatâd y Trysorlys i wneud y Rheolau hyn. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe baech yn egluro un mater penodol ymhellach.

Mae ein hymateb i'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

> "Mae paragraff 9(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 1998 yn darparu y bydd Gorchymyn o dan adran 22 o Ddeddf 1998 sy'n trosglwyddo swyddogaeth i CCC yn rhydd rhag y gofyniad hwnnw oni bai bod y Gorchymyn yn darparu fel arall."

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn egluro a wnaethoch ystyried paragraff 26(2) o Atodlen 11, a pharagraff 7(2) o Atodlen 3, i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn hytrach na pharagraff 9(2) o Atodlen 3 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*, wrth benderfynu nad oedd angen caniatâd y Trysorlys.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

O gofio y bydd y Pumed Senedd yn dirwyn i ben yn fuan, byddwn yn  ddiolchgar pe baech yn ymateb erbyn 17 Mawrth 2021.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

Eitem 8.3

At: Holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd
Dros ebost

15 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd,

**Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd**

Ar ôl pasio Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, rwyf yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr effaith ar fusnes pwyllgorau cyn diddymu'r Senedd.

Mae'r Bil yn byrhau cyfnod y diddymiad fel ei fod yn dechrau wythnos cyn diwrnod yr etholiad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mai 2021. Bydd y diddymiad yn dechrau ar 29 Ebrill, a bydd yr Aelodau yn parhau i fod yn Aelodau o'r Senedd hyd nes y dyddiad hwnnw.

Y rhesymeg ar gyfer byrhau cyfnod y diddymiad (un wythnos yn hytrach na phedair), fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil, yw:

- Galluogi unrhyw bwerau newydd (y darperir ar eu cyfer yn y Bil) i ohirio'r etholiad (na ellir eu harfer yn ystod cyfnod y diddymiad) i gael eu harfer hyd at wythnos cyn yr etholiad; a
- Darparu dull o alluogi'r Senedd bresennol i ymateb, os bydd angen iddi wneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid rhoi chwarae teg i bob ymgeisydd cyn belled ag y bo modd, yn ystod cyfnod yr etholiad, er mwyn sicrhau etholiad teg a chyfle cyfartal i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi cael ei hadlewyrchu mewn penderfyniadau a wnaed gan Gomisiwn y Senedd wrth ystyried a fydd adnoddau'r Senedd ar gael i Aelodau a phwyllgorau'r Senedd yn ystod y cyfnod. Byddwch yn cofio y gwnaeth Fforwm y Cadeiryddion drafod a chymeradwyo'r dull hwn hefyd yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror.

Yn unol â'r egwyddor hon, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar y drefn a ganlyn:

- Bydd y Senedd ar doriad rhwng 7 Ebrill a 28 Ebrill, sef 'y cyfnod cyn y diddymiad'. Bydd y cyfnod cyn y diddymiad yn dilyn toriad y Pasg (29 Mawrth - 6 Ebrill). Mae hyn yn gyson â blynyddoedd etholiad blaenorol, pan fo toriad y Pasg wedi arwain yn uniongyrchol at y diddymiad;
- Er mwyn sicrhau 'chwarae teg' i'r holl ymgeiswyr i'r graddau mwyaf posibl yn ystod cyfnod yr etholiad, bydd busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n gysylltiedig â dibenion penodol y diddymiad byrrach fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil;

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

- Felly, bydd holl weithgareddau pwyllgorau’r Senedd yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad;
- Fodd bynnag, o ystyried ei rôl wrth graffu ar reoliadau brys, caiff y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gwrdd os bydd angen iddo drafod rheoliadau brys sy'n ymwneud â’r coronafeirws, o’r math y byddai angen adalw’r Senedd ar eu cyfer, neu reoliadau sy’n ymwneud â gohirio etholiad y Senedd 2021, yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad. Noder, ni fyddai angen i’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar reoliadau gwneud cadarnhaol yn ymwneud â’r coronafeirws fel mater o drefn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y bydd Cadeiryddion ac aelodau’r Pwyllgorau yn aros yn eu lle yn ffurfiol, disgwylir i holl weithgareddau pwyllgorau’r Senedd ddod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau;
- Gwneud datganiadau cyhoeddus, drwy unrhyw gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol;
- Cyfeirio at safle’r Aelod ar y Pwyllgor mewn unrhyw fforwm cyhoeddus.

Pe bai etholiad y Senedd yn cael ei ohirio yn unol ag adran 6 o’r Bil, byddaf yn cynnull y Pwyllgor Busnes i drafod amserlen fusnes y Senedd, gan gynnwys trefnu amserlenni busnes pwyllgorau.

Pan fydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau ynghylch busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 8.4

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/LG/0223/21

Rebecca Pow MP
Parliamentary Under Secretary of State
Department for Environment, Food & Rural Affairs

15 March 2021

Dear Rebecca,

My officials have been liaising with Defra officials on the preparation of the Reservoirs Act (Panels of Civil Engineers) (Applications and Fees) Regulations 2021. This is a piece of legislation which is a no procedure Statutory Instrument and therefore is not required to be laid before the respective legislatures. With this in mind, Welsh Government officials approached Defra officials to seek agreement for the Statutory Instrument to be made bilingually. Defra officials agreed to this approach, and Welsh Government officials have subsequently proceeded on that basis.

I understand the Wales Office has since intervened and prevented this approach by stating UK Ministers cannot consider bilingual instruments. My officials have been provided with very limited rationale for this position, which I do not agree with. I am therefore writing to express my disappointment at the position that has been taken and would ask that you re-consider. Defra has statutory duties to provide services bilingually and promote the Welsh language in its Welsh Language Scheme, as agreed with the Welsh Language Commissioner. Committing to creating a bilingual instrument would be in keeping with the spirit of those duties under the Scheme. In the event that this position remains unchanged, I would request a response setting out the reasons for the UK Government's position.

I am copying this letter to the First Minister, Counsel General and the Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language. I am also copying this letter to the Secretary of State for Wales and Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs to express my dissatisfaction with the position taken by the Wales Office.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In addition, a copy of this letter will be sent to the Senedd's Legislation, Justice and Constitution Committee.

Yours sincerely,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfraith hygyrch i Gymru** |
| **DYDDIAD** | **16 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** |

Mae’r cyfyngiadau cyfreithiol eithriadol ar fywyd pob dydd pobl Cymru oherwydd y coronafeirws wedi arwain ffocws ar y gyfraith sydd efallai’n ddigynsail. Fel Llywodraeth rydym yn fwy ymwybodol nag erioed o'r angen i ddrafftio cyfreithiau sy'n glir ac i sicrhau eu bod wedi’u cyhoeddi'n effeithiol. Rydym wedi gwneud dros 190 o eitemau o is-ddeddfwriaeth treiddiol sy’n ymwneud ag ystod eang o amgylchiadau. Yr un mor bwysig, rydym hefyd wedi ceisio helpu pobl i ddeall y gyfraith gydag amryw o ddogfennau esboniadol defnyddiol.

Rydym wedi sicrhau bod yr holl is-ddeddfwriaeth yr ydym wedi'i gwneud wedi'i chyhoeddi i ran benodol o wefan LLYW.CYMRU, a'i chysylltu at ganllawiau penodol sydd wedi'u hanelu at y grwpiau o randdeiliaid perthnasol. Mae'r canllawiau hynny wedi ceisio sicrhau bod unigolion, busnesau a sefydliadau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gofynion arnynt. Rydym wedi ymdrechu'n galed i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu diweddaru wrth i'r ddeddfwriaeth newid, ac rydym wedi sicrhau bod fersiynau cyfredol o'r prif Reoliadau sy’n gosod cyfyngiadau allweddol a'r Rheoliadau teithio rhyngwladol wedi bod ar gael yn y ddwy iaith. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi ceisio sicrhau bod negeseuon syml, ond cyfreithiol gywir, yn cael eu cyfleu yn ein cyfathrebu.

Mae helpu pobl i ddeall y gyfraith yn systematig fel hyn yn torri tir newydd. Ond yn anffodus mae'n eithriad yn hytrach na'r norm. Er bod yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i helpu i esbonio'r cyfyngiadau coronafeirws wedi bod yn sylweddol, mae wedi amlygu sut y gellir cyflawni cyfraith fwy hygyrch hyd yn oed yn yr amgylchiadau anoddaf, ac rwyf am sicrhau bod mwy o'r math hwn o waith yn cael ei wneud mewn cyfnod mwy “arferol”. Mae'r gwaith hwn yn gwneud gwahaniaeth gan ei fod yn helpu pobl i ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Yn y cyfamser, mae methu â gwneud hyn yn peryglu troseddoli unigolion yn ddiangen, yn tanseilio ein bwriadau polisi, a gall hyd yn oed danseilio rheolaeth y gyfraith ei hun.

Yr ydym ni fel Senedd yn deall hyn yn iawn, ac yr wyf yn ddiolchgar i Aelodau am eu cefnogaeth a'u diddordeb parhaus yng ngwaith y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Yn fwyaf nodedig, wrth gwrs, rydym wedi pasio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, a mater i'r Llywodraeth nesaf fydd cyflwyno'r rhaglen ffurfiol gyntaf, o dan y Ddeddf honno, o weithgarwch i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

Fel Cwnsler Cyffredinol rwyf wedi bod yn glir ynglŷn â'r math o brosiectau y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt, ac am yr amser a'r adnoddau y bydd hyn yn cymryd. Mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi ymrwymo i ddau Fil cydgrynhoi ac mae gwaith eisoes ar y gweill ar rhain: a cydgrynhoi deddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol a symleiddio a moderneiddio cyfraith cynllunio. A chredaf y dylai prosiectau cydgrynhoi pellach ganolbwyntio ar feysydd cyfreithiol lle yr effeithir fwyaf ar hawliau, rhwymedigaethau a rhyddid unigolion.

Nid cydgrynhoi yw'r unig ffordd y gallwn wella hygyrchedd, ac yn unol â'r bwriadau a nodir yn *Dyfodol Cyfraith Cymru* (ymgynghoriad a gynhaliwyd ddiwedd 2019) mae gennym ni hefyd dair phrosiect ar y gweill i:

- datblygu model i ddosbarthu deddfwriaeth yn ôl pwnc y cynnwys, a fydd yn darparu strwythur ar gyfer gwaith yn y dyfodol (a threfniadaeth Codau Cyfraith Cymru) a dull fydd yn galluogi i defnyddwyr y llyfr statud leoli a defnyddio deddfwriaeth;

- gwella ac ehangu'r deunydd esboniadol sydd ar gael ar wefan *Cyfraith Cymru*, ac yma mae'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith yn sicrhau bod deddfwriaeth y coronafeirws ar gael ac yn ddealladwy wedi bod o gymorth wrth i ni ystyried sut i fynd ati yn y dyfodol;

- gweithio gyda'r Archifau Gwladol i wella gwefan legislation.gov.uk ymhellach fel y gall defnyddwyr chwilio am cyfraith Cymru yn ôl pwnc y testun, a chael gafael ar fersiwn cyfredol o ddeddfwriaeth yn yr iaith Gymraeg.

Bydd Aelodau'n deall bod y dargyfeirio adnoddau i ymateb i'r pandemig wedi effeithio ar ein gallu i fwrw ymlaen gyda'r prosiectau hyn, ond mae ffocws o'r newydd arnynt bellach a fydd, yn fy marn i, yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn fuan.

Mewn cyfnod cythryblus, efallai ei bod yn rhy hawdd i ni fel deddfwyr i anwybyddu cyfrifoldebau sy'n llai amlwg, ond eto sydd yn sylfaenol; a hyderaf y bydd y Senedd nesaf, a'r Llywodraeth nesaf, yn parhau i werthfawrogi bod hwn yn waith pwysig sydd angen i ni barhau i'w gwblhau.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JJ/00529/21

Mick Antoniw AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn fy llythyr, dyddiedig 3 Mawrth 2021, ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, i roi adroddiad i chi ar Gyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol

Rwyf heddiw wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sydd i'w weld yn https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-2il-gyfarfod-gweinidogion-ar-y-sector-gwaith-cynhwysiant-digidol.

Rwyf am roi copi o'r llythyr hwn i gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, John Griffiths AS; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Lynne Neagle AS; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Bethan Sayed AS a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Russell George AS.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: DC-JJ-00371-21

Mick Antoniw AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

18 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf wedi fy llythyr dyddiedig 24 Chwefror, ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, i adrodd ar gyfarfod rhwng Gweinidogion y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar Dai a Chynllunio Gofodol yr oeddwn yn bresennol ynddo.

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ynglŷn â'r cyfarfod sydd i'w weld yn:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyfarfod-rhwng-gweinidogion-sectorau-gwaith-cynllunio-gofodol-cydweithredol

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, John Griffiths AS a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Mike Hedges AS.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/514/21

Mick Antoniw AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

**Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C – Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

Diolch am eich llythyr yn gofyn am gadarnhad ynghylch:

1) pam na chafodd Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) ei osod gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Offeryn Statudol (OS) hwn; a

2) pam nad yw'r dull o ymdrin â chynllun Protocol Kyoto yn dilyn dull gweithredu cynllun masnachu allyriadau (ETS) y DU gyfan (a sefydlwyd drwy Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, fel y'i diwygiwyd).

O ran cwestiwn (1), rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes angen SICM mewn perthynas â'r OS hwn am y rhesymau canlynol.

Ar hyn o bryd, diffiniad adran 41A(7) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 o "gofrestrfa cynllun masnachu allyriadau" yw unrhyw gofrestrfa a weithredir gan Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig y cyfeirir ati yn Erthyglau 4(3) a 5(1) o Reoliad Cofrestrfeydd 2013 (Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 389/2013). Bydd y diwygiad a wnaed gan Reoliad 11 o'r OS hwn yn newid y cyfeiriad at "gofrestrfa cynllun masnachu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

allyriadau" yn adran 41A(7) i "Gofrestrfa Protocol Kyoto", ac yn diffinio'r olaf fel y gofrestrfa a weinyddir ar ran y DU at ddibenion ei rhwymedigaethau fel parti i Brotocol Kyoto.

Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod yr Erthyglau penodol hyn o Reoliad Cofrestrfeydd 2013 yn cyfeirio at Gofrestrfa'r Undeb, sef cofrestrfa'r UE ar gyfer lwfansau o dan ETS yr UE a Phrotocol Kyoto. Pan oedd y DU yn rhan o ETS yr UE, roedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i dynodi yn weinyddwr cenedlaethol y DU a'r gweinyddwr cofrestrfa ar gyfer Protocol Kyoto, at ddibenion Cofrestrfa'r Undeb. Ar ôl Brexit, nid yw'r DU yn rhan o Gofrestrfa'r Undeb, ond mae ganddi ei chofrestrfa ETS a'i Chofrestrfa Protocol Kyoto ei hun ar gyfer DU. Mae'r ddwy ar wahân, ac er bod deddfwriaeth newydd ETS y DU yn dynodi pob un o'r pedwar rheoleiddwyr yn y DU yn weinyddwyr cofrestrfa ar y cyd ar gyfer ETS y DU, nid yw hynny'n wir yn achos cofrestrfa Protocol Kyoto y DU. Mae hyn yn gysylltiedig â'ch ail gwestiwn a dychwelaf at hwn yn fanylach isod.

Er mwyn bodloni'r meini prawf ar gyfer SICM, byddai angen dadlau bod diwygio adran 41A(7) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, naill ai i:

- Sefydlu cofrestrfa Protocol Kyoto ar gyfer Cymru, a weinyddir gan CNC; neu
- Ddynodi naill ai CNC, Asiantaeth yr Amgylchedd neu bob un o bedwar rheoleiddwyr amgylcheddol y DU yn weinyddwr cofrestrfa Protocol Kyoto y DU.

Er y gellid dadlau y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth i sefydlu cofrestrfa Protocol Kyoto yng Nghymru, na fyddai unrhyw bwrpas i gofrestrfa o'r fath. Ni fyddai'n gallu dal unedau lwfansau ar gyfer Cymru i'w masnachu (oherwydd bod Protocol Kyoto yn ymwneud ag unedau'r DU, sy'n cael eu cadw o dan enw llywodraeth y wlad sydd wedi ymrwymo i'r Protocol, h.y. Llywodraeth y DU). Ni allai Gweinidogion Cymru greu uned Kyoto ar gyfer Cymru at ddibenion cofrestrfa Protocol Kyoto ar gyfer Cymru, ac felly, ein barn ni yw na allem mewn gwirionedd sicrhau'r un effaith yng Nghymru ag a gyflawnir gan yr OS hwn.

Yn ogystal, mae dynodi CNC yn weinyddwr cofrestrfa Protocol Kyoto y DU yn debygol iawn o fynd yn groes i adran 108A(2)(a) a (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan y byddai'r ddarpariaeth yn ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr ac yn berthnasol i faterion y tu allan i Gymru. Yn yr un modd â chofrestrfa ETS y DU, byddai angen gwneud y trefniadau hyn ar y cyd.

Mae hyn yn dod â mi'n ôl at gwestiwn (2). Datblygodd Llywodraeth y DU y ddwy ffrwd waith yn annibynnol ar ei gilydd. Yn anffodus, nid oedd Llywodraeth y DU yn derbyn bod pwnc yr

OS wedi'i ddatganoli am tua 18 mis, er gwaethaf yr herio parhaus gennym ni (yn enwedig ar sail cymharydd ETS y DU). Ym mis Medi 2020, derbyniodd Llywodraeth y DU fod y mater wedi'i ddatganoli ond roedd yr oedi'n golygu nad oedd digon o amser ar gael i lunio'r cynllun ar sail y pedair gwlad (fel ETS y DU). Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn destun siom, ac felly rwyf am fod yn glir ein bod yn cadw'r hawl i ailedrych ar drefn y cynllun yn y dyfodol, yn enwedig pwy sy'n cyflawni'r rôl reoleiddio

Yn olaf, yr ydych wedi nodi bod teitl yr OS yn anghywir ar y datganiad ysgrifenedig. Rhoddodd Gweinidogion Cymru gydsyniad i'r hyn yr oeddem yn deall mai dyna oedd yr OS terfynol, fodd bynnag, diwygiodd Llywodraeth y DU deitl yr OS pan oeddent yn rhannu OS 'terfynol' diffiniol. Gall teitlau OSau gael eu diwygio gan Lywodraeth y DU cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Y tro hwn ni chafodd y newid hwyr i'r teitl ei nodi ar adeg cyhoeddi'r datganiad hysbysu.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd:

15 Mawrth 2021

Annwyl Rebecca

**Rheol Sefydlog 30C Datganiad Ysgrifenedig - Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon buom yn ystyried datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â **Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021** (y Rheoliadau).

Gwnaethom nodi bod y datganiad ysgrifenedig yn hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i wneud y Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r datganiad ysgrifenedig hefyd yn nodi bod y Rheoliadau'n diwygio *Deddf yr Amgylchedd 1995* i’r graddau y mae'n ymwneud ag “awdurdodau codi tâl”, ac rydym yn ymwybodol bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn awdurdod codi tâl.

I'r graddau y mae'r Rheoliadau'n diwygio *Deddf yr Amgylchedd 1995* mewn meysydd datganoledig, byddem yn croesawu eglurhad ar y materion a ganlyn:

- pam na osodwyd Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd, a
- pham nad yw'r dull o ymdrin â chynllun Protocol Kyoto yn dilyn dull cydweithredol ar draws y DU drwy’r **Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr**.

Ymddengys hefyd fod y datganiad ysgrifenedig yn dyfynnu enw'r Rheoliadau yn anghywir. Yr enw cywir ar y Rheoliadau yn Saesneg, fel y’u gosodwyd gerbron Senedd y DU, yw *The Greenhouse Gas Emissions (Kyoto Protocol Registry) Regulations 2021*.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

O ystyried y bydd ein cyfarfod olaf yn y Pumed Senedd yn cael ei gynnal ddydd Llun nesaf, 22 Mawrth, byddwn yn croesawu ymateb gennych erbyn hanner dydd ddydd Gwener nesaf, 19 Mawrth.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 14

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon